

Rhaglen Gyflawn

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 19eg Mai, 2026
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Cyfarfod Hybrid / Hybrid Meeting – Siambr Hywel Dda a Zoom
PWYNT CYSWLLT	Gwen Alaw Roberts cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Nia Wyn Jeffreys	Arweinydd y Cyngor
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Amgylchedd
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Paul John Rowlinson	Aelod Cabinet Tai ac Eiddo
Menna Trenholme	Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd
June Jones	Aelod Cabinet dros Briffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd
R Medwyn Hughes	Aelod Cabinet Economi a Chymuned
Dewi Jones	Aelod Cabinet Addysg
Huw Wyn Jones	Aelod Cabinet Cyllid
Llio Elenid Owen	Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 MAWRTH			3 - 15
6	YSGOL NEBO - ADRODDIAD YMGYNGHORI	Cyng Dewi Jones	Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg	16 - 284
7	YSGOL BALADEULYN - ADRODDIAD YMGYNGHORI	Cyng Dewi Jones	Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg	285 - 471
8	COMISIYNU YMCHWILIADAU	Cyng Nia Jeffreys	Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr	472 - 479
9	DYRANNU INCWM O'R PREMIWM AIL GARTREFI A THAI GWAG AR GYFER 2026/27	Cyng Huw Wyn Jones	Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid	480 - 488
10	CYFRIFON TERFYNOL 2025/26 - ALLDRO REFENIW	Cyng Huw Wyn Jones	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol	489 - 516
11	RHAGLEN GYFALAF 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2026)	Cyng Huw Wyn Jones	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol	517 - 530

Y CABINET DYDD MAWRTH, 10 MAWRTH 2026

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Menna Trenholme, R. Medwyn Hughes, Craig ab Iago, Huw Wyn Jones, June Jones, Dilwyn Morgan, Llio Elenid Owen, Dewi Jones a Paul Rowlinson.

Hefyd yn bresennol-

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Yr Athro Sally Holland (Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb), Cyng. Elwyn Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal), Cyng. Cai Larsen (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi), Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor), Bethan Richardson (Rheolwr Newid Hinsawdd), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Dylan Rhys Griffiths (Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru), Siwan Evans (Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd).

1. YMDDIHEURIADAU

Croeswyd pawb i'r cyfarfod gan adnabod y bu'n Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched yn gynharach yn yr wythnos, a diolchwyd i'r holl staff a chynghorwyr benywaidd am eu gwaith gwerthfawr.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2026 fel rhai cywir.

6. CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER: CYNLLUN YMATEB CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd a mabwysiadwyd y Cynllun Ymateb ar ei newydd wedd (Atodiad 1).

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad a chymerwyd y cyfle i gydnabod dewrder y dioddefwyr, a phwysleisiwyd eu bod ar flaen meddyliau pob un wrth drafod y pwnc anodd hwn.

Rhoddwyd cefndir yr adroddiad a datganwyd bod y Cynllun yn fyw ac wedi esblygu dros amser, yn enwedig ers cyhoeddi'r adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder.

Cyfeiriwyd at addewid y Cyngor i weithredu holl argymhellion yr adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, gan nodi y bu i'r Cynllun Ymateb gael ei ail-lunio er mwyn cyfarch yr holl argymhellion hyn. Esboniwyd y dilyna'r Cynllun 7 Ffrwd Gwaith, a hynny i gyd-fynd â phrif themâu'r adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder.

Cadarnhawyd bod y Cynllun Ymateb hwn, ar ei newydd wedd, wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Gofal, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Amlygwyd y caiff argymhellion y Pwyllgorau hyn eu cynnwys yn atodiad 3 y pecyn.

Yn ogystal, bu'r Cynllun Ymateb gerbron y Cyngor Llawn fis diwethaf er mwyn sicrhau bod pob cynghorydd o fewn y Cyngor wedi cael cyfle i roi eu mewnbwn, ac i gynnig unrhyw awgrymiadau pellach i gryfhau'r Cynllun. Gan ddiolch i'r holl aelodau a fu'n rhan o hynny, sicrhawyd bod holl sylwadau'r aelodau wedi eu hystyried cyn cyflwyno'r Cynllun i'r cyfarfod hwn o'r Cabinet.

Amlygwyd gan y Prif Weithredwr bod ymateb i'r hyn a digwyddodd yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r Cyngor, a chaiff phob ymdrech ei rhoi i sicrhau'r Cynllun Ymateb gorau posib. Cyfeiriwyd at yr Adroddiad Chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb, gan adnabod fod y Cyngor yn ffodus o gael y mewnbwn hwn gan y Cadeirydd, a'r holl asiantaethau a sefydliadau sy'n eistedd ar y Bwrdd hwn.

Cadarnhawyd mai'r camau nesaf fydd i barhau gyda'r cyflawni sy'n mynd rhagddo, a chydabuwyd y cynnydd calonogol sy'n parhau i gael ei wneud. Datganwyd bod naratif y Cynllun yn esbonio'r hyn a fydd yn cael ei wneud gan y Cyngor i gyflawni o dan yr holl feysydd a'u hadnabu.

Tynnwyd sylw at y fersiwn gryno o'r Cynllun Ymateb sydd yn y pecyn, gan nodi ei fod yn ymateb i sylwadau o fewn pwyllgorau am yr angen i grynhoi'r hyn sydd wedi ei wneud, a'r hyn sy'n parhau i gael ei wneud gan y Cyngor mewn ymateb. Cyfeiriwyd at ddwy ddogfen bellach sydd wrthi'n cael eu datblygu, a hynny er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gallu cael ei weld a'i ddeall gan bawb o fewn ein cymdeithas.

Datganwyd bod adnoddau wedi eu rhoi o fewn cyllideb y Cyngor i gyflawni'r gwelliannau sydd wedi eu hadnabod, gan dynnu sylw at y maes Llais y Plentyn yn benodol.

Croesawyd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal i'r cyfarfod i gyflwyno argymhellion y pwyllgor i'r Cabinet. Mynegwyd balchder bod y galw am gyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn wedi ei gyfarch. Aethpwyd drwy argymhellion y Pwyllgor, sydd wedi eu cynnwys yn atodiad 3 yn y pecyn, gan adnabod nifer o'r argymhellion hynny sy'n barod wedi eu cyfarch a'u hymgorffori yn y Cynllun. Croesawyd penodiad llawn amser Pennaeth newydd Ysgol Friars.

Croesawyd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i'r cyfarfod i gyflwyno argymhellion y pwyllgor i'r Cabinet. Cyfeiriwyd at y nifer sylweddol o argymhellion a rhoddwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod arbennig, gan nodi eu bod yn cwmpasu amrediad eang o faterion ar hyd y 7 Ffrwd Gwaith a materion ehangach. Nodwyd bod yr argymhellion a gyflwynwyd i'r Cabinet yn ceisio cryfhau ac ehangu rhai elfennau o'r Cynllun Ymateb, er mwyn sicrhau fod y gwersi'n cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y gwaith gweithredu. Cydnabuwyd bod yr adroddiad Cabinet gerbron yn adlewyrchu nifer o'r newidiadau hynny sy'n deillio o'r gwaith Craffu, gan gynnwys ailstrwythuro'r Cynllun o gwmpas systemau cliriach, a rhoi mwy o bwyslais ar fonitro cynnydd. Pwysleisiwyd mai'r prawf gwirioneddol dros amser fydd a yw'r newidiadau hyn yn arwain at newid pendant mewn systemau, mewn ymarfer, ac mewn diwylliant sefydliadol o fewn y Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Croesawyd y Cynllun ar ei newydd wedd gan danlinellu ei fod yn Gynllun byw. Mynegwyd balchder bod modd i'r cyhoedd weld y berthynas rhwng y Cynllun Ymateb a'r adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder o ganlyniad i'r Ffrydiau Gwaith sy'n cyd-fynd, a bod arweinydd i bob Ffrwd. Cyfeiriwyd yn ogystal at y rhan o wefan y Cyngor sy'n cynnig gwybodaeth am yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma, a'r hyn fydd yn cael ei gyflawni yn y tymor hir. Cydnabuwyd bod hyn yn cyfrannu at sicrhau fod y Cyngor yn dryloyw ac yn agored o ran eu hymateb. Ategwyd y balchder am y penodiad parhaol i swydd Pennaeth Ysgol Friars, a dymunwyd yn dda i'r Pennaeth newydd ac i'r Ysgol.
- Cyfeiriwyd at y cyfleoedd a gollwyd a'u hadnabuwyd gan yr adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, a holwyd am gadarnhad bod system gadarn bellach yn ei lle i sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael eu trin yn ffurfiol. Mewn ymateb, sicrhawyd bod nifer o wersi wedi eu dysgu yn sgil yr Adroddiad. Adnabuwyd bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar ddatblygu Polisi Pryderon Lefel Isel ar gyfer y maes Addysg a Chynghorau Sir, gan nodi bod cyd-weithio rhwng y Cyngor a swyddogion o fewn y Llywodraeth i drafod y sut y caiff y Polisi ei ddatblygu. Cadarnhawyd bod y Cyngor wrthi'n adnewyddu system yn fewnol ynglŷn â chadw cofnod o bryderon, ac ychwanegwyd bod dwy system ar fin eu cyflwyno i'r Cyngor i'w alluogi i gadw gwell cofnod o unrhyw honiad.
- Tynnwyd sylw at ddisgrifiad Ffrwd Gwaith 1, a gofynnwyd pa mor hyderus oedd y swyddogion fod y Cyngor yn bodloni'r disgrifiad hwn. Adnabuwyd mai Pennaeth yr Adran Addysg sy'n arwain ar y Ffrwd hwnnw, a sicrhawyd fod y Cyngor yn gwrando ar bob plentyn. Cadarnhawyd pe bai cyfeiriad Rhan 5 yn cael ei wneud, yna byddai'r plentyn hwnnw'n derbyn ymweliad gan weithiwr cymdeithasol. Amlygwyd yr edrycha'r thema hwn yn ehangach na ymateb i honiadau'n unig, gan ategu ei fod yn ystyried sut mae'r Cyngor fel corfforaeth yn

ystyried ac yn gwrando ar lais y plentyn. Cyfeiriwyd at y Fforymau Ieuenctid, a'r her o ran gallu mesur eu heffeithiolrwydd wrth geisio sicrhau fod llais y plentyn yn cael ei glywed. Nodwyd bod hyn yn waith sy'n mynd rhagddo er mwyn gallu deall barn y plant. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau y caiff grwpiau amrywiol o blant o wahanol gefndiroedd eu cynnwys yn y Fforymau a'r Grwpiau Ffocws hyn.

- Cydnabuwyd y nifer uchel o aelodau sydd wedi cael cyfle i roi eu mewnbwn ar y Cynllun hwn a phwysigrwydd hynny. Holwyd at bwy y mae'r hyfforddiant 'grooming' wedi'i dargedu, a chynhigiwyd y dylai'r hyfforddiant fod yn rhan o hyfforddiant diogelu holl weithlu'r Cyngor. Mewn ymateb, cadarnhawyd ei fod wedi'i ychwanegu at hyfforddiant cyffredinol i staff, gan dynnu sylw at y datblygiadau sy'n mynd rhagddo er mwyn darparu ar gyfer y bobl hynny sydd angen lefel uwch o hyfforddiant.
- Gan fod nifer o blant yn cael eu cludo i'r ysgol mewn tacsis, gofynnwyd a yw'r hyfforddiant yn ofynnol i'r gyrwyr tacsis ei gwblhau yn ogystal. Nodwyd bod trefniadau diogelu mewn lle wrth osod contractau ar gyfer cludiant addysg. Cadarnhawyd ei bod yn ofynnol i yrwyr y tacsis gwblhau hyfforddiant diogelu, a bod y Cyngor yn gwirio hynny. Ychwanegwyd mai nad y Cyngor sy'n darparu'r hyfforddiant hwn.
- Holwyd am y camau nesaf o ran adrodd ar gynnydd y Cynllun Ymateb, a'r trefniadau i alluogi aelodau i herio'r cynnydd hwnnw. Mewn ymateb, sicrhawyd bod nifer o drefniadau mewn lle, gan amlygu'r trefniant gyda'r pwyllgorau craffu i adrodd yn ôl o fewn 6 mis ar y cynnydd hwn. Amlygwyd rôl allweddol y Bwrdd Ymateb wrth herio cynnydd y rhaglen waith, gan ategu pwysigrwydd bod popeth yn gyhoeddus yn ogystal. Tynnwyd sylw at y Grŵp Sicrwydd Gweinidogol sydd wedi ei sefydlu i adrodd ar gynnydd y Cynllun Ymateb.
- Wrth gyfeirio at sicrhau fod hyfforddiant a materion cysylltiedig yn aros yn fyw o fewn y Cyngor, datgelwyd y caiff Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor ei adolygu a bod materion diogelu yn eitem barhaol ar agenda bob cyfarfod o dimau rheoli pob adran. Ychwanegwyd bod ystadegau ynglŷn â hyfforddiant diogelu nawr yn rhan o ddata herio perfformiad bob adran o fewn y Cyngor. Amlygwyd bod gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddarparu gwahanol ffurfiau o hyfforddiant yn y maes hwn i'w gosod ar draws y Cyngor, gan sicrhau hygyrchedd yr hyfforddiant i bob rhan o'r gweithlu. Pwysleisiwyd bod hyn yn waith parhaol ac amlygwyd pwysigrwydd gwreiddio'r newid diwylliannol hwn o fewn y Cyngor. Cyfeiriwyd at brosiectau hir dymor o fewn y Cynllun Ymateb megis bod yn Gyngor Trawma Wybodus ac yn sir Plentyn Gyfeillgar.

7. ADRODDIAD CHWARTEROL – CADEIRYDD Y BWRDD RHAGLEN CYNLLUN YMATEB (MAWRTH 2025)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad gerbron sef y trydydd adroddiad chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

TRAFODAETH

Eglurwyd mai'r dyma drydydd adroddiad chwarterol Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb, a'i bwrpas yw diweddarau'r Cabinet ar gynnydd rhaglen waith a gweithrediad y Bwrdd Ymateb.

Adnabuwyd bod yr adroddiad yn codi ymwybyddiaeth o'r datblygiadau, yr hyn sydd wedi ei gyflawni, a'r hyn sy'n parhau angen ei gyflawni gan y Bwrdd.

Croesawyd Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb i'r cyfarfod. Datgelwyd bod y Bwrdd bellach yn cyfarfod bob dau fis er mwyn rhoi mwy o amser i swyddogion weithio ar y Cynllun rhwng cyfarfodydd. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, amlygwyd bod y Bwrdd wedi cytuno i gyhoeddi ei bapurau er mwyn cynyddu tryloywder y gwaith. Adnabuwyd bod y Bwrdd wedi symud i gyfnod mwy strategol.

Amlygwyd bod y dioddefwyr a'r goroeswyr yn parhau i fod ar flaen meddylia'r Bwrdd, ac ychwanegwyd bod y Bwrdd hefyd yn parhau i gynnig cymorth a chraffu i Gyngor Gwynedd.

Tynnwyd sylw at yr ymgysylltiad rhagorol â'r Bwrdd gan ei aelodau a'i arsylwyr allanol, gyda phresenoldeb llawn ym mhob cyfarfod. Soniwyd am y cyfarfodydd a gaiff eu cynnal gan y Cadeirydd gyda phartneriaid allweddol, arsylwyr allanol, ac aelodau'r Cabinet i nodi'r wybodaeth sy'n deillio o'r Bwrdd.

Cadarnhawyd bod y Cadeirydd y Bwrdd yn parhau i dderbyn gwybodaeth a chefnogaeth dda gan swyddogion ac Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd.

Trafodwyd y datblygiadau allweddol a wnaed yn y chwarter diwethaf, gan dynnu sylw at y cynnydd cyson o fewn nifer o feysydd allweddol, er enghraifft datblygu a monitro diogelu mewn ysgolion, a chynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu polisiau.

Ymfalchiwyd bod pennaeth newydd Ysgol Friars wedi ei phenodi'n barhaol, gan nodi ei bod hefyd yn aelod o'r Bwrdd.

Amlygwyd balchder o weld mwy o uwch swyddogion y Cyngor yn dod yn rhan o arweinyddiaeth y Cynllun Ymateb, a mwy o adnoddau yn cael eu rhoi i faes diogelu o fewn y Cyngor.

Adroddwyd bod mesurau effaith newydd ar gyfer y Cynllun Ymateb diwygiedig bellach wedi eu cytuno, ac mae'r Bwrdd yn dechrau derbyn adroddiadau ar y rhain.

Wrth fanylu ar gamau nesaf y Bwrdd, datganwyd bod dau adolygiad ar y gweill ar lefel genedlaethol a fydd yn cael effaith ar y gwaith hwn. Datganwyd y bydd mwy o graffu ar y Cynllun Ymateb o fewn Gyngor Gwynedd, ac amlygwyd bod llawer mwy o waith i'w wneud i adfer ymddiriedaeth pobl Gwynedd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cyfeiriwyd at yr hanes o fwlio ehangach yn Ysgol Friars a holwyd a yw bwlio fel hyn yn cael ei adnabod fel mater o bryder. Nodwyd bod ymddygiad fel hyn yn gyffredin mewn nifer o droseddwyd, felly ei fod yn cael ei nodi o fewn hyfforddiant 'grooming'. Gobeithiwyd y bydd yr hyfforddiant newydd yn adnabod ac yn tynnu sylw at yr ymddygiadau nodweddiadol hyn. Esboniwyd y gellid codi pryder am yr ymddygiadau hyn drwy'r systemau o fewn y Cyngor, ac os nad yw'r pryder yn derbyn ymateb addas, gellid troi at y Polisi Canu'r Gloch. Ategwyd pwysigrwydd y Polisi Canu'r Gloch, a'r angen i staff ddeall sut i godi pryderon ar draws y continwwm.
- Tynnwyd sylw at ehangder yr hyfforddiant mae'r Cyngor yn ei ddarparu ac ar fin ei ddarparu i'w weithlu, gan restru a manylu ar nifer o'r hyfforddiant hwn.
- Wrth drafod y Polisi Canu'r Gloch ac wrth pwy y dylid canu'r gloch, soniwyd bod Polisiâu Canu'r Gloch yn nodi ei bod yn briodol mynd tu allan i'r gorfforaeth lle rydych yn gweithio ynddi i ganu'r gloch. Ychwanegwyd bod gwarchodaeth gyfreithiol i staff sydd yn gwneud hynny. Yn ogystal, amlygwyd bod sefydliadau allanol lle gellir cyfeirio pryderon er mwyn gweld os ydyw'n achos yn addas.
- Gofynnwyd a yw Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen yn fodlon bod y cynnydd a gaiff ei wneud mewn perthynas â'r tasgau a'u hadnabu yn y Cynllun, yn amserol. Nodwyd bod yr oedi wrth gyhoeddi adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder wedi ei gwneud yn anodd parhau gyda'r gwaith ar yr un cyflymder am gyfnod. Adnabuwyd bod yr addasiad i'r Cynllun i sicrhau fod mwy o uwch swyddogion yn arwain ar rannau gwahanol o'r Cynllun, yn galluogi i waith fynd rhagddo'n gyflymach. Cadarnhawyd bod camau pwysig ymlaen wedi eu cymryd mewn perthynas â'r gwaith ar Lais y Plentyn, gan nodi bod y strategaeth sydd wedi'i drafftio ac wedi derbyn mewnbyn gan y Bwrdd yn nodedig ac yn gynhwysfawr. Canmolwyd y ffaith fod y strategaeth ddrafft yn cynnwys rhoi cyfle i blant gyfrannu at benderfyniadau ar lefel unigol ac ar lefel strategol. Cynhigiwyd y bydd bod yn atebol i blant a phobl ifanc yn allweddol, gan fynegi balchder bod hyn yn gynwysedig yn y strategaeth. Cadarnhawyd y bydd cyfran helaeth o'r adborth am y gwaith hwn yn ansoddol, ond esboniwyd bod modd edrych ar ddata meintiol yn ogystal drwy amrywiol ffyrdd.
- Holwyd am ddyfodol y Bwrdd ar ôl cyfnod yr haf, a chwestiynwyd beth fydd yn digwydd o ran y gwaith craffu unwaith i'r Bwrdd ddod i ben. Datganwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal am ddyfodol y Bwrdd, ond nad oes penderfyniad ffurfiol wedi ei gyrraedd ar y pwynt hwn. Amlygwyd y bydd rhaid i'r Cyngor ddod i benderfyniad o ran y rôl y dymunir i'r Bwrdd fod yn ei gymryd, a'r hyder gan y Cyngor yn ei brosesau craffu.
- Pan fydd y Bwrdd yn dod i benderfyniad bod eu gwaith wedi cyrraedd lle diogel, nodwyd y bydd posib bod yn falch o'r hyn sydd wedi ei gyflawni.

Ychwanegwyd y bydd rhaid i'r Cyngor argyhoeddi'r Bwrdd a'i hun fod trefniadau mewnol effeithiol mewn lle i fod yn gwneud y gwaith hwn.

8. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-28 – ADOLYGIAD 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad fel cofnod o'r newidiadau technegol hyd yn hyn yn yr adolygiad o Gynllun y Cyngor gan ofyn am waith golygyddol pellach cyn cyflwyno'r adolygiad yn ei ffurf derfynol i'r Cyngor Llawn.

TRAFODAETH

Adnabuwyd mai Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yw datganiad cyhoeddus y Cyngor o'r hyn a fwriedir ei gyflawni er budd pobl y Sir. Datganwyd bod newid i'r penderfyniad a geisir o'r hyn a gaiff ei nodi yn yr adroddiad.

Amlygwyd bod dwy sesiwn weithdy wedi'u cynnal ar gyfer yr aelodau Cabinet, a sesiynau pellach wedi'u cynnal ar gyfer yr aelodau Etholedig a'r Tîm Rheoli Corfforaethol i dderbyn eu mewnbwn ar addasiadau i'r Cynllun.

Esboniwyd bod yr addasiadau arfaethedig i'r Cynllun i'w gweld yn Atodiad 1. Ymhelaethwyd ar rai o'r addasiadau hyn, gan ddatgan bod adran newydd o fewn y Cynllun i gydnabod gwaith y Cynllun Ymateb, ac y cynigir maes blaenoriaeth newydd, sef *Gwynedd Gyfartal*.

Symudwyd ymlaen i drafod y camau nesaf o ran mabwysiadu'r Cynllun, datblygu cerrig milltir ar gyfer dwy flynedd olaf y Cynllun, ac yna ceisio sefydlu beth yw'r gwir effaith ar bobl Gwynedd. Crybwyllwyd y bydd gofyn i adrannau roi mwy o bwyslais ar amlinellu'r effaith y caiff y prosiectau ar drigolion y Sir wrth adrodd ar berfformiad.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Tynnwyd sylw at y prosiect Merched mewn Arweinyddiaeth, gan ddatgan bod y nifer o ferched o fewn yr uwch dîm wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau'r prosiect. Gobeithiwyd y bydd posib ehangu hyn i gynnwys grwpiau eraill o gymdeithas a gaiff eu tangynrychioli mewn rolau arweinyddiaeth.
- Edrychwyd ymlaen at weld prosiectau yn datblygu o fewn y maes blaenoriaeth newydd.
- Diolchwyd i bawb a fu'n rhan o'r gweithdai, gan dynnu sylw at y ffaith fod nifer o'r addasiadau a enwir yn yr adroddiad yn ganlyniad o'r cyflawni sydd wedi mynd rhagddo mewn nifer o feysydd dros y flwyddyn.

- Eglurwyd bod y Cynllun cyfredol yn arwydd o gynllunio strategol cryf, a bod yr adroddiad yn gofnod o'r addasiadau technegol a wnaethpwyd. Nodwyd y bydd cyfle i ymhelaethu ar yr esboniadau cyn mynd gerbron y Cyngor Llawn maes o law. Mynegwyd balchder o weld materion newydd yn cael eu cynnwys o fewn y Cynllun yn ogystal.
- Datganwyd balchder bod nifer o bobl dros 55 oed wedi ymateb i'r holiadur ymgysylltu. Ar y llaw arall, pryderwyd mai nifer fach o bobl ifanc sydd wedi ymateb i'r holiadur, gan gynnig y dylid ystyried sut i gyfathrebu â phobl ifanc er mwyn gallu derbyn eu mewnbwn. Mewn ymateb, cyfeiriwyd at y Fforwm Ieuenctid fel modd o sicrhau fod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed a'u cynnwys mewn penderfyniadau ar draws y Cyngor. Soniwyd bod y data o'r ymgysylltu hwn wedi dyddio gan na chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adolygiad. Amlygwyd bod modd targedu grwpiau penodol o'r boblogaeth wrth ymgysylltu, a bod bwriad i barhau â hynny wrth fynd ymlaen.

9. BIDIAU UN TRO 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y bidiau un-tro o £2,870,280 ar gyfer 2026/27 sydd i'w cyllido o'r gronfa Trawsfurfio.

TRAFODAETH

Adroddwyd bod y bidiau a restrir yn yr adroddiad i'w cyllido o'r gronfa trawsfurfio.

Aethpwyd ymlaen i nodi mai arian dros dro yw hwn er mwyn ymateb i faterion dros dro, sydd ddim angen eu cyllido'n barhaol drwy'r gyllideb refeniw. Ymhelaethwyd ar rai o'r bidiau a gaiff eu nodi yn yr adroddiad.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Croesawyd yr adroddiad gan nodi bod y setliad gwell na'r disgwyl a gafwyd eleni wedi galluogi i faterion sydd ddim yn allweddol gael eu cynnwys yn y bidiau yn ogystal, am y tro cyntaf ers cyfnod hir.

10. TREFNIADAU DIRPRWYO CYFRIFOLDEBAU GWARIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago.

PENDERFYNIAD

Bod y Cabinet yn cymeradwyo newid yr hawl i ddirprwyo gwariant y gronfa cynllun hinsawdd oddi wrth y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur, i'r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb arweiniol ar y portffolio hinsawdd a natur, mewn ymgynghoriad aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd Hinsawdd a Natur).

TRAFODAETH

Nodwyd mai mater gweithredol yn unig yw'r hyn dan sylw. Datganwyd bod cwestiwn wedi ei godi am y mater hwn gan aelod o'r cyhoedd, gan holi sut yr oedd y penderfyniadau hyn yn cael eu dirprwyo. Datgelwyd bod hyn wedi bod yn rhan o'r ystyriaeth mewn perthynas â thrafod y ffordd orau ymlaen.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd i aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur am eu gwaith allweddol i weithredu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, a sicrhau y caiff penderfyniadau gwariant eu gwneud yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor.

11. CRONFA TWF LLEOL Y DG YNG NGHYMRU: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A GWEITHREDU 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. R Medwyn Hughes.

PENDERFYNIAD

Fod Cyngor Gwynedd yn parhau i fod yn awdurdod lleol arweiniol i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng ngogledd Cymru hyd at ddiwedd y rhaglen (30 Medi 2026) a chwblhau ei weinyddiaeth (01 Ionawr 2027).

Fod Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd yn parhau hyd at ddyddiad diwedd diwygiedig y Gronfa; gyda'r Aelod Cabinet Economi a Chymuned, Aelod Cabinet Cyllid a'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol ynghyd â'r Prif Weithredwr, Pennaeth Economi a Chymuned, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol (neu eu cynrychiolwyr) yn aelodau.

Fod Cyngor Gwynedd yn cytuno i fod yn awdurdod lleol arweiniol gogledd Cymru ar gyfer Cronfa Twf Lleol y DG yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn gyntaf y rhaglen (2026/27).

Fod Cyngor Gwynedd yn cytuno i barhau gyda threfniadau llywodraethu rhanbarthol y Gronfa Ffyniant Gyffredin i berwyl y Gronfa Twf Lleol ar gyfer y flwyddyn gyntaf (2026/27) gan gyflwyno cynllun yn amlinellu'r bwriad i Lywodraeth Cymru.

Awdurdodwyd y Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr yn ddarostyngedig i 1.6 isod i gytuno a chwblhau cytundebau gyda'r llywodraeth (au) er gweithredu y swyddogaeth arweiniol.

Awdurdodwyd y Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr i sefydlu cytundebau cyfreithiol rhyng-awdurdod ac amodau ariannu gyda siroedd eraill Gogledd Cymru i warchod buddiannau Cyngor Gwynedd.

Fod Cyngor Gwynedd yn cytuno i barhau'r trefniadau llywodraethu lleol i berwyl y Gronfa Twf Lleol yng Ngwynedd fel a'u hamlinellir yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Tynnwyd sylw at y ddau fater dan sylw, sef sicrhau trefniadau i ddod a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) i ben, ac i sefydlu trefniadau newydd ar gyfer blwyddyn gyntaf y Gronfa Twf Lleol sy'n cymryd ei le.

Adroddwyd bod Llywodraeth y DG wedi ymestyn cyfnod y Gronfa Ffyniant Gyffredin am 6 mis ac mae gofyn i Gyngor Gwynedd barhau i fod yn awdurdod lleol arweiniol i'r rhaglen dros yr estyniad hwn. Nodwyd y bydd ei olynydd, Y Gronfa Twf Lleol, yn weithredol o 1 Ebrill 2026.

Soniwyd bod Gwynedd wedi derbyn £8.19 miliwn drwy law'r Gronfa Ffyniant Gyffredin eleni. Datganwyd bod Llywodraeth y DG wedi cyhoeddi y byddent yn caniatáu gweithgaredd wedi ei ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin i barhau hyd at 30 Medi 2026 ond heb unrhyw arian ychwanegol.

Adnabuwyd y bydd llai o arian yn cael ei dderbyn o dan y Gronfa Twf Lleol. Aethpwyd ymlaen i dynnu sylw at y ffaith y bydd o 70% o'r arian o'r Gronfa Twf Lleol yn dod ar ffurf cyfalaf, a 30% ohono'n dod ar ffurf refeniw. Amlygwyd bod hyn yn dra gwahanol i'r drefn gyfredol a'i fod yn debygol o gael dylanwad mawr, o ystyried bod llai o arian yn ogystal.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Holwyd am eglurder o ran effaith derbyn canran uwch o arian ffurf cyfalaf, a chanran is ar ffurf refeniw. Esboniwyd mai symudiad i ffwrdd oddi wrth brosiectau sy'n darparu cefnogaeth i bobl a busnesau, gan gynnig mwy o arian ar gyfer adeiladu yw hwn. Amlygwyd y golyga hyn newid sylweddol

ym mhwyslais y gweithgareddau sydd wedi bod yn digwydd drwy law'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Adnabuwyd bod swyddi o fewn y Cyngor ac ar draws gogledd Cymru a gaiff eu cyllido drwy arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin, a nodwyd y bydd hi'n anodd parhau â'r holl swyddi hyn o ganlyniad i lai o arian refeniw.

- Cyfeiriwyd at y ffaith fod prosiectau presennol yn cael 6 mis ychwanegol i ddirwyn i ben gan gwestiynu beth fyddai'n digwydd pe na fyddai posib cwblhau'r prosiectau hyn, a sut y cânt eu cefnogi. Mewn ymateb, cydnabuwyd bod nifer o'r prosiectau yng Ngwynedd wedi eu cynllunio i ddod i ben erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ychwanegwyd y bydd yr amser ychwanegol yn ddefnyddiol i sawl prosiect gwblhau gwariant neu i gasglu tystiolaeth o'r allbynnau a'r hyn sydd wedi'i gyflawni. Rhagwelwyd mai oddeutu hanner y prosiectau o fewn y sir fydd yn manteisio ar yr amser ychwanegol hwn, ond bod dim pryder o ran methu a dirwyn prosiectau i ben. Datgelwyd bod yr amser ychwanegol hwn yn rhoi cyfle i flaengynllunio, blaenoriaethu ac ailstrwythuro rhai gweithgareddau i gyd-fynd â'r sefyllfa newydd.
- Eglurwyd bod prosiectau cyfalaf angen amser paratoi, sy'n gwneud gwario swm mewn un flwyddyn ariannol yn heriol. Mynegwyd rhwystredigaeth bod yr arian yn dod i Lywodraeth Cymru dros dair blynedd, ond y caiff y Cyngor eu cyfyngu i arian blwyddyn un yn unig ar y pwynt hwn. Datganwyd mai'r her a ragwelir fydd sut i flaenoriaethu prosiectau o wybod bod llai o arian, a sicrhau y bydd y prosiectau hynny yn gwneud gwahaniaeth o dan y meini prawf a osodwyd gan y Llywodraeth. Amlygwyd bod blaenoriaethau newydd o ganlyniad i'r rhaglen newydd, a fydd yn ei gwneud yn anodd sicrhau parhad o rai gweithgareddau o raglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin i'r rhaglen newydd.
- Sicrhawyd y caiff adroddiad pellach ei gyflwyno ar y prosiectau a'u cynigir. Ategwyd nad prosiectau gwbl newydd fydd y rhain o ganlyniad i'r amserlen dynn, ond bod awydd i barhau â thrafodaethau â Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio galluogi rhai prosiectau i gael eu cynnal dros flynyddoedd dau a thri.
- Esboniwyd bod Cyngor Gwynedd yn awdurdod lletya ar gyfer rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar hyn o bryd, ac y bydd yn parhau i wneud hynny dros estyniad y rhaglen. Ychwanegwyd y bydd y Cyngor yn arwain ar y Gronfa Twf Lleol am ei flwyddyn gyntaf drosiannol, ac mai'r bwriad wedi hynny fydd i'w drosglwyddo i Gydbwyllgor Corfforedig y Gogledd am ail a thrydedd flwyddyn y rhaglen. Crybwyllwyd y bydd yn fater i'r Cydbwyllgor Corfforedig benderfynu gwneud cronfa sirol neu gadw'r arian yn rhanbarthol.

12. MABWYSIADU STRATEGAETH DATBLYGU ECONOMAIDD NEWYDD I WYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. R Medwyn Hughes.

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd cynnwys 'Economi sy'n Gweithio i Bawb: Gwynedd 2035' fel sydd wedi ei gyflwyno yn Atodiad 1

Cytunwyd i argymhell mabwysiadau 'Economi sy'n Gweithio i Bawb: Gwynedd 2035' i gyfarfod llawn Cyngor Gwynedd.

Awdurdodwyd y Pennaeth Economi a Chymuned gwblhau unrhyw fan addasiadau sy'n angenrheidiol a chytuno ar ddyluniad y Strategaeth mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet.

Cytunwyd i sefydlu 'Fforwm Economi Gwynedd' ar y sail amlinellir yn adrannau 4.19 i 4.24 yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyfeiriwyd at Adran 4 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd sy'n nodi fod strategaeth datblygu economaidd yn rhan o'r Fframwaith Polisi, a'i bod yn ofynnol i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo drwy law argymhelliad gan y Cabinet. Pwysleisiwyd bod y Strategaeth wedi'i blaen graffu yn ogystal.

Crybwyllwyd bod ffurf y Strategaeth yn dilyn trefn resymegol i dywys y darllenwr o'r achos dros weithredu, i'r blaenoriaethau ac yna ymlaen i sut y bwriedir gweithredu a mesur llwyddiant.

Adroddwyd am weledigaeth y Strategaeth, a soniwyd am y themâu o fewn y Strategaeth, sef Mentergarwch, Pobl, a Lle.

Croesawyd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i'r cyfarfod er mwyn cyflwyno argymhellion y pwyllgor i'r Cabinet. Nodwyd ganddo fod y pwyllgor yn croesawu'r gwaith o geisio gosod cyfeiriad strategol tymor hir i Wynedd, mewn cyfnod economaidd heriol. Mynegwyd pryder gan y Pwyllgor ynglŷn â'r ansicrwydd cynyddol o ran grantiau, a goblygiadau posib hynny i ardaloedd gwledig a difreintiedig y Sir. Nodwyd bod aelodau o'r Pwyllgor yn awyddus i weld mwy o bwyslais ar ddatblygiad economaidd yng ngorllewin a de'r Sir, er mwyn sicrhau y caiff cyfleoedd a buddsoddiad eu dosbarthu'n deg yn ddaearyddol. Pwysleisiwyd gan y Pwyllgor bwysigrwydd sicrhau trefniadau monitro cynnydd clir yn erbyn y Strategaeth, gan gynnwys gallu dangos dros amser pa swyddi a gaiff eu gwneud neu eu diogelu, ac effaith y buddsoddiad ar gymunedau Gwynedd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Adnabuwyd bod nifer o fusnesau lleol yng Ngwynedd yn cyflogi llai na 10 o bobl, a holwyd am y gefnogaeth a gynigir i'r busnesau hynny. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod rhan helaeth o'r grantiau o becynnau cymorth diweddar wedi mynd i fusnesau bach. Cyfeiriwyd at yr ansicrwydd o ran dyfodol pecynnau cymorth, ond mynegwyd sicrwydd pe bai cyfle i ddod a phe cyn cymorth ymlaen o dan y Strategaeth hon, y bydd wedi'i deilwra i geisio cefnogi busnesau a mentrau bach sy'n cyflogi ar draws y Sir.
- Ymfalchiwyd yn y Strategaeth gan edrych ymlaen at ei weld yn datblygu.

- Nodwyd bod fframwaith gwerthuso a monitro wedi'i datblygu sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth. Amlygwyd bod hyn yn cynnig cyfres o ganlyniadau ac allbynnau sydd eisiau eu cyflawni drwy'r prosiectau, a fydd yn cynnig modd i fesur pa gynigion sydd wir yn gwneud gwahaniaeth. Yn ogystal, cyfeiriwyd at Fforwm Economi Gwynedd a fydd yn cynorthwyo gyda llywio a chyflawni'r Strategaeth.

13. BLAEN RAGLEN Y CABINET

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y Flaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

TRAFODAETH

Datganwyd bod y Flaen Raglen i'w gweld yn y pecyn er gwybodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:30pm

CADEIRYDD

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Dyddiad y cyfarfod: 19 Mai 2026
Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dewi Jones
Swyddog Cyswllt: Gwern ap Rhisiart – Pennaeth Addysg
Teitl yr Eitem: Ysgol Nebo – Adroddiad Ymgynghori
Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynnir i’r Cabinet ystyried cynnwys yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol (Adroddiad Ymgynghori) ar y cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen, a chymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig, yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Mae’r adroddiad ymgynghori ynghlwm (Atodiad A) yn cyflwyno canlyniadau’r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ar y cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen. Gofynnir i’r Cabinet ystyried cynnwys yr adroddiad ymgynghori, a chymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig a chynnal cyfnod gwrthwynebu ffurfiol 28 diwrnod o hyd, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion.

2.2 Mae’r angen am benderfyniad yn deillio o sefyllfa fregus yr ysgol, gyda niferoedd dysgwyr isel ers peth amser, canran uchel o lefydd gweigion, costau fesul dysgwr uchel, a dibyniaeth ar gyllid gwarchodaeth ychwanegol. Dengys rhagamcanion y bydd y niferoedd yn parhau’n isel dros y blynyddoedd nesaf.

3. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

3.1 Mae Ysgol Nebo yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, wedi’i lleoli ym mhentref Nebo. Mae’r ysgol yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 11 oed.

3.2 Ar y pwynt cyfrifiad CYBLD Ionawr 2026, roedd 11 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 ar gofrestr Ysgol Nebo, gyda chapasiti yr ysgol ar gyfer 51 o ddysgwyr. O ganlyniad, roedd 40 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sy’n cyfateb i 78% o gapasiti’r ysgol. Yn ogystal, mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin, ac roedd 1 dysgwr Meithrin ar y gofrestr, gan adael 6 o lefydd gweigion yn y meithrin.

3.3 Ers y cyfrifiad hwnnw, mae’r niferoedd wedi gostwng ymhellach, ac erbyn hyn, dim ond 10 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin sydd ar gofrestr yr ysgol. Noder fod yr adroddiad hwn yn defnyddio data’r cyfrifiad Ionawr 2026 fel sail ar gyfer y dadansoddiad a’r cymariaethau, er mwyn sicrhau cysondeb drwy’r ddogfen.

3.4 O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac yn wynebu heriau cynyddol niferus, gan gynnwys:

- **Niferoedd isel o ddysgwyr** – Dengys data Ionawr 2026, fod 11 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr meithrin yn mynychu Ysgol Nebo.
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Gydag 11 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 51, mae 40 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 78% o gapasiti'r ysgol. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 1 dysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 6 o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal.
- **Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang** – Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.
- **Rhagamcanion niferoedd** – Mae rhagamcanion Medi 2025 yn awgrymu y bydd niferoedd dysgwyr yn parhau'n isel dros y dair mlynedd nesaf, gyda rhagamcan o 10 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 dysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028.
- **Dysgwyr y dalgylch** – Dengys data Ionawr 2026 fod 9 o blant yn byw yn nalgylch Ysgol Nebo. O'r rhain, mae 22% (2 blentyn) yn dewis mynychu Ysgol Nebo, tra bod 78% (7 o blant) yn dewis mynychu ysgolion y tu allan i'r dalgylch.
- **Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd** – Mae Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27 (seiliedig ar niferoedd Medi 2025) fydd £64,046.
- **Cyfartaledd cost fesul dysgwr** – Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Nebo yn y flwyddyn ariannol 2026-27 fydd £16,066 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,998.

3.5 Yn ystod 2025, sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Nebo (PAY) gyda chynrychiolaeth o'r corff llywodraethol, rhieni, staff ac Aelod Lleol. Cynhaliwyd cyfres o dri chyfarfod PAY i drafod yr heriau sy'n wynebu'r ysgol ac adnabod opsiynau ar gyfer dyfodol yr ysgol. Trafodwyd ystod eang o opsiynau, a gwerthuswyd ac aseswyd yr opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" a ffactorau perthnasol o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

3.6 Ar 14 Hydref 2025, cyflwynwyd papur cynnig i'r Cabinet, gan argymhell cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo. Cymeradwyodd y Cabinet y cynnig hwn, gan nodi'r angen i ymateb i'r sefyllfa fregus o ran niferoedd isel, costau uchel, a chynnaladwyedd hirdymor yr ysgol.

4. YR YMGYNGHORIAD STATUDOL

4.1 Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 14 Hydref 2025, cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

4.2 Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori statudol, pecyn asesiadau effaith (gan gynnwys asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg, y gymuned, cydraddoldeb, gwahanol drefniadau teithio, ansawdd a safonau addysg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol), pecyn cefndirol, ffurflenni ymateb a dogfen ymgynghori a holiaduron ar gyfer plant a phobl ifanc ar wefan y Cyngor. Dosbarthwyd y ddogfennaeth i'r holl ymgynghorai perthnasol drwy e-bost oedd yn cynnwys dolen at dudalen benodol at wefan y Cyngor [Ymgynghoriad Statudol: Ysgol Nebo](#), a darparwyd copïau caled ar gais.

- 4.3 Gwahoddwyd ymgynghorai i gyflwyno sylwadau drwy lenwi ffurflen ymateb ar-lein, copi papur neu electroneg (PDF), neu drwy e-bost/llythyr.
- 4.4 Cynhaliwyd sesiwn galw heibio yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gyfer staff, rhieni a llywodraethwyr Ysgol Nebo. Pwrpas y sesiwn oedd i rannu gwybodaeth am y cynnig a'r broses ymgynghori, a rhoi cyfle i'r rhanddeiliaid ofyn cwestiynau am y cynnig neu'r broses. Mynychodd 12 o bobl y sesiwn galw heibio.
- 4.5 Trefnwyd sesiynau ymgynghori ar wahân ar gyfer cynrychiolaeth o ddysgwyr Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, gyda hwylusydd annibynnol yn cynnal y sesiynau. Pwrpas y sesiynau hyn oedd i gasglu barn y dysgwyr am y cynnig. Roedd fersiwn addas i blant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i gyfrannu, hyd yn oed os nad oeddent wedi mynychu'r sesiwn yn eu hysgol. Mae adroddiad ar y materion a gododd yn ystod yr ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc wedi'i gynnwys yn adran 3 o'r adroddiad ymgynghori (Atodiad A).
- 4.6 **Ymatebion i'r Ymgynghoriad**
- 4.7 Derbyniwyd cyfanswm o 70 ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad statudol, gan gynnwys ymateb gan Estyn. Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys yr adborth a gasglwyd gan ddysgwyr yn ystod y sesiynau ymgynghori.
- 4.8 Mae ymateb llawn Estyn wedi ei gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori (Atodiad A).
- 4.9 **Crynodeb o Ganfyddiadau'r Ymgynghoriad**
- 4.10 Mae'r adroddiad ymgynghori (Atodiad A) yn darparu crynodeb llawn o'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai ac ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Rhestrir isod y prif faterion a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, ac mae ystyriaeth fanylach ar bob un o'r materion hyn i'w gweld yn yr Adroddiad Ymgynghori.

1. Gwrthwynebid i'r cynnig i gau Ysgol Nebo

- 1.1 Gwrthwynebiad cyffredinol i'r cynnig i gau'r ysgol

2. Sylwadau am Ysgol Nebo

- 2.1 Manteision ysgol fach, ansawdd addysg a derbyniad cynhwysol
- 2.2 Ansawdd y ddarpariaeth addysgol a thystiolaeth o safon uchel
- 2.3 Perthnasoedd cadarnhaol, ethos yr ysgol a'u heffaith ar lwyddiant a llesiant disgyblion
- 2.4 Profiadau dysgwyr a chyn-ddisgyblion
- 2.5 Cysylltiad â'r gymuned a dysgu y tu allan
- 2.6 Dosbarthiadau bach a chefnogaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- 2.7 Effaith ar y Gymraeg a'r ethos Gymraeg
- 2.8 Datblygiad cymdeithasol ac empathi
- 2.9 Profiad uniongyrchol o wella llesiant
- 2.10 Canran uchel o ddysgwyr all-dalgylch yn mynychu Ysgol Nebo
- 2.11 Sylwadau'n tynnu sylw at gynnydd diweddar yn niferoedd Ysgol Nebo
- 2.12 Sylwadau'n cwestiynu dibynadwyedd y rhagolygon niferoedd
- 2.13 Effaith ansicrwydd am ddyfodol yr ysgol ar ddewis rhieni a niferoedd dysgwyr
- 2.14 Sylwadau am baratoi bwyd ysgol ar y safle a lleihau dibyniaeth ar gludo bwyd o ysgolion eraill

3. Gwerth addysgol ysgol fach wledig

- 3.1 Addysg bersonol, dosbarthiadau bach a sylw unigol
- 3.2 Oedran cymysg, datblygiad cymdeithasol a llesiant
- 3.3 Ysgolion bach gwledig: ymdeimlad o berthyn, cymuned, llesiant disgyblion a rôl ehangach yr ysgol o fewn yr ardal leol

4. Sylwadau o blaid y cynnig i gau Ysgol Nebo

- 4.1 Gwerth am arian, cost fesul dysgwr a thegwch ariannol
- 4.2 Manteision canfyddedig ysgolion mwy a dosbarthiadau un oedran
- 4.3 Rhesymoli'r ddarpariaeth ysgolion a newidiadau demograffig

5. Effaith y cynnig ar lesiant, gofal unigol a phrofiad addysgol dysgwyr presennol Ysgol Nebo

- 5.1 Pryderon ymatebwyr ynghylch effaith newid ysgol ac ail-leoli dysgwyr ar lesiant emosiynol, addasu cymdeithasol a grwpiau bregus
- 5.2 Pryderon ymatebwyr ynghylch effaith anghymesur cau'r ysgol ar ddysgwyr bregus, cefnogaeth unigol a darpariaeth ADY
- 5.3 Effaith bosibl ar berthnasoedd cymdeithasol a llesiant dysgwyr
- 5.4 Ystyriaeth o lais y plentyn a llesiant dysgwyr presennol
- 5.5 Effaith bosibl ar ddysgwyr a drosglwyddodd i Nebo am resymau llesiant
- 5.6 Beirniadaeth o'r asesiad llesiant a'r ystyriaeth a roddir i effaith cau ar ddisgyblion presennol
- 5.7 Blaenoriaethu costau ariannol dros lesiant a phrofiad addysgol plant

6. Effaith ar y Gymuned

- 6.1 Yr ysgol fel calon, canolbwynt cymdeithasol ac ased cymunedol hanfodol i Nebo a Nasareth
- 6.2 Pryderon ynghylch colli cydlyniant cymunedol, cysylltiadau traws-genedlaethol, a'r effaith ar iechyd, llesiant ac unigrwydd pe bai Ysgol Nebo yn cau
- 6.3 Pryderon am effaith cau Ysgol Nebo ar gynaliadwyedd y pentref, poblogaeth ifanc a newidiadau demograffig hirdymor
- 6.4 Yr ysgol fel ased diwylliannol, hanesyddol ac ieithyddol: rôl ganolog Ysgol Nebo fel canolbwynt cymunedol, adnodd unigryw i gynnal y Gymraeg, a goblygiadau'r cynnig ar gydlyniant, llesiant a chynaliadwyedd cymunedol hirdymor
- 6.5 Pryderon ynghylch tanseilio cymunedau Cymraeg gwledig: effaith cau'r ysgol ar gynaliadwyedd hirdymor, cydlyniant cymunedol, llesiant cymdeithasol a dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

7. Effaith ar yr iaith Gymraeg

- 7.1 Yr ysgol fel prif ofod cymunedol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg / canolbwynt bywyd y pentref / cysylltiad cymunedol lleol
- 7.2 Effaith ar ddefnydd naturiol, pob-dydd o'r Gymraeg
- 7.3 Trochi Cymraeg, ysgol fach a datblygiad rhuglder
- 7.4 Trosglwyddiad rhyng-genedlaethol a'r Gymraeg fel iaith fyw
- 7.5 Effaith cau'r ysgol ar ddemograffeg ieithyddol, deniadolrwydd teuluoedd a chynaliadwyedd y Gymraeg
- 7.6 Hunaniaeth, diwylliant, cynefin a chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg gwledig a pharhad yr iaith
- 7.7 Polisi iaith a dyletswyddau statudol y Cyngor: statws y Gymraeg, yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol, a'r effaith ar ddefnydd cymunedol, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a chydymffurfiaeth â Safonau'r

Gymraeg

7.8 Safbwyntiau sy'n mynegi bod y ddarpariaeth Gymraeg amgen yn ddigonol neu'n gadarnhaol

7.9 Safbwyntiau cyffredinol a fynegwyd ynghylch effaith andwyol bosibl y cynnig ar yr iaith Gymraeg

7.10 Her i gasgliadau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg

8. Cludiant a Theithio

8.1 Diogelwch traffig a pharcio o amgylch Ysgol Llanllyfni

8.2 Addasrwydd llwybrau cerdded rhwng Nebo a Llanllyfni i blant oedran cynradd

8.3 Costau cludiant ysgol i'r Cyngor a chynaliadwyedd y gyllideb

8.4 Addasrwydd cludiant bws i blant ifanc (4 oed)

8.5 Effaith amgylcheddol ac effaith ar iechyd a llesiant cludo disgyblion yn hytrach na cherdded

8.6 Hygyrchedd cludiant mewn ardaloedd gwledig a'r effaith ar deuluoedd sydd eisoes yn profi tlodi

8.7 Galwad am eglurder ynghylch trefniadau a goblygiadau costau cludiant arfaethedig

9. Heriau i Ddilysrwydd, Tegwch ac Ansawdd y Broses Statudol

9.1 Pryder cyffredinol ynghylch tegwch, ansawdd a dilysrwydd y broses ymgynghori

9.2 Cyfnod ymgynghori annigonol a'i amseriad (Nadolig, diffyg rhybudd, terfynau amser byr)

9.3 Pryderon ynghylch dehongli cynigion y Llywodraethwyr a'r ystyriaeth a roddwyd i opsiynau amgen o fewn y broses statudol

9.4 Diffyg tryloywder a thystiolaeth ategol ynghylch costau atgyweirio'r ysgol (£95,000)

9.5 Anghysondeb neu wallau mewn data ariannol (cost fesul dysgwr)

9.6 Capasiti a llefydd gwag wedi'u gor-amcangyfrif neu'n afrealistig

9.7 Amserlen y broses statudol, effaith cau canol blwyddyn a galwad i ymestyn y dyddiad gweithredu i sicrhau pontio teg ac ystyried Adroddiad ADY Medi 2026 cyn gwneud penderfyniad

9.8 Datganiadau ffeithiol anghywir neu anghyfoes yn y broses

9.9 Sylwadau'n ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth â Chod Trefniadaeth Ysgolion (2018), yn enwedig y ddyletswydd i ystyried dewisiadau amgen

9.10 Diffyg ystyriaeth ddigonol o effeithiau hirdymor, llesiant a'r cyd-destun cymunedol ehangach

9.11 Diffyg eglurder ynghylch y meini prawf ar gyfer asesu ymatebion yr ymgynghoriad

9.12 Diffyg cyfleoedd priodol i'r gymuned gymryd rhan yn y broses ymgynghori

9.13 Galwad i beidio â pharhau gyda'r ymgynghoriad hyd nes y bydd pob opsiwn wedi'i ystyried yn llawn ac ar sail ffeithiau cywir

9.14 Herio addasrwydd y meini prawf ar gyfer ysgolion gwledig

10. Sylwadau am Ysgol Llanllyfni

10.1 Pryderon ynghylch capasiti Ysgol Llanllyfni, yn enwedig y dosbarth meithrin a digonolrwydd lleoedd yn y tymor hir

10.2 Cwestiynau ynghylch cywirdeb y ffigurau capasiti a llefydd gwag yn Ysgol Llanllyfni

10.3 Sylwadau cyffredinol

11. Effaith ar Staff

11.1 Sylwadau'n tynnu sylw at yr effaith ar staff

12. Addysg Gartref

12.1 Sylwadau'n nodi cynnydd sylweddol mewn Addysg Gartref fel arwydd o system addysg nad yw'n diwallu anghenion pob dysgwr, a diffyg ymateb strategol i hyblygrwydd, llesiant ac anghenion emosiynol

13. Anghenion Dysgu Ychwanegol

13.1 Heriau strategol a chyllidol i gefnogi plant ag ADY ac anghenion cymhleth – galwad am asesiad hirdymor a buddsoddiad

14. Sylwadau Trawsbynciol

14.1 Cyd-destun economaidd a demograffig hirdymor: poblogaeth, swyddi a chynaliadwyedd cymunedol

14.2 Galwad am hyrwyddo polisi derbyn lleol ac ymgyrch i annog plant i fynychu eu hysgol leol

14.3 Sylwadau'n herio blaenoriaethu arbedion ariannol dros fuddsoddiad addysgol, cymdeithasol a chymunedol

14.4 Awgrym i ystyried trefniadau cydweithredu traws-awdurdodol i leihau costau a chynnal ysgolion bach lleol

14.5 Effaith ariannol hirdymor ar wasanaethau addysg, iechyd a llesiant

14.6 Sylwadau'n galw am ystyried cynlluniau tai a thwf poblogaeth posibl

14.7 Sylwadau'n awgrymu ail-fuddsoddi arbedion mewn darpariaeth addysgol neu brosiectau Cymraeg

14.8 Cefnogi teuluoedd drwy ddarparu gwisg ysgol am ddim

14.9 Ôl-ddefnydd

14.10 Sylwadau ynghylch dirywiad systemig darpariaeth addysg wledig, tuedd at drefoli, a goblygiadau hirdymor i gymunedau Cymraeg

14.11 Galwad i fuddsoddi mewn addysg leol a chymunedol yn hytrach na chau'r ysgol

15. Opsiynau Amgen

15.1 "Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion â CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth."

15.2 Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd

15.3 Defnyddio Ysgol Nebo fel safle derbyn ychwanegol i ysgolion cyfagos sy'n wynebu gorlenwi neu fod dros gapasiti

15.4 Datblygu Ysgol Nebo fel Canolfan Arbenigol ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored a Gwaith Maes

15.5 Ffedereiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn

15.6 Bwrdd Llywodraethu ffederal ar draws ysgolion y dalgylch

15.7 Cydweithio a rhannu adnoddau ac arbenigedd rhwng Ysgol Nebo ac ysgolion cyfagos

15.8 Datblygu Ysgol Nebo fel Canolfan Gymraeg a/neu Gymunedol

15.9 Cynnwys ysgolion bach mewn strategaethau treftadaeth ac adfywio

15.10 Cadw Ysgol Nebo ar agor

15.11 Awgrymiadau amgen eraill

5. RHAGDYBIAETH YN ERBYN CAU YSGOL WLEDIG

5.1 Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 wedi cyflwyno trefniadau penodol mewn perthynas ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau. Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau ond bod rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn

gydwybodol. Mae Ysgol Nebo wedi ei dynodi yn 'ysgol wledig' at ddiben y Cod. Golyga hyn fod rhaid dilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau.

- 5.2 Fel yr adroddwyd i'r Cabinet ar 14 Hydref 2025, cynhaliwyd asesiadau penodol ychwanegol, yn unol â gofynion y Cod, o'r opsiwn i gau ysgol wledig a'r opsiynau rhesymol eraill sydd wedi eu hadnabod. Mae'r Cod hefyd yn gosod gofynion arbennig mewn perthynas â pharatoi'r adroddiad yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol. Mae'n ofynnol felly i gynnal asesiadau pellach sef ar:
- Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg
 - Yr effaith debygol ar y gymuned
 - Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio.
- 5.3 Diben yr asesiad pellach hwn yw ystyried unrhyw wybodaeth bellach a ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriad neu fel arall. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd asesiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau rhesymol eraill, yn ogystal â'r opsiynau rhesymol eraill a awgrymwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan ystyried unrhyw wybodaeth bellach ddaeth i law yn ymwneud a'r ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad. Mae crynodeb o'r asesiadau hyn i'w gweld yn adran 7 o'r Adroddiad Ymgynghori (Atodiad A), a'r asesiadau effaith llawn i'w gweld yn Atodiad C.

6. YSTYRIAETHAU PELLACH

- 6.1 Yn ogystal ag asesiadau effaith a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau penodol 'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgol wledig' cynhaliwyd a diweddarwyd nifer o asesiadau effaith eraill yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Cynhwysir yr asesiadau hyn fel rhan o'r atodiad Asesiadau Effaith (Atodiad C) a chrynohoir eu casgliadau isod.
- 6.2 Asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg
- 6.3 Cynhaliwyd asesiad o effaith y cynnig ar yr Iaith Gymraeg, ac fe adolygwyd yr asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.
- 6.4 Yn ystod yr ymgynghoriad, mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith y gallai cau Ysgol Nebo ei chael ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref. Pwysleisiodd nifer fawr o ymatebwyr rôl yr ysgol fel canolbwynt cymdeithasol a diwylliannol sy'n cefnogi defnydd naturiol, bob dydd o'r Gymraeg, nid yn unig ymhlith disgyblion ond hefyd ymysg teuluoedd a thrigolion ehangach, gan gynnwys siaradwyr newydd a phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mynegwyd y farn y gallai colli'r ysgol arwain at lai o gyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, gwanhau trosglwyddiad rhyng-genedlaethol yr iaith, a lleihau atyniad y pentref i deuluoedd Cymraeg eu hiaith yn y dyfodol.
- 6.5 Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Nebo mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith andwyol bosibl ar fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.
- 6.6 Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol dysgwyr, am y rhesymau canlynol:
- Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 56% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni
 - Mae'r cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
 - Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.

- 6.7 Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.
- 6.8 Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r cynnig i gau Ysgol Nebo arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.
- 6.9 Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.
- 6.10 Asesiad effaith ar gydraddoldeb
- 6.11 Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynnig arfaethedig, ac fe adolygwyd yr asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.
- 6.12 Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisiâu a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau bod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.
- 6.13 Fel y nodir yn yr asesiad diweddaraf, yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd rhai pryderon penodol o safbwynt cydraddoldeb, yn enwedig ynghylch plant bregus, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a theuluoedd sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol. Mynegwyd pryder y gallai symud rhai dysgwyr i ysgol fwy leihau'r lefel o gefnogaeth bersonol sydd ar gael iddynt, ac y gallai pellter teithio, costau cludiant neu ddiffyg mynediad at gludiant preifat effeithio'n anghymesur ar rai teuluoedd. Codwyd hefyd effaith bosibl ar bobl hŷn a chydlyniant cymunedol, gan nodi bod yr ysgol yn darparu lleoliad hygyrch ar gyfer cymdeithasu a chefnogi llesiant.
- 6.14 Nodir yn yr asesiad fod y Cyngor yn cydnabod y materion a godwyd ac yn pwysleisio bod polisiâu cydraddoldeb a chynhwysiant yn weithredol yn y ddarpariaeth bresennol ac yn Ysgol Llanllyfni. At hynny, nodir fod y Cyngor yn ymrwymo i roi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i blant bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol pe byddai'r ysgol yn cau. O ran y pryderon ynghylch defnydd cymunedol o'r Gymraeg, nodir y byddai mesurau lliniaru yn cael eu hystyried, gan gynnwys hyrwyddo cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a'r ysgol amgen drwy weithgareddau cymunedol, a thrwy ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol er mwyn cefnogi defnydd parhaus o'r Gymraeg yn y gymuned leol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.
- 6.15 Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai ymatebwyr wedi nodi effaith negyddol bosibl ar rai grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys dysgwyr bregus, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, teuluoedd sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol, a chydlyniant cymunedol. Nodwyd hefyd bryderon penodol ynghylch effaith bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd anffurfiol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Fodd bynnag, ar sail yr asesiad cydraddoldeb cyffredinol, y dystiolaeth a nodir yn yr asesiadau effaith cysylltiedig, a'r mesurau lliniaru a ddisgrifir, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn nad yw'r cynnig yn debygol o arwain at effaith negyddol arwyddocaol ar nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod polisiâu a gweithdrefnau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu, a bod anghenion unigol yn cael eu hystyried yn briodol.
- 6.16 Mae'r Cyngor yn parhau o'r farn y byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau'r anghyfartaledd yn achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau bod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at ragor o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen.
- 6.17 Drwy weithredu'r cynnig, byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn cael gwell amgylchedd dysgu a byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau

addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol. Yn ogystal, nodir y byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Gymraeg mewn ysgol amgen lle mae'r Gymraeg yn gryf, gyda rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol gyda chyfoedion, gan gryfhau bywiogrwydd a defnydd naturiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr.

6.18 Byddai'r Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â'r nodweddion cydraddoldeb, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

6.19 Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

6.20 Cynhaliwyd asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant ar y cynnig a diweddarwyd yr asesiad wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Ystyriwyd 7 nod y ddeddf Llesiant ac amcanion Llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig arfaethedig yn cwrdd â'r gofynion. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.

6.21 Yn yr asesiad diweddaraf, nodir fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn mynegi pryderon penodol ynghylch effaith y cynnig ar blant bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ar lesiant teuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, ac ar fywiogrwydd ieithyddol a chymunedol y pentref.

6.22 Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig hwn, y byddai'r cynnig arfaethedig yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nebo. Fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol (78%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni (44%), sy'n awgrymu bod cysylltiadau â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Llanllyfni, eisoes yn bodoli. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Llanllyfni, pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Llanllyfni yn cynnwys cymuned Nebo lle'n briodol.

6.23 Rhagwelir y byddai'r cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

6.24 Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)

6.25 Yn adeiladu ar ganfyddiadau'r Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a amlinellir uchod, mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y broses statudol gyfan mewn perthynas ag adolygu dyfodol Ysgol Nebo wedi'i chynnal yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg 88–93 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn unol â Safonau 88, 89 a 90, rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol i'r effeithiau posibl y gallai'r penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan gynnwys ystyried yr effeithiau cadarnhaol ac andwyol posibl, sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol, a sut y gellid lleihau unrhyw effeithiau andwyol posibl. Yn ogystal, yn unol â Safonau 91, 92 a 93, ystyriwyd a cheisiwyd barn drwy'r broses ymgynghori statudol ynghylch yr effeithiau ieithyddol hyn, gan gynnwys barn ar sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er mwyn cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau andwyol ar y Gymraeg. Cefnogwyd y gofynion hyn drwy gynnal Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, ynghyd ag asesiadau effaith cysylltiedig, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a nodir bod yr asesiadau hyn wedi'u hadolygu a'u diweddarau yn dilyn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol.

6.26 Ystyriaethau Ariannol

6.27 Yn sgil niferoedd isel o ddysgwyr yn Ysgol Nebo nid yw'r dyraniad ar sail y dysgwyr yn ddigonol i allu cynnal yr ysgol. O ganlyniad, mae Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad craidd trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Dyrennir cyllid ychwanegol o £64,046 i Ysgol Nebo eleni (2026-27) trwy'r Polisi Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio.

6.28 Mae dyraniad Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni ar gyfer y flwyddyn 2026-27, wedi eu selio ar niferoedd Medi 2025 a gellir gweld y symiau y mae'r 2 ysgol yn eu derbyn isod:

Ysgol	Cyllideb 2026-27		Swm Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio
	Cyfanswm Dyraniad Cyllidol	Cost Fesul Dysgwr	
Nebo	£183,793	£16,066	£64,046
Llanllyfni	£404,489	£6,250	-
Cyfartaledd Ysgolion Cynradd y Sir	-	£5,998	-

6.29 Yn ôl cyllideb ariannol 2026-27, bydd y gost fesul dysgwr yn Ysgol Nebo yn £16,066 a'r gost fesul dysgwr yn Ysgol Llanllyfni yn £6,250 (Cyllideb 2026-27, sy'n seiliedig ar niferoedd Medi 2025). Cyfartaledd Sirol cost y dysgwr cynradd ar gyfer yr un cyfnod fydd £5,998. Golyga hyn fod y gost fesul dysgwr yn Ysgol Nebo £10,068 yn uwch na'r cyfartaledd sirol am yr un cyfnod.

6.30 Dyrennir cyfanswm o £588,282 i'r ddwy ysgol yn y flwyddyn ariannol 2026-27. Nid yw Ysgol Llanllyfni yn derbyn swm ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. Mae niferoedd dysgwyr presennol yr ysgol yn denu cyllideb ddigonol i gynnal lefelau staffio priodol.

6.31 O safbwynt costau refeniw, pe gweithredir y cynnig, a pe byddai holl ddysgwyr Ysgol Nebo yn trosglwyddo i Ysgol Llanllyfni, yn seiliedig ar gyllideb 2026-27 (sy'n seiliedig ar niferoedd dysgwyr Medi 2025):

- rhagwelir y byddai'r cynnig yn creu arbediad blynyddol o £142,000, llai amcan costau anghenion cludiant ychwanegol (hyd at £30,000) - sef cyfanswm o oddeutu £112,000 y flwyddyn.
- rhagwelir y byddai cyllideb dyraniad craidd Ysgol Llanllyfni yn cynyddu i £466,000, a'r gost fesul dysgwr yn £6,121.

6.32 Bydd unrhyw arbedion mewn costau refeniw yn cael eu cadw ym maes Ysgolion Gwynedd.

7. ARGYMHELLIAD

7.1 Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth lawn i'r materion a godwyd ac fe gynhaliwyd gwerthusiad ac asesiadau effaith pellach o'r cynnig, yr opsiynau amgen a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori, ynghyd â'r opsiynau amgen a nodwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys asesiad yn erbyn y ffactorau sy'n berthnasol i ysgolion gwledig, gan gynnwys y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

7.2 Ar sail ystyried yr elfennau uchod, daethpwyd i'r casgliad nad oedd unrhyw un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd yn mynd i'r afael â'r prif heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, fel y nodir yn adran 3.4 uchod.

7.3 Wrth ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, ynghyd â'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol, a'r asesiadau effaith, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn bod y cynnig i gau Ysgol Nebo yn briodol, yn gymesur ac er budd gorau dysgwyr yr ardal yn y tymor canolig a'r tymor hir.

7.4 Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan ymgynghorai, yn enwedig ynghylch rôl yr ysgol yn y gymuned leol a phwysigrwydd defnydd cymunedol o'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn dangos bod Ysgol Nebo yn wynebu heriau sylweddol nad ydynt yn debygol o gael eu datrys heb newid sylfaenol i'r ddarpariaeth.

7.5 Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy:

- Ymateb i'r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagolygon sy'n parhau'n isel, a'r ganran uchel o leoedd gwag;
- Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;
- Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran;
- Lleihau'r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir

7.6 Ar y cyfan, ar ôl ystyried y dystiolaeth, y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, y gwerthusiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau amgen, ynghyd â a chyfeiriad strategol y Cyngor, mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r ymateb mwyaf priodol i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol (fel a nodir yn adran 3.4) a'r rhesymau a nodwyd dros y cynnig, ac felly'n parhau i'w argymhell fel y modd mwyaf addas o fynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu'r ysgol.

8. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 8.1 Os bydd y Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhelliad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, bydd gofyn cyhoeddi hysbysiad statudol yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a chanllawiau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).
- 8.2 Cyhoeddir yr hysbysiad statudol ar ddiwrnod ysgol, a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod yn dechrau o'r dyddiad y caiff y hysbysiad ei gyhoeddi. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd gan unrhyw un yr hawl i gyflwyno gwrthwynebiad ffurfiol i'r cynnig.
- 8.3 Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn crynhoi unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd, ynghyd ag argymhelliad ar gyfer penderfyniad terfynol. Dylid nodi bod rhai amgylchiadau lle y gellir cyfeirio penderfyniad terfynol y Cyngor at Weinidogion Llywodraeth Cymru, yn unol â darpariaethau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).
- 8.4 Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, amlinellir isod gamau nesaf y broses ynghyd ag amserlen amlinellol:

Mehefin 2026	Cyhoeddi Hysbysiad Statudol: Os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, cyhoeddir hysbysiad statudol a chynhelir cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad o fewn y cyfnod hwn.
Medi 2026	Cabinet: Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, os derbynnir gwrthwynebiadau, bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig ai peidio. Os na fydd gwrthwynebiadau, neu os bydd pob un wedi ei dynnu yn ôl, gall yr Aelod Cabinet wneud y penderfyniad.
Hydref 2026	Cyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru: Yn unol ag adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'r benderfynu: ii. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno; iii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni; iv. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion; v. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion; vi. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni.
31 Rhagfyr 2026	Gweithredu'r cynnig: Ysgol Nebo yn cau yn swyddogol, yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet.

9. ATODIADAU

Atodiad A: Adroddiad Ymgynghori

Atodiad B: Gwerthusiad Opsiynau

Atodiad C: Asesiadau Effaith:

- Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
- Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg
- Asesiad Llesiant
- Asesiad Cydraddoldeb

Atodiad Ch: [Dogfen Ymgynghori Statudol](#) a Dogfennaeth yr ymgynghoriad: [Ymgynghoriad Statudol: Ysgol Nebo](#)

Atodiad D: Sylwadau'r Aelod Lleol

10. Barn y swyddogion statudol

Y Swyddog Monitro:

“Mae’r adroddiad yn dilyn cynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol ar ddyfodol Ysgol Nebo. Yn ôl egwyddorion cyfreithiol ymgynghori mae’n ofynnol i’r Cabinet wrth gloriannu y penderfyniad a geisir ddal sylw at ganlyniadau yr ymgynghoriad cyn dod i benderfyniad ar y cynnig. Mae’r adroddiad yn darparu gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer cynnal yr ymarfer yma yn briodol. Rwy’n fodlon felly y gall y Cabinet ddod i benderfyniad ar y mater yma yn briodol.”

Y Pennaeth Cyllid:

“O safbwynt ariannol, ni welaf fod newid wedi bod yn y sefyllfa ers i’r Cabinet drafod y mater hwn ym mis Hydref a cychwyn y broses o gau’r ysgol. Nid yw sefyllfa bresennol Ysgol Nebo yn gynaliadwy ac roedd yr adroddiad blaenorol yn dangos fod asesiad wedi ei gynnal o’r opsiynau sydd ar gael, ac roeddwn yn fodlon â chadernid yr amcangyfrifon ariannol oedd wedi eu nodi ynddo. Rwyf yn cefnogi’r penderfyniad a geisir.”

Adroddiad Ymgynghori – Mai 2026

Ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Nebo

Adroddiad Ymgynghori - Ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo

Cynnwys

1. TROSOLWG O'R YMGYNGHORIAD STATUDOL	3
2. FFURFLEN YMATEB	7
3. YMGYNGHORI GYDA PLANT A PHOBL IFANC	8
4. YMATEB ESTYN	10
5. CRYNODEB O'R MATERION A GODWYD GAN YMGYNGOREION	14
1. Gwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Nebo	14
2. Sylwadau am Ysgol Nebo	16
3. Gwerth addysgol ysgol fach wledig	27
4. Sylwadau o blaid y cynnig i gau Ysgol Nebo	31
5. Effaith y cynnig ar lesiant, gofal unigol a phrofiad addysgol ddysgwyr presennol Ysgol Nebo	32
6. Effaith ar y Gymuned	38
7. Effaith ar yr Iaith Gymraeg	52
8. Cludiant a theithio	68
9. Heriau i Ddilysrwydd, Tegwch ac Ansawdd y Broses Statudol	73
10. Sylwadau am Ysgol Llanllyfni	96
11. Effaith ar staff	97
12. Addysg Gartref	98
13. Anghenion Dysgu Ychwanegol	100
14. Sylwadau Trawsbynciol	102
15. Opsiynau amgen	109
6. OPSIYNAU AMGEN ERAILL A GYNIGIWDYD GAN YMGYNGHORAI	133
7. ASESIAD PELLACH O'R CYNNIG A'R OPSIYNAU RHESYMOL ERAILL	135
8. YSTYRIAETHAU PELLACH	142
9. ARGYMHELLIAD	144

Atodiadau:

Atodiad B: Gwerthusiad Opsiynau

Atodiad C: Asesiadau Effaith:

- Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
- Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg
- Asesiad Llesiant
- Asesiad Cydraddoldeb

Adroddiad Ymgynghori - Ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo

1. TROSOLWG O'R YMGYNGHORIAD STATUDOL

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar [14 Hydref 2025](#), cynhaliodd Cyngor Gwynedd ymgynghoriad statudol ar gynnig i gau Ysgol Nebo. Dyma'r cynnig a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad:

“Cau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.”

Gwahoddwyd rhanddeiliaid i gyflwyno eu sylwadau ar y cynnig uchod, fel y gallai'r Cyngor eu hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniadau pellach ynghylch y camau nesaf.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026.

(i) Y broses ymgynghori

Cyhoeddwyd y ddogfennaeth ymgynghori statudol ar [wefan y Cyngor](#) yn unol â gofynion ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) (“y Cod”).

Roedd y ddogfennaeth ymgynghori a gyhoeddwyd yn cynnwys y canlynol:

- [Dogfen ymgynghori statudol](#)
- [Pecyn Asesiadau Effaith](#): Roedd y pecyn hwn yn cynnwys asesiadau effaith cynhwysfawr, gan gynnwys yr effaith ar yr iaith Gymraeg, y gymuned leol, cydraddoldeb, trefniadau teithio, ansawdd a safonau addysg, yn ogystal ag asesiad yn erbyn nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- [Pecyn Cefndirol](#): Cynhwysai'r pecyn hwn ddogfennau cefnogol megis pecyn ystadegol, adroddiadau perthnasol a gyflwynwyd i'r Cabinet (gan gynnwys y papur cynnig dyddiedig 14 Hydref 2025), a throsolwg o'r trafodaethau lleol a gynhaliwyd rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025.
- [Ffurflen Ymateb](#) – fersiwn PDF + linc i'r fersiwn ar lein
- [Dogfen ymgynghori](#) – fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc
- [Holiadur](#) – fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc.

Roedd y ddogfennaeth ar gael ar wefan y Cyngor drwy gydol y cyfnod ymgynghori, a darparwyd copïau caled yn unol â cheisiadau a dderbyniwyd gan ymgynghorai unigol.

Dosbarthwyd y ddogfennaeth i'r holl ymgynghorai perthnasol, yn unol â gofynion y Cod, drwy anfon e-bost oedd yn cynnwys dolen at dudalen benodol ar wefan y Cyngor, sef www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo.

Anfonwyd e-bost yn cynnwys linc at y ddogfennaeth ymgynghori at Ysgol Nebo, Ysgol Llanllyfni, yn ogystal ag ysgolion eraill cyfagos, gan wneud cais i'r penaethiaid eu dosbarthu i rieni/gwarchodwyr y dysgwyr, holl aelodau o staff a holl aelodau Corff Llywodraethol yr ysgolion.

Roedd yr ymgynghoriad ar agor i'r ymgynghorai perthnasol ac i unrhyw unigolyn neu sefydliad arall a oedd yn dymuno ymateb, gyda'r cyfle i wneud hynny drwy lenwi ffurflen ymateb ar-lein, lenwi copi papur neu electroneg (PDF) o'r ffurflen ymateb a'i anfon at y Tîm Moderneiddio Addysg, neu drwy anfon e-bost neu lythyr at y Tîm Moderneiddio Addysg.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd sesiwn galw heibio er mwyn rhoi cyfle i rieni, staff a llywodraethwyr ofyn cwestiynau a thrafod yr ymgynghoriad ymhellach. Mynychodd 12 o bobl y sesiynau galw heibio.

Yn ogystal, paratowyd dogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc, ynghyd â holiaduron cysylltiedig. Trefnwyd i hwylusydd annibynnol gynnal sesiynau gydag aelodau Cyngor Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, er mwyn casglu barn y dysgwyr. Mae'r crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau hyn wedi'i gynnwys yn adran 3 isod.

Cyhoeddwyd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb wedi'u haddasu ar gyfer plant a phobl ifanc ar wefan y Cyngor hefyd. Felly, roedd cyfle i blant a phobl ifanc nad oeddent wedi mynychu sesiwn yn eu hysgol gyflwyno eu hymatebion i'r ymgynghoriad yn ogystal.

(ii) Ymatebion i'r ymgynghoriad

Derbyniwyd cyfanswm o 70 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad statudol, gan gynnwys ymateb gan Estyn. Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys yr adborth a gasglwyd gan ddysgwyr yn ystod y sesiynau ymgynghori.

Ffurfl	Nifer
Ffurflen ymateb ar lein	54
Ffurflen ymateb Word neu PDF	5
Ffurflen ymateb – copi caled	1
E-bost	10
Cyfanswm	70

Yn unol â gofynion y Cod, mae ymateb Estyn i'r ymgynghoriad wedi ei nodi'n llawn yn adran 4 isod.

Mae crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r materion hynny wedi'i gynnwys yn adran 5 isod.

Mae crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan y dysgwyr wedi'i gynnwys yn adran 3 isod.

(iii) Crynodeb o'r prif faterion a nodwyd yn yr ymatebion

Rhestrir isod y prif faterion a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, ac mae ystyriaeth fanylach ar bob un o'r materion hyn i'w gweld yn Adran 5, isod.

1. Gwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Nebo

1.1 Gwrthwynebiad cyffredinol i'r cynnig i gau'r ysgol

2. Sylwadau am Ysgol Nebo

- 2.1 Manteision ysgol fach, ansawdd addysg a derbyniad cynhwysol
- 2.2 Ansawdd y ddarpariaeth addysgol a thystiolaeth o safon uchel
- 2.3 Perthnasoedd cadarnhaol, ethos yr ysgol a'u heffaith ar lwyddiant a llesiant disgyblion
- 2.4 Profiadau dysgwyr a chyn-ddisgyblion
- 2.5 Cysylltiad â'r gymuned a dysgu y tu allan
- 2.6 Dosbarthiadau bach a chefnogaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- 2.7 Effaith ar y Gymraeg a'r ethos Gymraeg
- 2.8 Datblygiad cymdeithasol ac empathi
- 2.9 Profiad uniongyrchol o wella llesiant
- 2.10 Canran uchel o ddysgwyr all-dalgylch yn mynychu Ysgol Nebo
- 2.11 Sylwadau'n tynnu sylw at gynnydd diweddar yn niferoedd Ysgol Nebo
- 2.12 Sylwadau'n cwestiynu dibynadwyedd y rhagolygon niferoedd
- 2.13 Effaith ansicrwydd am ddyfodol yr ysgol ar ddewis rhieni a niferoedd dysgwyr
- 2.14 Sylwadau am baratoi bwyd ysgol ar y safle a lleihau dibyniaeth ar gludo bwyd o ysgolion eraill

3. Gwerth addysgol ysgol fach wledig

- 3.1 Addysg bersonol, dosbarthiadau bach a sylw unigol
- 3.2 Oedran cymysg, datblygiad cymdeithasol a llesiant
- 3.3 Ysgolion bach gwledig: ymdeimlad o berthyn, gymuned, llesiant disgyblion a rôl ehangach yr ysgol o fewn yr ardal leol

4. Sylwadau o blaid y cynnig i gau Ysgol Nebo

- 4.1 Gwerth am arian, cost fesul dysgwr a thegwch ariannol
- 4.2 Manteision canfyddedig ysgolion mwy a dosbarthiadau un oedran
- 4.3 Rhesymoli'r ddarpariaeth ysgolion a newidiadau demograffig

5. Effaith y cynnig ar lesiant, gofal unigol a phrofiad addysgol dysgwyr presennol Ysgol Nebo

- 5.1 Pryderon ymatebwyr ynghylch effaith newid ysgol ac ail-leoli dysgwyr ar lesiant emosiynol, addasu cymdeithasol a grwpiau bregus
- 5.2 Pryderon ymatebwyr ynghylch effaith anghymesur cau'r ysgol ar ddysgwyr bregus, cefnogaeth unigol a darpariaeth ADY
- 5.3 Effaith bosibl ar berthnasoedd cymdeithasol a llesiant dysgwyr
- 5.4 Ystyriaeth o lais y plentyn a llesiant dysgwyr presennol
- 5.5 Effaith bosibl ar ddysgwyr a drosglwyddodd i Nebo am resymau llesiant
- 5.6 Beirniadaeth o'r asesiad llesiant a'r ystyriaeth a roddir i effaith cau ar ddisgyblion presennol
- 5.7 Blaenoriaethu costau ariannol dros lesiant a phrofiad addysgol plant

6. Effaith ar y Gymuned

- 6.1 Yr ysgol fel calon, canolbwynt cymdeithasol ac ased cymunedol hanfodol i Nebo a Nasareth
- 6.2 Pryderon ynghylch colli cydlyniant cymunedol, cysylltiadau traws-genedlaethol, a'r effaith ar iechyd, llesiant ac unigrwydd pe bai Ysgol Nebo yn cau
- 6.3 Pryderon am effaith cau Ysgol Nebo ar gynaliadwyedd y pentref, poblogaeth ifanc a newidiadau demograffig hirdymor
- 6.4 Yr ysgol fel ased diwylliannol, hanesyddol ac ieithyddol: rôl ganolog Ysgol Nebo fel canolbwynt cymunedol, adnodd unigryw i gynnal y Gymraeg, a goblygiadau'r cynnig ar gydlyniant, llesiant a chynaliadwyedd cymunedol hirdymor
- 6.5 Pryderon ynghylch tanseilio cymunedau Cymraeg gwledig: effaith cau'r ysgol ar gynaliadwyedd hirdymor, cydlyniant cymunedol, llesiant cymdeithasol a dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

7. Effaith ar yr Iaith Gymraeg

- 7.1 Yr ysgol fel prif ofod cymunedol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg / canolbwynt bywyd y pentref / cysylltiad cymunedol lleol
- 7.2 Effaith ar ddefnydd naturiol, pob-dydd o'r Gymraeg
- 7.3 Trochi Cymraeg, ysgol fach a datblygiad rhuglder
- 7.4 Trosglwyddiad rhyng-genedlaethol a'r Gymraeg fel iaith fyw
- 7.5 Effaith cau'r ysgol ar ddemograffeg ieithyddol, deniadolrwydd teuluoedd a chynaliadwyedd y Gymraeg
- 7.6 Hunaniaeth, diwylliant, cynefin a chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg gwledig a pharhad yr iaith
- 7.7 Polisi iaith a dyletswyddau statudol y Cyngor: statws y Gymraeg, yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol, a'r effaith ar ddefnydd cymunedol, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
- 7.8 Safbwyntiau sy'n mynegi bod y ddarpariaeth Gymraeg amgen yn ddigonol neu'n gadarnhaol
- 7.9 Safbwyntiau cyffredinol a fynegwyd ynghylch effaith andwyol bosibl y cynnig ar yr iaith Gymraeg
- 7.10 Her i gasgliadau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg

8. Cludiant a Theithio

- 8.1 Diogelwch traffig a pharcio o amgylch Ysgol Llanllyfni
- 8.2 Addasrwydd llwybrau cerdded rhwng Nebo a Llanllyfni i blant oedran cynradd
- 8.3 Costau cludiant ysgol i'r Cyngor a chynaliadwyedd y gyllideb
- 8.4 Addasrwydd cludiant bws i blant ifanc (4 oed)
- 8.5 Effaith amgylcheddol ac effaith ar iechyd a llesiant cludo disgyblion yn hytrach na cherdded

8.6 Hygyrchedd cludiant mewn ardaloedd gwledig a'r effaith ar deuluoedd sydd eisoes yn profi tlodi

8.7 Galwad am eglurder ynghylch trefniadau a goblygiadau costau cludiant arfaethedig

9. Heriau i Ddilysrwydd, Tegwch ac Ansawdd y Broses Statudol

9.1 Pryder cyffredinol ynghylch tegwch, ansawdd a dilysrwydd y broses ymgynghori

9.2 Cyfnod ymgynghori annigonol a'i amseriad (Nadolig, diffyg rhybudd, terfynau amser byr)

9.3 Pryderon ynghylch dehongli cynigion y Llywodraethwyr a'r ystyriaeth a roddwyd i opsiynau amgen o fewn y broses statudol

9.4 Diffyg tryloywder a thystiolaeth ategol ynghylch costau atgyweirio'r ysgol (£95,000)

9.5 Anghysondeb neu wallau mewn data ariannol (cost fesul dysgwr)

9.6 Capasiti a llefydd gwag wedi'u gor-amcangyfrif neu'n afrealistig

9.7 Amserlen y broses statudol, effaith cau canol blwyddyn a galwad i ymestyn y dyddiad gweithredu i sicrhau pontio teg ac ystyried Adroddiad ADY Medi 2026 cyn gwneud penderfyniad

9.8 Datganiadau ffeithiol anghywir neu anghyfoes yn y broses

9.9 Sylwadau'n ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth â Chod Trefniadaeth Ysgolion (2018), yn enwedig y ddyletswydd i ystyried dewisiadau amgen

9.10 Diffyg ystyriaeth ddigonol o effeithiau hirdymor, llesiant a'r cyd-destun cymunedol ehangach

9.11 Diffyg eglurder ynghylch y meini prawf ar gyfer asesu ymatebion yr ymgynghoriad

9.12 Diffyg cyfleoedd priodol i'r gymuned gymryd rhan yn y broses ymgynghori

9.13 Galwad i beidio â pharhau gyda'r ymgynghoriad hyd nes y bydd pob opsiwn wedi'i ystyried yn llawn ac ar sail ffeithiau cywir

9.14 Herio addasrwydd y meini prawf ar gyfer ysgolion gwledig

10. Sylwadau am Ysgol Llanllyfni

10.1 Pryderon ynghylch capasiti Ysgol Llanllyfni, yn enwedig y dosbarth meithrin a digonolrwydd lleoedd yn y tymor hir

10.2 Cwestiynau ynghylch cywirdeb y ffigurau capasiti a llefydd gwag yn Ysgol Llanllyfni

10.3 Sylwadau cyffredinol

11. Effaith ar Staff

11.1 Sylwadau'n tynnu sylw at yr effaith ar staff

12. Addysg Gartref

12.1 Sylwadau'n nodi cynnydd sylweddol mewn Addysg Gartref fel arwydd o system addysg nad yw'n diwallu anghenion pob dysgwr, a diffyg ymateb strategol i hyblygrwydd, llesiant ac anghenion emosiynol

13. Anghenion Dysgu Ychwanegol

13.1 Heriau strategol a chyllidol i gefnogi plant ag ADY ac anghenion cymhleth – galwad am asesiad hirdymor a buddsoddiad

14. Sylwadau Trawsbynciol

14.1 Cyd-destun economaidd a demograffig hirdymor: poblogaeth, swyddi a chynaliadwyedd cymunedol

14.2 Galwad am hyrwyddo polisi derbyn lleol ac ymgyrch i annog plant i fynychu eu hysgol leol

14.3 Sylwadau'n herio blaenoriaethu arbedion ariannol dros fuddsoddiad addysgol, cymdeithasol a chymunedol

14.4 Awgrym i ystyried trefniadau cydweithredu traws-awdurdodol i leihau costau a chynnal ysgolion bach lleol

14.5 Effaith ariannol hirdymor ar wasanaethau addysg, iechyd a llesiant

14.6 Sylwadau'n galw am ystyried cynlluniau tai a thwf poblogaeth posibl

14.7 Sylwadau'n awgrymu ail-fuddsoddi arbedion mewn darpariaeth addysgol neu brosiectau Cymraeg

14.8 Cefnogi teuluoedd drwy ddarparu gwisg ysgol am ddim

14.9 Ôl-ddefnydd

14.10 Sylwadau ynghylch dirywiad systemig darpariaeth addysg wledig, tuedd at drefoli, a goblygiadau hirdymor i

15. Opsiynau Amgen

15.1 “Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion â CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.”

15.2 Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd

15.3 Defnyddio Ysgol Nebo fel safle derbyn ychwanegol i ysgolion cyfagos sy'n wynebu gorlenwi neu fod dros gapasiti

15.4 Datblygu Ysgol Nebo fel Canolfan Arbenigol ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored a Gwaith Maes

15.5 Ffedereiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn

15.6 Bwrdd Llywodraethu ffederal ar draws ysgolion y dalgylch

15.7 Cydweithio a rhannu adnoddau ac arbenigedd rhwng Ysgol Nebo ac ysgolion cyfagos

15.8 Datblygu Ysgol Nebo fel Canolfan Gymraeg a/neu Gymunedol

15.9 Cynnwys ysgolion bach mewn strategaethau treftadaeth ac adfywio

15.10 Cadw Ysgol Nebo ar agor

15.11 Awgrymiadau amgen eraill

2. FFURFLEN YMATEB

Derbyniwyd ymatebion ar ffurf ffurflen ymateb gan 60 o ymatebwyr (54 trwy'r ffurflen ymateb ar-lein, 6 dros e-bost/post).

Mae'r atebion a dderbyniwyd i gwestiwn 1 (a) ac 1 (b) gan yr ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Noder fod crynodeb o'r sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn y ffurflenni ymateb wedi ei gynnwys yn adran 5 isod.

1 (a) Rwy'n ymateb fel:	Nifer	%
Rhiant/Gwarchodwr	11	18%
Llywodraethwr Ysgol	4	7%
Dysgwr	0	0%
Staff	1	2%
Arall	47	78%
Dim Ymateb	3	5%

1 (b) o'r ysgol ganlynol:	Nifer	%
Ysgol Nebo	56	93%
Ysgol Llanllyfni	2	3%
Arall	3	5%
Dim ymateb	4	7%

Noder nad yw cyfanswm y niferoedd yn y tablau bob amser yn cyfateb i gyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd, gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis mwy nag un opsiwn wrth ymateb i'r cwestiynau perthnasol. Mae'r canrannau wedi'u cyfrifo ar sail 60 o ymatebwyr unigol. Gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis mwy nag un opsiwn, gall cyfanswm y canrannau fod yn fwy na 100%.

3. YMGYNGHORI GYDA PLANT A PHOBL IFANC

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb/holiadur ar gyfer plant a phobl ifanc ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo, fel y gallai plant a phobl ifanc oedd heb fynychu sesiwn yn eu hysgol, ymateb i'r ymgynghoriad yn ogystal.

Sesiynau gyda dysgwyr:

Cynhaliwyd sesiynau dynodedig gyda grŵp o ddysgwyr o Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni i sicrhau ein bod yn derbyn barn plant a phobl ifanc.

Trefnwyd bod hwylusydd yn mynychu Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni i drafod y cynnig gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle i'r plant ddatgan barn am y cynnig. Roedd pob sesiwn yn cynnwys esbonio'r cynnig a chwblhau holiadur.

Eglurwyd fod Cyngor Gwynedd yn ystyried cau Ysgol Nebo a chynnig lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni.

Eglurwyd fod y Cyngor eisiau gwybod sut yr oeddent yn teimlo am y cynnig ar gyfer Ysgol Nebo, cyn iddynt benderfynu ar y ffordd ymlaen.

Eglurwyd, os byddai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen efo'r cynnig, y byddai'n golygu:

- Y byddai Ysgol Nebo yn cau ar 31 Rhagfyr 2026, ac
- Y byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn trosglwyddo i Ysgol Llanllyfni ar 1 Ionawr 2027.

Gweler isod amserlen y sesiynau ymgynghori, rhestr yr ysgolion perthnasol a nifer yr ymatebwyr:

	Dyddiad	Cynhaliwyd y sesiwn gyda:
Ysgol Nebo	Dydd Mawrth, 13 Ionawr 2026	Aelodau Cyngor Ysgol Nebo (6 o ddysgwr)
Ysgol Llanllyfni	Dydd Mawrth, 13 Ionawr 2026	Aelodau Cyngor Ysgol Llanllyfni (11 o ddysgwr)

Gweler isod grynodeb ymatebion y dysgwyr

NODER – Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o sylwadau'r plant a'r bobl ifanc.

Sut wyt ti'n teimlo am hyn?			
Ysgol	Hapus	Ddim yn Sicr	Anhapus
Ysgol Nebo	0	1	5
Ysgol Llanllyfni	11	0	0

Cwestiwn 1 – Sut wyt ti yn teimlo am hyn?	
Ysgol Nebo	• Dwi'n flin iawn (x 2) • Dwi'n teimlo nad ydi o'n deg cau ysgol mae pawb yn licio • Dwi'n drist iawn, ac Ysgol Baladeulyn yn cau

Ysgol Llanllyfni	• Mi fydda cael y plant i ddod i Ysgol Llanllyfni yn syniad da, cyfle i gael ffrindiau newydd • Byddai'n gyfle da i wneud ffrindiau newydd a chael mwy blant yr un oed a nhw • Byddai'n brofiad da i'r plant gael ffrindiau newydd • Byddai'n brofiad da i'r plant gael mwy o blant yn eu blwyddyn a byddai'n dda i Llanllyfni gael mwy o blant • Da oherwydd does gan Ysgol Nebo ddim lot o blant yn eu blwyddyn nhw
Cwestiwn 2 – Beth hoffet ti weld yn digwydd fel rhan o'r cynnig yma?	
Ysgol Nebo	• Dim cau'r ysgol (x 4) • I Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Nebo ymuno felly fydda ni yn cael 19 o blant • Mae Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn wedi cael amser neis efo'i gilydd a da ni'n ffrind mawr
Ysgol Llanllyfni	• Rwy'n gweld hyn yn gyfle da i gael ysgol sydd ddim yn wag • Oherwydd mae nhw ar ben ei hyn bach. Bechod • Plant Ysgol Nebo yn cael mwy o ffrindiau a phartneriaid trafod • I blant Ysgol Nebo fod yn hapus • Mi faswn i'n holl gweld plant yn hapus oherwydd ganddyn nhw mwy o blant i chwarae efo. A chael mwy o ffrindiau. • Plant Ysgol Nebo yn dod i weld yr ysgol (Ysgol Llanllyfni) (x4)
Cwestiwn 3 – Beth sy'n dy boeni am hyn?	
Ysgol Nebo	• Dwi'n enjoio Ysgol Nebo. Ond pan mae rhywun yn dweud amdan yr ysgol yn cau dwi bron yn crio achos dwi ddim eisiau symud i Llanllyfni, dwi eisiau aros yn Nebo • Mae cau'r ysgol yn poeni fi lot • Dim cau Ysgol Nebo a dim symud i ysgol arall • Symud i ysgol efo mwy o pobl • Dwi ddim eisiau'r ysgol gau achos dwi yma ers 5 mlynedd a dwi ddim yn licio ysgol fawr • Achos mae Ysgol Llanllyfni yn ysgol fawr
Ysgol Llanllyfni	• Ella y bydd plant yn ofn neud ffrindiau neu colli ysgol yn Nebo • Ella y bydda nhw'n drist goro gadael yr ysgol • Dim byd (x2) • Dim byd! Dwi'n hapus iddyn nhw ddod. • Na (x3) • Plant Ysgol Nebo yn drist bod eu hysgol yn cau • Dim ffrindiau
Cwestiwn 4 – Beth yw'r pethau pwysicaf i chi yn yr ysgol?	
Ysgol Nebo	• Ffrindiau yr ysgol yr athrawon/athro a'r pethau yn yr ysgol • Gweld ffrindiau fi • Athrawon a ffrindiau • Ffrindiau dysgu • Athrawon, ffrindiau, pobl newydd sydd yn dod i ysgol • Y ffrindiau a'r athrawon
Ysgol Llanllyfni	• Y pethau pwysicaf yw bwyd a gweithio'n galed iawn • Ffrindiau, Bwyd – Amser cinio, Amser Rhydd – Chwarae allan, Athrawon • Ffrindiau, amser cinio, amser chwarae, dani'n cael siocled poeth weithiau os da ni'n blant da! Ac weithia' da ni'n cael diwrnodau film, a 'da ni'n cael siocled poeth gyda popcorn a bisgedi! • Ffrindiau a trip ysgol (x2) • Ffrindiau a bod yn hapus! • Cae pêl-droed a ffrindiau (x2) • Mynchi bars, cae pêl-droed a ffrindiau (x2)

Sylwadau eraill a dderbyniwyd ar lafar gan ddysgwyr Ysgol Nebo yn ystod y sesiwn ymgynghori:

- Mwy o ffræo mewn ysgol fwy
- Ysgol bach yn gallu gwneud lot mwy gan nad oes lot ohono ni
- Teulu ochor dad i gyd wedi bod yn Ysgol Nebo, dad yn drist
- Ddim isio mynd i Ysgol Llanllyfni, ofn cael fy mwlio, dani gyd yn ffrindiau yma yn Nebo
- Mae'n teimlo fatha un teulu mawr yma
- Dwi am fethu pawb os dwi'n symud i Ysgol Llanllyfni
- Dani yn cael mynd i gerdded, gwneud ymarfer corff, nofio a cael mynd ar dripiâu yn Ysgol Nebo
- Beth os ydi pobl ddim am licio ni yn Llanllyfni
- Rhatach mynd ar dripiâu ysgol gan fod llai ohono ni
- Dwi'n dysgu mwy yn Ysgol Nebo na nes i yn fy hen ysgol
- Yn drist a blin bod yr ysgol yn cau
- Pam bod chi yn cau ysgolion sydd ddim efo lot o blant?
- Ddim yn licio bod mewn ysgol fawr
- Mae ffrindiau fi yn yr ysgol yn bwysig i fi
- Symud i ysgol efo mwy o bobl yn poeni fi
- Dwi ddim eisiau gweld yr ysgol yn cau
- Yr athrawon yn bwysig i fi

Casgliad/Crynodeb:

Crynhair isod y prif ymatebion a phryderon a fynegwyd gan y dysgwyr yn ystod y sesiynau ymgynghori. Mae'r casgliadau'n adlewyrchu'r prif themâu a phryderon a fynegwyd gan y dysgwyr yn uniongyrchol yn y trafodaethau.

Mae prif safbwyntiau a fynegwyd gan ddysgwyr Ysgol Nebo yn adlewyrchu pryder sylweddol ynghylch y cynnig i gau'r ysgol, gan nodi na ddylid cau'r ysgol. Yn ystod sesiynau ymgynghori, mynegwyd teimladau o dristwch a phryder, gan amlygu pwysigrwydd yr ysgol a'r cysylltiad agos rhwng ffrindiau ac athrawon. Bu i nifer o ddysgwyr yn datgan na fyddent yn hapus mewn ysgol fwy. Cwestiynwyd hefyd resymau cau ysgolion bach, gyda neges glir bod dysgwyr yn gwerthfawrogi'r amgylchedd bychan a chefnogol a geir yn Ysgol Nebo.

O safbwynt dysgwyr Ysgol Llanllyfni, nodwyd agwedd fwy cadarnhaol tuag at y newid posibl, gyda dysgwyr Ysgol Llanllyfni yn barod i groesawu dysgwyr newydd pe bai Ysgol Nebo yn cau.

Yn gryno, mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau ymgynghori wedi tynnu sylw at bryderon dysgwyr Ysgol Nebo ynghylch y cynnig i gau'r ysgol. Prif negeseuon y trafodaethau yw pryderu ynghylch colli'r ysgol, ofn symud i ysgol fwy, a gwerthfawrogiad dwfn o'r perthnasau sydd yn bodoli rhwng dysgwyr, eu ffrindiau ac athrawon, yn Ysgol Nebo.

4. YMATEB ESTYN

Yn unol â gofynion y Cod, nodir ymateb Estyn i'r ymgynghoriad statudol yn llawn isod:

“Ymateb Estyn i'r cynnig i gau Ysgol Nebo a darparu addysg ar gyfer dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, o 1 Ionawr 2027”

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Crynodeb / Casgliad

Mae'r cynnig gan Gyngor Gwynedd ac ynglŷn â chau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu addysg ar gyfer dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, o 1 Ionawr 2027, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf. Fodd bynnag, gallai'r trefniadau teithio arfaethedig gyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Nebo fynychu clybiau brecwast a gweithgareddau ar ôl yr ysgol yn Ysgol Llanllyfni, pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith.

Disgrifiad a manteision

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu rhesymeg resymol ar gyfer ei gynnig. Mae'n ymddangos bod prif gryfder y cynnig hwn yn ymwneud â manteision ariannol cau Ysgol Nebo a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Llanllyfni. Mae'r ysgol wedi cael ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol gan ei bod yn wynebu nifer o heriau. Mae'r cynnig yn dweud bod nifer y dysgwyr yn yr ysgol wedi gostwng dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan arwain at sefyllfa ddifrifol gyda dim ond 11 o ddysgwyr o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 ac un dysgwr dosbarth meithrin ar y gofrestr yng nghyfrifiad Medi 2025. Mae mwy o dystiolaeth ategol o'r heriau, gan gynnwys canran uchel y lleoedd dros ben, y meintiau dosbarthiadau bach gydag ystod oedran eang, ac amcanestyniadau niferoedd y disgyblion, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod Ysgol Nebo yn ysgol wledig, ac mae'n ymddangos yr eir i'r afael â'r gofynion ychwanegol ar gyfer ysgolion gwledig. Mae'r cynigiwr yn darparu disgrifiad addas o fanwl o'r cynnig, yn cynnwys gwybodaeth am natur a chwmpas y newidiadau cynlluniedig a'r ysgolion a'r dysgwyr sy'n cael eu heffeithio. Mae'r cynnig hefyd yn amlinellu amserlen ragamcanol briodol ar gyfer yr holl weithdrefnau statudol. Mae'r amserlen sy'n dechrau ar 14 Hydref 2025 ac yn cau ar 31 Rhagfyr 2026, yn amlinellu camau allweddol yr ymgynghoriad, cyhoeddi hysbysiadau statudol, y cyfnod gwrthwynebu, a'r dyddiad disgwylidig ar gyfer weithredu.

Mae'r cynnig yn amlinellu nifer o risgiau a sut bydd y Cyngor yn lliniaru yn erbyn hyn. Mae'n ymddangos bod y Cyngor wedi amlinellu cryfderau a gwendidau'r cynnig hwn ynghyd â llawer o ddewisiadau amgen, yn cynnwys ffedereiddio ag ysgol gyfagos, yn dda. At ei gilydd, mae'r cynnig wedi darparu rhesymau digonol ynglŷn â pham mae dewisiadau amgen wedi cael eu diystyru. Mae'n ymddangos bod y brif fantais a nodwyd yn y cynnig yn ymwneud â'r agweddau ariannol. Yn bwysig, mae'r cynnig hefyd yn amlygu'r effaith gadarnhaol ar ddisgyblion o Ysgol Nebo, a fyddai'n ennill cyfleoedd cynyddol i gymdeithasu a chydweithio â grŵp mwy o gyfoedion. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhagdybiaeth resymol.

Mae'r cynnig yn cydnabod ei bod yn ymddangos yn debygol y bydd cau Ysgol Nebo yn cael effaith negyddol ar y gymuned, gan fod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio'n helaeth, ac nid oes canolfan gymunedol ddynodedig yn y pentref. Mae trigolion Nebo a Nasareth yn defnyddio'r 'ystafell gymunedol' yn aml i gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau, yn cynnwys gwasanaethau Sul y Cofio, clybiau lleol, a gwersi Cymraeg. Byddai colli'r lle hwn yn creu her sylweddol i'r gymuned, gan fod y gweithgareddau hyn yn dibynnu ar adeilad yr ysgol fel eu prif ganolfan.

Mae'r cynigiwr yn amlinellu rhywfaint o liniaru, yn cynnwys yr angen i sicrhau bod cymuned Nebo yn ymwybodol o weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol amgen a bod cydweithio rhwng y ddwy gymuned yn cael ei annog. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod angen mwy o fanylion i esbonio sut byddai gweithgareddau cymunedol yn cael eu cefnogi'n ymarferol, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio, ac yn y tymor hirach.

Mae'r cynnig hefyd yn datgan y byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn elwa ar y cyfleusterau a'r gweithgareddau ar ôl yr ysgol sydd ar gael yn Ysgol Llanllyfni. Er gwaethaf hyn, nid yw'r cynigiwr yn esbonio sut bydd cludiant ar gyfer gweithgareddau'r tu allan i oriau, yn cynnwys clwb brecwast, yn cynorthwyo'r disgyblion sy'n dibynnu ar y gwasanaeth hwn i allu manteisio'n llawn ar y cyfleoedd hyn.

Mae'r Cyngor yn nodi tair risg bosibl yn gysylltiedig â'r cynnig, sef: diffyg gwneud penderfyniadau, cludiant annigonol ar gyfer y trefniadau newydd, ac ansawdd addysg yn y tymor byr wrth i sefyllfa ysgol gael ei hadolygu. Mae'r cynnig yn amlinellu effaith bosibl pob risg ac yn amlinellu camau priodol i'w lliniaru.

Nid yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen i ddisgyblion deithio pellter afresymol os byddant yn symud i'r ysgol amgen. Mae Ysgol Nebo 1.6 milltir o Ysgol Llanllyfni, a'r daith yn cymryd tua 5 munud. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â pholisi'r sir, ar gost amcangyfrifedig flynyddol o £17,000. Mae'n ymddangos bod hwn yn ymagwedd resymol; fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth yn mynd i'r afael â chludiant ar gyfer gweithgareddau y tu allan i oriau neu weithgareddau ar ôl yr ysgol.

Mae'r Cyngor wedi dangos yn briodol beth yw sefyllfa pob ysgol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o ran lleoedd dros ben. Mae lleoedd dros ben yn y ddwy ysgol ar hyn o bryd. Mae 46 (79%) o leoedd dros ben yn Ysgol Nebo, yn cynnwys disgyblion oedran meithrin. Mae 45 o leoedd dros ben (yn cynnwys 1 lle meithrin) yn Ysgol Llanllyfni, ac felly mae'n darparu capasiti digonol ar gyfer nifer y dysgwyr o'r ddwy ysgol ar hyn o bryd, ac am y tair blynedd nesaf. Dros y pum mlynedd nesaf, mae amcanestyniadau ar gyfer Ysgol Nebo yn parhau'n sefydlog, sef 11 disgybl, ar gyfartaledd. Mae ffigurau wedi'u dadgyfuno ar gyfer Ysgol Llanllyfni yn dangos cynnydd cyfartalog yn niferoedd y disgyblion o ryw 13% dros yr un cyfnod. Mae'n ymddangos bod rhesymeg addas ar gyfer cyfuno niferoedd, cynyddu nifer y dosbarthiadau ar draws un ysgol a gwneud arbedion ariannol trwy weithredu un ysgol yn unig.

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth dda i effaith y cynigion ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod lleol a'r graddau y mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, felly byddai'r cynnig yn cynnal argaeledd y ddarpariaeth Gymraeg. Mae'r polisi iaith yr un fath ar gyfer pob un o ysgolion cynradd Gwynedd; felly, mae'n rhesymol dod i'r casgliad y byddai'r ddarpariaeth yn aros yn gyson, ni waeth pa ysgol y mae dysgwyr yn dewis ei mynychu.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn rhan o'r cynnig hwn. Mae Estyn yn rhoi sylwadau ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig, ac nid yw'n gwerthuso'r asesiadau effaith unigol hyn.

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i oblygiadau ariannol y cynnig. Y gost gyfartalog fesul dysgwr yn Ysgol Nebo yw £25,867, o gymharu â'r gost gyfartalog fesul dysgwr yng Ngwynedd, sef £5,780. O dan y cynnig, y gost ragamcanol fesul dysgwr yn Ysgol Llanllyfni yn 2026–27 yw £5,798. Mae hyn yn arbediad nodedig yng nghyllideb yr ysgol, gydag arbedion blynyddol disgwylidig o ryw £143,000, sy'n gostwng i ryw £113,000 ar ôl cyfrifo ar gyfer hyd at £30,000 mewn costau cludiant ychwanegol. Yn ogystal, o ran staffio ac adnoddau ysgol ehangach, os caiff y cynnig i gau Ysgol Nebo ei roi ar waith ar 31 Rhagfyr 2026, byddai swyddi staff yn dod i ben ar yr adeg honno, gan arwain at ddiswyddiadau.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth briodol i effaith y cynigion ar ansawdd a safonau mewn addysg, yn cynnwys safonau disgyblion, lles, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad, ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r cynnig hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i ddeilliannau arolygiadau'r ddwy ysgol gan Estyn. Mae'r cynigiwr yn nodi bod Estyn wedi barnu bod ansawdd yr addysg yn y ddwy ysgol yn dda.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith debygol y cynigion ar gyflwyno'r cwricwlwm llawn. Yn benodol, mae'r Cyngor yn nodi bod cael Cylch Meithrin ar safle Ysgol Llanllyfni yn debygol o ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sylfaen. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar a darpariaeth Dechrau'n Deg. Mewn cyferbyniad, ar wahân i ddosbarth meithrin yr ysgol, nid oes darpariaeth blynyddoedd cynnar arall yn Ysgol Nebo.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y cynigion ar ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n amlinellu bod adeilad Ysgol Llanllyfni yn darparu cyfleusterau sydd gyfwerth â'r cyfleusterau yn Ysgol Nebo, yn cynnwys darpariaeth arbenigol addas ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r cynnig yn datgan y byddai anghenion dysgwyr bregus yn cael eu hasesu a'u diwallu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod.

Mae'r cynnig yn cydnabod y gall ad-drefnu ysgolion greu tarfu ac ansicrwydd i ddysgwyr. Mae'n nodi y gellir lleihau tarfu o'r fath fel arfer trwy gyfathrebu clir ac ymgysylltu ystyrlon yn ystod y broses ymgynghori, ac mae wedi cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu eu safbwyntiau. Mae hefyd yn ymddangos bod y cynnig yn cydnabod bod angen cymorth pontio targedig a chadarnhaol ar gyfer disgyblion yn Ysgol Nebo fel rhan o'r trefniadau gweithredu. Mae'r cynnig hefyd yn cydnabod yr effaith bosibl ar staff ac yn cyfeirio at becyn cymorth a fydd ar gael i staff, lle bo'n briodol, trwy gydol y broses.”

Crynodeb o'r Materion a Godwyd gan Estyn ac Ymateb y Cyngor

Wrth ystyried ymateb Estyn i'r cynnig, mae'r Cyngor yn nodi bod Estyn wedi cadarnhau bod y cynnig yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ac wedi nodi bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal o leiaf. Mae'r Cyngor yn croesawu'r casgliad hwn ac yn nodi bod cynnal a gwella profiad addysgol dysgwyr wedi bod yn ystyriaeth ganolog wrth ddatblygu'r cynnig.

Mae Estyn wedi amlygu'r heriau cynaliadwyedd sylweddol sy'n wynebu Ysgol Nebo, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o leoedd gwag, meintiau dosbarthiadau bach gydag ystod oedran eang, a rhagamcanion niferoedd sy'n parhau'n isel. Mae'r Cyngor yn nodi bod yr holl ffactorau hyn wedi'u hystyried yn fanwl fel rhan o'r gwerthusiad opsiynau, ynghyd â'r effaith addysgol ac ariannol gysylltiedig. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor yn nodi'n glir fod capasiti digonol yn Ysgol Llanllyfni, gyda lleoedd dros ben priodol, i dderbyn dysgwyr Ysgol Nebo, a bod amcanestyniadau presennol a'r dyfodol yn dangos bod Ysgol Llanllyfni yn gallu darparu ar gyfer y niferoedd hyn.

Mae Estyn hefyd wedi cydnabod statws Ysgol Nebo fel ysgol wledig, ac wedi nodi ei bod yn ymddangos bod y cynnig yn mynd i'r afael â'r gofynion ychwanegol ar gyfer ysgolion gwledig. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y cynnig wedi'i asesu'n benodol yn erbyn y ffactorau sy'n berthnasol i ysgolion gwledig, gan gynnwys y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, ac mai dim ond ar ôl ystyried pob opsiwn amgen rhesymol, a dod i'r casgliad nad oedd yr un ohonynt yn mynd i'r afael â'r prif heriau, y daethpwyd i'r farn bod y cynnig yn briodol.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi sylwadau Estyn ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn cadarnhau y byddai'r cynnig yn cynnal darpariaeth Gymraeg gyson o fewn y Sir, gan fod y ddwy ysgol sy'n destun y cynnig yn ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd yn gweithredu o dan yr un polisi iaith.

Mae Estyn wedi codi pryderon ynghylch effaith bosibl cau'r ysgol ar y gymuned leol, o ystyried rôl Ysgol Nebo fel adnodd cymunedol allweddol, ac wedi nodi bod angen mwy o eglurder ynghylch trefniadau lliniaru ymarferol, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio a'r tymor hirach. Mae'r Cyngor yn cydnabod y materion hyn ac yn cydnabod y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar y gymuned. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig i gau Ysgol Nebo, nodir y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel y fframwaith ar gyfer ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol.

Yn ogystal, mae Estyn wedi nodi pryderon ynghylch trefniadau cludiant, yn enwedig o ran mynediad dysgwyr at glybiau brecwast a gweithgareddau ar ôl ysgol. Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant ysgol yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Cyngor Gwynedd. O dan y Polisi hwn, mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant ysgol di-dâl i ddysgwyr sy'n byw yn y sir ac sydd wedi cofrestru mewn ysgol sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor, sef dysgwyr sy'n derbyn addysg cynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin). Yn ogystal, lle asesir nad yw llwybr cerdded yn rhesymol ddiogel i blentyn oed cynradd ei ddefnyddio, bydd trefniadau cludiant yn cael eu darparu yn unol â darpariaethau'r Polisi. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cludiant dibynadwy i deuluoedd. Fodd bynnag, nid yw cludiant ysgol, fel arfer, yn cael ei ddarparu i hwyluso mynediad at wasanaethau ychwanegol megis clybiau brecwast, ac mae trefniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn unol â'r polisi cludiant a'r meini prawf statudol perthnasol.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod Estyn wedi cydnabod bod y cynnig yn rhoi ystyriaeth briodol i oblygiadau ariannol, anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a'r angen am gymorth pontio i ddysgwyr a staff. Mae'r Cyngor yn cadarnhau, pe byddai penderfyniad i weithredu'r cynnig, y byddai trefniadau pontio priodol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau parhad darpariaeth, cymorth ac adnoddau addas wrth symud ysgol, yn unol â pholisiau a gweithdrefnau'r Awdurdod.

5. CRYNODEB O'R MATERION A GODWYD GAN YMGYNGOREION

Darperir isod grynodedb o'r prif faterion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ynghyd â'r ymatebion yr awdurdod i'r materion hynny.

1. Gwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Nebo

1.1 Gwrthwynebiad cyffredinol i'r cynnig i gau'r ysgol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
1.1.1	"Hynod o siomedig fod meddwl cau yr ysgol...Hollol anheg i deuluoedd ifanc lleol oedd wedi gobeithio cael plant yn mynd i'r ysgol"	Mae'r Cyngor yn nodi'r gwrthwynebiadau a'r siom sylweddol a fynegwyd mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Nebo. Nodwyd fod gwrthwynebiad clir i'r cynnig wedi'i fynegi, gyda nifer o'r ymatebion yn pwysleisio gwerth hanesyddol, cymunedol ac emosiynol yr ysgol, ynghyd â'r farn y dylai'r ysgol barhau ar agor er gwaethaf niferoedd isel o ddysgwyr.
1.1.2	"Dwi'n anghytuno gyda'r cynnig i gau Ysgol Nebo am nifer fawr o resymau."	
1.1.3	"Rwy'n anghytuno gyda'r penderfyniad o gau Ysgol Nebo."	
1.1.4	"dwy i'n hollol siomedig â'r agwedd yr Cyngor Sir a'r bwriad o gau Ysgol Nebo."	Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r sylwadau a wnaed yn tynnu sylw at rôl ganolog Ysgol Nebo ym mywyd y gymuned leol ers cyfnod estynedig iawn, gan gynnwys cyfeiriadau penodol at hanes hir yr ysgol a'i chyfraniad parhaus i fywyd y pentref.
1.1.5	Mynegir siom gref wrth y cynnig i gau'r ysgol, gan bwysleisio gwerth yr ysgol er gwaethaf niferoedd bach.	
1.1.6	" <i>Nid wyf yn cytuno â'r cynnig i gau'r ysgol.</i> "	
1.1.7	" <i>Cadwch yr ysgol ar agor.</i> "	Yn ogystal, nodir y safbwyntiau a fynegwyd fod yr ysgol yn cael ei gweld fel ysgol gymunedol sy'n cynnig amgylchedd addysgol bach, cynnes a chefnogol, lle mae plant wedi ffynnu ac wedi mwynhau profiad addysgol cadarnhaol. Mae'r Cyngor yn nodi hefyd y pryderon a godwyd y gallai symud i ysgol fwy beri heriau i rai dysgwyr, yn enwedig o ran setlo, lles a natur bersonol profiad addysgol.
1.1.8	"rwy'n ailadrodd ac atgyfnerthu fy ngwrthwynebiad clir i'r cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026."	
1.1.9	Mynegir y farn na ddylid cau Ysgol Nebo.	
1.1.10	Mynegir anghytundeb â'r cynnig i gau'r ysgol, gyda'r farn fod y safbwynt hwn yn cael ei rannu gan rieni eraill yr ysgol.	Mae'r Cyngor yn ffafrio'r cynnig i gau Ysgol Nebo am ei fod yn ymateb i'r heriau sylweddol y mae'r ysgol yn eu hwynebu, sef:
1.1.11	" <i>Hoffwn gofnodi fy ngwrthwynebiad i gau Ysgol Nebo.</i> "	
1.1.12	"Tydwi ddim yn cytuno hefo'r cynnig i gau Ysgol Nebo. Mae fy mlant a'n wyrion yn gyn ddisgyblion o Ysgol Nebo a wedi cael addysg o safon uchel iawn."	
1.1.13	" <i>Fel cyn-ddisgybl Ysgol Nebo, rwy'n wirioneddol drist ac yn hynod siomedig wrth y cynnig i'w chau! Doedd yr ysgol ddim yn unig yn nechrau fy addysg; yr ysgol oedd sylfaen fy mywyd... Rwy'n gobeithio y caiff y cynnig i'w chau ei ailystyried er mwyn caniatáu i genedlaethau'r dyfodol gael y cyfle am brofiad addysg cyflawn a chyfannol!! Mae Ysgol Nebo yn sefydliad arbennig, ac rwy'n credu y byddai trigolion Nebo... yn elwa o'r cariad, y gefnogaeth a'r sicrwydd y mae'n eu cynnig.</i> "	- niferoedd isel iawn o ddysgwyr, sydd wedi bod yn gyson dros gyfnod o amser; - canran uchel iawn o lefydd gwag; - dosbarthiadau bychan gydag amrediad oedran eang; - rhagamcanion niferoedd isel i'r dyfodol, nad ydynt yn awgrymu gwelliant sylweddol yn y sefyllfa;

1.1.14	“Ar ran Cyngor Cymuned Dolbenmaen, hoffwn fynegi ein gwrthwynebiad cryf i’r cynnig i gau Ysgol Nebo... Rydym yn galw ar Gyngor Gwynedd i ailystyried y cynnig hwn”	• patrwm clir o ddewis gan ddysgwyr y dalgylch, gyda’r mwyafrif eisoes yn mynychu ysgolion eraill; • cost fesul dysgwr sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol, sy’n codi pryderon am gynaliadwyedd ariannol hirdymor.
1.1.15	<i>“Byddai’n drueni mawr i Ysgol Nebo gau ei drysau ar ôl bod yn ganolbwynt i’r pentref ers dros 150 mlynedd. Mae wedi darparu amgylchedd addysgol cynnes a chyfeillgar i gannoedd o blant dros y blynyddoedd, ac mae gan gyn-ddisgyblion atgofion hoff iawn o’u cyfnod yn yr ysgol.”</i>	
1.1.16	“Gwrthwynebaf yn gru na ddyled yr ysgol gau...Ysgol gymuned ydiw ag yn galon y pentref.”	
1.1.17	Mynegir gwrthwynebiad clir i gau’r ysgol, gyda galwad i’w chadw ar agor. Nodir bod yr ysgol yn rhan fawr ac allweddol o fywyd y gymuned leol.	Yn ogystal, mae’n bwysig egluro, fel y nodir yn adran 9 o’r Ddogfen Ymgynghori Statudol, mai ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026. Ni chaiff y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad eu trin fel gwrthwynebiadau ffurfiol. Byddai cyfle penodol i gyflwyno gwrthwynebiadau statudol pe byddai’r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen i gyhoeddi hysbysiad statudol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.
1.1.18	Mynegir tristwch a gwrthwynebiad i gau ysgol wledig, gan bwysleisio bod yr ysgol yn ganolbwynt i’r gymuned ac wedi gwasanaethu’r ardal ers amser hir. Nodir bod plant wedi bod yn hapus ac yn elwa o addysg mewn amgylchedd bach, cartrefol, ac y gallai symud i ysgol fwy beri her o ran setlo a lles. Pwysleisir bod lleoliad yr ysgol yn galluogi plant i fwynhau a gwerthfawrogi hanes, harddwch a natur yr ardal leol fel rhan o’u profiad.	Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, bydd rhaid cyflwyno’r adroddiad ar yr ymgynghoriad i’r Cabinet er mwyn crynhoi’r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i’r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, bydd y Cabinet yn penderfynu p’run ai a ddylid bwrw ymlaen â’r cynnig hwn ai peidio.
1.1.19	<i>“Dylid achub ysgolion megis Nebo a Baladeulyn rhag cael eu cau.”</i>	Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod yr holl sylwadau a dderbyniwyd wedi’u hystyried yn llawn wrth lunio’r adroddiad ymgynghori yma (Atodiad A – Adroddiad Ymgynghori), ac wedi llywio’r asesiadau pellach a’r gwerthusiad o’r cynnig a’r opsiynau amgen rhesymol. Os yw’r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid i’r cynnig gael ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd "cyfnod gwrthwynebu" o 28 diwrnod o’r dyddiad pan gyhoeddir y cynnig. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig Ar ôl i’r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o’r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i’r gwrthwynebiadau mewn "Adroddiad Gwrthwynebu". Yn dilyn hynny, bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr adroddiad gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi cyrraedd ei

		benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi'n ysgrifenedig, ynghyd â rhesymau penodol dros y penderfyniad.

2. Sylwadau am Ysgol Nebo

2.1 Manteision Ysgol Fach, Ansawdd Addysg a Derbyniad Cynhwysol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
2.1.1	<i>“Nid yw'r nifer fach o ddisgyblion yn Ysgol Nebo yn gwneud synnwyr ariannol. Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion yn dod â llawer o fanteision. Mae'r disgyblion, ynghyd â'r athrawon rhagorol a'r staff cefnogi, wedi creu amgylchedd hynod ddiogel, sicr, cefnogol ac un sy'n meithrin hyder i'r holl ddisgyblion sy'n mynychu.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd sy'n tynnu sylw at fanteision posibl y ddarpariaeth addysgol yn Ysgol Nebo, gan gynnwys addysg bersonol o safon uchel, dosbarthiadau bach, lefel uchel o sylw unigol, a'r berthynas agos rhwng disgyblion, staff a'r gymuned. Bu i rai ymatebion dynnu sylw hefyd at effaith gadarnhaol yr amgylchedd meithringar ar hyder, llesiant, datblygiad cymdeithasol ac anghenion emosiynol rhai dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n ffynnu mewn lleoliadau bach gwledig.
2.1.2	<i>“Mae'r ffaith bod y niferoedd ar y gofrestr wedi cynyddu'r flwyddyn academaidd hon i 12 yn adlewyrchu'r ffaith ei bod yn denu disgyblion i'r ysgol.”</i>	
2.1.3	<i>“Mae Ysgol Nebo wedi dangos bod ansawdd yr addysgu a'r gefnogaeth a ddarperir i'r dysgwyr sy'n mynychu'n cael manteision sylweddol, fel y dengys y cynnydd o 50% yn nifer y disgyblion eleni. Mae'n hysbys bod buddsoddi mewn plant yn ifanc a mynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu yn dwyn manteision wrth iddynt dyfu'n hŷn.”</i>	Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd Asesiad o Effaith debygol y cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg, ac fe'i diweddarwyd yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r asesiad diwygiedig yn cydnabod bod perfformiad presennol Ysgol Nebo wedi'i werthuso fel 'Da' gan Estyn, a bod y ddarpariaeth bresennol yn cynnig profiad addysgol cadarnhaol i'r dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.
2.1.4	<i>“Mae yr athrawon yn fy marn yn un o rhai gora rwyff wedi ei cyfarfod ag yn rhoid mwy nai hamser i bob plentyn.”</i>	
2.1.5	<i>“Pam creu dosberthi mawr sydd ddim yn rhoid chwara teg i blentyn cael sylw ag yn syrthio ynol yn ei bywud academaidd.” “Heb son am greu pwysa mwy ar athrawon ysgolion efo gormodadd o blant mewn dosbarth.”</i>	Yn yr un cyd-destun, mae'r Cyngor o'r farn fod y ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Llanllyfni, fel yr ysgol amgen arfaethedig, yn cynnwys dosbarthiadau o faint mwy addas gyda ystod oed llai, a all gynnig manteision i rai dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o gyfleoedd i ddysgu a chymdeithasu gyda chyfoedion o'r un oed.
2.1.6	<i>“Mae Ysgol Nebo yn debyg iawn i deulu, ac mae bob amser ymdeimlad o deulu yn yr ysgol. Mae gan y plant a'r staff berthynas dda iawn, ac mae'r holl staff yn adnabod y plant yn dda iawn.”</i>	
2.1.7	<i>“fel rhywun gaeth ei addysgu yn Ysgol Nebo am 5 blwyddyn, a wedyn gadawodd y DU – y blynedd ffurfiannol yn y pentre gofanodd sens o ymberthyn, diwylliant, iaith a hapusyrwydd hefyd efo addysg ardderchog ffurfiannol.”</i>	Fodd bynnag, nodir bod yr adolygiad o ddyfodol Ysgol Nebo wedi'i gynnal gan fod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagolygon niferoedd sy'n parhau'n isel yn y
2.1.8	<i>“Am y plant... mae'n glir bod y plant efo addysg dda so dydy hwnna ddim yn cwestiwn i drafod.”</i>	

2.1.9	Nodir bod yr ysgol yn darparu opsiwn defnyddiol pan nad yw ysgol arall yn y dalgylch yn addas.	tymor canolig a'r tymor hir. Yn ogystal, dengys patrymau dewis yn y dalgylch fod y mwyafrif o ddysgwyr yn dewis mynychu ysgolion eraill. Ar sail cymharu adroddiadau Estyn ac asesu'r opsiynau yn erbyn y meini prawf perthnasol, dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Llanllyfni yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg. Nodir bod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb, fan lleiaf, i'r ddarpariaeth bresennol ac yn galluogi i ddysgwyr gael eu haddysgu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.
2.1.10	<i>“Cefais brofiad uniongyrchol o sut mae'r ysgol hon wedi cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion sy'n mynychu. Mae'r ysgol hon yn hollbwysig wrth gefnogi plant sydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn amgylchedd hamddenol sy'n cysylltu â natur a seiliau cadarnhaol bywyd. Mae'r ysgol hon yn darparu ar gyfer ac yn meithrin pob plentyn, ac mae angen i hyn barhau.”</i>	
2.1.11	Disgrifir staff yr ysgol fel profiadol, tosturiol ac ymroddedig, gan greu amgylchedd cynnes a chefnogol.	
2.1.12	Mynegir bod yr amgylchedd meithringar yn cefnogi hyder, llesiant a datblygiad personol disgyblion.	
2.1.13	Nodir bod rhai disgyblion yn ffynnu mewn ysgol fach wledig lle cânt sylw digonol, a bod yr awyrgylch yn yr ysgol yn teimlo'n saff iddynt.	
2.1.14	Nodir bod maint bach y cohort yn cefnogi addysg, datblygiad cymdeithasol ac empathi, gyda gwell cysylltiadau rhwng disgyblion.	
2.1.15	Nodir bod dosbarthiadau bach ac arferion addysgu oedrannau cymysg yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, empathi a rhyngweithio cadarnhaol rhwng disgyblion. Pwysleisir bod maint bach y dosbarth yn galluogi mwy o amser a sylw unigol gan athrawon a chynorthwyyr.	Fel uchod.
2.1.16	<i>“Honodd y ddogfen ymgynghori (heb dystiolaeth fanwl) fod 'dosbarthiadau mwy yn well', ond mae'r dystiolaeth o Ysgol Nebo yn awgrymu nad yw hyn o reidrwydd yn wir ym mhob amgylchiadau.”</i>	
2.1.17	“Mae Cyngor Gwynedd yn honni fod 'dosbarthiadau mwy yn well'. Yn anffodus, nid oes unrhyw ymchwil i gefnogi'r argymhell yma gyda'r gorfforaeth Human Scale Education yn cyflwyno tystiolaeth cadarn sy'n profi'r gwrthwyneb. Felly gofynaf am eich tystiolaeth a ffynnonellau i gefnogi eich argymellion hyn?”	

2.2 Ansawdd y ddarpariaeth addysgol a thystiolaeth o safon uchel

	Sylw	Ymateb y Cyngor
2.2.1	“Mae Ysgol Nebo'n cynnig addysg o ansawdd uchel iawn i'w disgyblion (5x Da i gymharu a 3x Da i Ysgol Llanllyfni yn 2017).”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad am safon yr addysg yn Ysgol Nebo, gan gynnwys canfyddiadau arolygiadau Estyn.
2.2.2	“Mae'r Pecyn Asesiadau Effaith yn cadarnhau nad oes methiant addysgol yn Ysgol Nebo. Cafodd yr ysgol ei hasesu'n 'Dda' gan Estyn”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad am safon yr addysg yn Ysgol Nebo, gan gynnwys canfyddiadau arolygiadau Estyn.
2.2.3	“Mae Ysgol Nebo wedi cynnig gwasanaeth addysgol o safon uchel i ddisgyblion yn ddi-dor.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad am safon yr addysg yn Ysgol Nebo.

2.3 Perthnasoedd cadarnhaol, ethos yr ysgol a'u heffaith ar lwyddiant a llesiant disgyblion

	Sylw	Ymateb y Cyngor
2.3.1	“Yn ystod cyfnod y pandemic roedd plant Nebo yn cael cymorth a gofal o bell gan eu hathrawon... Fodd bynnag... bod rhai o'r rhai a gollodd eu haddysg blynnyddoedd cynnar yn ystod cyfnod y pandemic yn nawr, mor aml, yn cael trafferth gyda'u hanghenion o fewn dosbarthiadau mwy.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
2.3.2	“Yn ddiweddar, mae Ysgol Nebo wedi bod yn croesawu mwy o blant sydd wedi canfod ysgolion mwy a phrysur yn rhy llethol. Mae'r dosbarthiadau llai a'r lleoliad gwledig wedi golygu bod plant sydd wedi ei chael hi'n anodd dychwelyd i'r ysgol ers Covid yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol hon... Mae'r lleoliad gwledig yn darparu mannau diogel ar gyfer cerdded a chysylltu â natur.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
2.3.3	“Mae llwyddiant addysg pobl ifanc yn aml yn dibynnu ar y perthnasoedd a ddatblygir rhwng disgyblion a'r athrawon / yr ysgol. Po fwyaf cadarnhaol yw'r berthynas honno, y mwyaf y bydd y disgybl yn ei gyflawni – nid yn academiaidd yn unig, ond hefyd o ran llesiant, iechyd meddwl a'r gallu i ymdopi â bywyd fel oedolyn.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.

2.4 Profiadau dysgwyr/cyn-ddisgyblion

	Sylw	Ymateb y Cyngor
2.4.1	<i>“Rwyf wedi gweld bod plant sy’n mynychu Ysgol Nebo yn cael eu haddysgu cymaint y tu hwnt i ffeithiau a ffigurau yn unig. Cânt eu hannog i ofalu am natur, eu hamgylchedd a’u cymuned, i ofalu am eu cyfoedion ac i barchu eu hynafiaid – oll yn gymwysterau pwysig tuag at dyfu i fyny a dod yn ddinasyddion da. Gall llawer o hyn gael ei golli mewn amgylchedd ysgol fwy, oherwydd cyfyngiadau amser ac adnoddau.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau cadarnhaol ynghylch profiadau a datblygiad y dysgwyr.
2.4.2	“Fel Nain i ddau fachgen... rydw i wedi eu gweld nhw yn elwa o ymroddiad ac ymrwymiad unigryw a gofal y staff addysgu, a gwneud y trawsnewid i’r ysgol uwchradd efo rhwyddineb llwyr i ddod yn fechgyn llawn hyder ac aeddfed yn eu harddegau.”	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau cadarnhaol ynghylch profiadau a datblygiad cyn-ddysgwyr.

2.5 Cysylltiad â’r gymuned a dysgu y tu allan

	Sylw	Ymateb y Cyngor
2.5.1	“Mae ysgol Nebo yn arbennig, yn unigryw ac yn cynnig addysg a gofod diogel, llesol, hapus a chartrefol ohewydd ei lleoliad; ei pherthynas agos gyda’r gymuned, y math o addysg mae’n ei gynnig yn ddyddiol ac nad ydyw’n bosibl mewn ysgolion eraill oherwydd ei lleoliad a’r gofod sydd ar gael yno; addysg ginasthetig, ynghanol byd natur yn yr awyr agored, mae’n gallu ymateb i ofynion arbennig ei disgyblion boed yn ddisgyblion prif lif boed yn dioddef o ddiffyg hyder, heriau iechyd, gorbryder, yn isel eu gallu, anghenion dysgu ychwanegol/ niwroamrywiaeth o fewn muriau mewnol a thu allan yr ysgol...y disgyblion yn gallu mynegi eu meddyliau, eu myfyrdodau a thrafod y byd o’u cwmpas mewn awyrgylch hamddenol....y math o addysg mae’n ei gynnig yn ddyddiol ac nad ydyw’n bosibl mewn ysgolion eraill oherwydd ei lleoliad a’r gofod sydd ar gael yno....mae’n gallu ymateb i ofynion arbennig ei disgyblion boed yn ddisgyblion prif lif boed yn dioddef o ddiffyg hyder, heriau iechyd, gorbryder, yn isel eu gallu, anghenion dysgu ychwanegol/ niwroamrywiaeth. y disgyblion yn gallu	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau cadarnhaol a gyflwynwyd ynghylch profiad addysgol Ysgol Nebo, gan gynnwys gwerth y ddarpariaeth ddysgu yn yr awyr agored, yr amgylchedd cefnogol a’r gefnogaeth bersonol a gysylltir â maint a lleoliad yr ysgol. Mae’r materion hyn wedi’u hystyried wrth ddiweddarau’r Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg, sy’n dod i’r casgliad, ar sail cymharu canfyddiadau arolygiadau Estyn a’r dystiolaeth berthnasol, bod y ddarpariaeth addysgol a gynigir yn Ysgol Llanllyfni o leiaf yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Nebo ar hyn o bryd, gyda manteision ychwanegol, gan gynnwys y posibilrwydd i ddysgwyr gael eu haddysgu ochr yn ochr â mwy o gyfoedion o’r un oedran. O ganlyniad, nodir yn yr asesiad mai niwtral neu rannol gadarnhaol yw’r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg pe bai’r cynnig yn cael ei weithredu.

	mynegi eu meddyliau, eu myfyrdodau a thrafod y byd o'u cwmpas mewn awyrgylch hamddenol”	
2.5.2	“Mae nhw yn gael y cynnig i ddysgu yn yr awyr agored, sydd yn wych i plant bach, cael cyfleuon wych a ffyrdd hollol wahanol o ddysgu. Mae fy [mhlentyn] wrth ei bodd yno...ag mi fydd yn bechod gorfod [] symyd i ysgol arall o achos y Cyngor eisiau cynilo arian. Beth am y'r effaith fydd ar y plant? Colli'r cynnigion gorau o ddysgu, y'r amsar un ar un gyda'i athrawon”	Fel uchod.
2.5.3	Nodir bod disgyblion Ysgol Nebo yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u haddysg. Tynnir sylw at weithgareddau dysgu yn yr awyr agored sy'n caniatáu i blant werthfawrogi a mwynhau'r amgylchedd lleol.	Fel uchod.
2.5.4	Tynnir sylw at werth yr ardal awyr agored fel adnodd addysgol sy'n cefnogi rheolaeth emosiynol a datblygiad cymdeithasol.	Fel uchod.
2.5.5	Nodir bod lleoliad a maint yr ysgol yn hwyluso mwy o ymweliadau addysgol a phrofiadau dysgu estynedig.	Fel uchod.

2.6 Dosbarthiadau bach a chefnogaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol/ADY

	Sylw	Ymateb y Cyngor
2.6.1	“Ysgol Nebo yn rhoi gwell addysg arbennig i ddisgyblion ADY nag unrhyw ysgol arall.” “Mae'r rhan fwyaf o ysgolion eraill yn cynnig addysg ADY ar wahan i weddill y dosbarth: yn y neuadd, mewn dosbarth arall, hyd yn oed ar y coridor, ond mae Ysgol Nebo yn llawn gynnwys y disgyblion ADY yn eu dosbarthiadau, ac wedi gwneud hynny erioed.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n pwysleisio'r gefnogaeth gynhwysol a ddarperir i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Ysgol Nebo, gan gynnwys y farn bod maint bach yr ysgol o safbwynt niferoedd y dysgwyr, a'r dull addysgu yn galluogi lefel uchel o gynhwysiant, sylw personol ac ymateb hyblyg i anghenion emosiynol, cymdeithasol a niwroamrywiol rhai dysgwyr. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r sylwadau oedd yn mynegi'r safbwynt bod dosbarthiadau llai yn gallu bod o fudd penodol i blant sy'n profi anawsterau mewn lleoliadau mwy, ac y gallai Ysgol Nebo gynnig model addysgol amgen ar gyfer y dysgwyr rheini.
2.6.2	Nodir bod yr ysgol yn arbennig o addas i blant ag anghenion emosiynol, cymdeithasol neu niwroamrywiol sydd yn cael trafferth mewn lleoliadau mwy traddodiadol.	
2.6.3	“Mae cyfle unigryw yma i addasu Ysgol Nebo a chreu datrysiad i anghenion disgyblion bregus”	
2.6.4	<i>“Mae rhagdybiaeth bod dosbarthiadau mwy yn well, er bod swyddogion addysg wedi cydnabod bod dosbarthiadau llai yn wirioneddol helpu plant ag anghenion arbennig, beth bynnag fo'r anghenion hynny. Gallai Ysgol Nebo ddarparu'r dosbarthiadau llai, mwy canolog hyn ar gyfer plant o'r fath.”</i>	Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg, a chafodd hwn ei gynnwys fel rhan o'r ddogfennaeth ymgynghori statudol. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, cafodd yr asesiad ei ddiweddarau.
2.6.5	<i>“Mae'r rhagdybiaeth fod dosbarthiadau mwy yn well yn mynd yn groes i'r hyn sy'n cael ei ganfod ar hyn o bryd mewn rhannau eraill o'r DU, lle maent</i>	

	<i>wrthi'n mynd ati'n weithredol i leihau maint dosbarthiadau. Mae swyddogion addysg wedi cydnabod bod dosbarthiadau llai yn wirioneddol o fudd i blant ag anghenion arbennig, beth bynnag fo'r anghenion hynny."</i>	Mae'r asesiad diwygiedig yn parhau i gydnabod bod dyletswydd statudol ar bob ysgol i ddarparu cefnogaeth briodol i ddysgwyr ag ADY, ac yn nodi bod ysgolion mwy yn aml â darpariaeth ehangach, strwythurau cymorth mwy cadarn, a mynediad at ystod ehangach o ymyriadau a chymorth arbenigol. Ar sail cymharu canfyddiadau arolygiadau Estyn a'r dystiolaeth berthnasol, daw'r asesiad i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol a gynigir yn Ysgol Llanllyfni o leiaf yn cyfateb i'r ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Nebo ar hyn o bryd, gan gynnwys o safbwynt cefnogi dysgwyr ag ADY.
2.6.6	<i>"Mae rhagdybiaeth bod dosbarthiadau mwy yn well, er bod swyddogion addysg wedi cydnabod bod dosbarthiadau llai yn wirioneddol o fudd i blant ag anghenion arbennig, beth bynnag fo'r anghenion hynny... "Er bod diagnosis ar gael i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), mae llawer o blant eraill sydd ag anawsterau neu broblemau sydd hefyd angen math gwahanol o gefnogaeth. Yn aml, nid yw hyn yn bosibl mewn ysgolion mwy, tra bod Ysgol Nebo eisoes yn gallu dangos gwerth y math hwn o addysg ar gyfer y plant hyn yn union, sy'n ffynnu yno."</i>	O ganlyniad, er bod y Cyngor yn nodi'r safbwyntiau a fynegwyd o blaid dosbarthiadau bach a'r manteision canfyddedig i rai dysgwyr, mae Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, fel y'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad, yn dod i'r casgliad y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o arwain at effaith niwtral neu rannol gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg, gan nodi y byddai'r ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gallu diwallu anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn unol â gofynion statudol a pholisi'r Awdurdod.

2.7 Effaith ar y Gymraeg a'r ethos Gymraeg

	Sylw	Ymateb y Cyngor
2.7.1	<i>"Aeth fy [mhlentyn] i Ysgol Nebo am flwyddyn yn unig, ond honno oedd y flwyddyn fwyaf anhygoel ym mywyd ifanc fy mhlentyn. Daethom i Gymru o [...], ac nid oedd [ef/hi] yn siarad gair o Gymraeg cyn i ni gyrraedd. Ar ôl blwyddyn, roedd [ef/hi] yn rhugl."</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau cadarnhaol a fynegwyd ynghylch profiad addysgol y dysgwr yn Ysgol Nebo, gan gynnwys cefnogi datblygiad ieithyddol a hwyluso integreiddio llwyddiannus i'r Gymraeg mewn cyfnod byr.
2.7.2	<i>"Mae Ysgol Nebo wastad wedi cadw at bolisi Cymraeg-Saesneg cytbwys iawn, fel y gallai plant newydd o ysgolion eraill ag anghenion arbennig integreiddio'n rhwydd."</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.

2.8 Datblygiad cymdeithasol ac empathi

	Sylw	Ymateb y Cyngor
2.8.1	<i>“Cefais fy nharo gan awyrgylch teuluol, cariadus a meithringar Ysgol Nebo, ac roeddwn wedi fy nghyffroi gan faint o fynediad oedd gan y disgyblion at brofiadau dysgu bywyd go iawn, cymunedol ac awyr agored. O ganlyniad, roeddem yn fodlon rhoi cynnig ar Ysgol Nebo. Mae fy [mhlentyn] yn ei charu ac wedi ymgartrefu’n gyflym ym mhob un o’r cyfleoedd dysgu gwych... Rydym hefyd wedi sylwi faint mae ein [plentyn] yn rhyngweithio â phlant iau ac yn eu cefnogi... Credwn fod dosbarthiadau bach oedran-gymysg fel hyn yn berffaith ar gyfer datblygiad cymdeithasol mwy cyflawn.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad.

2.9 Profiad uniongyrchol o wella llesiant

	Sylw	Ymateb y Cyngor
2.9.1	<i>“Fe benderfynon ni roi cyfle i Ysgol Nebo ar gyfer fy [mhlentyn]. Ni allwn fod yn hapusach nag ydw i nawr fel [ei] fam, gan weld fy [mhlentyn] yn mynd o fod yn blentyn hynod wrthgymdeithasol i ddod yn ôl yn fy [mhlentyn] unwaith eto... Mae Ysgol Nebo wir wedi helpu fy [mhlentyn] i wella, ac rwy’n hynod ddiolchgar i’r athrawon sydd wedi helpu’n wirioneddol... Mae fy [mhlentyn] mor hapus nawr yn mynd i’r ysgol... yn edrych ymlaen at fynd i’r ysgol – rhywbeth na welais erioed o’r blaen... yn dysgu Cymraeg ac yn gwneud yn arbennig o dda, ac wedi gwneud ffrindiau anhygoel... Rwy’n gallu eistedd gartref bellach gan wybod bod fy [mhlentyn] yn hapus yn yr ysgol, rhywbeth na chefais i erioed... Os gwelwch yn dda, rwy’n erfyn arnoch fel ei mam, dewch o hyd i ffordd o beidio â chau Ysgol Nebo. Rwy’n ofnus iawn ac yn drist hyd yn oed wrth ddychmygu fy [mhlentyn] yn mynd yn ôl i sgwâr un eto. Peidiwch â chymryd hapusrwydd fy [mhlentyn]... mae [wedi] mynd drwy gymaint o drawma, ac ni allaf oddef gweld fy [mhlentyn] yn gorfod mynd yn ôl pe bai Ysgol Nebo yn cau. Byddwn wrth fy modd pe bai brawd/chwaer fy [mhlentyn] hefyd yn ymuno â’r ysgol.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad.

2.10 Canran uchel o ddysgwyr all-dalgylch yn mynychu Ysgol Nebo

	Sylw	Ymateb y Cyngor
2.10.1	<i>“Ar hyn o bryd, mae 78% o’r disgyblion yn dod o’r tu allan i’r dalgylch. Yn sicr, mae hyn yn dangos bod gan Ysgol Nebo enw da yn yr ardal leol? Mae hyn yn rheswm ychwanegol dros geisio cadw’r ysgol ar agor.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau sy’n tynnu sylw at y ffaith bod canran uchel o ddysgwyr Ysgol Nebo yn mynychu o’r tu allan i’r dalgylch, a’r safbwyntiau a fynegwyd fod hyn yn adlewyrchu profiadau addysgol cadarnhaol yn Ysgol Nebo. Fodd bynnag, nodir hefyd bod patrwm cyson lle mae cyfran sylweddol o ddysgwyr dalgylch Nebo yn mynychu ysgolion eraill y tu allan i’r dalgylch. Yn ôl data Ionawr 2026, mae 78% o’r plant sy’n byw yn nalgylch Ysgol Nebo yn mynychu ysgolion y tu allan i’r dalgylch, tra bod 83% o’r dysgwyr sy’n mynychu Ysgol Nebo yn byw y tu allan i’r dalgylch.
2.10.2	<i>“Mae’r ddogfen yn nodi bod 78% o’r disgyblion yn mynychu o’r tu allan i’r dalgylch, felly mae’n rhaid bod rhywbeth yn denu dysgwyr i’r ysgol.”</i>	
2.10.3	<i>“Dywedwyd bod rhai o’r dysgwyr sydd bellach yn Ysgol Nebo yn arfer ofni mynd i’w hysgol flaenorol, ond bellach yn frwdfrydig am fynychu’r ysgol. Mae tua 78% o’r dysgwyr hyn yn teithio o’r tu allan i ddalgylch yr ysgol, sy’n dangos bod y profiad dysgu a gynigir yn Ysgol Nebo yn cynnig manteision nodedig o’i gymharu ag ysgolion lleol eraill.”</i>	
2.10.4	<i>“Mae nifer o’r disgyblion o du allan i’r dalgylch yn dewis mynychu’r ysgol, a hynny oherwydd natur gyfeillgar a chefnogol yr ysgol sydd yn sicrhau bod y disgyblion yn ffynnu beth bynnag bo’u gallu a’u hanghenion”</i>	Fel uchod.
2.10.5	<i>“mae canran uchel o ddisgyblion all-dalgylch yn mynychu’r ysgol, sy’n awgrymu bod rhieni’n dewis Ysgol Nebo am resymau penodol e.e. dosbarthiadau bach, gofal unigol, a llesiant.”</i>	Fel uchod.
2.10.6	<i>“Os yw 78% o’r disgyblion yn mynychu o’r tu allan i’r dalgylch, mae’n rhaid bod rhywbeth yn denu dysgwyr? Mae gan Ysgol Nebo enw da am helpu plant i ffynnu, yn enwedig os oes ganddynt rai anghenion.”</i>	Fel uchod.
2.10.7	<i>“Os yw 78% yn mynychu o’r tu allan i’r dalgylch, rhaid bod rhywbeth yn denu dysgwyr? Mae gan Ysgol Nebo enw da am helpu plant i ffynnu yn enwedig os oes ganddynt rai anghenion.”</i>	Fel uchod.
2.10.8	<i>“Os yw 78% o’r disgyblion yn mynychu o’r tu allan i’r dalgylch, mae’n rhaid bod rhywbeth yn denu dysgwyr?”</i>	Fel uchod.
2.10.9	<i>“Os yw 78% yn mynychu o’r tu allan i’r dalgylch, rhaid bod rhywbeth yn denu dysgwyr?”</i>	Fel uchod.
2.10.10	<i>“Os yw 78% o’r disgyblion yn mynychu o’r tu allan i’r dalgylch, mae’n rhaid bod rhywbeth yn denu dysgwyr? Mae gan Ysgol Nebo enw da am helpu plant i ffynnu, yn enwedig os oes ganddynt rai anghenion.”</i>	Fel uchod.

2.10.11	Nodir bod canran uchel (75%) o ddisgyblion all-ddalgylch yn Ysgol Nebo sy'n awgrymu bod rhinweddau penodol yn denu teuluoedd i'r ysgol. Gofynnir pa asesiad sydd wedi ei gynnal i ddarganfod beth sy'n denu dysgwyr i Ysgol Nebo. Awgrymir mai natur bach a meithringar a chymuned Ysgol Nebo sy'n denu dysgwyr.	Fel uchod.
2.10.12	Nodir bod tua hanner y disgyblion wedi dod o Ysgol Llanllyfni.	Fel uchod.

2.11 Sylwadau'n tynnu sylw at gynnydd diweddar yn niferoedd Ysgol Nebo

	Sylw	Ymateb y Cyngor
2.11.1	<i>“Y mis Medi hwn, cynyddodd nifer y dysgwyr yn yr ysgol 50% i 12.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd yn tynnu sylw at y cynnydd diweddar yn nifer y dysgwyr yn Ysgol Nebo, gan gynnwys y ffaith bod niferoedd wedi codi i 12 o ddysgwyr ym mis Medi 2025. Cydnabyddir hefyd y safbwyntiau a fynegwyd fod niferoedd isel yn her ehangach sy'n effeithio ar ysgolion ledled y Sir.
2.11.2	“Rwy'n cydnabod bod Ysgol Nebo mewn sefyllfa fregus oherwydd niferoedd isel, fodd bynnag, mae hyn yn batrwm ehangach ar draws y Sir, nid sefyllfa unigryw i Ysgol Nebo. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi cynyddu 50% ers y flwyddyn flaenorol, sy'n tanseilio'r casgliad fod dirywiad anochel. “	Er gwaethaf y cynnydd diweddar, mae niferoedd dysgwyr wedi bod yn isel ers peth amser, gyda dim ond 11 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 a 1 dysgwr Meithrin ar y gofrestr ym Medi 2025, o gymharu â chapasiti'r ysgol o 51, gan arwain at ganran uchel iawn o lefydd gweigion. Mae'r rhagamcanion yn awgrymu y bydd niferoedd dysgwyr yn parhau'n isel, gyda thua 10 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin wedi'u rhagweld erbyn Medi 2028.
2.11.3	“Mae ysgolion bach hefyd yn cael ei effeithio yn llai gan unrhyw newid (e.e mae 10% yn llai o blant yn cael ei geni yn golygu 2 yn llai o blant mewn ysgol fach gyda 20 disgybl, ble byddai ysgol gyda 200 yn colli 20). Mae ysgolion bach yn well ar gyfer y dyfodol gan fydd llai o blant ac yn llai o faint. Y gwir amdani ydi fod ysgolion mawr y Sir eisiau llenwi eu dosbarth er mwyn gwneud fyny am y golled, ac felly yn ceisio blaenoriaethu cau ysgolion bach i roi plwg yn y gap. Mae'r Cyngor yn barod iawn i ariannu ysgolion mwyaf y sir, er bod niferoedd yn gostwng yno hefyd”	Er bod y Cyngor yn cydnabod y gall ffactorau annisgwyl effeithio ar niferoedd yn y dyfodol, mae'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn awgrymu nad oes disgwyl cynnydd cynaliadwy yn niferoedd dysgwyr yn Ysgol Nebo yn y tymor canolig na'r tymor hir. O ganlyniad i'r niferoedd dysgwyr isel parhaus, mae Ysgol Nebo yn wynebu heriau cynyddol o ran cynaliadwyedd y ddarpariaeth, gan gynnwys lefel uchel o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a chyfleoedd cyfyngedig i ddysgwyr gael eu haddysgu ochr yn ochr â chyfoedion o'r un oedran.

2.12 Sylwadau'n cwestiynu'r dibynadwydd y rhagamcanion niferoedd

	Sylw	Ymateb y Cyngor
2.12.1	"mae'r 'projected numbers' ddim i fod yn cynyddu, ond mae hwn yn sbeciannol hefyd."	Mae'r rhagamcanion niferoedd ar gyfer Ysgol Nebo wedi'u llunio ar sail gwybodaeth am dueddiadau'r gorffennol a data perthnasol sydd ar gael ar adeg yr adolygiad. Darperir rhagamcanion ar gyfer y tair blynedd gyntaf gan yr ysgol, tra bo'r rhagamcanion ar gyfer blyneddau pedair a phump yn cael eu cyfrifo gan yr awdurdod. Cydnabyddir nad yw llunio rhagolygon niferoedd yn wyddoniaeth fanwl, ac y gall ffactorau annisgwyl effeithio ar niferoedd mewn unrhyw gymuned dros amser. Serch hynny, ar sail niferoedd dysgwyr presennol, rhagamcanion niferoedd, a'r tueddiadau derbyn dros nifer o flynyddoedd, mae'r Adran Addysg o'r farn bod y dystiolaeth yn awgrymu y bydd niferoedd dysgwyr yn Ysgol Nebo yn parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir.
2.12.2	"Gall ffactorau annisgwyl amharu ar batrymau demograffig."	
2.12.3	"Mae rhagolygon niferoedd disgyblion yn enwog am fod yn annibynadwy. Mae llawer o ffactorau y tu hwnt i reolaeth y rhai sy'n llunio'r rhagolygon, megis polisi tai, y sefyllfa ffoaduriaid, arferion cynllunio, bonhemaiddio (gentrification) ac enw da ardaloedd ac ysgolion. Efallai na fydd adeiladu ac agor ysgolion newydd, yn fuan ar ôl cau eraill, yn gwneud llawer o synnwyr o safbwynt cynllunio o gwbl."	
2.12.4	"Mae'n amhosibl dweud a fydd nifer y disgyblion yn gostwng neu'n cynyddu dros y deng mlynedd nesaf."	
2.12.5	"Rwyf sicr yn derbyn fod gostyngiad mewn cyflenwad geni yn rhywbeth i ystyried - ond wrth gwrs mae pethau yn medru newid ac mae damcaniaethau'r swyddogion yn ddim ond hynny- 'rhagolygon'. Pan roeddwn yn Ysgol Nebo, dau ddisgybl oedd yn fy mlwyddyn babanod, ble roedd 8 disgybl pan nesi adael blwyddyn 6 (cynnydd o 300%)."	

2.13 Effaith ansicrwydd am ddyfodol yr ysgol ar ddewis rhieni a niferoedd dysgwyr

	Sylw	Ymateb y Cyngor
2.13.1	"Mae swyddogion wedi methu yn ei dyletswydd i sicrhau fod plant lleol eisiau mynychu'r ysgolion yma. Nid yw yn gyfrinch fod Swyddogion Gwynedd wedi bod eisiau cau yr ysgol ers blyneddau. Mae sôn mai dim ond 29% o blant y dalgylch sydd yn mynychu'r ysgol - dwi ddim yn synnu, mae effaith y Cyngor yn hongian y penderfyniad yma dros y gymuned ers blyneddau fel cleddyf Damocles. Wrth gwrs nid yw rhieni ddim eisiau i'w plant orfod symud ganol ei addysg - mae hyn yn naturiol."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n mynegi pryder bod ansicrwydd parhaus ynghylch dyfodol Ysgol Nebo wedi dylanwadu ar benderfyniadau rhai rhieni i anfon eu plant i ysgolion eraill, ac y gallai hyn fod wedi cyfrannu at batrymau cofrestru presennol. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r sylwadau a nodwyd y farn bod diffyg sicrwydd tymor hir yn gallu tanseilio hyder rhieni yn y ddarpariaeth leol, a bod hyn yn annheg ar y gymuned a'r ysgol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod sefydlogrwydd a sicrwydd yn ffactorau pwysig i rieni wrth wneud penderfyniadau ynghylch addysg eu plant, ac y gall cyfnodau hir o ansicrwydd greu pryder i deuluoedd. Yn y cyd-destun
2.13.2	Nodir bod ansicrwydd parhaus dros ddyfodol yr ysgol wedi arwain rhai rhieni i anfon plant i ysgolion eraill, a bod hynny'n annheg.	
2.13.3	"Yr wyf yn ymateb fel unigolyn i'r cynnig hwn oherwydd fy mhrofiad personol - yn gyntaf o gau ysgol bentre gyffelyb yn fy nghymuned fy hun, ac yn ail	

	oherwydd brwydr sydd ymlaen ar hyn o bryd yma yn Sir Gaerfyrddin i wrthwynebu cau Ysgol Meidrim gan y credaf fod yma wersi ar gyfer penderfynu ar ddyfodol Ysgol Nebo.” “bu cynlun i gau Ysgol Llanfihane-gl-ar-arth yn ol yn 1986 gan fod y Cyngor Sir wedi amcangyfri mai dim ond 9 plentyn fyddai yn yr ysgol erbyn 1991. Enilwyd y frwydr i gadw'r ysgol ar agor ac, yn 1991, bu 31 disgybl, nid 9. Y wers yw fod rhieni'n lawer mwy tebygol o ddanfôn eu plant at ysgol pan fydd sicrwydd am blynnyddoedd canlynol o'i dyfodol.”	hwn, nodir bod y Cyngor yn adolygu dyfodol Ysgol Nebo gan fod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gweigion, patrymau dalgylch, a rhagamcanion niferoedd yn y tymor canolig a'r tymor hir. Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol, dechreuodd y trafodaethau ffurfiol ynghylch dyfodol Ysgol Nebo yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 11 Chwefror 2025 i ganiatáu i'r Adran Addysg ymgysylltu â'r corff llywodraethol, rhieni a rhanddeiliaid perthnasol er mwyn ystyried ystod o opsiynau posibl. Cynhaliwyd cyfarfodydd lleol fel rhan o'r broses hon, cyn i'r Cabinet benderfynu ar 14 Hydref 2025 i symud ymlaen i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r Cyngor yn nodi bod y trafodaethau hyn wedi'u cynnal er mwyn ystyried yr heriau a wynebai'r ysgol a chasglu tystiolaeth berthnasol cyn symud i'r cam ymgynghori statudol. Cydnabyddir bod nifer o ffactorau ac ystyriaethau amrywiol yn dylanwadu ar ddewisiadau addysgol rhieni.

2.14 Sylwadau am baratoi bwyd ysgol ar y safle a lleihau dibyniaeth ar gludo bwyd o ysgolion eraill

	Sylw	Ymateb y Cyngor
2.14.1	“Mae yna gegin yna iddynt gael bwyd sydd ddim yn cael ei goginio mewn ysgol arall ai gludo i fewn.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.

3. Gwerth addysgol ysgol fach wledig

3.1 Addysg bersonol, dosbarthiadau bach a sylw unigol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
3.1.1	“Mae ysgol fach yn cynnig addysg bersonol o safon uchel, gyda chymorth unigol i bob plentyn mewn amgylchedd diogel a chefnogol.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n pwysleisio manteision ysgol fach, gan gynnwys addysg bersonol o safon uchel, dosbarthiadau bach, a lefel uchel o sylw unigol i ddysgwyr mewn amgylchedd diogel, cefnogol a chynhwysol. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r safbwynt a fynegwyd gan rai ymatebwyr fod dulliau addysgu a dosbarthiadau mwy mewn ysgolion mwy yn gallu bod yn heriol i rai plant, gan leihau'r cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth unigol.
3.1.2	<i>“Mae ysgolion gwledig bach fel ein hysgol ni yn cynnig amgylchedd dysgu sy'n anodd ei efelychu mewn mannau eraill. Gyda dosbarthiadau llai, mae disgyblion yn cael mwy o sylw unigol a chefnogaeth academaidd gryfach. Mae athrawon yn gallu adnabod eu disgyblion yn dda, ymateb i anghenion unigol, a meithrin diwylliant ysgol cadarnhaol a chynhwysol.”</i>	
3.1.3	<i>“Mae'r dosbarthiadau bach yn meithrin sylw unigol i bob disgybl a phrofiad dysgu mwy personol, sydd o fudd mawr iawn i ddatblygiad plant yn y blynyddoedd cynnar.”</i>	
3.1.4	<i>“Roedd maint bach y dosbarthiadau yn galluogi dull llawer mwy personol a hamddenol o ymdrin â chyfnod cymharol anodd ym mywyd person ifanc.”</i>	
3.1.5	Nodir bod maint bach yr ysgol yn galluogi athrawon i roi mwy o sylw personol a diwallu anghenion dysgu unigol.	Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cynhaliwyd Asesiad o Effaith debygol y cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg, ac fe'i cynhwyswyd fel rhan o'r ddogfennaeth ymgynghori statudol. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, cafodd yr Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r materion a godwyd, gan gynnwys y sylwadau ynghylch manteision dosbarthiadau bach, addysg bersonol a'r profiad dysgu cadarnhaol a ddarperir yn Ysgol Nebo ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid yw'r diweddariad hwn wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiad.
3.1.6	Tynnir ar brofiad addysgu mewn ysgol fawr i nodi effeithiau negyddol dosbarthiadau mawr ar sylw unigol. Pwysleisir bod dosbarthiadau bach yn galluogi addysg bersonol lle mae pob plentyn yn cael ei weld a'i glywed.	
3.1.7	<i>“Mae llawer yn cael ei ysgrifennu yn y cyfryngau ac mewn mannau eraill am fanteision ysgolion bach, ac yn aml iawn mewn perthynas â'r sector addysg breifat – pam, felly, mae ysgolion bach yn cael eu hystyried yn fuddiol i'r sector preifat, ond nid i'r sector cyhoeddus?”</i>	
3.1.8	<i>“Lle rwy'n byw nawr, caewyd ysgol y pentref a symudwyd y plant i ysgol fwy... mae plant yn y dosbarthiadau mwy hyn yn cael eu gadael ar ôl ac yn cael trafferth llawer mwy gan nad yw athrawon yn gallu rhoi unrhyw gefnogaeth ychwanegol iddynt oherwydd y llwyth gwaith uwch. O ganlyniad, mae'r plant llai academaidd yn ei chael hi'n anodd iawn cadw i fyny.”</i>	

3.1.9	Dadleuir bod dulliau addysgu safonol mewn ysgolion mawr yn gallu bod yn llethol i rai plant.	Dengys yr Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg, fel y'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghori, ar sail cymharu adroddiadau Estyn ac asesu'r opsiynau, y byddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo'r dysgwyr i Ysgol Llanllyfni yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg. Mae'r asesiad yn nodi bod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Llanllyfni yn cyfateb, fan lleiaf, i'r safon a ddarperir yn Ysgol Nebo ar hyn o bryd, a bod yr ysgol amgen yn gallu cynnig cyfleoedd ehangach i ddysgwyr gael eu haddysgu ochr yn ochr â mwy o gyfoedion o'r un oedran.
3.1.10	<i>"Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn nodi bod dosbarthiadau mwy yn well. Fodd bynnag, mae adborth gan gyn-athrawon yn awgrymu mai'r lleiaf yw maint y dosbarth, y gorau."</i>	
3.1.11	Nodir bod y teulu'n dymuno i'w plentyn fynychu Ysgol Nebo pan fydd yn cyrraedd oed ysgol, gan fod dosbarthiadau bach a sylw mwy pwrpasol gan athro/athrawes yn cael eu hystyried yn fuddiol. Nodir rhyngweithio a pherthnasoedd cymunedol yr ysgol fel rhan o brofiad addysg "cyflawn" a chytbwys.	

3.2 Oedran cymysg, datblygiad cymdeithasol a llesiant

	Sylw	Ymateb y Cyngor
3.2.1	Cwestiynir sail ddamcaniaethol a pholisi addysgol y ddogfen ymgynghori, gan honni ei bod yn seiliedig ar ragdybiaeth bod addysgu mewn grwpiau mawr o ddysgwyr o'r un oed yn cynnig profiadau dysgu gwell na'r hyn a ddarperir mewn ysgolion bach gwledig â dosbarthiadau oedran gymysg. Dadleuir bod ysgolion fel Ysgol Nebo yn cynnig model addysgol amgen â manteision datblygiadol a llesiant, gan gynnwys perthnasoedd rhyng-oedran cryfach, mwy o gefnogaeth unigol, a mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu ymarferol ac ymgysylltiad cymunedol. Mynegir pryder penodol ynghylch casgliadau'r asesiad effaith addysgol, sy'n awgrymu effaith gadarnhaol o symud dysgwyr i ysgol fwy ar sail bod mwy o gyfoedion o'r un oed. Yn ôl y sylw, dylid ystyried bod arolygon diweddar y ddwy ysgol wedi'u hasesu'n "Dda", ac felly gallai'r effaith fod yn niwtral, neu o bosibl andwyol, o safbwynt datblygiad cymdeithasol a llesiant. Cyfeirir at dystiolaeth ddamcaniaethol i gefnogi'r farn bod lleoliadau un-oed mawr yn gallu lleihau cysylltiad â modelau oedolion a chryfhau diwylliant sy'n canolbwyntio'n ormodol ar gyfoedion. Yn ogystal, pwysleisir bod ysgolion bach yn gallu cynnig profiadau addysgol ehangach a mwy hyblyg, megis teithiau mwy aml, dysgu yn yr awyr agored, a chysylltiadau cryfach â'r gymuned leol, sy'n cael eu gweld fel cyfraniad uniongyrchol at lesiant dysgwyr. Dadleuir mai'r un fantais glir o gau'r ysgol a	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n tynnu sylw at fanteision posibl addysg mewn lleoliad oedran gymysg, yn enwedig o safbwynt datblygiad cymdeithasol, perthnasoedd rhwng disgyblion o wahanol oedrannau, a chefnogi llesiant a hyder plant mewn ysgolion bach gwledig. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r safbwynt a fynegwyd gan rai ymatebwyr fod dosbarthiadau aml-oedran yn gallu gweithredu fel amgylchedd teuluol estynedig, lle mae disgyblion hŷn yn cefnogi rhai iau ac yn cyfrannu at brofiadau cymdeithasol cadarnhaol, a bod modelau o'r fath yn anodd eu hefelychu mewn ysgolion mwy. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cynhaliwyd Asesiad o Effaith debygol y cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg, ac fe'i cynhwyswyd fel rhan o'r ddogfennaeth ymgynghori statudol. Yn dilyn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad, cafodd yr Asesiad Effaith ei ddiweddarau i adlewyrchu'r materion a godwyd, gan gynnwys y safbwyntiau yma. Fodd bynnag, nid yw'r diweddariad hwn wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiad. Mae'r asesiad diwygiedig yn cydnabod, ar sail arolygiad Estyn diweddaraf Ysgol Nebo, fod yr ysgol wedi'i gwerthuso fel 'Da' yn y maes llesiant ac agweddau at ddysgu.

	nodir yw arbedion ariannol i'r Adran Addysg, a chodir cwestiwn a yw'r pwyslais hwn ar arbedion yn unig yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd yn gofyn am ystyried effeithiau cymdeithasol a llesiant ehangach yn ogystal â chostau uniongyrchol.	Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig nodi bod Ysgol Nebo yn cael ei hadolygu am ei bod yn wynebu heriau sylweddol a pharhaus, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel dros gyfnod estynedig, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagamcanion niferoedd sy'n parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir. Yn ogystal, dengys y dystiolaeth fod patrymau dewis yn y dalgylch wedi arwain at y mwyafrif o ddysgwyr yn mynychu ysgolion eraill.
3.2.2	"Mae ysgolion bach fel Nebo yn cynnig sylw unigol, dosbarthiadau llai, a chymorth personol sy'n hanfodol i gynnydd academiaidd a lles emosiynol. Bydd symud i ysgol fwy yn lleihau'r cyfleoedd hyn ac yn gallu achosi straen i blant, yn enwedig y rhai iau. Mae'r cyngor yn credu y bydd colli'r amgylchedd cynnes a chymunedol yn cael effaith negyddol ar hyder a datblygiad cymdeithasol plant."	Fodd bynnag, ar sail cymharu adroddiadau Estyn ac asesu'r opsiynau yn erbyn y meini prawf perthnasol, dengys yr Asesiad Effaith y byddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo'r dysgwyr i Ysgol Llanllyfni yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg. Mae'r asesiad yn nodi bod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Llanllyfni yn cyfateb, fan lleiaf, i'r safon a ddarperir yn Ysgol Nebo ar hyn o bryd, a bod yr ysgol amgen yn gallu cynnig cyfleoedd ehangach i ddysgwyr gael eu haddysgu ochr yn ochr â mwy o gyfoedion o'r un oedran.
3.2.3	"Hefyd, mae plant sydd yn teimlo dieithriad yn fwy tebygol o deimlo'n fwy hyderus mewn ysgol fach lle mae gan athrawon a chynorthwyyr ofal drostynt."	O ganlyniad, er bod y Cyngor yn nodi'r safbwyntiau a fynegwyd o blaid addysg oedran gymysg, ynghyd â'r manteision posibl i ddatblygiad cymdeithasol a llesiant rhai dysgwyr, mae Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, fel y'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad, yn dod i'r un casgliad. Deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Llanllyfni yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Nebo. Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda cyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Nebo yn Ysgol Llanllyfni.

3.3 Ysgolion bach gwledig: ymdeimlad o berthyn, cymuned, llesiant disgyblion a rôl ehangach yr ysgol o fewn yr ardal leol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
3.3.1	Pwysleisir pwysigrwydd ymdeimlad o berthyn i blant sy'n tyfu i fyny mewn ardaloedd gwledig.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n pwysleisio rôl ysgolion bach gwledig wrth feithrin ymdeimlad cryf o berthyn, cymuned glos, a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng disgyblion, teuluoedd a staff. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r sylwadau a wnaed yn tynnu sylw at y cyfleoedd ychwanegol a allai fod ar gael i ddisgyblion mewn ysgolion bach i gymryd rhan mewn gweithgareddau, prosiectau cymunedol a dysgu yn yr awyr agored, gan gyfoethogi profiad ysgol a chefnogi llesiant a hyder plant sy'n tyfu i fyny mewn ardaloedd gwledig. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd gan rai ymatebwyr fod ysgolion bach yn chwarae rôl ehangach o fewn y gymuned leol, gan gynnwys defnyddio adnoddau lleol, cefnogi gweithgarwch economaidd lleol, a chyfrannu at gynaliadwyedd ehangach megis lleihau'r angen i deithio.
3.3.2	Nodir bod ysgolion gwledig bach yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned lle mae disgyblion, rhieni a staff yn adnabod ei gilydd yn dda.	
3.3.3	Amlygir bod disgyblion mewn ysgolion bach yn cael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrosiectau, gan gyfoethogi eu profiad ysgol.	
3.3.4	Nodir bod ysgolion gwledig yn cynnig cyfleoedd cryf ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a phrofiadau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol.	
3.3.5	Nodir bod ysgolion bach yn aml yn defnyddio adnoddau lleol, gan leihau'r ôl troed carbon a chefnogi'r economi leol.	
3.3.6	Mynegir y farn ei bod yn bwysig i gymunedau gadw ysgolion gwledig bach ar agor er mwyn sicrhau dyfodol gwell i blant.	
3.3.7	<i>"Fy mhrif amcan yw codi ymwybyddiaeth o ba mor hanfodol ac angenrheidiol yw'r ysgolion hyn mewn cymunedau, gan eu bod nid yn unig yn darparu hafan ddiogel i blant, ond hefyd yn cefnogi iechyd meddwl, hapusrwydd, tegwch a dealltwriaeth. Mewn amgylchedd o'r fath, mae plant yn ffynnu gyda'r nod o wireddu eu potensial llawn."</i>	Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cafodd effaith debygol y cynnig ar ansawdd a safonau addysg ei hasesu. Er bod yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg wedi'i ddiweddarau yn dilyn ystyried y sylwadau hyn, nid yw'r ystyriaethau ychwanegol wedi arwain at newid i gasgliad yr asesiad. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig nodi bod Ysgol Nebo yn cael ei hadolygu am ei bod yn wynebu heriau sylweddol a pharhaus, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel dros gyfnod estynedig, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagamcanion niferoedd sy'n parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir. Yn ogystal, dengys y dystiolaeth fod patrymau dewis yn y dalgylch wedi arwain at y mwyafrif o ddysgwyr yn mynychu ysgolion eraill. O ganlyniad, er bod y Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd ynghylch gwerth cymunedol ac addysgol ysgol fach gwledig fel Ysgol Nebo, dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, fel y'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad, pe gweithredir y cynnig, y byddai'r ddarpariaeth amgen yn Ysgol Llanllyfni yn gallu cynnig trefniant addysgol sy'n parhau i gefnogi ansawdd a safonau addysg addas i ddysgwyr y dalgylch.

4. Sylwadau o blaid y cynnig i gau Ysgol Nebo

4.1 Gwerth am arian, cost y pen a thegwch ariannol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
4.1.1	“Cefnogaf y cynnig yn gryf. Mae parhau l gynnal y ddwy ysgol tra bod eu niferoedd cyn ised, eu llefydd gweigion cymaint a'r gost y pen cyn uchred mewn hinsawdd ariannol heriol yn anheg, afresymol ac anfoesol. Mae'n warthus fod ysgolion sydd a chost y pen o £5–6k yn wynebu trefniadau ‘gormodedd’ tra bod ysgolion bychan iawn a chost y pen o 3 neu 4 gwaith hynny yn cael eu gwarchod.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
4.1.2	“Rwyf yn cytuno y dylid cau yr ysgol gan nad yw'n cynnig gwerth am arian. ae'n hollol hurt bod cyn gymaint o adnoddau yn cael eu rhoi i addysgu criw mor fach a hynny ar draul ysgolion mwy...Mi fydd yn llesol i blant Nebo gymysgu a chymdeithasu â mwy o blant o'r un oed.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
4.1.3	Mynegir cefnogaeth i gau'r ysgol ar sail barn nad yw'r ddarpariaeth yn cynnig gwerth digonol am arian, gyda'r farn na fyddai colli'r ysgol yn effeithio'n sylweddol gan y gellid trosglwyddo disgyblion i Ysgol Llanllyfni.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.

4.2 Manteision canfyddedig ysgolion mwy a dosbarthiadau un oedran

	Sylw	Ymateb y Cyngor
4.2.1	“Yn gyffredinol credaf fod profiad fy mhlant o ‘ysgol fawr’ yn un mwy cadarnhaol na phrofiad eu cyfoedion mewn ‘ysgolion bach’.... mae dosbarth un flwyddyn yn golygu fod holl l gynnwys gwersi yn berthnasol iddynt - i'r gwrthwyneb i'r sefyllfa mewn dosbarth oedran cymysg ble mae'n rhaid i'r athrawon rannu eu hamser rhwng nifer o oedrannau (5 mlynedd mewn un dosbarth y gwn amdano!...mae ganddynt fwy o gyfoedion a dewis ehangach o ffrindiau o'u hoed...maent yn dod l gyswllt ac yn ymwneud â nifer o blant o ystod o gefndiroedd sydd yn brofiad llawer mwy cynrychioladwy o'r hyn sydd i'w haros mewn cymdeithas ehangach... ..dylai ysgolion cynradd baratoi disgyblion ar gyfer yr uwchradd - dychmygaf fod symud o ysgol gynradd o lai na 20 l ysgol uwchradd 20 gwaith y maint yn wirioneddol frawychus”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.

4.3 Rhesymoli'r ddarpariaeth ysgolion a newidiadau demograffig

	Sylw	Ymateb y Cyngor
4.3.1	"mae llawer mwy o ysgolion na sydd angen, maent yn adlewyrchiad o anghenion cymdeithas 100 mlynedd a mwy yn ol pan oedd dosbarthiad poblogaeth yn wahanol a pobol yn llawer mwy cyfyngedig eu symudiad. Mae teithio llawer haws heddiw ac nid oes angen cynifer o ysgolion mor agos i'w gilydd. Mae pobol yn gwbl fodlon ac yn dewis teithio l ysgol ac eithrio'r agosaf fel tystiolaetha niferoedd disgyblion all dalgylch"	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.

5. Effaith y cynnig ar lesiant, gofal unigol a phrofiad addysgol ddysgwyr presennol Ysgol Nebo

5.1 Pryderon ymatebwyr ynghylch effaith newid ysgol ac ail-leoli dysgwyr ar lesiant emosiynol, addasu cymdeithasol a grwpiau bregus

	Sylw	Ymateb y Cyngor
5.1.1	"Mae'r syniad o symud disgyblion i Ysgol Llanllyfni yn codi pryderon ynghylch teithio, lles disgyblion, ac effaith emosiynol newid ysgol, yn enwedig i blant iau. Gallai hyn effeithio ar eu hyder, eu hymdeimlad o berthyn, a'u profiad addysgol cyffredinol... Gallai newid ysgol arwain at lefelau uwch o straen a phryder ymhlith disgyblion, yn enwedig i blant iau sydd yn teimlo'n sownd wrth newid eu trefn a'u cyfeillion. Mae cysylltiad emosiynol gyda'r ysgol presennol yn bwysig i llesiant a datblygiad plant."	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch yr effaith bosibl o ail-leoli dysgwyr presennol Ysgol Nebo i ysgol fwy, yn enwedig o safbwynt llesiant emosiynol, addasu cymdeithasol a hyder plant iau a dysgwyr bregus. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r pryderon a fynegwyd y gallai symud o amgylchedd ysgol fechan, gyda dosbarthiadau bach a chefnogaeth bersonol, i leoliad gyda dosbarthiadau mwy ei gwneud yn anos i rai disgyblion addasu, ffurfio cyfeillgarwch newydd ac ymdeimlo'n rhan o'r gymuned ysgol, gan gynnwys pryderon ynghylch risg o fwlio a'r effaith ar ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r Cyngor yn nodi hefyd y pryderon a godwyd ynghylch dysgwyr sydd eisoes wedi symud ysgol yn y gorffennol, gan nodi y gallai ail-leoli pellach, neu ddychwelyd i ysgolion a adawyd eisoes, arwain at effaith anghymesur ar eu llesiant emosiynol. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn nodi'r cyfeiriadau a wnaed at effaith bosibl y cynnig ar rai grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys plant nad ydynt mewn addysg brif ffrwd ar hyn o bryd, a'r modd y gallai trefniadau addysgol priodol a chefnogol chwarae rôl wrth gefnogi eu llesiant a'u datblygiad hirdymor.
5.1.2	Mynegir pryder ynghylch sut y byddai plant yn addasu i ysgol newydd gyda staff a disgyblion dieithr.	
5.1.3	" <i>Mae iechyd meddwl plant yn destun pryder dwfn... oni bai bod y rhai sydd â'r grym i weithredu yn gwneud hynny ar unwaith, bydd yr effaith i'w theimlo am genedlaethau... Mae'n amlwg nad yw addysg draddodiadol yn gweithio i bawb; mae strwythur anhyblyg yr ystafell ddosbarth—ynghyd â dull 'un ateb i bawb' yn y cwricwlwm presennol—yn peri heriau sylweddol ac yn cael effaith andwyol ar ddatblygiad academaidd, emosiynol a chymdeithasol plant, yn ogystal â'u gallu i ffynnu. Nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru (02/20) nad yw chwarter y bobl ifanc yng Nghymru yn teimlo bod ganddynt gefnogaeth iechyd meddwl yn yr ysgol. Mae'n debygol iawn bod y ffigur hwn wedi cynyddu erbyn 2025, sy'n peri pryder mawr.</i> "	

5.1.4	“Yn yr ymgynghoriad, nid oes unrhyw ystyriaeth niwed tymor hir i'r disgyblion presennol sydd am gael eu ail leoli o Ysgol Nebo...Nid oes darlun clir a realistic yn yr ymgynghoriad o'r effaith mae cau Ysgol Nebo am gael os yw'r plant am fynychu Ysgol Llanllyfni.”	Mae'r Cyngor wedi ystyried y sylwadau hyn wrth gynnal a diweddaru'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant.
5.1.5	<i>“Mae Cyngor Gwynedd yn datgan bod ei gynnig er budd addysgol gorau'r plant, ond sut y mae o fudd i ddatblygiad y plant hyn eu dadwreiddio o'r nyth lle maent wedi'u meithrin ers blynnyddoedd y feithrinfa, ar yr oedran mwyaf dylanwadol pan fyddant leiaf galluog i ymdopi â newid, a'u hanfon i amgylchedd mwy lle mae'n debygol y cânt eu trin fel newydd-ddyfodiaid gan eu cyfoedion, yn cael trafferth gwneud ffrindiau newydd ac o bosibl yn agored i fwlio.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi bod Ysgol Llanllyfni, fel Ysgol Nebo, yn ddarostyngedig i'r un dyletswyddau statudol o ran llesiant, diogelu a chynhwysiant, ac yn gweithredu polisiâu i gefnogi anghenion unigol dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau pontio cynlluniedig a chymesur yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi disgyblion unigol drwy'r newid, gan gynnwys cyfleoedd i ymgyswrtu â'r ysgol amgen, cyfathrebu clir â rhieni a gofalwyr, a darparu cefnogaeth briodol.
5.1.6	“A fyddai rai o'r plant presennol yma yn Ysgol Nebo yn gallu ymdopi wrth gael eu taflu mewn i ysgol arall gyda dosbarth â 30+ o blant?”	Er bod yr asesiadau effaith wedi'u diweddaru i nodi ac ystyried y sylwadau hyn, nid yw'r sylwadau a dderbyniwyd wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiadau. Dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gyfwerth, fan leiaf, â'r ddarpariaeth bresennol o ran ansawdd a safonau addysg. Yn ogystal, mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant yn nodi'r angen i sicrhau trefniadau pontio priodol a chymorth wedi'i deilwra i ddysgwyr unigol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.
5.1.7	Mynegir pryder y gallai symud y dysgwyr presennol i garfan fwy fod yn niweidiol, yn enwedig i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.	
5.1.8	<i>“Mae'r mwyafrif o'r plant yn Ysgol Nebo wedi trosglwyddo yno o ysgolion eraill lle nad oedd eu rhieni'n fodlon ar yr addysg a ddarparwyd. Byddai gorfodi'r plant hyn i fynychu trydedd ysgol, neu ddychwelyd i'r ysgolion yr oeddent wedi'u gadael, yn cael effaith anghymesur ar eu llesiant.”</i>	
5.1.9	<i>“O ran yr effaith ar rai grwpiau penodol o bobl, mae'r sylwadau uchod ynghylch plant sy'n osgoi addysg brif ffrwd ar hyn o bryd yn sicr yn berthnasol. Os nad yw safon eu haddysg gartref bresennol yn dda, mae'r tebygolrwydd y byddant yn profi anfantais gymdeithasol-economaidd yn nes ymlaen mewn bywyd yn cynyddu. Bydd integreiddio ag ysgol, hyd yn oed ar sail rhan-amser, yn darparu rhyngweithio cymdeithasol buddiol gyda'u cyfoedion, a all ond bod o fudd iddynt yn ddiweddarach mewn bywyd.”</i>	
5.1.10	Nodir y byddai cau'r ysgol yn anfantais i blant a phobl ifanc y gymuned, ac yn arbennig i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.	
5.1.11	Nodir y byddai cau'r ysgol yn tanseilio sefydlogrwydd teuluoedd ac yn achosi straen emosiynol.	Fel uchod

5.2 Pryderon ymatebwyr ynghylch effaith anghymesur cau'r ysgol ar ddysgwyr bregus, cefnogaeth unigol a darpariaeth ADY

	Sylw	Ymateb y Cyngor
5.2.1	“Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r effaith anghymesur y byddai cau'r ysgol yn ei chael ar rai grwpiau o blant a theuluoedd sydd â nodweddion cydraddoldeb neu sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Gallai plant ag anghenion dysgu ychwanegol, anabledau neu anghenion emosiynol wynebu heriau ychwanegol wrth addasu i ysgol fwy o faint, gyda llai o adnabyddiaeth unigol a mwy o symudedd dyddiol. Mae ysgol fechan wledig yn aml yn darparu amgylchedd cynhwysol a chefnogol lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hadnabod yn unigol, rhywbeth sy'n arbennig o bwysig i blant sydd eisoes mewn perygl o anfantais. Felly, byddai cau'r ysgol yn debygol o waethygu anghydraddoldebau presennol ac yn methu â chefnogi egwyddor mynediad cyfartal at addysg addas o fewn pob cymuned.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Nebo a symud dysgwyr i ysgolion mwy ar rai grwpiau o ddysgwyr, yn enwedig y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, anghenion emosiynol neu iechyd meddwl, a'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Cyngor hefyd y nodi'r pryderon a fynegwyd y gallai colli amgylchedd ysgol fechan gyda sylw unigol a chefnogaeth bersonol gynyddu'r heriau o addasu ac effeithio'n anghymesur ar lesiant a hyder rhai disgyblion, yn enwedig y rhai sydd eisoes wedi profi anawsterau neu newid ysgol yn y gorffennol. Mae'r Cyngor wedi ystyried y sylwadau hyn wrth gynnal a diweddarau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant.
5.2.2	<i>“A yw'r niwed hirdymor i ddisgyblion presennol sy'n symud i ysgolion mwy wedi cael ei ystyried o gwbl? Unwaith y bydd yr ysgol yn cau, bydd 12 o bobl ifanc mewn ysgolion dieithr, gyda llawer llai o sylw unigol nag a gânt yn Ysgol Nebo. I lawer sydd wedi dewis dod yma, mae hyn yn debygol o fod yn niweidiol iawn iddynt.”</i>	Mae'r Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg yn dod i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol amgen arfaethedig yn cyfateb, fan leiaf, i'r ddarpariaeth bresennol o ran ansawdd a safonau addysg. Nodir bod ysgolion â niferoedd uwch o ddysgwyr yn gallu cynnig map darpariaeth ehangach, strwythurau cymorth mwy ffurfiol, a gwell capasiti i gydlyn cefnogaeth ADY ac ymyriadau penodol, sy'n gallu lliniaru rhai o'r risgiau a nodwyd gan ymatebwyr. Mae'r asesiadau hefyd yn nodi bod unrhyw benderfyniad i weithredu'r cynnig yn gofyn am gynllunio pontio gofalus, gyda chefnogaeth wedi'i theilwra i ddysgwyr unigol, yn enwedig y rhai mwyaf bregus. Er bod yr Asesiadau Effaith wedi'u diweddarau i adlewyrchu ac ystyried y sylwadau hyn, nid yw'r sylwadau a dderbyniwyd wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiadau. Mae'r Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg yn nodi bod effaith debygol gweithredu'r cynnig yn niwtral neu'n rannol positif o ran ansawdd a safonau addysg, tra bod yr Asesiad
5.2.3	<i>“Unwaith y bydd yr ysgol yn cau, bydd 12 o bobl ifanc mewn ysgolion dieithr, gyda llawer llai o'r sylw unigol a gânt yn Ysgol Nebo... Mae hyn yn debygol o fod yn hynod niweidiol iddynt.”</i>	
5.2.4	<i>“A yw'r niwed hirdymor i ddisgyblion presennol o symud i ysgolion mwy wedi cael ei ystyried o gwbl? Unwaith y bydd yr ysgol yn cau, bydd 12 o bobl ifanc mewn ysgolion dieithr, gyda llawer llai o'r sylw unigol a gânt yn Ysgol Nebo. I lawer sydd wedi dewis dod yma, mae hyn yn debygol o fod yn hynod niweidiol iddynt. Mae'r rhesymau dros y dewis hwnnw'n cael eu hystyried o ddifrif gan dîm addysgu Ysgol Nebo, ac mae'r plant yn cael gofal a sylw penodol i fynd i'r afael â'r rhesymau hynny.”</i>	
5.2.5	“Byddai cau Ysgol Nebo yn effeithio cefnogaeth ADY disgyblion, ar les y disgyblion ac ar y gefnogaeth a'r sylw arbennig, unigol sydd yma ar gyfer pob disgybl.”	

5.2.6	<i>“Unwaith y bydd yr ysgol yn cau, bydd 12 o bobl ifanc mewn ysgolion dieithr, gyda llawer llai o’r sylw unigol a’r gefnogaeth y maent yn eu derbyn yn Ysgol Nebo. I lawer sydd wedi dewis dod yma, mae hyn yn debygol o fod yn hynod niweidiol. Mae’r rhesymau dros y dewis hwnnw’n cael eu hystyried o ddifrif gan dîm addysgu Ysgol Nebo, ac mae’r plant yn cael gofal a sylw penodol i fynd i’r afael â’r rhesymau hynny.”</i>	Effaith Cydraddoldeb a’r Asesiad Effaith Llesiant yn pwysleisio’r angen i sicrhau mesurau lliniaru priodol, gan gynnwys trefniadau pontio cynlluniedig a chymorth priodol, pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu.
5.2.7	“Byddai cau Ysgol Nebo yn effeithio cefnogaeth ADY disgyblion, ar les y disgyblion ac ar y gefnogaeth a’r sylw arbennig, unigol sydd yma ar gyfer pob disgybl.”	Fel uchod.
5.2.8	Pwysleisir bod plentyn ag ADY yn elwa ar yr ysgol bresennol lle mae oedolion yn adnabod ei anghenion yn dda, gyda phryder y byddai symud yn tarfu ar hyn.	Fel uchod.
5.2.9	“Mae hawl gan bob disgybl i dderbyn addysg o safon uchel- mae hyn yn cynnwys disgyblion sydd yn profi anawsterau emosiynol a/neu iechyd meddwl.” “Mae cau ysgolion bach yn golygu bob pop disgybl yn cael eu gorfodi i fynychu dosbarthiadau mawr sydd yn niweidiol i nifer fawr ohonynt.”	Fel uchod.
5.2.10	<i>“Er bod diagnosis ar gael i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), mae llawer o blant eraill sydd ag anawsterau neu broblemau sydd hefyd angen math gwahanol o gefnogaeth. Yn aml, nid yw hyn yn bosibl mewn ysgolion mwy...”</i>	Fel uchod.
5.2.11	“Mae’n amlwg bod y Cyngor ddim yn gallu gweld y cyfle a chyfrifoldeb i helpu plant sy’n methu ymdopi â dosbarthiadau mawr, yn ddioddef o ADY neu yn cael eu bwlio mewn ysgol arall, ac felly gallent ddisgyn allan o addysg llawn amser.”	Fel uchod.
5.2.12	“Mae’r plant yr ysgol yn cael y cynnigion gorau nad ydi Ysgolion Gynradd y dal cylch yn ei cynnig gan ei bod nhw efo niferoedd uchel o ddisgyblion. Mae’r plant yn gal y sylw a chwarae teg gorau gan y’r athrawon na chaiff mewn ysgol gynradd ‘fawr’ arall.”	Fel uchod.
5.2.13	Mynegir pryder am effaith symud disgyblion presennol i ysgolion mwy, gan golli’r sylw unigol a’r gofal pwrpasol a geir mewn ysgol fach.	Fel uchod.
5.2.14	Nodir pryder y byddai cau Ysgol Nebo yn cael effaith andwyol ar blant ag anghenion cymhleth nad ydynt yn ymdopi mewn ysgolion mwy.	Fel uchod.

5.3 Effaith bosibl ar berthnasoedd cymdeithasol a llesiant dysgwyr

	Sylw	Ymateb y Cyngor
5.3.1	Mynegir pryder y gallai trosglwyddo i ysgol fwy arwain at deimlad o "Ni" a "Nhw" i blant Nebo a plant Llanllyfni.	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch yr effaith bosibl y gallai trosglwyddo dysgwyr i ysgol fwy ei chael ar addasu cymdeithasol, ymdeimlad o berthyn, a llesiant rhai plant. Mae'r pryderon hyn wedi'u nodi a'u hystyried wrth ddiweddarau'r Asesiadau Effaith perthnasol, sy'n pwysleisio'r angen am drefniadau pontio cynlluniedig a chefnogaeth briodol i gefnogi integreiddio dysgwyr, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.
5.3.2	Nodir y byddai gorfodi plant i symud i ysgolion anghyfarwydd yn amharu ar eu datblygiad cymdeithasol ac ar eu cynnydd academaidd.	
5.3.3	<i>"Mae'n eithaf trist clywed fy mhlant i a rhieni eraill yn cynhyrfu am blant eraill sy'n cael trafferthion gyda newidiadau mawr, ac sy'n ymddwyn allan neu'n arddangos ymddygiad gwael ac aflonyddgar yn gyson yn y dosbarth."</i>	

5.4 Ystyriaeth o lais y plentyn a llesiant dysgwyr presennol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
5.4.1	"Ydy'r effaith fydd symud 12 o blant sydd eisiau aros yn Ysgol Nebo i ysgolion mwy yn cael ei ystyried o gwbl? Pa mor bwysig fydd llais y plant? Gan bod rhai o'r rhieni wedi dewis danfon eu plant yma i Nebo oherwydd safon yr addysg a'r gofal a'r awyrgylch gartrefol, saff sydd yma, mae symud y plant yn debygol o fod yn niweidiol iawn."	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch llesiant a phrofiad dysgwyr presennol Ysgol Nebo, gan gynnwys pwysigrwydd llais y plentyn a'r effaith bosibl y gallai symud i ysgol fwy ei chael ar rai dysgwyr. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gwnaed trefniadau penodol i sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei chasglu fel rhan o'r ymgynghoriad statudol. Cynhaliwyd sesiynau dynodedig gyda grwpiau o ddysgwyr o Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, wedi'u hwyluso'n briodol, er mwyn rhoi cyfle i'r plant drafod y cynnig, mynegi eu safbwyntiau a chwblhau holiadur. Yn ogystal, roedd dogfen ymgynghori a ffurflen ymateb ar gyfer plant a phobl ifanc ar gael ar wefan y Cyngor, gan alluogi dysgwyr nad oeddent wedi mynychu sesiwn yn eu hysgol i gyflwyno eu barn hefyd. Mae crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd gan y dysgwyr wedi'i gynnwys yn Adran 3 o Atodiad A – Adroddiad Ymgynghori.
5.4.2	"Pa mor bwysig fydd llais y plant? Gan bod rhai o'r rhieni wedi dewis danfon eu plant i Nebo oherwydd safon yr addysg a'r gofal a'r awyrgylch gartrefol, saff sydd yma, mae symud y plant yn debygol o fod yn niweidiol iawn"	
5.4.3	Mynegir pryder nad yw lles a phrofiad disgyblion presennol wedi cael digon o sylw yn y cynnig i gau.	

5.5 Effaith bosibl ar ddysgwyr a drosglwyddodd i Nebo am resymau llesiant

	Sylw	Ymateb y Cyngor
5.5.1	<i>“Mater neu effaith arall i’w hystyried yw’r effaith ar y plant sy’n mynychu’r ysgol ar hyn o bryd pe bai’n cau. Mewn llawer o achosion, mae’r rhain yn blant a oedd wedi osgoi neu’n anfodlon ar ysgolion yn flaenorol, a fyddai bellach yn cael eu gorfodi i fynychu ysgol fwy o’r math y gallent fod wedi’i gadael o’r blaen. Gallai hyn arwain at rai’n gadael y system eto a dychwelyd i addysg gartref, gan gynyddu’r niferoedd hynny ymhellach. Fel y nodwyd eisoes, mae llawer yn teithio o’r tu allan i ddalgylch Ysgol Nebo yn benodol er mwyn mynychu ‘ein’ hysgol. Ar hyn o bryd, mae’r rhesymau dros y dewis hwnnw’n cael eu hystyried o ddifrif gan dîm addysgu Ysgol Nebo, ac mae’r plant yn cael gofal a sylw penodol i fynd i’r afael â’r rhesymau hynny.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl y cynnig ar ddysgwyr sydd wedi trosglwyddo i Ysgol Nebo am resymau llesiant neu brofiadau addysgol blaenorol negyddol. Mae’r materion hyn wedi’u nodi a’u hystyried drwy’r Asesiadau Effaith perthnasol. Pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau pontio cynlluniedig yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr yr effeithir arnynt.
5.5.2	Nodir bod nifer o ddisgyblion wedi trosglwyddo i’r ysgol am resymau llesiant, ac wedi setlo’n dda; mynegir pryder y byddai cau’r ysgol cael effaith negyddol ar lesiant y dysgwyr yma.	
5.5.3	Tynnir sylw at y risg bod rhai disgyblion yn mynychu Ysgol Nebo am nad oeddent, am wahanol resymau, yn gallu mynychu eu hysgol ddalgylch; gan ofyn pa ddarpariaeth amgen fyddai ar gael iddynt pe bai’r ysgol yn cau, a beth fyddai goblygiadau ariannol hynny i’r Cyngor.	

5.6 Beirniadaeth o’r asesiad llesiant a’r ystyriaeth a roddir i effaith cau ar ddisgyblion presennol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
5.6.1	<i>“Mae’r papur gwreiddiol yn diystyru disgyblion Nebo fel unigolion sy’n haeddu ystyriaeth... Nid oes unrhyw gyfeiriad at lesiant yr unigolion y byddai cau’r ysgol yn tarfu ar eu bywydau ac yn chwalu eu cymunedau. Wrth ystyried Opsiwn 4, sef cau’r ysgol, o dan y pennawd llesiant, caiff unrhyw effaith ar lesiant disgyblion ei ddiystyru ar y sail bod llesiant yn Llanllyfni yr un mor dda ag yn Nebo. Mae hyn yn colli’r pwynt yn llwyr – byddai profi’r aflonyddwch o ganlyniad i gau ysgol yn amlwg yn cael effaith negyddol ar lesiant disgyblion.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r pryderon a fynegwyd ynghylch y posibilrwydd y gallai cau’r ysgol, a’r effaith andwyol cysylltiedig bosib, gael effaith ar lesiant a phrofiad dysgwyr presennol. Mae’r materion hyn wedi’u hystyried wrth adolygu’r Asesiadau Effaith, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Llesiant a’r Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg. Er bod yr asesiadau’n dod i’r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol amgen yn cyfateb fan leiaf i’r ddarpariaeth bresennol, maent hefyd yn pwysleisio’r angen am drefniadau pontio cynlluniedig a chefnogaeth briodol i leihau unrhyw effaith andwyol ar lesiant a chynnydd addysgol dysgwyr pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu.
5.6.2	<i>“Credwn y byddai’n fuddiol i’r asesiadau ystyried yn fanylach yr effaith ar lesiant a chynnydd addysgol y disgyblion presennol o symud i ysgolion mwy.”</i>	

5.7 Blaenoriaethu costau ariannol dros lesiant a phrofiad addysgol plant

	Sylw	Ymateb y Cyngor
5.7.1	Cwestiynir a ddylid rhoi cost ariannol uwchlaw lles a phrofiad addysgol plant.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
5.7.2	Dadleuir y gallai cau'r ysgol arwain at gostau uwch yn nhermau cefnogaeth a fydd angen ei ddarparu i rai dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, yn hytrach nag arwain at arbedion. Nodir beirniadaeth o'r Cyngor yn rhoi pwyslais ar arbedion ariannol dros anghenion plant bregus. Nodir apêl i roi budd gorau plant, plant ag ADY a'r gymuned uwchlaw ystyriaethau ariannol.	Mae'r adolygiad o ddyfodol Ysgol Nebo wedi'i seilio ar gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gwag, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang a rhagamcanion sy'n dangos y bydd niferoedd dysgwyr yn parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir. Mae llesiant, profiad addysgol a budd gorau dysgwyr wedi eu hystyried drwy'r Asesiadau Effaith perthnasol.

6. Effaith ar y Gymuned

6.1 Yr ysgol fel calon, canolbwynt cymdeithasol ac ased cymunedol hanfodol i Nebo a Nasareth

	Sylw	Ymateb y Cyngor
6.1.1	"...gan fod nebo a nasareth yn bentrefi bach gwledig sydd yn eithaf pell o popeth arall, teimlo bod cael yr ysgol yn y pentre yn 'hwb' i'r pentre sydd yn dod a pawb at ei gilydd. Mae hyn yn 'lifeline' i lot o bobl hyn y penref, rhywle diogel cyfarwydd i bawb. Heb yr ysgol dwi wir yn teimlo mi fysa pentre nebo ddim yn ur fath."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n pwysleisio gwerth Ysgol Nebo fel man cyfarfod, canolfan gweithgareddau lleol, a ffocws i hunaniaeth a chydlyniant cymunedol o fewn pentref gwledig sydd â chyfyngedig iawn o gyfleusterau cymunedol eraill.
6.1.2	"Mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned, gan ddod â hi ynghyd ar gyfer dathliadau, digwyddiadau chwaraeon bach a nosweithiau cymdeithasol. Nid ysgol yn unig mohoni, hi yw calon y pentref."	Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned er mwyn asesu effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Nebo ar y gymuned leol. Mae'r asesiad hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddarau yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan ystyried yn llawn y sylwadau a'r materion a godwyd gan ymgynghorai.
6.1.3	"Mae'r ysgolion hyn hefyd yn gwasanaethu fel canolfannau cymunedol pwysig, gan greu ymdeimlad o berthyn a sefydlogrwydd i deuluoedd."	
6.1.4	"Byddai'n golled fawr i'r gymuned gyfan."	
6.1.5	"Byddai cau ysgol gynradd fechan yn benderfyniad byr-weledol sy'n anwybyddu'r gwerth hirdymor y mae'r ysgol hon yn ei ddarparu i'r gymuned."	Fel y nodir yng nghasgliad yr Asesiad Effaith ar y Gymuned diweddaraf, barn y Cyngor yw y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned leol pe bai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei weithredu, yn benodol o safbwynt colli canolbwynt cymunedol mewn ardal wledig. Mae'r casgliad hwn wedi'i lunio ar sail y dystiolaeth berthnasol, ynghyd â'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol.
6.1.6	"Mae Ysgol Gynradd Nebo yn ganolog i fywyd a dyfodol ein pentref... mae hefyd yn gweithredu fel prif fan cymunedol mewn pentref lle nad oes unrhyw gyfleusterau eraill ar ôl – dim siop, dim swyddfa bost, dim capel nac unrhyw ganolbwynt cymdeithasol arall Mae'r ysgol felly'n fan lle daw teuluoedd at ei gilydd, lle cynhelir hunaniaeth a diwylliant Cymraeg, ac sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn a chydlyniant cymunedol. Byddai cau'r ysgol	Mae'r Cyngor yn nodi y byddai unrhyw benderfyniad pellach yn rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith ar y Gymuned, ynghyd â'r camau lliniaru a nodir

	yn tanseilio cynaliadwyedd y pentref yn sylweddol, gan wanhau'r gymuned leol a gorfodi plant i deithio ymhellach i gael addysg, gan golli'r cysylltiad hanfodol rhwng yr ysgol, y teuluoedd a'r gymuned Gymraeg wledig y mae'n ei gwasanaethu."	ynddo, gan gynnwys ystyriaeth o opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol pe bai penderfyniad i gau Ysgol Nebo yn cael ei wneud, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol.
6.1.7	Nodir mai'r ysgol yw'r unig fan cyfarfod yn y pentref, ac yn hollbwysig i ddod â'r gymuned ynghyd. Nodir nad oes siop na neuadd yn y pentref, gan nodi mai'r ysgol yw calon y pentref.	
6.1.8	"Yr ysgol yw calon y cymuned ag y plant bach."	
6.1.9	"yr ysgol yw calon Nebo a Nasareth, a'r unig adeilad cyhoeddus sy'n cael ei ddefnyddio... Os caiff yr ysgol ei chau, collir hyn oll am byth."	
6.1.10	<i>"Mae Ysgol Nebo yn ysgol a chanolfan gymunedol leol. Pe bai'n cau, byddai hynny'n cael effaith ar y gymuned."</i>	Fel uchod.
6.1.11	<i>"Mae gwahaniaeth amlwg rhwng plant pentref Maesllwyn Nebo a'r ardal isaf yn Llanllyfni. Rwy'n credu bod rhieni wedi ffafrio naws deuluol fach Nebo erioed, ac mae Nebo wedi profi'n lle gwirioneddol gynnes a chyfeillgar i blant, gyda hynny'n cael effaith gadarnhaol ar gymuned y pentref."</i>	Fel uchod.
6.1.12	<i>"Mae'r ysgol wedi dod yn ganolfan ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol yn y pentref – mae Pwyllgor Ardal hynod weithgar sy'n trefnu gweithgareddau a digwyddiadau rheolaidd yn yr ysgol. Bu nifer o sgysiau diddorol, yn Gymraeg ac yn Saesneg..."</i>	Fel uchod.
6.1.13	<i>"Mae Ysgol Gynradd Nebo yn ganolog i fywyd a dyfodol ein pentref. Nid yn unig y mae'n darparu addysg hanfodol i blant yn lleol, ond mae hefyd yn gweithredu fel prif ganolfan gymunedol mewn pentref lle nad oes unrhyw gyfleusterau eraill ar ôl – dim siop, dim swyddfa bost, dim capel nac unrhyw ganolbwynt cymdeithasol arall. Mae'r ysgol felly'n fan lle daw teuluoedd at ei gilydd, lle cynhelir hunaniaeth a diwylliant Cymraeg, ac sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn a chydlyniant cymunedol. Byddai cau'r ysgol yn tanseilio cynaliadwyedd y pentref yn sylweddol, gan wanhau'r gymuned leol a gorfodi plant i deithio ymhellach i gael addysg, gan golli'r cysylltiad hanfodol rhwng yr ysgol, y teuluoedd a'r gymuned Gymraeg wledig y mae'n ei gwasanaethu. Mae llawer mwy i'w ystyried yma na chostau gweithredu a ffigurau ariannol yn unig."</i>	Fel uchod.
6.1.14	<i>"Yr ysgol yw calon cymuned Nebo a Nasareth a'r unig adeilad cyhoeddus sy'n cael ei ddefnyddio sy'n cynnig unrhyw obaith ar gyfer y dyfodol – mae'n ganolfan ar gyfer gwirfoddoli ac yn fan lle gall y gymuned a'r ysgol ddod at ei</i>	Fel uchod.

	<i>gilydd mewn digwyddiadau, gan ganiatáu i'r trigolion hŷn yn arbennig elwa o dreulio amser gyda'r rhai iau. Mae ganddi gymaint o hanes a chysylltiadau â phobl leol amrywiol sy'n helpu i addysgu plant am eu hanes. Os caiff yr ysgol ei chau, collir hyn oll yn anadferadwy."</i>	
6.1.15	<i>"Mae cymunedau Nebo a Nasareth yn cefnogi'n gryf gadw'r ysgol ar agor. I bob pwrpas, yr ysgol yw calon Nebo a Nasareth a'r unig adeilad cyhoeddus sy'n cael ei ddefnyddio sy'n cynnig unrhyw obaith ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd yn adeilad â chymaint o hanes a chysylltiadau â phobl leol amrywiol sy'n helpu i addysgu plant am hanes. Os caiff yr ysgol ei chau, collir hyn oll yn anadferadwy."</i>	Fel uchod.
6.1.16	<i>"Faint mor pwysig yw hwb cymunedol i'r trigolion ac y plant y pentref... Does dim lle o gwbl yn y pentref i'r cymuned heblaw am yr ysgol."</i>	Fel uchod.
6.1.17	<i>Nodir bod yr ysgol yn ganolbwynt i deuluoedd lleol ac yn lle hanfodol i'r gymuned gadw cysylltiad dros amser; byddai cau'r ysgol yn rhwygo'r gymuned."</i>	Fel uchod.
6.1.18	<i>"Mae'r ysgol hefyd yn cynnig cartref i'r gymuned eang gan ddod a thrigolion a chymdogion ynghyd."</i>	Fel uchod.
6.1.19	<i>"Yn amlwg, mae'r Undeb yn pryderu ynghylch colli ased cymunedol gwerthfawr sef ysgol leol i blant lleol. Mae'n deall ac yn gwerthfawrogi ystyriaethau'r awdurdod lleol, ac yn siomedig bod rhaid ystyried camau o'r fath. Byddai'r Undeb yn dymuno i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod popeth posibl yn cael ei wneud i achub yr ysgol, o ystyried agosrwydd yr ysgol i'r gymuned..."</i>	Fel uchod.

6.2 Pryderon ynghylch colli cydlyniant cymunedol, cysylltiadau traws-genhedlaethol, a'r effaith ar iechyd, llesiant ac unigrwydd pe bai Ysgol Nebo yn cau

	Sylw	Ymateb y Cyngor
6.2.1	<i>"Mae cymuned fywiog yma yn Nebo a Nasareth a'r ysgol yw calon y gymuned honno gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r trigolion. Pontio'r Cenedlaethau? Mae hyn yn digwydd yn hollol naturiol yma yn Nebo! A'r cyfan drwy'r Gymraeg! Dwi'n siwr y byddai Swyddog Gwynedd Oed-Gyfeillgar y Cyngor a Phencampwr Oed-Gyfeillgar... yn falch iawn o glywed am y gwaith arbennig sy'n digwydd yn Ysgol Nebo. Mae Clwb Dydd Llun yn rhoi cyfle i drigolion gyfarfod, ac yn ystod hynny maent yn cymdeithasu gyda'r plant gan ddarparu cyfleoedd rhyngweithio, dysgu a chwarae ar</i>	<i>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau niferus a dderbyniwyd sy'n pwysleisio rôl bwysig Ysgol Nebo wrth gefnogi cydlyniant cymunedol, cynnal cysylltiadau traws-genhedlaethol, ac wrth gyfrannu at iechyd a llesiant trigolion Nebo a Nasareth, mewn pentref gwledig sydd â chyfyngedig iawn o gyfleusterau cymunedol eraill. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r sylwadau a wnaed yn tynnu sylw'n benodol at y ffaith bod yr ysgol yn cael ei hystyried yn fan cyfarfod hanfodol ac yn ganolbwynt i weithgareddau cymdeithasol, diwylliannol ac</i>

	draws y cenedlaethau. Yn ogystal, mae cyngherddau Nadolig, canu carolau, bore coffi Macmillan, gorymdaith a chyngherdd Gwyl Ddewi gyda'r plant yn gweini cawl i'r pentrefwyr –nifer o rhain yn bobl di Gymraeg sydd wedi symud i fyw, ond sy'n gwerthfawrogi y cyfle i glywed y Gymraeg a chefnogi'r ysgol. Mae'r nosweithiau cymdeithasol, y clwb gwau, y teithiau cerdded, a'r cydweithio â'r ysgol yn llawer mwy na digwyddiadau cymdeithasol yn unig."	ieithyddol, gan ddarparu cyfleoedd rheolaidd i blant, teuluoedd a thrigolion hŷn ryngweithio drwy weithgareddau cymunedol megis Clwb Dydd Llun, digwyddiadau lleol a dathliadau diwylliannol.
6.2.2	<i>"Mater mawr arall yw faint y mae hyn yn effeithio ar y gymuned a'r rhieni o ran cymdeithasol...credaf y bydd hyn yn cael effeithiau negyddol ar y gymuned a'r plant..."</i>	Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned er mwyn asesu effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Nebo ar y gymuned leol. Mae'r asesiad hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddarau yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan roi ystyriaeth briodol i'r sylwadau a'r materion a godwyd gan ymgynghorai.
6.2.3	"Mae Ysgol Nebo yn ganolbwynt cymunedol sy'n cynnal gweithgareddau cymdeithasol, diwylliant ac ieithyddol. Mae'r ysgol yn darparu lleoliad ar gyfer cyfarfodydd, digwyddiadau codi arian, a gweithgareddau sy'n cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg. Heb yr ysgol, bydd y cyfleoedd hyn yn lleihau'n sylweddol, gan arwain at golled hunaniaeth leol a dirywiad cymdeithasol. Mae'r cyngor yn pryderu y bydd cau'r ysgol yn tanseilio cydlyniant cymunedol ac yn lleihau deinameiddrwydd y pentref i deuluoedd ifanc."	Fel y nodir yn y casgliad yn yr Asesiad Effaith ar y Gymuned diweddaraf, barn y Cyngor yw y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned leol pe bai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei weithredu.
6.2.4	<i>"Ysgol Nebo yw calon ein pentrefi, gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r trigolion. Yn benodol, mae Clwb Dydd Llun sy'n cael ei gynnal bob yn ail brynhawn Llun yn rhoi cyfle i drigolion gyfarfod, ac yn ystod hynny maent yn rhyngweithio â'r plant... gan ddarparu rhyngweithio traws-genedlaethol pwysig. Yn ogystal, mae'r nosweithiau cymdeithasol, y clwb gwau, y teithiau cerdded, a'r cydweithio â'r ysgol yn llawer mwy na digwyddiadau cymdeithasol yn unig. Maent yn cyfrannu at iechyd a llesiant y trigolion a'r plant, ac yn darparu cydlyniant cymunedol hanfodol. Lle mae eiddo'n aml yn bell oddi wrth ei gilydd, maent yn mynd i'r afael â materion unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith trigolion hŷn. Yn ogystal, nid yw arwyddocâd yr adeilad yn ymwneud â'r gymuned yn unig, gan ei fod yn cynnwys cofeb ryfel hanesyddol bwysig a chysylltiad â'r Bardd Mathonwy Hughes. Ni ellir ei wahanu oddi wrth yr ysgol. Bydd gweithgareddau'r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y bydd yr adeilad wedi cau. Unwaith y caiff ei gau, ni ellir byth ei ailagor pe bai amgylchiadau'n newid yn y dyfodol."</i>	Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig i gau Ysgol Nebo, nodir y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel y fframwaith ar gyfer ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol.

6.2.5	<i>“Nid ysgol yn unig yw Ysgol Nebo, ond yr unig fan lle gall llawer o drigolion Nebo gymdeithasu. Mae grŵp cymunedol hynod weithgar sy’n cyfarfod yn fisol i helpu i gefnogi cymunedau Nebo a Nasareth. Maent yn trefnu llu o ddigwyddiadau a chyfarfodydd gan gynnwys ‘Clwb Dydd Llun’ – a gynhelir bob yn ail brynhawn Llun, gan roi cyfle i drigolion gyfarfod ac, yn ystod hynny, rhyngweithio â phlant Ysgol Nebo, gan ddarparu rhyngweithio traws-genedlaethol pwysig. Yn ogystal, maent yn trefnu nosweithiau cymdeithasol, clwb gwau (y ddau’n cael eu cynnal yn adeiladau’r ysgol), teithiau cerdded pentref, a digwyddiadau gyda’r ysgol megis cystadlaethau tyfu tatws. Mae’r cydweithio â’r ysgol yn llawer mwy na digwyddiadau cymdeithasol yn unig. Maent yn cyfrannu at iechyd a llesiant y trigolion a’r plant, ac at gydlyniant cymunedol. Lle mae eiddo’n aml yn bell oddi wrth ei gilydd, maent yn mynd i’r afael â phroblemau unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith trigolion hŷn. Bydd gweithgareddau’r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y bydd yr adeilad wedi cau.”</i>	Fel uchod.
6.2.6	<i>“Yr ysgol yw calon ein pentrefi, gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a’r trigolion. Yn benodol, mae Clwb Dydd Llun, a gynhelir bob yn ail brynhawn Llun, yn rhoi cyfle i drigolion gyfarfod, ac yn ystod hynny maent yn rhyngweithio â’r plant gan ddarparu rhyngweithio traws-genedlaethol pwysig. Yn ogystal, mae’r nosweithiau cymdeithasol, y clwb gwau, y teithiau cerdded, a’r cydweithio â’r ysgol yn llawer mwy na digwyddiadau cymdeithasol yn unig. Maent yn cyfrannu at iechyd a llesiant y trigolion a’r plant, ac yn darparu cydlyniant cymunedol hanfodol. Lle mae eiddo’n aml yn bell oddi wrth ei gilydd, maent yn mynd i’r afael â materion unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith trigolion hŷn. Yn ogystal, nid yw arwyddocâd yr adeilad yn ymwneud â’r gymuned yn unig, gan ei fod yn cynnwys cofeb ryfel hanesyddol bwysig a chysylltiad â’r Bardd Mathonwy Hughes. Ni ellir ei wahanu oddi wrth yr ysgol. Bydd gweithgareddau’r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y bydd yr adeilad wedi cau.”</i>	Fel uchod.
6.2.7	<i>“Yr ysgol yw calon ein pentrefi, gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a’r trigolion. Yn benodol, mae Clwb Dydd Llun, a gynhelir bob yn ail brynhawn Llun, yn rhoi cyfle i drigolion gyfarfod, ac yn ystod hynny maent yn rhyngweithio â’r plant gan ddarparu rhyngweithio traws-genedlaethol pwysig. Yn ogystal, mae’r nosweithiau cymdeithasol, y clwb gwau, y teithiau cerdded, a’r cydweithio â’r ysgol yn llawer mwy na digwyddiadau</i>	Fel uchod.

	<i>cymdeithasol yn unig. Maent yn cyfrannu at iechyd a llesiant y trigolion a'r plant, ac yn darparu cydlyniant cymunedol hanfodol. Lle mae eiddo'n aml yn bell oddi wrth ei gilydd, maent yn mynd i'r afael â materion unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith trigolion hŷn. Yn ogystal, nid yw arwyddocâd yr adeilad yn ymwneud â'r gymuned yn unig, gan ei fod yn cynnwys cofeb ryfel hanesyddol bwysig a chysylltiad â'r Bardd Mathonwy Hughes. Ni ellir ei wahanu oddi wrth yr ysgol. Bydd gweithgareddau'r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y bydd yr adeilad wedi cau."</i>	
6.2.8	<i>"Yr ysgol yw calon ein pentrefi, gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r trigolion. Yn benodol, mae Clwb Dydd Llun, a gynhelir bob yn ail brynhawn Llun, yn rhoi cyfle i drigolion gyfarfod... gan ddarparu rhyngweithio traws-genedlaethol pwysig. Yn ogystal, mae'r nosweithiau cymdeithasol, y clwb gwau, y teithiau cerdded... yn cyfrannu at iechyd a llesiant y trigolion a'r plant, ac yn darparu cydlyniant cymunedol... gan fynd i'r afael â materion unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith trigolion hŷn. Yn ogystal, mae gan yr adeilad arwyddocâd hanesyddol pwysig, gan gynnwys cofeb ryfel a chysylltiad â'r Bardd Mathonwy Hughes... Bydd gweithgareddau'r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y bydd yr adeilad wedi cau... er anfantais i'r gymuned ac i'r elusennau sydd wedi elwa o godi arian yno yn y gorffennol."</i>	Fel uchod.
6.2.9	<i>"Mae Ysgol Nebo yn fan lle gall plant bondio, chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau i gymuned gyfan Nebo. Dyma'r unig fan lle gall y trigolion hŷn gyfarfod, mwynhau paned o de a chael chwerthin. Pe bai'r ysgol yn cau, nid yn unig y plant a fyddai'n colli, ond hefyd y gymuned leol gyfan."</i>	Fel uchod.
6.2.10	<i>"Mae'r disgyblion a'r gymuned hefyd wedi ffurfio cysylltiadau cryf, ac mae'r pentrefwyr yn aml yn darllen ac yn chwarae gemau gyda'r plant."</i>	Fel uchod.
6.2.11	<i>"Yn ogystal ag ysgol ragorol, mae hefyd yn ganolbwynt cymunedol i drigolion lleol, sy'n rhyngweithio â'r plant o bryd i'w gilydd drwy chwarae gemau, siarad, cyd-ymddwyn a mwynhau."</i>	Fel uchod.
6.2.12	<i>"Mae Ysgol Nebo yn rheolaidd agor eu drysau ac yn darparu digwyddiadau agored i oedolion y pentref yn ystod y diwrnod ysgol."</i> <i>"Mae clwb 'dros 50' y pentref yn cyfarfod yn yr adwilad a mae'r disgyblion yn aml yn sgwrsio a chwarae gemau gyda'r aelodau."</i> <i>"Mae dyddiadau dathliadau yn agored i</i>	Fel uchod.

	breswylwyr y pentref” “yn falch iawn o glywed y disgyblion yn gweithio, sgwrsio a pherphormio yn Gymraeg.”	
6.2.13	Nodir bod Ysgol Nebo yn ganolbwynt i fywyd y pentrefi, gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a’r trigolion drwy weithgareddau cymunedol rheolaidd. Nodir bod gweithgareddau’r ysgol yn cyfrannu’n sylweddol at iechyd, llesiant a chydlyniant cymunedol, gan helpu i fynd i’r afael ag unigedd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith trigolion hŷn. Nodir bod cyfleoedd pwysig i blant a thrigolion hŷn ymgysylltu, gan feithrin cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cenedlaethau.	Fel uchod.
6.2.14	“Mae’r pentrefwyr Nebo a Nasareth yn hollol dibynnol ar Ysgol Nebo am gadw bywyd cymdeithasol ac iechyd meddyliol ein pobl yn fyw ac i ffyni....Mae yma dwsin neu fwy o grwpiau gwahanol sy’n defnyddio’r Ysgol ac yn cadw ein bywyd cymdeithasol yn fyw ac yn iach.	Fel uchod.
6.2.15	<i>“Yn Nebo, mae’r pentref, yr iaith a’r ysgol i gyd wedi’u plethu gyda’i gilydd... mae clwb dydd Llun y rhai dros 60 oed (merched)... y gystadleuaeth ‘Tyfu Tatws mewn Bwced’ – mae’r pentref yn darparu’r had-datws... mae’r ysgol yn goruchwyllo’r tyfu... Mae cyfran eithaf uchel o bobl hŷn a llai cefnog yn Nebo, felly mae’r holl weithgareddau sy’n gysylltiedig â’r ysgol – dathliadau’r Nadolig, Dydd Gŵyl Dewi, Diolchgarwch, bore coffi – yn cyfoethogi bywydau.”</i>	Fel uchod.
6.2.16	“Bydd cau Ysgol Nebo yn gam andwyol i ddisgyblion, teuluoedd a chymunedau Nebo a Nasareth...Buasai cau’r ysgol yn arwain at anfanteision i’r nifer o ardalyddyr sydd yn defnyddio’r ysgol fel canolfan gymunedol. Dyma’r unig gyfle a gaiff y trigolion i ddod ynghyd i ddiwallu eu hanghenion am gwmniaeth a’u hymdeimald o fod yn ynysig. Gall y rhain fod heb gar hefyd.”	Fel uchod.
6.2.17	<i>“Dau ŵyr/wyres a fynychodd yr ysgol yn flaenorol ac a oedd yn rhan o weithgareddau cymunedol, gan ddysgu sgiliau bywyd a fydd o fudd mawr iddynt yn y byd sy’n newid yn gyflym yr ydym yn byw ynddo ar hyn o bryd.”</i>	Fel uchod.
6.2.18	“Mae Ysgol Nebo yn bwysig iawn fel lle cymunedol i’r pentrefwyr gael ddod at ei gilydd a’r wahoddiad gan yr Ysgol i ddathlu gyda’r disgyblion pob dim o Gŵyl Dewi i noson garolau yn yr iaith Gymraeg.”	Fel uchod.
6.2.19	<i>“Mae cysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a’r gymuned leol. Byddai colli’r ysgol yn gadael rhai aelodau o’r gymuned yn fwy ynysig.”</i>	Fel uchod.

6.2.20	“Gafodd Bwyllgor Ardal Nebo a Nasareth ei sefydlu dros 50 mlynedd yn ôl gan y cyn-gynghorydd Sir sef OP Huws ac mae’n dal yn bodoli a thefnu gweithgareddau’r pentrefi, ac yn cydweithio efo’r Ysgol, athrawon a’r plant yn rhan pwysig o fywyd gymdeithasol y pentrefi. Heb yr Ysgol fel man cyfarfod, byddai bywyd y pentrefi yma yn farw’n weddol cyflym”	Fel uchod.
6.2.21	“mae'r ffaith fod yr ysgol yn medru gwahodd trigolion o'r pentref yno, mae'n gallu cynnal cyfnodau lle mae'r plant yn gallu dysgu, sgwrsio, meithrin a datblygu sgiliau cymdeithasol a moesol arbennig, cyfleodd i ymhyfrydu yn eu cymreictod, i fod yn Gymry ifanc a balch, yn dysgu ac gallu siarad Cymraeg, yn gwahodd y trigolion i gael sgwrs, paned ac adloniant boed trwy ddatlu gwyliau arbennig fel Dydd Gwyl Dewi, sioe Nadolig neu Bingo Pasg...Mae rhain yn enghreifftiau o ddigwyddiadau sy'n ymateb yn unigol i allu a diddordebau'r plant sy'n eu gwneud yn unigolion cyfrifol, hapus a charedig”	Fel uchod.
6.2.22	“Gyda chymaint o ddatblygiadau ac ymdeimlad gadarnhaol i brosiectau... megis Yr Orsaf a Gwyrddni mae modd dod â'r gymuned ynghyd a datrys...”	Fel uchod.
6.2.23	Amlygir bod yr ysgol yn ganolfan gymunedol allweddol mewn pentref heb seilwaith cymunedol arall (e.e. dim eglwys, capel, siop na swyddfa bost). Nodir y risg o newidiadau demograffig pe bai'r ysgol yn cau, gyda'r gymuned yn heneiddio a cholli presenoldeb teuluoedd ifanc. Pwysleisir y cysylltiadau traws-genhedlaethol a hwylusir gan yr ysgol (e.e. Clwb y Dydd Llun), a'r manteision cymdeithasol i bobl ifanc ac oedrannus. Tynnir sylw at ddefnydd yr adeilad ysgol ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol rheolaidd (e.e. clybiau a chyfarfodydd), a'r risg o fwy o unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith pobl hŷn, pe bai'r ddarpariaeth hon yn dod i ben.	Fel uchod.
6.2.24	Nodir bod yr ysgol hefyd yn adnodd cymunedol pwysig sy'n cefnogi datblygiad plant bregus.	Fel uchod.
6.2.25	“Mae trigolion Nebo wedi bod yn defnyddio'r Ysgol fel canolfan gymunedol ers cenedlaethau. Yn wir, mae cymuned Nebo'n cael ei defnyddio fel enghraifft o arfer dda i leihau effeithiau allgau cymdeithasol yn adroddiad Tlodi Plant ac Allgau Cymdeithasol yn y Gymru Wledig (Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant, 2009, tud 13). Cafodd yr adroddiad sylw da gan academydd yn China hefyd.”	Fel uchod.
6.2.26	Nodir mai Ysgol Nebo yw canolbwynt cymunedol hanfodol, yn enwedig i bobl hŷn.	Fel uchod.

6.3 Pryderon am effaith cau Ysgol Nebo ar gynaliadwyedd y pentref, poblogaeth ifanc a newidiadau demograffig hirdymor

	Sylw	Ymateb y Cyngor
6.3.1	“Mae angen ysgolion bach gwerthfawr fel y rhain ar ein hardaloedd a fandaliaeth gymdeithasol fyddai ei gwared. Fydd cymuned arall yn cael ei golli o dan oruchwyliaeth Cyngor Gwynedd fel arall.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n mynegi pryderon ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Nebo ar gynaliadwyedd hirdymor y pentref, ei ddeniadolrwydd i deuluoedd ifanc, a newidiadau demograffig ehangach, yn ogystal, a'r sylwadau a fynegwyd bod presenoldeb ysgol leol yn elfen bwysig o fywyd cymunedol, ac y gallai colli'r ysgol, yn nhyb rhai ymatebwyr, arwain dros amser at wanhau bywyd y pentref a lleihad yn nifer y teuluoedd sy'n dewis byw yn yr ardal.
6.3.2	“Sut ydych yn disgwyl i'r pentref gadw bobl lleol yn yr ardal. Heb ysgol yno fydd tai yn cael ei werthu i pobl allan iw wneud AirBnB neu holiday lets.”	
6.3.3	“ <i>Pe byddai'r ysgol yn cau, byddai'r pentref hyd yn oed yn llai deniadol i deuluoedd ifanc sy'n chwilio am le i fyw.</i> ”	
6.3.4	“...nid yw Carmel na'r Fron yn cael ei ystyried gan nad oes ysgolion na chymunedau yno. Ni fyddwn yn edrych i fynd i Nebo, Nasareth na Nantlle os yw Cyngor yn cau'r ysgolion bach - ni fydd cymuned yno - dim ond casgliad o dai.”	Fel rhan o'r broses statudol, cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r asesiad hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddarau yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad.
6.3.5	Nodir bod agosrwydd at yr ysgol yn ffactor pwysig i deuluoedd sy'n ystyried symud i Nebo, a bod cau'r ysgol yn gwneud y pentref yn llai deniadol.	Fel y nodir yn yr Asesiad Effaith ar y Gymuned, barn y Cyngor yw y gallai cau Ysgol Nebo arwain at beth effaith negyddol ar y gymuned leol. Fodd bynnag, mae'r asesiad hefyd yn nodi nad oes tystiolaeth glir ar hyn o bryd y byddai cau'r ysgol yn arwain yn uniongyrchol at ymadawiad teuluoedd neu newid sylweddol yn strwythur demograffig y gymuned gan ystyried bod canran helaeth o blant y dalgylch (78%) eisoes yn mynychu ysgolion y tu allan i'r dalgylch. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig i gau Ysgol Nebo, nodir y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn darparu'r fframwaith ar gyfer ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol bosibl ar y gymuned leol.
6.3.6	“Mae cau ysgol fechan wledig yn gam a fyddai'n tanseilio dyfodol y gymuned gyfan. Er mai dim ond 12 o blant sy'n mynychu'r ysgol, mae ei gwerth yn ymestyn ymhell y tu hwnt i rifau: mae'n ganolfan gymdeithasol, ddiwylliannol ac ieithyddol sy'n cynnal yr iaith Gymraeg a hunaniaeth leol yn y pentref. ”	
6.3.7	“ <i>Byddai cau'r ysgol yn lladd y cymunedau lleol. Mae'r syniad y byddai teuluoedd ifanc yn Nebo a Nasareth yn anfon eu plant i Llanllyfni yn gwbl hurt (nid wyf hyd yn oed yn siŵr, gyda'r meithrin yn llawn yn Llanllyfni, y gallai'r ysgol yno ymdopi beth bynnag). Byddai'r teuluoedd ifanc yn gadael ac fe adawir y pentrefi gyda phoblogaeth hŷn ynysig, tai gwyliau a rhywfaint o lety gwely a brecwast dros yr haf. Rwy'n amau y byddai'r bysiau'n rhoi'r gorau i redeg hefyd – pam y byddent yn dod i bentref marw? Ar hyn o bryd, yr ysgol sy'n darparu'r unig gyfleusterau cymunedol, ac mae honno'n weithgar iawn ac yn dod â phob oedran ynghyd o blith poblogaeth leol amrywiol. Byddai hyn i gyd yn cael ei golli, ac ni fyddai dim yn weddill.</i> ”	
6.3.8	“mae cau Ysgol Nebo yn mynd i fod yn andwyol ar y gymuned leol ac heb ei ystyried yn llawn yn yr ymgynghoriad. Ysgol Nebo yw calon Nebo a Nasareth a'r unig adeilad cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau cyson tu hwnt o fod yn Ysgol arbennig. Mae cryn hanes i'r Ysgol a nid oes unrhyw cydnabyddiaeth na pharch i hyn yn yr ymgynghoriad. Heb os, bydd gweithgareddau'r pentref a	

	gynhelir yn Ysgol Nebo yn dod i ben unwaith y bydd Cyngor Gwynedd yn cau yr adeilad. Colli adeilad am byth a fydd yn cyfle potential i datblygwyr tu hwnt i Gymru i greu 'airbnb' arall, testun llosg yn yr ardal yn barod, fel y gwyddoch.”	
6.3.9	<i>“Credaf y dylai’r pwyslais fod ar gefnogi a chydabod gwerth ysgol fechan, a hyrwyddo ei rhagoriaeth fel bod mwy o deuluoedd ifanc yn dymuno symud i ardal oherwydd enw da’r ysgol gymunedol leol – yn hytrach na diystyru bywyd y pentref yn gyfan gwbl a mentro i Gymru wledig ddod yn dir diffaith i genedlaethau’r dyfodol. Mae dyfodol cymuned yn dechrau gyda phlant, ac mae ysgol bentref yn adeiladu’r gymuned honno. Credaf yn gryf y gall dychwelyd at fywyd cymunedol bach ddod yn angenrheidiol yn y dyfodol nid rhy bell. Yn yr hinsawdd wleidyddol bresennol mae llawer yn dechrau sylweddoli bod ‘bach yn brydferth’, ac rwy’n methu deall y diffyg gweledigaeth ac uchelgais sy’n cael ei ddangos gan Gyngor Plaid Cymru ar adeg pan fo Plaid Cymru yn anelu at lywodraeth a newid, ac yn enwedig pan fo’r Blaid Werdd, sydd ar hyn o bryd yn perfformio’n gryf yn y polau barn, yn arbennig ymhlith pobl ifanc, yn cefnogi goroesiad ysgolion bach.”</i>	Fel uchod.
6.3.10	“Yr ysgol gyda’i ystafell gymunedol yw’r unig ganolbwynt sydd ar ôl... ac os yw’r adeilad yn mynd i mewn i’r marchnad dai bydd unrhyw gydlynid yn cael ei golli o fewn y pentref, ac ofnaf y daw Nebo yn “holiday hotspot” arall.”	Fel uchod.
6.3.11	“Siomedig iawn. Ydi’r Cyngor yn ystyried beth fydd dyfodol pentrefi bach fel Nebo wrth neud penderfyniadau fel hyn?”	Fel uchod.
6.3.12	<i>“Y tu hwnt i addysg, mae’r ysgol yn gonglfaen i’n cymuned wledig. Mae’n dod â theuluoedd ynghyd, yn cefnogi digwyddiadau lleol, ac yn helpu i gynnal poblogaeth yr ardal. Pan fydd ysgol yn cau, mae cymunedau’n aml yn profi gostyngiad mewn cofrestriadau, llai o wasanaethau, a llai o deuluoedd yn dewis byw neu aros yn yr ardal. Er bod ystyriaethau ariannol yn bwysig, mae yr un mor bwysig ystyried costau cymdeithasol, addysgol a chymunedol hirdymor cau ysgol. Mae buddsoddi mewn ysgolion gwledig bach yn fuddsoddiad mewn plant, teuluoedd, a dyfodol cymunedau gwledig.”</i>	Fel uchod.
6.3.13	“Os bydd yr ysgol yn cau, bydd demograffeg Nebo a Nasareth yn newid... bydd llai o deuluoedd Cymraeg â phlant o oed ysgol yn dewis byw yma.”	Fel uchod.

6.3.14	“Bydd cau’r ysgol yn dileu unig ganolfan gymunedol y pentref. Dengis profiadau cymunedau eraill yn y Gymru wledig bod dirywiad gweladwy yn dilyn cau ysgol o fewn pum i chwe blynedd wrth i deuluoedd iau symud i ffwrdd, i wasanaethau leihau, ac i fywyd cymunedol erydu.”	Fel uchod.
6.3.15	“ <i>Mae’r mater hwn yn ehangach nag Ysgol Nebo yn unig. Mae prinder swyddi a chyfleoedd gwaith, sy’n golygu bod pobl ifanc yn symud allan o Gymru (80 y mis oedd y ffigur a awgrymwyd), ac felly mae’r gyfradd geni yn gostwng. Felly, ble mae strategaeth economaidd y llywodraeth i wrthdroi hyn? Pe bai bwriad i wneud hynny, gallai’r sefyllfa fod yn dra gwahanol ymhen pum mlynedd. Ond os caiff yr ysgol ei chau rŵan, ac yna bod pobl ifanc yn symud yn ôl i Gymru, bydd yr adeilad wedi’i golli am byth. Gallai’r sefyllfa fod yn gwbl wahanol ymhen ychydig flynyddoedd, ond ni ellir byth adfer colled yr adeilad a diwylliant yr ysgol.</i> ”	Fel uchod.
6.3.16	Nodir bod ansicrwydd am ddyfodol yr ysgol eisoes wedi arwain rhai rhieni i ddewis ysgolion eraill neu addysg gartref.	Fel uchod.
6.3.17	“ <i>Byddai’n ddiwrnod trist iawn cau’r ysgol a chymysgu’r plant lleol i ‘doddbot’ ysgol arall. Mae plant iau bellach wedi symud i Nebo, a byddai’n drist iawn iddynt.</i> ”	Fel uchod.

6.4 Yr ysgol fel ased diwylliannol, hanesyddol ac ieithyddol: rôl ganolog Ysgol Nebo fel canolbwynt cymunedol, adnodd unigryw i gynnal y Gymraeg, a goblygiadau’r cynnig ar gydlyniant, llesiant a chynaliadwyedd cymunedol hirdymor

	Sylw	Ymateb y Cyngor
6.4.1	“Mae adeilad Ysgol Nebo wedi bod yno ers canrifoedd ac yn drysor i’r Genhedlaeth nesaf. Dylai’r Cyngor fod yn gwarchod Cymuned Nebo a’r ysgol i’r dyfodol.” “Mae’r ddeddf yn cadarnhau dylai fod plant yn medru byw ac aros yn ei bro, a fydd y newid yma yn cael effaith andwyol ar hynny.”	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a dderbyniwyd ynghylch rôl Ysgol Nebo fel ased diwylliannol, hanesyddol ac ieithyddol, ac fel adnodd cymunedol unigryw sy’n ganolog i fywyd cymdeithasol a chymunedol Nebo a Nasareth. Nodir fod ymatebwyr wedi pwysleisio gwerth hanesyddol yr adeilad, ei arwyddocâd diwylliannol a’i gysylltiadau lleol, ynghyd â’r farn na ellir gwahanu’r adeilad oddi wrth rôl weithredol yr ysgol fel canolbwynt cymunedol a Chymraeg.
6.4.2	Tynnir sylw at werth hanesyddol yr adeilad, gan gynnwys cysylltiadau lleol a phwysigrwydd diwylliannol, nad oes modd ei wahanu oddi wrth yr ysgol. Nodir y byddai gweithgareddau’r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben pe byddai’r ysgol yn cau.	

6.4.3	<i>“Yr ysgol yw calon ein pentrefi, gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a’r trigolion. Yn benodol, mae Clwb Dydd Llun, a gynhelir bob yn ail brynhawn Llun, yn rhoi cyfle i drigolion gyfarfod, ac yn ystod hynny maent yn rhyngweithio â’r plant gan ddarparu rhyngweithio traws-genedlaethol pwysig. Yn ogystal, mae’r nosweithiau cymdeithasol, y clwb gwau, y teithiau cerdded, a’r cydweithio â’r ysgol yn llawer mwy na digwyddiadau cymdeithasol yn unig. Maent yn cyfrannu at iechyd a llesiant y trigolion a’r plant, ac yn darparu cydlyniant cymunedol hanfodol. Lle mae eiddo’n aml yn bell oddi wrth ei gilydd, maent yn mynd i’r afael â materion unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith trigolion hŷn. Yn ogystal, nid yw arwyddocâd yr adeilad yn ymwneud â’r gymuned yn unig, gan ei fod yn cynnwys cofeb ryfel hanesyddol bwysig a chysylltiad â’r Bardd Mathonwy Hughes. Ni ellir ei wahanu oddi wrth yr ysgol. Bydd gweithgareddau’r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y bydd yr adeilad wedi cau.”</i>	Fel rhan o’r broses statudol, cyhoeddwyd Asesiad Effaith Cymunedol gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae’r asesiad hwn yn cofnodi’n glir nad oes canolfan gymunedol ar wahân ym mhentref Nebo, a bod y gymuned yn gwneud defnydd rheolaidd o adeilad yr ysgol ar gyfer digwyddiadau cymunedol megis cyfarfodydd lleol megis a chlybiau cymdeithasol. Mae’r asesiad hwn wedi’i adolygu a’i ddiweddarau yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan roi ystyriaeth briodol i’r sylwadau a’r materion a godwyd gan yr ymatebwyr. Fel y nodir yng nghasgliad yr Asesiad Effaith Gymunedol mwyaf diweddar, barn y Cyngor yw y byddai gweithredu’r cynnig i gau Ysgol Nebo yn debygol o gael rhywfaint o effaith andwyol ar y gymuned leol
6.4.4	<i>“O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, rhaid i’r Cyngor weithredu mewn ffyrdd sy’n: Gwellu llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol... Atal niwed yn y dyfodol... Cefnogi cymunedau cydlynol a gwydn... Cynnwys y rhai yr effeithir arnynt gan benderfyniadau... Mae cau ysgol wledig cyfrwng Cymraeg yn tanseilio’r nodau hyn yn uniongyrchol drwy leihau defnydd y Gymraeg yn y gymuned, yn cael effaith ar deuluoedd ifanc, cynyddu arwahanrwydd... a thanseilio cynaliadwyedd y pentref. Mae gan gynghorwyr Cyngor Gwynedd ddyletswydd i ystyried os yw cau Ysgol Nebo yn creu niwed hirdymor pan fo dewisiadau eraill ar gael....Mae profiadau cymunedau eraill yn y Gymru wledig yn dangos bod dirywiad gweladwy yn dilyn cau ysgol o fewn pum i chwe blynedd wrth i deuluoedd iau symud i ffwrdd, i wasanaethau leihau, ac i fywyd cymunedol erydu. Bydd cau’r ysgol yn dileu unig ganolfan gymunedol y pentref. Mae Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cyngor atal y canlyniad hwn, nid ychwanegu ato.”</i>	Ar yr un pryd, mae’r Asesiad Effaith Cymunedol diwygiedig hefyd yn nodi bod canran uchel o blant y dalgylch (78%) eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni, ac felly bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli. Mae’r asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg hefyd yn cydnabod y pryderon a fynegwyd fod presenoldeb yr ysgol yn chwarae rôl bwysig wrth gynnal hunaniaeth Gymreig, defnydd dyddiol o’r Gymraeg o fewn y gymuned. Mae’r asesiadau effaith diwygiedig yn nodi, pe byddai’r opsiwn i gau Ysgol Nebo yn cael ei weithredu, y byddai’r Cyngor yn ceisio lliniaru’r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a chymuned yr ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo’n briodol, a defnyddio Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod fel fframwaith ar gyfer trafod opsiynau priodol ar gyfer dyfodol adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny’n ymarferol.
6.4.5	<i>“Mae Nebo, fel llawer o gymunedau gwledig, yn profi pwysau cynyddol o boblogaeth sy’n heneiddio, colli teuluoedd lleol sy’n methu fforddio byw yn y pentref, a dyfodiad pobl sydd wedi ymddeol sy’n siarad Saesneg yn bennaf. Yn y cyd-destun hwn, mae presenoldeb yr ysgol yn hanfodol wrth gynnal statws a defnydd bob dydd o’r Gymraeg.”</i>	

6.4.6	“Mae nod corfforaethol gan Gyngor Gwynedd o ddiogelu a hyrwyddo'r iaith a chymunedau Cymraeg, ac mae tynnu ysgol Gymraeg alan o gymuned fel Nebo'n amlwg yn cael effaith negyddol. Nid yw sicrwydd "trafodaethau" am ddefnydd adeilad wedyn yn ateb y broblem nac yn leihau'r niwed. Mae'r cyfathrebu a chyd-ddyheu am eu plant gan rieni ifainc (a theidiau a neiniau !) yn rhan o wead cymunedol ac yn arwydd o obaith at y dyfodol. “	
6.4.7	<i>“Byddai cau'r ysgol yn golled enfawr i'r gymuned sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, ac sydd hefyd yn annog dysgwyr i gyfrannu.”</i>	Fel uchod.
6.4.8	“yr ysgol yw calon Nebo a Nasareth, a'r unig adeilad cyhoeddus sy'n cael ei ddefnyddio sy'n cynnig unrhyw obaith ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, mae'n adeilad â chymaint o hanes a chysylltiadau â phobl leol amrywiol, sy'n helpu i addysgu plant am hanes a'i gwreiddiau. Os caiff yr ysgol ei chau, collir hyn oll am byth.”	Fel uchod.
6.4.9	“Y mae gennyf hefyd bryder ynghylch effaith cau'r ysgol ar yr iaith Gymraeg ac ar y gymuned o ystyred mai dyma'r unig adnodd cymunedol yn y pentref.”	Fel uchod.
6.4.10	<i>“Rwy'n credu y dylid rhoi cyfle i'r gymuned yma barhau i warchod hanes Ysgol Nebo. Rwyf wedi gweld pobl hŷn yn mwynhau cael sgwrs yn Gymraeg wrth gael paned, sy'n beth hyfryd i'w weld. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn fuddiol i'r bobl hŷn hefyd.”</i>	Fel uchod.

6.5 Pryderon ynghylch tanseilio cymunedau Cymraeg gwledig: effaith cau'r ysgol ar gynaliadwyedd hirdymor, cydlyniant cymunedol, llesiant cymdeithasol a dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
6.5.1	“Mae'r Cyngor yn cydnabod fod effaith negyddol ar y Gymuned. Mae'n dweud fod modd liniaru'r effaith yna - er ein bod yn gwybod fod hynny'n amhosib. Nid oes unrhyw arian yn cael ei neilltuo tuag at hyn ychwaith. Mae Nebo a Llanllyfni yn gymunedau gwbl wahanol ac mae ceisio deud bod modd cyfuno dwy gymuned hanesyddol yn naive ac am fethu.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Nebo ar gynaliadwyedd hirdymor y gymuned, cydlyniant cymunedol, llesiant cymdeithasol a diwylliannol, a defnydd y Gymraeg yn y gymuned. Mae'r Cyngor yn nodi'r farn a fynegwyd gan rai ymatebwyr nad yw effaith gymunedol cau'r ysgol yn bosibl ei lliniaru'n effeithiol, ac y byddai colli'r ysgol yn tanseilio dyfodol cymuned wledig Gymreig, gan fynd yn groes i amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a
6.5.2	“mae'r Asesiad Effaith ar y Gymuned yn cydnabod y byddai cau'r ysgol yn tanseilio cynaliadwyedd hirdymor y pentref, gan fod yr ysgol yn ganolbwynt cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol. O safbwynt llywodraeth leol a dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae hyn yn bryder difrifol.”	

6.5.3	“Yng ngheiriau Ffred Ffrancis o Gymdeithas yr Iaith, “Da ni'n creu problemau mawr yn gymdeithasol bod ein cymunedau gwledig Cymraeg yn mynd yn gymunedau o hen bobl i ymddeol iddyn nhw ac yn wag o bobl ifanc.... Ble mae'r ymchwil erbyn hyn i ddangos beth yw effaith cau ysgolion bach?” Cwestiwn da. Dwi'n amau fy mod yn gwybod beth yw'r ateb.”	strategaethau cenedlaethol eraill, gan gynnwys strategaeth Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru.
6.5.4	“O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i'r Cyngor weithredu mewn ffyrdd sy'n gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol yn y tymor hir ac yn atal niwed yn y dyfodol. Byddai cau ysgol wledig cyfrwng Cymraeg yn tanseilio'r nodau hyn yn uniongyrchol drwy leihau defnydd y Gymraeg yn y gymuned, yn cael effaith ar deuluoedd ifanc a chael effaith niweidiol ar iechyd a lles y disgyblion a'r pentrefwyr a thanseilio cynaliadwyedd y pentref. Oes dewis arall i gynghorwyr Cynor Gwynedd?”	Fel rhan o'r broses statudol, cynhaliodd y Cyngor asesiad o effaith y cynnig ar y gymuned yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, a chyhoeddwyd y fersiwn wreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad statudol. Mae'r asesiad hwn yn nodi'n glir rôl Ysgol Nebo fel canolbwynt cymunedol allweddol, yn enwedig o ystyried nad oes canolfan gymunedol ar wahân ym mhentref Nebo, a bod yr ysgol yn darparu gofod ar gyfer cyfarfodydd cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol.
6.5.5	“Buasai cau'r ysgol hefyd yn mynd yn groes i Sstrategaeth Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru gan na fuasent yn gallu cyfarfod yn yr ysgol fel canolfan er mwyn lleihau bod yn ynysig.”	Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith Cymunedol, gan gadarnhau'r casgliad y rhagwelir y gallai cau Ysgol Nebo arwain at beth effaith negyddol ar y gymuned leol.
6.5.6	“Mae llawer mwy i'w ystyried yma na chostau gweithredu a ffigyrau ariannol... dylai goroesiad cymunedau Cymraeg gwledig... orbwyso penderfyniadau sy'n seiliedig ar ystyriaethau economaidd.”	Ar yr un pryd, mae'r Asesiad Effaith Cymunedol diwygiedig hefyd yn nodi bod canran uchel o blant dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-ddalgylch (78%), gan gynnwys Ysgol Llanllyfni, sy'n awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol ehangach eisoes yn bodoli. Mae'r asesiad hefyd yn nodi, pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei weithredu, y byddai'r Cyngor yn ceisio lliniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a chymuned yr ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo'n briodol, a defnyddio Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod fel fframwaith ar gyfer trafod opsiynau priodol ar gyfer dyfodol adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n ymarferol.
6.5.7	“...the proposal is fundamentally flawed and fails to meet the needs of Welsh rural communities.”	
6.5.8	“Mae Ysgol Nebo wedi dangos ei hyn fel goroeswr yn y brwydrau cyson o'r gaefeydd y swyddi Post, ysgolion, siopau ac y strydau fawr yn Ngwynedd, Cymru, a dros Prydain Fawr...Cymharu i lot o'r byd, be gennym ar y lefel gwledig yng Nghymru ydy rhywbeth i eiddigeddu... ond trysori o.”	Yn ogystal, fel rhan o'r broses statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith Llesiant, a chyhoeddwyd hwn hefyd fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Mae'r asesiad hwn wedi'i ddiweddarau yn dilyn yr ymgynghoriad, ac mae'n cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch effaith y cynnig ar nod “Cymru o gymunedau gydlynus” a “Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu”, yn enwedig o safbwynt lleihau cyfleoedd cymunedol i gymdeithasu, defnyddio'r Gymraeg yn naturiol, a chefnogi pobl hŷn.

		Mae'r Asesiad Effaith Llesiant diweddaraf yn dod i'r casgliad y gallai'r cynnig arwain at effaith negyddol bosibl ar y gymuned leol, ond hefyd yn nodi mesurau lliniaru posibl pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys: • annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a'r ysgol amgen, • hyrwyddo cydweithio cymunedol drwy weithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, • ac ystyried opsiynau priodol ar gyfer dyfodol adeilad yr ysgol fel rhan o drafodaethau ôl-ddefnydd, gan gymryd i ystyriaeth gweithgareddau cymunedol presennol.

7. Effaith ar yr Iaith Gymraeg

7.1 Yr ysgol fel prif ofod cymunedol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg / canolbwynt bywyd y pentref / cysylltiad cymunedol lleol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
7.1.1	"Piti mawr cau yr ysgol. I ni fel gwpwl ifanc mi oedd gwybod bod ysgol yn y pentre yn un o'r rhesymau dewision symud i nebo. Teimlo wrth gau yr ysgol, mi fydd llai o deuluoedd ifanc yn dod yma i fyw ac mwy o bobl allanol i'r wlad yn prynnu tai yma. Effaith mawr ar y gymdeithas y pentref a'r iaith gymraeg... Risg mawr wrth gau yr ysgol bod llai o deuluoedd ifanc am ddod yma i fyw, hynny yn debygol o ddod a lot o bobl tu allan i'r ardal i mewn. I gadw y iaith gymraeg yn fyw yn ein cymdeithas mi fydd angen gadw'r ysgol yn agored a meddwl am ffyrdd o ddod a bobl a theuluoedd ifanc lleol i mewn."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau ynghylch rôl yr ysgol fel prif ganolbwynt cymunedol a chymdeithasol ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn pentref Nebo a'r ardal gyfagos. Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith leithyddol, gyda'r materion a godwyd gan ymgynghorai yn cael eu hystyried wrth lunio'r asesiad diwygiedig.
7.1.2	"Mae'n hanfodol bod y Gymraeg yn cael ei hystyried fel iaith fyw o fewn yr ysgol a'r gymuned, nid yn unig fel iaith addysgu...dylai'r Cyngor sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn diogelu ac yn cynnal defnydd naturiol o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, yn enwedig o fewn yr ysgol dderbyn. Mae'n bwysig bod yr ysgol yn parhau i fod yn amgylchedd Cymraeg ei natur, nid yn unig yn ffurfiol ond hefyd yn gymdeithasol."	Mae'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Nebo ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y gymuned.
7.1.3	"Nebo... yn brysur lenwi gyda phobl di-Gymraeg sydd yn fodlon dod draw i'r ysgol leol... I brofi diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg...ni fyddent yn trafferthu teithio i bentref cyfagos i wneud hynny...Bydd bwriad Cyngor Gwynedd i gau'r ysgol yn bendant yn cael effaith andwyol ar yr iaith	Ar yr un pryd, daw'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol

	Gymraeg yn y pentref.” “mae'r ysgol yn rhan enfawr o roi profiad Cymraeg i bobl.”	Llanllyfni. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.
7.1.4	"Mae cau Ysgol Nebo yn mynd i gael effaith ar y pentref cyfan. Dyma'r unig le sydd ar gael i'r pentrefwyr ddod at ei gilydd i gymdeithasu yn enwedig yn yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn bwysig er mwyn cadw'r iaith yn fwy yn Nebo... Mi fydd cau'r ysgol yn cael effaith negyddol iawn ar yr iaith Gymraeg. Mae cyfarfodydd a nosweithiau cymdeithasol yn cael ei cynnal yn Saesneg yn Nebo ers tro byd. Mae cadw'r ysgol ar agor yn bwysig iawn i'r iaith yn Nebo"	Mae'r asesiad effaith diweddaraf yn nodi bod posibilrwydd y gallai'r cynnig gael effaith ar yr iaith Gymraeg o safbwynt y defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn Nebo pe byddai'r ysgol yn cau, ond nodir hefyd fesurau lliniaru posibl, gan gynnwys ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol i gefnogi'r Gymraeg, a hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys cymuned Nebo mewn gweithgareddau Cymraeg yr ysgol amgen, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.
7.1.5	“Mae Ysgol Nebo yn ganolbwynt cymunedol i'r pentref. Mae digwyddiadau'r ysgol yn cynnwys estyn allan i gymuned ehangach sydd yn dod a Chymraeg i fywydau preswylwyr di-Gymraeg y pentref na fyddent fel arall yn ei brofi”	
7.1.6	“Mae Ysgol Nebo yn cynnig profiad o'r iaith Gymraeg i ddisgyblion yr ardal yn ogytal ag oedolion y pentref na fyddent fel arall yn dod ar ei draws...mae Ysgol Nebo yn hafodol i hyrwyddo'r iaith o fewn y pentref.”	
7.1.7	“Yr ysgol di'r unig le yn y pentref i gymdeithasu yn y Gymraeg, mae'r di Gymraeg ym mynychu'r digwyddiadau yma ag yn cael profiad o'r iaith.”	
7.1.8	<i>“Mae'r ysgol yn darparu canolfan gymunedol ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cyfarfodydd a chynulliadau cymunedol. Hefyd, mae cyngherddau'r ysgol a diwrnodau eraill yn croesawu'r gymuned leol i mewn, lle clywir y Gymraeg yn cael ei siarad. Mae pentref bach fel Nebo angen yr ysgol i annog teuluoedd iau i ymuno â'r gymuned ac i ddysgu neu ddefnyddio'r iaith Gymraeg.”</i>	
7.1.9	<i>“Byddai cau'r ysgol yn cael effaith niweidiol ar ddefnydd y Gymraeg yn yr ardal. Mae'r Gymraeg wedi'i gwreiddio yn yr ysgol, ond yn llawer llai felly yn y gymuned leol. Byddai colli'r ysgol yn golygu llai o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr ardal... Ni allaf weld sut y gallai cau'r ysgol gael unrhyw effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl yn y gymuned leol ddefnyddio'r Gymraeg... Mae rhyngweithio â disgyblion a staff mewn digwyddiadau ysgol yn achlysuron lle ceir cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac rwyf wedi manteisio arnynt.”</i>	Fel uchod.
7.1.10	“Byddai cau ysgol wledig fel Ysgol Nebo yn peri risg sylweddol i gynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn y pentref a'r ardal ehangach. Mae'r ysgol yn ganolbwynt naturiol i fywyd Cymraeg y gymuned, gan ddarparu gofod dyddiol lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio'n naturiol gan blant, staff a theuluoedd. I lawer o blant, yr ysgol yw prif leoliad cymdeithasol lle cânt ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r cartref, ac mae ei chau yn debygol o	Fel uchod.

	arwain at ddirywiad mewn defnydd cymunedol o'r iaith. . O ganlyniad, byddai cau'r ysgol nid yn unig yn benderfyniad addysgol, ond hefyd yn benderfyniad a allai danseilio bywiogrwydd a pharhad yr iaith Gymraeg yn y gymuned leol am genedlaethau i ddod. Trwy gynnal gweithgareddau cymunedol, yr ysgol hon yw yr unig le ble y mae mwyafrif helaeth o gymuned y pentref, sydd yn fewnfudwyr yn clywed y Gymraeg yn cael ei siarad. Drwy gau a chael gwared o'r adnodd pwysig hwn o'r pentref, yna ni fydd y rhan helaeth hon o'r gymuned gallach bod yr iaith Gymraeg yn bodoli o gwbl"	
7.1.11	Am fod y rhan fwyaf o dai'r ardal yn wledig, mae'n bwysig bod y pentrefi yn gweithio i gadw'r iaith Cymraeg yn iaith byw, clywadwy a'i pharchu. Byddai'r cynllun i gau Ysgol Nebo (ac Ysgol Baladeulyn) yn cael effaith mawr ar gyflwr yr iaith yn yr Dyffryn. Yn ein cyfarfodydd pentrefol ac wrth gydweithio gyda Ysgol Nebo, rydym yn gwneud yn siwr bod defnydd y Gymraeg yn cael lle bwysig ac yn ei chlywed. Mae bron pob gohebiaeth sy'n cael eu dosbarthuo gwmpas y pentrefi yn mynd allan yn ddwyieithog. Mae rhan fwyaf o bobl sydd wedi mewnfudo i'r ardal yn tueddu bod yn ddi-Gymraeg, ond, drwy ein ymdrechion, yr Ysgol a'r Pwyllgor, yn parchu'r iaith ac yn derbyn bod ni'n byw mewn cymdeithas dwyieithog bywiog. WRTH GAU YSGOL NEBO A'N MAN CYFARFOD HOLL PWYSIG, BYDDAI'R EFFAITH YN HOLLOL NIWEIDIOL AR DDEFNYDD YR IAITH GYMRAEG YN YR ARDAL."	Fel uchod.
7.1.12	"Mae cau'r ysgol, heb unrhyw amheuaeth am gael effaith fawr ar y Gymraeg yma yn Nebo a Nasareth. Mae cymuned fywiog yma yn Nebo a Nasareth a'r ysgol yw calon y gymuned honno. Ysgol Nebo yw calon ein pentrefi, gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r trigolion. Mae'r clwb i bentrefwyr dros 60 oed - Clwb Dydd Llun a gynhelir bob yn ail brynhawn Llun yn rhoi cyfle i drigolion gyfarfod, ac yn ystod hynny maent yn cymysgu â'r plant gan ddarparu cyfleoedd rhyngweithio, dysgu a chwarae ar draws y cenedlaethau. Yn ogystal, mae cyngherddau Nadolig, canu carolau, bore coffi Macmillan, gorymdaith a chyngerdd Gwyl Ddewi gyda'r plant yn gweini cawl i'r pentrefwyr –nifer o rhain yn bobl di Gymraeg sydd wedi symud i fyw, ond sy'n gwerthfawrogi y cyfle i glywed y Gymraeg a chefnogi'r ysgol. Mae'r nosweithiau cymdeithasol, y clwb gwau, y teithiau cerdded, a'r cydweithio â'r ysgol yn llawer mwy na digwyddiadau cymdeithasol yn unig. Maent yn cyfrannu at iechyd a lles y trigolion a'r plant, ac yn darparu cydlyniant	Fel uchod.

	cymunedol hanfodol. Lle mae eiddo'n aml yn bell oddi wrth ei gilydd, maent yn mynd i'r afael â materion unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig i drigolion hŷn...mi fydd penderfyniad Cyngor Gwynedd o gau yr ysgol yn bendant yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg yn ein pentref. Y Cyngor fydd yn gyfrifol am ddirywiad yr iaith yn y rhan yma o Ddyffryn Nantlle – un o gadarnleoedd y Gymraeg.”	
7.1.13	“Buasai cau ysol Nebo... yn ergyd fawr i'r gymuned a'r pentref ac yn enwedig i'r aelodau hynny sy'n byw yno ac yn siarad ac yn defnyddio'r iaith yn ddyddiol...Mae'r ysgol yn cynnal digwyddiadau lle mae aelodau o'r gymuned yn gallu ymweld â hi a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg”	Fel uchod.
7.1.14	“Cau ysgol Nebo am gael effaith negatif iawn ar y iaith Gymraeg yn Nebo a Nasareth”	Fel uchod.
7.1.15	<i>“Mae'r ysgol yn cynnal digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n wych i ddysgwyr a siaradwyr brodorol fel ei gilydd.”</i>	Fel uchod.
7.1.16	<i>“Ni fydd pentrefwyr Nebo sy'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd ar gyfer amryw weithgareddau yn trafferthu teithio i Lawnllyfni ar gyfer gweithgareddau, ac felly ni fydd y rhan fwyaf o drigolion Nebo yn clywed gair o Gymraeg.”</i>	Fel uchod.
7.1.17	Nodir bod yr ysgol yn ymfalchïo mewn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn addysg Gymraeg a chyfleoedd cryf i ddatblygu'r iaith. Mynegir bod angen dangos yn glir sut y bydd addysg a chyfleoedd Cymraeg yn cael eu diogelu pe bai'r ysgol yn cau, heb golli mynediad na chynyddu oriau.	Fel uchod.
7.1.18	Mynegir pryder y byddai cau'r ysgol yn debygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg a'r gymuned ehangach, gyda'r ysgol yn ganolog i fywyd y pentref.	Fel uchod.
7.1.19	Mynegir y farn y byddai cau'r ysgol yn lleihau cyfleoedd i blant siarad Cymraeg, ac yn cael gwared ar fan lle mae pobl yn dod ynghyd i gymdeithasu drwy'r Gymraeg.	Fel uchod.
7.1.20	Pwysleisir bod yr ysgol yn darparu digwyddiadau cymdeithasol sy'n annog defnyddio'r Gymraeg yn y pentref, ac y byddai hyn yn cael ei golli pe bai'r ysgol yn cau.	Fel uchod.
7.1.21	<i>“Nid wyf yn teimlo y byddai Ysgol Llanllyfni yn cynnig yr un peth i'n plant lleol, gan fod plant Nebo yn dal i ddychwelyd i Nebo ar ôl yr ysgol, nid i Llanllyfni.”</i>	Fel uchod.
7.1.22	<i>“Byddai'n effeithio ar ysbryd cymunedol ac yn lleihau'r cyfleoedd i ymarfer y Gymraeg.”</i>	Fel uchod.

7.2 Effaith ar ddefnydd naturiol, pob-dydd o'r Gymraeg

	Sylw	Ymateb y Cyngor
7.2.1	"Byddai'r cynnig yn debygol o leihau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol o ddydd i ddydd o fewn cymuned Nebo, gan fod yr ysgol yn brif fan cymdeithasol a chymunedol lle defnyddir y Gymraeg yn gyson...byddai colli'r ysgol leol yn gwanhau defnydd cymunedol ac anffurfiol o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan greu risg y bydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol yn ymarferol o gymharu â'r Saesneg yn y gymuned leol."	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl y cynnig ar ddefnydd naturiol, pob dydd o'r Gymraeg, yn enwedig rôl Ysgol Nebo wrth feithrin amgylchedd lle defnyddir y Gymraeg yn gyson yn y dosbarth, ar y buarth ac o fewn bywyd cymdeithasol ehangach y gymuned. Pwysleisiwyd gan ymatebwyr fod dosbarthiadau llai, goruchwyliaeth staff a disgwyladau ieithyddol clir yn cefnogi trochi ieithyddol a defnydd anffurfiol cyson o'r Gymraeg.
7.2.2	"...dylai'r Cyngor sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn diogelu ac yn cynnal defnydd naturiol o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, yn enwedig o fewn yr ysgol dderbyn. Mae'n bwysig bod yr ysgol yn parhau i fod yn amgylchedd Cymraeg ei natur, nid yn unig yn ffurfiol ond hefyd yn gymdeithasol."	Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg.
7.2.3	Mynegir y farn y byddai cadw'r ysgol ar agor yn cyfrannu at atal dirywiad hirdymor diwylliant a'r iaith Gymraeg.	
7.2.4	" <i>Gan fod y newid arfaethedig yn golygu dosbarthiadau mwy, mae'n fwy tebygol y bydd mwy o ddisgyblion na allant siarad Cymraeg nac ei deall, a bydd hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i athrawon ffafrio'r defnydd o'r Gymraeg. Dosbarthiadau llai oedd yn bendant wedi helpu fi i afael yn yr iaith Gymraeg yn haws ac yn gynt... Byddai plant nad ydynt yn ymdopi'n dda mewn grwpiau mawr ac sy'n cael trafferth dysgu yn elwa o fynd i ysgol fach fel Nebo, a fyddai'n eu helpu i ddysgu a magu eu hyder yn y Gymraeg.</i> "	Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig yn cydnabod y gallai cau Ysgol Nebo achosi effaith ar yr iaith o safbwynt defnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn Nebo, yn enwedig o ystyried rôl yr ysgol fel prif fan cymdeithasol Cymraeg y pentref a diffyg canolfan gymunedol amgen. Ar yr un pryd, mae'r Asesiad yn dod i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar iaith addysg na darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, am y rhesymau canlynol:
7.2.5	Ysgol Nebo yn ysgol Gymraeg lawn, gyda defnydd cyson o'r Gymraeg yn y dosbarth ac ar y buarth, ac yn amgylchedd lle mae'r disgyblion yn ffynnu'n ieithyddol. Mynegir pryder y byddai symud disgyblion i ysgolion mwy a dosbarthiadau mwy yn cael effaith negyddol ar ddefnydd y Gymraeg, gan na fyddai'r un lefel o annog defnydd o'r iaith ar gael, yn enwedig mewn cyd-destunau anffurfiol megis amser chwarae, lle mae disgyblion yn fwy tebygol o droi at y Saesneg.	- Byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Llanllyfni. - Mae data CYBLD diweddar (Ionawr 2026) yn dangos canran uchel o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref yn y ddwy ysgol (56% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni) - Byddai dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran, sy'n cynnig potensial i gryfhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn anffurfiol gyda chyd-ddysgwyr.
7.2.6	"Mae Ysgol Nebo yn cynnig amgylchedd naturiol lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw bob dydd. Mae hyn yn hanfodol i gynnal hyder plant wrth ddefnyddio'r iaith ac i gefnogi nodau strategaeth Cymraeg 2050. Mewn ysgol fwy, mae'r risg y bydd plant yn troi at Saesneg yn uwch, yn enwedig mewn gweithgareddau anffurfiol. Bydd cau'r ysgol yn tanseilio'r defnydd naturiol o'r Gymraeg yn y gymuned ac yn peryglu traddodiadau lleol."	
7.2.7	"Byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar ddefnydd y Gymraeg gan y plant – mae ysgolion llai yn fwy tebygol o feithrin amgylchedd cwbl Gymraeg, gan	

	<i>fod iaith y buarth yn cael ei monitro a bod y Gymraeg yn cael ei hannog yno hefyd. Mewn ysgolion mwy, mae Saesneg yn fwy tebygol o fod yn iaith y buarth. Waeth beth fo addysgu'r Gymraeg, yr hyn sy'n cael ei siarad ar y buarth gyda ffrindiau sy'n meithrin perthynas plentyn â'r iaith.... Ar ôl dim ond ychydig wythnosau yn Nebo, roedd [fy mhlentyn] yn siarad mwy o Gymraeg gartref... rwy'n priodoli hyn i faint llai y dosbarthiadau ac i'r ffaith bod staff addysgu'n bresennol amser cinio, h.y. bod iaith y buarth hefyd yn Gymraeg."</i>	Yn y cyd-destun addysgol, rhagwelir y gallai'r trefniant gefnogi mwy o ryngweithio Cymraeg rhwng cyfoedion, a chynnal neu gryfhau bywiogrwydd y Gymraeg o fewn bywyd ysgol. Mae'r asesiad effaith diweddaraf hefyd yn nodi mesurau lliniaru posibl mewn perthynas â'r defnydd cymunedol o'r Gymraeg, gan gynnwys hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys cymuned Nebo mewn gweithgareddau yr ysgol amgen, ac ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol er mwyn parhau i gefnogi'r Gymraeg yn y gymuned lle bo hynny'n ymarferol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.
7.2.8	<i>"Mae'r Gymraeg wastad wedi bod yn brif iaith ddydd-i-ddiwrnod y plant yn yr ysgol, hyd yn oed y rhai sy'n ei dysgu fel ail iaith."</i>	
7.2.9	Nodir bod grwpiau llai o blant yn fwy tebygol o chwarae gyda'i gilydd a defnyddio'r Gymraeg yn naturiol o gymharu â sefyllfaoedd gyda mwy o blant. Mynegir y byddai cadw'r ysgol fach yn gwneud y sefyllfa'r Gymraeg haws ei rheoli ac yn cefnogi parhad y ddarpariaeth yn lleol.	
7.2.10	Nodir y byddai cau'r ysgol yn lleihau ymhellach y nifer o leoedd lle gall plant ddod at ei gilydd a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.	
7.2.11	<i>"Ni dderbyniaf y ddadl simplistaidd o gyfri pennau - chwaneg o ddisgyblion fe ly chwaneg o gyfleon siarad Cymraeg. Petai hi mor syml a hynny , byddai'n rhaid i'r Cyngor dderbyn hefyd y gwrthwyneb - sef leihau'r canran o siaradwyr Cymraeg yn Llanlyfni. Ond y gwir yw mai'r elfen bwysicaf yw bod disgyblion - o ba gefndir bynnag - yn perchnogi'r Gymraeg, yn ei datblygu fel eu cyfrwng personol naturiol yn eu hamgylchedd a'u cymuned nhw, nid ei gweld yn gyfrwng addysgol yn unig. "</i>	

7.3 Trochi Cymraeg, ysgol fach a datblygiad rhuglder

	Sylw	Ymateb y Cyngor
7.3.1	<i>"Mae Ysgol Nebo yn trochi ei disgyblion yn yr iaith Gymraeg fel rhan annatod o'r model addysgu... Ymhell o fod yn ateb, byddai cau'r ysgol yn cyfrannu at ddirywiad hirdymor diwylliant a'r iaith Gymraeg. Mae'r gymuned wedi defnyddio adeiladau'r ysgol ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol dwyieithog a gwersi Cymraeg. Mae mynychu digwyddiadau ysgol fel gwasanaethau carolau, boreau coffi a'r gystadleuaeth tatws yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl ddi-Gymraeg drochi yn yr iaith a'i dysgu."</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau ynghylch rôl Ysgol Nebo wrth ddarparu trochi llawn yn y Gymraeg fel rhan annatod o'i fodel addysgu, ac yn arbennig y farn bod maint bach yr ysgol, y gymuned ysgol glos a'r defnydd cyson o'r Gymraeg yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad rhuglder disgyblion, gan gynnwys plant o gartrefi di-Gymraeg. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r sylwadau ynghylch rôl yr ysgol fel adnodd i'r gymuned ehangach trwy ddigwyddiadau

7.3.2	<i>“Nid yw rhai o’r disgyblion sy’n mynychu Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg gartref, ac mae’r ysgol yn darparu lle iddynt ddysgu a defnyddio’r Gymraeg. Mae aelodau’r gymuned leol sy’n ymweld â’r ysgol hefyd yn gallu siarad Cymraeg gyda’r plant.”</i>	cymdeithasol, gwersi Cymraeg a chyfleoedd i oedolion a phlant drochi yn yr iaith y tu allan i’r ystafell ddosbarth.
7.3.3	<i>“Mae pob plentyn sydd yn mund i’r ysgol hon yn dreigl yn y gymraeg a saesneg erbun iddynt orffan yn yr ysgol...Maen bwysig iddynt ddysgu yr iaith a chadwr iaith yn fyw.”</i>	Fel rhan o’r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith leithyddol, gyda’r safbwyntiau a gyflwynwyd mewn ymateb i’r ymgynghoriad yn derbyn ystyriaeth wrth lunio’r fersiwn ddiwygiedig.
7.3.4	<i>“Mae Ysgol Nebo yn trochi ei disgyblion yn yr iaith Gymraeg fel rhan annatod o’r model addysgu, felly nid oes angen uned iaith Gymraeg arbenigol. Er mwyn cadw diwylliant ac iaith Gymraeg wledig yn fyw yn y gymuned hon, mae’r ysgol yn rhan hanfodol o ddatblygiad hirdymor yr ardal. Ymhell o fod yn ateb, byddai cadw’r ysgol ar agor yn cyfrannu at atal dirywiad hirdymor diwylliant a’r iaith Gymraeg.”</i>	Mae’r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig yn nodi y gallai cau’r ysgol gael effaith ar yr iaith o safbwynt defnydd o’r iaith Gymraeg o fewn y gymuned. Ar yr un pryd, mae’r Asesiad yn dod i’r casgliad nad yw’r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar iaith addysg na darpariaeth addysg Gymraeg am y rhesymau canlynol:
7.3.5	<i>“Deuthum i fyw yng Nghymru yn y 1970au, ac ymsefydlais yn fuan gyda’m teulu mewn pentref gwledig bach. O’r diwrnod cyntaf cawsom ein trochi’n llwyr yn niwylliant y pentref a’r Gymraeg. Mynychodd fy mhentyn yr Ysgol Feithrin newydd ei sefydlu yn y pentref, ac yna o bedair oed ymlaen yr ysgol bentref, gan ddatblygu ei iaith mewn ffordd gwbl naturiol ochr yn ochr â’i addysg... Credaf felly, mai oherwydd iddynt fynychu ysgolion trefol mwy lle roedd ganddynt ddewis, ac na chawsant y profiad o drochi llawn a gawsom ni mewn cymuned fach gydag ysgol bentref.”</i>	• Byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Llanllyfni. • Mae data CYBLD diweddar (Ionawr 2026) yn dangos canran uchel o ddysgwyr sy’n siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref yn y ddwy ysgol (56% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni) • Byddai dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy gyda mwy o gyfoedion o’r un oedran, sy’n cynnig potensial i gryfhau cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn anffurfiol gyda chyd-ddysgwyr. • Yn y cyd-destun addysgol, rhagwelir y gallai’r trefniant gefnogi mwy o ryngweithio Cymraeg rhwng cyfoedion, a chynnal neu gryfhau bywiogrwydd y Gymraeg o fewn bywyd ysgol.
7.3.6	<i>“Mae Ysgol Nebo yn trochi ei disgyblion yn yr iaith Gymraeg fel rhan annatod o’r model addysgu... bydd cadw’r ysgol ar agor yn cyfrannu at atal dirywiad hirdymor diwylliant a’r iaith Gymraeg.”</i>	
7.3.7	<i>“Rwy’n credu y bydd plant nad ydynt yn siarad Cymraeg yn codi’r iaith yn llawer cyflymach mewn ysgol fach, ac yn fwy tebygol o’i defnyddio gan eu bod yn debygol o gael llai o ffrindiau sy’n siarad Saesneg.”</i>	
7.3.8	Gan fod y cartref yn Saesneg ei iaith, nodir bod ysgol Gymraeg fechan gyda chymuned glos yn cael ei hystyried yn fuddiol i ddatblygiad iaith eu plentyn.	
7.3.9	<i>“Ysgol Nebo immerses their pupils in the Welsh language, as an integral part of the teaching model, so a special Welsh language unit is not necessary...keeping it open will contribute to halting the long term demise of Welsh culture and language.”</i>	Mae’r asesiad effaith diweddaraf hefyd yn nodi mesurau lliniaru posibl, pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys ystyried opsiynau priodol

7.3.10	“mae mwy Ysgol sy'n dysgu trwy y Cymraeg yn well na llai...I gau yr ysgol hwn yn cau un ysgol arall sy'n defnyddio Cymraeg fel y prif iaith”	ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol er mwyn parhau i gefnogi defnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, a hyrwyddo cyfleoedd i gymuned Nebo gymryd rhan mewn gweithgareddau yr ysgol amgen, lle bo hynny'n ymarferol.
7.3.11	“Mae Ysgol Nebo yn trochi disgyblion yn yr iaith Gymraeg fel rhan annatod o'i haddysg. Felly mae'r Ysgol yn rhan bwysig i annog a cadw'r Gymraeg mewn ardaloedd gwledig yn fyw yn enwedig pan mae teuluoedd Saesneg yn symud i fyw a danfon eu plant i Ysgol Nebo. Heb ystyried eich ystedegau yn yr ymgynghoriad, y realiti yw fod plant di-Gymraeg sy'n mynychu Ysgol Gymraeg yn fwy debygol o lwyddo a dysgu'r iaith mewn ysgolion gyda dosbarthiadau llai o faint. Mi fydd cau Ysgol Nebo yn mynd yn erbyn hyn gyda effaith annochel dirywiol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal.”	
7.3.12	<i>“Mae Ysgol Nebo yn trochi ei disgyblion yn yr iaith Gymraeg fel rhan annatod o'r model addysgu, felly nid oes angen uned iaith Gymraeg arbenigol. I gadw diwylliant ac iaith Gymraeg wledig yn fyw yn y gymuned hon, mae'r ysgol yn rhan hanfodol o ddatblygiad hirdymor yr ardal. Ymhell o fod yn ateb, byddai cadw'r ysgol ar agor yn cyfrannu at atal dirywiad hirdymor diwylliant a'r iaith Gymraeg.”</i>	
7.3.13	Mynegir y farn y byddai cau'r ysgol yn cael effaith drychinebus ar y Gymraeg, gan fod yr ysgol â hanes o gefnogi disgyblion di-Gymraeg i ddod yn siaradwyr newydd, heb ddarpariaeth debyg yn yr ardal.	
7.3.14	Pwysleisir bod Ysgol Nebo yn darparu trochi llawn drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddatblygu rhuglder disgyblion; nodir y byddai trosglwyddo i ysgolion eraill yn debygol na fyddai hynny'n digwydd. Amlygir rôl ehangach yr ysgol wrth hybu defnydd cymunedol o'r Gymraeg, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd dwyieithog y pwyllgor pentref sy'n annog aelodau di-Gymraeg i ddefnyddio'r iaith. Nodir bod yr ysgol hefyd wedi bod yn lleoliad ar gyfer gwersi Cymraeg, a byddai cau'r ysgol yn arwain at golli'r cyfleoedd hyn i ddysgu a defnyddio'r iaith yn lleol.	
7.3.15	Nodir bod yr ysgol wedi helpu rhai plant o ardaloedd eraill nad oeddent yn siarad Cymraeg i ddysgu'r iaith, ac y byddai cau'n lleihau'r math hwn o gyfleoedd.	
7.3.16	Pwysleisir bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gyson yn yr ysgol, gan gefnogi cynnydd ieithyddol disgyblion mewn amgylchedd gofalgaf. Nodir bod safon Cymraeg y plentyn wedi gwella'n sylweddol o ganlyniad o'r amser	

	yn Ysgol Nebo o'i gymharu â phrofiadau blaenorol mewn ysgolion eraill. Mynegir y farn mai'r unig ffordd i sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yw cadw disgyblion yn yr ysgol fach, feithringar a Chymraeg ei chyfrwng.	
7.3.17	"Mae pob plentyn sydd yn mund i'r ysgol hon yn dreigl yn y gymraeg a saesneg erbun iddynt orffan yn yr ysgol...Maen bwysig iddynt ddysgu yr iaeth a chadwr iaeth yn fyw."	

7.4 Trosglwyddiad rhyng-genedlaethol a'r Gymraeg fel iaith fyw

	Sylw	Ymateb y Cyngor
7.4.1	"Byddai cau Ysgol Nebo yn cymryd y cyfle oddi wrth blant fel fy mhleintyn i sy'n dysgu Cymraeg. Po fwyaf y mae [y plentyn] yn dysgu Cymraeg, y mwyaf y mae [y plentyn] yn ei ddysgu i minnau a thad [y plentyn], ac yn y modd hwn bydd yr iaith Gymraeg yn parhau i dyfu – po fwyaf o bobl sy'n ei dysgu, y mwyaf y bydd yn parhau. Rwy'n meddwl y dylai fod mwy o siaradwyr Cymraeg i gadw'r iaith yn fyw. Byddwn innau wrth fy modd yn dysgu Cymraeg; mae fy mhlant yn siarad Cymraeg ac weithiau maent yn cael gwaith cartref drwy'r Gymraeg, a byddwn wrth fy modd yn gallu deall sut i'w helpu gyda'u gwaith cartref."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd ynghylch rôl Ysgol Nebo wrth gefnogi trosglwyddiad rhyng-genedlaethol y Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw o fewn y gymuned, gan gynnwys y cyfraniad y mae'r ysgol yn ei wneud at annog plant o gartrefi di-Gymraeg i ddod yn siaradwyr Cymraeg, a'r effaith gadarnhaol y gall hyn ei chael ar rieni, gofaldwyr a thrigolion ehangach drwy gyswllt teuluol a chymunedol. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r sylwadau a oedd yn nodi fod Ysgol Nebo, drwy ei model trochi Cymraeg a'i rôl gymunedol, yn darparu cyfleoedd i oedolion a phlant glywed, defnyddio a dysgu'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan gynnwys drwy ddigwyddiadau ysgol, gwersi Cymraeg i oedolion a chysylltiadau rhyng-genedlaethol, yn ogystal â mynegi pryderon y gallai cau'r ysgol arwain at leihad yn y cyfleoedd hyn, yn enwedig yn sgil diffyg gofod cymunedol amgen yn Nebo a Nasareth. Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith leithyddol. Mae'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig yn nodi y gallai cau'r ysgol gael effaith ar yr iaith o safbwynt defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y gymuned. Ar
7.4.2	"Cynhaliwyd gwersi Cymraeg hefyd yn yr ysgol ar gyfer pentrefwyr, nid yn unig mae'r ysgol yn trochi'r disgyblion yn y Gymraeg, ond mae'r pentrefwyr yn clywed ac yn cael defnyddio'r iaith hefyd sy'n golygu fod yr ysgol yn hanfodol ar gyfer gwarchod yr iaith a'n diwylliant. Bydd gweithgareddau'r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y caiff yr adeilad ei gau gan gael effaith andwyol ar yr iaith yn Nebo a Nasareth"	
7.4.3	<i>"Mae llawer ohonom sydd naill ai'n dysgu neu wedi dysgu Cymraeg yma wedi gwneud hynny oherwydd bod ein plant wedi'u trochi yn yr iaith Gymraeg yn yr ysgol. Fe ddaethom â thiwrtor Cymraeg i mewn ychydig flynyddoedd yn ôl i annog pobl hŷn i ddefnyddio'r Gymraeg, ac roedd gobaith y gallem wneud hyn eto, ond os bydd yr ysgol yn cau ni fydd lle i wneud hynny gan nad oes unrhyw ofod 'cyhoeddus'/'cymunedol' arall ar gael yn Nebo a Nasareth. Felly, mae'n debygol y bydd yr iaith Gymraeg yn</i>	

	<i>dirywio rhywfaint yn yr ardal hon... os bydd yr ysgol yn cau, bydd gan rai trigolion lai o gyfleoedd i ymarfer eu sgiliau iaith, a bydd hynny'n golygu y bydd y Saesneg yn dominyddu'n fwy."</i>	yr un pryd, mae'r Asesiad yn dod i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar iaith addysg na darpariaeth addysg Gymraeg am y rhesymau canlynol:
7.4.4	"Mae Ysgol Nebo'n cynnig cyfle gwych i'r holl ddisgyblion fagu hyder yn eu defnydd o'r Gymraeg, pa iaith bynnag yw iaith yr aelwyd. Mae'r plant yn cael cyfle i gymysgu a thrigolion hyn yr ardal, sydd yn cyfrannu at berthynas ryng-genedlaethol positif a iach a hynny drwy'r iaith Gymraeg. Gwelent bod yr iaith yn fyw. Heb hyn, ni fuasai cyfle iddynt gymysgu a'r trigolion yn y Gymraeg. Hefyd, mae nifer o siaradwyr gwadd yn dod i'r ysgol. Cefais innau'r fraint o fynd atynt i siarad a hwy yn Gymraeg"	• Byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Llanllyfni. • Mae data CYBLD diweddar (Ionawr 2026) yn dangos canran uchel o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref yn y ddwy ysgol (56% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni) • Byddai dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran, sy'n cynnig potensial i gryfhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn anffurfiol gyda chyd-ddysgwyr. • Yn y cyd-destun addysgol, rhagwelir y gallai'r trefniant gefnogi mwy o ryngweithio Cymraeg rhwng cyfoedion, a chynnal neu gryfhau bywiogrwydd y Gymraeg o fewn bywyd ysgol.
7.4.5	"Cynhaliwyd gwersi Cymraeg hefyd yn yr ysgol ar gyfer pentrefwyr sydd wedi symud yma i fyw. Bydd gweithgareddau'r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y caiff yr adeilad ei gau a bydd effaith andwyol ar yr iaith, iechyd a lles ym mhentrefi Nebo a Nasareth."	
7.4.6	"Petasai Cyngor Gwynedd yn cau'r ysgol yn gyfangwbl ni fuasai gan y trigolion y gymuned gyfle i ymarfer eu sgiliau iaith yn Gymraeg, yn enwedig os ydynt yn newydd-ddyfodiaid uniaith Saesneg. Buasai hyn yn mynd yn erbyn targed Llywodraeth Cymru i gael 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Wrth gadw'r ysgol yn agored buasai pawb, yr oedolion yn ogystal a'r plant yn gallu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg ac ni fuasai'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg...Byddai cadw'r ysgol yn agored hefyd yn galluogi i'r pentrefwyr ei defnyddio fel canolfan gymunedol lle mae oedolion di-Gymraeg hŷn y pentref yn mwynhau siarad Cymraeg gyda'r pentrefwyr Cymraeg. Unwaith eto, buasai hyn yn galluogi i Gyngor Gwynedd ymrwymo i helpu Llywodreth Cymru gyrraedd y nod o 1m o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050."	
7.4.7	"Byddai gallu defnyddio'r ysgol gyda'r nos ar gyfer gwersi Cymraeg gyda thiwtor cymwys yn helpu pobl fel fi, sy'n cael trafferth dysgu a chadw'r iaith yn eu saithdegau, heb orfod teithio i fynd i ddosbarthiadau."	

Mae'r asesiad effaith diweddaraf hefyd yn nodi mesurau lliniaru posibl, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol er mwyn parhau i gefnogi defnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, a hyrwyddo cyfleoedd i gymuned Nebo gymryd rhan mewn gweithgareddau yr ysgol amgen, lle bo hynny'n ymarferol.

7.5 Effaith cau'r ysgol ar ddemograffeg ieithyddol, deniadolrwydd teuluoedd a chynaliadwyedd y Gymraeg

	Sylw	Ymateb y Cyngor
7.5.1	<i>“Byddai cau'r ysgol yn gwneud y pentref yn llai deniadol i deuluoedd ac felly'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd mwy o drigolion di-Gymraeg yn symud i mewn.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Nebo ar ddemograffeg ieithyddol y pentref, deniadolrwydd yr ardal i deuluoedd Cymraeg, a chynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw.
7.5.2	<i>“Waeth beth fo'r canrannau a nodir yn y ddogfen, mewn termau real, erbyn 2027 byddai tua 5–6 o blant di-Gymraeg o Nebo yn ymuno â thua 16 o blant di-Gymraeg yn Llanllyfni, gan greu grŵp sylweddol a fyddai'n debygol o gymdeithasu gyda'i gilydd ac yn rhwystro eu defnydd o'r Gymraeg drwy chwarae ac yn gymdeithasol, gan newid demograffeg Ysgol Llanllyfni... Pe caniateir i'r adeilad fynd i'r farchnad fasnachol, mae pob tebygolrwydd y caiff ei ddefnyddio ar gyfer twristiaeth neu fel ail gartref, nad yw er budd cymunedau gwledig Cymraeg na'r iaith Gymraeg.”</i>	Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r pryder a fynegwyd ynghylch sut y gallai colli'r ysgol leihau atyniad Nebo a Nasareth i deuluoedd â phlant o oed ysgol, gan arwain at newidiadau demograffig a allai effeithio ar batrymau defnydd cymunedol o'r Gymraeg yn y tymor hwy. Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith Ieithyddol.
7.5.3	Mynegir pryder y byddai cau'r ysgol yn lleihau deniadolrwydd y pentref i deuluoedd Cymraeg, gan effeithio'n negyddol ar ddefnydd cymunedol o'r Gymraeg.	Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig yn cydnabod y gallai'r cynnig arwain at effaith ar yr iaith Gymraeg o safbwynt bywiogrwydd cymunedol y Gymraeg, yn enwedig o ystyried rôl Ysgol Nebo fel canolbwynt cymdeithasol Cymraeg y pentref. Ar yr un pryd, mae'r Asesiad yn dod i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Llanllyfni, gyda mynediad parhaus at addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
7.5.4	<i>“Byddai cau'r ysgol yn gwneud y pentref yn llai deniadol i deuluoedd ac felly'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd mwy o drigolion di-Gymraeg yn symud i mewn. Mae hyn yn groes i obaith Llywodraeth Cymru...”</i>	
7.5.5	<i>“Bydd y pentref yn marw, bydd teuluoedd ifanc yn symud allan o bosibl i ardaloedd mwy Seisnig-eu-hiaith, gyda dirywiad anochel yn yr iaith Gymraeg.”</i>	
7.5.6	<i>“Bydd cau'r ysgol yn ei gwneud yn llai deiniadol y deuluoedd ifanc ymgartrefu'n Nebo a Nasareth. O ganlyniad buasai hyn yn profi'n negyddol tuag at darged Llywodraeth Cymru o gael un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.”</i>	Yn y cyd-destun addysgol, nodir hefyd fod y trefniant arfaethedig yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran, mewn amgylchedd cyfrwng Cymraeg, a bod hyn yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol at gynnal defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr.
7.5.7	Mynegir y farn y byddai cau Ysgol Nebo yn ergyd fawr i ddyfodol y Gymraeg ac i allu'r ardal ddenu a chynnal siaradwyr Cymraeg.	
7.5.8	<i>“Byddai cau'r ysgol yn gwneud y pentref yn llai deniadol i deuluoedd ac felly'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd mwy o drigolion di-Gymraeg yn symud i mewn. Mae hyn yn groes i obeithion Llywodraeth Cymru.”</i>	Mae'r asesiad effaith diweddaraf hefyd yn nodi mesurau lliniaru posibl, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol er mwyn parhau i gefnogi defnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, a hyrwyddo cyfleoedd i gymuned Nebo
7.5.9	<i>“Byddai cau'r ysgol yn gwneud y pentref yn llai deniadol i deuluoedd ac felly'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd mwy o drigolion di-Gymraeg yn</i>	

	<i>symud i mewn. A yw hyn yn groes i obeithion Llywodraeth Cymru o ran sefydlu'r iaith Gymraeg?"</i>	gymryd rhan mewn gweithgareddau yr ysgol amgen, lle bo hynny'n ymarferol.
7.5.10	<i>"Mae'n debygol y bydd cau'r ysgol yn lleihau nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n symud i'r gymuned, yn enwedig y rheini â phlant o oed ysgol."</i>	

7.6 Hunaniaeth, diwylliant, cynefin a chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg gwledig a pharhad yr iaith

	Sylw	Ymateb y Cyngor
7.6.1	Mynegir y farn y byddai cau Ysgol Nebo yn cael effaith ddifrifol ar yr ardal a'i phobl. Nodir bod y gymuned yn un Gymraeg gref gyda hanes lleol dwfn sy'n gysylltiedig â chenedlaethau blaenorol.	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Nebo ar hunaniaeth ddiwylliannol, ymdeimlad o gynefin, a chynaliadwyedd cymuned Gymraeg wledig y pentref a'r ardal gyfagos, yn ogystal â nodi'r sylwadau ynghylch rôl ganolog yr ysgol fel calon gymunedol sy'n cefnogi nid yn unig addysg, ond hefyd trosglwyddiad diwylliant, hunaniaeth a'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau. Mae'r Cyngor yn nodi bod rhai ymatebwyr yn ystyried bod Ysgol Nebo yn cyfrannu at ddefnyddio a throsglwyddo'r iaith Gymraeg yn y gymuned drwy ei haddysg cyfrwng Cymraeg a gweithgareddau cysylltiedig. Mae hefyd yn nodi pryderon a fynegwyd y gallai cau'r ysgol leihau atyniad yr ardal i deuluoedd ifanc, gyda goblygiadau posibl ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y boblogaeth leol sy'n siarad Cymraeg. Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad statudol, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith leithyddol. Mae'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig yn cydnabod y gallai cau Ysgol Nebo yn gael effaith ar fywiogrwydd y Gymraeg yn y gymuned leol, yn enwedig o ystyried rôl yr ysgol fel prif ganolbwynt Cymraeg y pentref, a'r diffyg darpariaeth gymunedol amgen. Ar yr un pryd, mae'r Asesiad yn dod i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i
7.6.2	Nodir bod Ysgol Nebo yn chwarae rhan ganolog wrth gynnal y Gymraeg, diwylliant lleol a'r ymdeimlad o hunaniaeth ('cynefin') yn Nebo a Nazareth. Mynegir pryder y byddai cau'r ysgol yn niweidio cynaliadwyedd cymuned Gymraeg wledig, ac yn tanseilio'r atyniad i deuluoedd ifanc symud i'r ardal. Tynnir sylw at rôl yr ysgol fel sail i drosglwyddo diwylliant a hunaniaeth rhwng y cenedlaethau, gan gefnogi parhad y Gymraeg yn y gymuned.	
7.6.3	"byddai cau yr ysgol yn gam gwag mawr i'r disgyblion yma heb sôn am drigolion y pentref a'r iaith Gymraeg. Yr ysgol ydi calon y gymuned arbennig hon ac mae hi'n gosod sail i'r Gymraeg a'i thraddodiadau i ffynnu."	
7.6.4	"Mae'n debygol y bydd y cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael effeithiau negyddol sylweddol ar gyfleoedd i bobl, yn enwedig plant a theuluoedd, ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. Fel ysgol cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i hymgorffori yn y gymuned, mae'r ysgol yn ganolog nid yn unig i addysg ond i hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol y pentref. Byddai ei chau yn lleihau defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r iaith Gymraeg ac yn peryglu tanseilio'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Byddai cael gwared ar yr ysgol yn cyflymu dirywiad ieithyddol a diwylliannol ac yn erydu cymeriad Cymreig y gymuned. Mae'r ysgol hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth gynnal y Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth trwy ddigwyddiadau, ymgysylltu â rhieni a gweithgareddau cymunedol. Mewn cymuned sydd eisoes yn profi newid demograffig, byddai ei chau yn gwanhau un o'r ychydig feysydd naturiol sy'n weddill o ran yr iaith Gymraeg."	
7.6.5	"Mae cau ysgolion gwledig yn benderfyniad i gefnu ar y gymdeithas yna am byth ac derbyn ni fydd hi'n ardal Gymraeg bellach. Mae nifer helaeth o achosion ble mae colli'r ysgol wedi cael effaith andwyol ar sefyllfa y	

	Gymraeg yn y pentref. Nid oes ond angen edrych ar ardaloedd fel Carmel a'r Fron i weld sut mae cau ysgolion wedi cael effaith andwyol ar y Gymraeg yn Nyffryn Nantlle ac felly mae'r sylw diystyriol tuag at colli y gymuned yn destyn siom. Mae rhaid edrych yn agos iawn ar effaith cau ysgolion ar y Gymraeg yn y pentre yn gyfangwbl. Mae angen ysgolion bach gwerthfawr fel ysgol Nebo ar ein hardaloedd a fandaliaeth gymdeithasol fyddai ei gwared”	gael eu haddysgu mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Llanllyfni, gyda mynediad parhaus at addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
7.6.6	“Heb os, os cau'r ysgol, yna Cyngor Gwynedd fydd yn gyfrifol am ddirywiad yr iaith yn y rhan yma o Ddyfryn Nantlle - un o gadarnleodd yr iaith Gymraeg.”	Yn y cyd-destun addysgol, nodir hefyd y byddai'r trefniant arfaethedig yn gallu cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran mewn amgylchedd Cymraeg, a bod hyn yn gallu cefnogi parhad defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon ynghylch effaith ehangach ar yr iaith Gymraeg o fewn y gymuned leol.
7.6.7	Mynegir y farn y byddai cadw'r ysgol ar agor (yn enwedig ar gyfer disgyblion sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy) yn helpu cynnal canolbwynt Cymraeg y gymuned.	Mae'r asesiad effaith diweddaraf hefyd yn nodi mesurau lliniaru posibl, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol er mwyn parhau i gefnogi defnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, a hyrwyddo cyfleoedd i gymuned Nebo gymryd rhan mewn gweithgareddau yr ysgol amgen, lle bo hynny'n ymarferol.
7.6.8	<i>“Mae bod yn yr ysgol yn unig, gyda'r holl Gymraeg ar y waliau, yn helpu i gadw'r pentref yn Gymraeg a Chymraeg... Mae teuluoedd â phlant sy'n edrych i ymgartrefu yn yr ardal yn aml yn ystyried pa fath o gymuned y maent am i'w plant dyfu ynddi... Mae'r ysgol yn gwneud gwahaniaeth o ran a yw dwyieithrwydd yn cael ei ystyried yn rhan o gymeriad y lle... Gall teuluoedd Seisnig a Chymraeg fel ei gilydd fod eisiau i'w plant dyfu'n ddwyieithog... Dim ond drwy gadw'r ysgol ar agor y gellir sicrhau hyn... Heb yr ysgol i'n cefnogi, byddai'n frwydr goll.”</i>	
7.6.9	“Mae angen parham l gefnogi ysgolion bach cymunedol Cymraeg ar gyfer dyfyddol yr iaith ac i sicrhau cymuned mewn ardaloedd wledig.”	

7.7 Polisi iaith a dyletswyddau statudol y Cyngor: statws y Gymraeg, yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol, a'r effaith ar ddefnydd cymunedol, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg

	Sylw	Ymateb y Cyngor
Tud. 91	7.7.1 “Gellid llunio neu addasu'r cynnig drwy sicrhau bod darpariaeth addysg Gymraeg leol yn parhau i weithredu o fewn y gymuned, gyda threfniadau pendant i gynnal a hyrwyddo defnydd beunyddiol o'r Gymraeg mewn cyd-destunau addysgol a chymunedol. Byddai hyn yn helpu i gydymffurfio â'r ddyletswydd i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd ynghylch dyletswyddau statudol yr Awdurdod o dan Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), yn benodol yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a'r angen i sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'r broses benderfynu.

	liniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, tra hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru - miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050"	Fel rhan o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, mae Cwestiwn 10 yn gofyn sut mae'r cynnig yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac yn cynnal neu'n cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Yn ymateb i hyn, nodir bod parhad addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei sicrhau, gan y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Llanllyfni.
7.7.2	"Mae'r asesiadau effaith yn chwerthinllyd o wael ac mae'r syniad fod cau ysgol wledig Gymraeg yn cael effaith bositif ar y Gymraeg yn gywilyddus. Mae'r asesiadau effaith dim ond yn canolbwyntio ar adran fechan iawn o gymdeithas (plant 4-11). -Nid oes unrhyw ymgais wedi'i wneud gan y Cyngor i asesu effaith cau'r ysgol yma ar y Gymraeg yn ardal Nebo a Nasareth. Nid oes chwaith unrhyw asesiad effaith ar anfon plant (fel yn eich sylw chi o deuluoedd di-gymraeg) i ysgolion fwy Cymraeg fel Llanllyfni. Nid oes unrhyw ymgais i weld effaith mae cau ysgolion gweledig yn cael ar yr iaith yn gyffredinol. Mae'r asesiad effaith yn hunangyflenwol ac ond wedi cael ei greu i gefnogi bwriad y Swyddogion o gau yr ysgol. Rhaid cael asesiad annibynnol teg neu mae'r broses yma yn ffars."	Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a chyhoeddwyd y ddau fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr asesiadau effaith.
7.7.3	"Rhaid i'r Cyngor gydnabod a fod yn onest fod cau yr ysgol am gael effaith negyddol ar y Gymraeg" "Rwyf yn erfyn ar y Cyngor i gydnabod a fod yn onest fod cau yr ysgol am gael effaith negyddol ar y Gymraeg a gwneud asesiad effaith manwl ar y mater a dim whitewash fel hwn."	Mae'r asesiad Cydraddoldeb diwygiedig yn dod i'r casgliad bod y cynnig yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg drwy sicrhau parhad addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn y ddarpariaeth addysgol. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor yn gydnabod y byddai cau Ysgol Nebo yn gallu lleihau cyfleoedd cymunedol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg, ac felly mae mesurau lliniaru wedi'u nodi i geisio cynnal a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, fel nodir isod.
7.7.4	"Mae cael gwared ar sefydliad iaith Gymraeg lleol yn ergyd i siaradwyr Cymraeg ac yn gwrthdaro â Chymraeg 2050, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a pholisiau cenedlaethol ehangach"	Mae'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig yn dod i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar iaith addysg na darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, ond mae'n gydnabod rhywfaint o effaith bosibl o ran colli cyfleoedd cymunedol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn Nebo, yn enwedig o ystyried diffyg darpariaeth gymunedol amgen.
7.7.5	"Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn nodi disgwyliadau clir ar awdurdodau lleol o ran cefnogi pob disgybl ar draws pob lleoliad addysgol i ddod yn siaradwyr Cymraeg annibynnol."	O ganlyniad, mae'r asesiadau effaith diwygiedig yn nodi mesurau lliniaru posibl, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys:
7.7.6	"Byddai cau Ysgol Nebo yn golled barhaol i'r Gymraeg yn lleol. Mae'r ysgol yn ased i'r iaith a'r diwylliant ers 150 o flynyddoedd, ac mae ei cholli yn tanseilio defnydd cymunedol dyddiol o'r Gymraeg. Er y gall darpariaeth Gymraeg barhau mewn ysgol arall, mae Ysgol Nebo yn darparu cyfleoedd beunyddiol, anffurfiol a chymunedol i ddefnyddio'r Gymraeg, sy'n hanfodol i hyder ieithyddol a throsglwyddiad rhyng-genedlaethol yr iaith. Byddai cau'r ysgol yn lleihau'r cyfleoedd hyn ac yn tanseilio statws y Gymraeg fel iaith gymunedol."	

7.7.7	“Mae cael gwared ar sefydliad iaith Gymraeg lleol yn rhoi baich anghymesur ar siaradwyr Cymraeg ac yn gwrthdaro â Chymraeg 2050, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Safonau'r Iaith Gymraeg, a pholisi cenedlaethol ehangach.”	- ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad Ysgol Nebo er mwyn parhau i gefnogi defnydd cymunedol a diwylliannol o'r Gymraeg; - hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys cymuned Nebo a Nasareth mewn gweithgareddau Cymraeg yr ysgol amgen; - annog cydweithio cymunedol i gynnal cyfleoedd i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg y tu hwnt i ddarpariaeth addysgol ffurfiol.
7.7.8	Codir pryder am anghysondeb canfyddedig rhwng nodau i gynyddu defnydd y Gymraeg a'r cynnig i gau lleoliad cymunedol lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad a'i dysgu'n naturiol.	
7.7.9	“Yn fy marn i, dylid llunio neu addasu'r cynnig mewn ffordd sy'n rhoi'r Gymraeg wrth galon y penderfyniad, ac yn sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dylai'r Cyngor sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn cryfhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn hytrach na'u lleihau.”	

7.8 Safbwyntiau sy'n mynegi bod y ddarpariaeth Gymraeg amgen yn ddigonol neu'n gadarnhaol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
7.8.1	Mynegir y farn bod y ddarpariaeth Gymraeg yn ddigonol mewn ysgolion lleol ac nad yw'r cynnig yn peri pryder ieithyddol sylweddol, gan nodi hefyd nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae'r Cyngor yn nodi barn rhai ymatebwyr fod y ddarpariaeth Gymraeg amgen yn ddigonol neu'n gadarnhaol, ac nad yw'r cynnig, yn eu safbwynt hwy, yn peri pryder ieithyddol sylweddol.
7.8.2	“...mae'r ysgolion amgen o fewn yr un cymunedau... mae'n deg dweud fod cymunedau'r ysgolion Amgen yn fwy cymreig eu cymeriad.”	
7.8.3	“Cadarnhaol iawn o ran y Gymraeg...Bydda eu symud yn gwella eu sgiliau Cymraeg gan y byddant yn ei defnyddio yn fwy naturiol.”	

7.9 Safbwyntiau cyffredinol a fynegwyd ynghylch effaith andwyol bosibl y cynnig ar yr iaith Gymraeg

	Sylw	Ymateb y Cyngor
7.9.1	“School closure could have no positive effect on the Welsh language.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
7.9.2	“Rwyf yn grediniol fod y cais am gael effaith andwyol ar y Gymraeg, ar y gymuned a llai o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
7.9.3	“mae'r asesiadau'n dangos bod effaith parhau â'r ysgol neu ail-lunio darpariaeth yn niwtral o safbwynt safonau addysg, tra bod cau'n arwain at effeithiau negyddol clir ar y gymuned a'r iaith Gymraeg.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.

7.9.4	Dadleuir bod mwy o ysgolion yn cynyddu amrywiaeth arbenigedd Cymraeg, rhannu arfer da, a chryfhau rhwydweithiau ieithyddol lleol; byddai cau'r ysgol yn lleihau cynrychiolaeth addysgol Gymraeg y pentref.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
7.9.5	Mynegir barn feirniadol am y ffordd y caiff y Gymraeg ei hyrwyddo, gyda'r safbwynt y gallai hynny gael canlyniadau negyddol i rai unigolion.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
7.9.6	"Difrodi yr iaith gymraeg"	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
7.9.7	"Mae'n amhosib llunio 'spin positif' mewn unrhyw ffordd ar effaith cau Ysgol Nebo ar yr iaith Gymraeg. Mae'n gywilydd bod Cyngor Gwynedd yn meddwl y ddyliwn ymateb i gwestiynnau mor nawddoglyd."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.

7.10 Her i gasgliadau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg

	Sylw	Ymateb y Cyngor
7.10.1	"Y peth cyntaf wnaeth daro fi oedd yr nad yw'r Cyngor yn medru "ragweld effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg drwy wireddu'r cynnig arfaethedig". Roeddwn methu creu y peth wrth ddarllen yr adroddiad, sut ar wyneb y ddaer y wnaeth Swyddogion y Cyngor ddod i'r fath ganlyniad... Mae canlyniadau hunan gyflenwol yr asesiad effaith ar y Gymraeg yn gywilyddus - gan nid oes unrhyw ymgais wedi'i wneud gan y Cyngor i asesu effaith cau'r ysgol ar y Gymraeg yn ardal Nebo a Nasareth. Nid oes chwaith unrhyw asesiad effaith ar anfon plant o deuluoedd di-gymraeg Nebo i ysgolion fwy Cymraeg fel Llanllyfni. Nid oes unrhyw ymgais i weld yr effaith hir dymor mae cau ysgolion gweledig yn cael ar yr iaith yn gyffredinol. Mae'r canlyniadau i weld yn ffocysu ar effaith ar ddisgyblion presennol yn unig (plant 4-11)...Os yw'r ysgol yn cau, mae'n benderfyniad am byth. Nid oes modd dadwneud y penderfyniad a lliniaru'r effaith ar y Gymraeg... Ydi 'r Cyngor wir yn medru deud fod y penderfyniad yma yn 'hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg' yn yr ardal o dan y Ddeddf?...Nid yw'r Cyngor wir wedi edrych ar y Ddeddf na'i effaith... Mae angen asesiad iaith priodol sydd yn cydnabod fod effaith andwyol ar y iaith ac edrych ar gamau liniaru" "Nid oes modd adfer cymuned sydd wedi colli ysgol ac nid oes cam liniaru posib ar gael. Fydd y Gymraeg yn dlotach os yw'r penderfyniad yn pasio."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r heriau a fynegwyd gan rai ymatebwyr ynghylch casgliadau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg, gan gynnwys y farn nad yw'r asesiad gwreiddiol wedi asesu'n ddigonol effaith bosibl cau Ysgol Nebo ar yr iaith Gymraeg yn Nebo a Nasareth, neu ar ddefnydd cymunedol a hirdymor yr iaith y tu hwnt i'r effaith ar ddisgyblion presennol. Yn dilyn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae'r Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg diwygiedig yn cydnabod y gallai bod posibilrwydd o effaith ieithyddol bosibl yn gysylltiedig â cholli cyfleoedd cymunedol i ddefnyddio'r Gymraeg yn Nebo a Nasareth, yn enwedig gan nad oes darpariaeth na lleoliad cymunedol amgen ar gael yn Nebo ar gyfer cynnal digwyddiadau cymunedol. Ar yr un pryd, daw'r asesiad diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar iaith addysg na darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Llanllyfni.
7.10.2	"Mae'r asesiad effaith ar y Gymraeg yn gywilyddus o sâl - gan nid oes unrhyw ymgais wedi'i wneud gan y Cyngor i asesu effaith cau'r ysgol yma ar	Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol yn nodi mesurau lliniaru posibl, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys:

	y Gymraeg yn ardal Nebo a Nasareth (dim ond ar blant ysgol cyfredol). Nid oes chwaith unrhyw asesiad effaith ar anfon plant (fel yn eich sylw chi o deuluoedd di-gymraeg) i ysgolion fwy Cymraeg fel Llanllyfni. Nid oes unrhyw ymgais i weld effaith mae cau ysgolion gweledig yn cael ar yr iaith yn gyffredinol”	• ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad Ysgol Nebo er mwyn parhau i gefnogi defnydd cymunedol a diwylliannol o'r Gymraeg; • hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys cymuned Nebo a Nasareth mewn gweithgareddau Cymraeg yr ysgol amgen; • annog cydweithio cymunedol i gynnal cyfleoedd i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.

8. Cludiant a theithio

8.1 Diogelwch traffig a pharcio o amgylch Ysgol Llanllyfni

	Sylw	Ymateb y Cyngor
8.1.2	<i>“Mae Llanllyfni eisoes yn profi problemau parcio drwy'r amser, ac mae'r sefyllfa'n waeth o lawer yn ystod amseroedd gollwng a chasglu, gyda pharcio peryglus a stopio peryglus ger y safle yn digwydd. Byddai hyn yn cynyddu pe bai plant o Nebo yn cael eu cludo yno.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd gan ymgynghorai ynghylch sefyllfa bresennol traffig a pharcio o amgylch Ysgol Llanllyfni, yn enwedig yn ystod amseroedd gollwng a chasglu disgyblion, ynghyd â'r pryderon bod parcio a stopio peryglus yn digwydd ar adegau, gyda goblygiadau posibl i ddiogelwch cerddwyr, disgyblion a defnyddwyr eraill y ffordd, ac y gallai cynnydd mewn niferoedd disgyblion effeithio ar y sefyllfa honno.
8.1.3	<i>“Hefyd, dylid ystyried y cynnydd mewn ceir ychwanegol yn Llanllyfni yn ystod yr amseroedd hyn.”</i>	Wrth ystyried y pryderon hyn, mae'r Cyngor yn nodi bod trefniadau teithio i'r ysgol, gan gynnwys darpariaeth cludiant ysgol, yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Sir. Lle bo disgyblion yn gymwys i gael cludiant, bydd hyn yn cael ei ddarparu yn unol â'r meini prawf perthnasol.
8.1.4	<i>“Nid oes unrhyw ystyriaeth yn yr ymgynghoriad o lechyd a Diogelwch tu allan i Ysgol Llanllyfni os yw disgyblion Nebo am fynychu hefyd. Yn yr amseroedd mae rhieni yn gollwng a chasglu eu plant o Ysgol Llanllyfni, ar adegau mae'n beryglus dros ben gyda traffig trwy'r pentref yn gorfod osgoi rhieni sydd yn parcio ceir ar y palmentydd, llinellau dwbwl ac ar sawl achlysu'r yn ganol y lon er mwyn hebrwng eu plant i'r ysgol. Mae hyn ar ben yr anhrefn plant a rhieni sydd yn ceisio cerdded o Ysgol Llanllyfni ar droed. Arwydd clir fod Ysgol Llanllyfni yn orlawn, diffyg cyfleusterau a phryderon lechyd a Diogelwch i dderbyn mwy o ddisgyblion.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd ac yn cydnabod bod heriau hanesyddol wedi bod ynghylch trefniadau gollwng ar safle Ysgol Llanllyfni. Fodd bynnag, nodir bod trefniadau priodol bellach wedi'u datblygu, gan yr ysgol a'r Uned Gludiant Integredig, i hwyluso trefniadau gollwng dysgwyr sy'n teithio ar dacsis. Byddai unrhyw oblygiadau pellach o ran traffig a pharcio yn parhau i gael eu hystyried fel rhan o unrhyw drefniadau cludiant pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu
8.1.5	<i>“Bydd teithio pellach i Ysgol Llanllyfni yn cynyddu risgiau diogelwch ar y ffyrdd ac yn ychwanegu costau i deuluoedd a'r awdurdod.”</i>	Pe gweithredir y cynnig, ni ragwelir y byddai'r cynnydd yn niferoedd y dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni yn sgil gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn sylweddol, ac felly ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn effaith

		sylweddol ar y trefniadau traffig a pharcio presennol. Fodd bynnag, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, a pe bai unrhyw faterion neu bryderon yn codi yn dilyn gweithredu'r cynnig, byddai'r rhain yn cael eu hystyried drwy'r trefniadau a'r prosesau arferol, mewn cydweithrediad â'r gwasanaethau perthnasol, yn unol â rolau a chyfrifoldebau statudol y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod teithio pellach yn gallu codi pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd a chostau i deuluoedd. Yn y cyd-destun hwn, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, nodir eto y bydd unrhyw drefniadau cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â pholisïau cyfredol y Sir.

8.2 Addasrwydd llwybrau cerdded rhwng Nebo a Llanllyfni i blant oed cynradd

	Sylw	Ymateb y Cyngor
8.2.1	“Roeddwn wedi fy synnu gan adroddiad y Cyngor fod hi'n saff i gerdded o Nebo i Llanllyfni ...Nid oes palmentydd ar y ffordd nac unrhyw lon i gerdded rhwng yr ardaloedd!”	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd gan ymgynghorai ynghylch addasrwydd a diogelwch llwybrau cerdded rhwng Nebo a Llanllyfni ar gyfer dysgwyr oed cynradd.
8.2.2	“Buasai defnyddio'r llwybrau cyhoeddus a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori'n gallu peryglu bywydau'r plant e.e. mae'r llwybr sydd ger Afon Crychddwr yn gul , llithrig a charegog mewn nifer o fannau a mae'n rhaid mynd dros gamfeydd a thrwy giatiau mochyn i fynd arnynt. Buasai'n rhaid i riant fynd hefo nhw ym mhob tywydd , gan gynnwys plant pedair oed. Ni fyddai'n bosib i rieni fynd a phram ar y llwybrau hyn os fydd gan y disgybl frodyr a chwiorydd iau. Hefyd mae'r lon sydd ger Bont Crychddwr yn berygl iawn...Ni fuasai'n bosib anfon plant ifanc ar eu pennau eu hunain i Ysgol Llanllyfni gan y buasai hyn yn gallu arwain at fesurqau amddiffyn plant gan na wyddir pwy sydd o gwmpas ar y llwybrau cyhoeddus.”	Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Deithio a'i gynnwys yn y ddogfennaeth ymgynghori, ac fe'i diweddarwyd yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd. Nodir bod Ysgol Llanllyfni 1.6 milltir o Ysgol Nebo, ac, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant ysgol yn cael eu darparu i ddysgwyr cymwys yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Cyngor Gwynedd. O dan y Polisi, darperir cludiant di-dâl i ddysgwyr cynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch neu'r ysgol agosaf, ac nid yw'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i ddisgyblion dosbarth meithrin. Yn seiliedig ar niferoedd dysgwyr presennol Ysgol Nebo, rhagwelir y byddai angen trefnu bws 8 sedd i gludo'r dysgwyr hynny sy'n gymwys am gludiant, ar gost amcangyfrifedig o hyd at £17,000 y flwyddyn, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu; nodir hefyd y gallai cynnydd mewn niferoedd yn y dyfodol olygu bod angen bws mwy, gyda chostau posibl o hyd at £30,000 y flwyddyn. Yn unol â'r Polisi, nid oes disgwyl i ddysgwyr gerdded llwybrau a ystyrir yn beryglus, ac os asesir nad yw llwybr yn rhesymol ddiogel i blentyn oed

		cynradd, ni chaiff ei ystyried at ddibenion cymhwysedd cerdded. O ganlyniad, mae'r asesiad diwygiedig yn cadarnhau y byddai trefniadau teithio'n cael eu gwneud yn unol â'r Polisi, ac felly ni ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo yn gorfod cerdded ar hyd llwybrau peryglus nac ychwaith deithio pellter afresymol i'r ysgol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

8.3 Costau cludiant ysgol i'r Cyngor a chynaliadwyedd y gyllideb

Tud

	Sylw	Ymateb y Cyngor																																																																																																																																	
8.3.1	<i>“Costau – mae wedi’i ddadlau y byddai teithio’n costio llawer, ond byddai un bws mini yn ddigon i gasglu’r holl blant o fewn yr ardal ddalgylch.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a dderbyniwyd ynghylch costau cludiant ysgol a’r effaith ar gynaliadwyedd y gyllideb, gan gynnwys y safbwyntiau a fynegwyd ynghylch maint y ddarpariaeth gludiant a’r galw cynyddol ar gyllideb cludiant ysgol y Sir. Fel rhan o’r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar drefniadau teithio, a nododd yr asesiad hwnnw, ar sail y niferoedd ar y pryd, y byddai angen darparu cludiant ysgol i ddysgwyr cymwys yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Sir. Rhagwelwyd y byddai bws mini 8 sedd yn ddigonol i ddarparu ar gyfer y dysgwyr hynny ar y cam hwn, gyda chost flynyddol amcangyfrifedig o hyd at £17,000, er y nodwyd hefyd y gallai newidiadau i niferoedd dysgwyr yn y dyfodol olygu bod angen darpariaeth cludiant fwy, gyda chostau uwch o ganlyniad. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod costau cludiant ysgol wedi cynyddu’n sylweddol yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, fel sy’n wir ar draws Cymru - nid yw hyn yn her sy’n unigryw i Wynedd. Fodd bynnag, mae’n ofynnol i’r Cyngor gwrdd â’i ddyletswyddau statudol o safbwynt darparu cludiant i ddysgwyr cymwys.																																																																																																																																	
8.3.2	<i>“Mae wedi’i ddadlau y byddai teithio’n costio llawer, ond byddai un bws mini yn ddigon i gasglu’r holl blant o fewn yr ardal ddalgylch.”</i>																																																																																																																																		
8.3.3	<i>“Mae wedi’i ddadlau y byddai teithio’n costio llawer, ond byddai un bws mini yn ddigon i gasglu’r holl blant o fewn yr ardal ddalgylch.”</i>																																																																																																																																		
8.3.4	<i>“Rhaid hefyd cofio fod cau'r ysgol yn golygu gwario swm sylweddol ar fws ysgol i fynd i'r ysgol agosaf.”</i>																																																																																																																																		
8.3.5	<i>“Mae mater costau trafnidiaeth yn un brys iawn, gyda chyllideb cludiant i’r ysgol wedi cynyddu’n sylweddol dros y blynnyddoedd diweddar, fel y gwelir yn y tabl isod.</i> <table><tr><th></th><th colspan="3">Taxis and trains</th><th colspan="3">Buses</th><th colspan="3">Total</th></tr><tr><th></th><th>Budget</th><th>Actual</th><th>Over/(under) expenditure</th><th>Budget</th><th>Actual</th><th>Over/(under) expenditure</th><th>Budget</th><th>Actual</th><th>Over/(under) expenditure</th></tr><tr><td>2016/17</td><td>2,064,210</td><td>2,038,424</td><td>-25,786</td><td>2,554,540</td><td>2,582,690</td><td>28,150</td><td>4,618,750</td><td>4,621,113</td><td>2,363</td></tr><tr><td>2017/18</td><td>2,021,500</td><td>2,223,188</td><td>201,688</td><td>2,558,770</td><td>2,545,402</td><td>-13,368</td><td>4,580,270</td><td>4,768,590</td><td>188,320</td></tr><tr><td>2018/19</td><td>2,335,140</td><td>2,471,034</td><td>135,894</td><td>2,609,570</td><td>2,805,616</td><td>196,046</td><td>4,944,710</td><td>5,276,650</td><td>331,940</td></tr><tr><td>2019/20</td><td>2,342,610</td><td>2,516,348</td><td>173,738</td><td>2,821,950</td><td>2,884,973</td><td>63,023</td><td>5,164,560</td><td>5,401,321</td><td>236,761</td></tr><tr><td>2020/21</td><td>2,323,850</td><td>1,969,468</td><td>-354,382</td><td>2,931,910</td><td>2,560,678</td><td>-371,232</td><td>5,255,760</td><td>4,530,145</td><td>-725,615</td></tr><tr><td>2021/22</td><td>2,615,480</td><td>2,790,864</td><td>175,384</td><td>3,149,730</td><td>3,092,720</td><td>-57,010</td><td>5,765,210</td><td>5,883,585</td><td>118,375</td></tr><tr><td>2022/23</td><td>2,841,050</td><td>3,147,025</td><td>305,975</td><td>3,279,460</td><td>3,521,664</td><td>242,204</td><td>6,120,510</td><td>6,668,690</td><td>548,180</td></tr><tr><td>2023/24</td><td>2,743,340</td><td>3,427,763</td><td>684,423</td><td>3,646,240</td><td>4,457,345</td><td>811,105</td><td>6,389,580</td><td>7,885,109</td><td>1,495,529</td></tr><tr><td>2024/25</td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr><tr><td>estimated 2025/26</td><td>3,907,460</td><td>3,752,712</td><td>-163,757</td><td>4,182,150</td><td>4,758,976</td><td>576,826</td><td>8,089,610</td><td>8,511,688</td><td>422,078</td></tr><tr><td>estimated</td><td>3,461,260</td><td>3,718,067</td><td>256,807</td><td>4,246,210</td><td>4,801,060</td><td>554,850</td><td>7,707,470</td><td>8,519,127</td><td>811,657</td></tr></table> <i>I’r llygad cyffredin, mae’r lefel hon o wariant yn syfrdanol. Yn hytrach na gwneud ceisiadau i’r llywodraeth am ragor o gyllid, pam nad yw awdurdodau lleol yn llobio am newid i ddeddfwriaeth cludiant ysgol sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r cyngor gynnig cludiant am ddim i unrhyw ddisgybl cynradd sy’n byw fwy na dwy filltir o’r ysgol agosaf? Yn sicr, mae’r polisi hwn</i>			Taxis and trains			Buses			Total				Budget	Actual	Over/(under) expenditure	Budget	Actual	Over/(under) expenditure	Budget	Actual	Over/(under) expenditure	2016/17	2,064,210	2,038,424	-25,786	2,554,540	2,582,690	28,150	4,618,750	4,621,113	2,363	2017/18	2,021,500	2,223,188	201,688	2,558,770	2,545,402	-13,368	4,580,270	4,768,590	188,320	2018/19	2,335,140	2,471,034	135,894	2,609,570	2,805,616	196,046	4,944,710	5,276,650	331,940	2019/20	2,342,610	2,516,348	173,738	2,821,950	2,884,973	63,023	5,164,560	5,401,321	236,761	2020/21	2,323,850	1,969,468	-354,382	2,931,910	2,560,678	-371,232	5,255,760	4,530,145	-725,615	2021/22	2,615,480	2,790,864	175,384	3,149,730	3,092,720	-57,010	5,765,210	5,883,585	118,375	2022/23	2,841,050	3,147,025	305,975	3,279,460	3,521,664	242,204	6,120,510	6,668,690	548,180	2023/24	2,743,340	3,427,763	684,423	3,646,240	4,457,345	811,105	6,389,580	7,885,109	1,495,529	2024/25										estimated 2025/26	3,907,460	3,752,712	-163,757	4,182,150	4,758,976	576,826	8,089,610	8,511,688	422,078	estimated	3,461,260	3,718,067	256,807	4,246,210	4,801,060	554,850	7,707,470	8,519,127
	Taxis and trains			Buses			Total																																																																																																																												
	Budget	Actual	Over/(under) expenditure	Budget	Actual	Over/(under) expenditure	Budget	Actual	Over/(under) expenditure																																																																																																																										
2016/17	2,064,210	2,038,424	-25,786	2,554,540	2,582,690	28,150	4,618,750	4,621,113	2,363																																																																																																																										
2017/18	2,021,500	2,223,188	201,688	2,558,770	2,545,402	-13,368	4,580,270	4,768,590	188,320																																																																																																																										
2018/19	2,335,140	2,471,034	135,894	2,609,570	2,805,616	196,046	4,944,710	5,276,650	331,940																																																																																																																										
2019/20	2,342,610	2,516,348	173,738	2,821,950	2,884,973	63,023	5,164,560	5,401,321	236,761																																																																																																																										
2020/21	2,323,850	1,969,468	-354,382	2,931,910	2,560,678	-371,232	5,255,760	4,530,145	-725,615																																																																																																																										
2021/22	2,615,480	2,790,864	175,384	3,149,730	3,092,720	-57,010	5,765,210	5,883,585	118,375																																																																																																																										
2022/23	2,841,050	3,147,025	305,975	3,279,460	3,521,664	242,204	6,120,510	6,668,690	548,180																																																																																																																										
2023/24	2,743,340	3,427,763	684,423	3,646,240	4,457,345	811,105	6,389,580	7,885,109	1,495,529																																																																																																																										
2024/25																																																																																																																																			
estimated 2025/26	3,907,460	3,752,712	-163,757	4,182,150	4,758,976	576,826	8,089,610	8,511,688	422,078																																																																																																																										
estimated	3,461,260	3,718,067	256,807	4,246,210	4,801,060	554,850	7,707,470	8,519,127	811,657																																																																																																																										

	<i>yn effeithio'n anghymesur ar sir wledig fel Gwynedd. Nid yw pob rhiant o reidrwydd angen y gwasanaeth hwn – oni ellid ei seilio ar angen? Mae'r ffigurau ar gyfer 2023–2024 yn arbennig o drawiadol: gorwariant o bron i £1.5 miliwn – gorwariant mewn un flwyddyn o swm a fyddai'n cadw ysgol 'anaddas' fel Nebo neu Baladeulyn ar agor am ddegawd.”</i>	

8.4 Addasrwydd cludiant bws i blant ifanc (4 oed)

	Sylw	Ymateb y Cyngor
8.4.1	“nid yw'n gwneud synnwyr yno i roi plant bach 4 oed ar fws ysgol sydd yn ddrud iawn yw rhedeg”	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol Cyngor Gwynedd. Yn unol â'r polisi hwnnw, nid yw dysgwyr meithrin (gan gynnwys plant pedair oed nad ydynt mewn addysg gynradd statudol) yn gymwys am gludiant ysgol. Lle bo plentyn pedair oed yn ddisgybl llawn amser yn y Dosbarth Derbyn, caiff cymhwysedd cludiant ei asesu yn unol â'r un meini prawf â dysgwyr cynradd eraill.

8.5 Effaith amgylcheddol ac iechyd a llesiant cludo disgyblion yn hytrach na cherdded

	Sylw	Ymateb y Cyngor
8.5.1	“Mae'r effaith amgylcheddol hefyd yn ffactor - mae rhoi plant ar fysiau ysgol a mynd a nhw o eu cynefin ddim yn cyd-fynd ac amcanion y Ddeddf. Mae mynd ar fws yn lle cerdded i'r ysgol hefyd am gael effaith ar ei iechyd ac yn groes i'r Ddeddf”	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd ynghylch effaith amgylcheddol ac iechyd trefniadau teithio, gan gynnwys cyfeiriadau at ôl-droed carbon a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith yn erbyn y Ddeddf honno ac fe'i cynhwyswyd o fewn dogfennaeth yr ymgynghoriad a fe'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau teithio'n cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Addysg y Sir.
8.5.2	“Maer ysgol ddigon agos i blant allu cerdded iddin saff.”	
8.5.3	“Mae hyn hefyd yn cynyddu ôl troed carbon, sy'n groes i amcanion cynaliadwyedd.”	

8.6 Hygyrchedd cludiant mewn ardaloedd gwledig a'r effaith ar deuluoedd sydd eisoes yn profi tlodi

	Sylw	Ymateb y Cyngor
8.6.1	“Gan fod Nebo yn ardal eithaf gwledig, bydd y gallu i deithio i'r sawl na allant wneud hynny yn profi'n heriol iawn!”	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd ynghylch hygyrchedd cludiant mewn ardal wledig fel Nebo, a'r effaith bosibl ar deuluoedd sy'n profi tlodi, gan gynnwys pryderon am ddibyniaeth ar gludiant cyhoeddus cyfyngedig a'r goblygiadau ariannol ac ymarferol i rieni a gofalwyr. Mae'r Cyngor hefyd yn
8.6.2	“Buasai gorfodi teuluoedd i dalu am gludiant cyhoeddus yn cyfrannu at ddwyshau effaith tlodi plant ac allgau cymdeithasol yn enwedig i deuluoedd sydd eisoes yn profi tlodi. Buasai hyn yn groes i strategaeth tlodi plant	

	Llywodraeth Cymru. Mae perchnogaeth car yn llai yng nghefn gwlad felly maent yn gorfod dibynnu ar gludiant cyhoeddus a mae hynny'n brin yn Nebo, yn enwedig pan fo raid i riant fynd gyda'u plant ar y bws am resymau diogelu plant a dod yn ol ddwy waith y diwrnod.”	nodi'r sylwadau a wnaed ynghylch perchnogaeth ceir a mynediad at drafndiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd. Byddai hyn yn sicrhau bod cludiant ysgol yn cael ei ddarparu i'r dysgwyr hynny sy'n gymwys o dan y polisi. Ni fyddai unrhyw gost ynghlwm â cludiant i ddysgwyr sy'n gymwys am gludiant di-dâl o dan y polisi.

8.7 Galwad am eglurder am drefniadau a oblygiadau costau cludiant arfaethedig

	Sylw	Ymateb y Cyngor
8.7.1	<i>“Hoffai'r Undeb...gael sicrwydd ynghylch y costau cludiant posibl a allai godi o ganlyniad i symud y plant ymhellach i ffwrdd o'u cartrefi.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r galwad am eglurder a sicrwydd ynghylch trefniadau a goblygiadau costau cludiant pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.
8.7.2	Pwysleisir yr angen am gludiant am ddim a dibynadwy i ddisgyblion rhwng Nebo a Llanllyfni, gan gynnwys trefniadau sy'n cefnogi mynediad i wasanaethau fel clwb brecwast.	Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant ysgol yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Cyngor Gwynedd. O dan y Polisi hwn, mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant ysgol di-dâl i ddysgwyr sy'n byw yn y sir ac sydd wedi cofrestru mewn ysgol sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor, sef dysgwyr sy'n derbyn addysg cynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin). Yn ogystal, lle asesir nad yw llwybr cerdded yn rhesymol ddiogel i blentyn oed cynradd ei ddefnyddio, bydd trefniadau cludiant yn cael eu darparu yn unol â darpariaethau'r Polisi. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cludiant dibynadwy i deuluoedd. Fodd bynnag, nid yw cludiant ysgol, fel arfer, yn cael ei ddarparu i hwyluso mynediad at wasanaethau ychwanegol megis clybiau brecwast, ac mae trefniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn unol â'r polisi cludiant a'r meini prawf statudol perthnasol.

9. Heriau i Ddilysrwydd, Tegwch ac Ansawdd y Broses Statudol

9.1 Pryder cyffredinol ynghylch tegwch, ansawdd a dilysrwydd y broses ymgynghori

	Sylw	Ymateb y Cyngor
9.1.1	“Rywf yn poeni fod yr adroddiadau ond wedi’i greu i gyfiawnhau cau’r ysgol.”	Mae’r Cyngor yn nodi’r pryderon a fynegwyd ynghylch y canfyddiad bod y broses ymgynghori wedi’i chynnal i gyfiawnhau canlyniad a bennwyd ymlaen llaw. Mae’r Cyngor yn nodi bod yr ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo wedi’i gynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys cyhoeddi dogfen ymgynghori fanwl, pecyn asesiadau effaith cynhwysfawr, a darparu cyfnod statudol penodol i rhanddeiliaid gyflwyno eu barn. Yn unol â gofynion y Cod, cynhaliwyd trefniadau penodol i ymgynghori â phlant a phobl ifanc fel rhan o’r broses statudol, gan gynnwys sesiynau dynodedig gyda dysgwyr o Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, yn ogystal â darparu dogfennau a holiaduron pwrpasol. Mae crynodeb o’r safbwyntiau a fynegwyd gan y dysgwyr wedi’i gynnwys yn Adran 3 o Atodiad A – Adroddiad Ymgynghori. Mae crynodeb o safbwyntiau’r dysgwyr, ochr yn ochr â chrynodeb o’r holl ymatebion eraill a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, wedi ei gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori a gaiff ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor i’w hystyried cyn i unrhyw benderfyniad pellach gael ei wneud. Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, y camau nesaf fydd i’r Cyngor ystyried yn ofalus yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, ochr yn ochr â’r dystiolaeth a gyflwynwyd drwy’r asesiadau effaith. Bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei lunio ac yna’i gyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd i’w ystyried. Yn amodol ar benderfyniad y Cabinet, gallai hyn arwain at y cam nesaf yn y broses statudol, sef cyhoeddi
9.1.2	“ <i>Nid wyf yn teimlo bod y broses gyfan hon wedi’i chychwyn i ystyried dichonoldeb cadw’r ysgol ar agor. Yn hytrach, mae angen i Gyngor Gwynedd leihau gwariant ariannol, ac mae cau ysgolion bach yn cyflawni hynny.</i> ”	
9.1.3	“ <i>Roedd y dogfennau ymgynghori yn rhoi bron yr un rhesymau dros bob opsiwn a ystyriwyd fel rhai amhriodol... roedd yn edrych fel gwaith copïo a gludo... penderfyniad wedi’i wneud eisoes i gau’r ysgol, heb unrhyw ddadleuon wedi’u rhesymu’n ofalus ynghylch pam na fyddai pob opsiwn yn gweithio. Roedd yn ymddangos fel gwaith diog.</i> ”	
9.1.4	“ <i>...rwy’n gresynu at y sinigiaeth wrth gyflwyno fersiwn syml o’r ffurflen hon, ar y cam hwyr hwn, i’r disgyblion fynegi eu barn – gellid bod wedi gwneud hyn ar gam cynharach yn y broses, ac nid ar adeg pan ymddengys bod penderfyniad Cyngor Gwynedd i gau eu hysgol eisoes wedi’i gyflwyno fel ‘fait accompli’. Os a phan fydd y cau’n mynd rhagddo, bydd y plant hyn yn dysgu’n gynnar yn eu bywydau nad yw eu barn yn cyfrif dim.</i> ”	
9.1.5	“ <i>Roeddwn yn bryderus gweld yr un rhesymau negyddol dros gau’r ysgol yn cael eu defnyddio ar gyfer pob opsiwn a ystyriwyd.</i> ”	
9.1.6	“ <i>nid ydw i yn cytuno ar unrhyw delerau y dylid cau Ysgol Nebo o dan ffeithiau gwan a chamarweiniol eich ymgynghoriad. Mae’n ddigon hawdd i Cyngor Gwynedd ddilyn polisiau ‘fait accompli’ heb ystyried yn llawn yr effaith hir dymor eich penderfyniadau anghyfrifol.</i> ”	
9.1.7	“ <i>Mae’r cynnig i gau Ysgol Nebo yn llawn anghywirdebau a ffigurau heb sail, ac mae’n rhoi’r argraff bod penderfyniad eisoes wedi’i wneud, yn groes i’r rheolau y dylai’r Cyngor eu dilyn.</i> ”	

9.1.8	Mynegir pryder bod yr ymgynghoriad yn ymddangos yn ymarfer ticio'r bocs yn hytrach nag ymgysylltu ag opsiynau gwirioneddol.	hysbysiad statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu ffurfiol, cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud, neu ddod a'r broses i ben.
9.1.9	“Dyliem gael mwy o amser i ymateb i'r ymgynghoriad gan nad yw'r amseeru dros y Nadolig a thywydd gwael ddim wedi caniatáu i'r gymuned ei drafod mewn pryd i ymateb yn llawn. Rhaid cofio bod yr ymgynghoriad yn un pwysig iawn i ddysgwyr a phentrefwyr Neboi a'r cylch. “	
9.1.10	<i>“Rwy’n pryderu am ansawdd yr ymgynghoriad a’r cynnig sy’n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd gan yr Adran Addysg.”</i>	Fel uchod.
9.1.11	<i>“Bu diffyg eglurder a dealltwriaeth cyffredinol, sydd hefyd wedi arwain at bryder ehangach: ni chafodd rhanddeiliaid wybod yn glir nad oedd y trafodaethau cychwynnol yn ymgynghoriad statudol. Dywedodd un rhiant ei bod yn credu y byddai cyhoeddiad yng nghyfarfod mis Mai y byddai'r ysgol yn cau. Roedd mor ofidus fel na ellid ei darbwylllo i fynychu'r cyfarfod. Nid yw ychwaith wedi'i egluro'n benodol nad oes rhaid i'r trafodaethau presennol arwain o reidrwydd at ymgynghoriad statudol—mae hyn yn amlwg o'r 'camau nesaf' a gyhoeddwyd yn nodiadau a chyflwyniadau'r cyfarfod. Mae hyn yn ychwanegu at ymdeimlad negyddol cynyddol o lithro tuag at gau, gan ddangos rhagfarn gynnil unwaith eto.”</i>	Fel uchod.
9.1.12	Codir cwestiwn ynghylch a yw penderfyniad i gau'r ysgol eisoes wedi'i wneud, ar sail gwybodaeth a rannwyd â staff.	Fel uchod.

9.2 Cyfnod ymgynghori annigonol a'i amseriad (Nadolig, diffyg rhybudd, terfynau amser byr)

	Sylw	Ymateb y Cyngor
9.2.1	<i>“Mae amserlen yr ymgynghoriad a’r broses gau yn gweithio yn erbyn canlyniad o gadw Ysgol Nebo ar agor. Cafodd dogfennau’r ymgynghoriad eu cyhoeddi ar y wefan ychydig cyn egwyl y Nadolig. Dyddiad cau’r ffurflen ymateb yw’r 23ain o Ionawr, gan roi ychydig iawn o amser i staff, rhieni, trigolion a rhanddeiliaid drafod y goblygiadau’n llawn a darparu adborth. Mae bron fel pe bai’r amserlen wedi’i gosod er mwyn lleihau ymatebion... Rhoddodd cyhoeddi’r ddogfen ymgynghori ychydig cyn y Nadolig ychydig iawn o gyfle i’r holl bartion dan sylw—athrawon, llywodraethwyr, rhieni a thrigolion—i gyfarfod i drafod y goblygiadau a’r ffordd ymlaen.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r pryderon a fynegwyd ynghylch hyd ac amseriad y cyfnod ymgynghori. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), sy’n nodi bod yn rhaid cynnal cyfnod ymgynghori o o leiaf 42 diwrnod, gyda lleiafswm o 20 diwrnod ysgol o fewn y cyfnod hwn. Nid yw’r Cod yn gwahardd cynnal ymgynghoriad dros gyfnod gwyliau ysgol, ar yr amod bod y gofynion hyn yn cael eu bodloni. Yn yr achos hwn, cydymffurfiwyd â’r gofynion statudol hyn, gyda’r dogfennau ymgynghori ar gael i’r cyhoedd drwy gydol y cyfnod a chyfleoedd wedi’u darparu i randdeiliaid gyflwyno sylwadau. Bydd yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o’r camau nesaf yn y broses statudol.
9.2.2	<i>“Cafodd y cyfnod ymgynghori ei fyrhau’n sylweddol gan ei fod dros gyfnod y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd, a bu hynny’n oedi cyfarfodydd y pentref. Hefyd, oherwydd tywydd gwael bu’n rhaid aildrefnu. Dylid ymestyn y cyfnod ymgynghori.”</i>	Fel uchod.
9.2.3	<i>“Hefyd, cafodd y cyfnod ymgynghori ei fyrhau oherwydd gwyliau a thywydd gwael.”</i>	Fel uchod.
9.2.4	<i>“Cafodd y cyfnod ymgynghori ei fyrhau’n sylweddol gan ei fod dros gyfnod y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd, a bu hynny’n oedi cyfarfodydd y pentref.”</i>	Fel uchod.
9.2.5	<i>“Mae’n destun pryder bod y cyfnod ymgynghori o chwe wythnos wedi dechrau yn y cyfnod cyn y Nadolig, sydd wedi gwneud trefnu cyfarfodydd a thrafodaethau’r pentref yn anodd iawn.”</i>	Fel uchod.
9.2.6	<i>“siomedig dros ben fod yr Adran Addysg wedi cynnal yr ymgynghoriad statudol dros gyfnod y Nadolig. Gan gyhoeddi, heb fawr o rybudd, ar ol wythnosau o lusgo traed, fod yr ymgynghoriad yn cychwyn ar y 5ed o Ragfyr, pythefnos cyn gwyliau’r Nadolig yn ystod cyfnod mwyaf prysur yr ysgol. Cafodd y cyfnod ymgynghori ei fyrhau’n sylweddol gan ei fod dros gyfnod y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd, gan oedi cyfarfodydd y gymuned. Gwrthodwyd ein cais i ymestyn y cyfnod ymgynghori gan y Pennaeth Addysg ac mae hyn wedi golygu anfantais sylweddol i’r Llywodraethwyr a staff.”</i>	Fel uchod.

9.2.7	“Roeddwn yn siomedig dros ben fod yr Adran Addysg wedi cynnal yr ymgynghoriad statudol dros gyfnod y Nadolig. Gan gyhoeddi fod yr ymgynghoriad yn cychwyn ar y 5ed o Ragfyr, pythefnos cyn gwyliau'r Nadolig yn ystod cyfnod mwyaf prysur yr ysgol. Cafodd y cyfnod ymgynghori ei fyrhau'n sylweddol oherwydd hyn gan oedi cyfarfodydd y gymuned. Gwrthodwyd cais gan y Llywodraethwyr i ymestyn y cyfnod ymgynghori gan y Pennaeth Addysg ac mae hyn wedi golygu anfantais sylweddol i'r Llywodraethwyr a staff.”	Fel uchod.
9.2.8	“Cafodd y cyfnod ymgynghori ei fyrhau'n sylweddol gan ei fod dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a bu hynny'n oedi cyfarfodydd y pentref. Hefyd, oherwydd tywydd gwael bu'n rhaid aildrefnu cyfarfodydd er diogelwch y mynychwyr. Dylid ymestyn y cyfnod ymgynghori gan fod hyn wedi creu terfynau amser tynn iawn.”	Fel uchod.
9.2.9	“Cafodd y cyfnod ymgynghori ei fyrhau'n sylweddol gan ei fod dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a bu hynny'n oedi cyfarfodydd y pentref. Hefyd, oherwydd tywydd gwael bu'n rhaid aildrefnu er diogelwch y mynychwyr. Dylid ymestyn y cyfnod ymgynghori gan fod hyn wedi creu terfynau amser tynn iawn.”	Fel uchod.
9.2.10	Nodir bod y cyfnod ymgynghori wedi'i fyrhau'n sylweddol oherwydd ei fod dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, gyda galwad i ymestyn y cyfnod ymgynghori.	Fel uchod.

9.3 Pryderon ynghylch dehongli cynigion y Llywodraethwyr a'r ystyriaeth a roddwyd i opsiynau amgen o fewn y broses statudol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
9.3.1	“Nodwyd yng nghofnodion cyfarfod y Cabinet ym mis Mawrth 2025, Adran 5(a), i rywun ofyn: ‘A fyddai'r awdurdod yn ystyried cadw'r ysgol ar agor ar gyfer plant sy'n anhapus mewn ysgol fwy o faint oherwydd bwllo cynnil o ganlyniad i rai o'u hanghenion?’ ... A'r ymateb oedd: ‘Awgrymwyd y gallai hyn fod yn opsiwn... a gallai'r Awdurdod werthuso...’ A yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud hyn?... Yn aml, ymateb pobl yw ‘allwn ni ddim gwneud hynny’... wedi'i ddiffinio gan ofyniad cyfreithiol... ond mae hynny'n cyfyngu ar y canlyniadau... efallai mai'r her yw mynd yn ddyfnach nes dod o hyd i'r achos gwraidd...”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau sy'n cyfeirio at drafodaethau blaenorol, gan gynnwys y cwestiynau a godwyd mewn cyfarfodydd yn ystod 2025 ynghylch y posibilrwydd o gadw Ysgol Nebo ar agor neu ddatblygu'r ysgol fel darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr sy'n profi anawsterau cymdeithasol, emosiynol neu brofiadau negyddol mewn lleoliadau addysgol mwy. Fel rhan o'r gwaith datblygu cyn yr ymgynghoriad statudol, ystyriodd y Cyngor ystod eang o opsiynau amgen ar gyfer dyfodol Ysgol Nebo, gan gynnwys opsiwn i'r ysgol gynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Codwyd yr opsiwn hwn drwy'r trafodaethau
9.3.2	“Nodwyd yng nghofnodion cyfarfod mis Mawrth 2025, Adran 5(a), i rywun ofyn: ‘A fyddai'r awdurdod yn ystyried cadw'r ysgol ar agor ar gyfer plant sy'n	

	<i>anhapus mewn ysgol fwy o faint oherwydd bwllo cynnil o ganlyniad i rai o'u hanghenion? Gall plant deimlo'n fwy cyfforddus mewn ysgol fach.'</i> <i>A'r ymateb oedd: 'Awgrymwyd y gallai hyn fod yn opsiwn i randdeiliaid ei gynnig, a gallai'r Awdurdod werthuso manteision ac anfanteision yr opsiwn.'</i> <i>A yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud hyn?"</i>	lleol, gan gynnwys cyfraniadau uniongyrchol gan Gorff Llywodraethol yr ysgol, a dehonglwyd yr opsiwn ar y pryd fel model lle byddai Ysgol Nebo yn parhau fel ysgol, ochr yn ochr â darparu uned ADY ar y safle i gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol.
9.3.3	<i>"Yn nodiadau cyfarfod mis Mawrth 2025, yn Adran 5(a), gofynnodd rhywun 'A fyddai'r Awdurdod yn ystyried cadw'r ysgol ar agor ar gyfer plant sy'n anhapus mewn ysgol fwy o ganlyniad i fwlio cynnil...' ... A'r ymateb oedd... 'y gallai'r Awdurdod werthuso manteision ac anfanteision yr opsiwn.'</i> <i>A yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud hyn?"</i>	Nodir bod nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi mynegi'n glir nad dyma oedd bwriad gwreiddiol y Llywodraethwyr, ond yn hytrach y dymuniad oedd archwilio posibilrwydd o Ysgol Nebo yn gweithredu fel darpariaeth arbenigol ar ei phen ei hun i gefnogi plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt. O ganlyniad i'r eglurhad hwn, ac yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, mae'r Cyngor bellach wedi ychwanegu'r opsiwn hwn fel opsiwn rhesymol amgen ar wahân, ac mae asesiad pellach wedi'i gynnal o'r opsiwn hwn.
9.3.4	<i>"Yn y cyfarfod Cabinet ym mis Hydref 2025 lle pasiwyd y cynnig i gau'r ysgol, canmolodd y Cadeirydd y Llywodraethwyr am 'feddwl y tu allan i'r bocs'.</i> <i>Byddai derbyn y cynnig arloesol hwn yn dangos bod Cyngor Gwynedd yn gallu gwneud hynny hefyd. Yn nodiadau'r cyfarfod ym mis Mawrth 2025 gyda rhieni, llywodraethwyr ac athrawon (Adran 5(a)), gofynnodd rhywun: 'A fyddai'r awdurdod yn ystyried cadw'r ysgol ar agor ar gyfer plant sy'n anhapus mewn ysgol fwy oherwydd bwllo cynnil o ganlyniad i rai o'u hanghenion? Gall plant deimlo'n fwy cyfforddus mewn ysgol fach.'</i> <i>A'r ymateb oedd: 'Awgrymwyd y gallai hyn fod yn opsiwn i randdeiliaid ei gynnig, a gallai'r Awdurdod werthuso manteision ac anfanteision yr opsiwn.'</i> <i>Nid yw'n glir hyd yma a yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud hyn."</i>	Cynhwysir asesiad pellach o'r opsiwn hwn yn Adrannau 6 a 7 o'r Adroddiad Ymgynghori. Bydd yr holl opsiynau rhesymol amgen, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd gan rhanddeiliaid, yn derbyn ystyriaeth fel rhan o'r broses statudol cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach.
9.3.5	<i>"Mae sawl opsiwn eisioes wedi'u cyflwyno i Cyngor Gwynedd a'r opsiwn mae'r Llywodraethwyr, rhieni a chymuned yr ysgol yn ei ffafrio yw cadw'r Ysgol ar agor ar gyfer plant gyda phroblemau cymdeithasol ac emosiynol neu sy'n anhapus mewn ysgol fwy oherwydd bwllo ayb. Nid yw Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno'r opsiwn yma yn yr ymgynghoriad er i'r Llywodraethwyr gyflwyno'r opsiwn yn glir iddynt. Yn hytrach, mae'r Adran Addysg wedi'i gam-ddehongli fel Uned ADY gan ysgubo'r syniad i'r naill ochr. Hoffwn dderbyn sylw Cyngor Gwynedd ar hyn?"</i>	Fel uchod.
9.3.6	<i>"Credwn fod rhai materion nad ydynt wedi'u hystyried yn llawn yn yr asesiadau effaith presennol. Yn benodol, archwilio'n ddigonol y potensial i'r ysgol weithredu fel model neu gynllun peilot arloesol, gan gefnogi plant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy neu sy'n cael eu haddysgu gartref yn rhannol, fel ateb ataliol a chost-effeithiol i her gynyddol sydd eisioes wedi'i chydabod gan y Cyngor."</i>	Fel uchod.

9.3.7	<i>“Yn hynod siomedig, nid yw’r opsiwn a ffeirir gan Gorff Llywodraethwyr Ysgol Nebo wedi’i ystyried yn llawn nac wedi’i ddatblygu’n briodol yn y dogfennau.”</i>	Fel uchod.
9.3.8	<i>“Mae’r ddogfen yn ystyried opsiynau eraill, ond nid yr un a gynigiwyd gan lywodraethwyr ac athrawon yr ysgolion. Yn hytrach, rydych wedi ail-ddehongli eu hawgrym fel dymuniad i ychwanegu Uned ADY at yr ysgol, gan wybod y byddai hynny’n gostus ac y byddai unrhyw ddisgyblion sy’n mynychu o ysgolion eraill yn cael eu cyfrif yn erbyn eu hysgolion gwreiddiol ac nid Nebo—gan gefnogi’n gyfleus eich penderfyniad i gau’r ysgol.”</i>	Fel uchod.
9.3.9	<i>“Fe ddaru’r swyddogion awdit gam-ddeall cynigion y llywodraethwyr yn fwriadol yn fy marn i. Un cynnig gan y llywodraethwyr oedd i ddarparu gwasanaeth i ddisgyblion sydd ag anawsterau emosiynol a/neu iechyd meddwl. Bu i’r swyddogion nodi hyn fel darpariaeth ADY gan dweud nad oedd yr adeilad yn addas heb newidiadau sylweddol. NID dyma oedd y cynnig! .”</i>	Fel uchod.
9.3.10	<i>“Cynigiwyd opsiwn amgen gan y Llywodraethwyr, ond camddehonglwyd hyn gan y Cyngor fel ‘ychwanegu Uned ADY’, sydd yn sefyllfa colli-colli i Ysgol Nebo.”</i>	Fel uchod.
9.3.11	<i>“Mae cynnig y Corff Llywodraethu i alluogi’r ysgol i gefnogi mwy o ddysgwyr sy’n cael trafferthion llesiant yn cael ei ddiystyru ar sail costau creu Uned ADY newydd ar y safle. Nid yw’r cynnig fel y’i cyflwynwyd yn gofyn am unrhyw adeiladu ychwanegol, ond yn hytrach am ddefnyddio’r gofod dosbarth sydd eisoes ar gael. Mae’n disgrifio’r opsiwn hwn fel darparu ‘uned arbenigol’, nad oedd yn wir.”</i>	Fel uchod.
9.3.12	<i>“Ar yr un pwynt o ran agwedd ddiystyriol ar ran y Cyngor, prin iawn y mae opsiwn 5 (datblygu safle arbenigol ar gyfer gwaith maes) wedi’i archwilio o gwbl. Er enghraifft, o dan ‘bygythiadau’, ceir y sylw: ‘Yn dibynnu ar y model penodol, gallai fod yn angenrheidiol cau’r ysgol bresennol a’i hailagor fel ysgol arbenigol.’ Dylai dysgu yn yr awyr agored fel strategaeth i wella canlyniadau disgyblion fod yn arfer safonol ym mhob ysgol: mae’r syniad bod angen ysgol arbenigol i arddangos dysgu awyr agored yn gwbl chwerthinllyd – mae’r awgrym yn ymwneud â meysydd y cwricwlwm, nid chwaraeon eithafol.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad ynghylch opsiwn 5 sy’n ymwneud â datblygu safle arbenigol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored. Nodir bod yr opsiwn hwn wedi’i ystyried fel rhan o’r gwaith datblygu cyn yr ymgynghoriad statudol, ac fe’i cynhwyswyd yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, mae’r opsiwn hwn, ynghyd ag opsiynau rhesymol amgen eraill, wedi’i gynnwys yn yr adroddiad ymgynghori ac wedi derbyn asesiad pellach fel rhan o’r broses statudol.

9.4 Diffyg tryloywder a thystiolaeth ategol ynghylch costau atgyweirio'r ysgol (£95,000)

	Sylw	Ymateb y Cyngor
9.4.1	<i>“Mae ffigwr o £95,000 ar gyfer atgyweiriadau i'r ysgol wedi'i grybwyll. Daeth y ffigwr hwn fel syndod mawr i staff a llywodraethwyr yr ysgol. Mae hyn yn enghraifft arall o sut y mae gwybodaeth yn ymddangos fel pe bai wedi'i chadw'n fwriadol oddi wrth y partion perthnasol, er mwyn ei defnyddio'n ddiweddarach fel ffactor negyddol o ran cadw'r ysgol ar agor.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd ynghylch y ffigwr o £95,000 a gyfeirir ato yn y ddogfennaeth ymgynghori mewn perthynas â costau ôl-groniad cynnal a chadw adeilad Ysgol Nebo, gan gynnwys y pryderon a godwyd ynghylch tryloywder, sail y ffigwr a lefel y manylder a ddarparwyd.
9.4.2	<i>“Mae ffigwr o £95,000 ar gyfer atgyweiriadau i'r ysgol wedi'i gynnig, gyda dim ond amlinelliaid bras iawn yn y ddogfen.”</i>	Nodai'r Cyngor nad yw costau cynnal a chadw'r adeilad wedi'u nodi fel her allweddol sy'n wynebu'r ysgol nac fel rheswm dros y cynnig. Mae'r ffigwr o £95,000 wedi'i gynnwys er mwyn darparu cyd-destun gwybodaeth am gyflwr yr adeilad fel rhan o'r darlun ehangach o'r ddarpariaeth.
9.4.3	<i>“Mae ffigwr o £95,000 wedi'i ddyfynnu fel swm sydd ei angen ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad, ond nid yw cydrannau'r ffigwr hwn yn cael eu hegluro yn y ddogfen.”</i>	Nodir bod y ffigwr hwn yn seiliedig ar arolwg cyflwr a gynhelir gan y Cyngor, fel rhan o'r arolygon cyflwr rheolaidd a gynhelir ar draws ystâd ysgolion y Sir. Mae'r arolygon hyn yn cyfrannu at Gynllun Rheoli Asedau'r Awdurdod ac yn cefnogi blaenoriaethu'r rhaglen waith cynnal a chadw ysgolion.
9.4.4	<i>“Mae ffigwr o £95,000 ar gyfer atgyweiriadau i'r ysgol wedi'i gynnig, a hoffai'r gymuned gael gweld manylion costau manwl ar gyfer y ffigwr hwn.”</i>	Yn achos Ysgol Nebo, mae'r adeilad wedi'i asesu fel categori cyflwr 'B' (boddhaol - mân ddirywiad), gyda mannau o ddirywiad sy'n gofyn am waith cynnal a chadw. Mae'r arolwg cyflwr yn nodi'r angen am y gwaith canlynol:
9.4.5	<i>“Mae ffigwr o £95,000 ar gyfer atgyweiriadau i'r ysgol wedi'i gynnig, a hoffai'r gymuned gael gweld manylion costau manwl ar gyfer y ffigwr hwn.”</i>	• Atgyweirio'r to a'r gwteri – £35,000 • Uwchraddio'r toiledau – £25,000 • Ail-rendro waliau allanol – £30,000 • Amnewid rhai ffenestri – £5,000 • Cyfanswm yr amcangyfrif – £95,000
9.4.6	<i>“Mae ffigwr o £95,000 ar gyfer atgyweiriadau i'r ysgol wedi'i gynnig, a hoffai'r gymuned gael gweld dadansoddiad manwl o'r costau.”</i>	Mae'r tabl a gynhwysir yn y ddogfen ymgynghori yn crynhoi cyflwr yr adeiladau yn Ysgol Nebo ac Ysgol Llantllyfni, ynghyd â'r gwaith cynnal a chadw amcangyfrifedig sydd ei angen. Mae'r gwaith a nodir yn adlewyrchu
9.4.7	<i>“Hoffwn dderbyn rhestr fanwl ac amcanbrisiau o'r gwaith atgyweirio... gan bod y ffigwr uchel o £95,000 wedi synnu'r Llywodraethwyr.”</i>	
9.4.8	<i>“oes amcanbrisiau o'r gwaith atgyweirio sydd angen ei wneud ar yr ysgol? Mae'r ffigwr o £95,000 yn uchel a gellid dweud yn 'gamarweiniol' gan yn amlwg nad oes brys mawr i wneud y gwaith yma neu fe fyddai perygl i staff a disgyblion.”</i>	
9.4.9	<i>“Mae'r swm o £95,000 ar gyfer atgyweiriadau i'r Ysgol heb unrhyw sail, tystiolaeth, cyfiawnhad ac yn gamarweiniol. Ble mae'r amcanbrisiau? Ydy'r adroddiad wedi eu paratoi gan adeiladwyr neu syrfeiwyr proffesiynol?”</i>	

9.4.10	“Nid oes tystiolaeth ategol ddigonol i gyfiawnhau'r ffigwr cynnal a chadw o £95,000 a nodir yn y dogfennau ymgynghori. Pan holwyd tîm Moderneiddio Addysg am fanylion y costau hyn, darparwyd y wybodaeth ganlynol drwy e-bost: “Gwaith atgyweirio'r to a'r gwteri –£35k Uwchraddio'r toiledau –£25k Ail-rendro'r waliau allanol –£30k Amnewid rhai ffenestri –£5k Cyfanswm –£95k” Mewn mater mor ddifrifol â chau ysgol wledig, disgwylir dadansoddiad cost llawn, tryloyw ac wedi'i ddogfennu, gan gynnwys manylion cwmplas y gwaith, amserlen a pa waith hyn fyddai'n ofynnol beth bynnag fo'r penderfyniad ar ddyfodol yr ysgol. Mae'n siomedig ac yn annheg bod ffigwr sylweddol o'r fath yn cael ei gynnwys mewn dogfennau statudol heb unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig ategol, dyfynbrisiau, neu asesiad technegol, ac felly ni ddylid dibynnu arno fel sail gadarn ar gyfer penderfyniad o'r pwysigrwydd hwn.”	anghenion cynnal a chadw tebygol dros gyfnod, ac nid yw pob elfen yn waith brys nac yn waith a fyddai'n ofynnol ar unwaith. Nodai'r Cyngor nad yw costau cynnal a chadw'r adeilad wedi'i nodi fel her allweddol sy'n wynebu'r ysgol nac fel rheswm dros y cynnig. Yn hytrach, cynhaliwyd yr adolygiad o ddyfodol Ysgol Nebo am fod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol eraill, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagolygon niferoedd sy'n parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir.
9.4.11	<i>“Mae ffigwr o £95,000 wedi'i nodi ar gyfer atgyweiriadau i'r ysgol. Gan nad yw archwiliad manwl o seilwaith yr ysgol wedi'i gynnal, mae'n amlwg mai ffigwr a gynhyrchwyd gan eich Adran Ystadau at ddibenion cynllunio cyllidebol hirdymor yw hwn, ac felly dylid ei gyflwyno'n glir fel amcangyfrif yn hytrach nag fel cost wirioneddol sy'n ymwneud â'r ysgol. Rydych yn camarwain y cyhoedd yn fwriadol yn y ddogfen hon er mwyn cefnogi penderfyniad yr ydych eisoes wedi'i wneud.”</i>	Fel uchod.
9.4.12	“Buasai'n dda gweld sut y daethpwyd at y swm £95,000 er mwyn atgywiro'r ysgol. Hoffwn weld beth oedd y costau atgywiro dros y 5 mlynedd diwethaf a 'break down' o'r £95,000. A gafwyd mwy nag un cwmni i roi pris?”	Fel uchod.

9.5 Anghysondeb neu wallau mewn data ariannol (cost fesul dysgwr)

	Sylw	Ymateb y Cyngor
9.5.1	<i>“Yn y ddogfen ymgynghori, roedd dyraniad ariannol Ysgol Nebo ar gyfer 2025–26 yn £206,936 gyda chost fesul dysgwr o £25,867 – nid oedd hyn wedi’i seilio ar y 12 disgybl presennol ac felly dylai fod yn £17,245?”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a dderbyniwyd sy’n cwestiynu cywirdeb y ffigyrau ariannol a nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol, yn benodol mewn perthynas â dyraniad ariannol Ysgol Nebo ar gyfer blwyddyn ariannol 2025–26 a’r gost fesul dysgwr a gyhoeddwyd. Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol, dyraniad ariannol Ysgol Nebo ar gyfer 2025–26 oedd £206,936, gyda chost fesul dysgwr o £25,867. Mae’r Cyngor yn egluro bod y ffigwr cost fesul dysgwr wedi’i gyfrifo ar sail y niferoedd dysgwyr a oedd ar y gofrestr ym Medi 2024, gan mai dyma’r data swyddogol a ddefnyddir wrth bennu dyraniadau cyllidebol ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Yn achos Ysgol Nebo, roedd y niferoedd dysgwyr ar y pryd yn is na’r niferoedd presennol, sy’n egluro’r gwahaniaeth rhwng y ffigwr a gyhoeddwyd yn y ddogfen ymgynghori a’r ffigyrau a awgrymwyd gan rai ymatebwyr ar sail niferoedd diweddarach. Mae’r Cyngor yn nodi bod niferoedd dysgwyr yn gallu amrywio dros amser, ac er bod cynnydd wedi’i nodi ers Medi 2024, nid yw’r newid hwn wedi’i adlewyrchu yn y dyraniad cyllidol ar gyfer 2025–26, gan fod y dyraniad hwnnw eisoes wedi’i bennu yn unol â’r cylch cyllidebol safonol. Mae newidiadau i niferoedd dysgwyr yn cael eu hystyried drwy’r prosesau cyllidebol arferol ar gyfer blynnyddoedd ariannol dilynol, gan gynnwys 2026–27. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026–27, bydd y gost gyfartalog fesul dysgwr yn Ysgol Nebo yn £16,066, wedi’i chyfrifo ar sail niferoedd y dysgwyr ar y gofrestr ym mis Medi 2025, sef 11 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 ac 1 dysgwr
9.5.2	<i>“Mae’r ddogfen yn cydnabod bod nifer y dysgwyr wedi cynyddu i 12, ond yn parhau i nodi cost fesul dysgwr o £25,867, sydd wedi’i seilio ar ddim ond 8 dysgwr. Dylai’r ffigwr cywir fod yn £17,245, sy’n sylweddol is.”</i>	
9.5.3	<i>“Yn y ddogfen ymgynghori, roedd dyraniad ariannol Ysgol Nebo 2025–26 yn £206,936 gyda chost fesul dysgwr o £25,867 –nid oedd hyn wedi’i seilio ar y 12 disgybl presennol a dylai fod yn £17,245?”</i>	
9.5.4	<i>“Yn y ddogfen ymgynghori, roedd dyraniad ariannol Ysgol Nebo 2025–26 yn £206,936 gyda chost fesul dysgwr o £25,867 –nid oedd hyn wedi’i seilio ar y 12 disgybl presennol.”</i>	
9.5.5	<i>“nid yw ffigyrau dyraniad ariannol Ysgol Nebo 2025-26 o gost fesul dysgwr yn gywir ac yn gamarweiniol.”</i>	
9.5.6	<i>“Yn y ddogfen ymgynghori, roedd dyraniad ariannol Ysgol Nebo ar gyfer 2025–26 yn £206,936 gyda chost fesul dysgwr o £25,867 – nid oedd hyn wedi’i seilio ar y 12 disgybl presennol ac felly dylai fod yn £17,245?”</i>	
9.5.7	<i>“Yn y ddogfen ymgynghori, roedd dyraniad ariannol Ysgol Nebo ar gyfer 2025–26 yn £206,936 gyda chost fesul dysgwr o £25,867 – nid oedd hyn wedi’i seilio ar y 12 disgybl presennol ac felly dylai fod yn £17,245?”</i>	
9.5.8	<i>“Y gwir yw mai 12 yw nifer y disgyblion, nid 8, felly mae eich cyfrifiad o gost fesul disgybl yn anghywir ac yn gamarweiniol.”</i>	
9.5.9	Herir cyfrifiad cost fesul dysgwr fel un anghywir, gan nodi nad yw wedi’i seilio ar nifer y disgyblion presennol.	

9.5.10	<i>“sicrhau bod y data ar gapasiti, costau a darpariaeth leol yn gyfredol ac yn adlewyrchu’r sefyllfa ymarferol yn y tymor canolig a’r tymor hir.”</i>	Meithrin. Bydd y gost gyfartalog fesul dysgwr cynradd ar gyfer y Sir am yr un cyfnod yn £5,998.
9.5.11	<i>“... Wrth ddyfynnu’r gost fesul disgybl, mae’n defnyddio ffigwr Medi 2024 o 8 disgybl. Mae hyn yn gamarweiniol – y pwynt data PLASC mwy diweddar oedd 10 disgybl, a’r ffigwr presennol yw 12. (Yn nodedig, byddai’r ffigwr wedi bod yn 14 – gadawodd dau ddisgybl ar ôl i’r trafodaethau gael eu cyhoeddi yng ngwanwyn 2025, gan dybio y byddai’r ysgol yn cau).”</i>	O ran y cyfeiriadau at gost gyfartalog addysg fesul dysgwr ar lefel sirol, mae’r Cyngor yn egluro mai cyfartaledd ar draws holl ysgolion cynradd y sir yw hwn.
9.5.12	<i>“Roedd diffyg sylw amlwg i fanylion yng nghyflwyniadau’r Cyngor a’r dadansoddiadau SWOT. Er enghraifft, mae cwestiwn heb ei ateb o hyd ynghylch cost gyfartalog addysg fesul disgybl, a ddyfynnir fel £5,223, sef ffigwr nad yw’n ymddangos ei fod yn cyfateb i ddata llywodraethol cyhoeddedig.”</i>	Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod yr wybodaeth ariannol a gyflwynwyd yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol wedi’i seilio ar y data mwyaf diweddar oedd ar gael ar y pryd, sef gwybodaeth ariannol ar gyfer 2025–26.

9.6 Capasiti a llefydd gwag wedi’u gor-amcangyfrif neu’n afrealistig

	Sylw	Ymateb y Cyngor
9.6.1	<i>“Mae’r llefydd gwag wedi’u hasesu ar sail capasiti llawn o 58 o ddisgyblion. Ond nid oes modd lletya 58 o blant – y rhif sy’n cael ei ystyried mewn gwirionedd yw 25, ond pe bai rhai o’r rhain yn rhan-amser, er enghraifft wedi’u haddysgu’n rhannol gartref, gellid cefnogi tua 40 o blant.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a dderbyniwyd sy’n cwestiynu cywirdeb y ffigurau capasiti a’r llefydd gweigion a nodir ar gyfer Ysgol Nebo.
9.6.2	<i>“Mae gan Ysgol Nebo 12 disgybl ar hyn o bryd – gyda chapasiti amcangyfrifedig presennol o 25 o ddisgyblion y dydd, gallai 13–20 o ddisgyblion ychwanegol elwa ar addysg amser llawn neu ran-amser.”</i>	Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod capasiti’r ysgol wedi’i bennu yn unol â’r dull statudol safonol, a nodir yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru.
9.6.3	<i>“Amcangyfrifodd Cyngor Gwynedd fod 58 o lefydd yn Ysgol Nebo... mae’n anodd cyfiawnhau’r ffigwr hwn ac mae’n fwy tebygol ei fod yn agosach at 30.”</i>	Ar sail yr asesiad hwn, nodir capasiti Ysgol Nebo fel 51 o lefydd ar gyfer dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6, gyda chapasiti ychwanegol ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin. Gyda 11 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 ar gofrestr yr ysgol, mae 40 o lefydd gweigion ar gyfer y cyfnod oedran hwnnw, sef tua 78% o gapasiti’r ysgol. Yn ogystal, gyda 1 dysgwr yn y dosbarth Meithrin, mae 6 lle gwag arall yn y ddarpariaeth Feithrin. O ganlyniad, wrth ystyried y ddarpariaeth lawn o Feithrin i Flwyddyn 6, mae gan Ysgol Nebo gyfanswm o 46 o lefydd gweigion, sy’n cyfateb i tua 79% o gapasiti’r ysgol.
9.6.4	<i>“Mae’r ffigwr capasiti llawn o 58 yn nonsens... byddai’n anodd iawn ffitio mwy na hanner y nifer hwnnw.”</i>	
9.6.5	<i>“Mae’r nifer uchel o lefydd gwag a honnir wedi’i seilio ar gapasiti o 58 o ddysgwyr... er mwyn cynnal y profiad dysgu rhagorol... byddai uchafswm o 25 yn llawer mwy realistig.”</i>	
9.6.6	<i>“Mae’r llefydd gwag wedi’u nodi ar sail capasiti llawn o 58 o ddisgyblion. Ni fyddai hynny yn bosibl o ystyried adnoddau tai bach a maint y dosbarthaidau.”</i>	O ganlyniad, mae’r Cyngor yn cadarnhau bod y ffigurau capasiti a llefydd gweigion a nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol yn gywir, ac yn adlewyrchu’r capasiti a bennwyd yn dilyn yr adolygiad diweddaraf o gapasiti’r ysgol, a gyfrifwyd yn unol â’r dull statudol priodol.

9.6.7	“Mae’r llefydd gwag wedi’u nodi ar sail capasiti llawn o 58 o ddisgyblion. Ni fyddai hynny yn bosibl o ystyried adnoddau tai bach a maint y dosbarthiadau”	Fel uchod.
9.6.8	<i>“Mae’r llefydd gwag wedi’u hasesu ar sail capasiti llawn o 58 o ddisgyblion. Ond nid oes modd lletya 58 – y rhif sy’n cael ei ystyried yw 25, ond pe bai rhai o’r rhain yn rhan-amser, er enghraifft wedi’u haddysgu’n rhannol gartref, gellid cefnogi tua 40 o blant. Yn flaenorol, pan oedd fy mhlentyn yn mynychu’r ysgol, cawsom wybod mai’r capasiti uchaf oedd 32 oherwydd gofod y dosbarthiadau ac ati, ac mae hyd yn oed hynny’n ymddangos braidd yn uchel o ystyried y cyfleusterau.”</i>	Fel uchod.
9.6.9	<i>“Mae’r llefydd gwag wedi’u hasesu ar sail capasiti llawn o 58 o ddisgyblion. Ond nid oes modd lletya 58 – y rhif sy’n cael ei ystyried yw 25, ond pe bai rhai o’r rhain yn rhan-amser, er enghraifft wedi’u haddysgu’n rhannol gartref, gellid cefnogi tua 40 o blant.”</i>	Fel uchod.
9.6.10	“Mae’r nifer o lefydd gwag yn Ysgol Nebo y mae Cyngor Gwynedd wedi’u hasesu hefyd yn gamarweiniol. Mi fyddai’n hollol amhosib i letya 58 o blant gyda’r diffyg gofod a’r cyfleusterau sydd yn yr Ysgol.”	Fel uchod.
9.6.11	Dadleuir nad yw’r capasiti o 58 yn realistig, ac y gallai’r ysgol gefnogi mwy o blant drwy drefniadau hyblyg (e.e. rhan-amser).	Fel uchod.
9.6.12	Dadleuir bod y capasiti a nodwyd yn afrealistig, a bod capasiti is ond realistig yn cynnig costau fesul disgybl llawer is.	Fel uchod.
9.6.13	“Hoffwn wybod sut mae Cyngor Gwynedd wedi dod i’r casgliad bod lle i 58 o ddisgyblion... Credaf bod y rhif yn agosach at 25.”	Fel uchod.

9.7 Amserlen y broses statudol, effaith cau canol blwyddyn a galwad i ymestyn y dyddiad gweithredu i sicrhau pontio teg ac ystyried Adroddiad ADY Medi 2026 cyn gwneud penderfyniad

	Sylw	Ymateb y Cyngor
9.7.1	<i>“Nid oes unrhyw benderfyniad Cabinet ffurfiol tan o leiaf fis Mawrth... yna hysbysiad statudol gyda chyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod... penderfyniad terfynol o fewn 16 wythnos... sy’n debygol o fod ym mis Medi, dim ond 3 mis cyn cau?”</i> <i>“Dylid ymestyn y dyddiad cau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd, sef Gorffennaf 2027. Fel arall, bydd rhieni’n tynnu eu plant allan o’r ysgol ar ddechrau’r flwyddyn academaidd ym Medi 2026. Hefyd, dim ond ym Medi 2026 y caiff adroddiad Cyngor Gwynedd ar ddarpariaeth ADY ei gyhoeddi, ac pe bai hwnnw’n ystyried y syniadau hyn, byddai’n rhy hwyr i’w gweithredu pe bai penderfyniad eisoes wedi’i wneud i gau’r ysgol ym mis Rhagfyr 2026.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r pryderon a fynegwyd ynghylch yr amserlen arfaethedig ar gyfer y broses statudol, gan gynnwys y ffaith nad yw penderfyniad terfynol gan y Cabinet wedi’i wneud hyd yma, a’r awgrym y dylid gohirio unrhyw gau posibl tan ddiwedd blwyddyn academaidd 2026/27 yn hytrach na Rhagfyr 2026. Nodir hefyd y sylwadau sy’n codi pryderon ynghylch effaith cau canol blwyddyn ar lesiant a phrofiad addysgol dysgwyr, yn enwedig disgyblion ym Mlwyddyn 6, a’r posibilrwydd y gallai rhai rhieni ddewis symud eu plant cyn hynny.
9.7.2	<i>“Nid oes penderfyniad Cabinet gwirioneddol tan o leiaf fis Mawrth... ‘Penderfyniad terfynol... o fewn 16 wythnos...’ yn debygol o fod ym mis Medi, dim ond tri mis cyn y cau arfaethedig... byddai oedi unrhyw benderfyniad tan ddiwedd blwyddyn academaidd 2026/27 yn llawer mwy realistig...”</i> <i>“Hefyd, dim ond ym Medi 2026 y caiff adroddiad Cyngor Gwynedd ar ddarpariaeth ADY ei gyhoeddi, ac pe bai hwnnw’n ystyried y syniadau hyn, byddai’n rhy hwyr i’w gweithredu pe bai penderfyniad eisoes wedi’i wneud i gau’r ysgol ym mis Rhagfyr 2026.”</i> <i>“Mae’r syniad o gau’r ysgol ym mis Rhagfyr 2026, hanner ffordd drwy’r flwyddyn academaidd, yn gwneud dim synnwyr o gwbl; mae’n debygol y byddai rhieni’n symud eu plant i ddechrau mewn ysgol newydd ym mis Medi.”</i>	Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod yr amserlen a nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol yn adlewyrchu’r gofynion statudol a osodir gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan gynnwys y camau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniad, cyhoeddi hysbysiad statudol (os bydd y Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo’r cynnig), y cyfnod gwrthwynebu, a’r gofyniad i ddod i benderfyniad terfynol o fewn yr amserlenni a nodir yn y Cod. O ran y sylwadau sy’n ymwneud â’r Adroddiad ar ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y Cyngor, nodir bod ystyriaeth ehangach o ddarpariaeth ADY yn fater parhaus i’r Awdurdod Lleol, a bod anghenion dysgwyr unigol yn cael eu hystyried yn barhaus drwy’r trefniadau statudol presennol. Mae’r broses ymgynghori ar ddyfodol Ysgol Nebo wedi’i chynnal ar sail y wybodaeth a’r dystiolaeth oedd ar gael ar y pryd, ac mae unrhyw benderfyniad terfynol, pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, yn cynnwys ystyried trefniadau pontio priodol a chefnogaeth addas i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY.
9.7.3	<i>“Nid oes unrhyw ystyriaeth yn yr ymgynghoriad o Adroddiad ADY Cyngor Gwynedd sydd i’w gyhoeddi ym mis Medi 2026 i ddatrys anghenion plant gyda anghenion dysgu arbennig - mater y mae Estyn yn cymeryd o ddifri. Gofynnaf i’r Adran Addysg oedi’r penderfyniad i gau Ysgol Nebo tan i’r adroddiad gael ei gyhoeddi.”</i>	
9.7.4	<i>“Pam mae’r ymgynghoriad yn awgrymu y byddai cau’n digwydd ym mis Rhagfyr 2026, hanner ffordd drwy’r flwyddyn ysgol; pe bai’n cael ei ymestyn tan ddiwedd blwyddyn academaidd 2026/27, byddai hyn yn rhoi llawer mwy o amser i bawb (y Cyngor a’r gymuned) ystyried opsiynau amgen. Mae’n ymddangos yn amserlen frys iawn ar gyfer gwneud penderfyniad mor</i>	

	sylweddol... mae'r 'penderfyniad terfynol' yn debygol o fod ym mis Medi, dim ond tri mis cyn y cau?" "Awgrymwyd y dylid ymestyn y dyddiad cau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd, sef Gorffennaf 2027. Fel arall, bydd rhieni'n tynnu eu plant allan o'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ym Medi 2026. Hefyd, dim ond ym Medi 2026 y caiff adroddiad Cyngor Gwynedd ar ddarpariaeth ADY ei gyhoeddi, ac pe bai hwnnw'n ystyried y syniadau hyn, byddai'n rhy hwyr i'w gweithredu pe bai penderfyniad eisoes wedi'i wneud i gau'r ysgol ym mis Rhagfyr 2026."	
9.7.5	"Gofynnwn i'r cyngor ohirio'r cau nes bod yr Adroddiad ar Strategaeth ADY Cyngor Gwynedd yn cael ei gyhoeddi yn Medi 2026."	
9.7.6	"Mae'r cau arfaethedig wedi'i osod ar gyfer Rhagfyr 2026. Pam felly, yn hytrach nag ar ddiwedd blwyddyn academaidd? Byddai'n well i'r rhan fwyaf o ddisgyblion symud ar ddiwedd un flwyddyn academaidd a dechrau'r nesaf. Bydd gosod dyddiad cau ym mis Rhagfyr 2026 yn debygol o arwain at rieni'n symud eu plant yn gynnar, gan arwain at ostyngiad mewn niferoedd ac atgyfnerthu cynnig y Cyngor i gau ysgolion gyda niferoedd sy'n gostwng."	
9.7.7	"Nid oes penderfyniad Cabinet gwirioneddol tan o leiaf fis Mawrth. Yna ceir hysbysiad statudol gyda chyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. 'Penderfyniad terfynol ar y cynnig o fewn 16 wythnos i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu' – sy'n debygol o fod ym mis Medi, dim ond tri mis cyn y cau?" "Awgrymwyd y dylid ymestyn y dyddiad cau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd, sef Gorffennaf 2027. Fel arall, bydd rhieni'n tynnu eu plant allan o'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ym Medi 2026. Hefyd, dim ond ym Medi 2026 y caiff adroddiad Cyngor Gwynedd ar ddarpariaeth ADY ei gyhoeddi, ac pe bai hwnnw'n ystyried y syniadau hyn, byddai'n rhy hwyr i'w gweithredu pe bai penderfyniad eisoes wedi'i wneud i gau'r ysgol ym mis Rhagfyr 2026." "A yw'r risg o oedi'r penderfyniad yn ymwneud â 'niweidio enw da'r Cyngor'? Yn bwysicach o lawer yw ystyriaeth y niwed i blant a chymunedau Nebo a Nasareth."	Fel uchod.
9.7.8	"Pryder mawr arall i mi yw'r dyddiad cau arfaethedig sydd hanner ffordd drwy'r tymor ysgol. Beth bynnag fo manteision neu anfanteision cau'r ysgol, byddai ysgol bob amser yn cau ar ddiwedd blwyddyn academaidd gan y byddai hynny'n amlwg er budd gorau'r plant. Yr unig esboniad am y cau arfaethedig yng nghanol y flwyddyn yw gorfodi rhieni i dynnu eu plant allan o	Fel uchod.

	<i>Nebo cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, er mwyn gallu portreadu Nebo fel ysgol sy'n methu a chefnogi eich penderfyniad i'w chau."</i>	
9.7.9	<i>"Pam cau'r ysgol hanner ffordd drwy'r flwyddyn academaidd?"</i>	Fel uchod.
9.7.10	<i>"Byddwn wedi meddwl mai'r amser gorau ar gyfer cau fyddai ar ddiwedd y flwyddyn academaidd."</i>	Fel uchod.
9.7.11	<i>"Rydym hefyd yn teimlo fod cau yr ysgol yn Rhagfyr 2026 ynghanol blwyddyn ysgol yn hollol anheg ar blant fydd ym mlwyddyn 6. Pa synnwyr sydd mewn symud plant am ddau dymor yn unig i ysgol ddiarth, cyn iddyn nhw wedyn bontio i'r Uwchradd?"</i>	Fel uchod.
9.7.12	<i>Nodir y dylai unrhyw gau ddigwydd ddiwedd blwyddyn academaidd (e.e. Gorffennaf 2027), gan fod symud canol blwyddyn yn niweidiol i blant.</i>	Fel uchod.
9.7.13	<i>"Credaf fod cau yr ysgol yn Rhagfyr 2026 ynghanol blwyddyn ysgol yn hollol anheg ar blant fydd ym mlwyddyn 6. Ydy'r Adran Addysg wir yn credu y byddai hyn yn deg? Oes synnwyr mewn symud plant am ddau dymor yn unig i ysgol ddiarth, cyn iddyn nhw wedyn orfod symud eto i'r Uwchradd?"</i>	Fel uchod.

9.8 Datganiadau ffeithiol anghywir neu anghyfoes yn y broses

	Sylw	Ymateb y Cyngor
9.8.1	<i>"Dywedwyd yng nghyfarfod mis Mai 2025 fod 'nifer y disgyblion yn yr ysgol yw'r isaf yn y sir'... ond Baladeulyn sydd bellach â'r nifer isaf."</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
9.8.2	<i>"Dywedwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mai 2025 fod 'nifer y disgyblion yn yr ysgol yw'r isaf yn y sir' – roedd hyn yn gywir ar y pryd, ond Baladeulyn sydd bellach â'r nifer isaf."</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
9.8.3	<i>"Ni allaf wneud awgrymiadau ynghylch opsiynau'r Cyngor gan eu bod wedi'u seilio ar wybodaeth anghywir. Er enghraifft, dywedir nad oes cae chwarae gan Ysgol Nebo. Mae yna gae, ar ochr chwith Lon Cerrig."</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad, ac yn cadarnhau bod yr wybodaeth hon wedi'i hystyried ac wedi'i hymgorffori yn yr asesiadau effaith diwygiedig.
9.8.4	<i>"Cafodd cost rhedeg yr ysgol fesul disgybl ei chyfrifo cyn y cynnydd o 50% yn niferoedd y disgyblion."</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
9.8.5	<i>"Mae gan Nebo 'gae chwarae i blant', ond nid yw hyn wedi'i gydnabod yn y ddogfen."</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad, ac yn cadarnhau bod yr wybodaeth hon wedi'i hystyried ac wedi'i hymgorffori yn yr asesiadau effaith diwygiedig.
9.8.6	<i>"Mae gan Nebo 'gae chwarae i blant', ond nid yw hyn wedi'i gydnabod."</i>	

9.8.7	<i>“Mae gan Nebo ‘gae chwarae i blant’, ond nid yw hyn wedi’i gydnabod.”</i>	
9.8.8	<i>“Mae gan Nebo gae chwarae mewn gwirionedd, sydd rywsut wedi’i hepgor.”</i>	
9.8.9	<i>“Mewn tabl o gyfleusterau lleol, mae presenoldeb ‘Cae Chwarae i Blant’ ger yr ysgol wedi’i anwybyddu.”</i>	
9.8.10	<i>“Mae gan Nebo ‘gae chwarae i blant’, ond nid yw hyn wedi’i gydnabod...”</i>	

9.9 Sylwadau yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth â Chod Trefniadaeth Ysgolion (2018), yn enwedig y ddyletswydd i ystyried dewisiadau amgen

	Sylw	Ymateb y Cyngor
9.9.1	“Mae’r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir ystyried dewisiadau amgen, ymgynghori ar opsiynau eraill, a sicrhau bod effaith ar ddysgwyr a’u canlyniadau yn ganolog i unrhyw benderfyniad. Mae hyn yn creu dyletswydd gyfreithiol i ddangos y byddai cau ysgol yn darparu canlyniadau gwell i ddisgyblion na’r dewisiadau sydd ar gael. Credwn nad yw Cyngor Gwynedd wedi llawn ystyried pob opsiwn”	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod ystod o opsiynau amgen wedi’u hystyried fel rhan o’r broses statudol ar gyfer Ysgol Nebo, fel y nodir yn Adran 6 o’r Ddogfen Ymgynghori Statudol. Yn ogystal, mae asesiad pellach o’r opsiynau hyn wedi ei gynnal yn dilyn yr ymgynghoriad, ynghyd ag asesiad o’r opsiynau amgen rhesymol a gynigir gan ymgynghorai yn ystod y broses ymgynghori.
9.9.2	“Nid yw Cyngor Gwynedd yn asesu’r meini prawf yn gywir oherwydd mae’r Llywodraeth yn gosod canllawiau bod rhaid asesu ysgol wledig yn wahanol i ysgol drefol fawr. Nid oes unrhyw ystyrieth i ganiatau arloesedd, atebion gwell a chreadigol er lles y plant hynny sydd ddim yn ffitio mewn i’r system addysg yng Ngwynedd.”	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod y broses statudol wedi’i chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys y gofynion penodol ar gyfer ysgolion gwledig.
9.9.3	“Yng Nghyfarfod y Cabinet 03/10/2025, cyflwynais sylwadau ffurfiol i Cabinet Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu’r cynnig arfaethedig. Mae’r pryderon hynny yn parhau’n gwbl berthnasol, ac yn fy marn i nid ydynt wedi’u hateb yn ddigonol drwy’r ddogfen ymgynghori na’r asesiadau effaith a gyhoeddwyd wedi hynny...rwy’n parhau o’r farn nad yw’r achos dros gau yn bodloni’r “rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig” a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Nid yw’r dogfennau presennol yn dangos yn glir fod pob opsiwn ymarferol arall wedi’i ystyried yn gydwybodol, nac ychwaith fod asesiad effeithiau llawn a chyfoes wedi’i gynnal cyn dewis cau fel yr opsiwn a ffafrir....Nid wyf felly’n argyhoeddedig bod y cynnig presennol yn bodloni’r trothwy uchel sydd ei angen i	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a gyflwynwyd, gan gynnwys y pryderon a fynegwyd yn flaenorol i’r Cabinet ynghylch y cynnig arfaethedig. Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod y broses statudol ar gyfer Ysgol Nebo wedi’i chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys y gofynion penodol sy’n ymwneud â’r rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol ac yn y Papur Cynnig Ysgol Nebo a gyflwynwyd i’r Cabinet ar 14 Hydref 2025, dilynwyd trefn strwythuredig i werthuso ystod o opsiynau amgen rhesymol, ynghyd ag asesu effaith y rhain ar ffactorau penodol. Cynhaliwyd asesiadau effaith

	gyfiawnhau cau ysgol wledig sy'n parhau i ddarparu addysg o safon ac sy'n hanfodol i'w chymuned."	perthnasol, fel y nodir yn Adran 6 o'r ddogfen ymgynghori, ac fe'u diweddarwyd yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol.
9.9.4	"Ymddengys nad yw Cyngor Sir Gwynedd wedi rhoi sylw dyladwy i'r opsiwn hwn wrth gynnig cau'r ysgol, gan fod yr opsiwn sefydlu uned addysg barbennig yn yr adeilad yn gysyniad gwahanol. Byddwch yn ywybodol wrth gwrs fod Argraffiad 2018 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion y cadarnhau fod "Cyfraith Achosion" wedi sefydlu fod angen ystyriaeth ofalus o bob opsiwn tra bo cynigion yn dal ar gam ffurfiannol. Byddai'n briodol fe ly i chwi ohirio penderfyniad hyd nes trafod gyda lywodraethwyr yr opsiwn hwn, le byddant yn bartneriaid parod, gyda golwg ar roi sicrwydd am ddyfodol yr ysgol o leiaf tan ddiwedd y ddegawd pryd y gelid adolygu'r sefyllfa. Galai hyn roi digon o sicrwydd i rieni leol a rhai a fyddent yn hoffi ethos fely i ddanfôn eu plant at yr ysgol."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Nodir bod yr opsiwn dan sylw wedi'i ystyried yn wreiddiol fel rhan o'r opsiynau a drafodwyd cyn yr ymgynghoriad statudol, gan gynnwys opsiwn yn ymwneud â darpariaeth ar safle Ysgol Nebo i gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol. Fodd bynnag, yn sgil yr ymatebion a'r eglurhad a dderbyniwyd fod bwriad yr opsiwn a roddwyd ymlaen yn wahanol o ran ei gwmpas a'i fwriad i'r opsiwn ADY gwreiddiol, caiff yr opsiwn hwn bellach ei drin fel opsiwn amgen ar wahân ac mae'n destun asesiad pellach fel rhan o'r adroddiad ymgynghori.
9.9.5	<i>"Nid oes unrhyw 'ystyriaeth gydwybodol' (fel sy'n ofynnol gan y Cod) wedi'i rhoi i'r opsiwn o sefydlu cyfleuster dysgu awyr agored arbenigol. Mae'r opsiwn hwn wedi'i ddiystyru mewn un frawddeg, heb unrhyw ystyriaeth o rinweddau'r cynnig. Rwyf wedi cyflwyno manylion pellach ar hyn, wedi'u hatodi yma fel Atodiad 1 i'ch hystyried. Mae'r papur ar asesu'r effeithiau tebygol ar ddysgu yn ailadrodd yr un frawddeg un-llinell ym mhob blwch ar gyfer yr opsiwn hwn – mae'n amlwg nad yw hyn wedi cael unrhyw ystyriaeth."</i> <i>"Mae'r rhagfarn a ddangoswyd drwy gydol y broses drafod wedi bod yn amlwg, ac mae'r ffaith bod y trafodaethau wedi symud ymlaen i ymgynghoriad statudol yn dilyn yr un trywydd. Mae hyn yn mynd yn groes i'r rhagdybiaeth gyfreithiol yn erbyn cau ysgolion gwledig."</i> <i>"Mae'r Cod yn nodi:</i> <i>Bwriad y Cod yw sicrhau, pan gynigir opsiwn i gau ysgol wledig, mai dim ond ar ôl ystyriaeth ofalus iawn, ac ar ôl i bob dewis arall rhesymol gael ei ystyried, a chynnal asesiad clir o'u rhinweddau a'u dichonoldeb, y dylid penderfynu ymgynghori ar yr opsiwn hwnnw.</i> <i>Nid yw'r cynnig fel y mae ar hyn o bryd yn gyfystyr ag 'ystyriaeth ofalus iawn' – gan fod amrywiol opsiynau wedi'u diystyru'n gynnar drwy ddibynnu ar ddatganiadau cyffredinol. Nid yw diystyru opsiynau heb dystiolaeth yn gyfystyr ag asesiad clir o'u rhinweddau a'u dichonoldeb, ac ni fyddai'n sefyll prawf her gyfreithiol."</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Nodir bod yr awgrym ynghylch datblygu safle arbenigol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a gwaith maes wedi'i gynnwys eisoes yn y gwerthusiad opsiynau fel Opsiwn 5 (datblygu Ysgol Nebo fel lleoliad arbenigol ar gyfer gwaith maes/dysgu yn yr awyr agored). Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol, rhoddwyd ystyriaeth i ystod o opsiynau cyn ffurfio'r cynnig, drwy drefn strwythuredig a oedd yn cynnwys cyfarfodydd lleol/Panel Adolygu Ysgol (PAY) yn 2025 i drafod a gwerthuso opsiynau i ymateb i'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgol. Gwnaed hyn yn unol â gofynion y Cod, gan gynnwys y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig a'r disgwyliad bod "pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol". Yn ogystal, mae'r Ddogfen Ymgynghori Statudol yn egluro bod modd i ymgynghoreion wneud sylwadau ar y prif gynnig a hefyd ar yr opsiynau eraill a nodwyd (gweler adran 6), ac awgrymu opsiynau eraill a allai fynd i'r afael â'r rhesymau dros y cynnig.

9.9.6	<i>“Yn ogystal â methu ystyried yr opsiynau a nodir yn y papur yn ofalus ac yn gydwybodol, mae opsiynau eraill nad ydynt wedi’u hystyried o gwbl: mae hyn yn torri’r Cod, sy’n gosod y cyfrifoldeb ar y cynigydd. Mae’n bwysig sicrhau bod pob dewis arall rhesymol a nodwyd yn cael ei archwilio’n briodol cyn penderfynu symud ymlaen i ymgynghori ar gau. Yn benodol, ond nid yn gyfyngedig i hynny, nid oes unrhyw ystyriaeth wedi’i rhoi i:</i> ▪ <i>Sut y bydd polisïau tai yn effeithio ar nifer y bobl sy’n adleoli i bentrefi (gan obeithio y gallai unrhyw lwyddiant wrth leihau nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau arwain at gynnydd mewn teuluoedd ifanc);</i> ▪ <i>Cysylltiadau â strategaethau adfywio cymunedol, yn yr achos hwn gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y gwariant cyfredol ar brosiectau cymunedol sy’n gysylltiedig â dynodiad Tirwedd Treftadaeth y Byd UNESCO. Beth yn onest yw pwrpas prosiect celf arall ym Mhenygroes, pan fo’r pentrefi sydd wrth galon y dirwedd lechi yn cael eu hamddifadu o asedau cymunedol?</i> <i>Dylid nodi bod ystyriaeth o’r uchod yn ofynnol gan y Cod”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod y broses a arweiniodd at yr ymgynghoriad statudol wedi’i chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys y gofyn i ystyried opsiynau amgen rhesymol. Mae opsiynau amgen amrywiol wedi’u hystyried fel rhan o’r broses hon, a chynhaliwyd asesiadau effaith priodol ar yr opsiynau amgen rhesymol, yn unol â gofynion y Cod.
9.9.7	<i>“O ran adfywio cymunedol a chynllunio cymunedol, yr hyn nad yw wedi’i ystyried o gwbl yw i ba raddau y bydd strategaeth gynllunio’r Cyngor mewn perthynas â fforddiadwyedd tai, perchnogaeth ail gartrefi a llety gwyliau yn arwain at alw cynyddol am dai fforddiadwy i deuluoedd ifanc. Mae’n amlwg bod demograffeg pentrefi gwledig yn newid, gyda phoblogaeth sy’n heneiddio a llai o bobl ifanc: gallai dull cyfannol o gynllunio ar lefel y Cyngor hyrwyddo adfywiad y cymunedau hyn.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. Er bod y Cyngor yn cydnabod bod polisïau tai, adfywio cymunedol a newidiadau demograffig yn ffactorau pwysig i gymunedau gwledig yn ehangach, nid yw’r ymgynghoriad hwn yn fforwm ar gyfer gwneud penderfyniadau polisi ehangach y tu hwnt i gwmpas trefniadaeth ysgolion. Fel rhan o’r broses statudol, mae’r Cyngor wedi asesu effaith ehangach y cynnig drwy gynnal cyfres o asesiadau effaith, gan gynnwys Asesiad Effaith Cymunedol, Asesiad Effaith Llesiant ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Mae canfyddiadau’r asesiadau hyn wedi llywio ystyriaethau’r Cyngor wrth werthuso’r cynnig.
9.9.8	Mynegir pryder bod canfyddiad o ragfarn o blaid cau Ysgol Nebo wedi bodoli cyn dechrau’r broses ymgynghori statudol ac wedi parhau trwyddi draw. Honnir bod sylwadau a wnaed gan aelodau etholedig mewn cyd-destunau anffurfiol y tu allan i’r ysgol wedi awgrymu’n gynnar y byddai’r ysgol yn cau, ac y gallai hyn fod yn groes i’r rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig fel y’i nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mynegir pryder bod y fath sylwadau’n creu argraff o ganlyniad wedi’i ragdybio, gan	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. Mae’r Cyngor yn nodi nad yw sylwadau anffurfiol a wneir mewn cyd-destunau y tu allan i’r broses statudol yn rhan o’r drefn ffurfiol ar gyfer ystyried cynigion trefniadaeth ysgolion, ac nid ydynt o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor yn y cyd-destun hwn.

	danseilio ymddiriedaeth yn y broses ac effeithio ar ganfyddiadau teuluoedd am ddyfodol yr ysgol. Nodir hefyd y posibilrwydd bod hyn wedi cyfrannu at benderfyniadau unigol gan deuluoedd i dynnu plant allan o'r ysgol, gan atgyfnerthu'r canfyddiad o broses hunangyflawnol.	
9.9.9	Derbyniwyd sylw yn codi pryderon ynghylch tegwch, didwylledd a chyfreithlonrwydd y broses cyn-ymgyngori mewn perthynas ag Ysgol Nebo. Honnir bod datganiadau wedi'u gwneud mewn cyfarfod â rhanddeiliaid ym mis Hydref 2024 yn awgrymu bod penderfyniad i gau'r ysgol eisoes wedi'i wneud, cyn cynnal asesiad ffurfiol o opsiynau amgen neu cyn dilyn y broses statudol lawn. Yn benodol, mynegir pryder bod hyn yn groes i ofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer ysgol wledig â llai na 10 disgybl, gan gynnwys y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau, y gofyn i nodi rhesymau clir dros y cynnig, ac i asesu'n llawn ac yn gydwobodol bob opsiwn rhesymol arall cyn symud ymlaen â chynnig cau.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori, dechreuodd y broses statudol drwy gyhoeddi'r papur cynnig ym mis Hydref 2025, gyda'r ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymhwyso'r rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig ac i ystyried dewisiadau amgen rhesymol i gau ysgol, gan gynnwys ffedereiddio, cyn y gellid ystyried unrhyw gamau pellach. Mae'r gofynion hyn wedi'u bodloni drwy'r broses statudol, gyda'r opsiynau a'r rhesymau perthnasol wedi'u hamlinellu yn y Ddogfen Ymgynghori ynghyd â'r asesiadau effaith cysylltiedig.
9.9.10	Mae'r sylw yn codi pryderon ynghylch ymddygiad a gweithredoedd honedig cyn y broses ymgynghori statudol, a'r effaith bosibl ar ddyfodol Ysgol Nebo. Honnir bod rhiant wedi derbyn cyngor gan swyddog y Cyngor a allai fod wedi awgrymu bod penderfyniad eisoes wedi ei wneud am ddyfodol Ysgol Nebo drwy nodi bod yr ysgol yn debygol o gau, gan allu dylanwadu ar benderfyniad y teulu ynghylch trosglwyddo plant i'r ysgol, a thrwy hynny danseilio'r rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Nodir ymhellach fod cynnydd yn niferoedd dysgwyr erbyn cyfrifiad swyddogol Ionawr 2025 wedi golygu nad oedd y weithdrefn symlach ar gyfer cau ysgolion bach bellach yn berthnasol. Mynegir pryder bod camddehongli parhaus o'r weithdrefn hon wedi digwydd yn y cyfnod hwnnw. Yn ei hanfod, mae'r sylw'n codi materion ynghylch rhagfarn ganfyddedig, cywirdeb dehongli'r Cod, a'r effaith bosibl ar benderfyniadau teuluoedd ac ar degwch y broses gychwynnol.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd. Ni all y Cyngor wneud sylwadau ar achosion unigol na chadarnhau cynnwys unrhyw gyfathrebu personol, gan ystyried dyletswyddau cyfrinachedd a diogelu data; fodd bynnag, byddai disgwyl i unrhyw wybodaeth a roddir i rieni ynghylch trefniadau ysgol fod yn gywir, yn niwtral ac yn adlewyrchu'r sefyllfa ffurfiol ar y pryd. O ran y broses, nodir bod Ysgol Nebo wedi'i dynodi'n ysgol wledig at ddibenion Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac mae'r Cod yn nodi'r "rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig" a'r disgwyliad bod rhaid i'r achos dros gau fod yn gryf a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'i ystyried yn gydwobodol. Yn achos Ysgol Nebo, nodir yn y ddogfennaeth fod y Cabinet wedi cymeradwyo cychwyn trafodaethau ffurfiol ym mis Chwefror 2025 yn sgil niferoedd isel, ac yn dilyn y trafodaeth hynny, penderfynodd y Cabinet ar 14

		Hydref 2025 gynnal ymgynghoriad statudol ar gynnig i gau'r ysgol, yn unol â'r drefn statudol. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y camau ffurfiol hyd yma wedi'u cynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), a bydd y sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses statudol.
9.9.11	Mynegir pryder bod trafodaethau wedi'u cynnal gan swyddogion yr Adran Addysg â phenaethiaid ysgolion eraill ynghylch capasiti i dderbyn disgyblion pe byddai Ysgol Nebo (a Baladeulyn) yn cau, cyn y broses ymgynghori statudol. Honnir bod y fath drafodaethau'n awgrymu canfyddiad o ragfarn o blaid cau, yn hytrach na rhoi blaenoriaeth i archwilio opsiynau amgen megis ffedereiddio, fel y disgwylir o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mynegir hefyd pryder ynghylch dibynadwyedd a defnydd data lefydd gwag wrth werthuso capasiti ysgolion eraill, a'r graddau y bu'r data hwnnw'n sail i'r trafodaethau a gynhaliwyd.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o'r trafodaethau a ddisgrifiwyd. Fodd bynnag, bu trafodaethau gyda rhai ysgolion lleol i ystyried opsiynau ffederaleiddio posibl, fel rhan o'r gofyniad statudol i ystyried dewisiadau amgen rhesymol yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).
9.9.12	Mynegir pryderon ynghylch tŷn a ffocws cyflwyniadau swyddogol a wnaed i staff, rhieni, llywodraethwyr a'r Panel Adolygu yn ystod cyfarfodydd yn 2025. Honnir bod y cyflwyniadau hyn wedi bod yn weddol negyddol ac wedi rhoi'r argraff bod y dyfodol eisoes wedi'i gyfyngu i opsiwn cau, heb gyfeirio'n glir at y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig nac archwilio atebion creadigol posibl i gefnogi hyfywedd yr ysgol. Mynegir pryder bod y dadansoddiadau SWOT a gyflwynwyd wedi bod yn anghybwys o blaid cau, heb dystiolaeth ategol glir, ac yn canolbwyntio'n bennaf ar ystyriaethau ariannol, gyda lleiaf o sylw i lesiant dysgwyr. Cwestiynir a oedd y cyflwyniadau a'r dadansoddiadau a rennir yn galluogi trafodaeth deg a chynhwysfawr ar opsiynau amgen, neu a oeddent yn cyfrannu at ganfyddiad bod arbedion ariannol tymor byr wedi cael blaenoriaeth dros ystyriaethau addysgol a chymunedol ehangach.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad a'r pryderon a fynegwyd ynghylch y cyflwyniadau a'r trafodaethau a gynhaliwyd â staff, rhieni, llywodraethwyr yn ystod cyfarfodydd Panel Adolygu Ysgol Nebo. Nodir mai diben y cyfarfodydd Panel Adolygu Ysgol oedd rhannu gwybodaeth berthnasol am y sefyllfa addysgol, ddemograffig ac ariannol, ac egluro'r heriau sy'n wynebu'r ysgol fel rhan o waith ymgysylltu cyn ac yn ystod y broses ymgynghori. Mae'r Cyngor yn pwysleisio nad yw trafodaethau nac asesiadau a rennir yn y cyfarfodydd hyn yn gyfystyr â phenderfyniad, a bod unrhyw ystyriaeth o ddyfodol yr ysgol wedi'i chynnwys o fewn y broses statudol a lywodraethir gan ofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae'r rhagdybiaeth honno wedi'i hystyried drwy'r broses. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod yr angen i ystyried materion ariannol fel rhan o'i ddyletswydd i reoli arian cyhoeddus yn gyfrifol. Fodd bynnag, nid yw ystyriaeth o faterion ariannol yn gweithredu ar ei phen ei hun, ac mae'r cynnig wedi'i asesu yn ei gyfanrwydd yn erbyn y meini prawf penodol.

		Bydd unrhyw benderfyniad yn ymwneud â dyfodol yr ysgol yn cael ei wneud wedi ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol a'r gofynion a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).
9.9.13	Nodir nad oedd cofnodion cyfarfod mis Mai 2025 yn adlewyrchu'n llawn nac yn gywir y trafodaethau a gynhaliwyd, ac y gallent bortreadu'r Pennaeth Addysg mewn goleuni mwy niwtral neu ffafriol nag a brofwyd gan rai o'r sawl a oedd yn bresennol. Honnir bod rhai cwestiynau a sylwadau perthnasol heb eu cofnodi, ac y codwyd pryder ynghylch tôn rhai ymatebion yn y drafodaeth, gan gwestiynu addasrwydd a thegwch y cofnodion swyddogol.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Nodia'r Cyngor bod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu llunio fel crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd, yn hytrach na thrawsgrifiad gair-am-air o'r drafodaeth, ac maent wedi'u paratoi yn unol â'r drefn arferol.
9.9.14	Derbyniwyd sylw yn herio'r awgrym bod modd cyfyngu'r broses i nifer penodol o gynigion cyn symud ymlaen, gan honni bod hyn yn groes i ofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn perthynas ag ysgolion gwledig. Mynegir pryder nad yw dull o'r fath yn adlewyrchu'r gofyniad i nodi, ystyried ac archwilio'n llawn bob opsiwn amgen rhesymol a allai fynd i'r afael â'r rhesymau dros lunio cynnig, cyn penderfynu ymgynghori ar gynnig cau. Pwysleisir bod y Cod yn mynnu ystyriaeth ofalus iawn a gwerthusiad clir o rinweddau a dichonoldeb pob opsiwn amgen, ac mae'r sylw'n cwestiynu a yw'r broses wedi cydymffurfio'n llawn â'r disgwyliadau statudol hyn.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Nodir bod Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried ac asesu pob dewis amgen rhesymol i gau ysgol wledig cyn penderfynu symud ymlaen i ymgynghori ar gynnig o'r fath. Yn unol â'r Cod, mae'r broses statudol yn gofyn am werthusiad o'r dewisiadau amgen perthnasol, gan gynnwys asesiad clir o'u rhinweddau, cyn ystyried unrhyw gynnig penodol. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y drefn yma wedi'i ddilyn, gyda'r ystod o opsiynau amgen rhesymol wedi'u nodi a'u hasesu fel rhan o'r gwaith a amlinellir yn Papur Cynnig (Hydref 2025), y Ddogfen Ymgynghori dilynol a'r dogfennau ategol.

9.10 Diffyg ystyriaeth ddigonol o effeithiau hirdymor, llesiant a chyd-destun cymunedol ehangach

	Sylw	Ymateb y Cyngor
9.10.1	<i>“Nid yw'n ymddangos bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hystyried yn y Ddogfen Ymgynghori.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r pryderon a godwyd ynghylch ystyriaeth o lesiant, y Gymraeg, y gymuned, yr amgylchedd a chynaliadwyedd tymor hir y cynnig.
9.10.2	“Rhaid gwneud asesiad effaith manwl yn mesur yr effaith a chamau lliniaru-nid yw'r ddigonol gofyn i bobl gyffredin. Rhaid cael asesiad effaith manwl annibynnol yn edrych ar wir effaith cau yr ysgol yma ar y Gymraeg ac ar gymunedau.”	Nodai'r Cyngor bod y Ddogfen Ymgynghori yn nodi'n glir y gofyniad i ystyried dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

9.10.3	“credwn y byddai’n fuddiol i’r asesiadau ystyried yn fwy manwl yr effaith ar lesiant a chynnydd addysgol y disgyblion presennol o symud i ysgolion mwy yn ogystal â sicrhau bod y data ar gapasiti, costau a darpariaeth leol yn gyfredol ac yn adlewyrchu’r sefyllfa ymarferol yn y tymor canolig a hir.... gallai ystyried y pwyntiau hyn yn gadarnhaol gyfrannu at ddatblygu ateb mwy cynaliadwy, hyblyg ac arloesol sydd o fudd i blant, teuluoedd a’r gymuned yn ehangach.”	(Cymru) 2015, ac mae’r ystyriaethau hyn wedi’u hymgorffori drwy gynnal cyfres o asesiadau effaith cysylltiedig, gan gynnwys Asesiad Effaith Llesiant, Asesiad Effaith Cymunedol, Asesiad Effaith Ieithyddol, Asesiad Effaith Addysgol ac Asesiad Effaith ar drefniadau teithio. Mae’r asesiadau effaith hyn yn ystyried ystod eang o ffactorau, gan gynnwys effaith ar lesiant a chynnydd addysgol dysgwyr, effaith ar y Gymraeg, effaith ar y gymuned, trefniadau teithio, yn ogystal â chynaliadwyedd tymor canolig a hir y ddarpariaeth. Nodir hefyd fod y asesiadau’n cael eu cynnal yn unol â’r trefniadau statudol perthnasol, ac nad oes gofyn statudol i gomisiynu asesiadau annibynnol ar wahân.
9.10.4	“Dylid edrych ar effaith ar yr amgylchedd o rhoi plant ar fws ysgol” “Dylid edrych yn fwy manwl ar yr effaith fydd y penderfyniad yma yn cael ar y dyfodol a’r Genhedlaeth nesaf.” “SYlid edrych yn fanwl ar yr effaith... ar y Gymraeg yn yr ardal ac yn y dyfodol (nid ond plant 4-11 heddiw)”	
9.10.5	“Er bod yr asesiadau’n fanwl, credaf nad ydynt yn rhoi digon o bwyslais ar: •Effaith gronnu colli ysgol ar hyfywedd tymor hir y gymuned wledig. •Effaith ar deuluoedd heb fynediad hawdd at drafnidiaeth breifat, gan gynyddu anfantais economaidd-gymdeithasol. •Effaith ar lesiant plant ifanc, yn sgil teithio pellach a cholli ymdeimlad o berthyn lleol. •Y risg y bydd cau’r ysgol yn cyflymu diboblogi gwledig ac yn lleihau atyniad yr ardal i deuluoedd ifanc. Mae cynnydd pryderus iawn mewn addysg gartref yn y Sir (269 o blant – cynnydd o 134 mewn blwyddyn). Mae tystiolaeth leol yn dangos bod rhai dysgwyr wedi ffynnu yn Ysgol Nebo ar ôl i addysg brif ffrwd fod yn anaddas iddynt. Mae hyn yn tanseilio’r dybiaeth y bydd ysgol fwy yn ateb addysgol priodol i bawb.”	Mae’r Cyngor yn cydnabod y pryderon ynghylch effaith gronnu bosibl cau ysgol ar gymuned wledig, effaith ar deuluoedd heb fynediad hawdd at drafnidiaeth breifat, a’r ystyriaethau ehangach sy’n ymwneud â llesiant plant a dyfodol cymunedau. Mae’r materion hyn wedi’u hystyried wrth adolygu’r asesiadau effaith perthnasol. Nodir bod barn yr ymatebwyr, gan gynnwys pryderon ynghylch addysg gartref, hyblygrwydd darpariaeth addysgol a phrofiadau cadarnhaol rhai dysgwyr mewn ysgolion bach, wedi’u cofnodi ac y byddant yn cael eu hystyried ochr yn ochr â’r dystiolaeth arall a gyflwynwyd.

9.11 Diffyg eglurder ynghylch y meini prawf ar gyfer asesu ymatebion yr ymgynghoriad

	Sylw	Ymateb y Cyngor
9.12.1	“Nid yw’r ddogfen ymgynghori yn egluro’n glir y meini prawf y bydd yr ymatebion i’r ymgynghoriad yn cael eu hasesu yn eu herbyn.”	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod y broses statudol wedi’i chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig.

9.12 Diffyg cyfleoedd priodol i'r gymuned gymryd rhan yn y broses ymgynghori

	Sylw	Ymateb y Cyngor
9.12.1	“Siomedig hefyd na chynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn ystod yr ymgynghoriad lle fyddai cyfle i aelodau'r gymuned nad oedd yn rieni neu'n lywodraethwyr gael cyfle i drafod gyda'r Adran Addysg. O ystyried yr effaith andwyol geith gau'r ysgol ar ddyfodol y pentref ac ar drigolion yr ardal, y peth lleia gellid fod wedi ei wneud oedd cyfarfod y trigolion hynny, i wrando ar eu hofnau”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y broses ymgynghori statudol wedi'i chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Er nad yw cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn ofyniad statudol, cynhaliwyd sesiynau galw heibio i rieni, staff a lywodraethwyr fel rhan o'r broses ymgysylltu i roi cyfle i drafod y cynnig a'r broses statudol.
9.12.2	“Mae nifer o resymau pam mae pobl sydd yn ymateb i'r ymgynghoriad o dan anfantais Yn anffodus, nid yw'n bosibl ysgrifennu popeth yn yr ymgynghoriad gan nad yw fformat yr ymgynghoriad ddim yn caniatáu hynny. Mae hyn yn syndod yn enwedig wrth ystyried bod yr Ymgynghoriad mor faith. Yn wir, dwi wedi gorfod cael cymorth gan arbenigwr er mwyn teipio hwn gan nad oedd y PDF yn rhoi hawl i mi ysgrifennu arno.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori ac ar wefan yr ymgynghoriad, roedd nifer o wahanol ffyrdd ar gael i ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ar-lein, drwy e-bost, drwy lythyr neu drwy fformat amgen ar gais. Cynhaliwyd y broses ymgynghori yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).
9.12.3	“Deallaf na chafodd o leiaf un person gopiau caled o'r Ymgynghoriad er ei fod wedi mynd i Galw Gwynedd i ofyn amdano. Dywedwyd wrtho am gysylltu â Llywodraeth Cymru er bod y ddogfen yn dweud y gellir cael copiau o Gyngor Gwynedd.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y Tîm Moderneiddio Addysg y Cyngor wedi ymateb i bob cais a dderbyniwyd i ddarparu copïau caled o'r Ddogfen Ymgynghori, yn unol â'r trefniadau a amlinellir yn y ddogfen. Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o'r sefyllfa benodol a ddisgrifiwyd yn y sylwad hwn.

9.13 Galwad i beidio â pharhau gyda'r ymgynghoriad hyd nes y bydd pob opsiwn wedi'i ystyried yn llawn ac ar sail ffeithiau cywir

	Sylw	Ymateb y Cyngor
9.13.1	“Gydag ystyriaeth o'r pwyntiau uchod, teimlaf fod yngynghoriad Cyngor Gwynedd yn gamarweiniol ar adegau, ac annheg gyda sawl gwall. Felly ni ddylai Cyngor Gwynedd barhau gyda'r Ymgynghoriad hwn tan fydd pob opsiwn wedi ei ystyried, heb unrhyw gamarwain a ffeithiau cywir.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y broses ymgynghori statudol wedi'i chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Caiff yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad eu hystyried fel rhan o'r dystiolaeth berthnasol cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach, yn unol â'r broses statudol.

9.14 Herio addasrwydd meini prawf ar gyfer ysgolion gwledig

	Sylw	Ymateb y Cyngor
9.14.1	<i>“Pa feini prawf y mae’n rhaid i Gyngor Gwynedd gadw atynt?” “A yw’r manteision hirdymor a’r arbedion cost yn cael eu hystyried o gwbl?”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.
9.14.2	<i>“Beth yw’r meini prawf y mae Cyngor Gwynedd yn rhwym iddynt? A yw’r buddion tymor hir a’r arbedion cost yn cael eu hystyried o gwbl?”</i>	Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod y broses statudol yn cael ei chynnal yn unol a gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, Llywodraeth Cymru.
9.14.3	<i>“Yn y cyfarfod Cabinet ym mis Hydref 2025, canmolodd y Cadeirydd ‘feddwl y tu allan i’r bocs’, ond a yw’r meini prawf cymhwysedd yn caniatáu’r math hwnnw o feddwl? ... Bydd y broses o gymharu anghenion, buddion, manteision ac anfanteision ysgol wledig fach bob amser dan anfantais wrth ei chymharu â set o feini prawf cenedlaethol a safonol ar gyfer hyfywedd ysgolion a gwerth am arian yn y dyfodol. Mae’n anodd mesur llesiant meddyliol disgyblion yn erbyn meini prawf cenedlaethol. Mae llawer iawn o enghreifftiau yn y sir hon ac mewn rhannau eraill o Ogledd Cymru (megis Conwy) lle nad yw cefnogaeth ac anghenion plant oed ysgol yn ‘werth am arian’, ond serch hynny cânt eu cefnogi oherwydd ‘mai dyna’r peth iawn i’w wneud’.”</i>	Mae’r Cod yn nodi’n benodol y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig, ac mae’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu ysgolion o’r fath yn unol â’r gofynion ychwanegol perthnasol. Mae’r ystyriaethau hyn wedi’u cymhwyso drwy’r broses, gyda’r gwerthusiad opsiynau wedi’i grynhoi yn y Ddogfen Ymgynghori, a’r asesiadau effaith cysylltiedig wedi’u cyhoeddi fel atodiadau.
9.14.4	<i>“Yn y cyfarfod Cabinet ym mis Hydref 2025, canmolodd y Cadeirydd ‘feddwl y tu allan i’r bocs’, ond a yw’r meini prawf cymhwysedd yn caniatáu’r math hwnnw o feddwl?” / “Rhaid asesu ysgol wledig yn wahanol i ysgol drefol fawr.”</i>	Mae’r Cyngor yn cydnabod yr heriau sy’n gysylltiedig ag asesu materion megis llesiant, manteision cymunedol hirdymor ac effaith gymdeithasol, ac mae’r rhain wedi’u hystyried drwy’r asesiadau effaith a gynhaliwyd, gan gynnwys ystyried opsiynau amgen rhesymol lle bo’n briodol.
9.14.5	<i>“Yn y cyfarfod Cabinet ym mis Hydref 2025, canmolodd y Cadeirydd ‘feddwl y tu allan i’r bocs’, ond a yw’r meini prawf cymhwysedd yn caniatáu’r math hwnnw o feddwl? Os nad ydynt, pam nad ydynt? Mae’r Llywodraeth yn gosod y meini prawf hyn, ond rhaid asesu ysgol wledig yn wahanol i ysgol drefol fawr. Beth yw’r meini prawf y mae Cyngor Gwynedd yn rhwym iddynt? A yw’r buddion tymor hir a’r arbedion cost yn cael eu hystyried o gwbl? A oes lle i ddweud ‘ie, ond ar y llaw arall’? Ble mae’r bwlch yn y system sy’n caniatáu arloesedd ac atebion dychmygus sy’n cyflawni’n well yr hyn sydd orau i’r plant dan sylw yn system addysg Gwynedd?”</i>	Cwblhawyd gwerthusiad o’r opsiynau amgen rhesymol er mwyn crynhoi prif gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau’r opsiynau dan ystyriaeth, gan eu hasesu yn erbyn y ffactorau a nodir yn strategaeth Addysg Gynradd o’r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, gyda sylw dyledus i ofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) ac ystyriaethau perthnasol eraill.
9.14.6	<i>“Mae’n ymddangos bod meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer cau ysgolion yn gogwyddo tuag at y negyddol yn hytrach na chynnwys y cadarnhaol hefyd... Ceir hefyd ragdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig... A yw’r meini prawf hynny’n addas ar gyfer ysgol wledig? Rhaid asesu ysgol wledig yn wahanol i ysgol drefol fawr... dylid meddwl y tu hwnt i’r meini prawf a chynnwys yr agweddau cadarnhaol...”</i>	Roedd y gwerthusiad hefyd yn ystyried yr heriau penodol sy’n wynebu Ysgol Nebo y mae’r Cyngor yn ceisio ymateb iddynt. Yn benodol, aseswyd yr opsiynau yn erbyn ffactorau megis maint dosbarthiadau ac amrediad oedran, niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion, arweinyddiaeth a staffio, effaith ar gymuned, adnoddau ariannol, yr Iaith Gymraeg a ffactorau daearyddol, yn ogystal a ffactorau eraill.
Tud. 122		Yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, caiff yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol eu hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach.

10. Sylwadau am Ysgol Llanllyfni

10.1 Pryderon ynghylch capasiti Ysgol Llanllyfni, yn enwedig y dosbarth meithrin a digonolrwydd lleoedd yn y tymor hir

	Sylw	Ymateb y Cyngor
10.1.1	<i>“Mae meithrin Llanllyfni bron yn llawn eisoes, felly a oes gwir le yno i unrhyw ddisgyblion o Nebo/Nasareth yn y tymor hir?”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch capasiti Ysgol Llanllyfni, yn enwedig o ran y dosbarth meithrin. Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol, mae capasiti'r ysgol yn seiliedig ar ddata swyddogol diweddar, ac mae'n cadarnhau bod digon o le i dderbyn dysgwyr Ysgol Nebo yn y dosbarth meithrin ac o Dderbyn i Flwyddyn 6, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae gan Ysgol Llanllyfni gapasiti swyddogol ar gyfer 117 o ddysgwyr, gyda 71 ar y gofrestr (Data CYBLD Ionawr 2026), sy'n golygu bod 46 o leoedd gwag, sef tua 39% o'r capasiti. O ran y dosbarth meithrin yn benodol, mae capasiti ar gyfer 14 o blant, gyda 13 ar y gofrestr ym mis Ionawr 2026, sy'n golygu bod 1 lle gwag ar gael ar hyn o bryd. Mae'r rhagamcanion niferoedd dros y tair blynedd nesaf hefyd yn awgrymu y bydd capasiti digonol ar gael yn Ysgol Llanllyfni yn y tymor canolig a'r tymor hir, a phe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.
10.1.2	<i>“O ystyried yr oramcangyfrif hwn, a yw'r lleoedd yn Ysgol Llanllyfni wedi'u goramcangyfrif hefyd? Mae meithrin Llanllyfni bron yn llawn eisoes, felly a oes gwir le yno i unrhyw ddisgyblion o Nebo/Nasareth yn y tymor hir?”</i>	
10.1.3	<i>“Mae dosbarth meithrin Llanllyfni bron yn llawn eisoes... felly mae'r awgrym y gellir darparu ar gyfer unrhyw blant meithrin o Nebo/Nasareth yn y tymor hir yn ymddangos yn amheus.”</i>	
10.1.4	<i>“Mae meithrinfa Llanllyfni bron yn llawn eisoes, felly a oes gwir le yno i unrhyw ddisgyblion o Nebo/Nasareth yn y tymor hir?”</i>	
10.1.5	<i>“Mae meithrin Llanllyfni bron yn llawn eisoes, felly a oes gwir le yno i unrhyw ddisgyblion o Nebo/Nasareth yn y tymor hir?”</i>	
10.1.6	<i>“Mae meithrinfa Llanllyfni bron yn llawn eisoes, felly a oes gwir le yno i unrhyw ddisgyblion o Nebo/Nasareth yn y tymor hir?”</i>	
10.1.7	<i>“mae lleoedd gwag yn Ysgol Llanllyfni sydd wedi'u hasesu yn yr ymgynghoriad yn gamarweiniol. Mae'n ffaith fod meithrinfa Llanllyfni eisioes yn llawn ac felly nid oes gwir le yno ar gyfer disgyblion Ysgol Nebo. “</i>	
10.1.8	<i>“Mae meithrin Llanllyfni bron yn llawn eisoes, felly a oes gwir le yno i unrhyw ddisgyblion o Nebo/Nasareth yn y tymor hir?”</i>	
10.1.9	<i>Cwestiynir a oes digon o le yn y tymor hir yn Ysgol Llanllyfni gan fod y feithrinfa bron yn llawn. Cwestiynair a yw'r ffigur capasiti a nodir ar gyfer Ysgol Llanllyfni wedi ei oramcangyfrif?</i>	
10.1.10	<i>“A oes lle i'r plant yn Llanllyfni?”</i>	Fel uchod.
10.1.11	<i>Cwestiynir a oes capasiti gwirioneddol yn Ysgol Llanllyfni i dderbyn disgyblion Nebo.</i>	Fel uchod.
10.1.12	<i>“Er bod Ysgol Llanllyfni'n darparu addysg Gymraeg nid oes ganddi'r capasiti i dderbyn y plant hyn.”</i>	Fel uchod.

10.2 Cwestiynau ynghylch cywirdeb y ffigurau capasiti a llefydd gwag yn Ysgol Llanllyfni

	Sylw	Ymateb y Cyngor
10.2.1	<i>“A yw’r goramcangyfrif hwn hefyd wedi’i gymhwyso i ysgol Llanllyfni? Neu a yw’r ffigurau hyn yn creu darlun anghywir o’r sefyllfa go iawn?”</i>	Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod y data capasiti a’r ffigurau llefydd gwag ar gyfer Ysgol Llanllyfni, fel y’u nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol, yn gywir ac wedi’u seilio ar ddata swyddogol diweddar. Wrth asesu capasiti’r ysgol, ystyriwyd y ddarpariaeth yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y dosbarth meithrin a Derbyn i Flwyddyn 6, ynghyd ag ystyriaeth o dueddiadau niferoedd dysgwyr i’r dyfodol. Ar sail y dystiolaeth hon, cadarnheir bod digon o gapasiti ar gael yn Ysgol Llanllyfni yn y tymor byr ac yn y tymor hwy i dderbyn dysgwyr Ysgol Nebo, pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu.
10.2.2	<i>“A yw’r goramcangyfrif hwn hefyd wedi’i gymhwyso i ysgol Llanllyfni? Neu a yw’r ffigurau hyn yn creu darlun anghywir o’r sefyllfa go iawn?”</i>	
10.2.3	<i>“A yw’r goramcangyfrif hwn hefyd wedi’i gymhwyso i ysgol Llanllyfni?”</i>	
10.2.4	<i>“A yw’r goramcangyfrif hwn hefyd wedi’i gymhwyso i ysgol Llanllyfni? Neu a yw’r ffigurau hyn yn creu darlun anghywir o’r sefyllfa go iawn?”</i>	
10.2.5	Cwestiynir a oes digon o le yn y tymor hir yn Ysgol Llanllyfni gan fod y feithrinfa bron yn llawn. Cwestiynair a yw’r ffigur capasiti a nodir ar gyfer Ysgol Llanllyfni wedi ei oramcangyfrif?	

10.3 Sylwadau cyffredinol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
10.3.1	“...mae cyneriad yr ysgolion Amgen yn gyson iawn a’r ysgolion sydd i gau maent yn gwasanaethu’r un gymuned.”	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad.

11. Effaith ar staff

11.1 Sylwadau’n tynnu sylw at yr effaith ar staff

	Sylw	Ymateb y Cyngor
11.1.1	“Nid oes unrhyw ystyriaeth yn yr ymgynghoriad i ddyfodol y ddwy athrawes profiadol iawn sydd yn Ysgol Nebo, mae athrawon or fath yn brin yn enwedig gyda’r fath ymroddiad. Mae risg enfawr o golli eich staff”	Mae’r Cyngor yn nodi’r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl y cynnig ar staff Ysgol Nebo. Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei weithredu, rhagwelir y bydd goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau gan y byddai’r swyddi yn dod i ben pan fyddai’r ysgol yn cau. Ymgynghorwyd yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o’r cyfnod ymgynghori statudol. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau sy’n deillio o’r cynnig gydymffurfio â’r gyfraith cyflogaeth berthnasol a chynllun Diswyddo Gwynedd.
11.1.2	“...bydd hefyd yn golygu fod 1 pennaeth, 2 athro/athrawes llawn amser, 1 athro/athrawes rhan amser, 3 cymhorthydd, swyddog clerigol rhan amser, a goruchwyliwr amser cinio rhan amser yn colli ei swyddi - sydd wrth gwrs yn golygu fod ein cymunedau yn dlotach.”	
11.1.3	Nodwyd pryder y byddai’r cynnig yn arwain at golli swyddi ac arbenigedd staff ymroddedig.	

		Yn ystod yr ymgynghoriad, cynhaliwyd sesiynau galw heibio lle'r oedd swyddogion o wasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn bresennol os oedd unrhyw aelod o staff yn dymuno trafod eu sefyllfa. Rhoddwyd gwybod fod croeso hefyd i staff gysylltu â'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn uniongyrchol os oeddent yn dymuno cael trafodaethau pellach.

12. Addysg Gartref

12.1 Sylwadau'n nodi cynnydd sylweddol mewn Addysg Gartref fel arwydd o system addysg nad yw'n diwallu anghenion pob dysgwr, a diffyg ymateb strategol i hyblygrwydd, llesiant ac anghenion emosiynol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
12.1.1	Mynegir pryderon eang ynghylch addasrwydd, hyblygrwydd ac ymatebolrwydd system addysg y Cyngor i anghenion amrywiol dysgwyr, gan gyfeirio'n benodol at y cynnydd sylweddol mewn Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE) dros y blynyddoedd diwethaf, a honnir nad yw hyn wedi'i adlewyrchu'n ddigonol mewn dadansoddiadau strategol na chyllidebol. Mynegir pryder bod diffyg dealltwriaeth fanwl o'r rhesymau dros ddadgofrestru (gan gynnwys categorïau "eraill" ac "anhysbys") yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i werthuso a gwella ei wasanaethau addysgol yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r sylw'n cwestiynu dull unffurf at addysg, gan honni bod diffyg dewisiadau hyblyg (megis addysg hyblyg/flexi-schooling) yn cyfrannu at rwystredigaeth teuluoedd ac at benderfyniadau i dynnu plant o'r system brif ffrwd. Cyfeirir at naws y datganiadau a wnaed mewn trafodaethau swyddogol, gan godi pryder ynghylch agwedd tuag at ddewis rhieni, hawliau cyfreithiol o ran darparu addysg addas, a chydymffurfiaeth bosibl â dyletswyddau cydraddoldeb. Mae'r sylw hefyd yn tynnu sylw at bwysau cynyddol ar wasanaethau presenoldeb a llesiant, gyda chyfeiriad at niferoedd uchel o bobl ifanc sy'n derbyn cymorth, gan awgrymu bod cyfran sylweddol o ddysgwyr yn cael trafferth ymdopi â'r system bresennol. Nodir bod costau eilaidd cudd (e.e.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd ynghylch y cynnydd mewn Addysg Gartref, hyblygrwydd addysgol, llesiant ac anghenion emosiynol dysgwyr, yn ogystal â'r safbwyntiau a fynegwyd ynghylch darpariaeth addysgol ar lefel ehangach ar draws y Sir. Fodd bynnag, nodir mai ffocws y broses ymgynghori a'r asesiadau cysylltiedig yn yr achos hwn yw adolygu dyfodol Ysgol Nebo, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r adolygiad wedi'i seilio ar yr heriau cynyddol sy'n ymwneud â Ysgol Nebo, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gwag, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, a rhagolygon niferoedd sy'n parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir. Mae effaith y cynnig ar lesiant, profiad addysgol a chynnydd dysgwyr wedi'i hystyried yn drwy'r Asesiadau Effaith perthnasol, gan gynnwys ystyriaeth o fesurau lliniaru pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

	cefnogaeth gan asiantaethau allanol) yn cael eu diystyru mewn dadansoddiadau ariannol sy'n canolbwyntio ar arbedion uniongyrchol. Yn olaf, mae'r sylw'n mynegi pryder ynghylch ymateb y Cyngor i argymhelliad Estyn (Mehefin 2023) mewn perthynas â chryfhau darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (SEBD), gan honni bod diffyg eglurder ynghylch cwmpas yr argymhelliad a'i weithredu ar draws pob cam addysgol. Mae'r sylw'n cwestiynu a yw mesurau strategol a nodwyd wedi arwain at welliannau ymarferol, ac yn tynnu sylw at y cydberthynas rhwng SEBD, ADY a chynnaladwyedd y ddarpariaeth addysgol.	
12.1.2	<i>"Mae angen asesiad o'r rhesymau pam mae rhieni wedi troi at addysg gartref... mae cael dim ond dau athro ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn gyfan yn amlwg annigonol."</i>	Fel uchod.
12.1.3	"Cyngor Gwynedd yn gaeth iawn i gynnig un math o addysg nad yw'n addas ar gyfer nifer fawr o ddysgwyr" "nid ydynt yn fodlon addasu i'r byd sydd ohoni bellach a'r newidiadau mewn cymdeithas....nid ydynt [Cyngor Gwynedd] yn ystyried y byddai buddsoddi mewn addysg sy'n hyrwyddo iechyd meddwl positif yn lleihau baich ar y gwasanaeth iechyd meddwl oedolion yn y pendraw....Mae Cyngor Gwynedd a'r pennaeth addysg yn benodol yn methu cyfle yma i gynnig addysg arloesol i ddisgyblion Gwynedd"	Fel uchod.
12.1.4	<i>"Mae angen asesiad o'r rhesymau pam mae rhieni wedi troi at addysgu eu plant gartref. I rai, mae'n ddewis o ganlyniad i siomedigaeth gyda'r system addysg yn gyffredinol, ac maent yn aml yn dod at ei gilydd gyda rhieni eraill i ddarparu addysg a hyfforddiant rhagorol ac eang gyda llwyddiant mawr a chanlyniadau da. I eraill, mae'n ymwneud â phlant sydd bellach yn rhy bryderus i fynychu'r ysgol, neu sydd eu hunain heb ddiddordeb mewn mynychu, ond efallai nad oes gan eu rhieni y gallu i ddarparu addysg gartref briodol. Mae dim ond dau athro ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyfan yn amlwg annigonol i gefnogi a monitro'n briodol bawb sy'n rhan o'r cynnydd hwn.</i> <i>NID yw hyn yn feirniadaeth o'r athrawon hynny, ond o system sy'n gwegian dan straen adnoddau cyfyngedig. Mae'r cynnig i Ysgol Nebo gefnogi rhai o'r plant hynny yn ffordd o ddefnyddio'r adnoddau sydd eisoes ar waith yn</i>	Fel uchod.

	<i>llawer mwy effeithiol. Yn economaidd ac o ran canlyniadau, byddai hyn yn llawer mwy effeithlon ac effeithiol.”</i>	
12.1.5	<i>“Mae angen asesiad o’r rhesymau pam mae rhieni wedi troi at addysg gartref... plant sydd bellach yn rhy bryderus i fynychu’r ysgol... mae dim ond dau athro ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyfan yn amlwg annigonol...”</i>	Fel uchod.
12.1.6	<i>“Mae angen asesiad o’r rhesymau pam mae rhieni wedi troi at addysgu eu plant gartref. I rai, mae’n ddewis oherwydd siomedigaeth gyda’r system addysg yn gyffredinol, ac maent yn aml yn dod at ei gilydd gyda rhieni eraill i ddarparu addysg a hyfforddiant rhagorol ac eang, gyda llwyddiant mawr a chanlyniadau da. I eraill, mae’n ymwneud â phlant sydd bellach yn rhy bryderus i fynychu’r ysgol, neu sydd eu hunain heb ddiddordeb mewn mynychu, ond efallai nad oes gan eu rhieni’r gallu i ddarparu addysg gartref briodol. Mae dau athro yn unig ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn gyfan yn amlwg annigonol i gefnogi a monitro’n briodol bawb sy’n rhan o’r cynnydd hwn. NID yw hyn yn feirniadaeth o’r athrawon hynny, ond o system sy’n gwegian dan straen adnoddau cyfyngedig. Mae’r cynnig i Ysgol Nebo gefnogi rhai o’r plant hynny yn ffordd o ddefnyddio adnoddau sydd eisoes ar waith i lawer gwell effaith. Yn economaidd ac o ran canlyniadau, byddai hyn yn llawer mwy effeithiol ac effeithlon.”</i>	Fel uchod.
12.1.7	<i>“Dim ond dau athro sydd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn gyfan yn gofalu am yr holl blant sy’n cael eu haddysgu gartref.”</i>	Fel uchod.

13. Anghenion Dysgu Ychwanegol

13.1 Heriau strategol a chyllid i gefnogi plant ag ADY ac anghenion cymhleth – galwad am asesiad hirdymor a buddsoddiad

	Sylw	Ymateb y Cyngor
13.1.1	<i>“A oes cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ffyrdd o ymdrin â’r broblem enfawr, sydd wedi’i thystiolaethu, o’r cynnydd mawr mewn nifer y plant sy’n cael trafferthion ledled Cymru, ac os felly a yw Cyngor Gwynedd wedi derbyn unrhyw gyllid at y diben hynny?”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a’r cwestiynau a godwyd ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru, cynnydd mewn plant sy’n cael trafferthion, Addysg Gartref, a’r awgrym y gellid defnyddio Ysgol Nebo i gefnogi dysgwyr ag anghenion llesiant, emosiynol neu addysgol ehangach.
Tud. 127 13.1.2	<i>“Beth yw’r prosesau i nodi’n gywir y costau a’r manteision hirdymor gwirioneddol o’r awgrym y gellid defnyddio Ysgol Nebo i gefnogi plant sydd â thrafferthion neu anghenion nad ydynt o reidrwydd wedi’u hadnabod fel ADY? Mae’r arbedion hirdymor a’r manteision o safbwynt iechyd o helpu</i>	Fodd bynnag, nodir mai dyfodol Ysgol Nebo yw ffocws y broses statudol hon, ac fe gynhelir y broses yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae’r adolygiad presennol wedi’i seilio ar yr heriau sy’n

	plentyn yn ifanc yn golygu y byddant yn dechrau'r ysgol uwchradd yn hyderus ac yn hapus, gan wybod sut i reoli eu bywydau. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i ddadl ariannol yn unig, gan mai pwrpas unrhyw system addysg ddylai fod helpu a meithrin plant i ddod i fod y gorau y gallant fod. A oes cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ffyrdd o ymdrin â'r broblem enfawr, sydd wedi'i thystiolaethu, ym mhob ysgol ledled Cymru o'r cynnydd mawr yn nifer y plant sy'n cael trafferthion a phlant ag ADY, ac os felly a yw Cyngor Gwynedd wedi derbyn unrhyw gyllid o'r fath?"	wynebu'r ysgol honno, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gwag, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, a rhagolygon niferoedd sy'n parhau'n isel. Mae'r Asesiadau Effaith perthnasol wedi ystyried effaith y cynnig ar lesiant a phrofiad dysgwyr presennol, yn ogystal â mesurau lliniaru pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Er bod y Cyngor yn cydnabod bod materion megis addysg hyblyg, cefnogaeth gynnar a darpariaeth i ddysgwyr ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn bwysig, nid ydynt yn newid cwmphas na diben y broses statudol benodol hon. Yn ogystal, fe nodir fel rhan o'r broses statudol, bydd yr opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorai yn cael eu hystyried ymhellach yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan gynnwys eu hasesu yn erbyn y meini prawf perthnasol a'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig.
13.1.3	<i>"A oes unrhyw brosesau ar waith i nodi'n gywir y costau a'r manteision hirdymor gwirioneddol o'r awgrym y gellid defnyddio Ysgol Nebo i gefnogi plant sydd â thrafferthion neu anghenion nad ydynt o reidrwydd wedi'u hadnabod fel ADY? Mae'r arbedion hirdymor a'r manteision o safbwynt iechyd o helpu plentyn yn ifanc yn golygu y byddant yn dechrau'r ysgol uwchradd yn hyderus ac yn hapus, gan wybod sut i reoli eu bywydau. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i ddadl ariannol yn unig, gan mai pwrpas unrhyw system addysg ddylai fod helpu a meithrin plant i ddod i fod y gorau y gallant fod. A oes cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ffyrdd o ymdrin â'r broblem enfawr, sydd wedi'i thystiolaethu, ym mhob ysgol ledled Cymru o'r cynnydd mawr yn nifer y plant sy'n cael trafferthion a phlant ag ADY, ac os felly a yw Cyngor Gwynedd wedi derbyn unrhyw gyllid o'r fath?"</i>	
13.1.4	<i>"A oes unrhyw brosesau ar waith i nodi'n gywir y costau a'r manteision hirdymor gwirioneddol o'r awgrym y gellid defnyddio Ysgol Nebo i gefnogi plant sydd â thrafferthion neu anghenion nad ydynt o reidrwydd wedi'u hadnabod fel ADY? Mae'r arbedion hirdymor a'r manteision o safbwynt iechyd o helpu plentyn yn ifanc yn golygu y byddant yn dechrau'r ysgol uwchradd yn hyderus ac yn hapus, gan wybod sut i reoli eu bywydau. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i ddadl ariannol yn unig, gan mai pwrpas unrhyw system addysg ddylai fod helpu a meithrin plant i ddod i fod y gorau y gallant fod. A oes cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ffyrdd o ymdrin â'r broblem enfawr, sydd wedi'i thystiolaethu, ym mhob ysgol ledled Cymru o'r cynnydd mawr yn nifer y plant sy'n cael trafferthion a phlant ag ADY, ac os felly a yw Cyngor Gwynedd wedi derbyn unrhyw gyllid o'r fath? Dim ond dau athro sydd ar draws Gwynedd ac Ynys Môn sy'n gofalu am yr holl blant sy'n cael eu haddysgu gartref. Byddai'n fanteisiol i rai o'r plant hynny fynychu'r ysgol, o leiaf yn rhan-amser, a chael eu monitro'n llawer agosach gan athrawon yr ysgol. Byddai hyn hefyd yn broses llawer mwy</i>	Fel uchod.

	<i>cost-effeithiol (ac yn rhoi canlyniadau gwell), gan y byddai unrhyw drafferthion yn cael eu hadnabod ar unwaith gan yr athrawon.”</i>	
13.1.5	<i>“A oes unrhyw brosesau ar waith i nodi’n gywir y costau a’r manteision hirdymor gwirioneddol o’r awgrym y gellid defnyddio Ysgol Nebo i gefnogi plant sydd â thrafferthion neu anghenion nad ydynt o reidrwydd wedi’u hadnabod fel ADY? Mae’r arbedion hirdymor a’r manteision o safbwynt iechyd o helpu plentyn yn ifanc yn golygu y byddant yn dechrau’r ysgol uwchradd yn hyderus ac yn hapus, gan wybod sut i reoli eu bywydau. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i ddadl ariannol yn unig – gan mai pwrpas unrhyw system addysg ddylai fod helpu a meithrin plant i ddod i fod y gorau y gallant fod.” “A oes cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ffyrdd o ymdrin â’r broblem enfawr, sydd wedi’i thystiolaethu, ym mhob ysgol ledled Cymru o’r cynnydd mawr yn nifer y plant sy’n cael trafferthion a phlant ag ADY, ac os felly a yw Cyngor Gwynedd wedi derbyn unrhyw gyllid o’r fath?”</i>	Fel uchod.

14. Sylwadau Trawsbynciol

14.1 Cyd-destun economaidd a demograffig hirdymor: poblogaeth, swyddi a chynaliadwyedd cymunedol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
14.1.1	<i>“Mae prinder swyddi a chyfleoedd gwaith, sy’n golygu bod pobl ifanc yn symud allan o Gymru (80 y mis oedd y ffigur a awgrymwyd), ac o ganlyniad mae’r gyfradd geni yn gostwng. Felly, ble mae strategaeth economaidd y llywodraeth i wrthdroi hyn? Pe bai bwriad i wneud hynny, gallai’r sefyllfa fod yn dra gwahanol ymhen pum mlynedd. Ond os caiff yr ysgol ei chau rŵan, ac yna bod pobl ifanc yn symud yn ôl i Gymru, bydd yr adeilad wedi’i golli am byth. Gallai’r sefyllfa fod yn gwbl wahanol ymhen ychydig flynyddoedd, ond ni ellir byth adfer colled yr adeilad a diwylliant yr ysgol.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a godwyd ynghylch y cyd-destun economaidd-gymdeithasol ehangach, newidiadau demograffig, cynaliadwyedd cymunedol a goblygiadau hirdymor posibl i Nebo a’r ardal gyfagos. Nodir bod y materion hyn wedi’u nodi a’u hystyried fel rhan o’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a’r Asesiad Effaith Llesiant, sydd wedi’u diweddarau yn dilyn ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad statudol. Mae’r asesiadau hyn yn ystyried ystod eang o ffactorau perthnasol, gan gynnwys anfantais economaidd-gymdeithasol, effaith ar gydlyniant cymunedol, newidiadau demograffig, a chynaliadwyedd yn y tymor canolig a hir.
14.1.2	<i>“Mae prinder swyddi a chyfleoedd gwaith, sy’n golygu bod pobl ifanc yn symud allan o Gymru (80 y mis oedd y ffigur a awgrymwyd), ac o ganlyniad mae’r gyfradd geni yn gostwng. Felly ble mae strategaeth economaidd y llywodraeth i wrthdroi hyn? Pe bai bwriad i wneud hynny, gallai’r sefyllfa fod yn dra gwahanol ymhen pum mlynedd. Ond os caiff yr ysgol ei chau rŵan, ac yna bod pobl ifanc yn symud yn ôl i Gymru, bydd yr adeilad wedi’i golli am byth. Gallai’r sefyllfa fod yn gwbl wahanol ymhen ychydig flynyddoedd, ond ni ellir byth adfer colled yr adeilad a diwylliant yr ysgol.”</i>	Caiff y dystiolaeth a’r sylwadau a gyflwynwyd eu hystyried ochr yn ochr â’r asesiadau effaith perthnasol fel rhan o’r broses statudol cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

14.1.3	<i>“Mae arnom angen swyddi cyflog uchel yng Ngwynedd... a dim ond drwy strwythur addysg cadarn y gellir cyflawni hynny.”</i>	Fel uchod.
14.1.4	Nodir y byddai cau'r ysgol yn peri anfantais economaidd-gymdeithasol sylweddol i drigolion Nebo a'r ardal gyfagos.	Fel uchod.

14.2 Galwad am hyrwyddo polisi derbyn lleol ac ymgyrch i annog plant i fynychu eu hysgol leol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
14.2.1	<i>“Dylid gweud ymgyrch yn datgan cefnogaeth i blant aros a mynychu ei ysgol lleol ac egluro fod modd achyb yr ysgol os oes mwy o ddisgyblion yn mynychu. Wrth gwrs, ni fydd y Swyddogion byth yn cytuno i hyn”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed. Mae trefniadau derbyn ysgolion yn cael eu gweinyddu yn unol â Pholisi Derbyn Ysgolion y Cyngor a'r fframwaith statudol cenedlaethol perthnasol. O fewn y drefn hon, mae gan rieni a gofawyr yr hawl i fynegi dewis ynghylch yr ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn ei mynychu, yn amodol ar gapasiti yr ysgolion a'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn y polisi. Caiff y trefniadau hyn eu cymhwyso'n gyson ar draws y sir.
14.2.3	Awgrymir ailystyried trefniadau/polisi fel bod plant yn mynychu eu hysgol leol o'r cychwyn yn hytrach na theithio i ysgolion eraill.	

14.3 Sylwadau'n herio blaenoriaethu arbedion ariannol dros fuddsoddiad addysgol, cymdeithasol a chymunedol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
14.3.1	<i>“Heblaw am arbed arian, nid yw'n ymddangos bod unrhyw resymau gwirioneddol dros y cynnig i gau'r ysgol, gan y byddai'n amlwg yn niweidio'r gymuned a'r plant.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau sy'n awgrymu bod y cynnig wedi'i ddatblygu ar sail ystyriaethau ariannol yn bennaf.
14.3.2	<i>“Os yw'n fater o gost, sut y gall y Senedd ddod o hyd i £2.9 miliwn ychwanegol ar gyfer y 36 Aelod Senedd ychwanegol (o fis Mai 2026 ymlaen)?... Mae gan yr Alban boblogaeth o 5.5 miliwn; mae gan Gymru boblogaeth o 3.2 miliwn... felly dylai uchafswm nifer Aelodau'r Senedd yng Nghymru fod yn 75... Mae ysgolion yn bwysicach nag Aelodau'r Senedd, gan mai hwy yw dyfodol Cymru. Plis, meddyliwch eto a buddsoddwch yn nyfodol Cymru.”</i>	Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori, datblygwyd y cynnig oherwydd bod nifer o heriau parhaus yn wynebu Ysgol Nebo. Yn benodol, nodir niferoedd isel a bregus o ddysgwyr, canran uchel iawn o lefydd gweigion, a rhagamcanion niferoedd sy'n awgrymu parhad y sefyllfa fregus yn y tymor canolig a hir, ynghyd ag amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau bychain sy'n cyflwyno heriau addysgol. Mae'r ffactorau hyn wedi arwain at ystyried a ellir cynnal darpariaeth addysgol gynaliadwy yn y tymor hir o fewn y trefniadau presennol.
14.3.3	Cydnabyddir bod heriau ariannol, ond galwir am ystyried buddion addysgol, cymdeithasol a chymunedol ehangach cadw'r ysgol.	

14.3.4	“A ydy'r Cyngor yn rhoi rhesymau tymor byr i arbed arian yn hytrach na lles plant yn y tymor hir? “	Caiff yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol eu hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).
14.3.5	“Ni allaf ond tybio mai mesur arbed costau yw hyn.	
14.3.6	“Er fy mod yn gwerthfawrogi bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd, flwyddyn ar ôl blwyddyn, ynghylch cyllidebau'r Cyngor a gwerth am arian, mae rhai penderfyniadau na ellir ac na ddylid eu gwneud ar sail ystyriaethau ariannol yn unig.”	
14.3.7	“Mae'r arian mae'r Cyngor yn arbed yn isel iawn o gau'r ysgol ac rwyf methu a dallt y cyfiawnhad ar gyfer hynny - rwyf yn hapus i dalu trethi Cyngor ar gyfer cadw ysgolion ar agor a dyna ddylai blaenoriaeth Plaid Cymru fod (dros wasanaethau eraill) “	
14.3.8	“Mae'n ymddangos bod diffyg meddwl hirdymor ac arloesol... yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar yr arian y gellid o bosibl ei arbed drwy gau'r ysgol.”	
14.3.9	Mynegir y farn bod cau'r ysgol yn ymateb byr-weledol i broblem hirdymor o dan-ariannu, yn hytrach nag ateb strategol.	

14.4 Awgrym i ystyried trefniadau cydweithredu traws-awdurdodol i leihau costau a chynnal ysgolion bach lleol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
14.4.1	Awgrymir y dylid ystyried atebion ehangach megis cyfuno Môn, Gwynedd a Conwy i arbed costau er mwyn gallu cynnal ysgolion bach lleol.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Fodd bynnag, nodir fod y broses bresennol yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion o fewn ffiniau gweinyddol Cyngor Gwynedd ac yn cael ei chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Nid yw trefniadau strwythurol ehangach ar draws awdurdodau lleol eraill yn rhan o gwmpas y cynnig dan ystyriaeth.

14.5 Effaith ariannol hirdymor ar wasanaethau addysg, iechyd a llesiant

	Sylw	Ymateb y Cyngor
14.5.1	“Nid yw costau'r dyfodol sy'n gysylltiedig â chefnogi plant sy'n cael trafferthion wedi cael eu hystyried... Faint mae'n ei gostio i gefnogi plentyn sy'n cael trafferth drwy addysg uwchradd ac i mewn i oedolaeth?”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Mae anghenion a llesiant disgyblion, gan gynnwys goblygiadau hirdymor posibl i ddysgwyr, wedi'u hystyried drwy'r asesiadau effaith perthnasol fel rhan o'r broses statudol.
14.5.2	“Rwy'n nodi cyfrifoldeb y Cyngor i wneud penderfyniadau cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er y gallai cau ysgolion arwain at arbedion ariannol ymylol yn y tymor byr, mae'r rhagolwg	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.

	<i>tymor hir ar gyfer system addysg sy'n diwallu anghenion unigol disgyblion yn un o arbedion ariannol, gan fod y pwysau ar wasanaethau yn y dyfodol yn cael ei leihau, er enghraifft ar ddarpariaeth addysg arbenigol a chysylltiad â Gwasanaethau Iechyd Meddwl."</i>	

14.6 Sylwadau'n galw am ystyried cynlluniau tai a thwf poblogaeth posibl

	Sylw	Ymateb y Cyngor
14.6.1	"Nid oes gan ysgolion ddyletswydd i gynnal cymunedau - i'r gwrthwyneb - y gymuned ddylai gynnal a'r ysgol wasanaethu, symptom o brinder plant mewn cymuned yw gorfod cau ysgol ac nid achos...mae'r niferoedd yn isel gan fod pobol o oed magu plant yn dewis peidio neu yn methu byw yno. Mae cymunedau yn gwerthu allan i ail-gartrefi a lletai gwyliau (gweler gwerthiannau Victoria terrace Nantlle) neu yn gwrthwynebu i ddatblygiadau tai fforddiadwy ac yna yn anelu i wneud 'cau ysgol' yn frwydr neu'n fwch dihangol."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
14.6.2	<i>"Oherwydd y fformiwla dai, byddai angen adeiladu nifer fawr o dai yn Nebo i gynyddu niferoedd yr ysgol; byddai'n rhaid adeiladu 15 o dai i ennill 1 plentyn yn yr ysgol.' O ble daw'r cyfrifiad hwn??"</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.
14.6.3	<i>"Yn yr un cyfarfod (d) codwyd y posibilrwydd o adeiladu rhagor o dai cymdeithasol. Yr ymateb oedd: 'Oherwydd y fformiwla dai, byddai angen adeiladu nifer fawr o dai yn Nebo i gynyddu niferoedd yr ysgol; byddai'n rhaid adeiladu 15 o dai i ennill 1 plentyn yn yr ysgol.' O ble daw'r cyfrifiad hwn??"</i>	Nodir bod unrhyw ystyriaeth o'r potensial ar gyfer cynnydd mewn niferoedd dysgwyr yn sgil datblygiadau tai yn seiliedig ar y fformiwla gynllunio berthnasol a nodir yng Nghantlawiau Cynllunio Atodol Cyngor Gwynedd. Mae'r dull hwn yn amcangyfrif nifer y disgyblion a all ddeillio o ddatblygiad preswyl drwy luosi nifer y mathau penodol o dai a fwriedir â'r ffactorau perthnasol.
14.6.4	"Mae'n siomedig nad yw'r dogfennau'n rhoi unrhyw ystyriaeth briodol i Gynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd, sy'n targedu darparu 700 o dai cymdeithasol erbyn 2029. Ar hyn o bryd, mae asiantaethau tai a datblygwyr yn adeiladu tai cymdeithasol fforddiadwy ar draws Gwynedd ar raddfa na welwyd ers cenhedlaeth. O ystyried hyn, mae'n gwbl resymol ac yn briodol ystyried y posibilrwydd y gallai'r cynllun hwn arwain at dwf poblogaeth lleol, gan gynnwys yn ardal Nebo. Felly, heb fodel demograffig tryloyw sy'n ymgorffori'r datblygiadau tai hyn, nid yw'r casgliad y bydd niferoedd	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau ynghylch Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd a'r posibilrwydd y gallai datblygiadau tai, gan gynnwys y targed i ddarparu 700 o gartrefi fforddiadwy, ddylanwadu ar batrymau demograffig dros amser. Fodd bynnag, yn ôl y rhagamcanion, rhagwelir y bydd niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf. Fel nodir yn y ddogfen ymgynghori, roedd 11 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 ac 1 dysgwr

	disgyblion yn parhau'n isel yn un cadarn nac yn ddigonol fel sail i benderfyniad mor bwysig â chau ysgol wledig.”	Meithrin ar y gofrestr ym Medi 2025, gyda rhagamcan o 10 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin erbyn Medi 2028. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall cynlluniau tai effeithio ar niferoedd dros y tymor hir, ond ni ellir rhagdybio effaith uniongyrchol ar ddalgylch penodol heb dystiolaeth leol gadarn ynghylch graddfa ac amseriad datblygiadau perthnasol.

14.7 Sylwadau'n awgrymu ail-fuddsoddi arbedion mewn darpariaeth addysgol neu brosiectau Cymraeg

	Sylw	Ymateb y Cyngor
14.7.1	Cynigir bod rhan o'r arbedion o gau Ysgol Nebo yn cael eu hail-fuddsoddi i wella neu gryfhau darpariaeth yn Ysgol Llanllfyni.	Mae'r Cyngor yn nodi'r awgrymiadau.
14.7.2	“Beth am ymrwymo cyfran o'r arbediad i broiectau hyrwyddo'r Gymraeg?”	Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol (Adran 7.7 – <i>Adnoddau Ariannol</i>), bydd unrhyw arbedion mewn costau refeniw, pe câi'r cynnig ei weithredu, yn cael eu cadw ym maes ysgolion Gwynedd.

14.8 Cefnogi teuluoedd drwy ddarparu gwis ysgol am ddim

	Sylw	Ymateb y Cyngor
14.8.1	Awgrymir y dylid ystyried trefniadau i gefnogi teuluoedd drwy ddarparu gwisg ysgol am ddim.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.

14.9 Ôl-ddefnydd

	Sylw	Ymateb y Cyngor
14.9.1	“Gyda dim ond 250 o bobl ar Restr Etholiadol yma, rydym yn amau byddai'r pentrefi yn gallu codi digon o bres a fforddio rhedeg yr ysgol ar ôl iddi gau.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.

14.10 Sylwadau ynghylch dirywiad systemig darpariaeth addysg wledig, tuedd at drefoli, a goblygiadau hirdymor i gymunedau Cymraeg

	Sylw	Ymateb y Cyngor
14.10.1	“Mae datgymalu systematig ysgolion gwledig bach cefnogol yn creu effaith hirdymor ar fywyd gwledig, i'r fath raddau fel bod y cynnig yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.” “Mae gennyf hefyd bryderon ynghylch safonau addysg yn fwy cyffredinol ar draws y sir, a'r ymgyrch ariannol amlwg tuag at drefoli a chanoli addysg, sy'n newid natur y sir drwy leihau manteision byw mewn ardaloedd gwledig,	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd ynghylch effaith hirdymor cau ysgolion gwledig ar fywyd gwledig, cymunedau, llesiant a'r Gymraeg, gan gynnwys y cyfeiriad at ddyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

	<i>gan gyfrannu at ddirywiad cymuned, llesiant a'r Gymraeg. Mae pobl Gwynedd, sy'n sir wledig ei natur yn bennaf, yn haeddu gwell. Mae hanes dirywiad ysgolion gwledig, gyda 25 eisoedd wedi'u colli yn ystod y blynyddoedd diweddar, yn dystiolaeth o ddiffyg cefnogaeth syfrdanol gan y Cyngor."</i>	Fodd bynnag, nodir mai ffocws y broses statudol hon yw dyfodol Ysgol Nebo, ac fe gynhelir y broses yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r adolygiad presennol wedi'i seilio ar yr heriau sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag ystodau oedran eang, a rhagamcanion sy'n nodi bod niferoedd dysgwyr yn debygol o barhau'n isel. Nodir bod pecyn asesiadau effaith wedi'i gyhoeddi fel rhan o'r ddogfennaeth ymgynghori, gan gynnwys asesiadau ar yr iaith Gymraeg, y gymuned, cydraddoldeb, trefniadau teithio, ansawdd a safonau addysg, ac asesiad llesiant, ynghyd â dogfennau cefndirol eraill. Mae'r asesiadau effaith hyn wedi eu diweddarau yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Nodir hefyd, yn unol â'r drefn statudol, y bydd y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol berthnasol, yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ffurfiol cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach.
14.10.2	Mynegir pryder bod diffyg ymgysylltiad ystyrion â syniadau'r ysgol a'r gymuned yn adlewyrchu argyfwng ehangach o fewn y system addysg, nad yw wedi'i gyfyngu i ysgolion gwledig bach yn unig. Honnir bod heriau systemig difrifol yn cynnwys prinder staff a phwysau recriwtio a chadw staff, cynnydd sylweddol mewn anghenion dysgu ychwanegol heb adnoddau digonol, a straen ariannol parhaus sy'n arwain at atebion canfyddedig cul sy'n canolbwyntio ar arbedion uniongyrchol yn hytrach nag atebion strategol cynaliadwy. Mae'r sylw'n tynnu sylw at gostau eilaidd cudd sy'n codi pan nad yw anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu, megis dibyniaeth ar gefnogaeth gan asiantaethau allanol, ac yn honni nad yw'r costau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n llawn mewn dadansoddiadau ariannol. Nodir hefyd diffyg atebolrwydd ar gyfer methiannau blaenorol mewn modelau darpariaeth. Yn ogystal, mynegir pryder ynghylch cynnydd sylweddol mewn Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE) fel arwydd bod nifer cynyddol o deuluoedd yn colli ffydd yn y system brif ffrwd, ac nad oes mecanwaith digonol ar waith i	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r pryderon a godwyd ynghylch materion ehangach sy'n wynebu'r gwasanaeth addysg, gan gynnwys staffio, anghenion dysgu ychwanegol, pwysau ariannol a phrofiadau rhai teuluoedd. Fodd bynnag, nodir mai ffocws y broses statudol hon yw dyfodol Ysgol Nebo, ac fe gynhelir y broses yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r adolygiad presennol wedi'i seilio ar yr heriau sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag ystodau oedran eang, a rhagamcanion sy'n nodi bod niferoedd dysgwyr yn debygol o barhau'n isel. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod pwysau eang yn bodoli ar draws y system addysg, ac mae'r materion hyn yn cael eu hystyried drwy brosesau, strategaethau a chynlluniau gwasanaeth ar wahân. Caiff yr holl sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn eu nodi a'u hystyried yn briodol fel rhan o'r broses statudol cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach.

	werthuso'r gwasanaeth yn y cyd-destun hwn. Mae'r sylw'n cwestiynu a yw'r dull addysg unffurf presennol yn gallu diwallu anghenion amrywiol pob dysgwr, gan gysylltu hyn â phwysau ar bresenoldeb, llesiant dysgwyr, a chapasiti gwasanaethau cymorth.	
14.10.3	<i>“Mae cyflwyniad yr heriau sy’n wynebu ysgolion gwledig yn cael ei bortreadu’n bennaf fel un o newid demograffig—newid sy’n anochel, ac nad yw’r Cyngor yn gyfrifol amdano. Yn amlwg, nid yw hyn yn wir: mae polisi gweithredol o gyfuno ar sail resymau ariannol ar waith, sydd yn ymarferol yn gweithredu fel polisi trefoli (urbanisation). Mae dalgylch Dyffryn Nantlle, y mae Nebo yn rhan ohono, yn enghraifft glasurol o hyn:</i> <i>Mor ddiweddar â 2014, roedd 9 ysgol gynradd yn nalgylch ysgol Dyffryn Nantlle, yn darparu ar gyfer 621 o ddisgyblion yn y flwyddyn honno. Roedd cau dwy o’r ysgolion hynny—Carmel a Bronyfoel—yn 2015 yn angenrheidiol er mwyn gallu adeiladu ysgol newydd oedd yn gwasanaethu ardal Groeslon. Pe bai trafodaethau / ymgynghoriadau presennol Cyngor Gwynedd ar ddyfodol Ysgolion Nebo a Baladeulyn yn arwain at gau’r ddwy ysgol hyn, dim ond 5 ysgol gynradd fyddai’n gwasanaethu’r ardal.</i> <i>Fodd bynnag, nid yw nifer y disgyblion ar draws y dalgylch wedi gostwng yn sylweddol yn gyffredinol. Yn ôl y data diwethaf ar gyfer 2024, roedd 594 o ddisgyblion ar draws y 7 ysgol. Os edrychir yn ôl mewn cyfnodau o ddeg mlynedd, mae’r data fel a ganlyn:</i> ▪ 2015: 635 o ddisgyblion mewn 7 ysgol ▪ 2005: 645 o ddisgyblion mewn 9 ysgol ▪ 1995: 603 o ddisgyblion mewn 9 ysgol <i>Dros y 30 mlynedd rhwng 1995 a’r diwrnod presennol, mae gostyngiad cyffredinol o ddim ond 9 disgybl yn y niferoedd. Nid yw hyn yn ymddangos yn sail ddigonol i gyfiawnhau cau pedair o’r naw ysgol, sef y canlyniad pe bai’r ymgynghoriadau posibl ar ddyfodol Nebo a Baladeulyn yn arwain at gau.</i> <i>Yn sicr, mae cau Ysgolion Carmel ac Y Fron er mwyn cefnogi cyllido adeilad ysgol newydd yng Ngroeslon yn tynnu sylw at bolisi mwy strategol o drefoli. Mae plant yn y pentrefi hynny sydd ar gyrion yr ardal bellach yn cael eu cludo ar dacs neu fws i bentref arall, ar draul y pwrs cyhoeddus i dalu’r costau trafnidiaeth.</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a’r cyd-destun ehangach a fynegwyd ynghylch trefniadaeth ysgolion mewn rhannau o Ddyffryn Nantlle dros gyfnod estynedig. Fodd bynnag, nodir mai ffocws y broses statudol hon yw dyfodol Ysgol Nebo, ac fe gynhelir y broses yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae’r adolygiad presennol wedi’i seilio ar yr heriau sy’n wynebu’r ysgol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag ystodau oedran eang, a rhagamcanion sy’n nodi bod niferoedd dysgwyr yn debygol o barhau’n isel. Caiff y sylwadau a gyflwynwyd eu nodi a’u hystyried fel rhan o’r broses, ochr yn ochr â’r ystyriaethau statudol perthnasol, cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach.

	<i>Mae unigolion yn Carmel ac Y Fron wedi nodi bod cau ysgol eu pentref wedi rhwygo calon y gymuned, ac nad oes bellach ddim i ddenu teuluoedd i symud yno. Nid oes angen dim ond gyrru drwy Carmel, yn arbennig, i weld cyflwr trist yr adnodd hwnnw—wedi'i leihau i groen o adeilad—ac i deimlo'r tristwch am ei golli."</i>	

14.11 Galwad i fuddsoddi yn addysg leol a chymunedol yn lle cau'r ysgol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
14.11.1	Dylid blaenoriaethu buddsoddi mewn addysg leol a chymunedol yn hytrach na chau ysgolion bach.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
14.11.2	<i>"Ni ellir mesur yr effaith eilaidd o gau ysgol leol. Fel cenedl falch, rhaid inni fuddsoddi yn ein plant ar bob cyfrif. Os na fyddwn yn cefnogi ein plant, beth fydd dyfodol Cymru?"</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
4.11.3	<i>"Mae ysgolion yn ymwneud â 'buddsoddi yn y dyfodol' – mae angen i'r Cyngor fabwysiadu safbwynt llawer mwy tymor hir o ran sefydliadau addysg a'r mathau o addysg a ddarperir. Mae pob person ifanc yn unigol, gyda gofynion a chyd-destunau unigol."</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.

15. Opsiynau amgen

15.1 "Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro -amrywiaeth."

	Sylw	Ymateb y Cyngor
15.1.1	"Yr opsiwn yr hoffwn i'r cyngor ei ystyried, ac opsiwn dewisol rhieni, athrawon, llywodraethwyr a chymuned yr ysgol yw cadw'r ysgol ar agor fel ysgol prif ffrwd a datblygu'r ysgol fel prosiect peilot arloesol ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol...Mae'r arbedion tymor hir a'r buddion iechyd o helpu plentyn yn ifanc yn golygu y byddant yn dechrau'r ysgol uwchradd yn hyderus ac yn hapus. Mae hyn y tu hwnt i ddadl ariannol yn unig, gan mai pwrpas unrhyw system addysg ddylai fod i helpu a meithrin plant i ddod y gorau y gallant fod... Mae'r cynnig i groesawu plant sy'n cael trafferth gydag addysg brif ffrwd a helpu'r nifer uchel o blant sy'n cael eu haddysgu gartref yn ôl fewn i'r system addysg. Mae gan Ysgol Nebo brofiad helaeth ac	Mae'r Cyngor yn nodi'r nifer sylweddol o ymatebion sy'n cefnogi'r awgrym i gadw Ysgol Nebo ar agor fel ysgol gynradd brif ffrwd, tra'n datblygu rôl estynedig neu beilot arloesol i gefnogi disgyblion sy'n profi anawsterau emosiynol, cymdeithasol a llesiant, gan gynnwys plant nad ydynt yn ymdopi mewn ysgolion mwy neu sy'n cael eu haddysgu gartref ar hyn o bryd. Yn dilyn ystyried y sylwadau, mae'r Cyngor o'r farn bod y cynnig a gyflwynwyd gan y llywodraethwyr a'r gymuned — sef datblygu Ysgol Nebo i gynnig darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt — yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol. Er bod darpariaeth ADY eisoes wedi'i hystyried fel rhan o'r

arbenigedd o wneud hyn eisioes. Trwy barhau gyda'r arbenigedd a'r gofal sydd yma eisioes dyma gyfle i Adran Addysg Cyngor Gwynedd lawnsio prosiect peilot newydd, arloesol. Mae'r opsiwn hwn wedi ei gyflwyno i'r Cyngor yn barod, ond yn cael ei ddehongli fel Uned ADY arbenigol yn opsiwn 6. Credwn fod yr Adran Addysg yn fwriadol wedi camddechongli ein cynnig ni. Mae'r cynnig wedi ei drafod gyda'r Pennaeth Addysg a chwblhawyd dogfen gan y Llywodraethwyr yn nodi yn glir asesiadau effaith y syniad hwn. Yn unol â'r "rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig"(Cod Trefniadaeth Ysgolion) rhaid profi fod pob opsiwn wedi'i ystyried yn gydwybodol. Credwn nad yw hyn wedi digwydd yn ddigonol. Nid oes bwriad gan y corff i gynnwys uned ADY. Yn hytrach, y bwriad yw cynnig ysgol a fyddai'n darparu cyfle i ddisgyblion bregus aros yn y prif lif ac o bosib osgoi cynnydd pellach mewn plant yn derbyn eu haddysg gartref. Dymunwn fod opsiwn a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethwyr Ysgol Nebo yn cael ei ystyried yn llawn –dyma'r cynnig, “Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro - amrywiaeth.” Dewis y llywodraethwyr yw bod Ysgol Nebo yn parhau i weithredu fel ysgol gynradd prif ffrwd, ond hefyd yn dod yn gynllun peilot arloesol er mwyn cefnogi disgyblion sydd yn gwynebu heriau emosiynol a chymdeithasol. Byddai'r cynllun peilot hwn yn gwneud Ysgol Nebo yn lle addas i blant sy'n cael trafferthion mewn ysgolion mwy am amryw resymau nad ydynt o reidrwydd yn golygu eu bod yn cael eu hadnabod yn swyddogol fel rhai ADY. Gallai hyn fod yn gyfle i Gyngor Gwynedd ddatblygu a gweithredu strategaeth effeithiol, ac i ddangos i awdurdodau eraill yng Nghymru fodel newydd o feddwl arloesol. Gellid asesu sut y gall arddull yr addysg a ddarperir yn Ysgol Nebo wasanaethu'r plant hyn yn well yn yr oedran cynradd. Yn economaidd, mae'n debygol y byddai hyn yn llawer mwy cost-effeithiol yn y tymor byr a'r tymor hir, yn ariannol ac o ran iechyd meddwl y plant. Gellid asesu yr effaith drwy gynnal cynllun peilot yma yn Ysgol Nebo...Gwyddom fod dros 200 o blant yn derbyn addysg adre... Dyma gyfle	opsiynau gwreiddiol (Opsiw 6), nododd nifer o ymgynghorai nad yw'r cynnig hwn yn union yr un fath o ran ei gwmpas na'i fwriad. O ganlyniad, caiff yr opsiwn hwn ei gynnwys yn ffurfiol yn yr adroddiad ymgynghori fel Opsiw 15.1, sef opsiwn amgen ychwanegol, ac mae'n destun asesiad pellach ymhellach ymlaen yn yr adroddiad yma. Ceir manylion llawn yr asesiad hwn yn Adran 7 o'r adroddiad. Fodd bynnag, yn dilyn y broses werthuso, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma'n ymateb yn ddigonol i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo. O dan yr opsiwn yma, rhagwelir y byddai'r drefn a'r meini prawf mynediad yn parhau'n unol â'r trefniadau presennol, heb unrhyw newid i'r drefn mynediad, na statws yr ysgol. O ystyried y byddai'r trefniadau mynediad presennol yn parhau heb eu newid, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n arwain at gynydd ystyrton mewn niferoedd dysgwyr nac at leihad sylweddol yn y lefel uchel o lefydd gweigion. Yn sgil hynny, rhagwelir y byddai'r heriau presennol o ran dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, y rhagolygon niferoedd isel yn y dyfodol, a'r heriau ariannol cysylltiedig, gan gynnwys costau uchel fesul dysgwr, yn parhau heb eu datrys.

	go iawn... dychwelyd i addysg prif lif – hyd yn oed petai am ychydig o ddiwrnodau yr wythnos."	
15.1.2	<i>“Y dewis a ffefrir gan y llywodraethwyr yw bod Ysgol Nebo yn parhau i weithredu fel ysgol gynradd brif ffrwd, ond hefyd yn dod yn gynllun peilot arloesol. Byddai’r cynllun peilot hwn yn gwneud Ysgol Nebo yn lle addas i blant sy’n cael trafferth mewn ysgolion mwy am amryw resymau nad ydynt o reidrwydd yn golygu eu bod yn cael eu hadnabod yn swyddogol fel rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae anghenion y plant hyn wedi’u cydnabod gan Gyngor Gwynedd, ac felly mae hon yn sefyllfa hysbys sydd angen datrysiad...</i> <i>Mae ychwanegu Uned ADY yn sefyllfa “colli-colli”, gan fod yr ysgol sylfaen yn cael y niferoedd ac mae’n rhaid i Nebo adeiladu uned. Y cynnig yw cynyddu’r niferoedd drwy bolisi gweithredol i adnabod plant sy’n cael trafferth mewn ysgolion mwy, ac asesu – fel prosiect peilot – faint yn well y maent yn ffynnu mewn ysgol lai, gyda diwylliant gwahanol a dosbarthiadau llai...Dim ond dau athro sydd ar gyfer holl Wynedd ac Ynys Môn sy’n gyfrifol am oruchwylio’r holl blant sy’n cael eu haddysgu gartref... Byddai o fudd i rai... fynychu’r ysgol, o leiaf yn rhan-amser.”</i>	
15.1.3	“Cynnigwyd gan y llywodraethwyr y byddai agor drysau Ysgol Nebo i ddisgyblion sydd ar y foment yn derbyn eu haddysg gartref oherwydd amrywiol resymau (mae hyn yn clymu gyda'r pwynt blaenorol), gan gynnig addysg hyblyg iddynt.”	Fel uchod.
15.1.4	“Hoffwn i'r cyngor ystyried ein cynnig gwreiddiol o gynnig gwasanaeth addysgol llawn amser a hyblyg i ddisgyblion sydd yn profi anawsterau emosiynol wrth fynychu ysgolion. Mae nifer fawr i rieni (dwi'n siarad o brofiad yma) yn ymdrechu'n galed i gael eu plant i'r ysgol” “yn poeni eu bod wedi gorfodi eu plant i fynychu amgylchedd sydd yn niweidiol i'w hiechyd meddwl” Mae nifer fawr o ddisgyblion yn profi anawsterau mewn dosbarthiadau mawr oherwydd gor-bryder cymdeithasol.” “Ar y foment mae'r opsiynau yn gyfyng iawn- mynychu ysgol neu addysg gartref.. “Petai	Fel uchod.

	gwasanaeth dosbarthiadau llai, addysg hyblyg, gwell cefnogaeth emosiynol ar gael, byddai nifer mawr o ddisgyblion yn goroesi a phrofi llwyddiant.” “Cadw'r ysgol ar agor gan ystyried mathau amgen o addysg a fyddai'n denu disgyblion” “Byddai gweledigaeth arloesol o'r math yn ddigon i gadw'r ysgol ar agor ac felly yn parhau i gynnig profiadau Cymraeg i'r gymdeithas ehangach”	
15.1.5	“Os bysa'r cyngor yn ystyried y cynnig gwreiddiol bod Ysgol Nebo yn rhoi addysg i blant sy'n ffendio hi'n anodd mynychu ysgol oherwydd gor- bryder neu iechyd meddwl. Tydi pob plentyn ddim yn gallu ymdopi mewn dosbarth mawr a phrysur ond mae gan pob plentyn hawl i gael addysg.”	Fel uchod.
15.1.6	<i>“Gan fod pob un o'r opsiynau a nodir yn asesiad effaith y ddogfen ymgynghori yn ymddangos fel pe baent yn awgrymu effaith niwtral neu'n rhannol gadarnhaol, a'r unig gyfeiriad at effaith 'negyddol' yn ymwneud â'r cynnig i gau'r ysgol, hoffwn ofyn i Gyngor Gwynedd ailystyried yr opsiynau eraill, gyda golwg ar y dyfodol, ac i gadw Ysgol Nebo drwy ddefnyddio un o'r rhain. Ymddengys mai Opsiwn 6 yw'r opsiwn a ffefrir.”</i>	Fel uchod.
15.1.7	“Ar hyn o bryd, rydym yn wynebu argyfwng iechyd meddwl ymhlith plant mewn ysgolion – ac hefyd mae llawer o athrawon oddi ar y gwaith oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â straen. Mae nifer y plant sy'n cael eu haddysgu gartref wedi cynyddu'n aruthrol mae'r rhesymau mwyaf cyffredin dros dynnu plant o ysgolion yn cynnwys: gor-bryder / dadfeiliad emosiynol, anghenion dysgu heb eu diwallu, diffyg cefnogaeth... a bod yn anfodlon gyda'r ysgol, bwllo gan ddisgyblion eraill..... ysgolion yn rhy fawr a pherthnasoedd â staff addysg yn rhy amhersonol.” “Mae hyn oll yn cyd-fynd yn berffaith ag Opsiwn 6 fel dewis amgen i gau'r ysgol – ‘Ysgol Nebo i gynnig uned arbenigol i gefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol’. Er bod y Cyngor wedi categorio hyn fel ‘Anghenion Dysgu Ychwanegol’, y cynnig gwirioneddol gan y llywodraethwyr a'r gymuned yw i'r ysgol ddod yn ganolfan gysurus a diogel ar gyfer cenhedlaeth o blant, sydd bellach o oedran cynradd, a gollodd gyfle ar eu datblygiad cymdeithasol yn y blynyddoedd cynnar o ganlyniad i bandemig Covid, ac y gwyddys bod rhai ohonynt bellach yn cael trafferth integreiddio i amgylchedd ysgol fwy.” “...Mae Ysgol Nebo, gyda'i staff eithriadol o ofalgar, yn gwbl addas i gael ei defnyddio fel cynllun peilot gweledigaethol i geisio delio â'r problemau hyn yn ifanc cyn iddynt fynd yn anoddach wrth i'r plentyn symud ymlaen drwy ei	Fel uchod.

	<i>daith addysgol. Ni fyddai hyn yn gofyn am fawr o newid i swyddogaeth bresennol yr ysgol, os o gwbl. Byddai'r athrawon rhagorol yn cael eu cadw, ni fyddai angen unrhyw addasiadau i'r adeilad gan nad oes cyfeiriad at anabledd, ac mae cost cludiant yn cyfateb i gost cludo plant o'u cartref i ysgol arall ymhellach i ffwrdd, gan barhau â hyn i'r dyfodol."</i>	
15.1.8	<i>"Pam na ellir defnyddio'r ysgol ar gyfer plant ag anghenion addysgol, gan mai'r ysgol yw calon y gymuned?"</i>	Fel uchod.
15.1.9	<i>"Dylai'r opsiwn a ffeirir gan y llywodraethwyr gael ei ystyried ymhellach. Mae angen uned arbenigol i helpu plant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy, ac i gefnogi'r rhai sy'n cael eu haddysgu gartref."</i>	Fel uchod.
15.1.10	<i>"Cynnig y llywodraethwyr i gadw'r ysgol ar agor yw ei datblygu'n fan lle gall plant ifanc sy'n cael trafferth mewn addysg gynradd brif ffrwd ffynnu ochr yn ochr â disgyblion eraill. Byddai hyn hefyd yn cynnwys croesawu plant sy'n cael eu haddysgu gartref ar hyn o bryd i brofi dosbarthiadau bach, hyd yn oed ar sail rhan-amser. Mae'r opsiwn hwn wedi'i wrthod yn y Ddogfen Ymgynghori....Mae tua 200 o blant yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn cael eu haddysgu gartref, gyda dim ond dau athro i'w monitro a darparu addysg iddynt....Defnyddiwch y cyflenwad o adnoddau rhagorol sydd gan Ysgol Nebo i wella'r sefyllfa hon a helpu disgyblion addas i ddychwelyd i addysg brif ffrwd... gofynnir i chi ystyried yr holl fanteision i blant presennol a'r rhai yn y dyfodol sy'n cael trafferth gydag addysg brif ffrwd..." "Mae'r cynnig... yn ffordd o ddefnyddio'r adnoddau sydd eisoes ar gael yn llawer mwy effeithiol. O ran economi ac o ran canlyniadau, byddai hyn yn llawer mwy effeithlon ac effeithiol."</i>	Fel uchod.
15.1.11	<i>"Rwyf yn hoff iawn o'r syniad sydd wedi cael ei gynnig gan lywodraethwyr yr ysgol, sef bod yr ysgol yn dod yn ysgol i blant bregus gydag anghenion cymdeithasol ac emosiynol."</i>	Fel uchod.
15.1.12	<i>"Dyma gyfle i Gyngor Gwynedd arwain unwaith eto ar sut i gryfhau ysgolion gwledig, cefnogi'r Gymraeg, ac ymateb i heriau addysg gyfoes mewn ffordd gadarnhaol ac arloesol."</i>	Fel uchod.
15.1.13	<i>"mae angen i'r Cyngor wynebu y sialens o'r addysg ffurfiol i dros y 250 neu fwy o blant sy'n disgyn allan o addysg ffurfiol, ac i'r Cyngor cymryd cynlluniau positif i leihau'r ffigyrau'ma. Gallai'r Cyngor wneud cynllun wrth gadw Ysgol Nebo ar agor ac helpu'r plant yma dychwelyd i addysg ffurfiol yn rhannol (sy'n diwydd yno yn barod), neu, mewn amser, yn llawn amser. Hefyd, mae adnoddau Ysgol Nebo'n ymestyn yn bellach na adeilad yr Ysgol,</i>	Fel uchod.

	gyda tir a lefydd o gwmpas fel dosbarth allanol sy'n ymestyn eu haddysg gyda dosbarthiadau bywyd gwyllt y gors a'r mynyddoedd yma."	
15.1.14	<i>"Mae'r llywodraethwyr wedi cynnig y dylai Ysgol Nebo fod yn gynllun peilot ar gyfer ysgol wledig fach sy'n darparu lleoedd i blant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy, neu sy'n cael eu haddysgu gartref ar hyn o bryd... Yn economaidd, mae'n debygol y byddai hyn yn llawer mwy cost-effeithiol o ran arbedion tymor byr a thymor hir, yn ariannol ac o ran iechyd meddwl y plant.... Mae nifer y plant sy'n cael eu haddysgu gartref yng Ngwynedd ymhell dros 200 ac yn cynyddu'n gyflym. Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywio'n sicr, ond mae'n bosibl bod rhai ohonynt yn deillio o anhapusrwydd neu fwlio mewn ysgolion mwy, neu o'r epidemig o orbryder ar draws y wlad yn dilyn y pandemig.</i> <i>Byddai o fudd i'r Cyngor a'r plant fel ei gilydd pe gallai rhai o'r plant hyn fynychu ysgol mor arloesol a chefnogol, hyd yn oed am ychydig ddyddiau'r wythnos yn unig. Byddai hyn yn galluogi'r athrawon proffesiynol yn Ysgol Nebo i fonitro ac asesu'r plant mewn ffordd na fyddai'n bosibl i'r ddau athro sydd ar hyn o bryd yn ceisio gwneud hyn ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyfan. Gallai cynnwys nifer o ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref ar sail rhan-amser gynyddu capasiti Ysgol Nebo tuag at 40, gyda threfniadau amserlennu priodol."</i>	Fel uchod.
15.1.15	<i>"Gallai plant o ysgolion prif ffrwd eraill sy'n cael trafferth ac sy'n ei chael yn gynyddol anodd ymdopi mewn amgylchedd grŵp mawr hefyd elwa'n sylweddol drwy gael o leiaf rai o'u gwersi mewn lleoliad grŵp llai megis yn Ysgol Nebo, os yw maint a chyflymder gosodiad eu hysgol bresennol yn ymddangos yn llethol ac yn cael effaith ar eu hyder, eu hymgysylltiad, a'u gallu i gael mynediad effeithiol at ddysgu."</i>	Fel uchod.

15.1.16	<i>“Credaf y dylai Ysgol Nebo barhau i weithredu fel ysgol gynradd brif ffrwd, ond hefyd ddod yn gynllun peilot, a fyddai’n gwneud Ysgol Nebo yn lle addas i blant sy’n cael trafferth mewn ysgolion mwy am amryw resymau nad ydynt o reidrwydd yn golygu eu bod yn cael eu hadnabod yn swyddogol fel rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae anghenion y plant hyn wedi’u cydnabod gan Gyngor Gwynedd, ac felly mae hon yn sefyllfa hysbys sydd angen canfod ateb iddi. Credaf y dylai Ysgol Nebo barhau i weithredu fel ysgol gynradd brif ffrwd, ond hefyd ddod yn gynllun peilot, a fyddai’n gwneud Ysgol Nebo yn lle addas i blant sy’n cael trafferth mewn ysgolion mwy am amryw resymau nad ydynt o reidrwydd yn golygu eu bod yn cael eu hadnabod yn swyddogol fel rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae anghenion y plant hyn wedi’u cydnabod gan Gyngor Gwynedd, ac felly mae hon yn sefyllfa hysbys sydd angen canfod ateb iddi... Yn economaidd, mae’n debygol y byddai hyn yn llawer mwy cost-effeithiol o ran arbedion tymor byr a thymor hir, yn ariannol ac o ran iechyd meddwl y plant.”</i>	Fel uchod.
15.1.17	“Yr opsiwn yr hoffwn i’r cyngor ei ystyried, ac opsiwn dewisol rhieni, athrawon, llywodraethwyr a chymuned yr ysgol yw cadw’r ysgol ar agor fel ysgol prif ffrwd a datblygu’r ysgol fel prosiect peilot arloesol ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol. Dymunwn fod opsiwn a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethwyr Ysgol Nebo yn cael ei ystyried yn llawn –dyma’r cynnig, “Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro - amrywiaeth.” Mae’r opsiwn hwn wedi ei gyflwyno i’r Cyngor yn barod a thrafodwyd gyda’r Pennaeth Addysg, ond yn cael ei ‘gam-ddehongli’ fel Uned ADY arbenigol yn opsiwn 6. Yn unol â’r “rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig”(Cod Trefniadaeth Ysgolion) rhaid profi fod pob opsiwn wedi’i ystyried yn gydwybodol. Credwn nad yw hyn wedi digwydd yn ddigonol. Nid oes bwriad gan y corff i gynnwys uned ADY. Yn hytrach, y bwriad yw cynnig ysgol a fyddai’n darparu cyfle i ddisgyblion bregus aros yn	Fel uchod.

	y prif lif ac o bosib osgoi cynnydd pellach mewn plant yn derbyn eu haddysg gartref. Dewis y llywodraethwyr yw bod Ysgol Nebo yn parhau i weithredu fel ysgol gynradd prif ffrwd, ond hefyd yn dod yn gynllun peilot arloesol er mwyn cefnogi pob plentyn i ffynnu yn academiaidd, yn emosiynol ac yn gymdeithasol. Mae staff Ysgol Nebo yn ofalgar, yn gallu rhoi'r sylw teilwng i bob plentyn oherwydd dosbarthiadau llai, yn ysbrydoli cariad at ddysgu, annog twf personol, a helpu pob plentyn i wireddu eu gwir botensial. Dyma gyfle i Gyngor Gwynedd ddatblygu a gweithredu strategaeth newydd, ac i ddangos i awdurdodau eraill yng Nghymru fodel newydd o feddwl arloesol. Gellid asesu yr effaith drwy gynnal cynllun peilot yma yn Ysgol Nebo. Hoffwn annog y Cyngor i ystyried y costau a'r manteision tymor hir o'r awgrym bod Ysgol Nebo yn cael ei defnyddio i gefnogi plant ag anawsterau neu anghenion nad ydynt o reidrwydd wedi'u hadnabod fel ADY? Mae'r arbedion tymor hir a'r buddion iechyd o helpu plentyn yn ifanc yn golygu y byddant yn dechrau'r ysgol uwchradd yn hyderus ac yn hapus."	
15.1.18	"Datblygu Ysgol Nebo fel safle arbenigol i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU, pryder, niwroamrywiaeth, ac anghenion iechyd meddwl. Mae'r opsiwn hwn yn cyd-fynd â strategaethau'r Cyngor ar lesiant a chynhwysiant, yn manteisio ar gryfderau'r ysgol (dosbarthiadau bach, gofal unigol) ac yn cynnig dewis cadarnhaol yn lle cau. Mae'r Cod Trefniadaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried opsiynau o'r fath yn gydwybodol cyn cau ysgol wledig."	Fel uchod.
15.1.19	"Mae cyfle unigryw yma i addasu Ysgol Nebo a chreu datrysiad i anghenion disgyblion bregus"	Fel uchod.
15.1.20	<i>"A ellir gwneud yr ysgol yn ysgol ar gyfer plant o Lanllyfni a fyddai'n elwa o fod mewn grŵp llai?"</i>	Fel uchod.
15.1.21	<i>"Gallai Ysgol Nebo helpu i ddarparu math unigryw o ddarpariaeth ar gyfer rhai o'r heriau y mae rhai disgyblion wedi'u hwynebu ar ôl Covid. Gallai'r amgylchedd agos a ddarperir gan ysgol gyda niferoedd disgyblion isel helpu i gefnogi disgyblion sydd wedi cael trafferth dychwelyd i'r ysgol ac i addysg dros y blynyddoedd diwethaf."</i><i>"Rwy'n deall bod tua 200 o ddisgyblion yng Ngwynedd ac Ynys Môn ar hyn o bryd yn cael eu haddysgu gartref... Mae'n ymddangos bod gan Ysgol Nebo amgylchedd delfrydol i helpu disgyblion</i>	Fel uchod.

	sy'n cael eu haddysgu gartref oherwydd problemau megis pryder. Mae'r niferoedd bach a'r amgylchedd teuluol yn ddelfrydol ar gyfer meithrin disgyblion o'r fath. Rhaid bod addysg gartref yng Ngwynedd yn golygu ymrwymiad ariannol i'r Cyngor. Byddai helpu i ddod o hyd i ysgol addas i gefnogi'r disgyblion hyn yn helpu i wrthbwysu rhywfaint o'r ymrwymiad ariannol hwnnw." "Dylid rhoi amser i'r ysgol, efallai hyd at o leiaf ddiwedd blwyddyn ysgol 2028, i ddatblygu ei dull blaengar o gynyddu'r niferoedd ar y gofrestr."	
15.1.22	"Mae ychwanegu Uned ADY yn sefyllfa 'colli-coli', gan fod yr ysgol sylfaen yn cael y niferoedd ac mae'n rhaid i Nebo adeiladu uned. Y cynnig yw cynyddu'r niferoedd drwy bolisi gweithredol i adnabod plant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy, ac, fel prosiect peilot, asesu faint yn well y maent yn ffynnu mewn ysgol lai, gyda diwylliant gwahanol a dosbarthiadau llai. Dylai Ysgol Nebo barhau i weithredu fel ysgol gynradd brif ffrwd, ond hefyd ddod yn gynllun peilot arloesol. Byddai'r cynllun peilot hwn yn gwneud Ysgol Nebo yn lle addas i blant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy am amryw resymau nad ydynt o reidrwydd yn golygu eu bod yn cael eu hadnabod yn swyddogol fel rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae anghenion y plant hyn wedi'u cydnabod gan Gyngor Gwynedd, ac felly mae hon yn sefyllfa hysbys sydd angen datrysiaid. Gallai hyn fod yn gyfle i Gyngor Gwynedd ddatblygu a gweithredu strategaeth effeithiol, ac i ddangos i awdurdodau Cymreig eraill fodel newydd i arwain y ffordd o ran y math hwn o feddwl. Gellid asesu sut y gall arddull yr addysg a ddarperir yn Ysgol Nebo wasanaethu'r plant hyn yn fwy effeithiol yn yr oedran cynradd. Yn economaidd, mae'n debygol y byddai hyn yn llawer mwy cost-effeithiol o ran arbedion tymor byr a thymor hir, yn ariannol ac o ran iechyd meddwl y plant. Gellid asesu hyn drwy gynnal y cynllun peilot yn Ysgol Nebo."	Fel uchod.
15.1.23	"Credaf fod ystyried y cynnig go iawn a gyflwynwyd i chi yn isafswm proffesiynol y dylech fod yn ei wneud, ac yn wir, dylech ystyried gwella'r cynnig hwnnw os oes modd, cyn ei werthuso fel opsiwn. Mae'n amlwg bod gan yr ysgol gryfderau, o ystyried y ganran uchel o ddisgyblion sy'n dod o'r tu allan i'r dalgylch. Dylech adeiladu ar y llwyddiant hwn yn hytrach na diystyru rhywbeth nad yw'n ffitio'n llwyr i'ch blychau addysgol presennol, yn enwedig gan ei fod yn mynd i'r afael â rhai o'ch pwysau ADY ac addysg gartref, sydd fwy na thebyg ond am gynyddu."	Fel uchod.

15.1.24	Cynigir datblygu Ysgol Nebo fel canolfan i gefnogi disgyblion sy'n cael trafferth mewn ysgolion arferol ond nad ydynt o fewn fframwaith ADY. Awgrymir y gellid cynyddu'r nifer a gefnogir drwy drefniadau rhan-amser, gan wella hyfywedd ariannol. Nodir bod Ysgol Nebo yn cynnig cyfle i'r Cyngor fabwysiadu dull arloesol ac amgen yn hytrach na chau'r ysgol, drwy ddefnyddio'r capasiti dros ben i ehangu'r ddarpariaeth. Yn benodol, awgrymir y gallai'r ysgol gael ei datblygu'n ganolfan i gefnogi disgyblion agored i niwed nad ydynt mewn addysg ffurfiol, gan gynnwys y rhai sy'n cael anhawster mynychu ysgol oherwydd materion iechyd meddwl neu resymau eraill nad ydynt o fewn y fframwaith ADY. Pwysleisir ar brofiad presennol yr ysgol o gefnogi disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch, manteision trefn a chymdeithasu i ddisgyblion ifanc, a'r potensial i ddarparu ateb mwy effeithlon o ran cost na modelau presennol megis ymweliadau cartref. Nodir y gallai'r dull hwn fod o fudd i'r disgyblion, rhieni, y gymuned leol a dyfodol Ysgol Nebo ei hun.	Fel uchod.
15.1.25	Cynigir y gellid defnyddio'r ysgol i gefnogi plant ag anghenion arbennig, gan nodi bod yr amgylchedd naturiol a thawel yn arbennig o addas.	Fel uchod.
15.1.26	Tynnir sylw at y cynnig i ddefnyddio Ysgol Nebo i gefnogi a meithrin plant sy'n cael trafferth mewn ysgolion eraill.	Fel uchod.
15.1.27	Cefnogir y syniad o gadw'r ysgol ar agor i ddisgyblion sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy am unrhyw reswm, gyda'r farn y byddai hyn yn gyfle gwerthfawr.	Fel uchod.
15.1.28	“Gan droi at sefyllfa Ysgol Meidrim yn Sur Gaerfyrddin, mae eu tystiolaeth o'u gwerth i'r gymuned ac i'r Awdurdod Addysg o fod yn ysgol gyfeilgar i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi bod yn drawiadol iawn. Mae tystiolaeth wedi dod gan feddygon ac erail sy'n ymwneud a'r plant yn dangos pwysigrwydd amgylchedd dysgu cartrefol a sefydlog le bo'r addysg yn blentyn-ganolog. Mae'r profiad yma yn cadarnhau awydd Llywdraethwyr Ysgol Nebo i weld dyfodol eu hysgol yn gyfuniad o wasanaethu plant y gymuned a phlant yr ardal sydd ag ADY mewn awyrgylch caredig a phersonol, a chredaf y gal trefniant o'r fath fod o werth mawr i'r disgyblion eu hunain ac i'r ardal yn ehangach fod adsnodd fe ly ar gael.”	Fel uchod.

15.1.29	<i>“Yn fy marn i, credaf y gallai Ysgol Nebo fod yn ased i Wynedd – yn fan arddangos blaenllaw ar gyfer Addysg a Darpariaethau Amgen i gefnogi plant sy’n cael trafferth mewn ysgolion mwy, ac a all fod wedi profi profiadau negyddol neu drawmatig mewn ysgolion eraill.</i> <i>Hoffwn annog y Pwyllgor i ystyried achub yr ysgol rhag cau, rhoi sylw i ddymuniadau’r plant, a’i gwneud yn hygyrch i blant eraill a fyddai’n sicr o ffynnu yn yr ysgol wych hon. Mae’r lleoliad ei hun yn therapiwtig i’r plant, ac mae ansawdd y staff addysgu yn eithriadol... Dewch i ni wneud rhywbeth cadarnhaol i’n pobl ifanc yng Ngwynedd a chynnig y gwasanaeth rhagorol hwn i’r rhai sy’n cael trafferth, waeth pa mor fach yw’r niferoedd. Peidiwch â methu ein dyfodol.”</i>	Fel uchod.
15.1.30	“O’r opsiynau a gynigir cedaf mai'r un gorau i Ysgol Nebo a'r gymuned yw ei chadw'n agored a datblygu cynllun peilot i gynnig addysg i blant sydd wedi eu dieithro o addysg brif ffrwd yn Nyffryn Nantlle a'r ardaloedd cyfagos am amryw o resymau gan gynnwys gor-bryder. Gall ysgol fechan wledig sydd yn adnabod anghenion bob disgybl yn drwyadl gynnig addysg a noddfa i godi hyder plant sydd ddim mewn addysg a'u gwneud yn unigolion a fydd yn hapus i gyfrannu at fywyd bob dydd ac at eu hamgylchfyd.....Buasai plant a addysgir aadref hefyd yn elwa o'r opsiwn hwn... Buasai cynnig addysg i'r rhai sydd wedi dieithrio oddi wrth byd addysg ac i'r rhai sydd yn cael eu haddysgu gartref pe dymument ddod yno yn rhan yn galluogi i Gyngor Gwynedd fod yn blentyn ganolog...Gellir sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal a nid yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gadw'r ysgol yn agored ac wrth gynnig lle yn yr ysgol i'r plant nad ydynt yn mynychu ysgol ar hyn o bryd oherwydd rhesymau amrywiol gan gynnwys gor-bryder. Hefyd gallasai plant sydd yn cael eu haddysgu gartref hefyd gael cynnig mynychu'r ysgol yn rhan amser pe dymument. Buasai hynny'n sicrhau eu bod hwy, plant y pentref a'r plant sydd ag Anghenion Addysgol Ychwanegol yn cael cyfle i ymgysgu a defnyddio'r Gymraeg a dod yn hyderus wrth ei hymarfer, yn enwedig os ydynt yn dod o gartref di-Gymraeg. Buasai hyn yn sicrhau effeithiau positif ar gyfleoedd y plant a phobl y gymuned i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio a'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Buasai hyn hefyd yn cefnogi polisi Llywodraeth Cymru i gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r plant sydd yn siarad Cymraeg yn fwy tebygol o siarad Cymraeg fel oedolyn a magu eu plant hwythau drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent hefyd yn fwy tebygol o siarad Cymraeg wrth iddynt gymysgu ag	Fel uchod.

	oedolion y pentref mesesiynnau rhyng-genedlaethol ac os ydynt yn gweld eu perthnasau'n mynychu digwyddiadau cymunedol pan fo'r ysgol yn cael ei defnyddio fel canolfan gymunedol.... O ganlyniad buasai Cyngor Gwynedd, drwy Ysgol Nebo, yn helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.”	
15.1.31	<i>“Byddai Ysgol Nebo yn darparu’r lle perffaith i blant sy’n teimlo’n ansicr ynghylch mynychu’r ysgol yn llawn amser ac sy’n cael eu haddysgu gartref ar hyn o bryd. Byddai hyn yn golygu eu bod wedi’u trochi yn nealltwriaeth ac arfer yr iaith Gymraeg yn yr ysgol.”</i>	Fel uchod.
15.1.32	<i>“I golli allan ar y ffordd y mae Ysgol Nebo yn paratoi’r plant ar gyfer bywyd yn yr ysgol uwchradd. Gan fod y niferoedd yn isel ar hyn o bryd, a fyddai hyn yn gyfle da i dderbyn plant ag anawsterau dysgu a allai fod yn haws eu cefnogi mewn sefyllfa fwy clos a chydlynol... Credaf mai Opsiwn 3 yw’r polisi gorau un i’r Cyngor ei fabwysiadu.”</i>	Fel uchod.
15.1.33	<i>“Tybed a fyddai modd i opsiwn dewisol Llywodraethwyr Nebo gael ei ystyried o ddifri bryd hynny? Dyma gyfle unigryw i Ysgol Nebo addasu a bod yn rhan o ddyfodol prosiect newydd, arleosol. Mae’r adnoddau eisioes yn ei lle? Ni fyddai angen diswyddo staff, na chau ysgol wledig. Teimlaf nad yw Cyngor Gwynedd yn gwneud unrhyw ymdrech i edrych 'y tu allan i'r bocs'.”</i>	Fel uchod.
15.1.34	<i>“Fy opsiwn a ffefrir yw annog mwy o blant a fyddai’n elwa o ymdeimlad o deulu mawr yn hytrach nag ysgol fawr... gan gynnwys y rhai ag anawsterau a fyddai’n elwa’n emosiynol ac yn addysgol, yn ogystal â phlant sy’n cael eu haddysgu gartref a allai fynychu’n rhan-amser... Byddent yn elwa o gymysgu am ychydig ddyddiau’r wythnos gyda phlant eraill o’r un oedran. Hefyd, dim ond dau athro sydd gan y sir i gefnogi’r plant hyn. Nid oes modd iddynt feithrin y math o berthynas sy’n eu galluogi i wir adnabod y plentyn... Canlyniad gwell i’r plant hyn, heb unrhyw gost ychwanegol i’r Cyngor... Yn sicr, dylai cynllun peilot yn Ysgol Nebo, sydd eisioes â hanes da yn y maes hwn, gael cefnogaeth er mwyn profi neu wrthbrofi ei werth. Nid uned arbennig yw hon, ond ysgol sy’n gwneud mwy na’r hyn y mae eisioes yn ei wneud.”</i>	Fel uchod.

15.1.35	“Gweithio yn fwy agos gydag ysgolion bach lleol megis Llanllyfni a Penygroes ble mae disgyblion heb setlo neu yn cael trafferth - mae ysgol lai yn rhoi cyfle gwych i'r disgyblion yma gael mwy o sylw ac i ffynnu.” “Mae angen gweithio efo ysgolion eraill i sicrhau fod plant yn cael yr addysg gorau posib, yn lle canolbwyntio ar stwffio 30 mewn dosbarth.”	Fel uchod.
15.1.36	Cynigir cynyddu niferoedd drwy ddenu plant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy, a defnyddio Ysgol Nebo fel prosiect peilot i asesu manteision ysgol fach.	Fel uchod.
15.1.37	Mynegir y farn y dylai'r Cyngor roi ystyriaeth lawn a manwl i'r opsiwn o ddefnyddio Ysgol Nebo fel darpariaeth arbenigol i gefnogi dysgwyr sy'n profi anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl, gan gynnwys rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn ogystal â dysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi o fewn darpariaeth brif ffrwd fwy. Awgrymir y gallai darpariaeth o'r fath weithredu naill ai ar sail tymor byr fel trefniant pontio i gefnogi dysgwyr sy'n delio â gorbryder, pryder neu broblemau iechyd meddwl, neu ar sail tymor hwy i rai dysgwyr sydd angen amgylchedd addysgol llai, mwy cefnogol. Cyfeirir at dystiolaeth o gynnydd parhaus mewn anghenion cymdeithasol, emosiynol a datblygiadol ymhlith plant a phobl ifanc, gan nodi bod canran sylweddol o ddysgwyr yng Ngwynedd bellach â Chynllun Datblygu Unigol. Tynnir sylw at y pwysau cynyddol ar ddarpariaethau ALN arbenigol presennol, gan gynnwys gor-lenwi ysgolion arbenigol, cynnydd yn gymhlethdod anghenion dysgwyr, a heriau sylweddol o ran recriwtio a chadw staff, sy'n arwain at anawsterau wrth ddiwallu anghenion rhai dysgwyr o fewn y system bresennol. Mae'r sylwadau'n cyfeirio'n benodol at waith Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi'r Cyngor, gan nodi bod adroddiad a phenderfyniad unfrydol y pwyllgor yn Ebrill 2025 wedi amlygu'r pwysau cynyddol ar y system ALN, yr heriau wrth deilwra darpariaeth i anghenion dysgwyr, a'r angen i ystyried ffyrdd amgen o wella darpariaeth i'r cohort o blant sydd ag anghenion dwys ond nad ydynt yn bodloni'r trothwy ar gyfer ysgolion arbenigol. Nodir bod y pwyllgor hefyd wedi galw am ystyried y posibilrwydd o ddarpariaeth loeren neu ategol mewn rhai ysgolion. Yn y cyd-destun hwn, mae'r sylwadau'n herio'r modd y cafodd Opsiwn 3 (ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ADY ar safle Ysgol Nebo) ac Opsiwn 6 (Ysgol Nebo yn cynnig uned	Fel uchod.

	arbenigol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol) eu gwerthuso a'u gwrthod yn y ddogfen ymgynghori. Dadleuir nad yw'r rhesymau a roddwyd dros beidio â bwrw ymlaen â'r opsiynau hyn yn adlewyrchu'n llawn realiti presennol y galw am ddarpariaeth ychwanegol, nac ychwaith y pwysau systemig ar ddarpariaeth ALN arbenigol a phrif ffrwd. Pwysleisir, fodd bynnag, nad yw'r cynnig a gyflwynir gan y llywodraethwyr a'r gymuned yn cael ei weld fel ail-adrodd uniongyrchol o Opsiwn 6 nac fel amrywiad syml ar Opsiwn 3, ond fel opsiwn amgen o wahanol gwmpas a bwriad, gyda ffocws penodol ar ddarpariaeth feithrinol, hyblyg ac integredig ar gyfer dysgwyr â heriau cymdeithasol ac emosiynol, yn hytrach na darpariaeth ALN arbenigol draddodiadol. Yn ogystal, dadleuir bod nodweddion Ysgol Nebo — megis dosbarthiadau bach, amgylchedd tebyg i deulu, a chapasiti dros ben ar y safle — yn cael eu hystyried yn gryfderau posibl wrth gefnogi'r math hwn o ddarpariaeth, ac y gallai'r ysgol gynnig model mwy personol a chynhwysol i rai dysgwyr. Cyfeirir hefyd at amcanion strategol y Cyngor o ran cynhwysiant, hawl pob dysgwr i addysg briodol, a hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, gan ddadlau bod y cynnig hwn yn gyfle i ymateb mewn ffordd fwy creadigol ac integredig i heriau hirdymor y system addysg.	

15.2 Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd

	Sylw	Ymateb y Cyngor
15.2.1	“Mae cyfle i ddatblygu ysgol Nebo fel uned bontio i ddisgyblion sydd yn dod o unedau anghenion ychwanegol a'u hintegreiddio ar gyfer addysg prif lif i'r ysgolion lleol. Gallai hyn ddwyn pwysau oddi ar yr ysgolion eraill”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n awgrymu datblygu Ysgol Nebo fel uned bontio i gefnogi disgyblion sy'n symud o ddarpariaethau ADY arbenigol er mwyn hwyluso eu hintegreiddio yn ôl i addysg brif ffrwd mewn ysgolion lleol. Yn y cyd-destun hwn, ystyrir yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol, ac o ganlyniad mae wedi'i gynnwys yn ffurfiol yn yr adroddiad fel Opsiwn 15.2, ac mae'n destun asesiad pellach ymhellach ymlaen yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, yn dilyn gwerthuso'r opsiwn hwn, deuir i'r casgliad nad yw datblygu Ysgol Nebo fel uned bontio ADY yn cynnig ateb i'r heriau craidd sy'n wynebu'r ysgol. Byddai dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth bontio o'r

		fath yn parhau i fod wedi'u cofrestru'n swyddogol mewn ysgolion eraill, ac felly ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at gynydd mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig yn Ysgol Nebo nac at leihad ystyrlon yn y gyfran uchel o lefydd gweigion.

15.3 Defnyddio Ysgol Nebo fel safle derbyn ychwanegol i ysgolion cyfagos sy'n wynebu gorlenwi/dros gapasiti

	Sylw	Ymateb y Cyngor
15.3.1	"Ysgolion fel llanllyfni a pen y groes yn llawn dop. Beth am ddefnyddior ysgol fel lle ychwanegol nid yn unig i blant nebo ond i plantos eraill yn yr ysgolion cyfagos cael dod i ymgymryd rhai gwersi? Hynny yn tynnu pwysau oddi ar ysgolion mawr."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n awgrymu y dylid ystyried defnyddio Ysgol Nebo fel safle derbyn ychwanegol i gefnogi ysgolion cyfagos sy'n gweithredu dros gapasiti neu'n wynebu gorlenwi, gan gynnwys awgrymiadau i ganiatáu i ddysgwyr o ysgolion megis Llanllyfni a Phenygroes fynychu'r safle ar gyfer rhai gwersi neu'n llawn amser. Nodir y farn bod y dull hwn yn gallu lleddfu'r pwysau ar ysgolion mwy a gwneud defnydd gwell o gapasiti presennol Ysgol Nebo.
15.3.2	"Symud plant eraill o ysgolion gorllawn i Ysgol Nebo."	Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor o'r farn fod yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol. Byddai gweithredu model o'r fath yn arwain at newid sylweddol yn rôl a natur Ysgol Nebo, gan ei droi o ysgol gymunedol brif ffrwd yn ddarpariaeth ran-amser neu ategol heb sylfaen glir o ran trefniadaeth, na llywodraethu. Byddai hefyd yn codi cymhlethdodau sylweddol mewn perthynas â threfniadau derbyn, cludiant, lles disgyblion a pharhad profiad addysgol, yn enwedig i blant iau. Yn ogystal, ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Nebo o ran niferoedd disgyblion, cynaliadwyedd tymor hir. O ganlyniad, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol ac nad yw'n destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn.

15.4 Datblygu Ysgol Nebo fel Canolfan Arbenigol ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored a Gwaith Maes

	Sylw	Ymateb y Cyngor
15.4.1	Derbyniwyd sylw'n dadlau bod cynnig i ddatblygu Ysgol Nebo fel canolfan arbenigol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a gwaith maes yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol sy'n haeddu ystyriaeth fwy gofalus a manwl. Tynnir sylw at botensial addysgol, llesiant, amgylcheddol ac economaidd y model,	Mae'r Cyngor yn nodi'r rhesymau a gyflwynir o blaid datblygu Ysgol Nebo fel canolfan arbenigol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a gwaith maes, gan gynnwys y cyfeiriadau at y Cwricwlwm i Gymru, manteision llesiant corfforol a meddyliol, cysylltiad â'r dirwedd leol, a'r potensial i gefnogi

	gan nodi ei aliniad cryf â Chwricwlwm i Gymru, gan gynnwys cefnogi datblygiad cyfannol dysgwyr, iechyd corfforol a meddyliol, cynhwysiant (yn enwedig i ddysgwyr ag ASD/ADHD), a chryfhau hunaniaeth leol a diwylliannol. Mynegir bod y cynnig yn gallu cynnig cyfleuster a rennir ar gyfer ysgolion eraill yn y Sir, gan leihau costau teithiau maes a darparu dewis mwy hygrych na darpariaethau masnachol, yn ogystal â chyfleoedd i gynhyrchu incwm ac i gyfrannu at lluniau adfywio lleol, twristiaeth gynaliadwy a nodau gwydnwch hinsawdd. Pwysleisir hefyd fod y gofynion cyfalaf a referniw yn gymharol isel, a bod cyfleoedd hyfforddiant ac addysg hinsawdd perthnasol yn bodoli. Yn ehangach, mae'r sylw'n dadlau bod datblygu modelau creadigol mewn ysgolion gwledig bach yn ategu'r rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau, ac yn cynnig cyfle i'r Cyngor ddatblygu darpariaeth addysgol arloesol y gellid ei hystemyn i ysgolion eraill (gan gynnwys enghreifftiau mewn lleoliadau gwahanol), gan ymateb i'r galw cynyddol am raglenni llesiant a dysgu seiliedig ar natur.	ysgolion eraill ar draws y Sir. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r cysylltiadau a wneir rhwng y cynnig hwn a blaenoriaethau ehangach megis adfywio lleol, twristiaeth gynaliadwy a hunaniaeth ddiwylliannol. Fodd bynnag, ystyrir bod yr opsiwn hwn yn cyfateb yn uniongyrchol i Opsiwn 5 gwreiddiol, sef datblygu Ysgol Nebo fel lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau penodol gyda ffocws ar waith maes a dysgu yn yr awyr agored. O ganlyniad, nid yw'r cynnig hwn yn cael ei drin fel opsiwn amgen ychwanegol, ac mae'r materion a godir drwy'r opsiwn hwn yn cael eu hymgorffori o fewn ystyriaeth ac asesiad Opsiwn 5. Mae'r Cyngor o'r farn nad yw datblygu Ysgol Nebo fel lleoliad arbenigol ar gyfer pynciau unigol, megis dysgu yn yr awyr agored neu waith maes, yn ymateb yn ddigonol i'r heriau craidd sy'n wynebu Ysgol Nebo, yn enwedig o ran niferoedd dysgwyr a chynaliadwyedd hirdymor. Ni ragwelir y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd ystyrion mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig nac at leihad sylweddol yn y gyfran uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol. O ganlyniad, byddai'r trefniant presennol o ddosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang yn parhau, yn ogystal â'r rhagolygon niferoedd isel, y patrwm presennol o ddewis y dalgylch, a'r heriau ariannol cysylltiedig, gan gynnwys costau uchel fesul dysgwr.

15.5 Ffederaleiddio/ Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn

	Sylw	Ymateb y Cyngor
15.5.1	<i>“Dewis pellach nad yw wedi cael ei ystyried yn briodol yw mater ffedereiddio: edrychwyd ar hyn gan yr Adran Addysg drwy'r lens o atodi'r ysgolion llai hyn wrth ysgol fwy. Pam na ellid eu ffedereiddio â'i gilydd? Mae gan Nebo bennaeth 0.2, tra bod Baladeulyn bellach wedi colli ei bennaeth: pa ystyriaeth a roddwyd i gyfuno'r ddwy ysgol? Efallai na fyddai hyn yn ymarferol am amrywiol resymau, ond nid yw hynny'n golygu y dylid ei ddiystyru heb ystyriaeth, gan ei fod yn ddewis arall rhesymol.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n awgrymu y dylid ystyried ffederaleiddio Ysgol Nebo ag Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys drwy rannu staff ac adnoddau, a chan ystyried y posibilrwydd o gyfuno trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu. Ystyrir yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol, ac o ganlyniad mae'n destun ystyriaeth ac asesiad pellach o fewn Adran 7 isod.
15.5.2	“mi faswn i yn argymhell federalisation (rhannu'r staff) a hefyd agor yr ALN fel odd yn y dogfen consultation”	Fodd bynnag, yn dilyn gwerthuso'r opsiwn hwn o safbwynt ei allu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, deuir i'r casgliad nad yw ffederaleiddio ag Ysgol Baladeulyn, yn ymateb digonol i'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol. Er y gallai trefniant o'r fath arwain at rywfaint o rannu adnoddau neu gapasiti ar lefel reoli, nid oes tystiolaeth y byddai'n arwain at
15.5.3	Awgrymir y dylid ystyried uno Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn, gan nodi y byddai hyn yn arwain at tua 19 o ddisgyblion	

		gynnydd ystyrllon mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig nac at leihad yn y lefel uchel o lefydd gweigion yn Ysgol Nebo. O ganlyniad, byddai'r trefniadau presennol o ran dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, y rhagolygon niferoedd isel yn y dyfodol, a'r heriau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ariannol a chostau uchel fesul dysgwr yn parhau heb eu cyfarch.

15.6 Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch

	Sylw	Ymateb y Cyngor
15.6.1	“un Bwrdd Llywodraethol ffederal ar gyfer hol ysgolion dalgylch ysgol uwchradd i gymryd penderfyniadau strategol o ran defnydd adnoddau, hwyrach penodi safloedd ar gyfer disgyblion ADY, cydlynu cylidebau, ac yna fod Pwylgorau Cyswlt Rhieni a Chymunedol yn yr ysgolion unigol. Byddai Dyffryn Nantle yn ardal ddigon cryno i wneud i hyn weithio. Mae modd o dan y drefn bresennol cael ffederasiwn rhwng ysgol(ion) cynradd ac ysgol uwchradd (er nad Coleg AB), ond rhaid ceisio caniatad i gael mwy na 5 mewn dffederasiwn. Wedi sefydlu Ffederasiwn 'of the willing' galai creu diwylliant gydweithio o'r fath hyrwyddo symudiad i'r cyfeiriad hwnnw. Ga l wedyn cydlynu mentrau cymdeithasol a diwyliannol tu fewn i gwmpawd cyfrifoldeb pwylgorau'r ysgolion unigol (e.e. cymhathu mewnfydwyr) o'u rhyddhau o'r dadlau cyson am gylidebau a materion strategaeth sylfaenol. Byddai hynny yn ei dro yn rhoi nod ychwanegol i ysgol gymunedol fach fel Nebo. Byddai arbedion mawr i'w gwneud o greu un bwrdd lywodraethol ffederal o'r fath gan ganiatau i'r pwylgorau leol wedyn ganolbwyntio ar hyrwyddo ethos lesol yn yr ysgolion a chyswlt a dylanwad cryf ar eu cymunedau”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n awgrymu sefydlu Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar draws ysgolion y dalgylch, gyda'r bwriad o gryfhau cydweithio strategol rhwng ysgolion, cydlynu defnydd adnoddau a chyllidebau, ystyried trefniadau arbenigol megis darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY, a galluogi ysgolion unigol i ganolbwyntio'n fwy ar eu rolau cymunedol ac ar hyrwyddo ethos llesiant a chysylltiadau â'u cymunedau lleol. Ystyrir yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol, ac o ganlyniad mae'n destun ystyriaeth ac asesiad pellach o fewn Adran 7 isod. Fodd bynnag, yn dilyn gwerthuso'r opsiwn hwn o safbwynt ei allu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, deuir i'r casgliad nad yw sefydlu Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar draws ysgolion y dalgylch yn ymateb digonol i'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol. Ni ragwelir y byddai'r trefniant llywodraethu hwn yn arwain at gynnydd mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig nac at leihad ystyrllon yn y lefel uchel o lefydd gweigion yn Ysgol Nebo. O ganlyniad, byddai'r trefniadau presennol o ran dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, y rhagolygon niferoedd isel yn y dyfodol, a'r heriau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ariannol a chostau uchel fesul dysgwr yn parhau heb eu cyfarch.

15.7 Cydweithio a Rhannu Adnoddau ac Arbenigedd rhwng Ysgol Nebo ac Ysgolion Cyfagos

	Sylw	Ymateb y Cyngor
15.7.1	“Oes, credaf fod nifer o opsiynau amgen y gallai'r Cyngor eu hystyried yn hytrach na chau Ysgol Nebo. Un opsiwn fyddai cynyddu cydweithio rhwng Ysgol Nebo ac ysgolion cyfagos, megis rhannu adnoddau, staff neu arbenigeddau penodol, er mwyn lleihau costau a chryfhau'r ddarpariaeth addysgol.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau sy'n awgrymu y dylid ystyried opsiynau amgen i gau Ysgol Nebo, gan gynnwys cynyddu cydweithio â ysgolion cyfagos drwy rannu adnoddau, staff neu arbenigedd penodol, gyda'r bwriad o leihau costau, cryfhau'r ddarpariaeth addysgol, a hyrwyddo derbyniadau newydd i'r ysgol.
15.7.2	“Gellid hefyd ystyried trefniadau cydweithio ag ysgolion cyfagos, rhannu adnoddau neu staff... neu gynlluniau i hyrwyddo derbyniadau newydd drwy bwysleisio manteision addysg Gymraeg leol mewn amgylchedd gwledig cefnog.”	Mae trefniadau ar gyfer cydweithio a rhannu adnoddau ac arbenigedd rhwng Ysgol Nebo ac ysgolion cyfagos wedi'u hystyried fel rhan o'r model ffedereiddio, yn hytrach nag fel opsiwn amgen annibynnol. O ganlyniad, ystyrir y trefniadau hyn fel elfen o'r opsiwn ffedereiddio ei hun, ac felly nid ydynt wedi'u hasesu ar wahân o fewn yr adroddiad hwn.
15.7.3	<i>“trefniadau cydweithredol gydag ysgolion cyfagos, rhannu adnoddau neu staff” / “mentrau i hyrwyddo derbyniadau newydd”</i>	
15.7.4	“credwn fod atebion amgen megis rhannu adnoddau neu gydweithio rhwng ysgolion yn well”	O safbwynt yr opsiwn i ffedereiddio, yn dilyn gwerthuso'r opsiwn hwn o ran ei allu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, ystyrir nad yw ffedereiddio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos yn ymateb i'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Nebo. Nid oes tystiolaeth y byddai trefniadau cydweithio o'r fath yn arwain at gynnydd ystyrion mewn niferoedd dysgwyr nac at leihad yn y gyfran uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai'r trefniadau presennol o ran dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang yn parhau. Yn ogystal, ni cheir tystiolaeth y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at newid i'r rhagolygon niferoedd isel yn y dyfodol nac at newid sylweddol yn y patrwm presennol o ddewis rhieni a dysgwyr o fewn y dalgylch, er gwaethaf awgrymiadau i hyrwyddo derbyniadau newydd. O ganlyniad, byddai'r heriau ariannol parhaus, gan gynnwys costau uchel fesul dysgwr a diffyg cynaliadwyedd ariannol hirdymor, yn parhau heb eu datrys.

15.8 Datblygu Ysgol Nebo fel Canolfan Gymraeg a/neu Gymunedol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
15.8.1	“Byddai Ysgol Nebo yn darparu lle delfrydol i gynnal dosbarthiadau i ddysgwyr Cymraeg.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.
15.8.2	<i>“Neu i ddarparu hyfforddiant Cymraeg ychwanegol i siaradwyr Saesneg?”</i>	Mae'r Cyngor eisoes wedi ystyried yr opsiwn i ddefnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol i gynnal a chefnogi gwasanaethau lleol, a chydleoli gwasanaethau o fewn yr ysgol i wrthbwysu costau cynnal.
15.8.3	“Yn hytrach na chau'r ysgol, dylid archwilio model mwy hyblyg ac aml-bwrpas sy'n cryfhau rôl yr ysgol fel canolfan addysg a chymunedol ehangach.” “Un opsiwn fyddai datblygu'r ysgol fel canolfan ddysgu gymunedol, gan gynnwys elfen dysgu Cymraeg i oedolion, gan fanteisio ar sgiliau addysgu lleol a galw cynyddol am gyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg yn gymunedol. Gallai hyn gynyddu defnydd yr adeilad y tu allan i oriau ysgol, denu incwm neu gyllid ychwanegol, a chryfhau cysylltiadau rhwng yr ysgol, rhieni a'r gymuned ehangach” “... ddatblygu Ysgol Nebo fel canolfan Gymraeg arloesol sy'n gwasanaethu'r gymuned gyfan, gan gryfhau ei rôl fel man naturiol i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Byddai cynnwys elfen dysgu Cymraeg i oedolion, ochr yn ochr ag addysg gynradd, yn gyfle rhagorol i gynyddu defnydd y Gymraeg ar draws cenedlaethau, meithrin siaradwyr newydd, a chreu model cadarnhaol a chynaliadwy y gellid ei rannu'n ehangach.”	Yn dilyn ystyried yr opsiynau, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yn cynnig datrysiad cynaliadwy i'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Nebo, fel y nodir yn adran 5.1 o'r ddogfen ymgynghori. Yn benodol, ni fyddai opsiynau o'r fath yn mynd i'r afael â niferoedd isel parhaus o ddysgwyr, maint dosbarthiadau bychain, na'r goblygiadau cysylltiedig ar gynaliadwyedd ariannol a darpariaeth addysgol yr ysgol fel ysgol gynradd brif ffrwd. At hyn, nodir bod defnydd cymunedol helaeth eisoes yn cael ei wneud o adeilad Ysgol Nebo fel rhan o'r trefniadau presennol; mae hyn yn awgrymu bod rhai elfennau o'r hyn a ddisgrifir yn yr opsiwn hwn eisoes yn bodoli o fewn y sefyllfa bresennol, sef yr opsiwn “gwneud dim”.
15.8.4	<i>“Dylid archwilio model mwy hyblyg ac aml-bwrpas... datblygu'r ysgol fel canolfan ddysgu gymunedol, gan gynnwys elfen dysgu Cymraeg i oedolion... Gallai hyn gynyddu'r defnydd o'r adeilad y tu allan i oriau ysgol, er enghraifft ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg i oedolion, denu incwm neu gyllid ychwanegol, a chryfhau'r cysylltiadau rhwng yr ysgol, rhieni a'r gymuned ehangach.”</i>	Ystyrir bod Opsiwn 15.8, fel y'i disgrifir, yn debyg yn ei hanfod i'r opsiynau hynny a gafodd eu hystyried a'u diystyru eisoes, gan ei fod yn canolbwyntio ar ehangu neu ail-bwrpasu rôl y safle at ddefnydd cymunedol yn hytrach na mynd i'r afael â'r heriau addysgol sy'n wynebu'r ysgol. O ganlyniad, deuir i'r casgliad nad yw Opsiwn 15.8 yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol, ac felly nid yw'n cael ei ystyried ymhellach nac yn destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn.
15.8.5	“...gellir datblygu ysgol Nebo yn ganolfan iaith i blant a phobl ifanc Dyffryn Nantlle... cyrsiau awyragored... pwyslais ar ddysgu a/neu gwella y defnydd o'r iaith Gymraeg, iechyd a lles disgyblion...” “Buasai'n dda petai'r brifysgol ym Mangor yn gynnal dosbarthiadau Cymraeg yn gyson yn yr ystafell gymunedol... O bosib buasai cael uned iaith o fewn yr ysgol yn ysgogi dysgwyr a siaradwyr i ddefnyddio eu Cymraeg gydag aelodau hynny o'r gymuned sy'n dysgu'r iaith”	

15.8.6	<i>“Hoffwn allu ymateb i fy ffrindiau yn Gymraeg, ond rwy’n ei chael hi’n anodd. Petai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ac o bosibl yn trefnu athro Cymraeg i rieni fel fi nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg i ddysgu’r iaith, byddai hynny’n wych.”</i>	Fel uchod.
15.8.7	<i>“Ysgol gymunedol, ysgol ar gyfer anghenion addysgol arbennig, a hefyd hwb cymunedol.”</i>	Fel uchod.
15.8.8	<i>“agor consultation arall i sut fedra'r pentref defnyddio'r adeilad fel hwb i ddod a mwy o revenue i'r ysgol...Mae na cyfle i rhedeg dosbarthiadau noswaith... Dosbarthiadau, clwbiau, siop, unrhywbeth...Mi faswn i'n hapus iawn i fod rhan o rhyw bwyllgor i brainstormio sut i maximisio'r revenue i'r ysgol”</i>	Fel uchod.
15.8.9	<i>“A ellid defnyddio’r ysgol hefyd at ddibenion cymunedol i ddarparu incwm ychwanegol i ategu’r ddarpariaeth addysgol?”</i>	Fel uchod.

15.9 Cynnwys Ysgolion Bach mewn Strategaethau Treftadaeth ac Adfywio

	Sylw	Ymateb y Cyngor
15.9.1	<i>“Mae angen ystyried dewisiadau rhesymol eraill sy’n ymwneud â chynllunio ehangach ac adfywio lleol.”</i> <i>“Galwaf ar y Cyngor i gynnwys nid yn unig ysgolion Nebo a Baladeulyn, ond pob ysgol fach, yn weithredol mewn strategaethau adfywio cymunedol lleol. Er enghraifft, nodaf y cyllidebau ychwanegol sy’n cael eu defnyddio i ariannu prosiectau treftadaeth gymunedol sy’n gysylltiedig â dynodiad tirweddau llechen gogledd Cymru fel Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Nodaf nifer o brosiectau a buddsoddiadau yng nghymuned Penygroes, ac rwy’n galw ar y Cyngor i sicrhau dosbarthiad teg o’r cyllid hwn, gan ystyried bod cymuned lechen Dyffryn Nantlle yn cynnwys y pentrefi bach cyfagos yn yr ardal hon ac nid y brif dref yn unig. Unwaith eto, rwy’n fodlon gweithio gydag ymrwymiad ochr yn ochr â’r Cyngor i gyfoethogi’r gymuned ac i gynnal ei hadnoddau.”</i> <i>“Mae gennyf wybodaeth am y cynllun adfywio lleol helaeth ‘Ardal Ni’ ar gyfer ardal Bro Lleu a Nantlle, ac rwy’n nodi nad oes unrhyw gyfeiriad at y cynllun adfywio lleol hwn yn ymgynghoriad y Cyngor. Dylid ystyried hyn, yng ngoleuni’r Cod.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a dderbyniwyd sy’n awgrymu y dylid cynnwys Ysgol Nebo, ynghyd ag ysgolion bach eraill yn y dalgylch, o fewn strategaethau ehangach sy’n ymwneud â threftadaeth ac adfywio cymunedol, gan gynnwys mentrau sy’n gysylltiedig â thirweddau llechi Gogledd Cymru fel Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Nodir hefyd y sylwadau sy’n tynnu sylw at fuddsoddiad mewn prosiectau treftadaeth a chymunedol yn yr ardal ehangach, ac sy’n galw am ystyriaeth deg o gymunedau llai megis pentrefi Dyffryn Nantlle o fewn cynlluniau adfywio lleol a strategaethau megis cynlluniau “Ardal Ni”. Er bod y sylwadau hyn wedi’u nodi, nid yw’r Cyngor yn ystyried cynnwys Ysgol Nebo mewn strategaethau treftadaeth neu adfywio cymunedol ehangach fel opsiwn amgen rhesymol o fewn cyd-destun y cynnig presennol. O ganlyniad, nid yw’r opsiwn hwn yn destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad.

15.9.2	Awgrymir y gellid datblygu rôl yr ysgol fel canolfan dysgu sy'n ymwneud â threftadaeth lechen yr ardal (UNESCO).	Yn benodol, nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig newid i drefniadaeth addysgol yr ysgol mewn ffordd a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel, y lefel uchel o lefydd gweigion, yr ystod eang o oeddrannau o fewn dosbarthiadau bach, y rhagolygon niferoedd yn y tymor canolig a'r tymor hir, na'r heriau o ran cynaliadwyedd ariannol. Yn sgil hynny, deuir i'r casgliad nad yw'r awgrym hwn, ar ei ben ei hun, yn darparu datrysiad addysgol cynaliadwy ar gyfer Ysgol Nebo.

15.10 Cadw Ysgol Nebo ar agor

	Sylw	Ymateb y Cyngor
15.10.1	<i>“Rwy’n ysgrifennu’r llythyr hwn i fynegi fy nghefnogaeth dros gadw Ysgol Nebo ar agor.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r nifer sylweddol o sylwadau a dderbyniwyd sy'n galw am gadw Ysgol Nebo ar agor. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod yr opsiwn hwn – sef parhau gyda'r ddarpariaeth bresennol drwy gadw'r ysgol ar agor – eisoes wedi'i ystyried fel rhan o'r opsiynau gwreiddiol, ac yn benodol fel yr opsiwn “gwneud dim” (Opsiwn 1). Mae'r opsiwn hwn wedi'i asesu'n llawn yn erbyn meini prawf perthnasol, ochr yn ochr â'r opsiynau amgen rhesymol eraill a nodir yr adran hon. Er bod y Cyngor yn cydnabod y gefnogaeth a fynegir i gadw'r ysgol ar agor, deuir i'r casgliad nad yw parhau â'r trefniadau presennol, yn ymateb digonol i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel, y lefel uchel o lefydd gweigion, y rhagolygon niferoedd yn y dyfodol, a'r heriau ariannol cysylltiedig.
15.10.2	Mynegir cefnogaeth gref i gadw Ysgol Nebo ar agor ar sail profiad proffesiynol yr ymatebydd fel athro.	
15.10.3	<i>“Byddai cadw Ysgol Nebo ar agor yn atal POB un o'r effeithiau negyddol a fyddai'n deillio o'i chau.”</i>	
15.10.4	<i>“Rwy’n ysgrifennu i fynegi fy nghefnogaeth gref i gadw Ysgol Nebo ar agor ac i amlinellu'r manteision pwysig y mae'r ysgol wledig fach hon yn eu darparu i'n disgyblion, ein teuluoedd a'r gymuned ehangach.”</i>	
15.10.5	<i>“Cadw'r ysgol ar agor gan ystyried yn ddwys ein cynnig ni am fath amgen o addysg i gynyddu niferoedd disgyblion...Fe fyddai teuluoedd ifanc yn ystyried symud yma i fyw a magu teuluoedd trwy gyfrwng y Gymraeg”</i>	
15.10.6	<i>“Efallai bod angen i Gyngor Gwynedd gymryd cam ffydd a chefnogi'r disgyblion yn Ysgol Nebo, ac unrhyw ddisgyblion bregus yn y dyfodol a allai ei mynychu, am ychydig flynyddoedd pellach. Efallai na fyddai dull o'r fath yn gwneud synnwyr ariannol ar hyn o bryd, ond mae'n gwneud synnwyr llwyr i'r disgyblion dan sylw, gan eu cefnogi drwy addysg briodol a'u paratoi'n dda ar gyfer y dyfodol.” “Cadw'r ysgol ar agor am o leiaf dwy flynedd arall, er mwyn gweld a all eu cynigion i barhau i addysgu'r disgyblion presennol, ond hefyd i ymestyn croeso'r ysgol i blant nad ydynt yn mynychu ysgol ar hyn o bryd, fod yn llwyddiannus.”</i>	
15.10.7	<i>“Y peth pwysica ydy dylsa'r ysgol ddim cau, ond newid ella efo'r amseroedd.”</i>	

15.10.8	Gwneir galwad gref i beidio â chau'r ysgol.	
15.10.9	<i>“Dylid gwrthod y cynnig, a dylai'r Cyngor yn hytrach wrando'n wirioneddol ar gymunedau lleol a llunio awgrymiadau creadigol i gefnogi gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, yn hytrach na gadael iddynt fethu. Mae'r enghraifft o'r hyn sydd wedi digwydd yn Y Garreg yn enghraifft gyfredol arall o fethiannau'r Adran Addysg... Rwy'n gwrthwynebu cau'r ysgol.”</i>	
15.10.10	<i>“Os gwelwch yn dda, ystyriwch ein pled i beidio â chau'r ysgol, ac ymhen amser bydd yn tyfu a bydd mwy o blant yn ymuno â hi – mae angen cyfle arni yn unig. Rwy'n ysgrifennu hyn gyda chymaint o dristwch ond hefyd gyda chymaint o obaith, gan fy mod yn credu y bydd y neges hon yn cael ei hystyried ac, gobeithio, y caiff ymateb cadarnhaol. Rwyf am ddweud diolch o waelod calon.”</i>	Fel uchod.
15.10.11	<i>“Yn fy marn i, ni ellir lliniaru'n llawn effaith cau ysgol wledig Gymraeg. Y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yw peidio â chau'r ysgol a datblygu ei rôl mewn ffordd arloesol”</i>	Fel uchod.
15.10.12	<i>“I beidio cau ysgol nebo”</i>	Fel uchod.
15.10.13	<i>“Cadwch yr ysgol ar agor a gadewch i'r Gymraeg barhau i ffynnu.”</i>	Fel uchod.
15.10.14	<i>“Dal i barhau gyda'r un tefniadau, a bod yr ysgol yn dal yn rhan o fwrlwm a bywyd y pentref a'r ardal gyfagos.”</i>	Fel uchod.
15.10.15	<i>“Cadw'r ysgol ar agor ar gyfer cynullïadau cymdeithasol a digwyddiadau.”</i>	Fel uchod.
15.10.16	<i>“Ni all y cynnig i gau'r ysgol ond gael effaith negyddol ar ddefnydd y Gymraeg ym mhentrefi Nebo a Nasareth. Yr unig ffordd o sicrhau effaith gadarnhaol yw symud ymlaen gyda'r cynnig amgen a wnaed gan y Llywodraethwyr.”</i>	Fel uchod.
15.10.17	<i>“Yn hytrach na chau, dylid buddsoddi yn yr ysgol fel ased cymunedol hanfodol sy'n cadw bywiogrwydd cefn gwlad ac yn meithrin cenedlaethau'r dyfodol.”</i>	Fel uchod.
15.10.18	<i>“Yn gyntaf oll, y dewis a ffefrir gan y llywodraethwyr yw bod Ysgol Nebo yn parhau i weithredu fel ysgol gynradd brif ffrwd.”</i>	Fel uchod.
15.10.19	Cynigir y dylid cadw Ysgol Nebo ar agor.	Fel uchod.
15.10.20	Anogir y Cyngor i ailystyried cau ac yn hytrach archwilio ffyrdd o gadw a datblygu'r gwaith gwerthfawr presennol.	Fel uchod.

15.11 Awgrymiadau amgen eraill

15.11.1 Trefnu Wythnosau Gwyliau Addysgol yn ystod Toriadau Ysgol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
15.11.1	<i>“Neu efallai drefnu wythnosau gwyliau addysgol i blant yn ystod yr haf neu wyliau ysgol?”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r awgrym i drefnu wythnosau gwyliau addysgol yn ystod toriadau ysgol. Fodd bynnag, gan nad yw'r opsiwn hwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr, y lefel uchel o lefydd gweigion nac ar gynaliadwyedd ariannol hirdymor y ddarpariaeth, nid yw'n ymateb i'r heriau craidd sy'n wynebu'r ysgol. O ganlyniad, nid yw'n cael ei ystyried yn opsiwn amgen rhesymol ac felly caiff ei ddiystyru.

15.11.2 Adfer y Drefn o Fynychu Ysgol Leol/Dalgylch

	Sylw	Ymateb y Cyngor
15.11.2	<i>“Dyled yr hen drefn fod plant yr ardal yn mynd i ysgol yr ardel ag nid mund i'r ysgol arall ddod ynol i drefn.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r awgrym y dylid dychwelyd at drefn lle byddai disgwyl i blant fynychu'r ysgol o fewn eu hardal leol yn unig. Fodd bynnag, nodir nad oes gan y Cyngor y pwerau i orfodi trefniadau o'r fath, gan fod fframwaith statudol presennol addysg yng Nghymru yn rhoi hawl i rieni fynegi dewis o ran yr ysgol y mae eu plentyn yn ei mynychu, yn amodol ar gapasiti a meini prawf derbyn. O ganlyniad, nid yw'n opsiwn hyfyw nac yn opsiwn amgen rhesymol i ymateb i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo.

15.11.3 Mentrau i hyrwyddo'r ysgol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
15.11.3	<i>“Mentrau i hyrwyddo derbyniadau newydd drwy bwysleisio manteision addysg cyfrwng Cymraeg leol mewn amgylchedd gwledig cefnogol.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r awgrym i hyrwyddo derbyniadau newydd drwy bwysleisio manteision addysg cyfrwng Cymraeg leol mewn amgylchedd gwledig cefnogol. Fodd bynnag, nodir nad yw mentrau hyrwyddo o'r fath, ar eu pen eu hunain, o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor i'w gweithredu mewn ffordd a fyddai'n arwain at gynnydd mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig, gan fod y penderfyniad terfynol ynghylch dewis ysgol yn parhau'n fater i rieni, yn unol â'r fframwaith statudol.

		Yn ogystal, nid oes tystiolaeth bod mentrau hyrwyddo yn unig yn arwain at gynnydd digonol a chynaliadwy mewn niferoedd dysgwyr i fynd i'r afael â'r lefel uchel o lefydd gweigion na'r heriau ariannol sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol. O ganlyniad, nid yw'r awgrym hwn yn cael ei ystyried yn opsiwn amgen rhesymol nac yn ateb hyfyw i ymateb i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo.

15.11.4 Sefydlu Cylch Meithrin yn lleol

	Sylw	Ymateb y Cyngor
15.11.4	Awgrymir y byddai sefydlu Cylch yn lleol yn fuddiol, gan nodi profiad personol o'r anhawster o orfod teithio i ardal arall.	Mae'r Cyngor yn nodi'r awgrym i sefydlu Cylch Meithrin yn lleol, gan gydnabod y profiad personol a rennir ynghylch yr anhawster o orfod teithio y tu allan i'r ardal i gael darpariaeth feithrin. Fodd bynnag, ystyrir nad yw sefydlu Cylch Meithrin yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ddarpariaeth addysg gynradd statudol nac yn ymateb i'r heriau craidd sy'n wynebu Ysgol Nebo, gan nad yw'n effeithio ar niferoedd dysgwyr cofrestredig yn yr ysgol, y lefel uchel o lefydd gweigion, na chynaliadwyedd ariannol hirdymor y ddarpariaeth gynradd. Yn ogystal, nodir bod darpariaeth Cylch Meithrin yn ddarpariaeth annibynnol sy'n gweithredu y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Cyngor o ran sefydlu a chyllido. O ganlyniad, nid yw'r awgrym hwn yn cael ei ystyried yn opsiwn amgen rhesymol nac yn cynnig ateb hyfyw i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, ac felly caiff ei ddiystyru.

6. OPSIYNAU AMGEN ERAILL A GYNIGIWDYD GAN YMNGYNGHORAI

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, rhoddwyd cyfle i ymgynghorai gyflwyno opsiynau amgen yn ystod yr ymgynghoriad statudol.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r opsiynau ychwanegol a awgrymwyd gan ymgynghorai, ac yn nodi'r rhai a ystyrir yn opsiynau amgen rhesymol sy'n destun asesiad pellach yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan gynnwys gwerthusiad opsiynau ac asesiad yn erbyn y ffactorau rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig.

	Opsiwn	Ystyriaeth Gychwynnol
15.1	"Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro - amrywiaeth."	Mae opsiwn yma yn ymwneud â chryfhau a/neu ehangu ffocws darpariaeth gysylltiedig ag ADY. Er bod darpariaeth ADY eisoes wedi'i hystyried fel rhan o'r opsiynau gwreiddiol (Opsiwn 6), nododd nifer o ymgynghorai nad yw'r cynnig hwn yn union yr un fath o ran ei gwmpas na'i fwriad. O ganlyniad, caiff Opsiwn 15.1 ei drin fel opsiwn ychwanegol ar wahân, yn hytrach nag amrywiad uniongyrchol ar yr opsiwn ADY gwreiddiol, ac felly mae'n destun asesiad pellach.
15.2	Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd	Mae'r opsiwn yma'n destun asesiad pellach
15.3	Defnyddio Ysgol Nebo fel Darpariaeth Ategol i Leihau Pwysau ar Ysgolion Cyfagos	Nid yw'r Cyngor o'r farn fod yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol. Byddai gweithredu model o'r fath yn arwain at newid sylweddol yn rôl a natur Ysgol Nebo, gan ei droi o ysgol gymunedol brif ffrwd yn ddarpariaeth ran-amser neu ategol heb sylfaen glir o ran trefniadaeth, llywodraethu na pherthyn i gymuned ysgol benodol. Byddai hefyd yn codi cymhlethdodau sylweddol mewn perthynas â threfniadau derbyn, cludiant, lles disgyblion a pharhad profiad addysgol, yn enwedig i blant iau. Yn ogystal, nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Nebo o ran niferoedd disgyblion, cynaliadwyedd tymor hir a darpariaeth addysgol gydlynol. O ganlyniad, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol ac nad yw'n destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn.
15.4	Datblygu Ysgol Nebo fel Canolfan Arbenigol ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored a Gwaith Maes	Mae'r opsiwn yma'n cyfateb yn uniongyrchol i Opsiwn 5 gwreiddiol, sef datblygu Ysgol Nebo fel lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol gyda ffocws ar waith maes. O ganlyniad, nid yw'n cael ei drin fel opsiwn amgen ychwanegol, ac nid yw'n destun asesiad pellach ar wahân i'r opsiwn gwreiddiol.
15.5	Ffederaleiddio/ Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn	Mae'r opsiwn yma'n destun asesiad pellach
15.6	Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch	Mae'r opsiwn yma'n destun asesiad pellach
15.7	Cydweithio a Rhannu Adnoddau ac Arbenigedd rhwng Ysgol Nebo ac Ysgolion Cyfagos	Mae trefniadau ar gyfer cydweithio a rhannu adnoddau ac arbenigedd rhwng Ysgol Nebo ac ysgolion cyfagos wedi'u cynnwys o fewn yr ystyriaethau ehangach sy'n gysylltiedig â'r model ffederaleiddio. O ganlyniad, ystyrir y trefniadau hyn fel

		elfen o'r model ffederaleiddio, yn hytrach nag fel opsiwn amgen annibynnol, ac felly nid yw'r opsiwn yma yn destun asesiad ar wahân o fewn yr adroddiad yma.
15.8	Datblygu Ysgol Nebo fel Canolfan Gymraeg a/neu Chymunedol	Mae'r Cyngor yn nodi nad yw'r opsiwn i ddatblygu Ysgol Nebo fel canolfan Gymraeg a/neu chymunedol wedi'i nodi na'i asesu fel opsiwn ar wahân yn y papur cynnig a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025 nac yn y Ddogfen Ymgynghori dilynol. Fodd bynnag, cafodd opsiynau tebyg o ran eu natur a'u bwriad eu hystyried ar y pryd, yn unol â chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys defnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol i gynnal a chefnogi gwasanaethau lleol, a chydleoli gwasanaethau o fewn yr ysgol i wrthbwysu costau cynnal. Yn dilyn ystyried yr opsiynau tebyg hynny, daethpwyd i'r casgliad nad oeddent yn cynnig datrysiad cynaliadwy i'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Nebo, fel y nodir yn adran 5.1 o'r ddogfen ymgynghori. Yn benodol, ni fyddai opsiynau o'r fath yn mynd i'r afael â niferoedd isel parhaus o ddysgwyr, maint dosbarthiadau bychain, na'r goblygiadau cysylltiedig ar gynaliadwyedd ariannol a darpariaeth addysgol yr ysgol fel ysgol gynradd brif ffrwd. At hyn, nodir bod defnydd cymunedol helaeth eisoes yn cael ei wneud o adeilad Ysgol Nebo fel rhan o'r trefniadau presennol; o safbwynt y Cyngor, mae hyn yn awgrymu bod rhai elfennau o'r hyn a ddisgrifir yn yr opsiwn hwn eisoes yn bodoli o fewn y sefyllfa bresennol, sef yr opsiwn "gwneud dim". Ystyrir bod Opsiwn 15.8, fel y'i disgrifir, yn debyg yn ei hanfod i'r opsiynau hynny a gafodd eu hystyried a'u diystyru eisoes, gan ei fod yn canolbwyntio ar ehangu neu ail-bwrpasu rôl y safle at ddefnydd cymunedol yn hytrach na mynd i'r afael â'r heriau addysgol sy'n wynebu'r ysgol. O ganlyniad, deuir i'r casgliad nad yw Opsiwn 15.8 yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol, ac felly nid yw'n cael ei ystyried ymhellach nac yn destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn.
15.9	Cynnwys Ysgolion Bach mewn Strategaethau Treftadaeth ac Adfywio	Yn dilyn ystyried yr opsiwn, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion gan nad yw'n mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo. O ganlyniad, nid yw'n destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn. Yn benodol, nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig newid i drefniadaeth addysgol yr ysgol mewn ffordd a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel, y lefel uchel o lefydd gweigion, yr ystod eang o oedrannau o fewn dosbarthiadau bach, y rhagolygon niferoedd yn y tymor canolig a'r tymor hir, na'r heriau o ran cynaliadwyedd ariannol.

		Yn sgil hynny, deuir i'r casgliad nad yw'r awgrym hwn, ar ei ben ei hun, yn darparu datrysiad addysgol cynaliadwy ar gyfer Ysgol Nebo.
15.10	Cadw Ysgol Nebo ar agor	Ystyrir yr opsiwn hwn fel yr opsiwn "dim newid", sef parhau gyda'r ddarpariaeth bresennol drwy gadw Ysgol Nebo ar agor. Mae'r opsiwn hwn eisoes wedi'i ystyried fel un o'r opsiynau gwreiddiol ac wedi'i asesu'n llawn fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, ac fe'i ystyrir ymhellach o dan Opsiwn 1 – Dim newid. O ganlyniad, nid yw Opsiwn 15.10 yn cael ei drin fel opsiwn amgen ar wahân, ac nid yw'n destun asesiad pellach ar ei ben ei hun o fewn yr adroddiad hwn.
15.11	Awgrymiadau amgen eraill	Ar ôl ystyried y materion a godwyd o dan y pennawd hwn, deuir i'r casgliad nad ydynt yn cynrychioli dewisiadau amgen rhesymol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan nad ydynt yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Nebo, gan gynnwys niferoedd isel, llefydd gweigion uchel, ac amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau, ac felly nid ydynt yn destun asesiad pellach.

7. ASESIAD PELLACH O'R CYNNIG A'R OPSIYNAU RHESYMOL ERAILL

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, a gan fod Ysgol Nebo yn bodloni'r diffiniad o ysgol wledig, cynhaliwyd asesiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau rhesymol amgen a nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, gan roi sylw penodol i'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, yr effaith debygol ar y gymuned, ac effaith trefniadau teithio gwahanol.

Wrth gynnal yr asesiad pellach hwn, ystyriwyd unrhyw wybodaeth ychwanegol berthnasol a ddaeth i law drwy'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, neu fel arall, yn unol â bwriad y Cod i sicrhau bod safbwyntiau a gwybodaeth newydd yn cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen.

Er bod y sylwadau a'r awgrymiadau a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriad – gan gynnwys opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorai – wedi'u hystyried fel rhan o'r broses adolygu hon, ni arweiniodd yr wybodaeth ychwanegol at newid i gasgliad unrhyw un o'r asesiadau effaith mewn perthynas â'r cynnig nac â'r opsiynau rhesymol amgen.

Mae'r ddau dabl isod yn nodi'r asesiad pellach o'r effaith a ragwelir: mae'r tabl cyntaf yn crynhoi asesiad y cynnig a'r opsiynau rhesymol amgen a nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, tra bod yr ail dabl yn nodi asesiad effaith yr opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorai yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r asesiadau effaith llawn ar gael yn Atodiad C.

Opsiwn	Asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg	Asesiad o'r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio	Asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned
Opsiwn 1 - Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol	Niwtral – Dim newid	Niwtral – Dim newid Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Niwtral – Dim newid Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.
Opsiwn 2- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos	Niwtral/Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Niwtral Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y ddwy ysgol. Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.
Opsiwn 3 - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo	Niwtral/Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol'	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.	Niwtral Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol. Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.
Opsiwn 4 - Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos	Rhannol bositif Nodai'r asesiad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Llanllyfni yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Nebo Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu	Negyddol Byddai angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo i Ysgol Llanllyfni, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd. Rhagwelir costau cludiant ychwanegol – amcan gost, £17,000-£30,000 y flwyddyn. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Niwtral/Rhannol Negyddol Arwain at golli ysgol ac adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Defnydd cymunedol helaeth o adeilad Ysgol Nebo gan y gymuned. I liniaru'r effaith ar y gymuned, nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nebo yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Nebo, lle'n briodol.

	dysgwyr dalgylch Nebo yn Ysgol Llanllyfni.		Nodir fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Ysgol Nebo yn bodoli eisoes
Opsiwn 5 - Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)	Niwtral Rhagwelir y byddai safon yr addysg yn Ysgol Nebo yn parhau, ond gan nad oes model cyffelyb yn bodoli yn y cynradd o ran safle arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol, nid oes modd asesu ei effaith yn erbyn ansawdd addysg, felly niwtral yw'r effaith.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai ystyriaethau teithio ehangach petai safle Ysgol Nebo yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau.	Niwtral Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.
Opsiwn 6 - Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol	Niwtral/Rhannol bositif Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol'.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Niwtral – Dim newid i'r ddarpariaeth yn Ysgol Nebo Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.
Opsiwn 7 - Ysgol Nebo yn cynnig Uned/Canolfan Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle	Niwtral - Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i ddarparu gwasanaeth penodol ar gyfer hwyrddyfodiaid mewn Canolfan Iaith ar safle'r ysgol.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Niwtral – Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.

		Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwyr yr uned iaith.	
Opsiwn 8 - Ysgol aml-safle – gan barhau efo safle Ysgol Nebo	Niwtral/ Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo Cyfle i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu ar safle Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng ysgolion	Niwtral – dim effaith ar y ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.

Asesiad o'r opsiynau rhesymol eraill a awgrymwyd gan ymgynghorai:

Opsiwn	Asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg	Asesiad o'r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio	Asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned
15.1 - "Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro - amrywiaeth."	<i>Niwtral / Rhannol bositif – Dim effaith negyddol ar y ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Nebo. Cyfle posibl i ddatblygu arbenigedd penodol i gefnogi dysgwyr ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl, gan ategu darpariaeth brif ffrwd.</i>	<i>Niwtral – Byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu'n lleol.</i>	<i>Niwtral – Cadw presenoldeb ysgol weithredol yn y pentref a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.</i>
15.2 - Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd	<i>Niwtral / Rhannol bositif – Cyfle i gefnogi integreiddio dysgwyr ADY i addysg brif ffrwd, heb danseilio'r ddarpariaeth safonol yn Ysgol Nebo.</i>	<i>Niwtral – Ni ragwelir newid i drefniadau teithio dysgwyr lleol; gallai cludiant fod yn ofynnol i ddysgwyr sy'n mynychu'r uned o ardaloedd eraill.</i>	<i>Niwtral – Cadw presenoldeb ysgol weithredol yn y pentref a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo..</i>

15.5 - Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn	<i>Niwtral / Rhannol bositif – Parhad yn y ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo, gyda chyfleoedd i rannu arbenigedd, adnoddau ac arferion da.</i>	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	<i>Niwtral – Cadw presenoldeb ysgol weithredol yn y pentref, gyda chyfle i gryfhau cysylltiadau cymunedol rhwng y ddwy ysgol.</i>
15.6 - Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch	<i>Niwtral / Rhannol bositif – Parhad yn y ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo, gyda chyfleoedd gryfhau trefniadau strategol a chydweithio (rhannu arbenigedd, adnoddau ac arferion da).</i>	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	<i>Niwtral – Cadw presenoldeb ysgol weithredol yn y pentref, gyda chyfle i gryfhau cysylltiadau cymunedol rhwng yr ysgolion.</i>

Gwerthusiad o'r opsiynau:

Yn dilyn yr ymgynghoriad, cynhaliodd yr Awdurdod werthusiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau amgen a gynhwyswyd yn y papur cynnig gwreiddiol, ynghyd â gwerthusiad o'r opsiynau amgen rhesymol ychwanegol a nodwyd gan ymgynghorai, gan ddefnyddio'r un fframwaith asesu ag a ddefnyddiwyd ar gyfer yr opsiynau gwreiddiol. Ceir cymhariaeth fanwl o'r holl opsiynau yn Atodiad B – Gwerthusiad Opsiynau, ac mae'r tabl isod yn crynhoi prif gasgliadau'r gwerthusiad ac yn egluro'r rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen â'r opsiynau amgen.

Opsiwn	Rhesymau dros wrthod yr opsiwn
Opsiwn 1 - Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol	Yn dilyn asesiad, deuir i'r casgliad nad yw parhau gyda'r sefyllfa bresennol yn ymateb yn ddigonol i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagolygon niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol. Nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig datrysiad i newid unrhyw un o'r ffactorau hyn, ac felly ni chaiff ei ystyried yn ddewis rhesymol i sicrhau darpariaeth gynradd gynaliadwy yn y tymor canolig na'r tymor hir.

Opsiwn 2- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos	Ystyrir nad yw ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos yn ddigonol i fynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Nebo. Nid oes tystiolaeth y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd ystyrion mewn niferoedd dysgwyr nac at leihad yn y gyfran uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai'r ffurf bresennol o ddosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang yn parhau. Yn ogystal, byddai'r rhagolygon niferoedd isel a'r patrwm presennol o ddewis dysgwyr y dalgylch heb eu newid, gyda'r heriau ariannol a chostau fesul dysgwr uchel yn parhau.
Opsiwn 3 - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo	Deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau craidd sy'n wynebu Ysgol Nebo. Byddai dysgwyr y ddarpariaeth arbenigol yn parhau i gael eu cofrestru yn eu hysgolion gwreiddiol, ac felly ni fyddai'r opsiwn yn cynyddu niferoedd cofrestredig yr ysgol nac yn lleihau'r lefel uchel o lefydd gweigion. O ganlyniad, byddai'r ffurf bresennol o ddosbarthiadau bach, yr amrediad oedran eang, a'r heriau ariannol presennol yn parhau, heb ddarparu ateb cynaliadwy i'r sefyllfa bresennol.
Opsiwn 4 - Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos	<i>Noder: Dyma'r opsiwn ffafredig a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad statudol.</i>
Opsiwn 5 - Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)	Deuir i'r casgliad nad yw datblygu Ysgol Nebo fel lleoliad arbenigol ar gyfer pynciau penodol yn ymateb i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo. Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd ystyrion mewn niferoedd dysgwyr nac at leihad yn y gyfran uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai'r ffurf bresennol o ddosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang yn parhau. Yn ogystal, byddai'r rhagolygon niferoedd isel a'r patrwm presennol o ddewis dysgwyr y dalgylch heb eu newid, gyda'r heriau ariannol a chostau fesul dysgwr uchel yn parhau.
Opsiwn 6 - Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol	Deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiwn hwn yn ymateb i'r heriau craidd sy'n wynebu Ysgol Nebo fel ysgol gynradd gymunedol. Ni fyddai sefydlu uned arbenigol yn cynyddu'r niferoedd cofrestredig yn y ddarpariaeth brif ffrwd nac yn lleihau'r lefel uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai'r trefniadaeth o ddosbarthiadau bach, yr amrediad oedran eang, a'r heriau ariannol presennol yn parhau, heb ddarparu ateb cynaliadwy i'r sefyllfa bresennol.
Opsiwn 7 - Ysgol Nebo yn cynnig Uned/Canolfan Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle	Yn dilyn asesiad, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn cynnig ateb i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo. Er y gallai canolfan iaith ddefnyddio'r safle'n rhannol, byddai dysgwyr y ganolfan yn parhau i gael eu cofrestru yn eu hysgolion gwreiddiol, ac felly ni fyddai'r opsiwn yn cynyddu niferoedd cofrestredig yr ysgol. O ganlyniad, byddai'r lefel uchel o lefydd gweigion, y dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, a'r heriau ariannol presennol yn parhau heb gael eu cyfarch.
Opsiwn 8 - Ysgol aml-safle – gan barhau efo safle Ysgol Nebo	Deuir i'r casgliad na fyddai'r model ysgol aml-safle yn ymateb yn ddigonol i'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Nebo. Nid oes tystiolaeth y byddai'r trefniant yn arwain at gynnydd ystyrion mewn niferoedd dysgwyr nac at newid yn y patrwm presennol o lefydd gweigion uchel ar safle Ysgol Nebo. O ganlyniad, byddai'r trefniadaeth o ddosbarthiadau bach, y rhagolygon niferoedd isel, a'r heriau ariannol cysylltiedig yn parhau, heb sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth.
Opsiynau a awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad:	
15.1 - “Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys	Deuir i'r casgliad nad yw datblygu Ysgol Nebo fel ysgol sy'n cynnig darpariaeth arbenigol o'r fath yn ymateb yn ddigonol i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd ystyrion mewn niferoedd dysgwyr na lleihad sylweddol yn y lefel uchel o lefydd gweigion. O ganlyniad, rhagwelir y byddai trefniadaeth

disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro -amrywiaeth.”	dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, y rhagolygon niferoedd isel a'r heriau ariannol cysylltiedig yn parhau, gan olygu nad yw'r opsiwn hwn yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor darpariaeth addysg gynradd yn Ysgol Nebo.
15.2 - Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd	Deuir i'r casgliad nad yw datblygu Ysgol Nebo fel uned bontio ADY yn cynnig ateb i'r heriau craidd sy'n wynebu'r ysgol. Byddai dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth bontio yn parhau i fod wedi'u cofrestru mewn ysgolion eraill, ac felly ni fyddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd mewn niferoedd cofrestredig na lleihad yn y gyfran uchel o lefydd gweigion. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n ymwneud â niferoedd isel, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagolygon niferoedd isel a chynaliadwyedd ariannol yn parhau.
15.5 - Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn	Deuir i'r casgliad na fyddai ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Nebo. Nid oes tystiolaeth y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd ystyrion mewn niferoedd dysgwyr nac at leihad yn y gyfran uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai'r ffurf bresennol o ddosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang yn parhau. Yn ogystal, byddai'r rhagolygon niferoedd isel a'r patrwm presennol o ddewis dysgwyr y dalgylch heb eu newid, gyda'r heriau ariannol a chostau fesul dysgwr uchel yn parhau.
15.6 - Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch	Deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn ymateb yn ddigonol i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo. Ni ragwelir y byddai'r trefniant llywodraethu hwn yn arwain at gynnydd mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig nac at leihad yn y lefel uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai'r drefniadaeth bresennol o ddosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, y rhagolygon niferoedd isel a'r heriau cynaliadwyedd ariannol yn parhau heb eu cyfarch.

8. YSTYRIAETHAU PELLACH

Yn ogystal ag asesiadau effaith a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau penodol 'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgol wledig' cynhaliwyd a diweddarwyd nifer o asesiadau effaith eraill yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Cynhwysir yr asesiadau hyn fel rhan o'r atodiad Asesiadau Effaith (Atodiad C) a chrynhwir eu casgliadau isod.

Asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg

Cynhaliwyd asesiad o effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg, ac fe adolygwyd yr asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.

Yn ystod yr ymgynghoriad, mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith y gallai cau Ysgol Nebo ei chael ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref. Pwysleisiodd nifer fawr o ymatebwyr rôl yr ysgol fel canolbwynt cymdeithasol a diwylliannol sy'n cefnogi defnydd naturiol, bob dydd o'r Gymraeg, nid yn unig ymhlith disgyblion ond hefyd ymysg teuluoedd a thrigolion ehangach, gan gynnwys siaradwyr newydd a phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mynegwyd y farn y gallai colli'r ysgol arwain at lai o gyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, gwanhau trosglwyddiad rhyng-genedlaethol yr iaith, a lleihau atyniad y pentref i deuluoedd Cymraeg eu hiaith yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Nebo mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith andwyol bosibl ar fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.

Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol disgyblion, am y rhesymau canlynol:

- Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 56% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni
- Mae'r cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.

Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r cynnig i gau Ysgol Nebo arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.

Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Asesiad effaith ar gydraddoldeb

Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynnig arfaethedig, ac fe adolygwyd yr asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.

Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau bod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

Fel y nodir yn yr asesiad diweddaraf, yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd rhai pryderon penodol o safbwynt cydraddoldeb, yn enwedig ynghylch plant bregus, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a theuluoedd sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol. Mynegwyd pryder y gallai symud rhai dysgwyr i ysgol fwy leihau'r lefel o gefnogaeth bersonol sydd ar gael iddynt, ac y gallai pellter teithio, costau cludiant neu ddiffyg mynediad at gludiant preifat effeithio'n anghymesur ar rai teuluoedd. Codwyd hefyd effaith bosibl ar bobl hŷn a chydlyniant cymunedol, gan nodi bod yr ysgol yn darparu lleoliad hygyrch ar gyfer cymdeithasu a chefnogi llesiant.

Nodir yn yr asesiad fod y Cyngor yn cydnabod y materion a godwyd ac yn pwysleisio bod polisïau cydraddoldeb a chynhwysiant yn weithredol yn y ddarpariaeth bresennol ac yn Ysgol Llanllyfni. At hynny, nodir fod y Cyngor yn ymrwymo i roi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i blant bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau. O ran y pryderon ynghylch defnydd cymunedol o'r Gymraeg, nodir y byddai mesurau lliniaru yn cael eu hystyried, gan gynnwys hyrwyddo cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a'r ysgol amgen drwy weithgareddau cymunedol, a thrwy ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol er mwyn cefnogi defnydd parhaus o'r Gymraeg yn y gymuned leol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai ymatebwyr wedi nodi effaith negyddol bosibl ar rai grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys dysgwyr bregus, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, teuluoedd sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol, a chydlyniant cymunedol. Nodwyd hefyd bryderon penodol ynghylch effaith bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd anffurfiol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Fodd bynnag, ar sail yr asesiad cydraddoldeb cyffredinol, y dystiolaeth a nodir yn yr asesiadau effaith cysylltiedig, a'r mesurau lliniaru a ddisgrifir, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn nad yw'r cynnig yn debygol o arwain at effaith negyddol arwyddocaol ar nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod polisïau a gweithdrefnau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu, a bod anghenion unigol yn cael eu hystyried yn briodol.

Mae'r Cyngor yn parhau o'r farn y byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau'r anghyfartaledd yn achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau bod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at ragor o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen.

Drwy weithredu'r cynnig arfaethedig, byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn cael gwell amgylchedd dysgu a byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol. Yn ogystal, nodir y byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgol amgen lle mae'r Gymraeg yn gryf, gyda rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol gyda chyfoedion, gan gryfhau bywiogrwydd a defnydd naturiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr.

Byddai'r Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â'r nodweddion cydraddoldeb, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Cynhaliwyd asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant ar y cynnig a diweddarwyd yr asesiad wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig arfaethedig yn cwrdd â'r gofynion. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.

Yn yr asesiad diweddaraf, nodir fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn mynegi pryderon penodol ynghylch effaith y cynnig ar blant bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ar lesiant teuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, ac ar fywiogrwydd ieithyddol a chymunedol y pentref.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig hwn, y byddai'r cynnig arfaethedig yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nebo. Fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol (78%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni (44%), sy'n awgrymu bod cysylltiadau â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Llanllyfni, eisoes yn bodoli. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Llanllyfni, pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Llanllyfni yn cynnwys y gymuned lle'n briodol.

Rhagwelir y byddai'r cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

9. ARGYMHELLIAD

Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth lawn i'r materion a godwyd a fe gynhaliwyd gwerthusiad ac asesiadau effaith pellach o'r cynnig, ynghyd â'r opsiynau amgen a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori, ynghyd a'r opsiynau amgen a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys asesiad yn erbyn y ffactorau sy'n berthnasol i ysgolion gwledig, gan gynnwys y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Ar sail ystyried yr elfennau uchod, daethpwyd i'r casgliad nad oedd unrhyw o'r opsiynau amgen a ystyriwyd yn mynd i'r afael â'r prif heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, sef:

- **Niferoedd isel o ddysgwyr** - Dengys data Ionawr 2026, fod 11 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr meithrin yn mynychu Ysgol Nebo.
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Gydag 11 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 51, mae 40 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 78% o gapasiti'r ysgol. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 1 dysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 6 o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal. O ganlyniad, wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin – Blwyddyn 6, mae gan Ysgol Nebo 46 (79%) o lefydd gweigion.
- **Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang** – Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth, a 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.
- **Rhagamcanion niferoedd** - Mae rhagamcanion Medi 2025 yn awgrymu y bydd niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau'n isel dros y tair blynedd nesaf, gyda rhagamcan o 10 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 a 2 dysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028.
- **Dysgwyr y dalgylch** – Dengys data Ionawr 2026 fod 9 o blant yn byw yn nalgylch Ysgol Nebo. O'r rhain, mae 22% (2 blentyn) yn dewis mynychu Ysgol Nebo, tra bod 78% (7 o blant) yn dewis mynychu ysgolion y tu allan i'r dalgylch.
- **Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd** – Mae Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob

ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27 (seiliedig ar niferoedd Medi 2025) fydd £64,046.

- **Cyfartaledd cost fesul dysgwr** – Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Nebo yn y flwyddyn ariannol 2026-27 fydd £16,066 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,998.

Wrth ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, ynghyd â'r dystiolaeth a gyflwynir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol a'r asesiadau effaith, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn bod y cynnig i gau Ysgol Nebo yn briodol, yn gymesur ac er budd gorau dysgwyr yr ardal yn y tymor canolig a'r tymor hir.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan ymgynghorai, yn enwedig ynghylch rôl yr ysgol yn y gymuned leol a phwysigrwydd defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn dangos bod Ysgol Nebo yn wynebu heriau sylweddol nad ydynt yn debygol o gael eu datrys heb newid sylfaenol i'r ddarpariaeth.

Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy:

- Ymateb i'r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagolygon sy'n parhau'n isel, a'r ganran uchel o leoedd gwag;
- Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;
- Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran;
- Lleihau'r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir

Ar y cyfan, ar ôl ystyried y dystiolaeth, y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, y gwerthusiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau amgen, ynghyd â chyfeiriad strategol y Cyngor, mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r ymateb mwyaf priodol i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol (fel a nodir uchod) a'r rhesymau a nodwyd dros y cynnig, ac felly'n parhau i'w argymhell fel y modd mwyaf addas o fynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu'r ysgol.

ATODIAD B – Gwerthusiad Opsiynau

Gwerthusiad Opsiynau Ysgol Nebo Allwedd: Glas - manteision Coch - anafteision Du – sylwadau				
Ystyriaethau	Dim newid – parhau gyda'r sefyllfa bresennol	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo	Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos, sef Ysgol Llanllyfni
Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion	Niferoedd y dysgwyr yn parhau yn isel yn Ysgol Nebo (Niferoedd Ionawr 2026: 11 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin). Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (40 o lefydd gweigion (78%) Derbyn – Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (79%) Meithrin – Blwyddyn 6). Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf.	Niferoedd y dysgwyr yn parhau yn isel yn Ysgol Nebo (Niferoedd Ionawr 2026: 11 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin). Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (40 o lefydd gweigion (78%) Derbyn – Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (79%) Meithrin – Blwyddyn 6). Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.	Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd y dysgwyr yr ysgol. Rhagwelir y byddai niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Nebo. Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned ADY ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel. (Niferoedd Ionawr 2026: 11 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin). Gan y byddai angen addasu'r adeilad i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned arbenigol, mi fyddai capasiti yr ysgol yn debygol o leihau ac felly bydd llai o lefydd gweigion. Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf.	Mae niferoedd Ysgol Llanllyfni yn sefydlog gyda 58 o ddysgwyr Derbyn i Bl.6 ac 13 o ddysgwyr Meithrin ar y gofrestr (Ionawr 2026). Cyfradd llai o lefydd gweigion yn y dalgylch.
Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran	Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Ionawr 2026) gyda 5 dysgwr.	Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Ionawr 2026) gyda 5 dysgwr.	Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Ionawr 2026) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth.	Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas. Mae dysgwyr Ysgol Llanllyfni yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint

	(Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.	(Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.	Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai lleoli uned ADY ar safle'r ysgol, nac ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.	mwyr addas o rhwng 18 a 22 o ddysgwyr ymhob dosbarth (Medi 2025). Mae 3 dosbarth gydag oeddrannau cymysg yn Ysgol Llanllyfni, ynghyd â dosbarth Meithrin.
Adnoddau Ariannol Tud. 174	Bydd Ysgol Nebo yn derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £64,046 yn 2026-27 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£16,066 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998.	Bydd Ysgol Nebo yn derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £64,046 yn 2026-27 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£16,066 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998. Cyfle i wneud arbedion drwy rannu adnoddau a chyflogi staff ar draws y ffederasiwn wrth benodi yn y dyfodol.	Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Nebo. Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu'r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu'r Uned ADY. Bydd Ysgol Nebo yn derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £64,046 yn 2026-27 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£16,066 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998.	Tynnu ysgol o'r rhwyd gwarchodaeth lleiafswm staffio a dim angen am ddyraniad gwarchodaeth yn yr ysgol amgen. Bydd cost fesul dysgwr yn agosach at y cyfartaledd sirol. Mae'n debygol o arwain at gynnydd yng nghostau cludiant i'r Awdurdod.

			Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli uned ADY ar safle'r ysgol na ffederaleiddio yn ymateb i'r her ariannol yma.	
Arweinyddiaeth a Staffio	Swyddi presennol Ysgol Nebo yn parhau. Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn is na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.	Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn is na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.	Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn is na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai'n gyfrifol am reolaeth safle'r uned.	Mae strwythur staffio Ysgol Llanllyfni yn sicrhau athrawon ym mhob dosbarth a'n caniatáu mwy amser digyswllt i'r Pennaeth o'i gymharu ag Ysgol Nebo. Byddai'n arwain at ddiswyddo staff yn Ysgol Nebo.
Ffactorau Daearyddol	Dim newid. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch.	Dim newid i ddysgwyr Ysgol Nebo. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch. Bydd angen trefnu cludiant i blant i'r Uned ADY.	Bydd angen cynnig cludiant i ddysgwr dalgylch Ysgol Nebo. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent yn bresennol. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

Y Gymuned	Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynnaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo.	Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol. Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynnaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo.	Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynnaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo.	Pentref Nebo yn colli ysgol. Cymuned ehangach ble gall y plant a'r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng 2 cymuned cyfagos.
Yr Iaith Gymraeg	Dim newid - Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.	Dim newid – Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.	Dim newid – mae'r 2 ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.	Dim newid – mae Ysgol Llanllyfni yn ysgol cyfrwng Cymraeg.
Sylwadau ychwanegol wedi eu cynnig gan ran-ddeiliaid yn ystod/dilyn PAY1 a PAY2	Cryfderau/Cyfleon: - Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo - Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth - Dosbarthiadau bychan yn gyfle/gryfder - Ystod oedran eang yn gyfle i weithio gyda'u cyfoedion (helpu ei gilydd) - Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol a'r gymuned.	Cryfderau/Cyfleon: - Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo - Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth - Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol â'r gymuned.	Cryfderau/Cyfleon: - Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo - Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth - Grantiau ychwanegol i gyfarch gwelliannau ar gyfer dysgwyr gydag ADY - Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol â'r gymuned.	Gwendidau: - Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy - Colli'r ymagwedd gynhwysol gadarn mae Ysgol Nebo yn ei gynnig i gefnogi iechyd a lles - Effaith negyddol ar les y dysgwyr presennol sydd yn Ysgol Nebo.

Ystyriaethau	Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)	Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol	Ysgol Nebo yn cynnig Uned/Canolfan iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle	Ysgol aml-safle – gan barhau efo safle Ysgol Nebo
Niferoedd dysgwyr llefydd gweigion a	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Nebo (Niferoedd Ionawr 2026: 11 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin). Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (40 o lefydd gweigion (78%) Derbyn – Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (79%) Meithrin – Blwyddyn 6). Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf.	Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys Uned ADY ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel. (Niferoedd Ionawr 2026: 11 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin). Gan y byddai angen addasu'r adeilad i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned arbenigol, mi fyddai capasiti yr ysgol yn debygol o leihau ac felly bydd llai o lefydd gweigion. Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf.	Gan y byddai angen addasu'r adeilad er mwyn cynnig lleoliad addas i'r Ganolfan iaith, mi fydd capasiti'r ysgol yn debygol o leihau ac felly byddai lleihad yn y nifer o lefydd gweigion. Gan y byddai dysgwyr y ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys canolfan iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel. Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf.	Gydag ond 11 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6, ac 1 dysgwr oed Meithrin yn mynychu Ysgol Nebo (Ionawr 2026), rhagwelir na fyddai sefydlu ysgol aml-safle yn arwain at gynnydd yn niferoedd safle Ysgol Nebo. Gan na ragwelir cynnydd yn y niferoedd, rhagwelir y byddai'r nifer fawr o lefydd gweigion, sef lle i 46 o ddysgwyr (79%), yn parhau. Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf.
Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran Tud. 177	Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Ionawr 2026) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn	Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai lleoli uned ADY ar safle'r ysgol yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Rhagwelir felly y byddai niferoedd dysgwyr yr ysgol yn parhau'n isel. Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.	Gan y byddai dysgwyr y ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel. Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.	Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n arwain at gynnydd yn y niferoedd, rhagwelir y byddai maint dosbarthiadau ar safle Ysgol Nebo yn parhau'n fach, gydag amrediad oedran eang.

	un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.			
Adnoddau Ariannol	Bydd Ysgol Nebo yn derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £64,046 yn 2026-27 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£16,066 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998.	Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Nebo. Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu'r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu'r Uned ADY. Bydd Ysgol Nebo yn derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £64,046 yn 2026-27 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£16,066 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli uned ADY ar safle'r ysgol yn ymateb i'r her ariannol yma.	Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned Iaith yn Ysgol Nebo. Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu'r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu'r Ganolfan Iaith. Bydd Ysgol Nebo yn derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £64,046 yn 2026-27 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£16,066 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli Canolfan Iaith ar safle'r ysgol yn ymateb i'r her ariannol yma.	Bydd uno ysgolion yn golygu sefydlu un ysgol aml-safle, gydag un dyraniad ar gyfer yr holl safleoedd. Rhagwelir y byddai safle Nebo yn parhau i dderbyn swm ychwanegol i'r dyraniad craidd trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio gan y byddai niferoedd dysgwyr safle Nebo yn parhau i fod yn isel.
Arweinyddiaeth a Staffio	Swyddi presennol Ysgol Nebo yn parhau. Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn is na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd.	Swyddi presennol Ysgol Nebo yn parhau. Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn is na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd.	Swyddi presennol Ysgol Nebo yn parhau. Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn is na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd.	Byddai yna resymoli arweinyddiaeth yn yr opsiwn yma, ond gan na fyddai yna effaith ar niferoedd dysgwyr y safleoedd, byddai strwythur staffio presennol Ysgol Nebo yn parhau, gyda phennaeth safle (yn hytrach na phennaeth) a chymhorthydd.

	Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.	Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai'n gyfrifol am reolaeth safle'r uned.	Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai'n gyfrifol am reolaeth safle'r uned.	
Ffactorau Daearyddol	Dim newid. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch.	Dim newid i ddysgwyr Ysgol Nebo. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch. Bydd angen trefnu cludiant i blant i'r Uned ADY.	Dim newid i ddysgwyr Ysgol Nebo. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch. Bydd angen trefnu cludiant i blant i'r Ganolfan laith.	Safle ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch. Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng safleoedd ysgolion.
Y Gymuned	Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo.	Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo.	Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo.	Cadw safle ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Cymuned ehangach ble gall y plant a'r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng cymunedau cyfagos. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynladwyedd darpariaeth addysg ar safle Nebo.
Yr Iaith Gymraeg	Dim newid - Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.	Dim newid - Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.	Dim newid – dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.	Dim newid - Rhagwelir y byddai addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnig fel y sefyllfa bresennol.
Sylwadau ychwanegol wedi eu cynnig yn ystod/dilyn PAY1 a PAY2 Tud. 179	Cryfderau/Cyfleon: - Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo - Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth - Dosbarthiadau bychan yn gyfle/gryfder	Cryfderau/Cyfleon: - Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo - Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth - Dosbarthiadau bychan yn gyfle/gryfder	Cryfderau/Cyfleon: - Maint dosbarthiadau bychain - Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol a'r gymuned.	

	• Model unigryw sydd yn gyfle i ddysgu mewn amgylchedd awyr agored • Cyfrannu'n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr • Potensial i wella iechyd a lles • Cefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru • Ysgolion eraill ledled Gwynedd yn manteisio o'r cynnig • Potensial i ddatblygu cyfleuster sydd ar agor i'r cyhoedd tu allan i oriau ysgol - fyddai'n cynhyrchu incwm - cysylltu â chynlluniau adfywio'r ardal leol • Llawer o fanteision i ddysgu awyr agored gan gynnwys (i) cefnogi datblygiad holistaidd ac academiaidd (ii) cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol (iii) codi lles meddyliol (hybu cynhwysiant, cydraddoldeb, a dysgu gwell.	• Cyfrannu'n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr • Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol a'r gymuned • Uwch-sgilio staff presennol Ysgol Nebo • Codi iechyd a lles dysgwyr • Cynyddu cyfleoedd addysgol i bobl ifanc gymryd rhan yn llawn yn yr ysgol • Mae niferoedd dosbarth llai yn hwyluso sylw a chynnydd addysgol wedi'i bersonoli • Lleddfu pwysau ar ysgolion eraill sy'n cael trafferth diwallu anghenion dysgwyr ledled y sir • Cost gymharol is o'i gymharu â chefnogi pobl ifanc mewn darpariaeth arbenigol • Mae adnoddau ysgol a chymunedol yn parhau ar agor • Ysgol o fewn pellter rhesymol o gartrefi dysgwyr yn nalgylch Dyffryn Nantlle gyfan. Hefyd yn eithaf canolog i ddalgylchoedd eraill cyfagos • Dysgwyr sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3 mewn ysgol fach sy'n arwain at gaffael iaith yn hyderus. • Llai o achosion o ymddygiadau negyddol fel bwlio, oherwydd ethos teuluol cryf, a phresenoldeb staff addysgu mewn amseroedd cymdeithasol megis amser cinio ac amser chwarae • Yn cysylltu â chynllunio strategol ar lefel y cyngor i ddiwallu anghenion dysgwyr yn y briff ffrwd, fel y nodwyd yng nghyfarfod Craffu Addysg a'r Economi ar 10 Ebrill 2025		

- Arbedion ariannol cyffredinol o'i gymharu â chymorth 1:1 mewn darpariaeth arbenigol
- Mae darpariaeth effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion yn gynnar yn lleihau costau yn y dyfodol a dibyniaeth ar wasanaeth eraill sydd yn y pen draw yn ddrytach
- Mae dosbarthiadau oedran cymysg yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol gwell
- Dim gwariant sylweddol ar hyfforddi staff
- Cyfle cyffrous i Gyngor Gwynedd arwain ar brosiect lles arloesol y gellir ei gyflwyno i ardaloedd eraill fel enghraifft o arfer enghreifftiol.
- Potensial i gysylltu ag adran ymchwil ym Mhrifysgol Bangor i recriwtio myfyriwr PhD i ymgymryd â darn o ymchwil i amlygu llwyddiant y prosiect e.e. Cheme Prosiect yn mesur enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad
- Potensial i'w gyflwyno fel ateb sy'n adfywio nid yn unig Ysgol Nebo ond ysgolion bach eraill ar draws y sir ond hefyd Cymru gyfan
- Gweithio ar y cyd ag asiantaethau cymorth fel CAMHS a chwyselwyr ysgol i ddarparu therapïau – i gefnogi pobl ifanc a rhieni fel ei gilydd
- Mae darpariaeth effeithiol sy'n diwallu anghenion disgyblion yn lleihau nifer y teuluoedd sy'n dewis dadgofrestru eu plant, ac mae ganddi'r potensial i leihau'r duedd o gynyddu'r niferoedd ar y gofrestr Addysg Gartref Ddewisol
- Mwy o ddefnydd o adeilad

		Anfanteision: Trefniadau cludiant		

Opsiynau Amgen Rhesymol a awgrymwyd gan Ymgynghorai

Ystyriaethau	“Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro - amrywiaeth.”	Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Dysgwyr ADY	Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn	Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch
Niferoedd dysgwyr llefydd gweigion	Nid oes tystiolaeth amlwg ar hyn o bryd y byddai datblygu Ysgol Nebo fel ysgol sy'n cynnig darpariaeth arbenigol yn arwain at gynnydd digonol a chynaliadwy mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel yn Ysgol Nebo (Niferoedd Ionawr 2026: 11 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin), gyda nifer y llefydd gweigion yn parhau'n uchel (40 o lefydd gweigion (78%) Derbyn – Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (79%) Meithrin – Blwyddyn 6). Mae rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y byddai niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf.	Gan y byddai dysgwyr yr Uned Bontio yn debygol o gael eu cofrestru yn eu hysgolion gwreiddiol, nid oes tystiolaeth amlwg y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig yn Ysgol Nebo. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel (Niferoedd Ionawr 2026: 11 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin), gyda nifer y llefydd gweigion yn parhau'n uchel (40 o lefydd gweigion (78%) Derbyn – Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (79%) Meithrin – Blwyddyn 6). Mae rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y byddai niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf.	Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio ag Ysgol Baladeulyn yn arwain at gynnydd mewn niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd Ysgol Nebo yn parhau'n isel yn (Niferoedd Ionawr 2026: 11 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin), gyda nifer y llefydd gweigion yn parhau'n uchel (40 o lefydd gweigion (78%) Derbyn – Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (79%) Meithrin – Blwyddyn 6). Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf.	Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai sefydlu bwrdd llywodraethu ffederal yn arwain at gynnydd mewn niferoedd dysgwyr yn Ysgol Nebo. Rhagwelir y byddai niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Nebo (Niferoedd Ionawr 2026: 11 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin), gyda nifer y llefydd gweigion yn parhau'n uchel (40 o lefydd gweigion (78%) Derbyn – Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (79%) Meithrin – Blwyddyn 6). Mae rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y byddai niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf.
Maint ddosbarthiadau	Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Ionawr 2026) gyda 5 dysgwr	Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Ionawr 2026) gyda 5 dysgwr	Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Ionawr 2026) gyda 5 dysgwr	Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Ionawr 2026) gyda 5 dysgwr

ac amrediad oedran	(Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Gan nad oes sicrwydd y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd sylweddol mewn niferoedd, rhagwelir y byddai maint dosbarthiadau Ysgol Nebo yn parhau'n fach. Byddai amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau yn parhau, gyda hyd at bum mlynedd oedran mewn un dosbarth a hyd at dair blynedd yn yr ail ddosbarth, yn debyg i'r sefyllfa bresennol.	(Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd mewn niferoedd cofrestredig, rhagwelir y byddai maint dosbarthiadau Ysgol Nebo yn parhau'n fach. Byddai amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau yn parhau, gyda hyd at bum mlynedd oedran mewn un dosbarth a hyd at dair blynedd yn yr ail ddosbarth, yn debyg i'r sefyllfa bresennol.	(Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd mewn niferoedd, rhagwelir y byddai maint dosbarthiadau Ysgol Nebo yn parhau'n fach. Byddai amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau yn parhau, gyda hyd at bum mlynedd oedran mewn un dosbarth a hyd at dair blynedd yn yr ail ddosbarth, yn debyg i'r sefyllfa bresennol.	(Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Gan nad oes cynnydd disgwylidig mewn niferoedd, rhagwelir y byddai maint dosbarthiadau Ysgol Nebo yn parhau'n fach, gydag amrediad oedran eang o fewn y dosbarthiadau, yn debyg i'r sefyllfa bresennol.
Adnoddau Ariannol	Bydd Ysgol Nebo wedi derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £64,046 yn 2026-27 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£16,066 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998. Gallai'r opsiwn yma olygu costau refeniw ychwanegol i gefnogi'r ddarpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr o'r sir gyfan, ac mae'n debygol y byddai costau cludiant ychwanegol yn codi i alluogi mynediad i'r ddarpariaeth. Nid oes tystiolaeth y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd sylweddol yn y	Bydd Ysgol Nebo yn derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £64,046 yn 2026-27 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£16,066 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998. Gallai'r opsiwn yma olygu costau refeniw ychwanegol i gefnogi'r ddarpariaeth bontio, ac mae'n debygol y byddai costau cludiant ychwanegol yn codi i alluogi mynediad i'r ddarpariaeth arbenigol.	Bydd Ysgol Nebo yn derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £64,046 yn 2026-27 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£16,066 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998. Cyfle i wneud arbedion drwy rannu adnoddau a chyflogi staff ar draws y ffederasiwn wrth benodi yn y dyfodol.	Bydd Ysgol Nebo yn derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £64,046 yn 2026-27 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau'n uchel (£16,066 y dysgwr) – sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o £5,998. Nid oes tystiolaeth y byddai'r opsiwn hwn yn ymateb i'r her ariannol hon yn y tymor canolig na'r tymor hir. Cyfleoedd i wneud arbedion drwy rannu adnoddau a chyflogi staff ar draws y ffederasiwn wrth benodi yn y dyfodol.

	niferoedd, ac felly ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn ymateb i'r her ariannol hon yn y tymor canolig na'r tymor hir.	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd cofrestredig nac yn lleihau'r costau fesul dysgwr, ac felly ni fyddai'n ymateb i'r her ariannol hon yn y tymor canolig na'r tymor hir.		
Arweinyddiaeth a Staffio	Swyddi presennol Ysgol Nebo yn parhau. Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn is na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio'r ysgol, mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. Byddai angen arbenigedd staffio ychwanegol i gefnogi'r ddarpariaeth arbennig fel ysgol.	Swyddi presennol Ysgol Nebo yn parhau. Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn is na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio'r ysgol, mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. Byddai angen arbenigedd staffio ychwanegol i gefnogi'r ddarpariaeth penodol dysgwyr ADY.	Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn is na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.	Cyfle i rannu arferion da rhwng yr ysgolion a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. Mae'r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn is na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae'r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio'r ysgol mae'r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.
Ffactorau Daearyddol	Byddai Ysgol Nebo o fewn pellter rhesymol i ddysgwyr y dalgylch presennol, ond gallai'r ddarpariaeth arbenigol olygu bod rhai dysgwyr yn teithio o rannau ehangach o'r Sir, gan godi ystyriaethau pellach o ran trefniadau cludiant.	Byddai Ysgol Nebo o fewn pellter rhesymol i ddysgwyr y dalgylch presennol, ond byddai angen trefnu cludiant i ddysgwyr sy'n mynychu'r Uned Bontio o ardaloedd ehangach o'r Sir.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch.

Y Gymuned	Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Byddai'r ddarpariaeth arbenigol yn cynnig potensial i gryfhau cysylltiadau cymunedol, ond nid oes sicrwydd y byddai'r opsiwn yn sicrhau cynnaladwyedd hirdymor y ddarpariaeth addysg ar y safle. Byddai ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynnaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo.	Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Byddai'r ddarpariaeth bontio yn cynnig potensial i gryfhau cysylltiadau cymunedol, ond nid oes sicrwydd y byddai'r opsiwn yn sicrhau cynnaladwyedd hirdymor y ddarpariaeth addysg ar y safle. Byddai ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynnaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo.	Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol. Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch Byddai ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynnaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo.	Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng yr ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn. Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch Byddai ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynnaladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo.
Yr Iaith Gymraeg	Dim newid – byddai dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.	Dim newid – byddai dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.	Dim newid – byddai dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.	Dim newid – Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Atodiad C

Asegiadau Effaith Ysgol Nebo

Asegiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg	1
Asegiad Effaith debygol ar drefniadau teithio	23
Asegiad Effaith debygol ar y Gymuned	33
Asegiad Effaith Ieithyddol	55
Asegiad Effaith Llesiant	73
Asegiad Effaith Cydraddoldeb	83

**ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR ANSAWDD A
SAFONAU ADDYSG –
YSGOL NEBO**

Mai 2026

1. CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Gynradd Nebo yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Nebo, sydd rhyw dair milltir o Benygroes, ac sydd yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3-11 oed. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo dros y blynyddoedd diwethaf, o 27 disgybl yn 2014 i 11 disgybl erbyn heddiw, sydd yn peri ansicrwydd ynghylch dyfodol yr ysgol.

Yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg i
“gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Nebo yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol.”

Yn unol â phenderfyniad y Cabinet (11 Chwefror 2025), sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Nebo (PAY) gan wahodd y Corff Llywodraethol, rhieni a staff a'r Aelod Lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth. Cynhaliwyd tri chyfarfod PAY rhwng Mawrth 2025 a Gorffennaf 2025 i drafod ystod o opsiynau i geisio datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, sydd yn cynnwys 'Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig', mae angen gwneud asesiad ar yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg ar unrhyw opsiwn rhesymol a ellir datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. At ddiben y Cod, mae Ysgol Nebo wedi ei dynodi fel 'Ysgol Wledig'.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau posibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ddarparu'r profiadau dysgu gorau posibl - ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wella safonau.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026, a derbyniwyd 70 ymateb i'r ymgynghoriad.

2. CRYNODEB

Bu i Ysgol Nebo gael ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2017 ble daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol yr ysgol yn 'Dda'.

Mae crynodeb isod o arolygon diwethaf Ysgol Nebo, yr ysgolion cyfagos, a'r ysgolion sy'n destun unrhyw un o'r opsiynau dan ystyriaeth ar gyfer dyfodol Ysgol Nebo.

Ysgol	Blwyddyn yr arolwg	Safonau	Lles ac agweddau at ddysgu	Addysgu a phrofiadau dysgu	Gofal, cymorth ac arweiniad	Arweinyddiaeth a rheolaeth
Nebo	2017	Da	Da	Da	Da	Da
Baladeulyn	2017	Da	Da	Da	Da	Da
Bro Llifon	2018	Da	Da	Da	Da	Da
Bro Lleu	2023	Fframwaith arolygu newydd				
Brynaerau	2025	Fframwaith arolygu newydd				
Talysarn	2025	Fframwaith arolygu newydd				
Llanllyfni	2025	Fframwaith arolygu newydd				

3. YR OPSIYNAU DAN SYLW

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model 'Gwneud dim' wedi ei gynnwys yn yr asesiad at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Bro Lleu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Bro Lleu.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer uned ADY yn Ysgol Nebo.

- *Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Nebo a chynnig lle i ddysgwyr y dalgylch yn Ysgol Llanllyfni.

- *Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ac yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol.

- *Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt.*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu parhau gyda Ysgol Nebo ac ychwanegu ardal ar gyfer uned ADY ar safle'r ysgol er mwyn cynnig darpariaeth i'r plant fyddai angen cefnogaeth ychwanegol.

- *Ysgol Nebo yn cynnig uned iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu parhau gyda Ysgol Nebo ac ychwanegu uned drochi iaith ar safle'r ysgol er mwyn cynnig gwasanaeth trochi yn y Gymraeg i siaradwyr newydd.

- *Sefydlu ysgol ar fwy nag un safle – Ysgol Aml-safle*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Nebo. Byddai'r opsiwn yn galluogi'r posibilrwydd o rannu adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb safle ysgol ym mhentref Nebo trwy sefydlu ysgol aml-safle, dan arweiniad pennaeth ac un corff llywodraethol.

Opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:

- *"Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth."*

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau gyda Ysgol Nebo a'i datblygu fel safle i gynnig darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc y mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt. Byddai'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, yn ogystal â phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl megis pryder a niwro amrywiaeth.

- *Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd*

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau gyda Ysgol Nebo a'i datblygu fel Uned Bontio i ddarparu cymorth dros dro i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol cyn neu wrth iddynt integreiddio i addysg brif ffrwd. Byddai'r ddarpariaeth yn canolbwyntio ar gefnogaeth strwythuredig i hwyluso pontio effeithiol.

- *Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb Ysgol Nebo drwy drefniant ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn. Byddai'r ysgolion yn gweithredu dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol ffederal. Byddai hunaniaeth pob ysgol, gan gynnwys enw, ethos a gwisg, yn parhau, gyda'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau ac arbenigedd.

- *Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch*

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu sefydlu Bwrdd Llywodraethu ffederal ar draws ysgolion y dalgylch i gryfhau cydweithio a goruchwyliaeth strategol. Byddai'r trefniant yn galluogi rhannu arbenigedd a chyfeiriad strategol cyffredin, gan gynnal presenoldeb ac hunaniaeth ysgolion unigol.

4. ASESIAD O EFFAITH TEBYGOL AR SAFONAU AC ANSAWDD ADDYSG

Rydym wedi defnyddio arolygon diweddaraf Estyn ar yr ysgolion perthnasol ar gyfer asesu y gwahanol opsiynau ar gyfer dyfodol addysg ar gyfer dalgylch Ysgol Nebo.

OPSIWN 1: GWNEUD DIM - PARHAU GYDA'R SEFYLLFA BRESENNOL

Byddai'r opsiwn yma yn golygu dim newid a bydda Ysgol Nebo yn parhau fel ac y mae.

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Dim newid.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Dim newid.	Niwtral
Profiadau dysgu ac addysgu	Dim newid.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Dim newid.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Dim newid.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Dim newid.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Dim newid.	Niwtral

OPSIWN 2: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer dangosyddion safonau Ysgol Nebo yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"cynnydd da o ran datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoedrannau a'u cam datblygu"</i> . Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Llew fod 'safonau addysg yn gadarn ar draws yr ysgol'. O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar safonau o ffedereiddio Ysgol Nebo gydag ysgol gyfagos megis Ysgol Llanllyfni neu Ysgol Bro Llew.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Nebo ar gyfer y maes arolygu 'Lles ac agweddau at ddysgu' yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"yr ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n meithrin gwerthoedd Cymreictod, cwrteisi a pharch. Mae disgyblion yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno"</i> . Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Llew fod " Mae disgyblion yn canmol y berthynas gadarnhaol sy'n bodoli rhyngddynt â staff yr ysgol. O ganlyniad, mae gan bron bob un disgybl ymddiriedaeth gadarn yn naws gynhwysol yr ysgol." O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar lles ac agweddau at ddysgu o ffedereiddio Ysgol Nebo gydag ysgol gyfagos megis Ysgol Llanllyfni neu Ysgol Bro Llew.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Profiadau dysgu'/'Addysgu a phrofiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Nebo, yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"cydweithio effeithiol rhwng staff yn arwain at gynllunio profiadau dysgu a chwarae ysgogol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac ar y cyd"</i> Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Llew fod yr ysgol <i>"yn darparu profiadau dysgu sy'n ysbrydoli disgyblion ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion at ddysgu"</i> O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar brofiadau dysgu ac addysgu.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' ar gyfer Ysgol Nebo, yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"staff yn ymroi i gynnal safonau uchel o ofal a lles mewn amgylchedd cartrefol a chefnogol."</i> Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Llew fod yr ysgol <i>"yn gymuned gynhwysol a chartrefol. Mae'r staff yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, a pharch yn llwyddiannus."</i> O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar gofal, cymorth ac arweiniad.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Mae Ysgol Nebo wedi cael ei asesu yn 'Dda' yn arolwg diweddaraf Estyn ar gyfer 'Arweinyddiaeth a rheolaeth'. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau arolwg estyn Ysgol Llanllyfni <i>"mae'r pennaeth yn darparu arweiniad clir a doeth, gan werthfawrogi cyfraniad pawb. Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd arweinwyr yn drylwyr ac effeithiol"</i> Yn ogystal, nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Llew fod <i>"arweinyddiaeth gadarn, ddeallus ac effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol"</i> Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, a gan y byddai'r model ffederaleiddio gydag ysgol/ysgolion cyfagos yn cynnig cyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth Ysgol Nebo, deuir i'r casgliad y	Positif/Niwtral

	byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith bositif neu o leiaf niwtral o weithredu'r opsiwn ffedereiddio.	
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai effaith yr opsiwn yma ar y maen prawf hwn.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau. Yn ogystal, roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Nebo yn 'Dda', fel ag yr oedd prif canfyddiadau arolwg Ysgol Llanllyfni. Yn seiliedig ar wybodaeth yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma.	Niwtral

OPSIWN 3: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS GAN YCHWANEGU UNED ARBENIGOL AR GYFER PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN YSGOL NEBO

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer dangosyddion safonau Ysgol Nebo yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"cynnydd da o ran datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoedrannau a'u cam datblygu"</i> . Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Llew fod 'safonau addysg yn gadarn ar draws yr ysgol'. O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar safonau o weithredu'r opsiwn yma.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Nebo ar gyfer y maes arolygu 'Lles ac agweddau at ddysgu' yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"yr ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n meithrin gwerthoedd Cymreictod, cwrteisi a pharch. Mae disgyblion yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno"</i> Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Llew fod <i>" Mae disgyblion yn canmol y berthynas gadarnhaol sy'n bodoli rhyngddynt â staff yr ysgol. O ganlyniad, mae gan bron bob un disgybl ymddiriedaeth gadarn yn naws gynhwysol yr ysgol."</i> O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar les ac agweddau at ddysgu o weithredu'r opsiwn yma.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Profiadau dysgu'/'Addysgu a phrofiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Nebo, yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"cydweithio effeithiol rhwng staff yn arwain at gynllunio profiadau dysgu a chwarae ysgogol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac ar y cyd"</i> Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Llew fod yr ysgol <i>"yn darparu profiadau dysgu sy'n ysbrydoli disgyblion ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion at ddysgu"</i> O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar brofiadau dysgu ac addysgu.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' ar gyfer Ysgol Nebo, yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"staff yn ymroi i gynnal safonau uchel o ofal a lles mewn amgylchedd cartrefol a chefnogol."</i> Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Llew fod yr ysgol <i>"yn gymuned gynhwysol a chartrefol. Mae'r staff yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, a pharch yn llwyddiannus."</i> O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar gofal, cymorth ac arweiniad.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Mae Ysgol Nebo wedi cael ei asesu yn 'Dda' yn arolwg diweddaraf Estyn ar gyfer 'Arweinyddiaeth a rheolaeth'. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau arolwg estyn Ysgol Llanllyfni <i>"mae'r pennaeth yn darparu arweiniad clir a doeth, gan werthfawrogi cyfraniad pawb. Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd arweinwyr yn drylwyr"</i> Yn ogystal, nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Llew fod <i>"arweinyddiaeth gadarn, ddeallus ac effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol"</i> Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, a gan y byddai'r model ffederaleiddio gydag ysgol/ysgolion cyfagos yn cynnig cyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth Ysgol Nebo, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith positif neu o leiaf niwtral o weithredu'r opsiwn yma.	Positif / Niwtral

Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. Rhagwelir y byddai'r opsiwn yn cael effaith gadarnhaol ar y meini prawf hwn gan y byddai'n ymestyn darpariaeth ADY yn yr ardal.	Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau. Yn ogystal, roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Nebo yn 'Dda', fel ag yr oedd prif ganfyddiadau arolwg Ysgol Llanllyfni. Yn seiliedig ar wybodaeth yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma. Yn ogystal, rhagwelir y byddai'r opsiwn yn cael effaith gadarnhaol ar meini prawf hwn gan y byddai'n ymestyn y ddarpariaeth ADY yn yr ardal.	Positif/ Niwtral

OPSIWN 4: CAU YSGOL NEBO A CHYNNIG LLE I'R DYSGWYR MEWN YSGOL CYFAGOS (YSGOL LLANLLYFNI)

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Nebo yn 'Dda', Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"cynnydd da o ran datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoedrannau a'u cam datblygu"</i> . . Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn drwy addysgu'r dysgwyr yn ysgol Llanllyfni. Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nododd rhai ymatebwyr bryder y gallai cau'r ysgol olygu colli darpariaeth addysgol o ansawdd da, gan dynnu sylw at y ffaith bod Ysgol Nebo wedi'i hasesu'n 'Dda' gan Estyn. Wrth asesu'r effaith debygol, ystyrir y dystiolaeth arolygu berthnasol ar gyfer y ddwy ysgol, ac ni ragwelir y byddai safonau na chynnydd dysgwyr yn dirywio o ganlyniad i addysgu yn Ysgol Llanllyfni.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Nebo ar gyfer y maes arolygu 'Lles ac agweddau at ddysgu' yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"yr ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n meithrin gwerthoedd Cymreictod, cwrteisi a pharch. Mae disgyblion yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno"</i> . . Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y maes yma trwy addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni. Mynegwyd pryderon yn ystod yr ymgynghoriad am effaith negyddol posibl newid ysgol ar lesiant, hyder ac agweddau at ddysgu rhai dysgwyr. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod pontio'n gyfnod sensitif, ond rhagwelir y byddai trefniadau pontio sydd wedi'u cynllunio'n ofalus, gyda chefnogaeth briodol, yn gallu lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ar lesiant a dysgu.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Profiadau dysgu'/'Addysgu a phrofiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Nebo, yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"cydweithio effeithiol rhwng staff yn arwain at gynllunio profiadau dysgu a chwarae ysgogol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac ar y cyd"</i> Er hynny, gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni rhagwelir bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy a chyda cyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Nebo yn Ysgol Llanllyfni. Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd manteision dosbarthiadau bach, gan gynnwys sylw unigol a pherthnasoedd agos rhwng staff a dysgwyr. Er bod y Cyngor yn nodi'r manteision hyn, nodir hefyd bod ysgolion mwy yn gallu cynnig ystod ehangach o brofiadau dysgu, mynediad at adnoddau ac arbenigedd staff, a chyfleoedd i ddysgu gyda chyfoedion oed-berthnasol, sy'n cefnogi'r asesiad o effaith gadarnhaol ar y maes hwn.	Positif
Gofal, cymorth ac arweiniad	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' ar gyfer Ysgol Nebo, yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"staff yn ymroi i gynnal safonau uchel o ofal a lles mewn amgylchedd cartrefol a chefnogol."</i> O ganlyniad, bernir y byddai'r opsiwn yn cael effaith niwtral.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Mae Ysgol Nebo wedi cael ei asesu yn 'Dda' yn arolwg diweddaraf Estyn ar gyfer 'Arweinyddiaeth a rheolaeth'. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau arolwg estyn Ysgol Llanllyfni <i>"mae'r pennaeth yn darparu arweiniad clir a doeth, gan werthfawrogi cyfraniad pawb. Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd arweinwyr yn drylwyr ac effeithiol"</i>	Niwtral

	Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith niwtral o addysgu dysgwyr dalgylch Nebo yn Ysgol Llanllyfni.	
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. Wrth gynllunio staffio (e.e. rôl y CADY) a'r map darpariaeth, mae'r gofyn ar ysgolion yn heriol, ac mae hynny yn dod yn fwy amlwg wrth ystyried y gofyn ar ysgolion llai. Mewn ysgolion mwy mae amodau'r cydlynnydd anghenion ychwanegol yn well, ac mae cyfarch y gofyn statudol yn haws yn sgil hynny. Yn ogystal, mae ymateb i angen y dysgwyr hefyd yn haws mewn ysgolion mwy gan y gallent efallai cynnal grŵp ymyrraeth i dargedu anghenion penodol. Mae map darpariaeth yn fwy eang mewn ysgolion mwy er mwyn ymateb i'r gofyn. O ganlyniad, gan y byddai'r dysgwyr yn cael cynnig lle mewn ysgol gyda nifer uwch o ddysgwyr, rhagwelir mai positif fyddai effaith yr opsiwn yma ar y maen prawf hwn. Codwyd pryderon penodol yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch effaith trosglwyddo i ysgol fwy ar ddysgwyr bregus, gan gynnwys dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu anghenion emosiynol. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn. Fel y nodir yn Llawlyfr Rhieni Gwynedd 2025/26, mae gan ddysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y cymorth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid. Pe byddai Ysgol Nebo yn cau, byddai'r awdurdod a'r ysgol amgen yn cydweithio'n agos â'r ysgol sy'n cau, gyda'r dysgwyr a'u teuluoedd, i sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac i gefnogi'r dysgwyr wrth ymgartrefu yn eu hysgolion newydd. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau bod unrhyw drefniadau pontio yn rhoi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i ddysgwyr bregus a dysgwyr gyda anghenion dysgu ychwanegol, ac i fonitro effaith y newid ar grwpiau gwarchodedig yn barhaus, pe byddai'r ysgol yn cau.	Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Nebo yn 'Dda', fel ag yr oedd prif ganfyddiadau arolwg Ysgol Llanllyfni. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o addysgu dysgwyr dalgylch Ysgol Nebo yn Ysgol Llanllyfni. O ganlyniad, rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar hyn o bryd yn Ysgol Nebo, fan lleiaf. Er bod rhai ymatebwyr wedi mynegi pryderon ynghylch colli darpariaeth addysgol o ansawdd, mae'r dystiolaeth arolygu ddiweddaraf ar gyfer y ddwy ysgol yn dangos bod safonau a darpariaeth addysgol cryf ar waith, gyda chanfyddiadau cadarnhaol yn arolwg diweddaraf Ysgol Nebo ac yn arolwg Ysgol Llanllyfni. Yn seiliedig ar hyn, asesir y byddai'r ddarpariaeth yn Ysgol Llanllyfni o leiaf yn cyfateb i'r hyn sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd i ddysgwyr Ysgol Nebo.	Niwtral

**OPSIWN 5: YSGOL NEBO YN DATBLYGU YN LEOLIAD ARBENIGOL AR GYFER RHAI PYNCAU UNIGOL
(CYFLEON UNIGRYW I GYFLAWNI GWAITH MAES)**

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau i ddarparu addysg gynradd statudol, fel ag y mae yn bresennol, ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau i ddarparu addysg gynradd statudol, fel ag y mae yn bresennol, ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	Gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau i ddarparu addysg gynradd statudol, fel ag y mae yn bresennol, ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau i ddarparu addysg gynradd statudol, fel ag y mae yn bresennol, ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau i ddarparu addysg gynradd statudol, fel ag y mae yn bresennol, ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau i ddarparu addysg gynradd statudol, fel ag y mae yn bresennol, ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau i ddarparu addysg gynradd statudol, fel ag y mae yn bresennol, ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral

OPSIWN 6: YSGOL NEBO YN CYNNIG UNED ARBENIGOL AR GYFER CEFNOGI PLANT SYDD GYDAG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL, LLE MAE ADDYSG PRIF LIF YN HERIOL IDDYNT

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Gan y byddai'r uned arbenigol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Gan y byddai'r uned arbenigol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	Gan y byddai'r uned arbenigol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Gan y byddai'r uned arbenigol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Gan y byddai'r uned arbenigol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Gan y byddai'r uned arbenigol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r uned arbenigol yn effeithio ar yr ysgol, rhagwelir y gallai'r adnodd newydd gael effaith positif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr ADY yn yr ardal.	Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Gan y byddai'r uned arbenigol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r uned arbenigol yn effeithio ar yr ysgol, rhagwelir y gallai'r adnodd newydd gael effaith positif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr ADY yn yr ardal.	Positif

OPSIWN 7: YSGOL NEBO YN CYNNIG UNED IAITH AR GYFER DALGYLCH DYFFRYN NANTLLE

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral

OPSIWN 8: SEFYDLU YSGOL AML-SAFLE

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cynradd cyfagos eraill hefyd (ysgolion cynradd dalgylch Dyffryn Nantlle) yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"cynnydd da o ran datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoeddrannau a'u cam datblygu"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Brynaerau a Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) fod <i>"athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i bron bob disgybl gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn ffyrdd ystyrlon"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu fod <i>"rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus, yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac oedolion ac yn ymateb yn frwd i'w gwaith"</i> . Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/Positif
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion llesiant ac agweddau at ddysgu Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer yr ysgolion cyfagos (dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd prif ganfyddiadau arolwg Ysgol Llanllyfni fod <i>"yr ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n meithrin gwerthoedd Cymreictod, cwrtseis a pharch. Mae disgyblion yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno"</i> gyda prif ganfyddiadau arolwg Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn <i>"gymuned gynnes a gofalgar lle mae lles a chynnydd disgyblion yn greiddiol i'w ethos"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu <i>"Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol ac yn dangos aeddfedrwydd yn y ffordd maent yn goresgyn heriau ac yn datblygu gwytnwch"</i> . Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/Positif
Profiadau addysgu a dysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion profiadau addysgu a dysgu Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer yr ysgolion cyfagos (dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd prif ganfyddiadau arolwg Ysgol Llanllyfni fod <i>"cydweithio effeithiol rhwng staff yn arwain at gynllunio profiadau dysgu a chwarae ysgogol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac ar y cyd"</i> gyda prif ganfyddiadau Ysgol Brynaerau a Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn nodi <i>"Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog sy'n ymgysylltu a diddordebau'r disgyblion"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu <i>"Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cyfoethog sy'n adlewyrchu ei natur a'i chyd-destun lleol. Mae'r athrawon yn casglu syniadau gan y disgyblion, y rhieni a'r gymuned leol wrth greu cwricwlwm perthnasol i'r disgyblion"</i> . Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu	Niwtral/Positif

Tud. 201

	arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	
Gofal, cymorth ac arweiniad	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion arweiniad a chymorth gofal Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cyfagos (dalylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"staff yn ymroi i gynnal safonau uchel o ofal a lles mewn amgylchedd cartrefol a chefnogol."</i> Gydag arolwg ysgol Brynaerau a ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn nodi <i>"Mae'r berthynas gadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn sicrhau amgylchedd cefnogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus i fynychu'r ysgol"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu <i>"Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol. Mae'r staff yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, a pharch yn llwyddiannus"</i> . Yn seiliedig ar hyn, deir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/Positif
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion arweinyddiaeth a rheolaeth Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cyfagos (Dalylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau arolwg estyn Ysgol Llanllyfni <i>"mae'r pennaeth yn darparu arweiniad clir a doeth, gan werthfawrogi cyfraniad pawb. Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd arweinwyr yn drylwyr ac effeithiol"</i> gydag arolwg Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn nodi, <i>"Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac ysbrydoledig, ac mae'r staff yn rhannu a gweithredu ei gweledigaeth yn effeithiol"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu <i>"Mae arweinyddiaeth gadarn, ddeallus ac effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol"</i> . Yn seiliedig ar hyn, deir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/Positif
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 fel ym mhob ysgol yng Ngwynedd. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da, arbenigedd a phrofiadau rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Nebo yn 'Dda', ac yr oedd canlyniad arolygon yr ysgolion cyfagos yn Dalylch Dyffryn Nantlle hefyd yn cyfateb i safonau Ysgol Nebo. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/Positif

OPSIWN 15.1: “Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.”

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Rhagwelir y gallai'r opsiwn yma gael effaith niwtral neu rannol gadarnhaol ar safonau'r ddarpariaeth, yn sgil y ddarpariaeth arbenigol a fyddai'r ysgol yn ei gynnig.	Niwtral/Positif
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Rhagwelir effaith niwtral neu rannol gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth o ran cefnogi llesiant ac agweddau at ddysgu, yn sgil datblygu darpariaeth arbenigol o fewn yr ysgol.	Niwtral/Positif
Profiadau addysgu a dysgu	Rhagwelir y gallai'r opsiwn yma gryfhau profiadau addysgu a dysgu o fewn y ddarpariaeth drwy gyflwyno dulliau arbenigol i ategu'r ddarpariaeth brif ffrwd.	Niwtral/Positif
Gofal, cymorth ac arweiniad	Rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Rhagwelir effaith niwtral neu rannol gadarnhaol ar y ddarpariaeth i grwpiau agored i niwed, yn sgil y ddarpariaeth arbenigol a fyddai'n cael ei chynnig fel rhan o weithrediad yr ysgol.	Niwtral/Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Rhagwelir y byddai'r opsiwn yma'n sicrhau darpariaeth sy'n cyfateb o leiaf i'r trefniadau presennol, gyda manteision posibl o ran y ddarpariaeth arbenigol arfaethedig.	Niwtral/Positif

OPSIWN 15.2: Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Gan y byddai'r uned yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Gan y byddai'r uned yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	Gan y byddai'r uned yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Gan y byddai'r uned yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Gan y byddai'r uned yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Gan y byddai'r uned yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r uned yn effeithio ar yr ysgol, rhagwelir y gallai'r adnodd newydd gael effaith positif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr gydag ADY yn yr ardal.	Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Gan y byddai'r uned yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r uned yn effeithio ar yr ysgol, rhagwelir y gallai'r adnodd newydd gael effaith positif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr gydag ADY yn yr ardal.	Positif

OPSIWN 15.5: Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gyda Ysgol Baladeulyn. Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer dangosyddion safonau Ysgol Nebo yn 'Dda'. Yn ogystal, roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer dangosyddion safonau Ysgol Baladeulyn hefyd yn 'Dda'. O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar safonau o ffedereiddio Ysgol Nebo gydag Ysgol Baladeulyn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Nebo ar gyfer y maes arolygu 'Lles ac agweddau at ddysgu' yn 'Dda'. Yn ogystal, roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer Ysgol Baladeulyn hefyd yn 'Dda'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, a gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau fel endid ar wahân o dan yr opsiwn hwn, deuir i'r casgliad mae effaith niwtral a ragwelir ar y maes yma o ffedereiddio Ysgol Nebo gydag Ysgol Baladeulyn.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Profiadau addysgu a dysgu' ar gyfer Ysgol Nebo. Yn ogystal, roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer Ysgol Baladeulyn hefyd yn 'Dda'. O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar brofiadau dysgu ac addysgu.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' yn Ysgol Nebo yn eu harolwg diwethaf, roedd canlyniad arolwg Estyn Ysgol Baladeulyn hefyd yn 'Dda' o dan yr un dangosydd. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, a gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau fel endid ar wahân o dan yr opsiwn hwn, deuir i'r casgliad mae effaith niwtral a ragwelir ar y maes yma o ffedereiddio gydag ysgol Baladeulyn.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf Ysgol Nebo fod yr arweinyddiaeth yn yr ysgol yn 'Dda'. Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Baladeulyn hefyd yn 'Dda' o dan yr un dangosydd. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, ac gan y byddai'r opsiwn ffederaleiddio gydag ysgol Baladeulyn yn cynnig cyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth Ysgol Nebo, megis amser digyswllt i'r pennaeth, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith rhannol bositif neu o leiaf niwtral o weithredu'r opsiwn ffedereiddio.	Niwtral / Positif
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai effaith yr opsiwn yma ar y maen prawf hwn.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau. Yn ogystal, roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Nebo a Ysgol Baladeulyn yn 'Dda'. Yn seiliedig ar wybodaeth yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma.	Niwtral

OPSIWN 15.6: Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cynradd cyfagos eraill hefyd (ysgolion cynradd dalgylch Dyffryn Nantlle) yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"cynnydd da o ran datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoedrannau a'u cam datblygu"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Brynaerau a Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) fod <i>"athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i bron bob disgybl gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn ffyrdd ystyrlon"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu fod <i>"rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus, yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac oedolion ac yn ymateb yn frwd i'w gwaith"</i> . O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar safonau o sefydlu Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion llesiant ac agweddau at ddysgu Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer yr ysgolion cyfagos (dalgyllch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd prif ganfyddiadau arolwg Ysgol Llanllyfni fod <i>"yr ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n meithrin gwerthoedd Cymreictod, cwrteisi a pharch. Mae disgyblion yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno"</i> gyda prif ganfyddiadau arolwg Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn <i>"gymuned gynnes a gofalgar lle mae lles a chynnydd disgyblion yn greiddiol i'w ethos"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu <i>"Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol ac yn dangos aeddfedrwydd yn y ffordd maent yn goresgyn heriau ac yn datblygu gwytnwch"</i> . O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar lles ac agweddau at ddysgu o sefydlu Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion profiadau addysgu a dysgu Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer yr ysgolion cyfagos (dalgyllch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd prif ganfyddiadau arolwg Ysgol Llanllyfni fod <i>"cydweithio effeithiol rhwng staff yn arwain at gynllunio profiadau dysgu a chwarae ysgogol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac ar y cyd"</i> gyda prif ganfyddiadau Ysgol Brynaerau a Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn nodi <i>"Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog sy'n ymgysylltu a diddordebau'r disgyblion"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu <i>"Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cyfoethog sy'n adlewyrchu ei natur a'i chyd-destun lleol. Mae'r athrawon yn casglu syniadau gan y disgyblion, y rhieni a'r gymuned leol wrth greu cwricwlwm perthnasol i'r disgyblion"</i> . O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar brofiadau dysgu ac addysgu.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion arweiniad a chymorth gofal Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cyfagos (dalgyllch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"staff yn ymroi i gynnal safonau uchel o ofal a lles mewn amgylchedd cartrefol a chefnogol."</i> Gydag arolwg ysgol Brynaerau a ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn nodi <i>"Mae'r berthynas gadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn sicrhau amgylchedd cefnogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus i fynychu'r ysgol"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu <i>"Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol. Mae'r staff yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, a pharch yn llwyddiannus"</i> . Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad	Niwtral

	Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion. O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar gofal, cymorth ac arweiniad	
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion arweiniad a chymorth gofal Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cyfagos (dalgyrch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"staff yn ymroi i gynnal safonau uchel o ofal a lles mewn amgylchedd cartrefol a chefnogol."</i> Gydag arolwg ysgol Brynaerau a ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn nodi <i>"Mae'r berthynas gadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn sicrhau amgylchedd cefnogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus i fynychu'r ysgol"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu <i>"Mae arweinyddiaeth gadarn, ddeallus ac effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol"</i> . Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, ac gan y byddai'r opsiwn ffederaleiddio hwn yn cynnig cyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth Ysgol Nebo, megis amser digyswllt i'r pennaeth, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith rhannol bositif neu o leiaf niwtral o weithredu'r opsiwn hwn.	Niwtral/Positif
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 fel ym mhob ysgol yng Ngwynedd. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai effaith yr opsiwn yma ar y maen prawf hwn.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Nebo yn 'Dda', ac yr oedd canlyniad arolygon yr ysgolion cyfagos yn Nalgylch Dyffryn Nantlle hefyd yn cyfateb i safonau Ysgol Nebo. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma.	Niwtral

4. CASGLIAD

Mae'r asesiad diweddaraf hwn o'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg wedi ystyried y sylwadau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, ynghyd ag asesiad o'r ystod lawn o opsiynau amgen rhesymol, gan gynnwys yr opsiynau ychwanegol a gynigiwyd gan ymgynghorai. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch cryfderau presennol Ysgol Nebo, manteision dosbarthiadau bach, a'r gefnogaeth a ddarperir i rai dysgwyr bregus.

Wrth ystyried opsiynau amgen rhesymol megis datblygu darpariaethau arbenigol neu bontio ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, trefniadau ffederaleiddio, a dulliau amgen o ddefnyddio'r safle, dengys yr asesiad y gallai'r rhain gael effaith niwtral neu rannol gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg mewn cyd-destunau penodol.

Ar sail cymharu canfyddiadau arolygiadau Estyn a'r dystiolaeth a gyflwynwyd drwy'r asesiad, deuir i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol a gynigir yn Ysgol Llanllyfni yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Nebo ar hyn o bryd, fan lleiaf. Yn ogystal, nodir bod niferoedd dysgwyr yr ysgol yn galluogi cyfleoedd ehangach i addysgu dysgwyr mewn grwpiau oed berthnasol, gyda chyfoedion, gan ehangu profiadau dysgu a chynnig manteision posibl i brofiadau addysgu a dysgu.

O ganlyniad, dengys yr asesiad mai niwtral neu rannol gadarnhaol yw'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg o weithredu'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo a darparu addysg i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni.

**ASESIAD EFFAITH TEBYGOL AR DREFNIADAU
TEITHIO –
YSGOL NEBO**

Mai 2026

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cefndir

Mae Ysgol Nebo yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Nebo, sydd rhyw dair milltir o Benygroes, ac sydd yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3-11 oed. Mae gostyngiad wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, Ionawr 2026, dim ond 11 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin sy'n mynychu'r ysgol.

Yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda rhanddeiliaid Ysgol Nebo er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Nebo ymhle cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau.

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026, a derbyniwyd 70 ymateb i'r ymgynghoriad.

1.2 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

Mae strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*' yn anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (nid yw'n cynnwys dysgwyr meithrin). Disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni: [Gwybodaeth i Rieni](#)

2. ASESIAD O EFFAITH TEBYGOL POB OPSIWN AR DREFNIADAU TEITHIO

2.1 Nodir isod effaith tebygol pob opsiwn ar drefniadau teithio:

- Dim newid- Parhau gyda'r sefyllfa bresennol

Byddai'r model yma yn golygu na fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol yn nalgylch Ysgol Nebo.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio.

Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo.

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer uned ADY yn Ysgol Nebo

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY.

- Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)

Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni.

Mae Ysgol Llanllyfni wedi ei leoli 1.6 milltir o Ysgol Nebo. Dyma'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Nebo.

Byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio, gan y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu yn Ysgol Llanllyfni. Byddai angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo i Ysgol Llanllyfni, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd. Rhagwelir costau cludiant ychwanegol (amcan gost) rhwng £17,000 i hyd at £30,000 y flwyddyn. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- *Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)*

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- *Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydaq anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt.*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu parhau gyda Ysgol Nebo ac ychwanegu ardal ar gyfer uned ADY ar safle'r ysgol er mwyn cynnig darpariaeth i'r plant fyddai angen cefnogaeth ychwanegol. Ni fydd unrhyw newid i'r elfen ysgol.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- *Ysgol Nebo yn cynnig uned iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu ychwanegu uned iaith ar safle'r ysgol er mwyn cynnig gwasanaeth trochi iaith i'r plant yn y Gymraeg sydd ei angen cyn ymuno a'u hysgolion dewisol yn llawn amser. Ni fyddai unrhyw newid i'r elfen ysgol.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwr yr uned iaith.

- *Sefydlu Ysgol ar fwy naq un safle (Ysgol Aml-safle)*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Nebo.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu ar safle Ysgol Nebo. Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn ar safle Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng safleoedd ysgolion.

Opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:

- *“Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.”*

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau gyda Ysgol Nebo a'i datblygu fel safle i gynnig darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc y mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt. Byddai'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, yn ogystal â phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl megis pryder a niwro amrywiaeth.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd, ac ni fyddai disgwyl i unrhyw ddysgwr deithio pellter afresymol i'r ysgol. O ystyried y byddai'r drefn mynediad yn parhau heb ei newid, byddai'r trefniadau cludiant arferol yn parhau i fod yn berthnasol, yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Sir. Byddai trefniadau cludiant sy'n gysylltiedig â darpariaeth ADY hefyd yn cael eu darparu a'u hystyried yn unol â'r un polisi, lle bo hynny'n briodol.

- Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau gyda Ysgol Nebo a'i datblygu fel Uned Bontio i ddarparu cymorth dros dro i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol cyn neu wrth iddynt integreiddio i addysg brif ffrwd. Byddai'r ddarpariaeth yn canolbwyntio ar gefnogaeth strwythuredig i hwyluso pontio effeithiol.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd, ac ni fyddai disgwyl i unrhyw ddysgwr deithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynnol ar natur y ddarpariaeth arbenigol, gallai fod angen i'r awdurdod ystyried trefniadau cludiant ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu'r ddarpariaeth o ddalgylchoedd eraill.

- Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn

Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb Ysgol Nebo drwy drefniant ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn. Byddai'r ysgolion yn gweithredu dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol ffederal. Byddai hunaniaeth pob ysgol, gan gynnwys enw, ethos a gwisg, yn parhau, gyda'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau ac arbenigedd.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu ar safle Ysgol Nebo. Byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd, ac ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu sefydlu Bwrdd Llywodraethu ffederal ar draws ysgolion y dalgylch i gryfhau cydweithio a goruchwyliaeth strategol. Byddai'r trefniant yn galluogi rhannu arbenigedd a chyfeiriad strategol cyffredin, gan gynnal presenoldeb ac hunaniaeth ysgolion unigol.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr, gan na fyddai'n arwain at newidiadau i leoliad y ddarpariaeth ysgol. Byddai dysgwyr yn parhau i fynychu eu hysgolion presennol ac ni fyddai angen unrhyw newid i drefniadau cludiant i'r dysgwyr.

2.2 Opsiynau cludiant di-dâl

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf.

Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Nodir fod nifer o fysiau ysgol yn rhedeg yn yr ardal. Nodir nad oes ar hyn o bryd fws ysgol gynradd yn rhedeg rhwng Nebo a Llanllyfni; fodd bynnag, mae bws ysgol uwchradd yn teithio rhwng Nebo a Dyffryn Nantlle, ac fe allai opsiynau posibl ar gyfer rhannu cludiant gael eu hystyried, yn unol â threfniadau sy'n bodoli mewn rhannau eraill o'r Sir.

2.3 Crynodeb o'r effaith tebygol ar drefniadau teithio

Mae crynodeb isod o'r effaith ar drefniadau teithio yr opsiynau dan ystyriaeth:

Opsiynau	Yr effaith debygol ar drefniadau teithio i ddysgwyr	Yr effaith debygol ariannol blynyddol ar drefniadau teithio i'r Awdurdod
Dim newid- Parhau gyda'r sefyllfa bresennol	Niwtral – Dim newid Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	£0
Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos (Ysgol Llanllyfni)	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	£0
Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY.	£0 Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.
Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)	Negyddol Mae Ysgol Llanllyfni wedi ei lleoli 1.6 milltir o Ysgol Nebo. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr dalgylch presennol Ysgol Nebo fyddai'n mynychu Ysgol Llanllyfni ac yn byw fwy na 2 filltir o'r ysgol, yn unol â Pholisi Cludiant yr Awdurdod.	£17,000 - £30,000

	Wedi ystyried niferoedd presennol (Medi 2025), rhagwelir y byddai angen trefnu bws 8 sedd i gludo dysgwyr dalgylch Ysgol Nebo (fyddai'n gymwys am gludiant yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd) i Ysgol Llanllyfni. Rhagwelir y byddai hyn ar gost o hyd at £17,000 y flwyddyn. Pe byddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr y dalgylch i'r dyfodol, yna fe all olygu y byddai angen darparu bws ysgol er mwyn cludo dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Nebo fyddai'n gymwys am gludiant (yn unol a pholisi cludiant Cyngor Gwynedd). Rhagwelir y byddai hyn ar gost o hyd at £30,000 y flwyddyn. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. <i>Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, codwyd pryderon ynghylch effaith bosibl y cynnig ar drefniadau teithio pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, yn enwedig o safbwynt diogelwch traffig a pharcio o amgylch Ysgol Llanllyfni ar adegau brig. Nodwyd bod trefniadau gollwng a llif traffig eisoes yn heriol ar adegau penodol, a bod pryder y gallai cynnydd mewn niferoedd dysgwyr ychwanegu at y risgiau hyn. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn ac yn cydnabod bod heriau hanesyddol wedi bod o ran trefniadau gollwng ar y safle; fodd bynnag, nodir bod trefniadau priodol bellach wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys trefniadau cludiant a drefnir, a byddai unrhyw oblygiadau pellach yn parhau i gael eu hystyried fel rhan o gynllunio trefniadau cludiant pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.</i> <i>Codwyd pryderon hefyd ynghylch addasrwydd a diogelwch llwybrau cerdded rhwng Nebo a Llanllyfni, yn enwedig o safbwynt diffyg palmentydd a'r risgiau posibl i blant oed cynradd. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn ac yn cadarnhau, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, y byddai addasrwydd llwybrau cerdded yn cael ei asesu yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd. O dan y Polisi hwn, darperir cludiant ysgol di-dâl i ddysgwyr cynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'u hysgol dalgylch, neu'r ysgol agosaf, gan sicrhau na fyddai unrhyw ddysgwr yn gorfod defnyddio llwybrau anniogel.</i> <i>Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch addasrwydd cludiant bws i blant ifanc, gan gynnwys dysgwyr pedair oed, o safbwynt llesiant a diogelwch. Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau hyn ac yn cadarnhau bod pob trefniant cludiant ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd, ac y byddai trefniadau cludiant priodol yn cael eu hystyried ar sail anghenion unigol dysgwyr cymwys, yn unol â'r un meini prawf a gymhwysir i bob dysgwr arall o fewn y sir, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Nodir nad yw disgyblion dosbarth meithrin yn gymwys ar gyfer cludiant ysgol di-dâl o dan y Polisi.</i> <i>Mynegwyd hefyd galwad am eglurder a sicrwydd pellach ynghylch trefniadau cludiant pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae'r Cyngor yn nodi'r angen hwn ac yn cadarnhau, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, y byddai cludiant ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â'r Polisi Cludiant Addysg Gwynedd, sy'n darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr cynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol dalgylch neu'r ysgol agosaf. Nodir nad yw'r polisi'n cynnwys cludiant at</i>	

	<i>ddibenion cael mynediad at wasanaethau ychwanegol megis clwb brecwast.</i>	
Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	£0
Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol	£0 Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiad i ddysgwyr yr uned ADY.
Ysgol Nebo yn cynnig uned iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwr yr uned iaith.	£0 Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiad i ddysgwyr yr uned iaith.
Sefydlu Ysgol ar fwy nag un safle	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn ar safle Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng safleoedd ysgolion.	£0

2.4 Opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad:

Opsiynau	Yr effaith debygol ar drefniadau teithio i ddysgwyr	Yr effaith debygol ariannol blyneddol ar drefniadau teithio i'r Awdurdod
"Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion	Niwtral. Byddai'r ddarpariaeth yn parhau ar safle Ysgol Nebo, ac ni fyddai unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr dalgylch Nebo.	£0

cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.”		
Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd	Niwtral. Ni fyddai newid i drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo. Gallai dysgwyr sy’n mynychu’r Uned Bontio ddod o ardaloedd ehangach, a gallai fod angen darparu cludiant iddynt.	£0 ar gyfer dysgwyr dalgylch Nebo. Costau posibl yn ddibynnol ar ddarparu cludiant i ddysgwyr yr Uned Bontio o ardaloedd eraill.
Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn	Niwtral. Byddai’r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio’r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i’r ysgol.	£0
Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch	Niwtral. Byddai’r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio’r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i’r ysgol.	£0

3. CASGLIAD

Wrth ystyried yr holl opsiynau dan sylw, daw'r asesiad effaith i'r casgliad nad yw'r mwyafrif o'r opsiynau a aseswyd yn debygol o gael effaith negyddol ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r ddarpariaeth addysgol yn parhau ar safle'r ysgol, ac ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol.

Fodd bynnag, cydnabyddir yn glir, fel y nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, fod y cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni yn wahanol ei natur, gan y byddai'n arwain at newid i drefniadau teithio. Yn benodol, bu i ymgynghorai fynegi pryderon ynghylch diogelwch traffig a pharcio o amgylch Ysgol Llanllyfni, addasrwydd llwybrau cerdded i blant oed cynradd, addasrwydd cludiant bws i blant ifanc, costau cludiant ysgol, a'r effaith ar deuluoedd mewn ardal wledig. Mae'r pryderon hyn wedi'u hystyried fel rhan o'r asesiad effaith yma, sy'n asesu'r effaith y newidiadau posibl i drefniadau teithio pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Pe byddai'r opsiwn o gau Ysgol Nebo a chynnig addysg i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y byddai effaith ar drefniadau teithio i'r plant. Fodd bynnag ni ragwelir y bydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Nodir y byddai cludiant ysgol i'r ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd lle bo'n berthnasol, ac nad yw'n ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr o ddalgylch Nebo yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol na defnyddio llwybrau i'r ysgol a ystyrir yn anniogel.

Wrth ystyried y data niferoedd diweddaraf, sef Ionawr 2026, rhagwelir y byddai angen trefnu cludiant 8 sedd er mwyn cludo dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Nebo fyddai'n gymwys am gludiant (yn unol a pholisi cludiant Cyngor Gwynedd) i Ysgol Llanllyfni. Amcangyfrifir i'r costau cludiant hyn fod oddeutu £17,000 y flwyddyn.

Pe byddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr y dalgylch i'r dyfodol, yna fe all olygu y byddai angen darparu bws ysgol er mwyn cludo dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Nebo fyddai'n gymwys am gludiant (yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd). Amcangyfrifir i'r costau cludiant hyn fod oddeutu £30,000 y flwyddyn.

O ganlyniad, rhagwelir y byddai'r opsiwn i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Llanllyfni yn arwain at gostau cludiant ychwanegol i'r Awdurdod. Amcangyfrifir i'r costau hyn fod oddeutu £17,000-£30,000 y flwyddyn i ddarparu cludiant pe byddai holl ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo yn dewis mynychu Ysgol Llanllyfni.

ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR Y GYMUNED –

YSGOL NEBO

Mai 2026

1. CYFLWYNIAD

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer trefniadaeth ysgolion, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnal asesiad o effaith debygol ar y gymuned, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Cefndir

Mae Ysgol Gynradd Nebo yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Nebo, sydd rhyw dair milltir o Benygroes, ac sydd yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3-11 oed. Mae gostyngiad wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, Ionawr 2026, dim ond 11 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin sy'n mynychu'r ysgol.

Yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda rhanddeiliaid Ysgol Nebo er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Nebo ymhle cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau.

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026, a derbyniwyd 70 ymateb i'r ymgynghoriad.

2. YR OPSIYNAU

Bu i'r Awdurdod ystyried a thrafod nifer o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Nebo, gan gynnwys:

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol*
- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Bro Lleu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo.*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Bro Lleu.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer uned ADY ar safle'r ysgol.

- *Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Nebo yn cau, ac y byddai dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Nebo yn cael cynnig lle yn Ysgol Llanllyfni (yr ysgol amgen).

- *Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ac yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol.

- *Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt.*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu ychwanegu ardal ar gyfer uned ADY ar safle'r ysgol er mwyn cynnig darpariaeth ar gyfer plant gydag anghenion dysgu ychwanegol.

- *Ysgol Nebo yn cynnig uned iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu ychwanegu uned drochi iaith ar safle'r ysgol er mwyn cynnig gwasanaeth trochi yn y Gymraeg i siaradwyr newydd

- *Sefydlu ysgol ar fwy nag un safle – Ysgol Aml-safle*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Nebo. Byddai'r opsiwn yn galluogi'r posibilrwydd o rannu adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb safle ysgol ym mhentref Nebo trwy sefydlu ysgol aml-safle, dan arweiniad pennaeth ac un corff llywodraethol.

Opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:

- *“Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.”*

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau gyda Ysgol Nebo a'i datblygu fel safle i gynnig darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc y mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt. Byddai'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, yn ogystal â phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl megis pryder a niwro amrywiaeth.

- *Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd*

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau gyda Ysgol Nebo a'i datblygu fel Uned Bontio i ddarparu cymorth dros dro i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol cyn neu wrth iddynt integreiddio i addysg brif ffrwd. Byddai'r ddarpariaeth yn canolbwyntio ar gefnogaeth strwythuredig i hwyluso pontio effeithiol.

- *Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb Ysgol Nebo drwy drefniant ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn. Byddai'r ysgolion yn gweithredu dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol ffederal. Byddai hunaniaeth pob ysgol, gan gynnwys enw, ethos a gwisg, yn parhau, gyda'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau ac arbenigedd.

- *Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch*

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu sefydlu Bwrdd Llywodraethu ffederal ar draws ysgolion y dalgylch i gryfhau cydweithio a goruchwyliaeth strategol. Byddai'r trefniant yn galluogi rhannu arbenigedd a chyfeiriad strategol cyffredin, gan gynnal presenoldeb ac hunaniaeth ysgolion unigol.

3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

3.1 Yr Ardal

Mae Ysgol Gynradd Nebo wedi ei lleoli ym mhentref gwledig Nebo, sydd rhyw dair milltir o Benygroes yng Ngwynedd o fewn Ward Clynnog. Yn ôl cyfrifiad 2021, mae 1,300 o bobl yn byw yn ward Clynnog. Mae dalgyrch Ysgol Nebo yn cynnwys rhan o ward Clynnog yn ogystal a rhan o ward Llanllyfni.

3.2 Yr Economi

Yn ôl cyfrifiad 2021, mae 55.1% o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Clynnog yn weithgar yn economaidd, a 1.1% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 43.4% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 3.4% o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Yn ôl cyfrifiad 2021, mae 52.8% o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Llanllyfni yn weithgar yn economaidd, a 3.8% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 43.4% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 3.4% o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (16.5%) yn gweithio yn y maes iechyd a gwaith cymdeithasol (Cyfrifiad 2021).

Yn ôl data 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025)' mae cyfradd cyflogaeth ward Llanllyfni a Chlynnog o gymharu â wardiau eraill yng Nghymru yn rhoi ranc o 1152 allan o 1917 o wardiau. Felly, mae ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 50% lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

3.3 Amddifadedd

Mae Ward Llanllyfni a Chlynnog wedi ei raddio o fewn y 20%-30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (ranc 546 allan o 1917 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai.

Nodir fod ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Yn ogystal, mae ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.

Mae crynodeb isod o sut y mae ardal Llanllyfni a Chlynnog wedi ei lleoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025):

Maes	Ranc yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd. (1 = mwyaf difreintiedig a 1909 = lleiaf difreintiedig)	Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru
Cyflogaeth	1152	
Incwm	778	
Iechyd	1247	
Addysg	835	
Tai	47	O fewn y 10% mwyaf difreintiedig

Amgylchedd ffisegol	448	
Mynediad i wasanaethau	86	O fewn y 10% mwyaf difreintiedig
Diogelwch cymunedol	767	

3.4 Y Gymuned

Nid oes canolfan cymunedol yn mhentref Nebo. Mae trigolion Nebo a Nasareth yn gwneud defnydd rheolaidd o'r 'ystafell gymunedol' a leolir yn Ysgol Nebo ar gyfer cynnal achlysuron a digwyddiadau cymunedol. Dyma rai o achlysuron a digwyddiadau cymdeithasol a gynhelir yn ystafell gymunedol Ysgol Nebo:

- Cyfarfodydd misol Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth
- Clybiau Lleol (Clwb dydd Llun, Clwb Gweu a Chrosiet, Nosweithiau cymdeithasol, Clwb Garddio)
- Cymorth Cyntaf efo St John Ambiwylans: Hyfforddiant ar CPR a defnydd y diffibrilyddion ar yr Ysgol a Chapel Nasareth.
- Gwersi Cymraeg i ddysgwyr.
- Lluniaeth ar ôl teithiau lleol a Ras Mynydd Craig Goch.
- Defod Sul y Cofio;
- Gwarchod amgylchedd: Trefnu sesiynau casglu sbwriel a gweithredu atal baw cŵn.

4. YSGOL NEBO A'R YSGOLION CYFAGOS

4.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn, gosodir yr ysgolion o fewn cyd-destun, a manylir ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Nebo, Ysgol Llanllyfni a Ysgol Bro Lleu gan arolygwyr Estyn.

Ysgol Nebo

"Mae Ysgol Gynradd Nebo rhyw dair milltir o Benygroes yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol."

Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Hydref 2017

Ysgol Llanllyfni

"Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n meithrin gwerthoedd Cymreictod, cwrteisi a pharch yn llwyddiannus, gan gefnogi disgyblion i gyflawni'n dda. Mae staff yn arddel yr iaith Gymraeg yn fwriadus sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau llafar disgyblion o oedran cynnar. "

Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Hydref 2025

Ysgol Bro Lleu

"Mae Ysgol Bro Lleu yn ysgol hapus, gyfeillgar a chynhwysol sy'n rhoi pwyslais cryf ar barchu pob aelod o'r gymuned. Mae ei gweledigaeth o roi'r cyfle gorau i bob disgybl yn treiddio drwy holl weithgarwch yr ysgol. O ganlyniad, mae agweddau'r disgyblion at eu dysgu yn gadarn a'u hymddygiad yn ardderchog."

Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Ebrill 2023

4.2 Gwybodaeth ystadegol

Dengys y tabl isod niferoedd Ysgol Nebo a'r ysgolion eraill o fewn dalgylch Ysgol Dyffryn Nantlle. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti'r ysgol a nifer ar y gofrestr yn Ionawr 2026. Mae pob ysgol yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgol	Capasiti Llawn (M – Bl6)	Nifer ar y gofrestr lonawr 2026 (M – Bl6)	Categori Cyfreithiol	Categori leithyddol
Baladeulyn	62	8	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg, Categori 3
Talysarn	104	98	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg, Categori 3
Bro Lleu	207	189	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg, Categori 3
Llanllyfni	117	71	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg, Categori 3
Nebo	58	12	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg, Categori 3
Brynaerau	81	54	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg, Categori 3
Bro Lliffon	196	149	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg, Categori 3

Ffynhonnell: CYBLD lonawr 2026

4.3 Gwybodaeth dalgylchol a dewis ysgolion dysgwyr

Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae'n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddysgwyr fynychu eu hysgol dalgylch, mae'r dewis i fyny i rieni (yn unol â'r polisi mynediad).

Dengys y data diweddaraf (data lonawr 2026) fod 78% o'r plant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Nebo yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Mae'r tabl isod yn nodi cyfran y dysgwyr (Meithrin – Bl.6) sy'n byw yn y dalgylch ac yn mynychu'r ysgol dalgylch, a'r gyfran o ddysgwyr o du i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol.

Ysgol	Cyfran o ddysgwyr y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol dalgylch	Cyfran o ddysgwyr yr ysgol sy'n byw yn nalgylch yr ysgol	Cyfran o ddysgwyr o du allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol.
Nebo	22%	17%	83%
Llanllyfni	55%	73%	27%

Ffynhonnell: Data GIS lonawr 2026

4.4 Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yng nghymuned Nebo a Llanllyfni (Medi 2025)

	Nebo	Llanllyfni
Canolfan Gymuned / Neuadd Bantref		
Capel/Eglwys		✓
Trafnidiaeth Gyhoeddus	✓	✓
Siop		
Caffi/Tafarn		
Swyddfa Bost		
Fferyllfa		
Llyfrgell		
Cae Chwarae Plant	✓	
Banc		
Cartref Henoed		

Canolfan Hamdden		
Garej		
Atyniad Twristaidd	✓	
Cylch Ti a Fi + Cylch Meithrin		✓

*wedi ei ychwanegu yn sgil yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad

4.5 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol:

Mae crynodeb o ddefnydd cymunedol neu all-gwricwlaidd o adeiladau'r ysgolion lleol isod:

	Nebo	Llanllyfni	Baladeulyn	Bro Lleu	Bro Llifton	Brynaerau	Talysarn
Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)							
Aelwyd yr Urdd		✓					
Dramâu							
Grwpiau Gwirfoddol	✓	✓					
Bore/Noson Goffi	✓	✓	✓			✓	✓
Arwerthiant Cymunedol							
Ymarfer Côr							
Cymraeg i Oedolion							
Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned							
Cylch/Ysgol Feithrin		✓					
Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon		✓			✓		
Clwb ar ôl Ysgol		✓		✓	✓	✓	✓
Clwb Diddordeb Lleol	✓						

Gan nad oes canolfan cymunedol yn mhentref Nebo, mae trigolion Nebo a Nasareth yn gwneud defnydd rheolaidd o'r 'ystafell gymunedol' yr ysgol ar gyfer achlysuron a digwyddiadau cymunedol (gweler adran 3.4 uchod).

Mae Cylch Meithrin wedi ei leoli ar safle Ysgol Llanllyfni sy'n darparu gofal ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg i blant cyn-ysgol. Mae'r cyd-weithio rhwng Ysgol Llanllyfni a'r Cylch yn golygu trosglwyddiad esmwyth i'r plant o'r Cylch i'r dosbarth meithrin. Mae'r Cylch yn darparu lleoedd i blant rhwng 2 a 4 oed, ac yn cynnig ddarpariaethau Dechrau'n Deg, y cynnig 10 awr Addysg Feithrin (Dysgu Sylfaen), ynghyd a darparu gofal cofleidiol i blant oed meithrin Ysgol Llanllyfni ac ysgolion cyfagos. Mae Cylch Meithrin hefyd yn rhan o'r Cynllun Gofal Plant, sef cynllun sy'n cynnig hyd at 30 awr yr wythnos o ofal plant blynyddoedd cynnar am ddim. Mae plant yn gallu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant o ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd tan y Medi ar ôl iddynt droi'n 4.

Nid oes darpariaeth blynyddoedd cynnar yn Ysgol Nebo, ac eithrio dosbarth Meithrin yr ysgol.

4.6 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw:

	Nebo	Llanllyfni
Cylch Meithrin/Ti a Fi		✓
Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)	✓	✓
Adrannau'r Urdd	✓	
Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)		✓

4.7 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned ble y byddent yn cael eu darparu os caiff yr ysgol ei chau?

Ysgol	Ble darparir cyfleusterau pe bai'n cau
Nebo	Cynhelir nifer o ddigwyddiadau cymunedol yn adeilad Ysgol Nebo. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig i gau Ysgol Nebo, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.

4.8 Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch

Mae'r tabl isod yn nodi pellter ac amser teithio rhwng Ysgol Nebo ac ysgolion yr ardal. Gwelwn mai Ysgol Llanllyfni yw'r agosaf at Ysgol Nebo. Mae'r amseroedd teithio isod yn ystyried natur y lonydd a'r effaith y gall hynny ei gael ar amser teithio mewn ardal wledig.

Ysgol		Nebo
Llanllyfni	Milltir	1.6
	Munudau	5
Bro Lleu	Milltir	2.6
	Munudau	9
Talysarn	Milltir	3.8
	Munudau	11
Baladeulyn	Milltir	5.8
	Munudau	14
Brynaerau	Milltir	5.3
	Munudau	14
Bro Llifon	Milltir	5.5
	Munudau	11

Ffynhonnell: Mapiau Google 2025

5. ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR Y GYMUNED

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd creu meini prawf yn unol ag argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

OPSIWN 1: PARHAU GYDA'R SEFYLLFA BRESENNOL

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni fyddai unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir effaith ar iechyd a lesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan na fyddai newid i'r ddarpariaeth gyfredol ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Nebo ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Ni fyddai newid i'r ddarpariaeth felly ni ragwelir unrhyw effaith ar ddefnydd presennol yr ysgol.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni fyddai newid i'r ddarpariaeth felly ni ragwelir unrhyw effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni fyddai newid i'r ddarpariaeth. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni fyddai unrhyw newid i'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith ar wasanaethau eraill lleol.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni fyddai unrhyw newid i'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni fyddai unrhyw newid i'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir effaith ar y gymuned leol.	Niwtral

OPSIWN 2: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a Llesiant	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir effaith ar iechyd a llesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. Byddai unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Nebo ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i ddefnydd presennol yr ysgol.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar sut mae rhieni yn dewis ysgol i'w plant nac yn effeithio ar ddewis byw yn y dalgylch neu ddim. Mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (78%). O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd, felly ni ragwelir unrhyw effaith ar wasanaethau eraill lleol.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith ar y gymuned leol. Fodd bynnag, nodir cyfleoedd i gymuned Nebo a chymunedau'r ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn ddod at ei gilydd.	Niwtral

OPSIWN 3: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS GAN YCHWANEGU UNED ARBENIGOL AR GYFER PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN YSGOL NEBO

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ond fel rhan o ffederasiwn gydag ysgol gyfagos, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ond fel rhan o ffederasiwn gydag ysgol gyfagos, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Nebo ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y bydda ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag ddarpariaeth uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, na bod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. Mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (78%)	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. Fodd bynnag, nodir cyfleoedd i gymuned Nebo a chymunedau'r ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn ddod at ei gilydd.	Niwtral

OPSIWN 4: CAU YSGOL NEBO A CHYNNIG LLE I'R DYSGWYR MEWN YSGOL GYFAGOS (YSGOL LLANLLYFNI)

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Gan fod yr ysgol amgen wedi ei lleoli tua milltir a hanner o Ysgol Nebo, ac ymhellach o gartrefi dysgwyr y dalgylch, ni ragweli y byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn debygol o gerdded i'r ysgol amgen. Rhagwelir y byddai bod mewn ysgol mwy megis Ysgol Llanllyfni yn cynnig mwy o gyfleoedd chwarae a chymryd rhan mewn chwaraeon tîm ac felly yn cyfrannu'n bositif tuag at iechyd a llesiant dysgwyr.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir bydd unrhyw effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y bydd unrhyw gludiant i ysgol amgen yn sgil unrhyw newid yn cael ei drefnu yn benodol ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Mae'r gymuned yn gweud defnydd rheolaidd o adeilad Ysgol Nebo er mwyn cynnal digwyddiadau cymunedol. Pe byddai'r ysgol yn cau, byddai'n rhaid ystyried y darpariaethau hyn wrth drafod ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. <i>Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, tynnwyd sylw at y defnydd cyson a rheolaidd a wneir o adeilad Ysgol Nebo gan y gymuned leol fel lleoliad ar gyfer cyfarfodydd, gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol. Nodwyd pryderon y gallai colli'r defnydd hwn, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu a'r ysgol yn cau, effeithio ar gyfleoedd i'r gymuned gyfarfod a chynnal gweithgareddau lleol. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn ac yn cydnabod y byddai angen ystyried defnydd cymunedol wrth drafod unrhyw opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.</i>	Negyddol
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	<i>Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, mynegwyd gan rai ymatebwyr bryder y gallai cau'r ysgol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, ddylanwadu ar benderfyniadau teuluoedd ifanc ynghylch aros yn y gymuned neu symud i mewn iddi, o ystyried pwysigrwydd yr ysgol fel ased lleol. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryder hwn; fodd bynnag, o ystyried y patrymau presennol o ddewis ysgol, gan gynnwys y ffaith bod cyfran helaeth o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all dalgylch, nid oes tystiolaeth glir y byddai'r cynnig, pe byddai'n cael ei weithredu, yn arwain yn uniongyrchol at ymadawiad teuluoedd na lleihad sylweddol mewn teuluoedd yn symud i'r gymuned.</i> Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw bod cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (78%), gyda 44% o blant oedran cynradd o ddalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu Ysgol Llanllyfni. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe bai'r ysgol yn cau. Yn ogystal, o ystyried bod yr ysgol amgen wedi ei lleoli 1.6 milltir o Ysgol Nebo, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu y byddai teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	<i>Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd gan rai ymatebwyr bryder y gallai cau'r ysgol, o ystyried ei rôl fel ased a chanolbwynt cymunedol, arwain at effaith ehangach ar weithgareddau a gwasanaethau lleol, yn enwedig mewn pentref gwledig sydd â chyfyngedig iawn o gyfleusterau eraill.</i> Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw bod cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. O ganlyniad, nid	Niwtral

	yw'r Cyngor yn gallu dod i gasgliad y byddai cau'r ysgol yn arwain at effaith uniongyrchol ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol.	
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Gan fod mwyafrif o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch, ni ragwelir y byddai cau Ysgol Nebo yn cael effaith ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Yn ystod y trafodaethau lleol, bu i'r rhan-ddeiliaid nodi pwysigrwydd yr ysgol i'r gymuned ym mhentref Nebo, gan nodi'r defnydd rheolaidd a wneir o adeilad yr ysgol gan y gymuned. <i>Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, mynegwyd pryderon pellach ynghylch y goblygiadau cymunedol pe bai'r ysgol yn cau, gyda nifer o ymatebion yn pwysleisio mai Ysgol Nebo yw'r unig le ar hyn o bryd yn y pentref lle gall aelodau'r gymuned gyfarfod a chynnal gweithgareddau cymdeithasol. Nodwyd y gallai colli'r ysgol fel canolbwynt cymunedol arwain at wanhau cydlyniant cymunedol, lleihau cyfleoedd i ryngweithio cymdeithasol, a chael effaith negyddol ar fywiogrwydd a chynaliadwyedd y gymuned wledig yn y tymor hwy.</i> Mae'r Cyngor yn cydnabod y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Nebo, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nebo fel canolbwynt cymunedol. Cydnabyddir y pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch goblygiadau hyn ar fywiogrwydd y gymuned, gan nodi'r defnydd cymunedol rheolaidd a wneir o adeilad yr ysgol. Yn ogystal, pe byddai Ysgol Nebo yn cau, cydnabyddir y byddai'r ysgol leol yn bellach o gartrefi o fewn dalgylch presennol Ysgol Nebo, ac o safbwynt amddifadedd – golyga fod un o ddangosyddion 'mynediad i wasanaethau' yn pellhau oddi wrth drigolion yr ardal. O ganlyniad, rhagwelir y bydd peth effaith negyddol ar y gymuned leol pe byddai'r ysgol yn cau. Fodd bynnag dylid nodi fod canran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch eisoes (78%). Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Nebo, byddai'r Cyngor yn ceisio liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen. Yn ogystal, nodir pe bai penderfyniad i gau'r ysgol yn cael ei wneud, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol.	Negyddol

**OPSIWN 5: YSGOL NEBO YN DATBLYGU YN LEOLIAD ARBENIGOL AR GYFER RHAI PYNCIAU UNIGOL
(CYFLEON UNIGRYW I GYFLAWNI GWAITH MAES)**

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo yn parhau, ni rhagwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio'n negyddol ar iechyd a llesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo yn parhau, ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu Byddai unrhyw gludiant fyddai ei angen i Ysgol Nebo ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo yn parhau, ni rhagwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau.	Niwtral

OPSIWN 6: YSGOL NEBO YN CYNNIG UNED ARBENIGOL AR GYFER CEFNOGI DYSGWYR SYDD GYDAG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL, LLE MAE ADDYSG PRIF LIF YN HERIOL

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar i ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y meini prawf hwn gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gyda anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral

OPSIWN 7: YSGOL NEBO YN CYNNIG UNED IAITH AR GYFER DALGYLCH DYFFRYN NANTLLE

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a Llesiant	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y meini prawf hwn gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral

OPSIWN 8: SEFYDLU YSGOL AR FWY NAG UN SAFLE – YSGOL AML-SAFLE

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a Llesiant	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo yn parhau, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio'n negyddol ar iechyd a llesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo yn parhau, ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu. Byddai unrhyw gludiant fyddai ei angen i safle Ysgol Nebo ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol a Polisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y byddai safle Ysgol Nebo yn parhau fel rhan o'r ysgol aml-safle, ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma yn cael effaith ar gyfleusterau/gwasanaethau eraill ar ddarperir yn yr ysgol	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach, gan y byddai darpariaeth addysg yn parhau ar safle Ysgol Nebo.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir unrhyw effaith ar y meini prawf yma, gan y byddai darpariaeth addysg yn parhau ar safle Ysgol Nebo.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Gan y byddai safle Ysgol Nebo yn parhau fel rhan o'r ysgol aml-safle, ni ragwelir effaith ar wasanaethau eraill lleol.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Gan y byddai safle Ysgol Nebo yn parhau, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gyffredinol ar y gymuned leol pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu.	Niwtral

OPSIWN 15.1: “Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.”

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y meini prawf hwn gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral

OPSIWN 15.2: Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar i ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y meini prawf hwn gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.	Niwtral

OPSIWN 15.5: Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a Llesiant	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir effaith ar iechyd a llesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. Byddai unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Nebo ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i ddefnydd presennol yr ysgol.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar sut mae rhieni yn dewis ysgol i'w plant nac yn effeithio ar ddewis byw yn y dalgylch neu ddim. Mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (78%). O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd, felly ni ragwelir unrhyw effaith ar wasanaethau eraill lleol.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith ar y gymuned leol. Fodd bynnag, nodir cyfleoedd i gymuned Nebo a chymuned ysgol Baladeulyn i ddod at ei gilydd.	Niwtral

OPSIWN 15.6: Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo yn parhau, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio'n negyddol ar iechyd a llesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo yn parhau, ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu. Byddai unrhyw gludiant fyddai ei angen i safle Ysgol Nebo ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol a Polisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y byddai safle Ysgol Nebo yn parhau fel rhan o'r ysgol aml-safle, ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma yn cael effaith ar gyfleusterau/gwasanaethau eraill ar ddarperir yn yr ysgol.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach, gan y byddai ddarpariaeth addysg yn parhau ar safle Ysgol Nebo.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir unrhyw effaith ar y meini prawf yma, gan y byddai ddarpariaeth addysg yn parhau ar safle Ysgol Nebo.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Gan y byddai safle Ysgol Nebo yn parhau fel rhan o'r ysgol aml-safle, ni ragwelir effaith ar wasanaethau eraill lleol.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Gan y byddai safle Ysgol Nebo yn parhau, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gyffredinol ar y gymuned leol pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu.	Niwtral

6. CASGLIAD

Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymuned hwn wedi'i lunio fel asesiad pellach yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, ac mae wedi ystyried yn llawn yr holl opsiynau gwreiddiol a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, ynghyd â phob opsiwn amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorai fel rhan o'r ymgynghoriad statudol.

Dengys yr asesiad mai niwtral fyddai'r effaith debygol ar y gymuned leol pe gweithredir yr opsiynau hynny sy'n golygu parhau â phresenoldeb ysgol weithredol ar safle Ysgol Nebo. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r ysgol fel darpariaeth arbenigol i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol neu anghenion iechyd meddwl, ei datblygu fel Uned Bontio ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, weithredu trefniadau ffederaleiddio neu lywodraethu ar y cyd. Yn yr achosion hyn, byddai presenoldeb ysgol weithredol yn cael ei gadw yn y pentref, gyda'r potensial i gynnal neu gryfhau rôl yr ysgol fel adnodd ac ased cymunedol.

Dengys yr asesiad y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Nebo, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nebo fel canolbwynt cymunedol. Cydnabyddir y pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch goblygiadau hyn ar fywiogrwydd y gymuned; fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (78%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni (44%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Llanllyfni eisoes yn bodoli.

Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Nebo, byddai'r Cyngor yn ceisio lliniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen. Yn ogystal, nodir pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol yn cael ei wneud, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol.

ASESIAD EFFAITH IEITHYDDOL – YSGOL NEBO

Mai 2026

1. CYFLWYNIAD

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau iaith yn allweddol bwysig i strategaethau addysg y Sir.

Mae Ysgol Nebo yn ysgol gymunedol, cyfrwng Cymraeg, Categori 3, wedi ei lleoli ym mhentref Nebo, sydd rhyw dair milltir o Benygroes, ac sydd yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3-11 oed. Mae gostyngiad wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, Ionawr 2026, dim ond 11 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin sy'n mynychu'r ysgol.

Yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda rhanddeiliaid Ysgol Nebo er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Nebo ymhle cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau.

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

Mae ffigyrau yng Nghyfrifiad 2021 yn nodi fod 66% o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2021 hefyd yn nodi bod 64% yn siarad Cymraeg sydd yn ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, pan oedd y ffigwr yn 65%.

Yng Ngwynedd, fel mewn nifer o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Ar un eithaf, mewn wardiau megis Aberdyfi, Tywyn a Chanol Bangor mae rhwng 26% a 44% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bod cymaint ac 86% yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymreig e.e. Hendre a Llanrug.

1.2 Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ddogfen statudol yr Awdurdod Lleol ac yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg (yn unol â thargedau *Cymraeg 2050*).

Mae 7 deilliant y disgwylir i Awdurdodau Lleol eu gweithredu er mwyn gwireddu'r weledigaeth, sef:

1. Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.
4. Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.
6. Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)
7. Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

1.3 Polisi Iaith

Cynradd

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyfedr yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

Uwchradd

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef lefel 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11.

Mae'r ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

1.4 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050

Cymraeg 2050 yw strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ac mae'n cwmpasu'r tri degawd nesaf. Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith ynghyd â'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae nodau Cymraeg 2050 yn cynnwys:

	Nod	Targed
1.	Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg	1 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050
2.	Cynyddu defnydd o'r Gymraeg	Defnyddwyr dyddiol o'r Gymraeg yn cynyddu o 10% i 20%

Pwysleisia'r ddogfen strategol *Cymraeg 2050*: Miliwn o siaradwyr bwysigrwydd cynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg ond hefyd pwysleisir fod cynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yr un mor bwysig.

Mae symud i sefyllfa lle mae miliwn o siaradwyr yn un agwedd ar ein gweledigaeth ar gyfer ffyniant y Gymraeg. Ond mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn iaith sy'n cael ei defnyddio. Rydym am i'r defnydd o'r Gymraeg fod yn rhan arferol o fywyd bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol..... Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013–15 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2015) mae cysylltiad clir rhwng rhuglder a pha mor aml y defnyddir y Gymraeg – mae 84% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad Cymraeg bob dydd.

Ffynhonnell: Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017)

1.5 Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033

Mae Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar Gyngor Gwynedd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd fydd yn dangos sut y bwriedir mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar draws y sir. Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033 yw strategaeth ddiweddaraf Cyngor Gwynedd ar gyfer y Gymraeg. Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith:

	Sut byddwn yn cynyddu nifer siaradwyr?	Sut byddwn yn mesur ar lefel leol, ac yn ystod cyfnod y strategaeth?
1.	Rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc nad ydynt eto yn siaradwyr Cymraeg (e.e. newydd-ddyfodiaid, plant sydd ddim yn derbyn addysg prif ffrwd), i ddysgu a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.	Nifer y plant sydd yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Nifer plant sydd yn cael cefnogaeth drwy gyfundrefn drochi'r Adran Addysg.
2.	Rhoi cyfleoedd i oedolion ddod yn siaradwyr newydd drwy gynlluniau cefnogi dysgwyr y Cyngor a darpariaeth gymunedol partneriaid.	Nifer gweithwyr y Cyngor sydd yn derbyn gwersi dysgu Cymraeg. Darpariaeth cyrsiau dysgu Cymraeg cymunedol.

Ceir yn y Strategaeth hefyd ymrwymiad i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y meysydd gweithredu canlynol:

- Iaith y blynyddoedd cynnar
- Iaith Dysgu
- Iaith Gwaith a Gwasanaeth
- Iaith y Gymuned
- Ymchwil a thechnoleg

2. PROFFIL IAITH DALGYLCH NEBO

2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

Mae 64.4% o boblogaeth y Sir sydd dros dair oed yn siaradwyr Cymraeg – sylweddol uwch na'r ffigwr trwy Gymru gyfan o 17.8%. Yng Ngwynedd, mae'r gallu i siarad Cymraeg uchaf yn ward Hendre (mae 86% yn siarad Cymraeg), ac ar ei isaf yn ardal Canol Bangor (25.6%).

2.2 Wardiau

Mae Ysgol Nebo wedi ei lleoli yn ward Clynnog, ac mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys rhan o ward Clynnog a rhan o ward Llanllyfni. Mae Ysgol Llanllyfni wedi ei lleoli yn ward Llanllyfni, ac mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys rhan o ward Llanllyfni a rhan o ward Clynnog. Mae proffil ieithyddol wardiau'r ysgolion hyn wedi ei grynhoi yn y tabl isod:

	Clynnog	Llanllyfni	Gwynedd	Cymru
Hunaniaeth Gymreig yn unig	783 (60.2%)	1,316 (67.1%)	69,560 (59.3%)	1,715,975 (55.2%)
Dim hunaniaeth Gymreig	36%	28.2%	36.3%	36.7%
Poblogaeth 3+ mlwydd oed	1,275	1,876	114,308	3,018,172
Gallu siarad Cymraeg	864 (67.8%)	1,373 (73.2%)	73,560 (64.4%)	538,296 (17.8%)
Dim sgiliau Cymraeg	307 (24.1%)	315 (16.8%)	29,977 (26.2%)	2,259,017 (74.8%)
Gallu deall Cymraeg ar lafar yn unig	71 (5.6%)	137 (7.3%)	8,166 (7.1%)	156,762 (5.2%)
Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu	47 (3.7%)	124 (6.6%)	6,142 (5.4%)	68,391 (2.3%)

darllen nac ysgrifennu Cymraeg				
Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg	37 (2.9%)	56 (3%)	3,170 (2.8%)	33,971 (1.1%)
Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	774 (60.7%)	1,157 (61.7%)	63,256 (55.3%)	429,313 (14.2%)
Gallu ysgrifennu Cymraeg ond ddim yn gallu siarad na darllen Cymraeg	7 (0.5%)	8 (0.4%)	387 (0.3%)	4,970 (0.2%)
Gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg ond ddim yn gallu siarad Cymraeg	9 (0.7%)	14 (0.7%)	1,004 (0.9%)	17,560 (0.6%)
Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg	6 (0.5)	36 (1.9%)	993 (0.9%)	6,621 (0.2%)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegol Gwladol

2.3 Ysgol Nebo

Ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3 yw Ysgol Nebo.

Dengys y tabl isod fod y mwyafrif o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl gartref	Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg o gwbl
Nebo	56%	0%	22%	11%	11%

Ffynhonnell: Canran o nifer yr ymatebwyr Ionawr 2026

2.4 Ysgolion cyfagos

Ysgolion cyfrwng Cymraeg, Categori 3 yw ysgolion Llanllyfni, Baladeulyn, Brynaerau, Bro Lleu, Talysarn a Bro Llifon.

Mae data ieithyddol ar gyfer yr ysgolion cyfagos i'w gweld isod:

Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl gartref	Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg o gwbl
Baladeulyn	29%	57%	14%	0%	0%
Brynaerau	64%	11%	2	11%	12%
Llanllyfni	68%	8%	2%	11%	11%
Bro Lleu	69%	4%	1%	9%	17%

Talysarn	37%	15.5%	3%	19%	25.5%
Bro Llifton	85%	2%	2%	3%	8%

Ffynhonnell: Canran o nifer yr ymatebwyr Ionawr 2026

2.5 Gweithgareddau ar ôl ysgol

Dyma grynodeb o'r hyn mae Ysgol Nebo a'r ysgolion eraill dalgylch uwchradd Dyffryn Nantlle yn ei gynnig ar safleoedd yr ysgol.

	Baladeulyn	Talysarn	Bro Lleu	Llanllyfni	Brynaerau	Bro Llifton	Nebo
Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)			✓				
Aelwyd yr Urdd				✓		✓	✓
Bore/Noson Goffi	✓	✓		✓	✓	✓	
Cylch/Ysgol Feithrin			✓	✓		✓	
Clwb/Clwb ar ôl ysgol / Gweithgaredd Chwaraeon		✓	✓	✓	✓	✓	✓

Gwelir yn y tabl uchod fod nifer o ysgolion yr ardal, gan gynnwys Ysgol Nebo yn cynnig clybiau gyda'r Urdd ar ôl ysgol. Golygai hyn gallai'r dysgwyr barhau i fanteisio ar y gweithgareddau hyn fel cyfle ychwanegol i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg.

2.6 Gweithgareddau Cymunedol

Gan nad oes adeilad/canolfan gymunedol ym mhentref Nebo, mae trigolion Nebo a Nasareth yn gwneud defnydd rheolaidd o'r 'ystafell gymunedol' a leolir yn Ysgol Nebo ar gyfer cynnal achlysuron a digwyddiadau cymunedol.

Dyma rai o achlysuron a digwyddiadau cymdeithasol a gynhelir yn ystafell gymunedol Ysgol Nebo:

- Cyfarfodydd misol Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth
- Clybiau Lleol (Clwb dydd Llun, Clwb Gweu a Chrosiet, Nosweithiau cymdeithasol, Clwb Garddio)
- Cymorth Cyntaf efo St John Ambiwylans: Hyfforddiant ar CPR a defnydd y diffibrilyddion ar yr Ysgol a Chapel Nasareth.
- Gwersi Cymraeg i ddysgwyr.
- Lluniaeth ar ôl teithiau lleol a Ras Mynydd Craig Goch.
- Defod Sul y Cofio;
- Gwarchod amgylchedd: Trefnu sesiynau casglu sbwriel a gweithredu atal baw cŵn.

2.7 Tystiolaeth Ychwanegol

Ysgol Nebo

Mae adroddiad Estyn yn 2017 yn dweud:

“Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol. Mae tua 58% o’r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref, ac nid oes yr un disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig”

[Adroddiad arolwg Estyn Ysgol Nebo Hydref 2017](#)

Ysgol Llanllyfni

Mae adroddiad Estyn 2025 yn dweud:

“Mae arweinwyr a staff yn gosod pwyslais amlwg ar ddatblygu’r iaith Gymraeg. Mae staff yn fodelau iaith effeithiol sy’n annog disgyblion a’u cefnogi i ddatblygu a defnyddio’r iaith ymhob agwedd o waith yr ysgol. Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol ac yn hynod falch o’u gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a’r Saesneg yn hyderus gyda’u cyfoedion ac oedolion erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol.”

[Adroddiad arolwg Estyn Ysgol Llanllyfni Hydref 2025](#)

2.8 Ymgynghoriad Statudol – Crynodeb o’r materion ynghylch yr effaith ar y Gymraeg

Amlinellir isod y prif faterion a godwyd drwy’r ymatebion i’r ymgynghoriad statudol, yn benodol ynghylch effaith bosibl y cynnig ar y Gymraeg.

Yn y cyd-destun hwn, mynegwyd pryderon cryf gan ymatebwyr ynghylch rôl Ysgol Nebo wrth gynnal y Gymraeg fel iaith fyw o fewn y gymuned. Nodwyd bod yr ysgol yn darparu amgylchedd naturiol lle defnyddir y Gymraeg yn ffurfiol ac anffurfiol gan blant, teuluoedd a thrigolion lleol, ac mai hi yw’r prif fan cymdeithasol lle clywir y Gymraeg yn ddyddiol yn y pentref. O ganlyniad, mynegwyd pryder y gallai cau’r ysgol arwain at leihad sylweddol mewn defnydd cymunedol o’r Gymraeg, yn enwedig y tu allan i’r ystafell ddosbarth.

Nodwyd hefyd fod amgylchedd ysgol fach Gymraeg ei chyfrwng yn cefnogi trochi ieithyddol, hyder a rhuglder, yn enwedig i blant o gartrefi di-Gymraeg, gyda’r Gymraeg yn cael ei chryfhau fel iaith y dosbarth a’r buarth. Yn sgil hyn, mynegwyd pryder y gallai trosglwyddo dysgwyr i ysgolion mwy gynyddu’r risg o droi at y Saesneg mewn cyd-destunau cymdeithasol, gan wanhau defnydd naturiol o’r Gymraeg. Ar yr un pryd, nodwyd gan rai ymatebwyr fod elfennau cadarnhaol i’r cynnig o safbwynt y ddarpariaeth addysgol, gan gynnwys parhad addysg cyfrwng Cymraeg a’r potensial i gynnal defnydd anffurfiol o’r Gymraeg ymhlith dysgwyr.

Yn ogystal, tynnwyd sylw at rôl ehangach yr ysgol wrth hyrwyddo’r Gymraeg y tu hwnt i addysg ffurfiol, gan gynnwys drwy weithgareddau cymunedol, digwyddiadau cymdeithasol, gwersi Cymraeg i oedolion, a rhyngweithio rhyng-genedlaethol. Mynegwyd pryder y gallai cau’r ysgol arwain at golli’r cyfleoedd hyn yn gyfan gwbl, gan effeithio ar gynaliadwyedd tymor hwy’r Gymraeg yn Nebo a’r ardaloedd cyfagos.

Mae’r Cyngor yn cydnabod y pryderon hyn ac yn nodi bod yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg wedi asesu’r effaith ieithyddol tebygol ar sail y dystiolaeth gefndirol. Dengys yr asesiad nad yw’r opsiynau sy’n golygu parhau â phresenoldeb addysgol neu gymunedol ar safle Ysgol Nebo yn debygol o gael effaith negyddol ar y Gymraeg, ac mewn rhai achosion ceir potensial ar gyfer effaith gadarnhaol, yn enwedig lle caiff y safle ei ddatblygu i hyrwyddo defnydd cymunedol o’r Gymraeg.

O ran yr opsiwn i gau’r ysgol, mae’r Cyngor yn cydnabod bod hyn yn peri risg ieithyddol o safbwynt defnydd y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw o fewn y pentref. Ar yr un pryd, nodir nad yw’r Cyngor yn rhagweld y

byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg fel iaith addysgu, gan y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Yn y cyd-destun addysgol hwn, disgwylir y byddai addysgu dysgwyr mewn grwpiau oedran mwy, gyda mwy o gyfoedion, yn cynnal ac o bosibl yn cryfhau'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol o fewn ac y tu allan i'r dosbarth.

Pe bai penderfyniad i gau'r ysgol yn cael ei wneud, byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd yr adeilad, gan gynnwys defnydd i gefnogi'r Gymraeg lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith andwyol posibl ar y Gymraeg yn y gymuned.

3. Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg

3.1 Yr Opsiynau

- *Gwneud dim- Parhau gyda'r sefyllfa bresennol*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Nebo yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio.

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model Gwneud dim wedi ei gynnwys yn yr asesiad at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cydweithio gydag ysgol, neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Ni ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda chyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth, a chydweithio ar gyfer yr ysgol.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo.*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos ac ychwanegu uned ADY ar safle Ysgol Nebo er mwyn cynnig darpariaeth i blant fyddai angen cefnogaeth ychwanegol. Ni fyddai unrhyw newid i'r elfen ysgol.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg yn yr ysgol gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda chyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth, a chydweithio ar gyfer yr ysgol.

- *Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Nebo yn cau, ac y byddai dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Nebo yn cael cynnig lle yn Ysgol Llanllyfni (yr ysgol amgen).

Mae'r tabl yn adran 3.2 yn cynnwys asesiad o effaith cau Ysgol Nebo ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, ar yr iaith Gymraeg o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r tabl hefyd yn amlinellu'r cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cryfhau'r iaith Gymraeg, a dulliau lliniaru unrhyw effaith negyddol allai ddeillio o'r cynnig.

- *Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Nebo yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau.

- *Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt.*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Nebo gan ychwanegu Uned ADY ar safle'r ysgol er mwyn cynnig darpariaeth i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau.

- *Ysgol Nebo yn cynnig uned iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Nebo gan ychwanegu uned iaith ar safle'r ysgol.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg yn yr ysgol gan na fyddai newid i'r ddarpariaeth gan Ysgol Nebo. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai'n cael effaith bositif ar iaith Gymraeg y dysgwyr fydd yn mynychu'r Uned iaith.

- *Sefydlu Ysgol ar fwy nag un safle*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu cau ysgolion lleol, gan gynnwys Ysgol Nebo, a sefydlu ysgol newydd ar draws nifer o safleoedd, gan gynnwys safle presennol Ysgol Nebo.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. Yn ddibynol ar strwythur yr ysgol aml-safle, gall fod cyfleoedd i ddysgwyr gael mynediad at ystod ehangach o adnoddau addas, cyflenwad uwch yn nhermau staffio, a gallent fod yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion.

3.2 Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorai fel ymateb i'r ymgynghoriad

- **“Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.”**

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau gyda Ysgol Nebo a'i datblygu fel safle i gynnig darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc y mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt. Byddai'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, yn ogystal â phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl megis pryder a niwro-amrywiaeth.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau fel ysgol cyfrwng Cymraeg.

- **Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd**

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau gyda Ysgol Nebo a'i datblygu fel Uned Bontio i ddarparu cymorth dros dro i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol cyn neu wrth iddynt integreiddio i addysg brif ffrwd. Byddai'r ddarpariaeth yn canolbwyntio ar gefnogaeth strwythuredig i hwyluso pontio effeithiol.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau fel Ysgol cyfrwng Cymraeg.

- **Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn**

Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb Ysgol Nebo drwy drefniant ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn. Byddai'r ysgolion yn gweithredu dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol ffederal. Byddai hunaniaeth pob ysgol, gan gynnwys enw, ethos a gwisg, yn parhau, gyda'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau ac arbenigedd.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau fel ysgol gyfrwng Cymraeg. Ceir hefyd botensial i gryfhau arweinyddiaeth a chydweithio ieithyddol rhwng y ddwy ysgol.

- **Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch**

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu sefydlu Bwrdd Llywodraethu ffederal ar draws ysgolion y dalgylch i gryfhau cydweithio a goruchwyliaeth strategol. Byddai'r trefniant yn galluogi rhannu arbenigedd a chyfeiriad strategol cyffredin, gan gynnal presenoldeb ac hunaniaeth ysgolion unigol.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg gan na fyddai newid i'r ddarpariaeth na statws ieithyddol Ysgol Nebo. Gallai'r trefniant gryfhau cynllunio a strategaeth Gymraeg ar draws y dalgylch.

3.2 Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg

Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg – Cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)

Rhan 1				
Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith	Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif	Effaith derfynol (yn dilyn dulliau liniaru)
Iaith yr ysgol (ffurfiol)	<i>Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, nodwyd pwysigrwydd parhad addysg cyfrwng Cymraeg fel prif iaith addysgu i ddysgwyr lleol. Pwysleisiwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad rôl Ysgol Nebo wrth feithrin defnydd naturiol o'r iaith Gymraeg.</i> Mae Ysgol Nebo yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng. Gan fod Ysgol Llanllyfni hefyd yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng, deuir i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael effaith ar iaith addysg y plant.	Niwtral	Amherthnasol	Amherthnasol
Iaith yr ysgol (anffurfiol)	<i>Pwysleisiwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad rôl Ysgol Nebo wrth feithrin defnydd naturiol o'r Gymraeg fel iaith y buarth a rhyngweithio cymdeithasol rhwng disgyblion. Nodwyd bod dosbarthiadau llai, goruchwyliaeth staff a disgwyladau ieithyddol clir yn annog defnydd cyson o'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol. Mynegwyd pryder y gallai addysg mewn lleoliadau mwy arwain at fwy o ddefnydd o'r Saesneg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.</i> Mae ystadegau CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 56% o ddysgwr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwr Ysgol Llanllyfni. Gan y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, gallasai'r cynnig gryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion. Ar sail hynny, o wireddu'r cynnig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.	Positif	Amherthnasol	Amherthnasol

Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg	Mae Ysgol Llanllyfni yn ysgol Gymraeg eu cyfrwng, fel Ysgol Nebo. Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn effeithio ar y meini prawf hwn.	Niwtral	Amherthnasol	Amherthnasol
Darpariaeth anstatudol	Byddai gan ddysgwyr fynediad at gyflenwad uwch yn nhermau staffio, a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o'r un oedran.	Positif	Gallai'r awdurdod lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Llanllyfni drafod dulliau i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.	Positif
Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol	Mae Ysgol Llanllyfni yn ysgol fwy o ran niferoedd o ddysgwyr, ac felly mae'r grwpiau cyfoedion yn fwy. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig ystod o glybiau a gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol sy'n darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau'r ysgol. Fel y nodir yn Adran 2.5 o'r Asesiad Effaith, mae'r rhain yn cynnwys Aelwyd yr Urdd, boreau a nosweithiau coffi, Cylch Meithrin, a chlybiau a gweithgareddau chwarae/ar ôl ysgol.	Positif	Gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Llanllyfni ystyried unrhyw gyfleoedd ychwanegol ar gyfer cynnal gweithgareddau ar ôl ysgol, gan sicrhau fod trefniadau mewn lle i gynnwys dysgwyr dalgylch Nebo.	Positif
Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned Tud. 253	<i>O safbwynt yr ymatebion i'r ymgynghoriad, nodwyd yn gryf mai Ysgol Nebo yw'r prif fan cymdeithasol lle defnyddir y Gymraeg yn ddyddiol gan nifer o drigolion y pentref. Tynnwyd sylw at rôl yr ysgol wrth gynnal digwyddiadau cymunedol, gwersi Cymraeg i oedolion a chyfleoedd rhyng-genedlaethol sy'n cefnogi defnydd rheolaidd o'r Gymraeg. Mynegwyd pryder y gallai cau'r ysgol arwain at leihad sylweddol mewn cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw.</i> Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, e.e gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Nebo wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol. Fodd bynnag, nodir hefyd bod canran sylweddol o blant y dalgylch (78%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni (44%), sy'n awgrymu bod lefel yr ymwneud dyddiol â'r ysgol fel manau cymdeithasol neu ieithyddol yn amrywio ymhlith teuluoedd yng nghymuned Nebo. Gan nad oes adeilad/canolfan gymunedol arall ym mhentref Nebo, mae trigolion Nebo a Nasareth yn gwneud defnydd rheolaidd o 'ystafell gymunedol' yr ysgol ar gyfer achlysuron a digwyddiadau cymunedol gan gynnwys gwersi Cymraeg i ddysgwyr. O ganlyniad, pe byddai'r cynnig i	Negyddol	Gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Llanllyfni ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol. I liniaru'r effaith ar y Gymraeg o fewn y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nebo yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Nebo, lle'n briodol. Yn ogystal, pe gweithredir y cynnig, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. Nodir nad oes gofod cymunedol amgen ym mhentref Nebo, ac felly byddai cadw neu hwyluso defnydd cymunedol priodol o'r adeilad yn ystyriaeth bwysig, yn enwedig er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol bosibl ar ddefnydd a bywiogrwydd yr iaith Gymraeg o fewn y gymuned.	Negyddol

	gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio, ac y gallai hynny arwain at effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Effaith ar yr economi leol: Er na ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol negyddol ar yr economi leol yn Nebo, cydnabyddir, pe byddai Ysgol Nebo yn cau, y gallai arwain at leihad mewn cyfleoedd cyflogaeth cyfrwng Cymraeg, yn mhentref Nebo.			

Rhan 2 - Sut fydda'r cynnig yn effeithio ar/cyfrannu tuag at/cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg

Strategaeth Iaith Gwynedd 2023	Nodir isod grynodedb o'r effaith a ragwelir ar feysydd gweithredu'r Strategaeth iaith: <i>Iaith y blynyddoedd cynnar:</i> Gan fod Cylch Meithrin wedi ei lleoli ar safle Ysgol Llanllyfni (yr ysgol amgen), rhagwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith bositif ar iaith y blynyddoedd cynnar. <i>Iaith Dysgu:</i> Mae Ysgol Nebo yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, ac mae Ysgol Llanllyfni hefyd yn ysgol Gymraeg Categori 3 yn yr un modd, deuir i'r casgliad felly na fyddai'r cynnig yn cael effaith ar iaith addysg y plant. <i>Iaith Gwaith a Gwasanaeth:</i> <i>Cododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod Ysgol Nebo yn darparu gwasanaeth Cymraeg lleol amlwg yn y pentref, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth gyfrwng Cymraeg. Mynegwyd pryder y gallai cau'r ysgol arwain at golli presenoldeb gwasanaeth Cymraeg dyddiol o fewn y gymuned leol, ac at leihad yn nifer y swyddi sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfeiriwyd hefyd at rôl staff yr ysgol fel modelau ieithyddol Cymraeg, sy'n cyfrannu at cryfhau defnydd y Gymraeg ym mywyd bob dydd y gymuned.</i> Cydnabyddir, pe gweithredir y cynnig, y byddai peth effaith negyddol ar yr iaith yn sgil colli presenoldeb ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3 ym mhentref Nebo sy'n gwasanaethau'r ardal, a gan y byddai'n arwain at ddiswyddiadau staff/gweithlu'r ysgol. Fodd bynnag, nodir y bod yr ysgol amgen (Ysgol Llanllyfni) fyddai'n gwasanaethu ardal Nebo pe gweithredir y cynnig, hefyd yn ysgol cyfrwng Gymraeg Categori 3. Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn effeithio ar iaith gwaith a gwasanaeth a ddarperir yn yr ysgol amgen.

	laith y Gymuned: <i>Mynegwyd safbwyntiau cryf drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg, gan fod Ysgol Nebo yn brif fan cymdeithasol Cymraeg y pentref, ac mewn rhai achosion yr unig lle defnyddir y Gymraeg yn naturiol gan drigolion. Tynnwyd sylw at rôl yr ysgol wrth gynnal digwyddiadau cymunedol Cymraeg, gwersi Cymraeg i oedolion, a chyfleoedd rhyng-genedlaethol i ddefnyddio'r Gymraeg. Mynegwyd pryder y gallai cau'r ysgol arwain at leihad sylweddol mewn defnydd bob dydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw. Nodwyd hefyd nad oes canolfan gymunedol amgen yn Nebo/Nasareth a allai gymryd lle'r swyddogaeth Gymreig a chymdeithasol hon.</i> Mae'r Cyngor yn cydnabod, pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol ar yr iaith o fewn y gymuned yn deillio o wireddu'r cynnig, e.e gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Nebo wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol. Gan nad oes adeilad/canolfan gymunedol ym mhentref Nebo, mae trigolion Nebo a Nasareth yn gwneud defnydd rheolaidd o 'ystafell gymunedol' yr ysgol ar gyfer achlysuron a digwyddiadau cymunedol gan gynnwys gwersi Cymraeg i ddysgwyr. Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Llanllyfni ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol. Yn ogystal, pe gweithredir y cynnig, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried opsiynau ar gyfer ôl-dddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.
Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru	<i>Drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mynegwyd pryder y gallai cau ysgol wledig Gymraeg ei chyfrwng weithio'n groes i amcanion Cymraeg 2050, yn enwedig o safbwynt cynyddu defnydd cymunedol a naturiol o'r Gymraeg. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chlywed, ei defnyddio a'i throsglwyddo'n anffurfiol o ddydd i ddydd, nid yn unig ei haddysgu o fewn y dosbarth. Mynegwyd y farn bod ysgolion bach yn chwarae rôl allweddol wrth greu siaradwyr newydd mewn cymunedau gwledig.</i> Nodir fod unrhyw drafodaethau yn ymwneud ag adrefnu angen nodi ymdrech Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Cyngor yn cydnabod, pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio.

	Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Llanllyfni ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol. Yn ogystal, pe gweithredir y cynnig, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. O ran y ddarpariaeth addysgol, nodir bod Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, Categori 3. O ganlyniad, pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Llanllyfni, byddai dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3. Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg, yn bennaf gan: - fod ystadegau CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 56% o ddysgwr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwr Ysgol Llanllyfni - y byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, categori 3. - y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion. Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.
I ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd (Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2022-2032))	Mae Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, Categori 3. Mae Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys: • Bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion. • Bod darpariaeth addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr. • Bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. O ganlyniad, pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Llanllyfni, byddai dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, sy'n gweithredu amcanion a chefnogi targedau'r CSGA.

	Ar sail yr uchod, ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith negyddol ar gyflawniad Deilliannau 1, 2, 3, 5 a 6 o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032, Cyngor Gwynedd, sef: Deilliant 1: Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod addysg o'u haddysg statudol i'r llall. Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol. Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018) O ganlyniad, deuir i'r casgliad y byddai gweithredu'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32, a'r targedau a gymeradwywyd yn y Cynllun Strategol y Gymraeg.
Sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg, ac yn yr achosion lle byddai'n lleihau'r ddarpariaeth, nodwch pam bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau	Byddai'r cynnig yn golygu fod ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3 (Ysgol Nebo) yn cau. Fodd bynnag, pe gweithredir y cynnig, byddai dysgwyr yn cael cynnig lle mewn ysgol amgen, sydd hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, sef Ysgol Llanllyfni. Mae gan Ysgol Llanllyfni ddigon o gapasiti ar gyfer dysgwyr y ddwy ysgol.
<u>Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)</u>	Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y broses statudol gyfan mewn perthynas ag adolygu dyfodol Ysgol Nebo wedi'i chynnal yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg 88–93 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn unol â Safonau 88, 89 a 90, rhoddwyd ystyriaeth gydwobodol i'r effeithiau posibl y gallai'r penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafrïol na'r Saesneg, gan gynnwys ystyried yr effeithiau cadarnhaol ac andwyol posibl, sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol, a sut y gellid lleihau unrhyw effeithiau andwyol posibl. Yn ogystal, yn unol â Safonau 91, 92 a 93, ystyriwyd a cheisiwyd barn drwy'r broses ymgynghori statudol ynghylch yr effeithiau ieithyddol hyn, gan gynnwys barn ar sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er mwyn cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau andwyol ar y Gymraeg. Cefnogwyd y gofynion hyn drwy gynnal yr Asesiad Effaith Ieithyddol hwn, ynghyd ag asesiadau effaith cysylltiedig, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a nodir bod yr asesiadau hyn wedi'u hadolygu a'u diweddarau yn dilyn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol.

4. CASGLIAD

Ein disgwyliadau yw bod holl ddysgwyr y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys, oed perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer ad-drefnu gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a gwell defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith plant yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion o fewn yr ardal.

Mae ymatebion i'r ymgynghoriad statudol wedi tynnu sylw at ystod eang o safbwyntiau ynghylch effaith bosibl y cynnig ar y Gymraeg. Mynegwyd pryderon cryf, yn enwedig o safbwynt rôl Ysgol Nebo fel canolbwynt ieithyddol a chymunedol, gyda llawer o ymatebwyr yn pwysleisio'r ysgol fel prif fan cymdeithasol lle defnyddir y Gymraeg yn ddyddiol gan blant, teuluoedd a thrigolion lleol. Nodwyd bod yr ysgol yn gwneud cyfraniad pwysig at ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan gynnwys drwy ddigwyddiadau cymunedol, gweithgareddau cymdeithasol, gwersi Cymraeg i oedolion a rhyngweithio rhyng-genedlaethol. Mynegwyd pryder y gallai cau'r ysgol arwain at leihad sylweddol mewn defnydd beunyddiol o'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw, yn enwedig mewn pentref lle nad oes canolfan gymunedol amgen ar gael.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Nebo mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith andwyol bosibl ar fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.

Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol disgyblion, am y rhesymau canlynol:

- Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 56% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni.
- Mae'r cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3.
- Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.

Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Nebo arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.

Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

**ASESIAD EFFAITH
DEDDF LLESIANT A CHENDEDLAETHAU'R
DYFODOL
– YSGOL NEBO**

Mai 2026

1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Gweledigaeth y Cyngor yw:

Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
- Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
- Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

	Llewyrchus	Cydnerth	Iachach	Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang
GWYNEDD YFORY Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc							
GWYNEDD LEWYRCHUS Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng							
GWYNEDD GLYD Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau							
GWYNEDD OFALGAR Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau							
GWYNEDD GYMRAEG Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.							
GWYNEDD WERDD Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd							
GWYNEDD EFFEITHLON Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon							

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg dysgwyr drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2023-2028".

2.SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

Y cynnig:

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnis i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026.

Amcanion	
Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc	Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mynegwyd pryderon ynghylch effaith y cynnis ar blant bregus, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol neu anawsterau emosiynol. Nodwyd fod Ysgol Nebo yn cael ei gweld fel amgylchedd cynhwysol sy'n cynnis dosbarthiadau bach, cefnogaeth bersonol, a chysylltiadau agos rhwng staff a dysgwyr a bod y gefnogaeth hon yn hanfodol i ddatblygiad, hyder a llesiant rhai dysgwyr. Mynegwyd pryderon y byddai symud i ysgol fwy yn lleihau'r cyfleoedd am sylw unigol, cefnogaeth bwrpasol a llesiant, gan arwain at risg o allgáu addysgol neu ddychwelyd i addysg gartref. Mae'r Cyngor yn cydnabod gall fod peth effaith negyddol ar les dysgwyr yn ystod y cyfnod pontio. Pe byddai Ysgol Nebo yn cau, byddai'r awdurdod a'r ysgol amgen yn cydweithio'n agos â'r ysgol sy'n cau, gyda'r dysgwyr a'u teuluoedd, i sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac i gefnogi'r dysgwyr wrth ymgartrefu yn eu hysgolion newydd. Rhagwelir y byddai trefniadau pontio sydd wedi'u cynllunio'n ofalus, gyda chefnogaeth briodol, yn gallu lliniaru effeithiau negyddol ac yn cefnogi parhad cynnydd addysgol. Fel y nodir yn Llawlyfr Rhieni Gwynedd, mae gan ddysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y ddarpariaeth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid. Mae'r Cyngor yn ymrwmo i roi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i blant bregus ac/neu gydag ADY, pe byddai'r ysgol yn cau. Mae'r Cyngor yn parhau o'r farn y byddai'r cynnis yn sicrhau bod plant yr ardal yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnis amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr.
Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng	Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnis yn debygol o gael effaith negyddol ar yr amcan hwn gan y gallai arwain at ddiswyddiadau staff. Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw newid i gyflogaeth staff sy'n deillio o unrhyw gynnis. Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion.
Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau	Dim effaith.
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau	Bydd sicrhau fod y dysgwyr yn derbyn addysg o'r radd flaenaf yn greiddiol i'r cynnis, gan sicrhau y byddant yn derbyn addysg o'r un ansawdd a safon yn yr ysgol amgen.
Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned	Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, bu i ymatebwyr fynegi pryderon cryf, yn enwedig o safbwynt rôl Ysgol Nebo fel canolbwynt ieithyddol a chymunedol, gyda llawer o ymatebwyr yn pwysleisio'r ysgol fel prif fan cymdeithasol lle defnyddir y Gymraeg yn ddyddiol gan blant, teuluoedd a thrigolion lleol. Nodwyd bod yr ysgol yn gwneud cyfraniad pwysig at ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan gynnwys drwy ddigwyddiadau cymunedol, gweithgareddau cymdeithasol, gwersi Cymraeg i oedolion a rhyngweithio rhyng-genedlaethol. Mynegwyd pryder y gallai cau'r ysgol arwain at leihad sylweddol mewn defnydd beunyddiol o'r Gymraeg fel iaith

	gymunedol fyw, yn enwedig mewn pentref lle nad oes canolfan gymunedol amgen ar gael. Fel rhan o'r broses statudol, cynhaliodd yr Awdurdod asesiad o effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg. Diweddarwyd yr asesiad hwn yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Yng nghasgliad yr asesiad, nodir bod y Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Nebo mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith andwyol bosibl ar fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol. Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol disgyblion, am y rhesymau canlynol: - Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 56% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni - Mae'r cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3. - Rhagwelir y bydd byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion. Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach. Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Nebo arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd. Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.
Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd	Dim effaith.
Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon	Dim effaith.

3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

Nod	Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma?	Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma:
Cymru lewyrchus Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith.	Byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo ac addysgu'r plant mewn ysgol amgen cyfagos yn golygu fod y dysgwyr yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr. Gall cyflwyno'r cynnig arwain at staff yn colli eu swyddi.	Ymgynghorir â staff a chynrychiolwyr Undebau yn benodol fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ac Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.
Cymru gydnerth Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith
Cymru iachach Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd.	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith
Cymru sy'n fwy cyfartal Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).	Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mynegwyd pryderon ynghylch effaith y cynnig ar blant bregus, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anawsterau emosiynol. Nodwyd fod Ysgol Nebo yn cael ei gweld fel amgylchedd cynhwysol sy'n cynnig dosbarthiadau bach, cefnogaeth bersonol, a chysylltiadau agos rhwng staff a dysgwyr a bod y gefnogaeth hon yn hanfodol i ddatblygiad, hyder a llesiant rhai dysgwyr. Mynegwyd pryderon y byddai symud i ysgol fwy yn lleihau'r cyfleoedd am sylw unigol, cefnogaeth bwrpasol a llesiant, gan arwain at risg o allgáu addysgol neu ddychwelyd i addysg gartref. Yn ogystal, mynegodd ymatebwyr bryder y gallai cau Ysgol Nebo gael effaith anghymesur ar deuluoedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn enwedig o ran costau a hygyrchedd cludiant, gan gynyddu'r risg o allgáu cymdeithasol. Pwysleisiwyd hefyd rôl ganolog yr ysgol yn y gymuned, gan gyfrannu at gydlyniant cymunedol, lleihau	Er bod pryderon wedi'u mynegi ynghylch yr effaith bosibl ar blant bregus, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac anawsterau emosiynol, mae mesurau lliniaru penodol mewn lle i sicrhau na fyddai'r cynnig yn arwain at allgáu na gwahaniaethu anghymesur. Yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod ADY Cymru, mae dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn parhau i dderbyn y ddarpariaeth a nodir yn eu Cynllun Datblygu Unigol, waeth beth fo unrhyw newid mewn trefniadau ysgol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau trosglwyddo yn cael eu cynllunio'n ofalus, gyda chefnogaeth briodol i ddysgwyr a theuluoedd, gan gynnwys ymgysylltu cynnar â'r ysgol dderbyn, staff cymorth perthnasol a gwasanaethau cefnogi. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth yn Ysgol Llanllfyni yn cynnwys mynediad at ystod ehangach o arbenigedd, cyfoedion a chefnogaeth broffesiynol, gyda'r nod o gynnal neu wella llesiant, cynhwysiant a phrofiad addysgol dysgwyr.

	unigrwydd, a chreu cyfleoedd i ymgysylltu â'r Gymraeg ar draws grwpiau oedran. Mae'r Cyngor yn parhau o'r farn y byddai'r cynnig yn gwella gallu'r Awdurdod i "gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn" yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd.	O ran teuluoedd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol dan anfantais, nodir y bydd trefniadau cludiant ysgol yn cael eu gweinyddu yn unol â pholisi statudol y Cyngor, gan sicrhau nad yw cost na hygyrchedd cludiant yn rhwystr i fynediad cyfartal at addysg. Caiff effaith bosibl ar deuluoedd unigol ei hystyried lle bo hynny'n berthnasol. Yn dilyn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, fe ddiweddarwyd yr asesiad effaith cydraddoldeb er mwyn adlewyrchu'r pryderon a godwyd a'u heffaith bosibl ar nodweddion gwarchodedig a chydraddoldeb ehangach. Mae'r asesiad hwn yn nodi y gallai'r cynnig arwain at effeithiau rhannol negyddol posibl ar rai grwpiau, gan gynnwys mewn perthynas ag Anabledd, Oedran, yr Iaith Gymraeg ac Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r asesiad pellach hefyd yn nodi y gallai effeithiau positif posibl godi pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys mewn perthynas â mynediad at ddarpariaeth addysg ehangach, cyfleoedd cymdeithasol ac addysgol ychwanegol, a mynediad at arbenigedd a chefnogaeth estynedig. Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl, nodir fod polisiâu a gweithdrefnau cadarn eisoes ar waith o fewn yr Awdurdod, sy'n berthnasol i holl ysgolion y sir, i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau cydraddoldeb, atal camwahaniaethu anghyfreithiol, a hyrwyddo cyfle cyfartal i bob dysgwr. Yn ogystal, nodwyd fod polisiâu a threfniadau cadarn mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu
Cymru o gymunedau gydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.	Yn ystod y trafodaethau lleol (Tymor yr Haf 2025), bu i'r rhan-ddeiliaid nodi pwysigrwydd yr ysgol i'r gymuned ym mhentref Nebo, gan nodi'r defnydd rheolaidd a wneir o adeilad yr ysgol gan y gymuned. Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, mynegwyd pryderon pellach ynghylch y goblygiadau cymunedol pe bai'r ysgol yn cau, gyda nifer o ymatebion yn pwysleisio mai Ysgol Nebo yw'r unig le ar hyn o bryd yn y pentref lle gall aelodau'r gymuned gyfarfod a chynnal gweithgareddau cymdeithasol. Nodwyd y gallai colli'r ysgol fel canolbwynt cymunedol arwain at wanhau cydlyniant cymunedol, lleihau cyfleoedd i ryngweithio cymdeithasol, a chael effaith negyddol ar fywiogrwydd a chynaliadwyedd y gymuned wledig yn y tymor hwy.	Fel rhan o'r broses statudol, cynhaliodd yr Awdurdod asesiad o effaith y cynnig ar y gymuned. Diweddarwyd yr asesiad hwn yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Yn yr asesiad diweddaraf, nodir bod y Cyngor yn cydnabod y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Nebo, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nebo fel canolbwynt cymunedol. Cydnabyddir y pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch goblygiadau hyn ar fywiogrwydd y gymuned. Yn ogystal, pe byddai Ysgol Nebo yn cau, cydnabyddir y byddai'r ysgol leol yn bellach o gartrefi o fewn dalgylch presennol Ysgol Nebo, ac o safbwynt amddifadedd – golyga fod un o ddangosyddion 'mynediad i wasanaethau' yn pellhau oddi wrth drigolion yr ardal. O ganlyniad, rhagwelir y bydd peth effaith negyddol ar y gymuned leol pe byddai'r ysgol yn cau.

Mae cymuned Nebo yn gryf a gweithgar a chydabyddir y gallai cau Ysgol Nebo arwain at beth effaith negyddol ar y gymuned.

Fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (78%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni (44%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Llanllyfni eisoes yn bodoli.

Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Nebo, byddai'r Cyngor yn ceisio liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen. Yn ogystal, nodir pe bai penderfyniad i gau'r ysgol yn cael ei wneud, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol.

Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Trwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, codwyd pryderon y gallai cau'r ysgol leihau defnydd rheolaidd o'r Gymraeg, yn ogystal â chyfleoedd i blant o gartrefi di-Gymraeg ddatblygu rhuglder yn yr iaith. Pwysleiswyd yr angen i sicrhau bod addysg cyfrwng Gymraeg yn parhau'n ganolog i unrhyw drefniadau yn y dyfodol, a bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu hyrwyddo'n weithredol. Disgrifiwyd yr ysgol fel canolbwynt ieithyddol a diwylliannol pwysig, a mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol arwain at wanhau hunaniaeth leol y gymuned.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Nebo ar fywiogrwydd ieithyddol y gymuned leol. Fodd bynnag, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, ar sail y data diweddaraf a'r ffaith y bydd dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Gymraeg gyda chyfleoedd ehangach i gymdeithasu yn y Gymraeg, rhagwelir y bydd y cynnig yn cynnal neu hyd yn oed cryfhau defnydd anffurfiol y Gymraeg ymhlith dysgwyr. Er hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod, pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, y gallai'r newid arwain at effaith negyddol ar ddefnydd y Gymraeg fel iaith gymunedol y tu allan i'r ysgol, ac yn ystyried mesurau lliniaru megis cynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau'r ysgol amgen ac opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr adeilad.

Fel rhan o'r broses statudol, cynhaliodd yr Awdurdod asesiad o effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg. Diweddarwyd yr asesiad hwn yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Yn yr asesiad diweddaraf, nodir bod y Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Nebo mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith andwyol bosibl ar fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.

Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol disgyblion, am y rhesymau canlynol:

- Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 56% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni

- Mae'r cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Gymraeg, Categori 3.

- Rhagwelir y bydd byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion. Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Nebo arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg

		yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith.

4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

Egwyddorion Datblygu cynaliadwy	A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor?
Tymor Hir Cydbwysu anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol.	Mae'r patrwm o niferoedd dysgwyr yn gostwng wedi bod yn gyson ers nifer o flynyddoedd, gyda rhagamcanion yn dangos y bydd niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau i fod yn fregus dros y blynyddoedd nesaf, ac felly dengys y bydd yr heriau presennol sydd yn wynebu'r ysgol yn rhai hir dymor, ac felly mae'r achos dros newid yn glir.
Atal Neilltuo adnoddau ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Byddwn yn rhoi sylw i broblemau drwy atal ac ymyrryd yn fuan yn hytrach na thrwy ymateb.	Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu gweithredu ymhellach, bydd anghenion y dysgwyr yn flaenoriaeth yn ystod pob cam o unrhyw broses.
Integreiddio Cael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant.	Bu i'r awdurdod benderfynu cychwyn y broses o edrych ar ddyfodol Ysgol Nebo yn sgil sefyllfa argyfyngus sy'n wynebu'r ysgol.
Cydweithredu Gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau.	Bydd cydweithio gydag adrannau perthnasol eraill a'r ysgol amgen yn rhan bwysig o gyflawni'r amcanion er lles yr ysgol a phlant y dalgylch.
Cynnwys (Cyfathrebu ac Ymgysylltu) Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu ein cynllun a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.	Mae'r cynnig yma wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, ac ymgynghoriad ar gyfer plant. Mae'r broses hyd yma wedi cynnwys cyfarfodydd adolygu lleol i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol yr ysgol. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi cynnwys y Corff Llywodraethol, staff a rhieni Ysgol Nebo.

5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, codwyd pryderon penodol ynghylch effaith y cynnig ar blant bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ar lesiant teuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, ac ar fywiogrwydd ieithyddol a chymunedol y pentref, gan nodi effaith negyddol bosib

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig hwn, gall arwain at golli ysgol yng nghymuned Nebo, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu yr ysgolion amgen cyfagos, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni ac felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned Nebo eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y gymuned a Ysgol Llanllyfni. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Llanllyfni yn cynnwys cymuned Nebo lle'n briodol.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau bod unrhyw drefniadau pontio yn rhoi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i blant bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau.

Bydd y cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
 - o ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
 - o hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - o meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.
- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
- **Deddf Lluedd Arfog 2021.** Rhaid i Gyngorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Ysgol Nebo

Awdur: Gwern ap Rhisiart

Dyddiad: Mai 2026

Fersiwn: 3

CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Polisiau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026, a derbyniwyd 70 ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae Ysgol Nebo wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2014 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:

- **Niferoedd dysgwyr** – Dengys data cyfrifiad CYBLD Ionawr 2026, mai dim ond 11 disgybl Derbyn i Blwyddyn 6 oedd yn mynychu'r ysgol ac 1 plentyn yn y Dosbarth Meithrin. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 51 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 (+7 yn y Dosbarth Meithrin).
- **Dysgwyr y dalgylch** – Dengys data Ionawr 2026 mai dim ond 22% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo sy'n dewis mynychu'r ysgol. Mae 78% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch.
- **Rhagamcanion niferoedd** – Mae rhagamcanion niferoedd yn argymhell fydd niferoedd yn parhau'n fregus i'r dyfodol: Medi 2026= 12, Medi 2027= 11, Medi 2028=10
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Yn seiliedig ar ffigyrau Ionawr 2026, mae o ddeutu 79% o lefydd gweigion yn yr ysgol (46 mewn nifer)
- **Maint dosbarthiadau bychain** – Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth.
- **Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau** – Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.

- **Cyllid ychwanegol i'r dyraniad** - Mae Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27 (seiliedig ar niferoedd Medi 2025) fydd £64,046.
- **Cost fesul dysgwr** - Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Nebo yn 2026-27 yw £16,066 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,998

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

- Staff, Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarchodwyr Ysgol Nebo,
- Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig, ymgynghorir gyda'r holl ymgynghorai a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion,
- Adran Addysg a Swyddogion adrannau eraill Cyngor Gwynedd

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Panel Adolygu Nebo 1	18 Mawrth 2025	Sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol (PAY) Nebo ym mis Mawrth 2025 a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng mis Mawrth a Gorffennaf 2025, gyda'r olaf ar 14 Gorffennaf 2025. Roedd aelodaeth y PAY yn cynnwys pennaeth a staff yr ysgol, llywodraethwyr, yr Aelod Lleol, rhieni/gwarchodwyr.
Panel Adolygu Nebo 2	12 Mai 2025	
Panel Adolygu Nebo 3	14 Gorffennaf 2025	Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd dalgylch Ysgol Nebo er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol, gan ymateb yn benodol i'r niferoedd isel o ddysgwyr.
Ymgynghoriad Statudol	Rhagfyr 2025 – Ionawr 2026	Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig, yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026, a derbyniwyd 70 ymateb i'r ymgynghoriad.

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

	Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol	Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Mae gan ysgolion Gwynedd bolisiau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisiâu Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn <i>"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i> Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd yma.	Dim
Anabledd	Yn ystod yr ymgynghoriad, mynegodd nifer o ymatebwyr bryder y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar blant bregus, gan gynnwys rhai ag ADY, oherwydd colli manteision amgylchedd dosbarthiadau bach, cefnogaeth bersonol a'r ymdeimlad o gynhwysiant a nodwyd yn Ysgol Nebo. Codwyd pryderon penodol ynghylch llesiant, iechyd meddwl a'r risg y gallai rhai dysgwyr ei chael hi'n anodd pontio i ysgol fwy, gyda goblygiadau posibl i'w profiad addysgol. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn ac yn nodi bod polisiâu cydraddoldeb, cynhwysiant ac amddiffyn rhag gwahaniaethu ar waith yn y ddarpariaeth bresennol ac yn yr ysgol amgen. Pe gweithredir y cynnig, bydd trefniadau pontio yn rhoi pwyslais ar anghenion unigol, sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei ystyried. Er hynny, ni ragwelir y byddai'r newid yn cael effaith ar y nodwedd yma. Byddai asesiad o unrhyw ysgolion amgen perthnasol ar sail hygyrchedd yn cael ei gynnal, a byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw gludiant a ddarperir (yn unol a pholisi cludiant yr Adran Addysg) yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Bydd anghenion unrhyw blentyn anabl yn cael eu hystyried yn unol â pholisiau Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg.	Yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nodir effaith negyddol bosib ar rai dysgwyr oherwydd pryderon y gallai symud i ysgol fwy leihau sylw unigol a chefnogaeth bwrpasol, gan gynyddu'r risg o anhawster pontio neu allgáu addysgol; fodd bynnag, asesiad y Cyngor yw y byddai effaith niwtral neu gadarnhaol ar y nodwedd hon pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu gan y byddai'r ysgol amgen yn gallu cynnig dosbarthiadau gyda mwy o gyfoedion oed-berthnasol. Byddai asesiad o unrhyw ysgolion amgen perthnasol ar sail hygyrchedd yn cael ei gynnal, a byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw gludiant a ddarperir (yn unol a pholisi cludiant yr Adran Addysg) yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Bydd anghenion unrhyw blentyn anabl yn cael eu hystyried yn unol â pholisiau Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg.
Rhyw	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn effeithio ar y nodwedd yma. Byddai gweithredu'r cynnig yn golygu fod pawb yn parhau i gael eu trin yn ôl eu hangen beth bynnag yw eu rhyw. Mae bob ysgol yn gweithredu Polisi Cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: <i>"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>	Dim

Oedran	Yn ystod yr ymgynghoriad, mynegodd nifer o ymatebwyr bryder y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar blant bregus, gan gynnwys rhai ag ADY, oherwydd colli manteision amgylchedd dosbarthiadau bach, cefnogaeth bersonol a'r ymdeimlad o gynhwysiant a nodwyd yn Ysgol Nebo. Codwyd pryderon penodol ynghylch llesiant, iechyd meddwl a'r risg y gallai rhai dysgwyr ei chael hi'n anodd pontio i ysgol fwy, gyda goblygiadau posibl i'w profiad addysgol. Mae'r Cyngor yn nodi'r y pryderon hyn ac yn nodi bod polisiau cydraddoldeb, cynhwysiant ac amddiffyn rhag gwahaniaethu ar waith yn y ddarpariaeth bresennol ac yn yr ysgol amgen. Pe gweithredir y cynnig, bydd trefniadau pontio yn rhoi pwyslais ar anghenion unigol. Pe gweithredir y cynnig, rhagwelir y byddai plant Ysgol Nebo yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol yn eu dosbarth gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas i'w hoedran ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol. Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy addas i'w hoedran yn yr ysgol amgen gyfagos oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi wedi'u gwahaniaethu yn briodol ar gyfer yr ystod oedran. Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn golygu fod pobl o unrhyw oedran yn cael eu trin yn deg ac yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: <i>"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>	Yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nodir effaith negyddol bosib ar rai dysgwyr oherwydd pryderon y gallai symud i ysgol fwy leihau sylw unigol a chefnogaeth bwrpasol, gan gynyddu'r risg o anhawster pontio neu allgáu addysgol; fodd bynnag, asesiad y Cyngor yw y byddai effaith niwtral neu gadarnhaol ar y nodwedd hon pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu gan y byddai'r ysgol amgen yn gallu cynnig dosbarthiadau gyda mwy o gyfoedion oed-berthnasol. Byddai asesiad o unrhyw ysgolion amgen perthnasol ar sail hygyrchedd yn cael ei gynnal, a byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw gludiant a ddarperir (yn unol a pholisi cludiant yr Adran Addysg) yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Bydd anghenion unrhyw blentyn anabl yn cael eu hystyried yn unol â pholisiau Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg.
Crefydd a Chred	Ysgolion cymunedol yw Ysgol Nebo a'r ysgol amgen a nodir yn y cynnig (Ysgol Llanllyfni). Mae gan bob ysgol Bolisi Cynhwysiad a fyddai'n delio ag unrhyw ddigwyddiad gwahaniaethol a allai godi yn yr ysgol, sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gred. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd hwn.	Dim
Cyfeiriadedd Rhywiol	Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei gyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, sy'n greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch	Dim

	yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth mwy mewn ysgol amgen. Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Mae Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, yr ysgol amgen arfaethedig, yn gweithredu polisi cydraddoldeb sy'n nodi fod yr ysgol yn: <i>"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>	
Ail-bennu rhywedd	Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar bobl ar sail ailbennu rhywedd. Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd gan gynnwys Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, fod yr ysgolion yn <i>"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>	Dim
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar unrhyw un priod neu mewn partneriaeth sifil, gan fod y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig yn gweithredu'r un polisiau.	Dim
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar unrhyw un beichiog, boed yn staff neu yn riant, gan fod y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig yn gweithredu'r un polisiau.	Dim
Iaith Gymraeg	Drwy ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, mynegwyd pryder y gallai cau Ysgol Nebo arwain at leihad mewn defnydd cymunedol o'r Gymraeg, er bod darpariaeth addysgol Gymraeg yn parhau. Pwysleisiodd ymatebwyr fod yr ysgol yn cyfrannu at ddefnydd naturiol a chymdeithasol o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, ac y gallai colli'r ysgol leihau'r cyfleoedd hynny o fewn y gymuned leol. Nodwyd hefyd fod Ysgol Nebo yn chwarae rôl bwysig wrth hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, drwy weithgareddau cymunedol a rhynggennedlaethol, ac y gallai cau'r ysgol wanhau statws y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw, yn enwedig gan nad oes canolfan gymunedol amgen yn y pentref. Yn ogystal, mynegwyd pryderon y gallai cau'r ysgol effeithio ar gynaliadwyedd y gymuned leol, gan gynnwys cydlyniant cymunedol, defnydd cymunedol o'r Gymraeg a deniadolrwydd y pentref i deuluoedd ifanc, gan bwysleisio rôl yr ysgol fel canolbwynt cymdeithasol ac ieithyddol mewn ardal heb gyfleuster cymunedol amgen. Yn ogystal, mynegwyd pryderon y gallai cau'r ysgol effeithio ar gynaliadwyedd y gymuned leol, gan gynnwys cydlyniant cymunedol, defnydd cymunedol o'r Gymraeg a	Negyddol (Y Gymraeg o fewn y gymuned) / Positif (Addysgol) Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl cau'r ysgol ar fywiogrwydd ieithyddol y gymuned leol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg nac ar gyfleoedd ieithyddol dysgwyr. Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y sir. Golyga hyn, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, y bydd dysgwyr Ysgol Nebo, yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn Ysgol Llanllyfni.

	deniadolrwydd y pentref i deuluoedd ifanc, gan bwysleisio rôl yr ysgol fel canolbwynt cymdeithasol ac ieithyddol mewn ardal heb gyfleuster cymunedol amgen. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl cau'r ysgol ar fywiogrwydd ieithyddol y gymuned leol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg nac ar gyfleoedd ieithyddol dysgwyr. Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y sir. Golyga hyn, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, y bydd dysgwyr Ysgol Nebo, yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn Ysgol Llanllyfni. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir byddai'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o safbwynt addysgol wrth i ddysgwyr Ysgol Nebo elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol. Mae'r ysgol amgen, sef Ysgol Llanllyfni, yn gwasanaethu ardaloedd sydd yn gadarnle i'r iaith Gymraeg. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor yn cydnabod bod risg o effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o safbwynt cymunedol a rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio, ac o ganlyniad, y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Nebo wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol. Nodir felly y gellid ystyried mesurau lliniaru, gan gynnwys hyrwyddo cysylltiadau rhwng cymuned Nebo a gweithgareddau'r ysgol amgen, ynghyd ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnyddio adeilad yr ysgol, gan ystyried y defnydd cymunedol presennol.	Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir byddai'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o safbwynt addysgol wrth i ddysgwyr Ysgol Nebo elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol. Mae'r ysgol amgen, sef Ysgol Llanllyfni, yn gwasanaethu ardaloedd sydd yn gadarnle i'r iaith Gymraeg. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor yn cydnabod bod risg o effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o safbwynt cymunedol a rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio, ac o ganlyniad, y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Nebo wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol. Nodir felly y gellid ystyried mesurau lliniaru, gan gynnwys hyrwyddo cysylltiadau rhwng cymuned Nebo a gweithgareddau'r ysgol amgen, ynghyd ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnyddio adeilad yr ysgol, gan ystyried y defnydd cymunedol presennol.
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Yn ystod yr ymgynghoriad, mynegodd ymatebwyr bryder y gallai cau Ysgol Nebo gael effaith anghymesur ar deuluoedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn enwedig o ran costau a hygyrchedd cludiant, gan gynyddu'r risg o allgáu cymdeithasol. Pwysleisiwyd hefyd rôl ganolog yr ysgol yn y gymuned, gan gyfrannu at gydlyniant cymunedol, lleihau unigrwydd, a chreu cyfleoedd i ymgysylltu â'r Gymraeg ar draws grwpiau oedran. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn ac yn nodi, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddysgwyr cymwys	Rhannol Negyddol/Positif

	yn unol â pholisi cludiant ysgolion y sir, gan gynnwys ystyriaethau diogelwch llwybrau cerdded ac anghenion unigol lle bo'n berthnasol. Rhagwelir y byddai'r cynnig yn lleihau anfantais cymdeithasol drwy sicrhau mwy o brofiadau ac amrywiaeth dysgu, mwy o adnoddau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau.	
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, ynghyd a'u teuluoedd. Bydd plant i deuluoedd milwrol neu gyn-filwrol yn cael yr un chwarae teg pa bynnag ysgol mae nhw'n mynychu.	Dim
Hawliau Dynol	Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar hawliau dynol.	Dim
Arall	-	-

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Fe ddiweddarwyd yr holl asesiadau yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol.

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw bolisiâu arfaethedig fydd yn effeithio ar blant a phobl ifanc yr ardal.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwrmpasu?

Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith ar ddyletswydd statudol yr ysgol i amddiffyn dysgwyr rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth.

Anelir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hybu'r ysgol amgen arfaethedig i barhau i ddilyn polisiâu a gweithdrefnau cydraddoldeb. Pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd cyfartal wrth gael eu lleoli yn Ysgol Llanllyfni gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd a gwersi wedi'u gwahaniaethu yn briodol ar gyfer yr ystod oedran.

Gan fod nifer o ddysgwyr sy'n byw yn nalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu Ysgol Llanllyfni mae cysylltiad rhwng yr ysgol a'r gymuned yn bodoli eisoes. Er hynny, pe gweithredir y cynnig, fe hyrwyddir cyfleon i'r ysgol adeiladu ar ei chysylltiadau presennol gyda dalgylch Ysgol Nebo.

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, sy'n greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. O weithredu'r cynnig, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth mwy.

Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, codwyd pryderon gan yr ymgynghorai ynghylch effaith y cynnig ar blant bregus, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, anawsterau emosiynol neu gymdeithasol, neu'r rhai sydd wedi profi bwllo neu anawsterau mewn ysgolion mwy. Nodwyd bod Ysgol Nebo yn darparu amgylchedd cynhwysol, dosbarthiadau bach, a chefnogaeth bersonol sy'n hanfodol i lesiant a datblygiad rhai dysgwyr. Mynegwyd pryder y byddai symud i ysgol fwy yn lleihau'r cyfleoedd am sylw unigol, cefnogaeth bwrpasol a llesiant, gan arwain at risg o allgáu addysgol neu ddychwelyd i addysg gartref. Codwyd hefyd y byddai teithio pellach, costau cludiant, a diffyg mynediad at gludiant preifat yn debygol o effeithio'n anghymesur ar deuluoedd tlotach neu'r rhai heb gar, gan gynyddu allgáu cymdeithasol.

O ran cydlyniant cymunedol, pwysleisiodd yr ymatebwyr bod yr ysgol yn ganolbwynt i'r gymuned, gan ddarparu cyfleoedd i'r gymuned gyfan, gan gynnwys pobl hŷn, i gymdeithasu, lleihau unigrwydd ac ymgysylltu â'r Gymraeg. Mae nifer o ymatebion yn galw am sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei ystyried, a bod effaith ar lesiant, iechyd meddwl a phrofiad addysgol plant bregus yn cael sylw penodol.

Mae'r Cyngor yn nodi'r materion hyn ac yn pwysleisio bod polisiâu cydraddoldeb, cynhwysiant ac amddiffyn rhag gwahaniaethu yn weithredol yn y ddarpariaeth bresennol ac yn Ysgol Llanllyfni. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau bod unrhyw drefniadau pontio yn rhoi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i blant bregus ac ag ADY, pe byddai'r ysgol yn cau.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau yr anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau fod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal gan y byddai y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, codwyd pryderon y byddai cau Ysgol Nebo yn cael effaith anghymesur ar deuluoedd sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, yn enwedig o ran costau a hygyrchedd cludiant, a'r risg o gynyddu allgáu cymdeithasol i blant o deuluoedd tlotach neu'r rhai heb fynediad at gar. Nodwyd hefyd y gallai teithio pellach, diffyg mynediad at weithgareddau allgyrsiol, a'r angen i rieni gyd-deithio â phlant ifanc ar drafndiaeth gyhoeddus greu rhwystrau ychwanegol i deuluoedd sydd eisoes dan anfantais. Mae'r Cyngor yn nodi'r materion hyn ac yn nodi, pe byddai'r ysgol yn cau, y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddysgwyr cymwys yn unol â pholisi

cludiant ysgolion y sir, sy'n sicrhau bod pob dysgwr cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol dalgylch neu'r ysgol agosaf yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys ystyriaethau diogelwch llwybrau cerdded ac anghenion unigol lle bo'n berthnasol.

Drwy weithredu'r cynnig, byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran, a byddai'n sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg. Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Ein disgwyliadau yw bod holl ddysgwyr y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys a gallu perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer newid trefniadau lleol gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a chynyddu defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith y dysgwyr yn ystyriaeth allweddol wrth lunio'r cynnig.

Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y Sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg, Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y bydd dysgwyr Ysgol Nebo yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn Ysgol Llanllyfni, pe gweithredir y cynnig.

Drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mynegwyd pryderon cryf y gallai cau Ysgol Nebo arwain at drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, er bod darpariaeth addysgol Gymraeg yn parhau. Pwysleisiwyd gan ymatebwyr fod Ysgol Nebo yn ddarparu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol a chymdeithasol o ddydd i ddydd, nid yn unig fel iaith addysgu, a bod colli'r ysgol yn gallu lleihau'r cyfleoedd hynny'n sylweddol o fewn y gymuned leol.

Nodwyd hefyd fod yr ysgol yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau cyfleoedd gweithgar i ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys drwy ddigwyddiadau cymunedol, gweithgareddau cymdeithasol, gwersi Gymraeg i oedolion, a rhyngweithio rhwng siaradwyr Gymraeg a phreswylwyr di-Gymraeg neu newydd-ddyfodiaid. Mynegwyd pryder y gallai cau'r ysgol arwain at goli'r cyfleoedd hyn, gan wanhau statws y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw ac o bosibl danseilio'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol.

Tynnwyd sylw at y risg y byddai colli'r ysgol yn lleihau'r math hwn o hyrwyddo gweithredol o'r Gymraeg yn y gymuned, yn enwedig gan nad oes canolfan gymunedol amgen yn yr ardal.

Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Nebo mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith andwyol bosibl ar fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.

Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol disgyblion, am y rhesymau canlynol:

- Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 56% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Gymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni

- Mae'r cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Gymraeg.

Rhagwelir y bydd byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion. Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Nebo arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Dengys yr asesiad effaith ar y gymuned y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Nebo. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Nebo yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nebo, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Ysgol Nebo yn bodoli eisoes.

Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Llanllyfni. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nebo yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Nebo, lle'n briodol. Yn ogystal, gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Llanllyfni ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, mynegwyd pryderon y gallai cau Ysgol Nebo gael effaith hirdymor ar gynaliadwyedd cymuned leol, yn enwedig o safbwynt cydlyniant cymunedol, defnydd o'r Gymraeg o fewn y Gymuned, a deniadolrwydd y pentref i deuluoedd ifanc. Pwysleisiwyd rôl yr ysgol fel canolbwynt cymdeithasol ac ieithyddol sy'n cefnogi llesiant cymdeithasol, yn atal unigrwydd, ac yn hwyluso cydweithio a chynnwys ar draws y gymuned, yn enwedig mewn ardal heb ganolfan gymunedol amgen. Tynnwyd sylw hefyd at y ffordd y mae'r ysgol yn cyfrannu at sawl nod llesiant, drwy ddarparu mynediad lleol at addysg, gweithgareddau cymunedol a defnydd naturiol o'r Gymraeg i bob oedran a chefnidir.

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig hwn, gall arwain at golli ysgol yn y gymuned, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni, ac felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned yr ysgol honno yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Llanllyfni. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Llanllyfni yn cynnwys y gymuned lle'n briodol.

Bydd y cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Na

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:

Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal wrth gael eu lleoli mewn ysgol amgen oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sydd yn seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol, ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig, rhagwelir y byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, bydd yn sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg, ac yn caniatáu mynediad at fwy o weithgareddau perthnasol i'w lefel gallu. Byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

Effaith Negyddol Sylweddol:

Cydnabyddir y gall yr opsiwn arfaethedig sydd yn cael eu cynnig gael effaith ar sefydliad o fewn y gymuned a chael effaith ar gydlyniant cymunedol, a rhagwelir yr angen i liniaru hyn drwy feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned.

Yn sgil y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nodir hefyd effaith negyddol bosib ar rai dysgwyr bregus, gan gynnwys dysgwyr ag ADY neu anghenion emosiynol/gymdeithasol, oherwydd pryderon ynghylch colli manteision amgylchedd dosbarthiadau bach a chefnogaeth bersonol, yn ogystal â'r heriau pontio i ysgol fwy, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, mae'r Cyngor yn nodi, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, y byddai trefniadau pontio yn canolbwyntio ar anghenion unigol a llais y plentyn, gyda pholisiau cynhwysiant a chydaddoldeb ar waith yn yr ysgol amgen, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Yr ysgol (a'u Corff Llywodraethu) sydd yn gyfrifol am weithredu ei pholisi cydraddoldeb a bydd yr Awdurdod, drwy ei weithdrefnau cefnogi a monitro arferol yn sicrhau cydymffurfiaeth.

14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Na

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Ddim yn berthnasol.

Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau

Ddim yn berthnasol.

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, mae'r Cyngor wedi ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ac wedi diweddarau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd yr effaith yn parhau i gael ei fonitro fel rhan o ddyletswyddau statudol parhaus y Cyngor.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau yr anghyfarfattedd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau fod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig, rhagwelir y byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, a byddai'n sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg. Byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Rhagwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith positif ar y Gymraeg gan y byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol.

Byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni yn sicrhau parhad addysg cyfrwng Cymraeg, mewn ysgol lle mae'r Gymraeg yn gryf, gyda data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos bod 68% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni (o'i gymharu â 56% yn Ysgol Nebo) yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref. Er bod y Cyngor yn cydnabod pryderon am effaith bosibl ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg yn Nebo, gellid ystyried mesurau lliniaru drwy gryfhau cysylltiadau cymunedol â'r ysgol amgen a thrwy ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd yr adeilad yr ysgol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Pe byddai'r ysgol yn cau, gallai'r Awdurdod Lleol a Chyrff Llywodraethol yr ysgolion amgen ystyried dulliau i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn gymdeithasol trwy gyfrwng gweithgareddau allgyrsiol a chymunedol.

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol.

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisi/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu [Fframwaith Fesur](#)

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth
-	-	-	-	-

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth
Pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, byddwn yn monitro effaith cau'r ysgol ac yn ymdrechu i gynorthwyo gydag unrhyw effaith negyddol all ddeillio o ganlyniad y polisi.	Parhaol	Adran Addysg	Na

Atodiad D – Sylwadau'r Aelod Lleol

Sylwadau Aelod Lleol i Adroddiad Cabinet Ysgol Nebo

11/05/26

Hoffwn ddiolch i'r swyddogion, staff yr ysgol, y Corff Llywodraethol, y gymuned, rhieni ac yn enwedig y disgyblion am eu hymrwymiad a'u cyfraniad i'r broses yma dros y misoedd diwethaf. Er fy mod yn cydnabod y gwaith sydd wedi'i wneud wrth gynnal yr ymgynghoriad statudol a chrynhai'r ymatebion, rwy'n parhau yn glir iawn yn fy ngwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Nebo. Mae'r adroddiad hwn ei hun yn dangos maint y gwrthwynebiad lleol, gyda nifer fawr o'r ymatebion yn tynnu sylw at werth addysgol, cymunedol ac ieithyddol yr ysgol. Mae hefyd yn cydnabod rôl yr ysgol fel calon y gymuned, ei chyfraniad at fywiogrwydd y Gymraeg, a'r effaith bosibl ar lesiant plant a disgyblion bregus pe bai'r ysgol yn cau. Yn fy marn i, nid materion eilaidd yw'r rhain y gellir eu lliniaru wedyn, ond ystyriaethau sylfaenol ddylai fod wrth wraidd y penderfyniad yma.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn gosod rhagdybiaeth weithdrefnol glir yn erbyn cau ysgolion gwledig, ac nid wyf wedi fy argyhoeddi fod y trothwy uchel hwnnw wedi'i gyrraedd yn achos Ysgol Nebo. Rwy'n parhau o'r farn nad yw pob opsiwn arall wedi'i archwilio'n llawn nag yn ddigon creadigol. Mae hynny'n arbennig o wir yng nghyd-destun yr opsiwn a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethol i ddatblygu Ysgol Nebo fel darpariaeth arbenigol i gefnogi plant gydag anghenion cymdeithasol, emosiynol a llesiant. Yn hytrach na gweld hynny fel cyfle strategol, mae'r adroddiad yn parhau i'w asesu bron yn gyfan gwbl ar sail niferoedd cofrestredig a chost fesul dysgwr. Ond ar adeg lle mae cynnydd sylweddol mewn addysg gartref, mwy o bryderon iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc, a mwy o deuluoedd yn chwilio am ddarpariaeth fwy hyblyg a chefnogol, mae angen gofyn a all ysgolion bach fel Ysgol Nebo fod yn rhan o'r ateb yn hytrach na chael eu gweld fel problem i'w dileu.

Mae pryderon dal i fodoli ynghylch y ffigwr cynnal a chadw o £95,000 a nodwyd yn yr ymgynghoriad heb dystiolaeth dechnegol fanwl wedi'i chyhoeddi hyd yma oni bai am arolwg safle gweledol gan swyddogion y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cydnabod y gallai cau'r ysgol gael effaith negyddol ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg ac ar gydlyniant y pentref. Fel Cyngor sydd yn datgan yn gyson ei ymrwymiad i gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg, rhaid gofyn pa neges rydym yn ei rhoi os ydym yn cau ysgol Gymraeg gwledig sydd yn parhau i ddarparu addysg dda ac sydd yn greiddiol i'w chymuned.

Nid wyf yn anghytuno bod heriau yn bodoli yn Ysgol Nebo, ond nid wyf yn derbyn mai cau yw'r unig ymateb posibl, nag o reidrwydd yr ymateb gorau yn y tymor hir.

Rwyf yn annog y Cabinet i beidio â symud ymlaen i'r cam hysbysiad statudol, ac yn hytrach ailystyried yr opsiynau amgen mewn modd gwirioneddol agored a rhoi ystyriaeth lawn i ddyfodol cynaliadwy Ysgol Nebo a'r gymuned mae'n ei gwasanaethu.

Yn gywir,
Cynghorydd Dafydd Davies

Aelod Lleol Ward Clynog

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Dyddiad y cyfarfod: 19 Mai 2026
Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dewi Jones
Swyddog Cyswllt: Gwern ap Rhisiart – Pennaeth Addysg
Teitl yr Eitem: Ysgol Baladeulyn – Adroddiad Ymgynghori
Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynnir i'r Cabinet ystyried cynnwys yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol (Adroddiad Ymgynghori) ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, a chymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig, yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Mae'r adroddiad ymgynghori ynghlwm (Atodiad A) yn cyflwyno canlyniadau'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen. Gofynnir i'r Cabinet ystyried cynnwys yr adroddiad ymgynghori, a chymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig a chynnal cyfnod gwrthwynebu ffurfiol 28 diwrnod o hyd, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion.

2.2 Mae'r angen am benderfyniad yn deillio o sefyllfa fregus yr ysgol, gyda niferoedd dysgwyr isel ers peth amser, canran uchel o lefydd gweigion, costau fesul dysgwr uchel, a dibyniaeth ar gyllid gwarchodaeth ychwanegol. Dengys rhagamcanion y bydd y niferoedd yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf.

3. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

3.1 Mae Ysgol Baladeulyn yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, wedi'i lleoli ym mhentref Nantlle. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 11 oed.

3.2 Ar y pwynt cyfrifiad CYBLD Ionawr 2026, roedd 6 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 ar gofrestr Ysgol Baladeulyn, gyda chapasiti o 55. O ganlyniad, roedd 49 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sy'n cyfateb i 89% o gapasiti'r ysgol. Yn ogystal, mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin, ac roedd 2 ddysgwr Meithrin ar y gofrestr, gan adael 5 o lefydd gweigion yn y Meithrin.

3.3 O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac yn wynebu heriau cynyddol niferus, gan gynnwys:

- Niferoedd isel o ddysgwyr** – Dengys data Ionawr 2026 fod 6 dysgwr llawn amser a 2 ddysgwr Meithrin yn mynychu Ysgol Baladeulyn.
- Canran uchel o lefydd gweigion** – Gyda 6 o ddysgwyr (Derbyn i Flwyddyn 6) ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 55, mae 49 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 89% o gapasiti'r ysgol. Mae gan yr

ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 2 ddysgwr Meithrin ar y gofrestr, mae 5 o lefydd gweigion yn y Meithrin yn ogystal. O ganlyniad, wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin - Blwyddyn 6, mae gan Ysgol Baladeulyn 54 (87%) o lefydd gweigion

- **Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang** – Yn Ysgol Baladeulyn (Medi 2025) mae un dosbarth sy'n cynnwys pob dysgwr yn yr ysgol – sef 6 dysgwr Derbyn-BI.6 (Derbyn, BI.1 a 2, a BI.4 a 5) ynghyd â 2 ddysgwr Meithrin. O fewn y dosbarth hwn, caiff grwpiau gwahanol eu ffurfio ar wahanol adegau o'r dydd, gyda'r cymorthyddion yn arwain y gweithgareddau gyda'r dysgwyr ieuengaf. Mae hyn felly yn golygu mae'r amrediad oedran yn y dosbarth cyfan yn ymestyn hyd at 8 mlynedd.
- **Rhagamcanion niferoedd** – Mae rhagamcanion Medi 2025 yn awgrymu y bydd niferoedd dysgwyr yn parhau'n isel dros y dair mlynedd nesaf, gyda rhagamcan o 7 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 1 dysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028.
- **Dysgwyr y dalgylch** – Dengys data Ionawr 2026 fod 8 o blant yn byw yn nalgylch Baladeulyn. O'r rhain mae 25% (2 blentyn) yn dewis mynychu Ysgol Baladeulyn, tra bod 75% (6 plentyn) yn dewis mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch.
- **Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd** – Mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27 (seiliedig ar niferoedd Medi 2025) fydd £74,446.
- **Cyfartaledd cost fesul dysgwr** – Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn y flwyddyn ariannol 2026-27 fydd £25,123 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,998.

3.4 Yn ystod 2025, sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Baladeulyn (PAY) gyda chynrychiolaeth o'r corff llywodraethol, rhieni, staff ac Aelod Lleol. Cynhaliwyd cyfres o dri chyfarfod PAY i drafod yr heriau sy'n wynebu'r ysgol ac adnabod opsiynau ar gyfer dyfodol yr ysgol. Trafodwyd ystod eang o opsiynau, a gwerthuswyd ac aseswyd yr opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" a ffactorau perthnasol o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

3.5 Ar 14 Hydref 2025, cyflwynwyd papur cynnig i'r Cabinet, gan argymhell cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn. Cymeradwyodd y Cabinet y cynnig hwn, gan nodi'r angen i ymateb i'r sefyllfa fregus o ran niferoedd isel, costau uchel, a chynnaladwyedd hirdymor yr ysgol.

4. YR YMGYNGHORIAD STATUDOL

4.1 Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 14 Hydref 2025, cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Rhagfyr 2025 a 28 Ionawr 2026, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

4.2 Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori statudol, pecyn asesiadau effaith (gan gynnwys asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg, y gymuned, cydraddoldeb, gwahanol drefniadau teithio, ansawdd a safonau addysg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol), pecyn cefndirol, ffurflenni ymateb a dogfen ymgynghori a holiaduron ar gyfer plant a phobl ifanc ar wefan y Cyngor. Dosbarthwyd y ddogfennaeth i'r holl ymgynghorai perthnasol drwy e-bost oedd yn cynnwys dolen at dudalen benodol at wefan y Cyngor [Ymgynghoriad Statudol: Ysgol Baladeulyn](#) a darparwyd copïau caled ar gais.

4.3 Gwahoddwyd ymgynghorai i gyflwyno sylwadau drwy lenwi ffurflen ymateb ar-lein, copi papur neu electroneg (PDF), neu drwy e-bost/llythyr.

- 4.4 Cynhaliwyd sesiwn galw heibio yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gyfer staff, rhieni a llywodraethwyr Ysgol Baladeulyn. Pwrpas y sesiwn oedd i rannu gwybodaeth am y cynnig a'r broses ymgynghori, a rhoi cyfle i'r rhanddeiliaid ofyn cwestiynau am y cynnig neu'r broses. Mynychodd 12 o bobl y sesiwn galw heibio.
- 4.5 Trefnwyd sesiynau ymgynghori ar wahân gyda chynrychiolaeth o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn, gyda hwylusydd annibynnol yn cynnal y sesiynau. Pwrpas y sesiynau hyn oedd i gasglu barn y dysgwyr am y cynnig. Roedd fersiwn addas i blant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i gyfrannu, hyd yn oed os nad oeddent wedi mynychu'r sesiwn yn eu hysgol. Mae adroddiad ar y materion a gododd yn ystod yr ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc wedi'i gynnwys yn Adran 3 o'r adroddiad ymgynghori (Atodiad A).
- 4.6 Ymatebion i'r Ymgynghoriad**
- 4.7 Derbyniwyd cyfanswm o 30 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad statudol, gan gynnwys ymateb gan Estyn. Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys yr adborth a gasglwyd gan ddysgwyr yn ystod y sesiynau ymgynghori.
- 4.8 Mae ymateb llawn Estyn wedi ei gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori (Atodiad A).
- 4.9 Crynodeb o Ganfyddiadau'r Ymgynghoriad**
- 4.10 Mae'r adroddiad ymgynghori (Atodiad A) yn darparu crynodeb llawn o'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai ac ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Rhestrir isod y prif faterion a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, ac mae ystyriaeth fanylach ar bob un o'r materion hyn i'w gweld yn yr Adroddiad Ymgynghori.

1. SYLWADAU AM YR YSGOL

- 1.1 Ansawdd Addysg
- 1.2 Cefnogaeth i ddysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- 1.3 Ethos Gymraeg
- 1.4 Ymddygiad a Chynhwysiant
- 1.5 Profiadau tu hwnt i'r dosbarth
- 1.6 Datblygu Cyfrifoldeb a Hyder
- 1.7 Manteision ysgol fach (fel Ysgol Baladeulyn)
- 1.8 Cefnogaeth i deuluoedd

2. SYLWADAU AR Y CYNNIG

- 2.1 Gwrthwynebiadau i'r Cynnig
- 2.2 Galw i gadw'r ysgol ar agor
- 2.3 Barn o blaid y cynnig
- 2.4 Galw i ailystyried y cynnig
- 2.5 Sylwadau am statws a pherchnogaeth cyfreithiol yr ysgol

3. EFFAITH AR DDYSGWYR

- 3.1 Effaith emosiynol a lles
- 3.2 Effaith symud i ysgol fwy
- 3.3 Effaith ar addysg
- 3.4 Cyfleoedd Cymdeithasol
- 3.5 Colli buddion ysgol fach
- 3.6 Effaith ar ddysgwyr bregus

4. Y GYMRAEG

- 4.1 Sylwadau gadarnhaol am y ddarpariaeth Gymraeg bresennol
- 4.2 Pryder y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar addysg Gymraeg
- 4.3 Effaith y cynnig ar y Gymraeg yn y gymuned
- 4.4 Pryder wrth gymharu'r nifer o ddysgwyr sydd yn siarad Gymraeg yn Nhalysarn a Nantlle
- 4.5 Mesurau lliniaru i ddiogelu'r Gymraeg a lleihau effeithiau andwyol
- 4.6 Effaith Gadarnhaol y Cynnig ar y Gymraeg

5. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

- 5.1 Parhad staff a chymorth ADY
- 5.2 Effaith ysgol fwy ar blant sydd âg ADY
- 5.3 Lles, hyder a diogelwch dysgwyr ADY
- 5.4 Galw cynyddol am ddarpariaeth ADY

6. GOBLYGIADAU CLUDIANT, TEITHIO A DIOGELWCH

- 6.1 Cerdded, beicio ac annibyniaeth dysgwyr
- 6.2 Cludiant i Ysgol Talysarn
- 6.3 Pryderon ynghylch diogelwch teithio
- 6.4 Effaith teithio pellach ar lesiant y dysgwyr
- 6.5 Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus
- 6.6 Heriau i deuluoedd nad ydynt yn gyrru
- 6.7 Cludiant i blant dan 5 oed
- 6.8 Sylwadau cyffredinol am gludiant

7. Y GYMUNED A THEULUEDD LLEOL

- 7.1 Cysylltiadau teuluol ac aml-genhedlaeth
- 7.2 Hunaniaeth Gymunedol a Balchder Lleol
- 7.3 Effaith y cynnig ar hyfywedd y gymuned
- 7.4 Bywyd cymunedol a chysylltiadau cymdeithasol
- 7.5 Denu teuluoedd ifanc i'r pentref
- 7.6 Sylwadau ynglŷn a rôl yr ysgol yn y pentref
- 7.7 Effaith ar deuluoedd yn y gymuned

8. CAPASITI, DEMOGRAFFI LLEOL A DALGYLCHOEDD

- 8.1 Capasiti presennol ac effaith datblygiadau
- 8.2 Demograffeg lleol
- 8.3 Trefniant dalgylchoedd

9. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 9.1 Dadl yn erbyn y cynnig ar sail cost
- 9.2 Anghysondebau Cyllidol a Chost y Pen ar draws Ysgolion y Sir

10. SYLWADAU AR Y DDOGFENNAETH YMGYNGHORI A'R BROSES STATUDOL

- 10.1 Digonolrwydd asesiadau effaith yn gyffredinol
- 10.2 Asesiad Effaith ar y Gymuned
- 10.3 Asesiad Effaith ar y Gymraeg
- 10.4 Ymgysylltu a chyfathrebu gyda rhieni fel rhan o'r broses statudol
- 10.5 Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

11. OPSIYNAU AMGEN

- 11.1 Cadw'r ysgol ar agor (status quo)

- 11.2 Hyrwyddo a chryfhau ysgolion bach
- 11.3 Ffederaleiddio gyda darpariaeth ADY
- 11.4 Rhannu arweinyddiaeth
- 11.5 Addasu'r cynnig er budd y Gymraeg
- 11.6 Darpariaeth arbenigol ADY
- 11.7 Opsiynau amgen eraill derbyniwyd

5. RHAGDYBIAETH YN ERBYN CAU YSGOL WLEDIG

- 5.1 Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 wedi cyflwyno trefniadau penodol mewn perthynas ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau. Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau ond bod rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol. Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei dynodi yn 'ysgol wledig' at ddiben y Cod. Golyga hyn fod rhaid dilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau.
- 5.2 Fel yr adroddwyd i'r Cabinet ar 14 Hydref 2025, cynhaliwyd asesiadau penodol ychwanegol, yn unol â gofynion y Cod, o'r opsiwn i gau ysgol wledig a'r opsiynau rhesymol eraill sydd wedi eu hadnabod. Mae'r Cod hefyd yn gosod gofynion arbennig mewn perthynas â pharatoi'r adroddiad yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol. Mae'n ofynnol felly i gynnal asesiadau pellach sef ar:
- Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg
 - Yr effaith debygol ar y gymuned
 - Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio.
- 5.3 Diben yr asesiad pellach hwn yw ystyried unrhyw wybodaeth bellach a ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriad neu fel arall. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd asesiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau rhesymol eraill, yn ogystal â'r opsiynau rhesymol eraill a awgrymwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan ystyried unrhyw wybodaeth bellach ddaeth i law yn ymwneud a'r ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad. Mae crynodeb o'r asesiadau hyn i'w gweld yn Adran 7 o'r Adroddiad Ymgynghori (Atodiad A), a'r asesiadau effaith llawn i'w gweld yn Atodiad C.

6. YSTYRIAETHAU PELLACH

- 6.1 Yn ogystal ag asesiadau effaith a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau penodol 'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgol wledig' cynhaliwyd a diweddarwyd nifer o asesiadau effaith eraill yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Cynhwysir yr asesiadau hyn fel rhan o'r atodiad Asesiadau Effaith (Atodiad C) a chrynohoir eu casgliadau isod.
- 6.2 Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg
- 6.3 Cynhaliwyd asesiad o effaith y cynnig ar yr Iaith Gymraeg, ac fe adolygwyd yr asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.
- 6.4 Yn ystod yr ymgynghoriad, mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith y gallai cau Ysgol Baladeulyn ei chael ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref. Pwysleisiodd yr ymatebwyr ar rôl bwysig yr ysgol wrth integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, i fywyd Cymraeg y pentref. Pwysleisiwyd bod yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at ddefnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol, megis cyfarfodydd cymdeithasol, chwarae ar ôl ysgol a rhyngweithio rhwng rhieni a thrigolion lleol. Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol danseilio'r ecosystem ieithyddol leol, gan arwain at leihad graddol yn y defnydd cymunedol o'r Gymraeg.

- 6.5 Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Baladeulyn mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith andwyol bosibl ar fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.
- 6.6 Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol dysgwyr, am y rhesymau canlynol:
- Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn.
 - Mae'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Nantlle yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
 - Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.
- 6.7 Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nantlle ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.
- 6.8 Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.
- 6.9 Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nantlle ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

6.10 Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

- 6.11 Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynnig, ac fe adolygwyd yr asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.
- 6.12 Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisiâu a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau bod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.
- 6.13 Fel y nodir yn yr asesiad diweddaraf, yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd rhai pryderon penodol o safbwynt cydraddoldeb, yn enwedig ynghylch plant bregus, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a theuluoedd sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mynegwyd pryder y gallai symud rhai dysgwyr i ysgol fwy leihau'r lefel o gefnogaeth bersonol sydd ar gael iddynt, ac y gallai pellter teithio, costau cludiant neu ddiffyg mynediad at gludiant preifat effeithio'n anghymesur ar rai teuluoedd. Nodwyd hefyd y gallai colli'r ysgol danseilio'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn fyw ac yn ymarferol ym mywyd beunyddiol y gymuned.
- 6.14 Nodir yn yr asesiad fod y Cyngor yn cydnabod y materion a godwyd ac yn pwysleisio bod polisiâu cydraddoldeb a chynhwysiant yn weithredol yn y ddarpariaeth bresennol ac yn Ysgol Talysarn. At hynny, nodir fod y Cyngor yn ymrwymo i sicrhau bod unrhyw drefniadau pontio yn rhoi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i blant bregus a dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol pe byddai'r ysgol yn cau. O ran y pryderon ynghylch defnydd cymunedol o'r Gymraeg, nodir y byddai mesurau lliniaru yn cael eu hystyried, gan gynnwys hyrwyddo cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nantlle a'r ysgol amgen drwy weithgareddau cymunedol, a thrwy ystyried

opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnyddio adeilad yr ysgol er mwyn cefnogi defnydd parhaus o'r Gymraeg yn y gymuned leol.

- 6.15 Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai ymatebwyr wedi nodi effaith negyddol bosibl ar rai grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys dysgwyr bregus, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, teuluoedd sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol, a chydlyniant cymunedol. Nodwyd hefyd bryderon penodol ynghylch effaith bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd anffurfiol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Fodd bynnag, ar sail yr asesiad cydraddoldeb cyffredinol, y dystiolaeth a nodir yn yr asesiadau effaith cysylltiedig, a'r mesurau lliniaru a ddisgrifir, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn nad yw'r cynnig yn debygol o arwain at effaith negyddol arwyddocaol ar nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod polisïau a gweithdrefnau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu, a bod anghenion unigol yn cael eu hystyried yn briodol.
- 6.16 Mae'r Cyngor yn parhau o'r farn y byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau'r anghyfartaledd yn achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau bod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at ragor o wasanaethau a gweithgareddau yn Ysgol Talysarn.
- 6.17 Drwy weithredu'r cynnig byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cael gwell amgylchedd dysgu a byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.
- 6.18 Byddai'r Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â'r nodweddion cydraddoldeb, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

6.19 Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

- 6.20 Cynhaliwyd asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant ar y cynnig a diweddarwyd yr asesiad wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Ystyriwyd 7 nod y ddeddf Llesiant ac amcanion Llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig arfaethedig yn cwrdd â'r gofynion. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.
- 6.21 Yn yr asesiad diweddaraf, nodir fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn mynegi pryderon penodol ynghylch effaith y cynnig ar blant bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ar lesiant teuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, ac ar fywiogrwydd ieithyddol a chymunedol y pentref.
- 6.22 Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig, y byddai'r cynnig yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle. Fodd bynnag nodir fod cyfran helaeth o'r dysgwyr sy'n byw o fewn dalgylch (75%) yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned yr ysgol honno yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Talysarn yn cynnwys cymuned Nantlle lle'n briodol.
- 6.23 Rhagwelir y byddai'r cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.
- 6.24 Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)
- 6.25 Yn adeiladu ar ganfyddiadau'r Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a amlinellir uchod, mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y broses statudol gyfan mewn perthynas ag adolygu dyfodol Ysgol Baladeulyn wedi'i chynnal yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg 88–93 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn unol â Safonau 88, 89 a 90, rhoddwyd ystyriaeth gydwobodol i'r effeithiau posibl y gallai'r penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan gynnwys

ystyried yr effeithiau cadarnhaol ac andwyol posibl, sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol, a sut y gellid lleihau unrhyw effeithiau andwyol posibl. Yn ogystal, yn unol â Safonau 91, 92 a 93, ystyriwyd a cheisiwyd barn drwy'r broses ymgynghori statudol ynghylch yr effeithiau ieithyddol hyn, gan gynnwys barn ar sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er mwyn cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau andwyol ar y Gymraeg. Cefnogwyd y gofynion hyn drwy gynnal Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, ynghyd ag asesiadau effaith cysylltiedig, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a nodir bod yr asesiadau hyn wedi'u hadolygu a'u diweddarau yn dilyn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol.

6.26 Ystyriaethau Ariannol

6.27 Yn sgil niferoedd isel o ddysgwyr yn Ysgol Baladeulyn nid yw'r dyraniad ar sail y dysgwyr yn ddigonol i allu cynnal yr ysgol. O ganlyniad, mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad craidd trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Dyrannwyd cyllid ychwanegol o £74,446 i Ysgol Baladeulyn eleni (2026-27) trwy'r Polisi Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio.

6.28 Mae dyraniad Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn ar gyfer y flwyddyn 2026-27, wedi eu selio ar niferoedd Medi 2025 a gellir gweld y symiau y mae'r 2 ysgol yn eu derbyn isod:

Ysgol	Cyllideb 2026-27		Swm Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio
	Cyfanswm Dyraniad Cyllidol	Cost Fesul Dysgwr	
Baladeulyn	£ 172,848	£25,123	£74,446
Talysarn	£ 539,420	£5,897	-
Cyfartaledd Ysgolion Cynradd y Sir	-	£5,998	-

6.29 Bydd y gost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn £25,123 a'r gost fesul dysgwr yn Ysgol Talysarn yn £5,897 (Cyllideb 2026-27, sy'n seiliedig ar niferoedd Medi 2025). Cyfartaledd Sirol cost y dysgwr cynradd ar gyfer yr un cyfnod fydd £5,998. Golyga hyn fydd y gost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn £19,128 yn uwch na'r cyfartaledd sirol am yr un cyfnod.

6.30 Dyrennir cyfanswm o £712,268 i'r ddwy ysgol yn y flwyddyn ariannol 2026-27. Nid yw Ysgol Talysarn yn derbyn swm ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. Mae niferoedd dysgwyr presennol yr ysgol yn denu cyllideb ddigonol i gynnal lefelau staffio priodol.

6.31 O safbwynt costau refeniw, pe gweithredir y cynnig, a pe byddai holl ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn trosglwyddo i Ysgol Talysarn, yn seiliedig ar gyllideb 2026-27 (sy'n seiliedig ar niferoedd dysgwyr Medi 2025):

- rhagwelir y byddai'r cynnig yn creu arbediad blynyddol o £150,000, llai amcan costau anghenion cludiant ychwanegol (hyd at £30,000) - sef cyfanswm o oddeutu £120,000 y flwyddyn.
- rhagwelir y byddai cyllideb dyraniad craidd Ysgol Talysarn yn cynyddu i £579,000 a'r gost fesul dysgwr yn £5,883.

6.32 Bydd unrhyw arbedion mewn costau refeniw yn cael eu cadw ym maes Ysgolion Gwynedd.

7. ARGYMHELLIAD

- 7.1 Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth lawn i'r materion a godwyd ac fe gynhaliwyd gwerthusiad ac asesiadau effaith pellach o'r cynnig, yr opsiynau amgen a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori, ynghyd â'r opsiynau amgen a nodwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys asesiad yn erbyn y ffactorau sy'n berthnasol i ysgolion gwledig, gan gynnwys y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.
- 7.2 Ar sail ystyried yr elfennau uchod, daethpwyd i'r casgliad nad oedd unrhyw un o'r opsiynau amgen a ystyriwyd yn mynd i'r afael â'r prif heriau sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn, fel y nodir yn adran 3.3 uchod.
- 7.3 Wrth ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, ynghyd â'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol, a'r asesiadau effaith, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn bod y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn briodol, yn gymesur ac er budd gorau dysgwyr yr ardal yn y tymor canolig a'r tymor hir.
- 7.4 Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan ymgynghorai, yn enwedig ynghylch rôl yr ysgol yn y gymuned leol a phwysigrwydd defnydd cymunedol o'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn dangos bod Ysgol Baladeulyn yn wynebu heriau sylweddol nad ydynt yn debygol o gael eu datrys heb newid sylfaenol i'r ddarpariaeth.
- 7.5 Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy:
- Ymateb i'r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Baladeulyn ynghyd â rhagolygon sy'n parhau'n isel, a'r ganran uchel o leoedd gwag;
 - Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;
 - Gwellu cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran;
 - Lleihau'r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir
- 7.6 Ar y cyfan, ar ôl ystyried y dystiolaeth, y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, y gwerthusiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau amgen, ynghyd â a chyfeiriad strategol y Cyngor, mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yw'r ymateb mwyaf priodol i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol (fel a nodir yn adran 3.3) a'r rhesymau a nodwyd dros y cynnig, ac felly'n parhau i'w argymhell fel y modd mwyaf addas o fynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu'r ysgol.

8. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 8.1 Os bydd y Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhelliad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, bydd gofyn cyhoeddi hysbysiad statudol yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a chanllawiau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).
- 8.2 Cyhoeddir yr hysbysiad statudol ar ddiwrnod ysgol, a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod yn dechrau o'r dyddiad y caiff y hysbysiad ei gyhoeddi. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd gan unrhyw un yr hawl i gyflwyno gwrthwynebiad ffurfiol i'r cynnig.
- 8.3 Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn crynhoi unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd, ynghyd ag argymhelliad ar gyfer penderfyniad terfynol. Dylid nodi bod rhai amgylchiadau lle y gellir cyfeirio penderfyniad terfynol y Cyngor at Weinidogion Llywodraeth Cymru, yn unol â darpariaethau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

8.4 Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, amlinellir isod gamau nesaf y broses ynghyd ag amserlen amlinellol:

Mehefin 2026	Cyhoeddi Hysbysiad Statudol: Os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, cyhoeddir hysbysiad statudol a chynhelir cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad o fewn y cyfnod hwn.
Medi 2026	Cabinet: Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, os derbynnir gwrthwynebiadau, bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig ai peidio. Os na fydd gwrthwynebiadau, neu os bydd pob un wedi ei dynnu yn ôl, gall yr Aelod Cabinet wneud y penderfyniad.
Hydref 2026	Cyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru: Yn unol ag adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'r penderfynu: ii. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno; iii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni; iv. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion; v. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion; vi. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni.
31 Rhagfyr 2026	Gweithredu'r cynnig: Ysgol Baladeulyn yn cau yn swyddogol, yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet.

9. ATODIADAU

Atodiad A: Adroddiad Ymgynghori

Atodiad B: Gwerthusiad Opsiynau

Atodiad C: Asesiadau Effaith:

- Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Asesiad Effaith debygol ar Drefniadau Teithio
- Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Asesiad Effaith ar y Gymraeg
- Asesiad Llesiant
- Asesiad Cydraddoldeb

Atodiad Ch: [Dogfen Ymgynghori Statudol](#) a Dogfennaeth yr ymgynghoriad: [Ymgynghoriad Statudol: Ysgol Baladeulyn](#)

Atodiad D: Sylwadau'r Aelod Lleol

10. Barn y swyddogion statudol

Y Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad yn dilyn cynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol ar ddyfodol Ysgol Baladeulyn. Yn ôl egwyddorion cyfreithiol ymgynghori mae'n ofynnol i'r Cabinet wrth gloriannu y penderfyniad a geisir ddal sylw at ganlyniadau yr ymgynghoriad cyn dod i benderfyniad ar y cynnig. Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer cynnal yr ymarfer yma yn briodol. Rwy'n fodlon felly y gall y Cabinet ddod i benderfyniad ar y mater yma yn briodol"

Y Pennaeth Cyllid:

"O safbwynt ariannol, ni welaf fod newid wedi bod yn y sefyllfa ers i'r Cabinet drafod y mater hwn ym mis Hydref a cychwyn y broses o gau'r ysgol. Nid yw sefyllfa bresennol Ysgol Baladeulyn yn gynaliadwy ac roedd yr adroddiad blaenorol yn dangos fod asesiad wedi ei gynnal o'r opsiynau sydd ar gael, ac roeddwn yn fodlon â chadernid yr amcangyfrifon ariannol oedd wedi eu nodi ynddo. Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir."

Adroddiad Ymgynghori – Mai 2026

Ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn

Cynnwys

1.	TROSOLWG O'R YMGYNGHORIAD STATUDOL	3
(i)	Y broses ymgynghori	3
(ii)	Ymatebion i'r ymgynghoriad	4
(iii)	Crynodeb o'r prif faterion a nodwyd yn yr ymatebion.....	4
2.	FFURFLEN YMATEB.....	6
3.	YMGYNGHORI GYDA PHLANT A PHOBL IFANC.....	6
4.	YMATEB ESTYN	10
5.	CRYNODEB O'R MATERION A GODWYD GAN YMGYNGOREION	13
1.	SYLWADAU AM YR YSGOL.....	13
2.	SYLWADAU AR Y CYNNIG	17
3.	EFFAITH AR DDYSGWYR	23
4.	Y GYMRAEG	27
5.	ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)	37
6.	GOBLYGIADAU CLUDIANT, TEITHIO A DIOGELWCH	42
7.	Y GYMUNED A THEULUOEDD LLEOL	49
8.	CAPASITI, DEMOGRAFFEG LLEOL A THREFNIANT DALGYLCHOEDD	54
9.	GOBLYGIADAU ARIANNOL	56
10.	SYLWADAU AR Y DDOGFENNAETH YMGYNGHORI A'R BROSES STATUDOL.....	57
11.	OPSIYNAU AMGEN	62
6.	OPSIYNAU AMGEN ERAILL A GYNIGIWDYD GAN YMGYNGHORAI	68
7.	ASESIAD PELLACH O'R CYNNIG A'R OPSIYNAU RHESYMOL ERAILL	70
8.	YSTYRIAETHAU PELLACH.....	75
9.	ARGYMHELLIAD	77

Atodiadau:

Atodiad B: Gwerthusiad Opsiynau

Atodiad C: Asesiadau Effaith:

- Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
- Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg
- Asesiad Llesiant
- Asesiad Cydraddoldeb

Adroddiad Ymgynghori - Ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn

1. TROSOLWG O'R YMGYNGHORIAD STATUDOL

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar [14 Hydref 2025](#), cynhaliodd Cyngor Gwynedd ymgynghoriad statudol ar gynnig i gau Ysgol Baladeulyn. Dyma'r cynnig a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad:

“Cau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen.”

Gwahoddwyd rhanddeiliaid i gyflwyno eu sylwadau ar y cynnig uchod, fel y gallai'r Cyngor eu hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniadau pellach ynghylch y camau nesaf.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng 10 Rhagfyr 2025 a 28 Ionawr 2026.

(i) Y broses ymgynghori

Cyhoeddwyd y ddogfennaeth ymgynghori statudol ar [wefan y Cyngor](#) yn unol â gofynion ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) (“y Cod”).

Roedd y ddogfennaeth ymgynghori a gyhoeddwyd yn cynnwys y canlynol:

- [Dogfen Ymgynghori Statudol](#)
- [Pecyn Asesiadau Effaith](#): Roedd y pecyn hwn yn cynnwys asesiadau effaith cynhwysfawr, gan gynnwys yr effaith ar yr iaith Gymraeg, y gymuned leol, cydraddoldeb, trefniadau teithio, ansawdd a safonau addysg, yn ogystal ag asesiad yn erbyn nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- [Pecyn Cefndirol](#): Cynhwysai'r pecyn hwn ddogfennau cefnogol megis pecyn ystadegol, adroddiadau perthnasol a gyflwynwyd i'r Cabinet (gan gynnwys y papur cynnig dyddiedig 14 Hydref 2025), a throsolwg o'r trafodaethau lleol a gynhaliwyd rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025.
- [Ffurflen Ymateb](#) – fersiwn PDF + linc i'r fersiwn ar lein
- [Dogfen Ymgynghori](#) – fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc
- [Holiadur](#) – fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc.

Roedd y ddogfennaeth ar gael ar wefan y Cyngor drwy gydol y cyfnod ymgynghori, a darparwyd copïau caled yn unol â cheisiadau a dderbyniwyd gan ymgynghorai unigol.

Dosbarthwyd y ddogfennaeth i'r holl ymgynghorai perthnasol, yn unol â gofynion y Cod, drwy anfon e-bost oedd yn cynnwys dolen at dudalen benodol ar wefan y Cyngor, sef www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolBaladeulyn.

Anfonwyd e-bost yn cynnwys linc at y ddogfennaeth ymgynghori at Ysgol Baladeulyn, Ysgol Talysarn, yn ogystal ag ysgolion eraill cyfagos, gan wneud cais i'r penaethiaid eu dosbarthu i rieni/gwarchodwyr y dysgwyr, holl aelodau o staff ac holl aelodau Corff Llywodraethol yr ysgolion.

Roedd yr ymgynghoriad ar agor i'r ymgynghorai perthnasol ac i unrhyw unigolyn neu sefydliad arall a oedd yn dymuno ymateb, gyda'r cyfle i wneud hynny drwy lenwi ffurflen ymateb ar-lein, lenwi copi papur neu electroneg (PDF) o'r ffurflen ymateb a'i anfon at y Tîm Moderneiddio Addysg, neu drwy anfon e-bost neu lythyr at y Tîm Moderneiddio Addysg.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd sesiwn galw heibio yng nghanolfan Llys Llywelyn er mwyn rhoi cyfle i rieni a llywodraethwyr ofyn cwestiynau a thrafod yr ymgynghoriad ymhellach. Mynychodd 12 o bobl y sesiynau galw heibio. Cynhaliwyd hefyd sesiwn galw heibio yn yr ysgol i'r staff ble roedd cyfle iddynt drafod gyda swyddogion o'r Adran Adnoddau Dynol.

Yn ogystal, paratowyd dogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc, ynghyd â holiaduron cysylltiedig. Trefnwyd i hwylusydd annibynnol gynnal sesiynau gyda dysgwyr Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn, er mwyn

casglu barn y dysgwyr. Mae'r crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau hyn wedi'i gynnwys yn Adran 5 isod.

Cyhoeddwyd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb wedi'u haddasu ar gyfer plant a phobl ifanc ar wefan y Cyngor hefyd. Felly, roedd cyfle i blant a phobl ifanc nad oeddent wedi mynychu sesiwn yn eu hysgol gyflwyno eu hymatebion i'r ymgynghoriad yn ogystal.

(ii) Ymatebion i'r ymgynghoriad

Derbyniwyd cyfanswm o 30 o ymatebion ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, gan gynnwys ymateb gan Estyn. Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys yr adborth a gasglwyd gan ddysgwyr yn ystod y sesiynau ymgynghori.

Ffurfl	Nifer Ymatebion
Ffurflen ymateb ar lein	25
Ffurflen ymateb Word neu PDF	0
Ffurflen ymateb – copi caled	1
E-bost	4
Cyfanswm	30

Yn unol â gofynion y Cod, mae ymateb Estyn i'r ymgynghoriad wedi ei nodi'n llawn yn Adran 4 isod.

Mae crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r materion hynny wedi'i gynnwys yn Adran 5 isod.

Mae crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan y dysgwyr wedi'i gynnwys yn Adran 3 isod.

(iii) Crynodeb o'r prif faterion a nodwyd yn yr ymatebion

Rhestrir isod y prif faterion a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, ac mae ystyriaeth fanylach ar bob un o'r materion hyn i'w gweld yn Adran 5, isod.

1. SYLWADAU AM YR YSGOL

- 1.1 Ansawdd Addysg
- 1.2 Cefnogaeth i ddysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- 1.3 Ethos Gymraeg
- 1.4 Ymddygiad a Chynhwysiant
- 1.5 Profiadau tu hwnt i'r dosbarth
- 1.6 Datblygu Cyfrifoldeb a Hyder
- 1.7 Manteision ysgol fach (fel Ysgol Baladeulyn)
- 1.8 Cefnogaeth i deuluoedd

2. SYLWADAU AR Y CYNNIG

- 2.1 Gwrthwynebiadau i'r Cynnig
- 2.2 Galw i gadw'r ysgol ar agor
- 2.3 Barn o blaid y cynnig
- 2.4 Galw i ailystyried y cynnig
- 2.5 Sylwadau am statws a pherchnogaeth cyfreithiol yr ysgol

3. EFFAITH AR DDYSGWYR

- 3.1 Effaith emosiynol a lles
- 3.2 Effaith symud i ysgol fwy
- 3.3 Effaith ar addysg
- 3.4 Cyfleoedd Cymdeithasol

- 3.5 Colli buddion ysgol fach
- 3.6 Effaith ar ddysgwyr bregus

4. Y GYMRAEG

- 4.1 Sylwadau gadarnhaol am y ddarpariaeth Gymraeg bresennol
- 4.2 Pryder y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar addysg Gymraeg
- 4.3 Effaith y cynnig ar y Gymraeg yn y gymuned
- 4.4 Pryder wrth gymharu'r nifer o ddysgwyr sydd yn siarad Gymraeg yn Nhalysarn a Nantlle
- 4.5 Mesurau lliniaru i ddiogelu'r Gymraeg a lleihau effeithiau andwyol
- 4.6 Effaith Gadarnhaol y Cynnig ar y Gymraeg

5. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

- 5.1 Parhad staff a chymorth ADY
- 5.2 Effaith ysgol fwy ar blant sydd âg ADY
- 5.3 Lles, hyder a diogelwch dysgwyr ADY
- 5.4 Galw cynyddol am ddarpariaeth ADY

6. GOBLYGIADAU CLUDIANT, TEITHIO A DIOGELWCH

- 6.1 Cerdded, beicio ac annibyniaeth dysgwyr
- 6.2 Cludiant i Ysgol Talysarn
- 6.3 Pryderon ynghylch diogelwch teithio
- 6.4 Effaith teithio pellach ar lesiant y dysgwyr
- 6.5 Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus
- 6.6 Heriau i deuluoedd nad ydynt yn gyrru
- 6.7 Cludiant i blant dan 5 oed
- 6.8 Sylwadau cyffredinol am gludiant

7. Y GYMUNED A THEULUOEDD LLEOL

- 7.1 Cysylltiadau teuluol ac aml-genhedlaeth
- 7.2 Hunaniaeth Gymunedol a Balchder Lleol
- 7.3 Effaith y cynnig ar hyfywedd y gymuned
- 7.4 Bywyd cymunedol a chysylltiadau cymdeithasol
- 7.5 Denu teuluoedd ifanc i'r pentref
- 7.6 Sylwadau ynglŷn a rôl yr ysgol yn y pentref
- 7.7 Effaith ar deuluoedd yn y gymuned

8. CAPASITI, DEMOGRAFFI LLEOL A DALGYLCHOEDD

- 8.1 Capasiti presennol ac effaith datblygiadau
- 8.2 Demograffeg lleol
- 8.3 Trefniant dalgylchoedd

9. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 9.1 Dadl yn erbyn y cynnig ar sail cost
- 9.2 Anghysondebau Cyllidol a Chost y Pen ar draws Ysgolion y Sir

10. SYLWADAU AR Y DDOGFENNAETH YMGYNGHORI A'R BROSES STATUDOL

- 10.1 Digonolrwydd asesiadau effaith yn gyffredinol
- 10.2 Asesiad Effaith ar y Gymuned
- 10.3 Asesiad Effaith ar y Gymraeg
- 10.4 Ymgysylltu a chyfathrebu gyda rhieni fel rhan o'r broses statudol
- 10.5 Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

11. OPSIYNAU AMGEN

- 11.1 Cadw'r ysgol ar agor (status quo)
- 11.2 Hyrwyddo a chryfhau ysgolion bach
- 11.3 Ffederaleiddio gyda darpariaeth ADY
- 11.4 Rhannu arweinyddiaeth
- 11.5 Addasu'r cynnig er budd y Gymraeg
- 11.6 Darpariaeth arbenigol ADY
- 11.7 Opsiynau amgen eraill derbyniwyd

2. FFURFLEN YMATEB

Derbyniwyd ymatebion ar ffurf ffurflen ymateb gan 26 o ymatebwyr (25 trwy'r ffurflen ymateb ar-lein, 1 dros e-bost/post).

Mae'r atebion a dderbyniwyd i gwestiwn 1 (a) ac 1 (b) gan yr ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Noder fod crynodeb o'r sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn y ffurflenni ymateb wedi ei gynnwys Adran 5 isod.

1 (a) Rwy'n ymateb fel:	Nifer	%
Rhiant/Gwarchodwr	12	43%
Llywodraethwr Ysgol	3	11%
Dysgwr	1	4%
Staff	0	0
Arall	12	43%

1 (b) o'r ysgol ganlynol:	Nifer	%
Ysgol Baladeulyn	23	88%
Ysgol Talysarn	1	4%
Arall	1	4%
Dim ymateb	1	4%

Noder nad yw cyfanswm y niferoedd yn y tablau bob amser yn cyfateb i gyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd, gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis mwy nag un opsiwn wrth ymateb i'r cwestiynau perthnasol. Mae'r canrannau wedi'u cyfrifo ar sail 26 o ymatebwyr unigol. Gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis mwy nag un opsiwn, gall cyfanswm y canrannau fod yn fwy na 100%.

3. YMGYNGHORI GYDA PHLANT A PHOBL IFANC

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb/holiadur ar gyfer plant a phobl ifanc ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolBaladeulyn, fel y gallai plant a phobl ifanc oedd heb fynychu sesiwn yn eu hysgol, ymateb i'r ymgynghoriad yn ogystal.

Sesiynau gyda dysgwyr:

Cynhaliwyd sesiynau dynodedig gyda grŵp o ddysgwyr o Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn i sicrhau ein bod yn derbyn barn plant a phobl ifanc.

Trefnwyd bod hwylusydd yn mynychu Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn i drafod y cynnig gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle i'r plant ddatgan barn am y cynnig. Roedd pob sesiwn yn cynnwys esbonio'r cynnig a chwblhau holiadur.

Eglurwyd fod Cyngor Gwynedd yn ystyried cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn.

Eglurwyd fod y Cyngor eisiau gwybod sut yr oeddent yn teimlo am y cynnig ar gyfer Ysgol Baladeulyn, cyn iddynt benderfynu ar y ffordd ymlaen.

Eglurwyd, os byddai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen efo'r cynnig, y byddai'n golygu:

- Y byddai Ysgol Baladeulyn yn cau ar 31 Rhagfyr 2026, ac
- Y byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn trosglwyddo i Ysgol Talysarn ar 1 Ionawr 2027.

Gweler isod amserlen y sesiynau ymgynghori, rhestr yr ysgolion perthnasol a nifer yr ymatebwyr:

	Dyddiad	Cynhaliwyd y sesiwn gyda:
Ysgol Baladeulyn	Dydd Iau, 15 Ionawr 2026	Aelodau Cyngor Ysgol Baladeulyn (3 o ddysgwyr)
Ysgol Talysarn	Dydd Iau, 15 Ionawr 2026	Dysgwyr Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Talysarn (22 o ddysgwyr)

Gweler isod grynodeb o ymatebion y dysgwyr

NODER – Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o sylwadau'r plant a'r bobl ifanc.

Sut wyt ti'n teimlo am hyn?			
<u>Ysgol</u>	<u>Hapus</u>	<u>Ddim yn Sicr</u>	<u>Anhapus</u>
Ysgol Baladeulyn	0	0	3
Ysgol Talysarn	13	10	0

Cwestiwn 1 – Sut wyt ti'n teimlo am hyn?

Ysgol Baladeulyn	• Dwi'n pryderus ac yn drist (x2). • Dw i'n hoffi fy athrawes a ffrindiau, a dydw i ddim eisiau eu gadael nhw. • Mae fy ysgol yn ddiogel ac yn arbennig i mi. • Dwi'n teimlo'n dorcalonius ac ofnus ynglŷn a'r sefyllfa.
Ysgol Talysarn	• Dw i'n teimlo'n hapus ac yn hyderus. • Dw i eisiau'r plant gwneud ffrindiau efo ni, bysa hi'n braf cael ffrindiau newydd. • Bydd gennym fwy o ffrindiau i fynd i'r ysgol uwchradd. • Dw i'n teimlo hanner a hanner, ond mwy hapus na thrist. • Dewisais yr opsiwn canol gan na fydd gan y plant bach hyder i gerdded i'r ysgol. • Dw i eisiau i Ysgol Baladeulyn cau a'r plant dod i ysgol gwell (Ysgol Talysarn). • Beth os nad ydi'r athrawon yn cael cyfle arall i gael swydd?

Cwestiwn 2 – Beth hoffet ti weld yn digwydd fel rhan o'r cynnig yma?

Ysgol Baladeulyn	• Dw i eisiau i'r ysgol aros ar agor. • Hoffwn cadw mewn cysylltiad efo hen ffrindiau (x2) a gwneud ffrindiau newydd. • Dw i eisiau i bethau aros yr un peth. • Fyswn i'n hoffi cael cymorth i wneud ffrindiau newydd ac ymweld a'r ysgol newydd.

	Dw i eisiau fy athro/athrawes i fy helpu i fod yn hapus nid yn drist.
Ysgol Talysarn	- Dw i eisiau cyfarfod plant Ysgol Baladeulyn a chael diwrnod prawf cyn iddynt ddod i ysgol ni (x2). - Hoffwn i'r plant dod i ysgol ni. - Dw i eisiau dod i adnabod y plant a'r athrawon. - Hoffwn i'r plant cael eu croesawu yn Ysgol Talysarn (x5). - Hoffwn weld plant Ysgol Baladeulyn yn gwneud ffrindiau newydd (x2). - Dw i eisiau fwy o 'chromebooks' i'r plant (x2). - Dw i eisiau desg newydd. - Dydw i ddim yn siŵr.
Cwestiwn 3 – Beth sy'n dy boeni am hyn?	
Ysgol Baladeulyn	- Ni fyddai'n gallu gweld fy ffrindiau dim mwy a byddaf yn methu cyfeillgarwch fy athrawon. - Fyddwn ni methu cwrdd yn y parc oherwydd byddwn yn teithio o'r ysgol adref. - Efallai wna i golli ychydig o fy ffrindiau agosaf a dydw i ddim eisiau mynd i ysgol newydd. - Os na fydd pethau yr un fath yn Ysgol Talysarn.
Ysgol Talysarn	- Dim byd (x7). - Dim yn poeni (x3). - Does dim byd heb law bwllo yn fy mhoeni, does dim bwllo yma. - Fydd angen prynu mwy o bethau. - Fydd yna fwy o geir yma (x2). - Dw i'n hapus am hyn. - Mae'n drist i'r plant sydd yn symud. - Dw i'n poeni am blant Ysgol Baladeulyn. - Fyddwn ni ddim yn nabod y plant. - Efallai y bydd y plant ddim yn licio ein ysgol ni. - Efallai y bydd ysgol arall yn meddwl am gau. - Efallai fydd na ddim le yn ein ysgol.
Cwestiwn 4 – Beth yw'r pethau pwysicaf i chi yn yr ysgol?	
Ysgol Baladeulyn	- Ffrindiau, staff a thegwch - Fy ffrindiau ac athrawon, oherwydd mae nhw'n garedig gyda mi (x2). - Teimlo'n ddiogel ac yn hapus. - Cael gwersi hwyliog ac amser chwarae.
Ysgol Talysarn	- Gweld a chwarae efo fy ffrindiau (x12). - Athrawon (x6). - Gwneud gwaith a dysgu pethau newydd (x8). - Digon o le yn y dosbarth. - Derbyn addysg da. - Cadw'r plant yn ddiogel (x2). - Cael digon o le i chwarae. - Chwaraeon e.e. pêl-droed.

Sylwadau eraill a dderbyniwyd ar lafar gan ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn ystod y sesiwn ymgynghori:

- Faint o blant sydd yn gwneud dosbarth maint addas?
- Mae gennym ni addysg dda rŵan.
- Beth os mae gan plentyn anhawster dysgu?
- Wrth chwarae gyda phlant hyn, mae rhai ifainc yn magu hyder.
- Yn yr ysgol yma, rydym yn chwarae gyda plant bach, da ni ddim ofn mynd gyda nhw.
- Mae'n cyfle da i ddysgu amynedd wrth chwarae gyda phlant bach.

- Mae adnoddau'r ysgol yn ddigon.
- Mae maint y dosbarth yn iawn.
- Dw i yn dod i adnabod plant yn fwy sydyn.
- Ti'n gallu cael sylw yr athrawes yn fwy sydyn mewn dosbarth llai.
- Mae'r plant i gyd yn cael yr un sylw.
- Mae gennym gornel tawel fedrwn ni fynd iddo os ydym yn drist.
- Mae pawb yn gallu cymryd rhan yn y cyngerdd Nadolig, ac mae hyn yn helpu ein hyder wrth berfformio.
- Mae'r Cyngor Ysgol wedi gwneud cyflwyniad i lywodraethwyr yr ysgol.
- Rydym yn mwynhau sesiynau ymarfer corff efo plant Ysgol Nebo.

Casgliad/Crynodeb:

Crynhir isod y prif ymatebion a phryderon a fynegwyd gan y dysgwyr yn ystod y sesiynau ymgynghori. Mae'r casgliadau'n adlewyrchu'r prif themâu a phryderon a fynegwyd gan y dysgwyr yn uniongyrchol yn y trafodaethau.

Mae dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn mynegi teimladau o bryder, tristwch ac ansicrwydd ynghylch y sefyllfa ac yn benodol am y posibilrwydd o orfod gadael eu hysgol bresennol, sy'n cael ei gweld ganddynt fel lle diogel ac arbennig. Mae colli ffrindiau ac athrawon, ynghyd â'r ansicrwydd ynghylch sut fydd pethau mewn ysgol newydd, yn peri pryder sylweddol. Mae dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cwestiynu faint o ddysgwyr sydd yn angenrheidiol i greu dosbarth maint addas, ac mae rhai yn mynegi pryder am blant gydag anghenion dysgu ychwanegol unigol.

Mae'r dysgwyr yn mynegi'n glir eu bod yn dymuno i'r ysgol aros ar agor, wrth dynnu sylw at gryfderau'r ysgol bresennol, megis dosbarthiadau llai sy'n galluogi mwy o sylw gan athrawon, adnoddau digonol, cyfleoedd i feithrin hyder drwy chwarae gyda phlant iau, a mannau tawel i gefnogi lles. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel y cyngerdd Nadolig, sesiynau ymarfer corff gyda dysgwyr ysgol arall, a gwaith y Cyngor Ysgol. Pe byddai'r ysgol yn cau, byddai'r dysgwyr yn awyddus i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau presennol, derbyn cymorth i wneud ffrindiau newydd, a sicrhau bod eu hathrawon yn eu cefnogi i deimlo'n hapus. Y pethau sy'n bwysicaf iddynt yn yr ysgol yw'r ffrindiau, y staff, teimlo'n ddiogel ac yn hapus, ynghyd â mwynhau gwersi hwyliog ac amser chwarae.

O safbwynt dysgwyr Ysgol Talysarn, mynegwyd teimladau cadarnhaol ynghylch y cynnig, gyda llawer yn teimlo'n hapus ac yn hyderus, ac yn edrych ymlaen at y posibilrwydd o wneud ffrindiau newydd. Er bod rhai yn teimlo ychydig yn ansicr, mae'r mwyafrif yn nodi nad oes dim yn eu poeni. Mae rhai o'r dysgwyr wedi amlygu pryder ynghylch nifer uwch o geir a thraffig ger yr ysgol, ac os fydd digon o le i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn yr ysgol. Mae sawl dysgwr hefyd yn mynegi empathi tuag at blant Ysgol Baladeulyn ac yn poeni am sut y byddant yn ymdopi.

O ran eu dymuniadau, byddai dysgwyr Ysgol Talysarn yn awyddus i groesawu'r plant newydd, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd, diwrnodau prawf a chyfleoedd i ddod i'w hadnabod. Byddant yn dymuno gweld y dysgwyr yn setlo'n dda ac yn gwneud ffrindiau newydd. Gofynnodd rhai hefyd am fwy o adnoddau megis *chromebooks*.

Yn gryno, mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau ymgynghori wedi tynnu sylw at bryderon dysgwyr Ysgol Baladeulyn ynghylch cau'r ysgol ac wedi pwysleisio pwysigrwydd cymuned a pherthyn. Prif negeseuon y trafodaethau yw poeni ynghylch colli'r ysgol, ofn symud i ysgol fwy, a gwerthfawrogiad dwfn o'r perthnasau sydd yn bodoli rhwng dysgwyr, eu ffrindiau ac athrawon.

4. YMATEB ESTYN

Yn unol â gofynion y Cod, nodir ymateb Estyn i'r ymgynghoriad statudol yn llawn isod:

“Ymateb Estyn i'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn o'r 31ain o Ragfyr 2026 gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Talysarn o Ionawr y 1af 2027 ymlaen”.

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Crynodeb/Casgliad

Mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn o'r 31ain o Ragfyr, 2026, gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Talysarn. Mae'r wybodaeth sy'n rhan o'r ymgynghoriad yn glir a thrwyadl ac yn darparu gwybodaeth fanwl i'r cyhoedd. Ystyrir amrediad buddiol o opsiynau gan ymateb yn gytbwys i'r manteision ac anfanteision addysgol. Barn Estyn yw bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg ar gyfer disgyblion yn yr ardal.

Disgrifiad a manteision

Mae'r Cyngor wedi cynnig rhesymeg glir ar gyfer yr ymgynghoriad. Maent yn rhoi gwybodaeth glir ynglŷn â'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gweledig. Mae'r cynnig yn unol â chyflawni nod strategol presennol y Cyngor. Mae hyn wedi ei seilio ar eu gweledigaeth ar gyfer sicrhau:

1. Addysg o'r safon uchaf bosibl fydd yn darparu'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.
2. Cynnal Strategaeth Iaith Gymraeg Gwynedd
3. Gwireddu amcanion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

Mae'r Cyngor wedi darparu disgrifiad clir a manwl o'r cynnig. Maent wedi cyflwyno gwybodaeth gefndirol fuddiol a chynnwys amserlen ar gyfer cwblhau gweithdrefnau statudol.

Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir prif fanteision ac anfanteision disgwylidig y cynnig wrth gymharu gyda'r sefyllfa bresennol. Maent yn darparu amlinelliad manwl o'r sefyllfa bresennol yn ardal Ysgol Baladeulyn, gan osod cyd-destun daearyddol yr ardal o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Dyffryn Nantlle. Rhoddir sylw manwl i gynnal darpariaeth gadarn ar gyfer y Gymraeg yn yr ardal, yn unol â pholisïau'r Cyngor.

Mae'r cynnig yn darparu gwybodaeth ynglŷn â niferoedd sy'n mynychu ysgolion yr ardal ar hyn o bryd. Mae'r niferoedd cyfredol yn isel yn Ysgol Baladeulyn gyda dim ond 6 o ddisgyblion llawn amser a 2 rhan amser ym Medi 2025. Un dosbarth sydd yn yr ysgol. Dim ond dau ddisgybl sydd yn byw yn dalgylch yr ysgol. Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith ariannol y cynnig, gyda chyllid ychwanegol yn cael ei ddrynnu i'r ysgol yn unol â chanllawiau'r Cyngor. Darperir gwybodaeth ynglŷn ag Ysgol Talysarn, sydd yn rhan o'r cynnig, a nodir fod yr ysgol eisoes wedi ffederaleiddio

gydag Ysgol Brynaerau. Yn ogystal, mae'r cynnig yn darparu gwybodaeth fuddiol am ysgolion eraill cyfagos er mwyn ystyried yr effaith bosibl arnynt. Rhoddir sylw i'r diffiniadau o ysgolion y Cyngor, gan nodi fod Ysgolion Baladeulyn ac Ysgol Talysarn yn ysgolion 'Cymunedol,' cyfrwng Cymraeg.

Rhoddir amlinelliad o gryfderau a gwendidau'r sefyllfa bresennol, gan roi arweiniad clir mai barn y Cyngor yw bod yr anfanteision yn gorbwyso'r manteision. Mae'r cynnig yn amlinellu saith opsiwn gwahanol dderbyniodd ystyriaeth fel rhan o'r broses. Mae hyn yn talu sylw dyledus i'r cod trefniadaeth ysgolion 2018 wrth ystyried dyfodol ysgolion gwledig. Mae'r cynnig yn cynnwys manylion o'r elfennau eraill gafodd eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys maint dosbarthiadau a llfeydd gweigion, effaith ar arweinyddiaeth a staffio, adnoddau ariannol ynghyd a ffactorau daearyddol. Yn ogystal, rhoddir sylw i effaith ar y gymuned a'r iaith Gymraeg.

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r saith opsiwn, sef:

- cynnal y sefyllfa bresennol
- ffederaleiddio gydag Ysgol Talysarn
- ffederaleiddio gydag ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn
- cau ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)
- uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn
- ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn
- cynnwys uned iaith yn Ysgol Baladeulyn.

Nodir manteision ac anfanteision yr opsiynau. Rhoddir ystyriaeth i effaith ariannol y cynnig, ynghyd â'r cyfleoedd buddiol i ddisgyblion dderbyn addysg mewn dosbarthiadau o faint mwy addas. Ystyrir elfennau fel costau diswyddo a thrafnidiaeth mewn modd cytbwys a theg. Nodir fod cyfartaledd cost y dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn £14, 953, o'i gymharu â chyfartaledd yr awdurdod o £5,780. Nodir hefyd fod Ysgol Baladeulyn wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth staffio o £56,781 yn ystod y flwyddyn ariannol 2025-26. Yn ogystal, mae'r cynnig yn ystyried effaith y newid ar arweinyddiaeth Ysgol Talysarn a sicrhau amser digyswllt i'r pennaeth.

Ystyrir nad yw'r newidiadau hyn yn debygol o gael unrhyw effaith ar y Gymraeg gan fod yr ysgolion yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynnig yn talu sylw i amrediad eang o ffactorau, er enghraifft wrth graffu ar ragfynegiadau niferoedd disgyblion, ynghyd â chostau cynnal a chadw'r adeiladau.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith y cynnig ar ansawdd a safonau mewn dysgu. Maent yn cyfeirio at wybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn, yn ystod 2017, lle nodwyd fod pob agwedd yn Ysgol Baladeulyn yn dda. Yn ysgol Talysarn, cafwyd y farn 'rhagorol' ar gyfer lles, a gofal cymorth ac arweiniad, ynghyd ag arweinyddiaeth a rheolaeth. Arolygwyd Ysgol Talysarn yn ystod mis Tachwedd 2025 ond nid yw'r adroddiad wedi ei chyhoeddi cyn y cynnig a'r ymateb yma.

Mae'r ymgynghoriad wedi ystyried effaith y cynnig mewn adrannau ar wahân, fel safonau a chynnydd, llesiant ac agweddau at ddysgu, profiadau addysgu a dysgu, gofal cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'n ystyried effaith tebygol y cynnig ar sicrhau fod cwricwlwm llawn a chytbwys yn cael ei gyflwyno.

Mae'r cynnig yn craffu'n fanwl ar yr effaith posibl ar safon y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr. Rhoddir sylw cytbwys i'r effaith ar safonau a chynnydd disgyblion. Nodir fod effaith y cynnig ar brofiadau dysgu'r disgyblion yn debygol o fod yn gadarnhaol gan y bydd y disgyblion yn cael eu haddysgu gyda mwy o'u cyfoedion, gan elwa ar y cyfleoedd ehangach i gydweithio. Mae'r cynnig yn awgrymu y byddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n agored i niwed a disgyblion

sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn debygol o fod yn gadarnhaol o ganlyniad i fynychu ysgol gyda lefelau staffio uwch.

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i amrediad llawn o ffactorau wrth ystyried cau ysgolion a'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig.

Crynodeb o'r Materion a Godwyd gan Estyn ac Ymateb y Cyngor

Wrth ystyried ymateb Estyn i'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo'r dysgwyr i Ysgol Talysarn, mae'r Cyngor yn nodi bod Estyn wedi cadarnhau bod y cynnig yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ac wedi nodi bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Mae'r Cyngor yn croesawu'r casgliad hwn ac yn nodi bod cynnal a gwella profiad addysgol dysgwyr wedi bod yn ystyriaeth ganolog wrth ddatblygu'r cynnig.

Mae Estyn wedi amlygu'r prif heriau cynaliadwyedd sylweddol sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys niferoedd isel iawn o ddysgwyr, canran uchel o leoedd gwag, un dosbarth gydag ystod oedran eang, a rhagamcanion niferoedd sy'n parhau'n isel. Mae'r Cyngor yn nodi bod yr holl ffactorau hyn wedi'u hystyried yn fanwl fel rhan o'r broses gwerthusiad opsiynau, ynghyd â'r effaith addysgol ac ariannol gysylltiedig. Yn y cyddestun hwn, mae'r Cyngor yn nodi fod capasiti digonol ac addas yn Ysgol Talysarn i dderbyn dysgwyr Ysgol Baladeulyn.

Mae Estyn hefyd wedi cydnabod statws Ysgol Baladeulyn fel ysgol wledig, ac wedi nodi bod y cynnig yn ymddangos yn un sy'n mynd i'r afael â'r gofynion ychwanegol ar gyfer ysgolion gwledig. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y cynnig wedi'i asesu'n fanwl yn erbyn y ffactorau sy'n berthnasol i ysgolion gwledig, gan gynnwys y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig ac mai dim ond ar ôl ystyried pob opsiwn amgen rhesymol, a dod i'r casgliad nad oedd yr un ohonynt yn mynd i'r afael â'r prif heriau, y daethpwyd i'r farn bod y cynnig yn briodol ac yn gymesur. Yn ogystal, mae Estyn yn nodi bod y Cyngor yn rhoi sylw i effaith ar y gymuned a'r iaith Gymraeg.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod Estyn wedi cydnabod bod y cynnig yn craffu'n fanwl ar yr effaith posibl ar safon y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr gan roi sylw i'r effaith ar safonau a chynnydd y dysgwyr. O ganlyniad, mae'r Cyngor o'r farn byddai effaith y cynnig ar brofiadau dysgu'r disgyblion yn debygol o fod yn gadarnhaol gan y bydd y dysgwyr yn cael eu haddysgu gyda mwy o'u cyfoedion, gan elwa ar y cyfleoedd ehangach i gydweithio.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod Estyn wedi cydnabod bod y cynnig yn rhoi ystyriaeth i ddysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a bod yn cynnig yn awgrymu y byddai'r effaith yn debygol o fod yn gadarnhaol o ganlyniad i fynychu ysgol gyda lefelau staffio uwch.

Wrth ystyried y materion a godwyd gan Estyn, mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i amrediad llawn o ffactorau wrth ystyried cau Ysgol Baladeulyn a'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn eu cyfanrwydd. Er bod effeithiau lleol, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn bod y cynnig yn briodol, yn gymesur, ac yn cydymffurfio â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, er budd gorau dysgwyr yr ardal yn y tymor canolig a'r tymor hir.

5. CRYNODEB O'R MATERION A GODWYD GAN YMGYNGOREION

Darperir isod grynodeb o'r prif faterion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ynghyd â'r ymatebion yr awdurdod i'r materion hynny.

1. SYLWADAU AM YR YSGOL

1.1 Ansawdd Addysg

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
1.1.1	"Mae ansawdd addysg yr ysgol wedi bod yn arbennig." "Mae'r teimlad o gymuned a'r ffaith fod pob plentyn yn cael eu derbyn yn hanfodol bwysig."	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau cadarnhaol hyn am y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn.
1.1.2	<i>"Fe wnaethom ddewis cadw ein plant yn Ysgol Baladeulyn oherwydd safon yr addysg y maent yn ei chael, eu ffrindiau, a'r ffaith mai'u neiniau a'u teidiau yn y pentref sy'n darparu gofal plant."</i>	Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd Asesiad o Effaith debygol y cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg, ac fe'i diweddarwyd yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r asesiad yn cydnabod bod perfformiad presennol Ysgol Baladeulyn wedi'i werthuso fel 'Da' gan Arolygiad Estyn, a bod y ddarpariaeth bresennol yn cynnig profiad addysgol cadarnhaol i'r dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.
1.1.3	Nodir bod y plant yn ffynnu ac yn hapus yn yr ysgol, ac yn derbyn profiadau gwerthfawr iawn.	
1.1.4	<i>"Mae Ysgol Baladeulyn yn cynnig amgylchedd bach a meithringar lle mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu hadnabod ac yn cael eu cefnogi."</i>	
1.1.5	<i>"Mae'r addysg yn rhagorol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'r cwricwlwm yn gwerthfawrogi ein hunaniaeth genedlaethol a'n treftadaeth."</i>	
		Yn yr un cyd-destun, mae'r Cyngor o'r farn fod y ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Talysarn, fel yr ysgol amgen arfaethedig, yn cynnwys dosbarthiadau o faint mwy addas gyda ystod oed llai, a all gynnig manteision i rai dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o gyfleoedd i ddysgu a chymdeithasu gyda chyfoedion o'r un oed a hwyluso cynllunio addysgu mwy penodol i gamau datblygiadol, gan gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant a datblygiad personol rhai plant.
		Fodd bynnag, nodir bod yr adolygiad o ddyfodol Ysgol Baladeulyn wedi'i seilio ar dystiolaeth ehangach sy'n ymwneud â chynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagolygon niferoedd sy'n parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir. Yn ogystal, dengys patrymau dewis yn y dalgylch fod y mwyafrif o ddysgwyr yn mynychu ysgolion eraill.
		Ar sail cymharu adroddiadau Estyn ac asesu'r opsiynau yn erbyn y meini prawf perthnasol, dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai

		gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg. Nodir bod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb, fan lleiaf, i'r ddarpariaeth bresennol ac yn galluogi i rai dysgwyr gael eu haddysgu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.

1.2 Cefnogaeth i ddysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
1.2.1	<i>“Roedd gan fy mab anawsterau dysgu ac roedd yr ysgol o gymorth mawr ac fe godasant ei hyder.” “Nid wyf yn credu y byddai wedi cael y math hwnnw o gefnogaeth mewn ysgol fwy.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n pwysleisio'r gefnogaeth gynhwysol a ddarperir i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys sylw personol ac ymateb hyblyg i anghenion emosiynol rhai dysgwyr.
1.2.2	Mae Ysgol Baladeulyn yn darparu amgylchedd bach, tawel a rhagweladwy, gyda pherthynas agos rhwng staff a disgyblion - rhywbeth sy'n hollbwysig i les emosiynol a dysgu fy mhlentyn, sydd gydag ADY.	Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg, a chafodd hwn ei gynnwys fel rhan o'r ddogfennaeth ymgynghori statudol. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, cafodd yr asesiad ei ddiweddarau. Mae'r asesiad diwygiedig yn parhau i gydnabod bod dyletswydd statudol ar bob ysgol i ddarparu cefnogaeth briodol i ddysgwyr ag ADY, ac yn nodi bod ysgolion mwy yn aml gyda ddarpariaeth ehangach, strwythurau cymorth mwy cadarn, a mynediad at ystod ehangach o ymyriadau a chymorth arbenigol. Ar sail cymharu canfyddiadau arolygiadau Estyn a'r dystiolaeth berthnasol, daw'r asesiad i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol a gynigir yn Ysgol Talysarn o leiaf yn cyfateb i'r ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd, gan gynnwys o safbwynt cefnogi dysgwyr ag ADY. O ganlyniad, er bod y Cyngor yn nodi'r safbwyntiau, mae Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, fel y'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad, yn dod i'r casgliad y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o arwain at effaith niwtral neu rannol gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gallu diwallu anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn unol â gofynion statudol a pholisi'r Awdurdod.

1.3 Ethos Gymraeg

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
1.3.1	“Ysgol fach cymraeg, mewn ardal cymraeg sydd dal ar agor, does dim ysgol fel ysgol Baladeulyn!”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.
1.3.2	“Mae ysgol Baladeulyn wedi cael gwobr aur am ei gwaith gyda'r Siarter Iaith.” “Mae'r brifathrawes bresennol Mrs Myrddin wedi gweithio'n ddi-flino ar hyn.” “Dyna gryfder ysgol fach gyda staff anhygoel.”	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau cadarnhaol hyn am y ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Baladeulyn.

1.4 Ymddygiad a Chynhwysiant

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
1.4.1	“Mewn ysgol fel Baladeulyn dydi bwllo ddim yn broblem.” “Mae plant yn dysgu i fod yn gynhwysol.”	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau cadarnhaol hyn am y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn.

1.5 Profiadau tu hwnt i'r dosbarth

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
1.5.1	Pwysleisir bod yr ysgol yn cynnal sesiynau rheolaidd y tu allan yn y gymuned e.e yn y goedwig ac wrth y llyn.	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau cadarnhaol hyn am y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn.

1.6 Datblygu Cyfrifoldeb a Hyder

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
1.6.1	“Rwyf wedi crafu pen dros y sylw yma... wrth adlewyrchu ar yr holl brofiadau arbennig ac amrywiol gaiff plant Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd.” “y cyfrifoldebau maent yn anochel yn gorfod eu hysgwyddo fel dysgwyr uchelgeisiol ac abl... ac unigolion iach ac hyderus.”	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r pryderon a fynegir ynghylch y defnydd o'r term 'profiadau teg', ac yn cydnabod bod dysgwyr Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd yn elwa ar brofiadau gwerthfawr ac amrywiol o fewn eu hysgol. Nid yw'r datganiad yn ceisio tanseilio'r darpariaeth bresennol, ond yn adlewyrchu'r bwriad i sicrhau bod pob dysgwr, waeth beth fo'u cefndir, yn cael mynediad at gyfleoedd addysg gyson. Ystyrir y byddai'r cynnig yn gallu cynnal a datblygu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru drwy ddarparu adnoddau, staffio a grwpiau cyfoedion ehangach, gan gefnogi datblygiad dysgwyr fel unigolion hyderus, dinasyddion egwyddorol, cyfranwyr mentrus a dysgwyr uchelgeisiol.

1.6.2	Mae Ysgol Baladeulyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr bregus a naturiol swil fagu hyder, datblygu sgiliau bywyd, ac ymgymryd a dyletswyddau ysgol.	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau gadarnhaol hyn am y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn.

1.7 Manteision ysgol fach (fel Ysgol Baladeulyn)

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
1.7.1	"Yn groes i awgrym sawl un fod hi'n anfantais bod mewn ysgol fechan dwi'n anghytuno." "Mae cyd weithio gwych wedi bod rhwng ysgolion Nebo a Nantlle ers blynnyddoedd." "Mae plant yn cael mwy o gyfle i fod yn rhan o bob gwasanaeth nadolig, timau chwaraeon a phob trip a chyfle." "Does dim dewis a dethol mae pawb yn cael y ffrainc o fod yn rhan o bob dim."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â chryfderau ysgolion bach a'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cafodd effaith debygol y cynnig ar ansawdd a safonau addysg ei hasesu, gan gynnwys ystyriaeth benodol o lesiant, profiad cymdeithasol a pherthyn. Er bod yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg wedi'i ddiweddarau yn dilyn ystyried y sylwadau hyn, nid yw'r ystyriaethau ychwanegol wedi arwain at newid i gasgliad yr asesiad. Dengys yr asesiad o hyd y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb, fan lleiaf, i'r ddarpariaeth bresennol, ac yn gallu cynnig cyfleoedd ehangach i ddysgwyr o ran grwpiau oed berthnasol, rhyngweithio cymdeithasol ac ehangder profiadau dysgu. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig nodi bod Ysgol Baladeulyn yn wynebu heriau sylweddol a pharhaus sydd wedi rhoi sail i'r adolygiad o'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys niferoedd dysgwyr isel dros gyfnod estynedig, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagamcanion niferoedd sy'n parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir. Yn ogystal, dengys y dystiolaeth fod patrymau dewis yn y dalgylch wedi arwain at y mwyafrif o ddysgwyr yn mynychu ysgolion eraill, a bod cost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol. O ganlyniad, er bod y Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd ynghylch gwerth addysgol ysgol fach wledig fel Ysgol Baladeulyn, dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, fel y'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad, fod y trefniadau presennol yn cyflwyno heriau o ran sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth. Yn yr un modd, pe gweithredir y cynnig, nodir bod y ddarpariaeth amgen yn Ysgol Talysarn yn gallu cynnig
1.7.2	Mae cynhaliadau mewn ysgol fach wledig yn amhrisiadwy, ble mae'r holl ddysgwyr yn adnabod ei gilydd, yn cael sylw unigol, ac nad ydynt yn cael eu colli mewn dosbarthiadau mawr.	
1.7.3	"Mae'r ymgynghoriad yn pwysleisio ar beth fyddai'r dysgwyr yn ennill o fod yn ymuno a ysgol mwy ond beth am yr hyn fyddai'r dysgwyr yn ei golli?" "Yn benodol dysgwyr bregus, a'i rhieni wedi dewis ysgol fach Baladeulyn iddynt." "Mae'r cynnig yn bendant am gael fwy o effaith negyddol ar ddysgwyr bregus yr ysgol."	
1.7.4	"Ychydig o engreiffiau yw'r sylw ac amser mae athrawon a chymorthyddion Baladeulyn yn gallu ei roi i'r dysgwyr" "cyfrifoldebau megis rolau ar y Cyngor Ysgol, swyddi amser chwarae ayyb a rhannau mawr i'w chwarae mewn cyflwyniadau cyhoeddus" "nid oes unrhyw blentyn yn cael ei eithro a bob un wedi magu balchder a hyder yn ei hunain o ganlyniad i hyn."	
1.7.5	"mae ysgol llai yn rhoi cyfle gwych i'r disgyblion yma gael mwy o sylw ac i ffynnu." "Mae ysgolion bach yn berffaith ar gyfer y disgyblion yma ac nid yw pawb yn gweithio'n dda mewn ysgolion mawr."	

		trefniant addysgol sy'n parhau i gefnogi ansawdd a safonau addysg addas i ddysgwyr y dalgylch.

1.8 Cefnogaeth i deuluoedd

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
1.8.1	<i>“Roedden nhw hefyd yn cefnogi'r plant drwy gyfnodau teuluol anodd.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau cadarnhaol hyn am ddarpariaeth Ysgol Baladeulyn.
1.8.2	<i>“Nid yw Ysgol Baladeulyn erioed wedi methu ei disgyblion waeth beth fo'r broblem.” “Maent yn cefnogi'r teulu yn hytrach na meddwl am rifau – maent yn malio, yn wahanol i'r rhan fwyaf o ysgolion.”</i>	

2. SYLWADAU AR Y CYNNIG

2.1 Gwrthwynebiadau i'r Cynnig

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
2.1.1	“Mae Corff Llywodraethol Ysgol Baladeulyn yn anghytuno'n gryf a'r datganiad i gau Ysgol Baladeulyn ar y 31ain o Ragfyr 2026.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r gwrthwynebiadau a'r siom sylweddol a fynegwyd mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn. Mynegwyd gwrthwynebiad clir i'r cynnig, gyda phwyslais ar werth yr ysgol, a'r farn y dylai'r ysgol barhau ar agor. Ffefrir y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn am ei fod yn ymateb yn uniongyrchol i'r heriau sylweddol y mae'r ysgol yn eu hwynebu, sef: - niferoedd isel iawn o ddysgwyr, sydd wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf; - canran uchel iawn o lefydd gwag, sy'n tanseilio cynaliadwyedd y ddarpariaeth; - dosbarthiadau bychan gydag amrediad oedran eang, sy'n cyflwyno heriau o ran trefniadaeth ac ansawdd profiadau addysgol; - rhagamcanion niferoedd isel i'r dyfodol, nad ydynt yn awgrymu gwelliant sylweddol yn y sefyllfa; - patrwm clir o ddewis gan ddysgwyr y dalgylch, gyda'r mwyafrif eisoes yn mynychu ysgolion eraill;
2.1.2	Mynegir gwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn.	
2.1.3	Mynegir gwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar ddiwedd 2026 a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn o 1af Ionawr 2027.	
2.1.4	“Rwy'n anghytuno gyda'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn”	
2.1.5	Peidiwch a chau ein ysgol, dyma ysgol fy mhlentyn a dyma ein pentref lleol lle hoffem aros.	
2.1.6	“Rwyf yn anghytuno gyda'r datganiad hwn gan fy mod wedi mynychu'r ysgol ers yr oeddwn yn dair hyd at unarddeg.”	
2.1.7	Mynegir gwrthwynebiad pendant i'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo'r ddarpariaeth addysg i Ysgol Talysarn.	
2.1.8	“Rwy'n anghytuno â'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a'n ffafrio unrhyw o'r opsiynau amgen yn fwy.”	

2.1.9	<i>“Nid oes unrhyw ffordd y gall cau ysgol y pentref fod yn beth cadarnhaol.”</i>	cost fesul dysgwr sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol, sy'n codi pryderon am gynaliadwyedd ariannol hirdymor. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, bydd rhaid cyflwyno'r adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, bydd y Cabinet yn penderfynu p'run ai a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ai peidio. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod yr holl sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hystyried yn llawn wrth lunio'r adroddiad ymgynghori yma (Atodiad A – Adroddiad Ymgynghori), ac wedi llywio'r asesiadau pellach a'r gwerthusiad o'r cynnig a'r opsiynau amgen rhesymol. Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid i'r cynnig gael ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd "cyfnod gwrthwynebu" o 28 diwrnod o'r dyddiad pan gyhoeddir y cynnig. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau mewn "Adroddiad Gwrthwynebu". Yn dilyn hynny, bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr adroddiad gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi cyrraedd ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi'n ysgrifenedig, ynghyd â rhesymau penodol dros y penderfyniad.
2.1.10	<i>“Dim cau ysgol bach da”</i>	
2.1.11	<i>“Credud fod cau ysgol baladeulyn yn grisis an fafriol i'r disgyblion a staff.” “Ysgol fach syn rhoi sylw unigol i ddisgyblion syn delio gyda’g anableddau dysgu, 1-1 ac afriaeth.” “Bysa cau yr ysgol hon yn ddewis hollol hollol wyrion!”</i>	
2.1.12	<i>“Sioc enfawr ir pentre, hollol boncyrs o syniad i gau ysgol mor ffantastig!”</i>	
2.1.13	<i>“Mae'r ysgol yn un hen iawn ac mi fusain bechod os sain cau.”</i>	
2.1.14	<i>“Rwy'n gwrthwynebu'n gryf ac yn anghytuno â'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn, Nantlle.”</i>	
2.1.15	<i>Mynegir gwrthwynebiad gryf i'r cynnig i gau'r ysgol ar ddiwedd 2026, ar sail profiad personol ynghyd ag anghenion penodol eu plant.</i>	

2.2 Galw i gadw'r ysgol ar agor

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
2.2.1	<i>“Ni fyddai'n broblem pe bai'r ysgol fach yn aros ar agor.” “Na, bydd yn effeithio ar y plant beth bynnag.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Baladeulyn.

2.2.2	<i>“Cadwch Baladeulyn ar agor gan fod y plant bob amser yn siarad Cymraeg rhugl.” “Na, beth bynnag, bydd yn cael effaith negyddol ar y plant.”</i>	Mae'r Asesiad Effaith Cymunedol diwygiedig yn nodi bod canran uchel o blant dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-ddalgylch (75%), gan gynnwys Ysgol Talysarn, sy'n awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol ehangach eisoes yn bodoli. Ar yr un pryd, daw'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.
2.2.3	“Angen cadw yr ysgol ar agor erlles y disgyblion i gyd!” “Angen cadw yr ysgol ar agor!!”	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei wynebu. Mae niferoedd dysgwyr yr ysgol wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, ac wedi arwain at sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 dysgwr Meithrin ar y gofrestr yn Ionawr 2026. O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac yn wynebu heriau cynyddol niferus, gan gynnwys: • Niferoedd isel o ddysgwyr - Yn Ionawr 2025, roedd 13 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 a 0 dysgwr meithrin yn mynychu Ysgol Baladeulyn. Mae'r niferoedd wedi gostwng ymhellach ers hynny gyda 6 dysgwr llawn amser a 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr yn Ionawr 2026. • Canran uchel o lefydd gweigion – Gyda 6 o ddysgwyr (Derbyn i Flwyddyn 6) ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 55, mae 49 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 89% o gapasiti'r ysgol. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 5 o lefydd gweigion yn y Meithrin yn ogystal. O ganlyniad, wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin - Blwyddyn 6, mae gan Ysgol Baladeulyn 54 (87%) o lefydd gweigion. • Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang – Yn Ysgol Baladeulyn (Medi 2025) mae un dosbarth sy'n cynnwys pob dysgwr yn yr ysgol – sef 6 dysgwr Derbyn-Bl.6 (Derbyn, Bl.1 a 2, a Bl. 4 a 5) ynghyd â 2 ddysgwr Meithrin. O fewn y dosbarth hwn, caiff grwpiau gwahanol eu ffurfio

		ar wahanol adegau o'r dydd, gyda'r cymorthyddion yn arwain y gweithgareddau (gyda'r dysgwyr ieuengaf). Mae hyn felly yn golygu mae'r amrediad oedran yn y dosbarth cyfan yn ymestyn hyd at 8 mlynedd. • Rhagamcanion niferoedd – Mae rhagamcanion Medi 2025 yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y dair mlynedd nesaf, gyda rhagamcan o 7 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 1 dysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028. • Dysgwyr y dalgylch – Yn ôl gwybodaeth Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) Ionawr 2026, dim ond 25% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn sy'n dewis mynychu'r ysgol. Mae 75% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch. • Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd – Mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27 (seiliedig ar niferoedd Medi 2025) fydd £74,446. • Cyfartaledd cost fesul dysgwr – Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn y flwyddyn ariannol 2026-27 fydd £25,123, o gymharu â'r cyfartaledd sirol am yr un cyfnod yn £5,998. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, bydd rhaid cyflwyno'r adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, bydd y Cabinet yn penderfynu p'run ai a ddylid bwrw ymlaen a'r cynnig hwn ai peidio. Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid i'r cynnig gael ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd "cyfnod gwrthwynebu" o 28 diwrnod o'r dyddiad pan gyhoeddir y cynnig. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau mewn "Adroddiad Gwrthwynebu".

		Yn dilyn hynny, bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr adroddiad gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi cyrraedd ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi'n ysgrifenedig, ynghyd â rhesymau penodol dros y penderfyniad.

2.3 Barn o blaid y cynnig

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
2.3.1	Mynegir cefnogaeth i'r cynnig i ddisgyblion drosglwyddo i Ysgol Talysarn, ble mae nifer uwch o blant.	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau.
2.3.2	"credaf bydd y cynnig yn ei ffurf presennol yn cael effaith gadarnhaol." "Dydi cefnogi a chynnal sefyllfaoedd fel sydd ym Maladeulun ddim yn gwneud unrhyw les i'r Gymraeg."	
2.3.3	"Cefnogaf y cynnig yn gryf." "Mae parhau i gynnal y ddwy ysgol tra bod eu niferoedd cyn ised, eu llefydd gweigion cymaint â'r gost y pen cyn uchred mewn hinsawdd ariannol heriol yn annheg, afresymol ac anfoesol."	
2.3.4	"maent yn dod i gyswllt ac yn ymwneud â nifer o blant o ystod o gefndiroedd... ac yn eu paratoi yn well i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas honno."	
2.3.5	"dychmygaf fod symud o ysgol gynradd o lai na 20 i ysgol uwchradd 20 gwaith y maint yn wirioneddol frawychus."	

2.4 Galw i ailystyried y cynnig

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
2.4.1	Galwir ar y Cyngor i ailystyried y cynnig a chydweithio'n agos â'r gymuned leol er mwyn sicrhau ateb sy'n diogelu darpariaeth addysg gynradd yn ardal Baladeulyn.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw gan gydnabod pwysigrwydd darpariaeth addysg gynradd yn ardal Baladeulyn ac yn gwerthfawrogi'r pryderon a fynegwyd gan drigolion. Gweler Adran 7 ac Adran 8 o'r ddogfen ymgynghori, lle amlinellir yr opsiynau a gafodd eu hystyried yn ystod y broses. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod Gwerthusiad Opsiynau manylach ar gael yn Atodiad B, sy'n darparu dadansoddiad pellach o gryfderau a gwendidau pob opsiwn.

		Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, bydd rhaid cyflwyno'r adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, bydd y Cabinet yn penderfynu p'run ai a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ai peidio. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod yr holl sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hystyried yn llawn wrth lunio'r adroddiad ymgynghori yma (Atodiad A – Adroddiad Ymgynghori), ac wedi llywio'r asesiadau pellach a'r gwerthusiad o'r cynnig a'r opsiynau amgen rhesymol. Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid i'r cynnig gael ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd "cyfnod gwrthwynebu" o 28 diwrnod o'r dyddiad pan gyhoeddir y cynnig. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau mewn "Adroddiad Gwrthwynebu". Yn dilyn hynny, bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr adroddiad gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi cyrraedd ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi'n ysgrifenedig, ynghyd â rhesymau penodol dros y penderfyniad.

2.5 Sylwadau am statws a pherchnogaeth cyfreithiol yr ysgol

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
2.5.1	"Dosbarthwyd Ysgol Baladeulyn o dan Ddeddf Addysg 1944 fel 'ysgol wirfoddol'... dylai Cyngor Gwynedd ymgynghori â Llywodraeth Cymru i gael cyllid ychwanegol."	Mae Cyngor Gwynedd yn cadarnhau mai ysgol gymunedol yw Ysgol Baladeulyn, nid ysgol gwirfoddol.
2.5.2	"Gallai'r gweithred ymddiried (declaration of trust) hon fod yn Amgueddfa Penmaenmawr (sydd ar gau ar hyn o bryd) neu yn Archifau Cyngor Conwy. Gallai tor-cytundeb gan 'Kinmel Estates' fod â goblygiadau cyfreithiol i Gyngor Gwynedd."	Nodir bod trosglwyddiad teitl llawn yr eiddo i Gyngor Sir Caernarfon ym 1972. Nid oes cyfeiriad at unrhyw ymddiriedolaeth yng ngweithredoedd y safle gan Gyngor Gwynedd.

3. EFFAITH AR DDYSGWYR

3.1 Effaith emosiynol a lles

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
3.1.1	<i>“Mae cau’r ysgol yn peri risg o darfu ar les emosiynol y disgyblion, eu hymdeimlad o berthyn, a pharhad eu dysgu.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r pryderon a fynegwyd ynghylch y posibilrwydd y gallai cau’r ysgol gael effaith andwyol ar lesiant a phrofiad dysgwyr presennol. Mae’r materion hyn wedi’u hystyried wrth adolygu’r Asesiad Effaith Llesiant a’r Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, sy’n ystyried effaith bosibl newid ysgol ar ddysgwyr unigol, yn ogystal â’r mesurau lliniaru priodol.
3.1.2	<i>“Byddai’n peri gofid mawr i’n plant orfod symud i ffwrdd oddi wrth eu ffrindiau nawr, ar ben symud i ysgol newydd mewn pentref anghyfarwydd.”</i>	Pe gweithredir y cynnig, rhagwelir y byddai’r cynnig yn sicrhau fod dysgwyr yr ardal yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr. Er bod yr asesiadau effaith yn dod i’r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol amgen yn cyfateb fan leiaf i’r ddarpariaeth bresennol, maent hefyd yn pwysleisio’r angen am drefniadau pontio a chefnogaeth briodol i leihau unrhyw effaith andwyol ar lesiant a chynnydd addysgol dysgwyr pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu.

3.2 Effaith symud i ysgol fwy

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
3.2.1	<i>“Yn gyffredinol credaf fod profiad fy mhlant o ‘ysgol fawr’ yn un mwy cadarnhaol na phrofiad eu cyfoedion mewn ‘ysgolion bach’.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cynhaliwyd Asesiad o Effaith debygol y cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg, ac fe’i cynhwyswyd fel rhan o’r ddogfennaeth ymgynghori statudol. Yn dilyn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad, cafodd yr Asesiad Effaith ei ddiweddaru i adlewyrchu’r materion a godwyd, gan gynnwys y safbwyntiau ynghylch addysg oedran gymysg, datblygiad cymdeithasol a lesiant disgyblion mewn ysgolion bach. Fodd bynnag, nid yw’r diweddariad hwn wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiad.

		Dengys yr Asesiad Effaith y byddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo'r dysgwyr i Ysgol Talysarn yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg. Mae'r asesiad yn nodi bod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Talysarn yn cyfateb, fan lleiaf, i'r safon a ddarperir yn Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd, ac y gallai ysgol fwy gynnig cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr o ran grwpiau oed-berthnasol, rhyngweithio cymdeithasol ehangach, ac ehangder profiadau addysgu a dysgu.
3.2.2	<i>"Gall plant ymneilltuo mewn ysgol fwy gan na fyddai'r staff yn gallu eu cefnogi yn yr un modd, a gallai hynny arwain at fwy o broblemau posibl i'r plentyn."</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch yr effaith bosibl o ail-leoli dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn i ysgol fwy, yn enwedig o safbwynt llesiant emosiynol, addasu cymdeithasol a dysgwyr bregus.
3.2.3	<i>"Gallai gael mwy o effaith ar rai grwpiau. Gallai achosi i'r plentyn dynnu'n ôl gan fod ysgol fwy yn gallu bod yn llethol. Gallai rhai problemau fynd heb eu sylwi."</i>	Mae'r Cyngor wedi ystyried y pryderon wrth gynnal a diweddarau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant, sy'n ystyried barn yr ymatebwyr ynghylch pwysigrwydd cefnogaeth bersonol, dosbarthiadau bach ac amgylchedd cynhwysol i lesiant rhai dysgwyr.
3.2.4	<i>"mae dosbarth un flwyddyn yn golygu fod holl gynnwys gwersi yn berthnasol iddynt."</i>	Mae'r Cyngor yn nodi bod Ysgol Talysarn, fel Ysgol Baladeulyn, yn ddarostyngedig i'r un dyletswyddau statudol o ran llesiant, diogelu a chynhwysiant, ac yn gweithredu polisiau i gefnogi anghenion unigol dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau pontio briodol a chymesur yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr unigol drwy'r newid, gan gynnwys cyfleoedd i ymgyfarwyddo â'r ysgol amgen, cyfathrebu clir â rhieni a gofalwyr, a darparu cefnogaeth dargedig lle bo angen. Er bod yr asesiadau effaith wedi'u diweddarau i gofnodi ac ystyried y pryderon hyn, nid yw'r sylwadau a dderbyniwyd wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiadau. Dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gyfwerth, fan leiaf, â'r ddarpariaeth bresennol o ran ansawdd a safonau addysg.

		Yn ogystal, mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant yn nodi'r angen i sicrhau trefniadau pontio briodol a chymorth wedi'i deilwra i ddysgwyr unigol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

3.3 Effaith ar addysg

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
3.3.1	"Mae 5 ysgol arall o fewn 15 munud o daith car i Ysgol Baladeulun." "Bydd y profiad yn debyg iawn."	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.

3.4 Cyfleoedd Cymdeithasol

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
3.4.1	"mae ganddynt fwy o gyfoedion a dewis ehangach o ffrindiau o'u hoed."	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.

3.5 Colli buddion ysgol fach

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
3.5.1	"Mae'r ymgynghoriad yn pwysleisio ar beth fyddai'r dysgwyr yn ennill o fod yn ymuno a ysgol mwy ond beth am yr hyn fyddai'r dysgwyr yn ei gollu?" "Yn benodol dysgwyr bregus, a'i rhieni wedi dewis ysgol fach Baladeulun iddynt." "Ychydig o engreiffiau yw'r sylw ac amser mae athrawon a chymorthyddion Baladeulun yn gallu ei roi i'r dysgwyr." "Cyfrifoldebau megis rolau ar y Cyngor Ysgol, swyddi amser chwarae ayyb a rhannau mawr i'w chwarae mewn cyflwyniadau cyhoeddus." "Nid oes unrhyw blentyn yn cael ei eithro a bob un wedi magu balchder a hyder yn ei hunain o ganlyniad i hyn."	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. Mae'r materion hyn wedi'u hystyried wrth adolygu'r Asesiad Effaith Llesiant a'r Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, sy'n ystyried effaith bosibl newid ysgol ar ddysgwyr, yn ogystal â'r mesurau lliniaru priodol. Er bod yr asesiadau'n dod i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol amgen yn cyfateb fan leiaf i'r ddarpariaeth bresennol, maent hefyd yn pwysleisio'r angen am drefniadau pontio briodol a chefnogaeth briodol i leihau unrhyw effaith andwyol ar lesiant a chynnydd addysgol dysgwyr pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.
3.5.2	Mynegir pryder bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar fanteision posibl i ddysgwyr, heb roi digon o sylw i'r hyn y byddent yn eu colli e.e. sylw ac amser unigol, derbyn cyfrifoldebau fel bod yn rhan o'r Cyngor Ysgol, a chymryd rhan mewn gweithgareddau megis	

	cyflwyniadau cyhoeddus. Mae'n amlwg bod pob dysgwr yn chwarae rhan ganolog oherwydd y niferoedd llai, yn meithrin eu balchder, eu hyder a'u sgiliau bywyd.	Ar sail cymharu adroddiadau Estyn ac asesu'r opsiynau yn erbyn y meini prawf perthnasol, dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg. Nodir bod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb, fan lleiaf, i'r ddarpariaeth bresennol ac yn galluogi i rai dysgwyr gael eu haddysgu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.

3.6 Effaith ar ddysgwyr bregus

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
3.6.1	<i>"Gall pontio i ysgol fwy fod yn heriol i lawer o blant, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sy'n ffynnu mewn lleoliadau llai."</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau.
3.6.2	<i>"Bydd hyn yn achosi i'm plant golli eu hunain gan fod un yn ei chael hi'n anodd mewn ysgol fwy." "Mae'r ysgol wedi'u cefnogi erioed."</i>	Mae'r Cyngor yn nodi bod Ysgol Talysarn, fel Ysgol Baladeulyn, yn ddarostyngedig i'r un dyletswyddau statudol o ran llesiant, diogelu a chynhwysiant, ac yn gweithredu polisïau i gefnogi anghenion unigol dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau pontio briodol a chymesur yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr unigol drwy'r newid, gan gynnwys cyfleoedd i ymgyswddo â'r ysgol amgen, cyfathrebu clir â rhieni a gofalgwyr, a darparu cefnogaeth dargedig lle bo angen. Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg, a chafodd hwn ei gynnwys fel rhan o'r ddogfennaeth ymgynghori statudol. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, cafodd yr asesiad ei ddiweddarau. Mae'r asesiad diwygiedig yn parhau i gydnabod bod dyletswydd statudol ar bob ysgol i ddarparu cefnogaeth briodol i ddysgwyr ag ADY, ac yn nodi bod ysgolion mwy yn aml â ddarpariaeth ehangach, strwythurau cymorth mwy cadarn, a mynediad at ystod ehangach o ymyriadau a chymorth arbenigol. Ar sail cymharu canfyddiadau arolygiadau Estyn a'r dystiolaeth berthnasol, daw'r asesiad i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol a gynigir yn Ysgol Talysarn o leiaf yn cyfateb i'r ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd.

		O ganlyniad, er bod y Cyngor yn nodi'r safbwyntiau a fynegwyd, mae Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, fel y'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad, yn dod i'r casgliad y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o arwain at effaith niwtral neu rannol gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gallu diwallu anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn unol â gofynion statudol a pholisi'r Awdurdod.

4. Y GYMRAEG

4.1 Sylwadau cadarnhaol am y ddarpariaeth Gymraeg bresennol

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
4.1.1	<i>“Mae'r ysgol wedi dysgu plant o fod yn rhugl mewn Ffrangeg, Saesneg ac Almaeneg i fod yn llawn Gymraeg.” “Mae'r Gymraeg yn cael ei anghofio ac mae angen ei pharhau.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.
4.1.2	<i>“Mae gan Ysgol Talysarn ac Ysgol Baladeulyn ddarpariaethau Cymraeg rhagorol.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.
4.1.3	<i>“Mae Ysgol Baladeulyn yn cadw'r iaith Gymraeg yn fyw ac mae'r plant yn hapus i siarad Cymraeg yn hyderus.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.
4.1.4	<i>“Mae'r ysgol yn ymhyfrydu mewn rhoi statws uchel i'r Gymraeg ymhob agwedd o'i darpariaeth, ac yn ymfalchïo mewn cynnal gweithgareddau uniaith Gymraeg sy'n croesawu'r gymuned gyfan.” “Pob gwasanaeth a chyngerdd - Nadolig, Diolchgarwch, Dydd Gŵyl Dewi - pob cyflwyniad plant a phob achlysur dathlu... yn gwbl uniaith Gymraeg pob un.” “Heb yr ysgol mae perygl gwirioneddol y bydd y defnydd cymunedol o'r Gymraeg yn gwanhau.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. Fel rhan o'r broses statudol, cynhaliodd y Cyngor asesiad o effaith y cynnig yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, a chyhoeddwyd y fersiwn wreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad statudol. Mae'r Asesiad Effaith Cymunedol diwygiedig yn nodi bod canran uchel o blant dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-ddalgylch (75%), gan gynnwys Ysgol Talysarn, sy'n awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol ehangach eisoes yn bodoli. Ar yr un pryd, daw'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Gymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-

		destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.

4.2 Pryder y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar addysg Gymraeg

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
4.2.1	"Bydd yn cael effeithiau andwyol ar y iaith a bydd nifer llai o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg."	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. Daw'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig, pe byddai'n cael ei weithredu, yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.
4.2.2	<i>"Byddai'r effaith yn sylweddol gan fod mwy yn siarad Saesneg mewn ysgolion mwy, ond mae Baladeulyn yn gwbl Gymraeg."</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. Daw'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Dengys data Ionawr 2026 bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, tra bod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.
4.2.3	<i>"Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad Saesneg mewn ysgolion mwy."</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw.
4.2.4	<i>"Effaith niweidiol sylweddol ar yr iaith Gymraeg, gan fod yr ysgol wedi'i lleoli ar ffin Parc Cenedlaethol Eryri."</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.

		Daw'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Dengys data Ionawr 2026 bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, tra bod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.
4.2.5	Gallai'r cynnig leihau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig i ddysgwyr bregus sy'n dibynnu ar amgylchedd bach a sefydlog i ddatblygu a chynnal eu sgiliau iaith. Rhaid i'r Cyngor ystyried sut gallai'r trosglwyddiad roi'r Gymraeg dan anfantais o gymharu â'r Saesneg i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol a sut byddai'r effeithiau hyn yn cael eu lliniaru.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw. Mae'r materion hyn wedi'u hystyried wrth adolygu'r Asesiad Effaith Llesiant a'r Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, sy'n ystyried effaith bosibl newid ysgol ar ddysgwyr, yn ogystal â'r mesurau lliniaru priodol. Er bod yr asesiadau'n dod i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol amgen yn cyfateb fan leiaf i'r ddarpariaeth bresennol, maent hefyd yn pwysleisio'r angen am drefniadau pontio a chefnogaeth briodol i leihau unrhyw effaith andwyol ar lesiant a chynnydd addysgol dysgwyr pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae'r Llawlyfr Rhieni Gwynedd 2025/26 yn ddogfen swyddogol a gyhoeddir gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd i roi manylion i rieni am amryw o drefniadau addysgol, gan gynnwys darpariaeth i ddysgwyr ag ADY. Mae'r llawlyfr ar gael yma: Llawlyfr Rhieni Fel a nodir yn y llawlyfr, mae gan dysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y cymorth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid.

4.3 Effaith y cynnig ar y Gymraeg yn y gymuned

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
4.3.1	Mynegir pryder difrifol ynghylch effaith cau'r ysgol ar y Gymraeg a bywyd y gymuned. Nodir bod yr ysgol a'i digwyddiadau wedi bod yn gyfrwng pwysig i integreiddio trigolion newydd, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, i fywyd Cymraeg y pentref. Teimlir y byddai colli'r ysgol yn tanseilio'r broses hon.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n pwysleisio rôl bwysig Ysgol Baladeulyn. Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith leithyddol, gyda'r materion a godwyd gan ymgynghorai yn cael eu hystyried wrth lunio'r asesiad diwygiedig.
4.3.2	<i>"Mae Ysgol Baladeulyn yn gwasanaethu cymuned lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol bob dydd."</i>	
4.3.3	Byddai colli'r ysgol yn cael effaith sylweddol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal.	
4.3.4	"Gyntaf fydd y ysgol yn mynd fydd y Gymraeg ar i golled yn yr ardel hono am byth."	Ar yr un pryd, daw'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.
4.3.5	Nodir cyfraniad uniongyrchol yr ysgol at gynnal yr iaith Gymraeg yn yr ardal lleol, gyda'r farn y gallai'r cynnig danseilio'r ecosystem ieithyddol yn y fro.	
4.3.6	"Credaf byddai cau Ysgol Baladeulyn yn cael effaith sylweddol a niweidiol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y pentref."	
4.3.7	Mynegir pryder difrifol ynghylch effaith cau'r ysgol ar y Gymraeg a bywyd y gymuned. Nodir bod yr ysgol a'i digwyddiadau wedi bod yn gyfrwng pwysig i integreiddio trigolion newydd, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, i fywyd Cymraeg y pentref. Teimlir y byddai colli'r ysgol yn tanseilio'r broses hon.	Cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned er mwyn asesu effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar y gymuned leol. Mae'r asesiad hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddarau yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan roi ystyriaeth briodol i'r sylwadau a'r materion a godwyd gan ymgynghorai, gan gynnwys pryderon ynghylch colli'r ysgol fel canolbwynt cymunedol. Fel y nodir yn y casgliad yn yr Asesiad Effaith ar y Gymuned diweddaraf, barn y Cyngor yw y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned leol pe bai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei weithredu a gallai colli'r ysgol danseilio'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn fyw ac yn ymarferol ym mywyd beunyddiol y gymuned. Mae'r casgliad hwn yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch llesiant cymdeithasol, ond mae hefyd wedi'i ffurfio ar sail y dystiolaeth ehangach a aseswyd yn yr asesiad. Mae'r Cyngor yn cydnabod yn yr Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith

		gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.

4.4 Pryder wrth gymharu'r nifer o ddysgwyr sydd yn siarad Gymraeg yn Nhalysarn a Nantlle

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
4.4.1	<i>"Gallai symud plant i amgylchedd mwy a llai Cymraeg wanhau trochi Cymraeg."</i> <i>"Mae gan Dalysarn gyfran fwy o deuluoedd di-Gymraeg."</i> <i>"Bydd hyn yn golygu llai o gysylltiad â'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn y gymuned."</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. Daw'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Dengys y data diweddaraf, CYBLD Ionawr 2026 bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, tra bod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran. Yn ychwanegol i hyn, mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%), gyda 50% o ddysgwyr oed cynradd dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu Ysgol Talysarn. Ar yr un pryd, mae'r Asesiad Effaith Cymunedol diwygiedig hefyd yn nodi bod canran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%), gyda 50% o ddysgwyr oed cynradd dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu Ysgol Talysarn, ac felly deuir i'r casgliad bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y pryderon a fynegwyd fod presenoldeb yr ysgol yn chwarae rôl bwysig wrth gynnal hunaniaeth Gymreig a defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

		Mae'r asesiadau effaith diwygiedig yn nodi, pe byddai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei weithredu, y byddai'r Cyngor yn ceisio lliniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Baladeulyn a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo'n briodol, a defnyddio Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod fel fframwaith ar gyfer trafod opsiynau priodol ar gyfer dyfodol adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n ymarferol.
4.4.2	<i>"Mae'r ysgol bresennol yn darparu addysg bron yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg." "Mae Ysgol Talysarn yn defnyddio mwy o Saesneg."</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. Fodd bynnag, daw'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Yn ogystal, dengys data CYBLD Ionawr 2026 fod canran uwch o ddysgwyr Ysgol Talysarn (37%) yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref o'i chymharu â Ysgol Baladeulyn (29%). Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.
4.4.3	<i>"Byddai cau'r ysgol yn ergyd drom i'r iaith Gymraeg a chymuned Nantlle." "Yn enwedig o gysidro bod lefelau y Gymraeg yn 55% ym Maladeulyn a'n 37% yn Nhalysarn."</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. Daw'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Dengys data Ionawr 2026 bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, tra bod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.
4.4.4	<i>Mynegir y farn y byddai cau'r ysgol yn cael ergyd drom ar y Gymraeg 'r gymuned, o ystyried y defnydd canrannau y Gymraeg yw 55% ym Maladeulyn a 37% yn Nhalysarn.</i>	
4.4.5	<i>"Byddai cau'r ysgol yn ergyd drom i'r iaith Gymraeg a chymuned Nantlle." "Yn enwedig o gysidro bod lefelau y Gymraeg yn 55% ym Maladeulyn a'n 37% yn Nhalysarn."</i>	
4.4.6	<i>"Fel cynddisgybl, mi allai ddweud yn hyderus nai ond Cymraeg oedd yn cael ei siarad ym Maladeulyn." "yn Nhalysarn roedd y disgyblion yn fwy tebygol o ddefnyddio Saesneg." "Mae hwn yn creu effaith diffirol ar yr iaith Gymraeg."</i>	
4.4.7	<i>"Mae'r Gymraeg yn bwysig i'r Cyngor, ac yn wir mae gwaith dyddiol y Cyngor yn cael ei gynnal yn Gymraeg, fel y mae pob cyfarfod"</i>	

	cyhoeddus.” “Mae Ysgol Baladeulyn yn ysgol Gymraeg iawn. Mae ymysg yr uchaf yng Ngwynedd, 55% dw i'n meddwl, gyda'r uchaf yn 80%” “Ond mae'r Cyngor yn fodlon cynnig symud disgyblion i Ysgol Talysarn sydd â dim ond 37%, yr isaf yng Ngwynedd.”	
4.4.8	“Byddai cau'r ysgol yn ergyd drom i'r iaith Gymraeg a chymuned Nantlle.” “Yn enwedig o gysidro bod lefelau y Gymraeg yn 55% ym Maladeulyn a'n 37% yn Nhalysarn.”	

4.5 Mesurau lliniaru i ddiogelu'r Gymraeg a lleihau effeithiau andwyol

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
4.5.1	“Dylai'r Cyngor warantu bod Ysgol Talysarn yn cynnal ethos Cymraeg cryf fel iaith gyntaf.” “Dylai trefniadau pontio flaenoriaethu cefnogaeth cyfrwng Cymraeg.” “Dylai'r Cyngor hefyd gymryd camau i ddiogelu bywyd cymunedol Cymraeg yn Nantlle.”	Daw'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Dengys data Ionawr 2026 bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, tra bod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran. Serch hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch defnydd o'r Gymraeg, ac yn nodi gallai'r awdurdod lleol a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen drafod dulliau i annog a meithrin cyfleoedd a hyder dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol.
4.5.2	“Sicrhau bod Cymraeg yn cael ei annog fwy na dim.”	Fel uchod.
4.5.3	“Cyfeirio arbedion at gefnogi'r Gymraeg.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw. Bydd unrhyw arbedion mewn costau refeniw yn cael eu cadw ym maes Ysgolion Gwynedd.
4.5.4	“Byddai modd llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau.

	bobl ddefnyddio'r Gymraeg.” “Drwy ddewis un o'r opsiynau amgen a gynnigwyd yn yr ymgynghoriad.”	Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei wynebu. Mae niferoedd dysgwyr yr ysgol wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, ac wedi arwain at sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 dysgwr Meithrin ar y gofrestr yn Ionawr 2026. O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac yn wynebu heriau cynyddol niferus, gan gynnwys: • Niferoedd isel o ddysgwyr - Yn Ionawr 2025, roedd 13 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 a 0 dysgwr meithrin yn mynychu Ysgol Baladeulyn. Mae'r niferoedd wedi gostwng ymhellach ers hynny gyda 6 dysgwr llawn amser a 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr yn Ionawr 2026. • Canran uchel o lefydd gweigion – Gyda 6 o ddysgwyr (Derbyn i Flwyddyn 6) ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 55, mae 49 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 89% o gapasiti'r ysgol. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 5 o lefydd gweigion yn y Meithrin yn ogystal. O ganlyniad, wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin - Blwyddyn 6, mae gan Ysgol Baladeulyn 54 (87%) o lefydd gweigion. • Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang – Yn Ysgol Baladeulyn (Medi 2025) mae un dosbarth sy'n cynnwys pob dysgwr yn yr ysgol – sef 6 dysgwr Derbyn-Bl.6 (Derbyn, Bl.1 a 2, a Bl. 4 a 5) ynghyd â 2 ddysgwr Meithrin. O fewn y dosbarth hwn, caiff grwpiau gwahanol eu ffurfio ar wahanol adegau o'r dydd, gyda'r cymorthyddion yn arwain y gweithgareddau (gyda'r dysgwyr ieuengaf). Mae hyn felly yn golygu mae'r amrediad oedran yn y dosbarth cyfan yn ymestyn hyd at 8 mlynedd. • Rhagamcanion niferoedd – Mae rhagamcanion Medi 2025 yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y dair mlynedd nesaf, gyda rhagamcan o 7 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 1 dysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028. • Dysgwyr y dalgylch – Yn ôl gwybodaeth Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) Ionawr 2026, dim ond 25% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn sy'n dewis mynychu'r ysgol. Mae 75% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch. • Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd – Mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob
4.5.5	“drwy gysidro un o'r opsiynau amgen yn yr ymgynghoriad yn hytrach na cau'r ysgol ar 31ain o Ragfyr 2026.”	
4.5.6	“drwy gysidro un o'r opsiynau amgen yn yr ymgynghoriad yn hytrach na cau'r ysgol ar 31ain o Ragfyr 2026.”	

		ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27 (seiliedig ar niferoedd Medi 2025) fydd £74,446. • Cyfartaledd cost fesul dysgwr – Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn y flwyddyn ariannol 2026-27 fydd £25,123 o gymharu â'r cyfartaledd sirol am yr un cyfnod yn £5,998. Yn dilyn pwysu a mesur manteision ac anfanteision yr opsiynau amgen ar gyfer Ysgol Baladeulyn, deuir i'r casgliad nad ydynt am ymateb yn ddigonol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir uchod. Caiff yr opsiynau amgen rhesymol eu hystyried ymhellach yn Adran 7 o'r adroddiad hwn.
4.5.7	Os yw cadw'r iaith yn bwysig, yna mae angen cadw ysgolion lleol ar agor ...dyma ffordd orau i ddysgu Cymraeg yn enwedig i blant o deuluoedd sy'n siarad Saesneg.	Mae'r Cyngor yn nodi'r gwrthwynebiadau a fynegwyd mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn. Ffefrir y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn am ei fod yn ymateb yn uniongyrchol i'r heriau sylweddol y mae'r ysgol yn eu hwynebu, sef: • niferoedd isel iawn o ddysgwyr, sydd wedi bod yn gostwng dros y blynnyddoedd diwethaf; • canran uchel iawn o lefydd gwag, sy'n tanseilio cynaliadwyedd y ddarpariaeth; • dosbarthiadau bychan gydag amrediad oedran eang, sy'n cyflwyno heriau o ran trefniadaeth ac ansawdd profiadau addysgol; • rhagamcanion niferoedd isel i'r dyfodol, nad ydynt yn awgrymu gwelliant sylweddol yn y sefyllfa; • patrwm clir o ddewis gan ddysgwyr y dalgylch, gyda'r mwyafrif eisoes yn mynychu ysgolion eraill; • cost fesul dysgwr sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol, sy'n codi pryderon am gynaliadwyedd ariannol hirdymor. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, bydd rhaid cyflwyno'r adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r

		Cabinet er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, bydd y Cabinet yn penderfynu p'run ai a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ai peidio. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod yr holl sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hystyried yn llawn wrth lunio'r adroddiad ymgynghori yma (Atodiad A – Adroddiad Ymgynghori), ac wedi llywio'r asesiadau pellach a'r gwerthusiad o'r cynnig a'r opsiynau amgen rhesymol. Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid i'r cynnig gael ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd "cyfnod gwrthwynebu" o 28 diwrnod o'r dyddiad pan gyhoeddir y cynnig. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau mewn "Adroddiad Gwrthwynebu". Yn dilyn hynny, bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr adroddiad gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi cyrraedd ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi'n ysgrifenedig, ynghyd â rhesymau penodol dros y penderfyniad.

4.6 Effaith Gadarnhaol y Cynnig ar y Gymraeg

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
4.6.1	“Dim effaith negyddol.” “Os rhywbeth gwelliant ar y sail bydd cyfle i ddefnyddio'r gymraeg mewn cyfystur mwy hyfyw gyda mwy o blant.” “Mewn ysgol fwy mae effaith felly yn llawer llai sylweddol.”	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw. Daw'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Gymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Dengys data Ionawr 2026 bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, tra bod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref.

		Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.

5. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

5.1 Parhad staff a chymorth ADY

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
5.1.1	"Mae'r ysgol yn ariannu ... [cymhorthydd i]...ddysgwr ADY, a fydd yr oriau yma'n cael eu trosglwyddo i ysgol newydd?" "Er mwyn sicrhau parhad a sefydlogrwydd i'r dysgwr, a fydd yr un cymhorthydd yn cael parhau yn ei swydd i gefnogi'r dysgwr?"	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon hwn, ac er na ellir gwarantu y bydd parhad staff cefnogi yn yr ysgol amgen, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, nodir bod pob cais yn cael ei asesu'n unigol. Mae'r Llawlyfr Rhieni Gwynedd 2025/26 yn ddogfen swyddogol a gyhoeddir gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd i roi manylion i rieni am amryw o drefniadau addysgol, gan gynnwys darpariaeth i ddysgwyr ag ADY. Mae'r llawlyfr ar gael yma: Llawlyfr Rhieni
5.1.2	Cwestiynu os fyddai'r athrawon a chymorthyddion presennol yn parhau er mwyn sicrhau dilyniant a sefydlogrwydd, ac os fyddai cyllid ADY dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau pe bai'r ysgol yn cau.	
5.1.3	<i>"Mae 28.75 awr wedi'u dyrannu ar gyfer cynorthwydd lefel 3, fel sy'n ofynnol i ddarparu gofal un-i-un i ddisgybl âg anabledd dysgu difrifol."</i> <i>"A fydd y person sy'n darparu'r gofal ar hyn o bryd yn cael ei drosglwyddo i Ysgol Talysarn i sicrhau parhad gofal i'r disgybl hynod fregus hwn? Neu a fydd y plentyn hwn yn cael ei orfodi i wynebu nid yn unig newid ysgol o un braf a thawel i un a fydd bron â bod yn llawn (95 o ddisgyblion), ond hefyd gymhorthydd newydd sy'n ddieithr?" "Sut y gallai hyn fod er budd y plentyn o gwbl?"</i>	Fel a nodir yn y llawlyfr, mae gan ddysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y cymorth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid. O ran y sylwadau sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y Cyngor, nodir bod ystyriaeth ehangach o ddarpariaeth ADY yn fater parhaus i'r Awdurdod Lleol, a bod anghenion unigol dysgwyr yn cael eu hystyried yn barhaus drwy'r trefniadau statudol presennol. Mae'r broses ymgynghori ar ddyfodol Ysgol Baladeulyn wedi'i chynnal ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth oedd ar gael ar y pryd, ac mae unrhyw benderfyniad terfynol, pe bai'n cael ei wneud, yn cynnwys ystyried trefniadau pontio briodol a chefnogaeth addas i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr ag ADY.
5.1.4	Nodir bod symudiad gorfodol i ysgol fwy neu anghyfarwydd yn debygol o achosi gofid sylweddol a tharfu ar gynnydd plant ag ADY, yn enwedig y rhai sy'n dibynnu'n helaeth ar drefn, cysondeb a staff cyfarwydd.	

5.1.5	<i>“Rhaid i’r Cabinet ystyried goblygiadau cost cau’r ysgol, gan gynnwys costau diswyddiadau, a cholli arbenigedd AAA a gwybodaeth feddygol.”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylw. Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei weithredu, rhagwelir y bydd goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau gan y byddai’r swyddi yn dod i ben pan fyddai’r ysgol yn cau. Ymgynghorwyd yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o’r cyfnod ymgynghori statudol. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau sy’n deillio o’r cynnig gydymffurfio â’r gyfraith cyflogaeth berthnasol a chynllun Diswyddo Gwynedd. Yn ystod yr ymgynghoriad, cynhaliwyd sesiynau galw heibio lle’r oedd swyddogion o wasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn bresennol os oedd unrhyw aelod o staff yn dymuno trafod eu sefyllfa. Rhoddwyd gwybod fod croeso hefyd i staff gysylltu â’r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn uniongyrchol os oeddent yn dymuno cael trafodaethau pellach.

5.2 Effaith ysgol fwy ar blant sydd ag ADY

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
5.2.1	“Mae’r cynnig yn sicr am gael mwy o effaith ar y dysgwyr rheini o gefndiroedd mwy bregus, dysgwyr sy’n naturiol swil” “dysgwyr sy’n naturiol swil sydd wedi cael cyfle i fagu hyder a blodeuo mewn ysgol fach ac ar ddysgwyr ADY.”	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a dderbyniwyd sy’n pwysleisio’r gefnogaeth gynhwysol a ddarperir i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys sylw personol ac ymateb hyblyg i anghenion emosiynol rhai dysgwyr.
5.2.2	Rydym wedi cael profiad blaenorol ble na chafodd anghenion fy mhlentyn eu hadnabod mewn ysgol fwy dros gyfnod hir, ond ers symud i Ysgol Baladeulyn, mae’r anghenion hynny wedi eu hadnabod ac mae’r ysgol wedi darparu’r cefnogaeth briodol. Rwy’n mynegi hyder cryf yn allu Ysgol Baladeulyn i ddeall a chefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, o’i gymharu ag amheuaeth ynghylch gallu ysgolion mwy i wneud hynny yr un mor effeithiol. Byddai cau Ysgol Baladeulyn yn dileu amgylchedd diogel a chefnogol sydd wedi profi ei fod yn gallu deall a chefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.	Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg, a chafodd hwn ei gynnwys fel rhan o’r ddogfennaeth ymgynghori statudol. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, cafodd yr asesiad ei ddiweddarau. Mae’r asesiad diwygiedig yn parhau i gydnabod bod dyletswydd statudol ar bob ysgol i ddarparu cefnogaeth briodol i ddysgwyr ag ADY, ac yn nodi bod ysgolion mwy yn aml â darpariaeth ehangach, strwythurau cymorth mwy cadarn, a mynediad at ystod ehangach o ymyriadau a chymorth arbenigol. Ar sail cymharu canfyddiadau arolygiadau Estyn a’r dystiolaeth berthnasol, daw’r asesiad i’r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol a gynigir yn Ysgol Talysarn o leiaf yn cyfateb i’r

		ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd, gan gynnwys o safbwynt cefnogi dysgwyr ag ADY. Mae'r Cyngor wedi ystyried y pryderon wrth gynnal a diweddarau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant. Mae'r Cyngor yn nodi bod Ysgol Talysarn, fel Ysgol Baladeulyn, yn ddarostyngedig i'r un dyletswyddau statudol o ran llesiant, diogelu a chynhwysiant, ac yn gweithredu polisiau i gefnogi anghenion unigol dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau pontio briodol a chymesur yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr unigol drwy'r newid, gan gynnwys cyfleoedd i ymgyswngiwrddo â'r ysgol amgen, cyfathrebu clir â rhieni a gofalwyr, a darparu cefnogaeth dargedig lle bo angen. Er bod yr asesiadau effaith wedi'u diweddarau i gofnodi ac ystyried y pryderon hyn, nid yw'r sylwadau a dderbyniwyd wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiadau. Dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gallu diwallu anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn unol â gofynion statudol a pholisi'r Awdurdod. Yn ogystal, mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant yn nodi'r angen i sicrhau trefniadau pontio briodol a chymorth wedi'i deilwra i ddysgwyr unigol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. O ganlyniad, er bod y Cyngor yn nodi'r safbwyntiau, mae Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, fel y'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad, yn dod i'r casgliad y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o arwain at effaith niwtral neu rannol gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gallu diwallu anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn unol â gofynion statudol a pholisi'r Awdurdod.

5.3 Lles, hyder a diogelwch dysgwyr ADY

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
5.3.1	Pwysleisir bod rhieni wedi gwneud dewis ymwybodol i anfon eu plant i ysgol fach, gartrefol lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus, a bod y dewis hwn yn haeddu'r un parch â dewisiadau rhieni eraill yn y dalgylch i yrru eu plant i ysgolion eraill.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw. Yn unol â Pholisi Mynediad, mae gan rieni hawl i fynegi dewis o ysgol ar gyfer eu plentyn, ac nid oes gofyniad iddynt fynychu'r ysgol yn eu pentref nac yn eu dalgylch cartref o reidrwydd. Mae'r Awdurdod yn ystyried pob cais yn unol â'r meini prawf mynediad statudol ac yn dyrannu lleoedd pan fo lle ar gael. Nodir hefyd fod rhieni'n gwneud dewisiadau addysgol yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys profiad personol, anghenion unigol plant, a dewisiadau teuluol.
5.3.2	Pwysleisir bod angen i'r Cyngor ystyried effaith ddifrifol trosglwyddiadau gorfodol ar blant gydag anghenion dysgu ychwanegol dwys, a'r risgiau cysylltiedig â newid sydyn mewn lleoliad addysgol. Mynegir pryder y byddai'r cynnig yn cael effaith negatif ar ddysgwyr anabl, yn enwedig plant awtistig a'r rhai ag anawsterau cyfathrebu.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw. Mae'r Cyngor wedi ystyried y pryderon wrth gynnal a diweddarau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant. Mae'r Cyngor yn nodi bod Ysgol Talysarn, fel Ysgol Baladeulyn, yn ddarostyngedig i'r un dyletswyddau statudol o ran llesiant, diogelu a chynhwysiant, ac yn gweithredu polisiau i gefnogi anghenion unigol dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau pontio briodol a chymesur yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr unigol drwy'r newid, gan gynnwys cyfleoedd i ymgyswddo â'r ysgol amgen, cyfathrebu clir â rhieni a gofawyr, a darparu cefnogaeth dargedig lle bo angen. Mae'r Llawlyfr Rhieni Gwynedd 2025/26 yn ddogfen swyddogol a gyhoeddir gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd i roi manylion i rieni am amryw o drefniadau addysgol, gan gynnwys darpariaeth i ddysgwyr ag ADY. Mae'r llawlyfr ar gael yma: Llawlyfr Rhieni. Fel a nodir yn y llawlyfr, mae gan ddysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y cymorth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n

		ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid. O ran y sylwadau sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), nodir bod ystyriaeth ehangach o ddarpariaeth ADY yn fater parhaus i'r Awdurdod Lleol, a bod anghenion unigol dysgwyr yn cael eu hystyried yn barhaus drwy'r trefniadau statudol presennol. Mae'r broses ymgynghori ar ddyfodol Ysgol Baladeulyn wedi'i chynnal ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth oedd ar gael ar y pryd, ac mae unrhyw benderfyniad terfynol, pe bai'n cael ei wneud, yn cynnwys ystyried trefniadau pontio briodol a chefnogaeth addas i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr ag ADY. Er bod yr asesiadau effaith wedi'u diweddarau i gofnodi ac ystyried y pryderon hyn, nid yw'r sylwadau a dderbyniwyd wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiadau. Dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gyfwerth, fan leiaf, â'r ddarpariaeth bresennol o ran ansawdd a safonau addysg. Yn ogystal, mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant yn nodi'r angen i sicrhau trefniadau pontio briodol a chymorth wedi'i deilwra i ddysgwyr unigol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

5.4 Galw cynyddol am ddarpariaeth ADY

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
5.4.1	<i>“Ar hyn o bryd, mae nifer uchel o ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) wedi'u cofrestru yn Ysgol Baladeulyn. Mae'r niferoedd derbyn presennol yn ysgolion AAA Pendalar a Hafon y Lôn yn agosáu at eu capasiti, er gwaethaf niferoedd uwch nag erioed o blant ag AAA sy'n cael eu haddysgu gartref.”</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw. Mae'r Llawlyfr Rhieni Gwynedd 2025/26 yn ddogfen swyddogol a gyhoeddir gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd i roi manylion i rieni am amryw o drefniadau addysgol, gan gynnwys darpariaeth i ddysgwyr ag ADY. Mae'r llawlyfr ar gael yma: Llawlyfr Rhieni

		Fel a nodir yn y llawlyfr, mae gan ddysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y cymorth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid. O ran y sylwadau sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth, nodir bod ystyriaeth ehangach o ddarpariaeth ADY yn fater parhaus i'r Awdurdod Lleol, a bod anghenion unigol dysgwyr yn cael eu hystyried yn barhaus drwy'r trefniadau statudol presennol. Mae'r broses ymgynghori ar ddyfodol Ysgol Baladeulyn wedi'i chynnal ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth oedd ar gael ar y pryd, ac mae unrhyw benderfyniad terfynol, pe bai'n cael ei wneud, yn cynnwys ystyried trefniadau pontio briodol a chefnogaeth addas i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr ag ADY.

6. GOBLYGIADAU CLUDIANT, TEITHIO A DIOGELWCH

6.1 Cerdded, beicio ac annibyniaeth dysgwyr

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
6.1.1	<i>“Caniateir i ddisgyblion Blwyddyn 4 gerdded neu feicio adref o'r ysgol.”</i> <i>“Mae hyn wedi bod yn ddewis poblogaidd i ddisgyblion Baladeulyn dros y blynyddoedd ac mae'n dal felly heddiw ar ddiwrnodau braf a sych.”</i> <i>“Mae hyn yn rhoi ychydig o annibyniaeth i'r plant ac yn helpu i feithrin eu hyder.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. Yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar drefniadau teithio.
6.1.2	<i>“Mae'n cymryd tua 10–15 munud iddynt gerdded o Ysgol Baladeulyn i'r parc.”</i> <i>“Pawb yn chwarae'n hapus yn yr awyr agored ac yn ymarfer corff.”</i> <i>“Credaf ei fod yn beth mawr i geisio cael mwy o blant i chwarae tu allan.”</i>	Gan fod yr ysgol amgen wedi ei lleoli 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn, ac ymhellach o rai cartrefi dysgwyr y dalgylch, ni ragwelir y byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cerdded i'r ysgol amgen. Ar sail yr uchod, mae'r Awdurdod wedi nodi byddai effaith negyddol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu yn Ysgol Talysarn, a byddai'r Awdurdod angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn i Ysgol Talysarn, yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Sir.

		Rhagwelir costau cludiant ychwanegol – amcan gost o £17,000 i £30,000 y flwyddyn, a bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

6.2 Cludiant i Ysgol Talysarn

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
6.2.1	<i>“Mae angen cludiant i Ysgol Talysarn ar bob plentyn presennol, waeth beth o’u hardal ddalgylch, fel blaenoriaeth.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw.
6.2.2	<i>“A fydd cludiant i Daysarn yn cael ei gynnig i bob plentyn sydd ar gofrestr Baladeulyn ar hyn o bryd, gan gynnwys y plant hynny sydd allan o ddalgylch pentref Nantlle?”</i>	Yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu’r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar drefniadau teithio. Fel y nodir yn yr asesiad, mae Ysgol Talysarn wedi’i lleoli tua 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn. Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i’r dysgwyr hynny yn Ysgol Talysarn yn cael ei weithredu, byddai dalgylch diwygiedig Ysgol Talysarn yn cynnwys dalgylch presennol Ysgol Talysarn a dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn wedi’u cyfuno.
6.2.3	<i>“Trefnu cludiant i BOB plentyn presennol Ysgol Baladeulyn.” “Dylid trefnu cludiant i BOB plentyn, waeth beth o’u hardal ddalgylch.”</i>	
6.2.4	<i>“Byddai angen i gludiant fod yn flaenoriaeth i BOB disgybl sy’n mynychu Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd, gan gynnwys plant sy’n byw y tu allan i’r ardal ddalgylch, er mwyn iddynt allu aros gyda’u cyfoedion.”</i>	
6.2.5	<i>“oes sicrhad yn cael ei roi y bydd POB plentyn sydd ar gofrestr Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd yn cael cludiant i Ysgol Talysarn?” “oes sicrhad yn cael ei roi y bydd plant oed meithrin sy’n byw yn y pentref yn cael cludiant i sesiynau meithrin Ysgol Talysarn.”</i>	
6.2.6	Gofynnwyd a fydd cost ychwanegol i rieni/gwarchodwyr ar gyfer cludo eu plentyn i’r ysgol amgen,	Byddai dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn sy’n byw o fewn y dalgylch hwnnw yn cael cynnig cludiant i Ysgol Talysarn lle bo hynny’n berthnasol, yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd. O dan y Polisi, darperir cludiant di-dâl i ddysgwyr cynradd sy’n byw 2 filltir neu ymhellach o’r ysgol yn eu dalgylch neu’r ysgol agosaf, neu lle bo’r llwybr cerdded yn cael ei asesu’n anniogel. Yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd, nodir na fyddai dysgwyr sy’n byw y tu allan i’r dalgylch diwygiedig hwnnw yn gymwys i dderbyn cludiant ysgol di-dâl i Ysgol Talysarn. Fodd bynnag, mae’r Cyngor yn ystyried ceisiadau unigol mewn amgylchiadau unigryw. Pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i’r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd, er hynny ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i’r ysgol.

6.3 Pryderon ynghylch diogelwch teithio

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
6.3.1	<i>“Nid oes unrhyw ffyrdd diogel i blant deithio ar droed gan fod y ffordd yn beryglus oherwydd diffyg palmant a thraffig sy’n symud yn gyflym.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw.
6.3.2	Mynegir pryder ynghylch diogelwch teithio pe bai plant yn gorfod mynychu ysgol ymhellach i ffwrdd. Nodir nad yw’ r llwybrau posibl rhwng y cymunedau yn addas nac yn ddiogel ar gyfer cerdded, gan gynnwys llwybrau drwy ardaloedd diwydiannol neu ar hyd prif ffyrdd cyflym.	Yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu’r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar drefniadau teithio. Fel y nodir yn yr asesiad, mae Ysgol Talysarn wedi’i lleoli tua 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn. Pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, byddai dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael ei gynnwys o fewn dalgylch Ysgol Talysarn. Byddai dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn sy’n gymwys i dderbyn cludiant yn cael cynnig cludiant i Ysgol Talysarn, lle bo’n berthnasol, yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd.
6.3.3	<i>“Gan nad oes LLWYBR CERDDDED DIOGEL, nid yw cerdded yn opsiwn”</i>	
6.3.4	Nodir os yw Ysgol Baladeulyn yn cau, byddai’r dysgwyr yn colli’r gallu i gerdded i’r ysgol yn ddiogel, oherwydd nad oes lon na llwybrau addas. Cwestiynwyd a fyddai’r Cyngor yn ariannu creu llwybr pwrpasol?	Yn unol a Polisi Cludiant Addysg Gwynedd, mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy’n byw 2 filltir neu fwy o’r ysgol yn eu dalgylch, ysgol agosaf neu pan fo dysgwyr yn teithio i ysgol ar hyd ffordd mae’r Cyngor yn ei hystyried yn beryglus iawn. Y diffiniad o ffordd beryglus yw ble mae natur y ffordd (sy’n cynnwys llwybrau troed cyhoeddus) yn golygu nad yw’n rhesymol disgwyl i ddysgwyr (wrth ystyried eu hoedran a gyda hebryngwyr fel bo angen) i gerdded yn gymharol ddiogel. Wrth asesu diogelwch cymharol ffordd, bydd y Cyngor yn asesu’r peryglon y gallai dysgwr eu hwynebu ar hyd y ffordd a bennir (yn cynnwys, e.e. afonydd, ffosydd, cyflymder traffig ar hyd y ffordd gyfagos, damweiniau wedi digwydd yn y gorffennol, coed yn gôr hongian neu ganghennau a allai rwystro cerddwyr neu yrwyr rhag gweld, ayyb). Rhaid cynnal yr asesiad ar yr amser o’r dydd a dyddiau’r wythnos y gellid disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio’r ffordd. Yn unol a Polisi Cludiant Addysg Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy’n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf. Y llwybr byrraf sydd ar gael yw’r un nad yw’r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu’r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai’r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd. Mae’r Polisi i’w weld yn y llawlyfr i rieni: Gwybodaeth i Rieni

		Nid yw dysgwyr meithrin yn gymwys o dan y polisi, ac nid yw'r polisi'n rhagdybio bod rhieni'n gyfrifol am ddarparu cludiant lle bo plentyn yn gymwys am gludiant statudol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd, er hynny ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.
6.3.5	“A fydd yn Cyngor yn cysidro ariannu llwybr pwrpasol i gysylltu'r ddau bentref, heibio stad tai Bro Silyn, i alluogi plant a thrigolion Nantlle a Thalysarn gerdded rhwng y ddau pentref?”	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi' r sylw o ran trafnidiaeth newydd, megis llwybr cerdded pwrpasol i gysylltu'r ddau bentref. Byddai unrhyw ystyriaeth o ddatblygu neu ariannu llwybr o'r fath y tu allan i gwmpas y cynnig statudol hwn, a byddai angen ei asesu ar wahân drwy drefniadau cynllunio a chyllido priodol. O ran diogelwch teithio, nodir bod Polisi Cludiant Addysg Gwynedd yn darparu ar gyfer cludiant ysgol lle bernir bod llwybr cerdded yn un peryglus neu'n anaddas, waeth beth fo'r pellter. Pe câi'r cynnig ei weithredu, byddai cymhwysedd dysgwyr i gludiant ysgol yn cael ei asesu yn unol â'r polisi hwnnw, gan sicrhau bod trefniadau cludiant priodol ar gael lle bo hynny'n berthnasol.
6.3.6	“ <i>Fel ar hyn o bryd, nid oes gan y ffordd sy'n cysylltu'r ddwy pentref llwybr cerdded na lôn feicio. Dim ond llain laswellt wedi gordyfu.</i> ” “ <i>Er bod y terfyn cyflymder wedi'i ostwng i 50mya, mae'n dal yn beryglus cerdded ar hyd y ffordd, yn enwedig gyda thryciau HGV o'r chwareli a thraffig amaethyddol, heb sôn am lifogydd pan fydd hi'n bwrw glaw.</i> ” “ <i>A all y Cyngor ein sicrhau y byddant yn darparu llwybr cerdded a lôn feicio addas rhwng Talysarn a Nantlle, rhywbeth wnaethon nhw wrthod ei ystyried yn ystod yr ymgynghoriad cyn bwrw ati i wella'r ffordd a'i throi'n drac rasio dan ddŵr?</i> ”	
6.3.7	“ <i>Dim palmant cyhoeddus mewn parth 50mya... goleuadau stryd gwael ac yn dueddol o lifogydd.</i> ”	

6.4. Effaith teithio pellach ar lesiant y dysgwyr

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
6.4.1	Pryderir pe bai'n rhaid i ddysgwyr deithio ymhellach, gan nodi natur cul ac ansicr y ffyrdd, a' r effaith bosibl ar lesiant a diogelwch y dysgwyr.	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch y posibilrwydd y byddai dysgwyr yn gorfod teithio pellter pellach, gan gynnwys pryderon am natur cul ac ansicr rhai ffyrdd lleol, a'r effaith bosibl ar ddiogelwch a lesiant dysgwyr. Fel rhan o'r broses statudol, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig ar drefniadau teithio, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r asesiad hwn wedi'i ddiweddarau yn dilyn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr

		ymgyngoriad statudol, ac mae'n ystyried pellteroedd, diogelwch llwybrau a goblygiadau posibl i ddysgwyr. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai unrhyw drefniadau cludiant ysgol yn cael eu darparu ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am gludiant yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd, a darperir cludiant lle bernir bod y llwybr cerdded yn beryglus neu'n anaddas, waeth beth fo'r pellter. Caiff llwybrau cerdded eu hasesu'n fanwl yn unol â'r polisi, gan ystyried ffactorau megis natur y ffordd, cyfaint a chyflymder traffig, a diogelwch cyffredinol ar adegau perthnasol o'r dydd. Er bod y Cyngor yn cydnabod, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, y gallai rhai dysgwyr deithio pellter pellach nag ar hyn o bryd, ond ni ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai trefniadau cludiant, lle bo'n berthnasol, yn cael eu cynllunio i leihau unrhyw risgiau diogelwch posibl ac i liniaru effaith negyddol ar lesiant dysgwyr.

6.5 Diffyg trafndiaeth gyhoeddus

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
6.5.1	Nid ydym yn gyrru, a byddai bysus yn heriol ofnadwy i deithio i'r ysgol ac yn ôl bob dydd.	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau ac yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynghylch addasrwydd a dibynadwyedd trafndiaeth gyhoeddus, yn ogystal â'r heriau ymarferol a allai godi i deuluoedd nad ydynt yn gyrru. Fel rhan o'r broses statudol, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn ar drefniadau teithio, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r asesiad hwn wedi'i ddiweddarau yn dilyn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr hynny yn Ysgol Talysarn yn cael ei weithredu, byddai unrhyw drefniadau cludiant ysgol yn cael eu darparu ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am gludiant yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd, ac ni fyddai disgwyl i'r teuluoedd hynny ddibynnu ar drafndiaeth gyhoeddus i alluogi'r dysgwyr i fynychu'r ysgol.
6.5.2	<i>"Nid yw'r drafndiaeth gyhoeddus yn ddigonol."</i>	
6.5.3	<i>"Gall amserlen y bws fod yn annibynadwy."</i>	
6.5.4	<i>"O ystyried y sefyllfa drafndiaeth gyda bysiau ac ati, mae angen ysgol yn y pentref."</i>	
6.5.5	<i>"Nid oes cludiant cyhoeddus ar gael ar adegau addas chwaith."</i>	

		Mae Polisi Cludiant Addysg Gwynedd yn darparu cludiant ysgol di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch, yr ysgol agosaf, neu lle mae'r pellter cerdded byrraf addas rhwng cartref y dysgwr a'r ysgol dros 2 filltir, neu lle bernir bod y llwybr cerdded yn beryglus neu'n anaddas, waeth beth fo'r pellter. Caiff llwybrau cerdded eu hasesu yn unol â'r polisi. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael ei gynnwys o fewn dalgylch diwygiedig Ysgol Talysarn. O ystyried bod Ysgol Talysarn wedi'i lleoli tua 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn, byddai dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn sy'n gymwys o dan y polisi yn cael cynnig cludiant ysgol a drefnir gan y Cyngor. Er y cydnabyddir y byddai rhai dysgwyr yn teithio pellter pellach na'r presennol, ni ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr o ddalgylch Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol. Bydd trefniadau cludiant yn cael eu cynllunio i leihau unrhyw effaith negyddol bosibl ar ddysgwyr a theuluoedd.

6.6 Heriau i deuluoedd nad ydynt yn gyrru

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
6.6.1	<i>“Pe byddai cau Baladeulyn yn mynd yn ei flaen a lleoedd yn cael eu cynnig yn Nhalysarn, byddai angen ystyried o ddifrif sut y byddai'r plant yn cyrraedd yr ysgol.” “Yn enwedig gan nad yw rhai rhieni ac aelodau o'r teulu sy'n darparu gofal plant yn gyrru.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau ac yn cydnabod bod trefniadau teithio yn ystyriaeth bwysig i deuluoedd, yn enwedig lle gallai teithio pellach gynyddu pwysau ymarferol ac ariannol ar deuluoedd.
6.6.2	<i>“Byddai peidio â darparu cludiant yn cynyddu'r pwysau ar rieni a theuluoedd nad ydynt yn gyrru oherwydd y costau ychwanegol, yn enwedig pan mae gofalwyr yn byw'n lleol i'r Ysgol presennol a gyda anabledau sy'n cyfyngu ar eu symudiad.”</i>	Yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar drefniadau teithio. Fel y nodir yn yr asesiad, mae Ysgol Talysarn wedi'i lleoli tua 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael ei gynnwys o fewn dalgylch Ysgol Talysarn. Byddai dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn sy'n gymwys i dderbyn cludiant yn cael cynnig cludiant i Ysgol Talysarn, lle bo'n berthnasol, yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd.
6.6.3	Byddai'n rhaid aros am gyfnod sylweddol yn eistedd y tu allan, heb unrhyw gyfleusterau... nid wyf yn gallu sefyll am hanner y cyfnod a fyddai'n ofynnol er mwyn mynd a fy mhlentyn i'r ysgol.	
6.6.4	“Mae'r rhain yn gwestiynau bydd teuluoedd â phlant ifanc eisiau ateb iddynt cyn penderfynu ymgartrefu ym mhentref Nantlle.”	

6.6.5	Gofynnir a fyddai unrhyw gymorth ariannol ar gael i deuluoedd a fyddai'n wynebu costau cludiant ychwanegol, yn enwedig lle byddai angen defnyddio trafndiaeth gyhoeddus sawl gwaith y dydd. Gall olygu fod raid i rai rhieni gymryd bws i ac o'r ysgol amgen ddwy waith y dydd - a fydd cefnogaeth i gyllido hyn?	Yn unol a Polisi Cludiant Addysg Gwynedd, mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch, ysgol agosaf, neu pan fo dysgwyr yn teithio i ysgol ar hyd ffordd mae'r Cyngor yn ei hystyried yn beryglus iawn. Mae'r Polisi i'w weld yn y llawlyfr i rieni: Gwybodaeth i Rieni .
6.6.6	<i>“Byddai'n lleddfu llawer o'n straen pe bai'r Cyngor yn cytuno i ddarparu cludiant i'n plant [o bentref tu allan y dalgylch i Dalysarn] er mwyn hwyluso'r cyfnod pontio hwn i ni i gyd.”</i>	Nid yw dysgwyr Meithrin yn gymwys o dan y polisi, ac nid yw'r polisi'n rhagdybio bod rhieni'n gyfrifol am ddarparu cludiant lle bo dysgwr yn gymwys am gludiant statudol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd, er hynny ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Fodd bynnag, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, anogir rhieni neu ofalwyr sydd â phryderon penodol ynghylch trefniadau teithio i gysylltu â'r Adran Addysg i drafod eu hamgylchiadau.

6.7 Cludiant i blant dan 5 oed

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
6.7.1	Codir pryderon ymarferol ac ariannol ynghylch cludiant i blant dan 5 oed (nad ydynt eto mewn addysg statudol). Nodir y gallai hyn fod yn her sylweddol i deuluoedd heb fynediad i gar, gan arwain at gostau a threfniadau cymhleth o ddydd i ddydd.	Mae'r Cyngor yn nodi'r galwad am eglurder a sicrwydd ynghylch trefniadau a goblygiadau costau cludiant pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant ysgol yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Cyngor Gwynedd. Nid yw dysgwyr meithrin yn gymwys o dan y polisi, ac nid yw'r polisi'n rhagdybio bod rhieni'n gyfrifol am ddarparu cludiant lle bo dysgwr yn gymwys am gludiant statudol.
6.7.2	<i>“O gysidro nad yw addysg yn statudol i blentyn nes y tymor ar ol iddynt droi'n 5 oed, a fydd y cludiant yma'n cael ei gynnig i ddysgwyr 3 a 4 oed?” “A fydd trefniadau addas wedi eu gwneud o ran diogelwch i ddysgwyr ifanc deithio yn y ceir gyda seti ceir?”</i>	
6.7.3	<i>“Caniateir i blant ddechrau'r ysgol yn dair oed yng Nghymru, ond nid oes rheidrwydd statudol tan bump oed.” “A fydd cludiant yn cael ei ddarparu i blant tair oed a rhiant/gwarcheidwad yn y bore ac yna dychwelyd y rhiant/gwarcheidwad adref?” “A fyddai hyn drwy dacs, a allwch ddarparu costau am hyn?”</i>	Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cludiant dibynadwy i deuluoedd. Fodd bynnag, nid yw cludiant ysgol, fel arfer, yn cael ei ddarparu i hwyluso mynediad at wasanaethau ychwanegol, ac mae trefniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn unol â'r polisi cludiant a'r meini prawf statudol perthnasol.

6.7.4	“Oes sicrhad yn cael ei roi y bydd plant oed meithrin sy’n byw yn y pentref yn cael cludiant i sesiynau meithrin Ysgol Talysarn.”	
6.7.5	A fydd seddi diogel, ac oedolyn yn bresennol i sicrhau diogelwch dysgwyr Meithrin a Derbyn?	

6.8 Sylwadau cyffredinol am gludiant

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
6.8.1	“Mae llawer mwy o ysgolion na sydd angen... mae teithio llawer haws heddiw ac nid oes angen cynifer o ysgolion mor agos i’w gilydd.”	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw.

7. Y GYMUNED A THEULUOEDD LLEOL

7.1 Cysylltiadau teuluol ac aml-genhedlaeth

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
7.1.1	“Mae ysgol Baladeulyn yn galon y gymuned” “Mae fy nwy ferch wedi mynd trwy addysg yn yr ysgol yn ogystal a fy mam ai chwiorydd.” “Roedd fy nain hefyd yn gogyddes yn yr ysgol felly mae ysgol yn golygu llawer.”	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw.
7.1.2	<i>“Aeth fy nhri plentyn i Baladeulyn.” “Ac yn awr mae fy wyrion yno ac maent yn cael yr un gefnogaeth.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw.
7.1.3	<i>“Rwyf wedi byw yn y pentref ers 15 mlynedd ac aeth y ddwy ferch i’r Ysgol, roedd yn ysgol dda iawn i’r bobl leol.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw.

7.2 Hunaniaeth Gymunedol a Balchder Lleol

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
7.2.1	Nodir bod dysgwyr yr ysgol yn meithrin balchder yn eu hysgol a’u cymuned fach, mai’r ysgol yw calon y gymuned, yn agos i gartrefi ac yn rhan allweddol iawn o’r ddiwylliant lleol.	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw.
7.2.2	Mynegir pryder y byddai symud addysg y plant i bentref arall, yn arwain at golli adnabyddiaeth o’u hardal leol, gan y bydden nhw’n mewn pentref arall pob dydd.	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw.

7.2.3	<i>“Mae gan y plant gysylltiad agos â’r pentref ac â’r Gymraeg a hanes y pentref.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw.

7.3 Effaith y cynnig ar hyfywedd y gymuned

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
7.3.1	<i>“Y canlyniad negyddol mwyaf fydd cau’r ysgol.” “Bydd yn niweidio ein cymuned yn anadferadwy.”</i>	Yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu’r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar y Gymuned.
7.3.2	Mae’r ysgol yn elfen ganolog o fywyd y pentref, gyda phryder y byddai ei chau’n cael effaith gymunedol sylweddol gan danseilio cynaliadwyedd, bywiogrwydd y gymuned leol.	Ar sail yr uchod, o weithredu’r cynnig, rhagwelir y Cyngor y bydd peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle, fodd bynnag nodai’r asesiad fod cyfran helaeth o’r dysgwyr sy’n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill (75%), gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), ac felly deuir i’r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes.
7.3.3	Byddai colli’r ysgol yn tanseilio bywyd y pentref.	Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru’r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn. I liniaru’r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Baladeulyn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Baladeulyn, lle’n briodol. Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o’r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen (Ysgol Talysarn) a rhieni dysgwyr Ysgol Baladeulyn fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol. Yn ogystal, pe byddai’r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy’n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.

7.4 Bywyd cymunedol a chysylltiadau cymdeithasol

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
7.4.1	<i>“Fel arfer, mae rhieni, neiniau a theidiau, a thrigolion y pentref sydd yn pasio heibio yn ymuno i sgwrsio a dal fyny.” “Nid ysgol yn unig rydych yn ceisio’i waredu.” “Bydd ymgynnull yn y parc yn dod i ben, a’r trefniadau i gyfarfod ger y llyn i nofio ar ddiwrnodau poeth yn mynd yn anoddach.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw. Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu’r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar y Gymuned. Mae’r Cyngor yn cydnabod o fewn yr asesiad y gallai colli’r ysgol gael effaith negyddol ar rai agweddau cymdeithasol a chymunedol lleol. Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio, e.e na fydd rhieni/gwarchodwyr /teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yn y gymuned wrth ollwng/casglu plant o’r ysgol. Fodd bynnag, nodai’r asesiad fod cyfran helaeth o’r plant sy’n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill (75%), gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), ac felly deuir i’r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes. Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru’r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn. I liniaru’r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Baladeulyn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Baladeulyn, lle’n briodol. Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o’r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen (Ysgol Talysarn) a rhieni dysgwyr Ysgol Baladeulyn fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol. Yn ogystal, pe byddai’r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy’n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.

7.5 Denu teuluoedd ifanc i'r pentref

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
7.5.1	“Rwyf wedi sylweddoli pa mor bwysig mae ysgolion bychain i'r gymuned.” “heb ysgol yn Nantlle, nad yw'n denu teuluoedd newydd.”	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar y Gymuned.
7.5.2	“Heb Ysgol yn Nantlle, nad yw'n denu teuluoedd ifanc i'r pentref. O ganlynaid, mae'r pentref yn trawsnewid i bentref digalon.”	Deuir i'r gasgliad gan fod cyfran uchel o ddysgwyr y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%), gyda 50% o ddysgwyr oed cynradd dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu Ysgol Talysarn, ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r ysgol yn cau. Yn ogystal, gan fod ysgol amgen wedi ei lleoli 2.5 filltir o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir y byddai'r cynnig yn annog teuluoedd a phant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned ychwaith.

7.6 Sylwadau ynglŷn a rôl yr ysgol yn y pentref

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
7.6.1	“Mae angen ysgolion bach gwerthfawr fel y rhain ar ein hardaloedd a fandaliaeth gymdeithasol fyddai ei gwared.”	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.
7.6.2	Mynegir y farn bod angen Ysgol Baladeulyn, a bod dysgwyr yr ysgol yn helpu cynnal y pentref.	Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar y Gymuned.
7.6.3	“Bydd cau'r ysgol yn digalonni'r gymuned.”	
7.6.4	“Nid oes gan ysgolion ddyletswydd i gynnal cymunedau... symptom o brinder plant mewn cymuned yw gorfod cau ysgol ac nid achos.”	Dengys yr asesiad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill (75%), gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), ac

		felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes. Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Baladeulyn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Baladeulyn, lle'n briodol. Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen (Ysgol Talysarn) a rhieni dysgwyr Ysgol Baladeulyn fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol. Yn ogystal, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.

7.7 Effaith ar deuluoedd yn y gymuned

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
7.7.1	<i>"Bydd cau Ysgol Baladeulyn yn cael effaith negyddol ar blant, teuluoedd a chymuned Nantlle."</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cwblhawyd asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn ar y Gymuned. Dengys yr asesiad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle. Fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r dysgwyr sy'n byw o fewn dalgylch yr

		ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill (75%), gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes. Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Baladeulyn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Baladeulyn, lle'n briodol. Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen (Ysgol Talysarn) a rhieni dysgwyr Ysgol Baladeulyn fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol. Yn ogystal, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.
7.7.2	<i>“Byddai’n hynod o anodd trefnu gofal plant ar ôl ysgol pe na bai’r plant mewn ysgol yn agos at Nantlle.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.

8. CAPASITI, DEMOGRAFFEG LLEOL A THREFNIANT DALGYLCHOEDD

8.1 Capasiti presennol ac effaith datblygiadau

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
8.1.1	<i>“Pe byddai pob disgybl yn cael ei drosglwyddo i Ysgol Talysarn wan, credaf byddai'r Ysgol yn un ddisgybl yn brin o ' i gapasiti llawn” “Mae stad newydd o dai yn cael ei ddatblygu ym Mhenygroes, nid yw'n afresymol i feddwl posib fyddai un neu ddau teulu gyda phlant oed cynradd yn symud i fewn.” “A yw'r Cyngor yn 100% sicr y bydd digon o gapasiti ar gael yn y dyfodol ar ôl cau Baladeulyn a Nebo?”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, rhagwelir y byddai capasiti digonol yn Ysgol Talysarn ar gyfer dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn sydd yn byw yn nalgylch Baladeulyn, pe byddai'r ysgol yn cau.

8.1.2	<i>“Mae Ysgolion Bro Lleu a Bro Lliffon yn prysur lenwi gyda dosbarthiadau ychwanegol yn cael eu codi ar iard Bro Lleu.” “Mae mwy a mwy o dai yn cael eu codi yn ein dyffryn a dyma pryd y bydd angen ein hysgolion bach.”</i>	Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ffactorau fel datblygiadau tai yn gallu dylanwadu ar alw yn y dyfodol, a byddai monitro parhaus o gapasiti ysgolion yn parhau fel rhan o drefniadau cynllunio addysg hirdymor y Cyngor.
8.1.3	“Gydag ysgolion gorlawn y dyffryn onid ydi Ysgolion Baladeulyn a Nebo yn ateb gwyh?” “Os am wario ar gludiant i blant, beth am dacsis o Benygroes i Nantlle?”	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw, er hyn mae data cyfredol yr Adran Addysg yn nodi bod capasiti ar hyn o bryd yn holl ysgolion cynradd dalgylch Dyffryn Nantlle. Mae canrannau'r llefydd gweigion yn yr ysgolion cyfagos yn amrywio rhwng 9% a 44%, ac felly nid oes unrhyw ysgol yn orlawn ar hyn o bryd. Nodir bod yr adolygiad o ddyfodol Ysgol Baladeulyn wedi'i seilio ar dystiolaeth ehangach sy'n ymwneud â chynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagolygon niferoedd sy'n parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir. Yn ogystal, dengys patrymau dewis yn y dalgylch fod y mwyafrif o ddysgwyr yn mynychu ysgolion eraill. Yn unol â Polisi Cludiant Addysg Gwynedd mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch, neu os yw'r llwybr cerdded i'r ysgol yn cael ei ystyried yn rhy beryglus. Nid yw polisi'r Awdurdod yn darparu cludiant i ysgolion y tu hwnt i'r ysgol ddalgylch yn ôl y polisi hwn.

8.2 Demograffeg lleol

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
8.2.1	“Mae cymunedau yn gwerthu allan i ail gartrefi a lletai gwyliau... neu yn gwrthwynebu i ddatblygiadau tai fforddiadwy.”	Maer Cyngor yn nodi'r sylw.
8.2.2	Mae nifer o blant o fewn y pentref yn mynychu ysgolion eraill.	Maer Cyngor yn nodi'r sylw.
8.2.3	Dylai plant fynychu'r ysgol yn eu pentref eu hunain.	Maer Cyngor yn nodi'r sylw. Mae gan rieni hawl i fynegi dewis o ysgol ar gyfer eu plentyn, ac nid oes gofyniad i blant fynychu'r ysgol yn eu pentref nac yn eu dalgylch cartref o reidrwydd. Mae'r Awdurdod yn ystyried pob cais yn unol â'r meini prawf mynediad statudol ac yn dyrannu lleoedd pan fo lle ar gael. Nodir hefyd fod rhieni'n gwneud dewisiadau

		addysgol yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys profiad personol, anghenion unigol plant, a dewisiadau teuluol.

8.3 Trefniant dalgylchoedd

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
8.3.1	<i>“Mae’n siom enfawr nad yw’r dalgylch newydd yn cwmpasu’r ardal hon o gysidro ei fod yn un o 21 pentrefi Dyffryn Nantlle.” “Mae’n ymddangos nad oes cysondeb gyda’r dalgylchoedd.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw. Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae’n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Mae dalgylchoedd ysgol yn cael eu diffinio er mwyn gallu cynllunio darpariaeth addysg, lleoedd ac adnoddau’n effeithiol ar draws y Sir. Nid yw’r ffiniau hyn yn seiliedig ar ffiniau cymunedol, ond ar y meini prawf swyddogol sy’n sail i ddyrannu lleoedd a chynnal darpariaeth. Mae gan rieni hawl i fynegi dewis o ysgol ar gyfer eu plentyn, ac nid oes gofyniad i blant fynychu’r ysgol yn eu pentref nac yn eu dalgylch cartref o reidrwydd. Mae’r Awdurdod yn ystyried pob cais yn unol â’r meini prawf mynediad statudol ac yn dyrannu lleoedd pan fo lle ar gael. Nodir hefyd fod rhieni’n gwneud dewisiadau addysgol yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys profiad personol, anghenion unigol plant, a dewisiadau teuluol.
8.3.2	Mynegir siom nad oedd cyfle i rieni gymryd rhan mewn trafodaethau cynnar ynghylch trefniadau derbyn disgyblion pe bai Ysgol Baladeulyn yn cau. Teimlir bod cymryd yn ganiataol y byddai pob plentyn yn trosglwyddo i Ysgol Talysarn yn annheg o ystyried fod rhai dysgwyr yn byw all-dalgylch ac fe allent fod ag opsiynau amgen.	

9. GOBLYGIADAU ARIANNOL

9.1 Dadl yn erbyn y cynnig ar sail cost

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
9.1.1	Cydnabyddir bod pwysau ariannol yn bodoli ar hyn o’r bryd, ond na ellir mesur gwerth hapusrwydd, lles ac iechyd plentyn.	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylw.

9.2 Anghysondebau Cyllidol a Chost y Pen ar draws Ysgolion y Sir

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
9.2.1	“Mae’n warthus fod ysgolion sydd â chost y pen o £5-6k yn wynebu trefniadau ‘gormodedd’ tra bod ysgolion bychan iawn a chost y pen o 3 neu 4 gwaith hynny yn cael eu gwarchod.”	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw.

10. SYLWADAU AR Y DDOGFENNAETH YMGYNGHORI A'R BROSES STATUDOL

10.1 Digonolrwydd asesiadau effaith yn gyffredinol

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
10.1.1	“Nid yw'r asesiad effaith na'r asesiad ar effaith ar y gymuned yn y dyfodol yn ddigonol.”	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. Fel rhan o'r broses statudol, cyhoeddwyd Asesiad Effaith Cymunedol gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion. Yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith Cymunedol, gan gryfhau'r cydnabyddiaeth fod colli'r ysgol yn debygol o arwain at effaith negyddol ar y gymuned leol. Ar yr un pryd, mae'r Asesiad Effaith Cymunedol diwygiedig hefyd yn nodi bod canran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, gan gynnwys Ysgol Talysarn, ac felly bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y pryderon a fynegwyd fod presenoldeb yr ysgol yn chwarae rôl bwysig wrth gynnal hunaniaeth Gymreig a defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Mae'r asesiad diwygiedig yn nodi, pe byddai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei weithredu, y byddai'r Cyngor yn ceisio lliniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Baladeulyn a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo'n briodol, a defnyddio Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod fel fframwaith ar gyfer trafod opsiynau priodol ar gyfer dyfodol adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n ymarferol.
10.1.2	“Hoffwn yn fawr i'r Cyngor ystyried y plant gan mai nhw fyddai'n dioddef.”	Nodir bod y Ddogfen Ymgynghori yn nodi'n glir y gofyniad i ystyried dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae'r ystyriaethau hyn wedi'u hymgorffori drwy gynnal cyfres o asesiadau effaith cysylltiedig, gan gynnwys Asesiad Effaith Llesiant, Asesiad Effaith Cymunedol, Asesiad Effaith Ieithyddol, Asesiad Effaith Addysgol ac Asesiad Effaith Trafnidiaeth.

		Mae'r asesiadau effaith hyn yn ystyried ystod eang o ffactorau, gan gynnwys effaith ar lesiant a chynnydd addysgol dysgwyr. Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon ynghylch effaith bosibl cau ysgol ar gymuned wledig a'r ystyriaethau ehangach sy'n ymwneud â llesiant plant. Mae'r materion hyn wedi'u hystyried wrth adolygu'r asesiadau effaith perthnasol.

10.2 Asesiad Effaith ar y Gymuned

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
10.2.1	<i>"Rhieni sengl neu'r diffyg gwaith yn yr ardal hon."</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw. Fel rhan o'r broses statudol, cyhoeddwyd Asesiad Effaith Cymunedol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion. O fewn yr asesiad hwn, cyfeirir at wybodaeth yr economi ac amddifadedd y ward lleol, sydd yn darparu cyd-destun ynghylch sefyllfa gyflogaeth a chyflwr economaidd-gymdeithasol yr ardal yr ardal: <i>Yn Cyfrifiad 2021, mae 55.5% o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Llanllyfni yn weithgar yn economaidd, a 3.7% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 43.2% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 5.9% o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.</i> <i>Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (19.9%) yn gweithio yn y maes iechyd a gwaith cymdeithasol (Cyfrifiad 2021).</i> <i>Yn ôl data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025) mae cyfradd cyflogaeth ward Llanllyfni a Chlynnog o gymharu â wardiau eraill yng Nghymru yn rhoi ranc o 1152 allan o 1917 o wardiau. Felly, mae ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 50% lleiaf difreintiedig yng Nghymru.</i> <i>Mae ward Llanllyfni a Chlynnog wedi'w raddio o fewn y 20%-30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (ranc 546 allan o 1917 o wardiau).</i>

		<i>Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai. Nodir fod ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.</i> <i>Yn ogystal, mae ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.</i>
10.2.2	<i>"Mae Talysarn yn 'ardal ddifreintiedig'; bydd costau teithio ychwanegol... yn cael effaith niweidiol ar incwm aelwydydd."</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r galwad am eglurder a sicrwydd ynghylch trefniadau a goblygiadau costau cludiant pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant ysgol yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd. O dan y Polisi, darperir cludiant di-dâl i ddysgwyr cynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch neu'r ysgol agosaf, neu lle bo'r llwybr cerdded yn cael ei asesu'n annïogel. Nid yw dysgwyr Meithrin yn gymwys o dan y polisi, ac nid yw'r polisi'n rhagdybio bod rhieni'n gyfrifol am ddarparu cludiant lle bo plentyn yn gymwys am gludiant statudol. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cludiant dibynadwy i deuluoedd.
10.2.3	Mynegir pryder y byddai'r cynnig yn cael effaith negatif ar deuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol.	Nodir bod y Ddogfen Ymgynghori yn nodi'n glir y gofyniad i ystyried dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae'r ystyriaethau hyn wedi'u hymgorffori drwy gynnal cyfres o asesiadau effaith cysylltiedig, gan gynnwys Asesiad Effaith Llesiant, Asesiad Effaith Cymunedol, Asesiad Effaith Ieithyddol, Asesiad Effaith Addysgol ac Asesiad Effaith Trafnidiaeth. Nodir bod y materion hyn wedi'u cofnodi a'u hystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant, sydd wedi'u diweddarau yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol. Mae'r asesiadau hyn yn ystyried ystod eang o ffactorau perthnasol, gan gynnwys anfantais economaidd-gymdeithasol, effaith ar

		gydlyniant cymunedol, newidiadau demograffig, a chynaliadwyedd yn y tymor canolig a hir.

10.3 Asesiad Effaith ar y Gymraeg

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
10.3.1	“Mae canlyniadau hunan gyflenwol yr asesiad effaith ar y Gymraeg yn gywilyddus.” “nid oes unrhyw ymgais wedi'i wneud gan y Cyngor i asesu effaith cau'r ysgol ar y Gymraeg yn ardal.”	Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith leithyddol, gyda'r materion a godwyd gan ymgynghorai yn cael eu hystyried wrth lunio'r asesiad diwygiedig. Daw'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran. Cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned er mwyn asesu effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar y gymuned leol. Mae'r asesiad hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddarau yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan roi ystyriaeth briodol i'r sylwadau a'r materion a godwyd gan ymgynghorai, gan gynnwys pryderon ynghylch colli'r ysgol fel canolbwynt cymunedol. Fel y nodir yn y casgliad yn yr Asesiad Effaith ar y Gymuned diweddaraf, barn y Cyngor yw y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned leol pe bai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei weithredu. Mae hefyd wedi'i ffurfio ar sail y dystiolaeth ehangach a aseswyd yn yr asesiad. Mae'r asesiad diwygiedig yn nodi bod rhywfaint o risg ieithyddol bosibl o safbwynt defnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw yn Baladeulyn pe byddai'r ysgol yn cau, ond nodir hefyd fesurau lliniaru posibl, gan gynnwys

		ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol i gefnogi'r Gymraeg, a hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys cymuned Nantlle mewn gweithgareddau Cymraeg yn Ysgol Talysarn.
10.3.2	“Nid oes chwaith unrhyw asesiad effaith ar anfon plant o deuluoedd digymraeg Nantlle i ysgolion fwy Cymraeg.”	Daw'r Asesiad Effaith leithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Talysarn. Dengys data Ionawr 2026 bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref, tra bod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.
10.3.3	“Nid oes unrhyw ymgais i weld yr effaith hir dymor mae cau ysgolion gweledig yn cael ar yr iaith yn gyffredinol.” “Mae'r canlyniadau i weld yn ffocysu ar effaith ar ddisgyblion presennol yn unig (plant 4 - 11).”	Fel a nodir uchod. Ymateb y Cyngor yn 10.3.1 a 10.3.2.

10.4 Ymgysylltu a chyfathrebu gyda rhieni fel rhan o'r broses statudol

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
10.4.1	Mynegir y farn y byddai mwy o ymgysylltu â rhieni, gan gynnwys ymweliadau â'r cylch meithrin a rhoi gwybodaeth glir am opsiynau addysgol, wedi bod yn fuddiol. Nodir bod rhai rhieni yn y pentref wedi cymryd yn ganiataol bod mynychu cylch meithrin Talysarn yn golygu bod rhaid mynychu'r ysgol gysylltiedig.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Mae'r broses ymgynghori statudol wedi'i chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Er nad yw cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn ofyniad statudol, cynhaliwyd sesiynau galw heibio i rieni, staff a llywodraethwyr fel rhan o'r broses ymgysylltu i roi cyfle i drafod y cynnig a'r broses statudol.

10.5 Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
10.5.1	Rwy'n cwestiynu os yw'r effaith ar blant anabl wedi'i hasesu'n llawn, a pha mor ddigonol yw'r ystyriaeth sydd wedi ei roi i hawliau plant anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 o fewn yr asesiad effaith.	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.

		Nodir bod yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol er mwyn rhoi sylw penodol i'r pryderon a godwyd ynghylch dysgwyr anabl a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r asesiad diwygiedig yn cydnabod y gallai'r cynnig arwain at effaith negyddol bosibl ar rai dysgwyr anabl, yn enwedig mewn perthynas â throsglwyddo i ysgol fwy ac anghyfarwydd, ac mae'r risgiau hyn wedi'u nodi'n glir. Mae'r Asesiad hefyd yn nodi'r dyletswyddau statudol, gan nodi bod gan bob dysgwr ag ADY hawl i barhau i dderbyn y ddarpariaeth a nodir yn ei Gynllun Datblygu Unigol, waeth beth fo unrhyw newid mewn trefniadau ysgol. Nodir ymhellach y byddai, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, trefniadau pontio yn cael eu cynllunio a'u gweithredu ar y cyd â'r dysgwyr, eu teuluoedd a'r ysgol dderbyn, gyda ffocws penodol ar anghenion unigol pob dysgwr. Byddai hygyrchedd yr ysgol amgen, ynghyd â threfniadau cludiant addas, hefyd yn cael eu hasesu'n unigol er mwyn sicrhau nad yw plant anabl dan anfantais anghymesur o ganlyniad i'r cynnig. Ar sail ystyriaeth o'r dystiolaeth, y sylwadau a dderbyniwyd, a'r mesurau lliniaru a nodir, asesiad y Cyngor yw bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i effaith y cynnig ar y nodweddion perthnasol, gan gynnwys Anabledd yn unol a gofynion Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn nodi'n glir y risgiau posibl, yn amlinellu'r dyletswyddau statudol perthnasol, ac yn cadarnhau y byddai'r effaith ar ddysgwyr anabl yn parhau i gael ei monitro a'i rheoli'n ofalus pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

11. OPSIYNAU AMGEN

11.1 Cadw'r ysgol ar agor (status quo)

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
11.1.1	"Dim cau lawr"	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw.
11.1.2	Eisiau'r teulu i barhau i dderbyn addysg yn yr ysgol leol bresennol.	
11.1.3	"toes dim cynig gwerh chweil, ddim ond i gadw yr ysgol ar agor!!!" "dim, eto ddim ond i gadw yr ysgol ar agor, gymaint o fantais i bawb!"	

		(Opsw'n 1). Mae'r opsiwn hwn wedi'i asesu'n llawn yn erbyn meini prawf y Cod Trefniadaeth Ysgolion, ochr yn ochr â'r opsiynau amgen rhesymol eraill a nodir yr adran hon. Fel y nodir yng nghasgliad yr asesiad, er bod y Cyngor yn cydnabod y gefnogaeth a fynegir i gadw'r ysgol ar agor, deuir i'r casgliad nad yw parhau â'r trefniadau presennol, ar ei ben ei hun, yn ymateb digonol i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel, y lefel uchel o lefydd gweigion, y rhagolygon niferoedd yn y dyfodol, a'r heriau ariannol cysylltiedig. O ganlyniad, nid yw'r opsiwn hwn yn cael ei drin fel opsiwn amgen newydd nac yn destun asesiad pellach ar wahân o fewn yr adroddiad hwn.

11.2 Hyrwyddo a chryfhau ysgolion bach

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
11.2.1	"Ydi mae niferoedd yn isel ar hyn o bryd ond gall hyn newid o fewn blwyddyn neu ddwy gyda'r hyrwyddo cywir." "Yn hytrach na tanseilio ein hysgolion bach ond yn hytrach hyrwyddo manteision a chryfderau ein hysgolion pwysig gwledig."	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau sy'n awgrymu i hyrwyddo derbyniadau newydd drwy bwysleisio manteision yr ysgol. Fodd bynnag, nodir nad yw mentrau hyrwyddo o'r fath, ar eu pen eu hunain, o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor i'w gweithredu mewn ffordd a fyddai'n sicrhau newid ystyrion i batrymau dewis rhieni na chynnydd gwarantedig mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig, gan fod y penderfyniad terfynol ynghylch dewis ysgol yn parhau'n fater i rieni, yn unol â'r fframwaith statudol.
11.2.2	"Mae hi'n holl bwysig i ni gael y cyfle i hyrwyddo yr ysgol." "Byddai'n fanteisiol iawn cyflwyno rhieni newydd i'r ardal i'r Ysgol gan gynnig diwrnod agored." "Mae sawl tŷ cymunedol wedi cael eu rhoi ar rent yn ddiweddar yn Nantlle." "Gan nad oes gan sawl un y profiad o fod yn agos i'r ysgol o'r blaen."	
11.2.3	<i>"Gallai'r Cyngor annog mwy o deuluoedd i ddefnyddio ysgolion llai"</i> <i>"Yn hytrach na'u gwrthio i ysgolion eraill sy'n orlawn ac yn ei chael hi'n anodd darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i bob plentyn."</i>	
11.2.4	"Mae'r ysgol feithrin yn Nhalysarn yn denu plant i ysgol Dalysarn." "teimlaf ei fod yn hanfodol annog rhieni i yrru eu plant i ysgol fychain fel Ysgol Baladeulyn."	

11.3 Ffederaleiddio gyda darpariaeth ADY

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
11.3.1	“a’n ffafrio’r opsiwn amgen – ‘3. Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbennigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn”	Ceir manylion llawn yr asesiad ar yr opsiwn hwn yn Adran 7 o’r adroddiad.
11.3.2	“Mae’r Corff yn ffafrio’r trydydd opsiwn, sef ‘Ffedarlaeiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) gan ychwanegu ardal arbenigolar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn.”	
11.3.3	Awgrymu y dylid ystyried cyfuno opsiynau 3 a 6 yr ymgynghoriad, sef ffederaleiddio gydag Ysgol Talysarn ynghyd ag ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer darpariaeth ADY yn Ysgol Baladeulyn. Nodai byddai cefnogaeth gan Ysgol Talysarn yn gadarnhaol.	

11.4 Rhannu arweinyddiaeth

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
11.4.1	<i>“A fyddai’n synhwyrol o leiaf ystyried ad-drefnu’r ysgolion yn un ysgol aml-safle” “Gydag un pennaeth a dirprwy bennaeth i’r safleoedd. Byddai hyn yn sicrhau bydd capasiti ychwanegol ar gael”</i>	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau sy’n awgrymu y dylid ystyried opsiynau amgen i gau Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys cynyddu cydweithio â ysgolion cyfagos drwy uno gyda ysgolion eraill, a sefydlu ysgol aml safle.
11.4.2	“cadw’r ysgol ar agor a gweithio yn agosach gyda ysgolion mwy”	Mae’r opsiwn i uno/sefydlu ysgol aml-safle eisoes wedi derbyn ystyriaeth fel opsiwn amgen o fewn y ddogfen ymgynghori. Ceir manylion pellach am yr asesiad o’r opsiwn hwn yn Adran 7 o’r adroddiad. Yn dilyn gwerthuso’r opsiwn, deuir i’r casgliad nad yw’r model yn ymateb yn ddigonol i’r heriau sylfaenol sy’n wynebu Ysgol Baladeulyn. Nid oes tystiolaeth y byddai’r trefniant yn arwain at gynnydd ystyrllon mewn niferoedd dysgwyr nac at newid yn y patrwm presennol o lefydd gweigion uchel. O ganlyniad, byddai’r trefniadaeth o ddosbarthiadau bach, y rhagolygon niferoedd isel, a’r heriau ariannol cysylltiedig yn parhau, heb sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth.
11.4.3	“Mae angen gweithio efo ysgolion eraill i sicrhau fod plant yn cael yr addysg gorau posib, yn lle canolbwyntio ar stwffio 30 mewn dosbarth.”	

11.5 Addasu'r cynnig er budd y Gymraeg

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
11.5.1	“Byddai modd llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.” “drwy gynnal darpariaeth gymunedol Gymraeg yn safle'r ysgol, megis canolfan gymunedol, cylch meithrin neu ganolfan iaith”	Mae'r Cyngor yn nodi bod awgrymiadau o'r math hwn wedi'u hystyried eisoes yn unol â Chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Daethpwyd i'r casgliad yn y papur cynnig a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025, ac fe'i cadarnhawyd yn y Ddogfen Ymgynghori ddilynol, nad yw defnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol nac addasu'r safle i gynnal darpariaeth gymunedol yn cynnig datrysiad cynaliadwy i'r heriau addysgol craidd sy'n wynebu'r ysgol, ac felly ni ystyrir yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol. Mae Opsiwn 7 yr ymgynghoriad 'Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn' yn cyfeirio at ychwanegu uned drochi iaith ar safle'r ysgol er mwyn cynnig gwasanaeth trochi yn y Gymraeg i siaradwyr newydd. Gan y byddai angen addasu adeilad yr ysgol i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned/canolfan iaith, byddai capasiti'r ysgol yn debygol o leihau ac felly rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad mewn llefydd gweigion. Er hynny, mae niferoedd Ysgol Baladeulyn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr (Derbyn – Bl.6) a 2 ddysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr. Gan y byddai dysgwyr yr uned/ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys canolfan iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd Ysgol Baladeulyn yn parhau'n isel, ac ni ragwelir y byddai'n ymateb i'r heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu. Ceir manylion llawn yr opsiynau yn Adran 7 o'r adroddiad.
11.5.2	“Byddai modd llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.” “Drwy gynnal darpariaeth gymunedol Gymraeg yn safle'r ysgol - megis canolfan gymunedol, cylch meithrin neu ganolfan iaith.”	
11.5.3	Awgrymir y gellid addasu'r cynnig i sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol neu lai andwyol ar y Gymraeg, gan gynnwys cynnal darpariaeth gymunedol Gymraeg ar safle'r ysgol e.e. Canolfan Gymunedol, Cylch Meithrin, Ganolfan Iaith neu gysidro opsiwn amgen o'r ymgynghoriad yn hytrach na gau'r ysgol.	
11.5.4	“Byddai modd llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg” “drwy gynnal darpariaeth gymunedol Gymraeg yn safle'r ysgol, megis canolfan gymunedol, cylch meithrin neu ganolfan iaith.”	

11.6 Darpariaeth arbenigol ADY

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
11.6.1	“Creu ysgol cynradd 'Hybrid' prif ffrwd ac AAA ar ffin Dwyfor/Arfon” “Arbedion cost posibl ar drafndiaeth ysgol, gwelliant yn nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion ag AAA, a'r gallu i gael mynediad at gyllid	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.

	AAA ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleoliad addysgol llai.”	Yn y cyd-destun hwn, ystyrir y cynnig i ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd ‘hybrid’ prif-ffrwd yn opsiwn amgen rhesymol, ac o ganlyniad mae wedi’i gynnwys fel opsiwn amgen rhesymol yn yr adroddiad hwn ac mae’n destun asesiad pellach yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, yn dilyn gwerthuso’r opsiwn hwn, deuir i’r casgliad nad yw ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd ‘hybrid’ prif-ffrwd yn cynnig ateb i’r heriau craidd sy’n wynebu’r ysgol. Nid oes tystiolaeth amlwg ar hyn o bryd y byddai’r cynnig yn arwain at gynnydd digonol a chynaliadwy mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig. Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Baladeulyn. Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu’r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu’r Uned ADY.
11.6.2	Awgrymaf y dylid ystyried newid defnydd yr ysgol i ddarpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol.	
11.6.3	darparu cefnogaeth i blant lleol ag anghenion dysgu uwch a fydd angen addysg 1 i 1... ysgol fach yn leoliad lle gallai plant sydd angen ychydig o gymorth ychwanegol ffynnu.	
11.6.4	Dylai’r Cyngor ystyried datblygu Ysgol Baladeulyn yn ddarpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag ADY, er mwyn darparu mwy o leoedd i blant sydd angen cefnogaeth.	

11.7 Opsiynau amgen eraill derbyniwyd

Cyf	Sylwadau	Ymateb Cyngor Gwynedd
11.7.1	“Gallent dalu ychydig yn ychwanegol am gludiant i’r plant fel na fyddai’r ysgol fawr yn gorlenwi a bod yr ysgolion llai’n gallu cefnogi’r plant.”	Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a dderbyniwyd sy’n awgrymu y dylid ystyried defnyddio Ysgol Baladeulyn fel safle i amgen mewn ymateb i’r ysgolion cyfagos sy’n gweithredu dros gapasiti neu’n wynebu gorlenwi, gan gynnwys awgrymiadau i ddarparu cludiant am ddim i’r dysgywr rheini fyddai’n mynychu Ysgol Baladeulyn. Fodd bynnag, nid yw’r Cyngor o’r farn fod yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol. Byddai gweithredu model o’r fath yn codi cymhlethdodau sylweddol mewn perthynas â threfniadau derbyn a chludiant. Yn ogystal, ni ragwelir y byddai’r opsiwn yn arwain at gynnydd ystyrion yn niferoedd Ysgol Baladeulyn. O ganlyniad, deuir i’r casgliad nad yw’r opsiwn hwn yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol ac felly nid yw’n destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn.

11.7.2	“Cynnig i blant stadau newydd Penygroes ymuno ag ysgolion llai y dalgylch - h.y. Ysgol Baladeulyn” “os oes achlysur pan mae ysgol yn gorfod gwrthod dysgwyr oherwydd diffyg lle, cynnig iddynt ymuno ag ysgolion llai y dalgylch - h.y. Ysgol Baladeulyn.”	Fel uchod.
11.7.3	<i>“Ceisio cael mwy o bobl leol i fyw yn eiddo Nantlle yn hytrach nag AirBnBs neu dai gwyliau.”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw a wnaed ynghylch yr angen i annog mwy o bobl leol i fyw yn eiddo yn ardal Nantlle yn hytrach nag mewn llety gwyliau neu eiddo AirBnB. Fodd bynnag, nodir fod materion yn ymwneud â pholisi tai a’r defnydd o eiddo preswyl y tu allan i gylch gorchwyl y cynnig presennol. Yn y cyd-destun hwn, ni ystyrir bod yr awgrym yn opsiwn amgen rhesymol o fewn fframwaith y broses ymgynghori statudol ar drefniadaeth ysgolion.
11.7.4	“Newid mewn polisi yng Nghymru fyddai’n golygu bod pob plentyn yn gorfod mynychu ei ysgol agosaf.”	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylw. Mae’r opsiwn yma yn ymwneud â newid polisi cenedlaethol O ganlyniad, ni fydd yn cael ei drin fel opsiwn amgen ychwanegol, a ni fydd yn destun asesiad neu ystyriaeth pellach.
11.7.5	<i>“Ceisio am fynediad i gyllid UNESCO – gweler Adroddiad Richard Hayman ar arwyddocâd Ysgol Baladeulyn yn y diwydiant llechi... neu cyllid treftadaeth y Loteri Genedlaethol (National Lottery Heritage Funding)”</i>	Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylwadau. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau addysg a threftadaeth y Sir. Fodd bynnag, nid yw cyllid cyfalaf ar ei ben ei hun yn mynd i’r afael â heriau sy’n wynebu Ysgol Baladeulyn. Er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i’r ysgol, byddai angen cyllid referniw sefydlog a pharhaus. O ganlyniad, deuir i’r casgliad nad yw’r opsiwn hwn yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol ac felly nid yw’n destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn.
11.7.6	<i>“Dylai Cyngor Gwynedd ymgynghori a chynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cael mynediad at y cyllid ychwanegol o £3 miliwn i adeiladu / ehangu darpariaeth AAA, er mwyn gwrthbwysu’r costau rhedeg.”</i>	

6. OPSIYNAU AMGEN ERAILL A GYNIGIWDYD GAN YMNGYNHORAI

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, rhoddwyd cyfle i ymgynghorai gyflwyno opsiynau amgen yn ystod yr ymgynghoriad statudol.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r opsiynau ychwanegol a awgrymwyd gan yr ymgynghorai, ac yn nodi'r rhai a ystyrir yn opsiynau amgen rhesymol sy'n destun asesiad pellach yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan gynnwys gwerthusiad opsiynau ac asesiad yn erbyn y ffactorau rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig.

	Opsiwn	Ystyriaeth Gychwynnol
11.1	Cadw'r ysgol ar agor (status quo)	Ystyrir yr opsiwn hwn fel yr opsiwn "dim newid", sef parhau gyda'r ddarpariaeth bresennol drwy gadw Ysgol Baladeulyn ar agor. Mae'r opsiwn hwn eisoes wedi'i ystyried fel un o'r opsiynau gwreiddiol ac wedi'i asesu'n llawn fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, ac fe'i ystyrir ymhellach o dan Opsiwn 1 – Dim newid. O ganlyniad, nid yw'r opsiwn yma yn cael ei drin fel opsiwn amgen ar wahân, ac nid yw'n destun asesiad pellach ar ei ben ei hun o fewn yr adroddiad hwn.
11.2	Hyrwyddo manteision a chryfderau ysgolion bach i rieni newydd, gan gynnig diwrnod agored i gyflwyno rhieni newydd i'r Ysgol.	Nid yw'r Cyngor o'r farn fod yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol gan nad yw'n cyd fynd gyda strategaeth ysgolion. Mae'r Cyngor yn ymgeisio i roi cefnogaeth briodol i bob ysgol, ond nid oes modd hyrwyddo ysgolion penodol. Byddai hefyd yn codi cymhlethdodau mewn perthynas â threfniadau derbyn a chludiant. O ganlyniad, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol ac nad yw'n destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn.
11.3	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn.	Mae'r opsiwn yma'n cyfateb yn uniongyrchol i Opsiwn 3 gwreiddiol, sef ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn. O ganlyniad, nid yw'n cael ei drin fel opsiwn amgen ychwanegol, ac nid yw'n destun asesiad pellach ar wahân i'r opsiwn gwreiddiol.
11.4	Rhannu arweinyddiaeth trwy drefniant ysgol aml-safle.	Mae'r opsiwn yma'n cyfateb yn uniongyrchol i Opsiwn 5 gwreiddiol, sef uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle. O ganlyniad, nid yw'n cael ei drin fel opsiwn amgen ychwanegol, ac nid yw'n destun asesiad pellach ar wahân i'r opsiwn gwreiddiol.
11.4	Cydweithio agosach rhwng Ysgol Baladeulyn ac ysgolion cyfagos.	Mae trefniadau ar gyfer cydweithio a rhannu adnoddau ac arbenigedd rhwng Ysgol Baladeulyn ac ysgolion cyfagos wedi'u cynnwys o fewn yr ystyriaethau ehangach sy'n gysylltiedig â'r model ffederaleiddio. O ganlyniad, ystyrir y trefniadau hyn fel elfen o'r model ffederaleiddio, yn hytrach nag fel opsiwn amgen annibynnol, ac felly nid yw'r opsiwn yma yn destun asesiad ar wahân o fewn yr adroddiad yma.

11.5	Addasu'r cynnig er budd y Gymraeg trwy gynnal darpariaeth cymunedol yn safle'r ysgol, megis canolfan gymunedol, Cylch Meithrin neu ganolfan iaith.	Mae'r Cyngor yn nodi bod awgrymiadau o'r math hwn wedi'u hystyried eisoes yn unol â Chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Daethpwyd i'r casgliad yn y papur cynnig a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025, ac fe'i cadarnhawyd yn y Ddogfen Ymgynghori ddilynol, nad yw defnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol nac addasu'r safle i gynnal darpariaeth gymunedol yn cynnig datrysiad cynaliadwy i'r heriau addysgol craidd sy'n wynebu'r ysgol. Yn benodol, nodwyd na fyddai opsiynau o'r fath yn mynd i'r afael â niferoedd isel parhaus o ddysgwyr, maint dosbarthiadau bychain, na'r goblygiadau cysylltiedig ar gynaliadwyedd ariannol a darpariaeth addysgol yr ysgol fel ysgol gynradd statudol. Er y cydnabyddir gwerth darpariaeth gymunedol a mentrau i hyrwyddo'r Gymraeg, nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig ateb hyfyw i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, ac felly nid yw'n cael ei ystyried yn opsiwn amgen rhesymol nac yn destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn.
11.6	Darpariaeth 'hybrid' prif lif a darpariaeth arbenigol ADY	Mae opsiwn yma yn ymwneud â chryfhau a/neu ehangu ffocws darpariaeth gysylltiedig ag ADY. Er bod darpariaeth ADY eisoes wedi'i hystyried fel rhan o'r opsiynau gwreiddiol, mae'r opsiwn yma yn cyfeirio at sefydlu addysg 'hybrid' prif lif a darpariaeth arbenigol ADY. O ganlyniad, caiff yr opsiwn yma ei gynnwys fel opsiwn ychwanegol ar wahân, yn hytrach nag amrywiad uniongyrchol ar yr opsiwn ADY gwreiddiol, ac felly mae'n destun asesiad pellach.
11.6	Ysgol Baladeulyn i gynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ADY	Mae'r opsiwn yma'n cyfateb yn uniongyrchol i Opsiwn 6 gwreiddiol, sef ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn. O ganlyniad, nid yw'n cael ei drin fel opsiwn amgen ychwanegol, ac nid yw'n destun asesiad pellach ar wahân i'r opsiwn gwreiddiol.
11.7	Defnyddio Ysgol Baladeulyn fel darpariaeth ategol i leihau pwysau ar ysgolion cyfagos, a'r Cyngor yn buddsoddi mewn cludiant.	Nid yw'r Cyngor o'r farn fod yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol. Byddai gweithredu model o'r fath yn arwain at newid sylweddol yn rôl a natur Ysgol Baladeulyn, gan ei droi o ysgol gymunedol brif ffrwd yn ddarpariaeth ran amser neu ategol heb sylfaen glir o ran trefniadaeth, llywodraethu na pherthyn i gymuned ysgol benodol. Byddai hefyd yn codi cymhlethdodau sylweddol mewn perthynas â threfniadau derbyn, cludiant, lles dysgwyr a pharhad profiad addysgol, yn enwedig i ddysgwyr iau. Yn ogystal, nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn o ran niferoedd dysgwyr, cynaliadwyedd tymor hir a darpariaeth addysgol gydlynol. O ganlyniad, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol ac nad yw'n destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn.

11.7	Newid polisi ar lefel cenedlaethol a fyddai'n golygu bod pob plentyn yn mynychu ei ysgol lleol.	Nid yw'r Cyngor o'r farn fod yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol gan fod yr opsiwn hwn yn ymwneud â newid polisi cenedlaethol mynediad i ysgolion. O ganlyniad, ni fydd yn cael ei drin fel opsiwn amgen ychwanegol, a ni fydd yn destun asesiad neu ystyriaeth pellach.

7. ASESIAD PELLACH O'R CYNNIG A'R OPSIYNAU RHESYMOL ERAILL

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, a gan fod Ysgol Baladeulyn yn bodloni'r diffiniad o ysgol wledig, cynhaliwyd asesiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau rhesymol amgen a nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, gan roi sylw penodol i'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, yr effaith debygol ar y gymuned, ac effaith trefniadau teithio gwahanol.

Wrth gynnal yr asesiad pellach hwn, ystyriwyd unrhyw wybodaeth ychwanegol berthnasol a ddaeth i law drwy'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, neu fel arall, yn unol â bwriad y Cod i sicrhau bod safbwyntiau a gwybodaeth newydd yn cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen.

Er bod y sylwadau a'r awgrymiadau a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriad – gan gynnwys opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorwyr – wedi'u hystyried fel rhan o'r broses adolygu hon, ni arweiniodd yr wybodaeth ychwanegol at newid i gasgliad unrhyw un o'r asesiadau effaith mewn perthynas â'r cynnig nac â'r opsiynau rhesymol amgen.

Mae'r ddau dabl isod yn nodi'r asesiad pellach o'r effaith a ragwelir: mae'r tabl cyntaf yn crynhoi asesiad y cynnig a'r opsiynau rhesymol amgen a nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, tra bod yr ail dabl yn nodi asesiad effaith yr opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorai yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r asesiadau effaith llawn ar gael yn Atodiad C.

Opsiwn	Asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg	Asesiad o'r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio	Asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned
Opsiwn 1 - Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol	Niwtral – Dim newid	Niwtral – Dim newid Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Niwtral – Dim newid Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.
Opsiwn 2 - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)	Niwtral/Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen	Niwtral Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol. Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.

		teithio pellter afresymol i'r ysgol.	
Opsiwn 3 - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn	Niwtral/Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn. Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol'	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.	Niwtral Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y ddwy ysgol. Cadw'r ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.
Opsiwn 4 - Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)	Rhannol bositif Nodai'r asesiad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Talysarn yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Baladeulyn. Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Talysarn, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn Ysgol Talysarn.	Negyddol Byddai angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn i Ysgol Talysarn, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd. Rhagwelir costau cludiant ychwanegol – amcan gost, £17,000-£30,000 y flwyddyn. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Niwtral/Rhannol Negyddol Arwain at golli ysgol ac adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. I liniaru'r effaith ar y gymuned, nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nantlle yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Nantlle, lle'n briodol. Nodir fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes.
Opsiwn 5 - Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle	Niwtral / Rhannol bositif Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu ar Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r	Niwtral Dim effaith ar y ddarpariaeth ar safle Ysgol Baladeulyn.

	Cyfle i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y byddai angen trefnu cludiant rhwng ysgolion.	Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.
Opsiwn 6 - Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn	Niwtral/Rhannol bositif Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol'	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Niwtral – Dim newid i'r ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.
Opsiwn 7 - Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn	Niwtral - Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i ddarparu gwasanaeth penodol ar gyfer hwyrdyfodiaid mewn Canolfan Iaith ar safle'r ysgol.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned iaith.	Niwtral – Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.

Asesiad o'r opsiynau rhesymol eraill a awgrymwyd gan ymgynghorai:

Opsiwn	Asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg	Asesiad o'r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio	Asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned
11.6 Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif-ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol i'r ardal leol	Niwtral/ Rhannol bositif Dim effaith ar y ddarpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn. Cyfle i gynnig darpariaeth arbenigol 'hybrid' i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol' a 'Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)'	Niwtral Byddai'r dysgwyr prif ffrwd yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr prif ffrwd yn parhau yn yr un modd. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwyr newydd sydd yn cofrestru am ddarpariaeth 'hybrid' prif ffrwd ac ADY. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol	Niwtral Cadw ysgol prif ffrwd a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.

Gwerthusiad o'r opsiynau:

Yn dilyn yr ymgynghoriad, cynhaliodd yr Awdurdod werthusiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau amgen a gynhwyswyd yn y papur cynnig gwreiddiol, ynghyd â gwerthusiad o'r opsiynau amgen rhesymol ychwanegol a nodwyd gan ymgynghorai, gan ddefnyddio'r un fframwaith asesu ag a ddefnyddiwyd ar gyfer yr opsiynau gwreiddiol. Ceir cymhariaeth fanwl o'r holl opsiynau yn Atodiad B – Gwerthusiad Opsiynau, ac mae'r tabl isod yn crynhoi prif gasgliadau'r gwerthusiad ac yn egluro'r rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen â'r opsiwn amgen.

Opsiwn	Rhesymau dros wrthod yr opsiwn
Opsiwn 1 - Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol	Yn dilyn asesiad, deuir i'r casgliad nad yw parhau gyda'r sefyllfa bresennol yn ymateb yn ddigonol i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn, sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o lefydd gweigion, un dosbarth gydag amrediad oedran eang, rhagolygon niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol. Nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig datrysiad i newid unrhyw un o'r ffactorau hyn, ac felly ni chaiff ei ystyried yn ddewis rhesymol i sicrhau darpariaeth gynradd gynaliadwy yn y tymor canolig na'r tymor hir.

Opsiwn 2- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)	Ystyrir nad yw ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos yn ddigonol i fynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn. Nid oes tystiolaeth y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd ystyrion mewn niferoedd dysgwyr nac at leihad yn y gyfran uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai'r ffurf bresennol o ddosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang yn parhau. Yn ogystal, byddai'r rhagolygon niferoedd isel a'r patrwm presennol o ddewis dysgwyr y dalgylch heb eu newid, gyda'r heriau ariannol a chostau fesul dysgwr uchel yn parhau.
Opsiwn 3 - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn	Er bod darpariaeth arbenigol ADY yn bwysig yn strategol, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau craidd sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd leol. Byddai dysgwyr y ddarpariaeth arbenigol yn parhau i gael eu cofrestru yn eu hysgolion gwreiddiol, ac felly ni fyddai'r opsiwn yn cynyddu niferoedd cofrestredig yr ysgol nac yn lleihau'r lefel uchel o lefydd gweigion. O ganlyniad, byddai'r ffurf bresennol o ddosbarthiadau bach, yr amrediad oedran eang, a'r heriau ariannol presennol yn parhau, heb ddarparu ateb cynaliadwy i'r sefyllfa bresennol.
Opsiwn 4 - Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos	<i>Noder: Dyma'r opsiwn ffafredig a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad statudol.</i>
Opsiwn 5 - Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn	Ystyrir nad yw'r model yn ymateb yn ddigonol i'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn. Nid oes tystiolaeth y byddai'r trefniant yn arwain at gynnydd ystyrion mewn niferoedd dysgwyr nac at newid yn y patrwm presennol o lefydd gweigion uchel. O ganlyniad, byddai'r trefniadaeth o ddosbarthiadau bach, y rhagolygon niferoedd isel, a'r heriau ariannol cysylltiedig yn parhau, heb sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth.
Opsiwn 6 - Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn	Er bod darpariaeth arbenigol ADY yn bwysig yn strategol, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn ymateb i'r heriau craidd sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd gymunedol. Ni fyddai sefydlu uned arbenigol yn cynyddu'r niferoedd cofrestredig yn y ddarpariaeth brif ffrwd nac yn lleihau'r lefel uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai'r trefniadaeth o ddosbarthiadau bach, yr amrediad oedran eang, a'r heriau ariannol presennol yn parhau, heb ddarparu ateb cynaliadwy i'r sefyllfa bresennol.
Opsiwn 7 – Cynnwys Uned Iaith ar safle Ysgol Baladeulyn	Yn dilyn asesiad, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn cynnig ateb i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn. Er y gallai canolfan iaith ddefnyddio'r safle'n rhannol, byddai dysgwyr y ganolfan yn parhau i gael eu cofrestru yn eu hysgolion gwreiddiol, ac felly ni fyddai'r opsiwn yn cynyddu niferoedd cofrestredig yr ysgol. O ganlyniad, byddai'r lefel uchel o lefydd gweigion, y dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, a'r heriau ariannol presennol yn parhau heb gael eu cyfarch.
Opsiynau a awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad:	
Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif-ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol i'r ardal leol	Byddai'r opsiwn yma yn golygu ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd sydd yn cynnwys addysg arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol. Byddai'r opsiwn hyn yn cynnig addysg hybrid i ddysgwyr cynradd yn yr ardal leol i fynychu Ysgol Baladeulyn fel ysgol prif ffrwd a/neu gyda mynediad i ddarpariaeth addysg arbenigol ADY.

	Gan y byddai angen addasu adeilad yr ysgol i ddarparu lleoliad ar gyfer yr ardal arbenigol, byddai capasiti'r ysgol yn debygol o leihau ac felly rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad mewn llefydd gweigion. Fodd bynnag, mae niferoedd Ysgol Baladeulyn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 2 dysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr. Gan y byddai dysgwyr sydd yn cael mynediad i ddarpariaeth addysg arbennig yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd sydd yn cynnwys addysg arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol yn effeithio ar y niferoedd.

8. YSTYRIAETHAU PELLACH

Yn ogystal ag asesiadau effaith a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau penodol 'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgol wledig' cynhaliwyd a diweddarwyd nifer o asesiadau effaith eraill yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Cynhwysir y asesiadau hyn fel rhan o'r atodiad Asesiadau Effaith (Atodiad C) a chrynohoir eu casgliadau isod.

a. Asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg

Cynhaliwyd asesiad o effaith y cynnig ar yr Iaith Gymraeg, ac fe adolygwyd yr asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.

Yn ystod yr ymgynghoriad, mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith y gallai cau Ysgol Baladeulyn ei chael ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref. Pwysleisiodd yr ymatebwyr ar rôl bwysig yr ysgol wrth integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, i fywyd Cymraeg y pentref. Pwysleisiwyd bod yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at ddefnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol, megis cyfarfodydd cymdeithasol, chwarae ar ôl ysgol a rhyngweithio rhwng rhieni a thrigolion lleol. Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol danseilio'r ecosystem ieithyddol leol, gan arwain at leihad graddol yn y defnydd cymunedol o'r Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Baladeulyn mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith andwyol bosibl ar fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.

Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol disgyblion, am y rhesymau canlynol:

- Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn.
- Mae'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Nantlle yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.

Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nantlle ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o

safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol Ysgol Talysarn, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.

Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

b. Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynnig, ac fe adolygwyd yr asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.

Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisiâu a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau bod y cynnig yn ystyried, ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

Fel y nodir yn yr asesiad diweddaraf, yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd rhai pryderon penodol o safbwynt cydraddoldeb, yn enwedig ynghylch plant bregus, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a theuluoedd sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mynegwyd pryder y gallai symud rhai dysgwyr i ysgol fwy leihau'r lefel o gefnogaeth bersonol sydd ar gael iddynt, ac y gallai pellter teithio, costau cludiant neu ddiffyg mynediad at gludiant preifat effeithio'n anghymesur ar rai teuluoedd. Nodwyd hefyd y gallai colli'r ysgol danseilio'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn fyw ac yn ymarferol ym mywyd beunyddiol y gymuned.

Nodir yn yr asesiad fod y Cyngor yn cydnabod y materion a godwyd ac yn pwysleisio bod polisiâu cydraddoldeb a chynhwysiant yn weithredol yn y ddarpariaeth bresennol ac yn Ysgol Talysarn. At hynny, nodir fod Cyngor yn ymrwmo i roi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i blant bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau. O ran y pryderon ynghylch defnydd cymunedol o'r Gymraeg, nodir y byddai mesurau lliniaru yn cael eu hystyried, gan gynnwys hyrwyddo cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nantlle a'r ysgol amgen drwy weithgareddau cymunedol, a thrwy ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnyddio adeilad yr ysgol er mwyn cefnogi defnydd parhaus o'r Gymraeg yn y gymuned leol.

Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai ymatebwyr wedi nodi effaith negyddol bosibl ar rai grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys dysgwyr bregus, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, teuluoedd sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol, a chydlyniant cymunedol. Nodwyd hefyd bryderon penodol ynghylch effaith bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd anffurfiol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Fodd bynnag, ar sail yr asesiad cydraddoldeb cyffredinol, y dystiolaeth a nodir yn yr asesiadau effaith cysylltiedig, a'r mesurau lliniaru a ddisgrifir, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn nad yw'r cynnig yn debygol o arwain at effaith negyddol arwyddocaol ar nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod polisiâu a gweithdrefnau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu, a bod anghenion unigol yn cael eu hystyried yn briodol.

Mae'r Cyngor yn parhau o'r farn y byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau'r anghyfartaledd yn achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau bod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at ragor o wasanaethau a gweithgareddau yn Ysgol Talysarn.

Drwy weithredu'r cynnig, byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cael gwell amgylchedd dysgu a byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

Byddai'r Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â'r nodweddion cydraddoldeb, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

c. Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Cynhaliwyd asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant ar y cynnig a diweddarwyd yr asesiad wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.

Yn yr asesiad diweddaraf, nodir fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn mynegi pryderon penodol ynghylch effaith y cynnig ar ddysgwyr bregus, a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ar lesiant teuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, ac ar fywiogrwydd ieithyddol a chymunedol y pentref.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig, y byddai'r cynnig yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle. Fodd bynnag nodir fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch (75%) yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned Nantlle yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Talysarn yn cynnwys y gymuned lle'n briodol.

Bydd y cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

9. ARGYMHELLIAD

Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth lawn i'r materion a godwyd ac fe gynhaliwyd gwerthusiad ac asesiadau effaith pellach o'r cynnig, ynghyd â'r opsiynau amgen a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori, ynghyd â'r opsiynau amgen a nodwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys asesiad yn erbyn y ffactorau sy'n berthnasol i ysgolion gwledig, gan gynnwys y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Ar sail ystyried yr elfennau uchod, daethpwyd i'r casgliad nad oedd unrhyw o'r opsiwn amgen a ystyriwyd yn mynd i'r afael â'r prif heriau sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn, sef:

- **Niferoedd isel o ddysgwyr** - Dengys data Ionawr 2026, fod 6 dysgwr llawn amser a 2 ddysgwr Meithrin yn mynychu Ysgol Baladeulyn.
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Gyda 6 o ddysgwyr (Derbyn i Flwyddyn 6) ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 55, mae 49 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 89% o gapasiti'r ysgol. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 2 ddysgwr Meithrin ar y gofrestr, mae 5 o lefydd gweigion yn y Meithrin yn ogystal. O ganlyniad, wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin - Blwyddyn 6, mae gan Ysgol Baladeulyn 54 (87%) o lefydd gweigion.
- **Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang** – Yn Ysgol Baladeulyn (Medi 2025) mae un dosbarth sy'n cynnwys pob dysgwr yn yr ysgol – sef 6 dysgwr Derbyn-BL.6 (Derbyn, BL.1 a 2, a BL.4 a 5) ynghyd â 2 ddysgwr Meithrin. O fewn y dosbarth hwn, caiff grwpiau gwahanol eu ffurfio ar wahanol adegau o'r dydd, gyda'r cymorthyddion yn arwain y gweithgareddau gyda'r dysgwyr ieuengaf. Mae hyn felly yn golygu mae'r amrediad oedran yn y dosbarth cyfan yn ymestyn hyd at 8 mlynedd.
- **Rhagamcanion niferoedd** - Mae rhagamcanion Medi 2025 yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y tair blynedd nesaf, gyda rhagamcan o 7 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 a 1 dysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028.
- **Dysgwyr y dalgylch** – Dengys data Ionawr 2026 fod 8 o blant yn byw yn nalgylch Baladeulyn. O'r rhain mae 25% (2 blentyn) yn dewis mynychu Ysgol Baladeulyn, tra bod 75% (6 plentyn) yn dewis mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch.
- **Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd** – Mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn

amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27 (seiliedig ar niferoedd Medi 2025) fydd £74,446.

Cyfartaledd cost fesul dysgwr – Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn y flwyddyn ariannol 2026-27 fydd £25,123 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,998.

Wrth ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, ynghyd â'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol a'r asesiadau effaith, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn bod y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn briodol, yn gymesur ac er budd gorau dysgwyr yr ardal yn y tymor canolig a'r tymor hir.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan ymgynghorai, yn enwedig ynghylch rôl yr ysgol yn y gymuned leol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn dangos bod Ysgol Baladeulyn yn wynebu heriau sylweddol nad ydynt yn debygol o gael eu datrys heb newid sylfaenol i'r ddarpariaeth.

Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy:

- Ymateb i'r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Baladeulyn, ynghyd â rhagolygon sy'n parhau'n isel, a'r ganran uchel o leoedd gwag;
- Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;
- Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran;
- Lleihau'r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir

Ar y cyfan, ar ôl ystyried y dystiolaeth, y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, y gwerthusiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau amgen, ynghyd â chyfeiriad strategol y Cyngor, mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yw'r ymateb mwyaf priodol i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol (fel y nodir uchod) a'r rhesymau a nodwyd dros y cynnig, ac felly'n parhau i'w argymhell fel y modd mwyaf addas o fynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu'r ysgol.

Gwerthusiad Opsiynau Ysgol Baladeulyn

Allwedd: Glas - manteision Coch - anfanteision Du – sylwadau

Gwerthusiad Opsiynau Ysgol Baladeulyn				
Ystyriaethau	Dim newid – parhau gyda’r sefyllfa bresennol	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)	Ffederaleiddio gydag ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn	Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i’r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)
Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Baladeulyn (Niferoedd Ionawr 2026: 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin). Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (49 o lefydd gweigion (89%) Derbyn i Blwyddyn 6; 54 o lefydd gweigion (87%) Meithrin – Blwyddyn 6). Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau’n isel dros y blynyddoedd nesaf.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Baladeulyn (Niferoedd Ionawr 2026: 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin). Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (49 o lefydd gweigion (89%) Derbyn i Blwyddyn 6; 54 o lefydd gweigion (87%) Meithrin – Blwyddyn 6). Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau’n isel dros y blynyddoedd nesaf. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.	Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd yr ysgol. Rhagwelir y byddai niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Baladeulyn. Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys ardal arbenigol ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau’n isel. (Niferoedd Ionawr 2026: 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin). Gan y byddai angen addasu’r adeilad i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned arbenigol, mi fyddai capasiti yr ysgol yn debygol o leihau a felly bydd llai o lefydd gweigion. Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau’n isel dros y blynyddoedd nesaf.	Mae niferoedd Ysgol Talysarn yn sefydlog gyda 81 o ddysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6 ac 17 o ddysgwyr Meithrin ar y gofrestr (Ionawr 2026). Cyfradd llai o lefydd gweigion yn y dalgylch.
Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran	Mae 1 ddosbarth yn Ysgol Baladeulyn (Ionawr 2026) gyda 6 dysgwr (Derbyn i Blwyddyn 6) a 2 ddysgwr Meithrin. Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. Mae dosbarth Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gyda amrediad oedran o hyd at 8 blynedd yn y dosbarth.	Mae 1 ddosbarth yn Ysgol Baladeulyn (Ionawr 2026) gyda 6 dysgwr (Derbyn i Blwyddyn 6) a 2 ddysgwr Meithrin. Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Mae dosbarth Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gyda amrediad oedran o hyd at 8 blynedd yn y dosbarth.	Mae 1 ddosbarth yn Ysgol Baladeulyn (Medi 2025) gyda 6 dysgwr (Derbyn i Blwyddyn 6) a 2 ddysgwr Meithrin. Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai lleoli uned ADY ar safle’r ysgol, nac ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Mae dosbarth Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gyda amrediad oedran o hyd at 8 blynedd yn y dosbarth.	Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas. Mae dysgwyr Ysgol Talysarn yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas o rhwng 16 a 30 o ddysgwyr ymhob dosbarth (Medi 2025). Mae 4 dosbarth gydag oedrannau cymysg yn Ysgol Talysarn, ynghyd a dosbarth Meithrin.
Adnoddau Ariannol	Bydd Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £74,446 gan yr Awdurdod yn 2026-27 i sicrhau lefelau staffio priodol. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau.	Bydd Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £74,446 gan yr Awdurdod yn 2026-27 i sicrhau lefelau staffio priodol. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau.	Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Baladeulyn. Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu’r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu’r Uned ADY.	Tynnu ysgol o’r rhwyd gwarchodaeth lleiafswm staffio a dim angen am ddyraniad gwarchodaeth yn yr ysgol amgen. Bydd cost fesul dysgwr yn agosach at y cyfartaledd sirol. Mae’n debygol o arwain at gynnydd yng nghostau cludiant i’r Awdurdod.

	Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau’n uchel (£25,123 y dysgwr) - sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,998.	Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau’n uchel (£25,123 y dysgwr) - sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,998. Cyfle i wneud arbedion drwy rannu adnoddau a chyflogi staff ar draws y ffederasiwn wrth benodi yn y dyfodol.	Bydd Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £74,446 gan yr Awdurdod yn 2026-27 i sicrhau lefelau staffio priodol. Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau’n uchel (£25,123 y dysgwr) - sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,998. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli uned ADY ar safle’r ysgol na ffederaleiddio yn ymateb i'r her ariannol yma.	
Arweinyddiaeth a Staffio	Swyddi presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau. Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.	Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.	Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol, mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’i amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai’n gyfrifol am reolaeth safle’r uned.	Mae strwythur staffio Ysgol Talysarn yn sicrhau athrawon ym mhob dosbarth ac yn caniatáu amser digyswllt i’r Pennaeth. Byddai’n arwain at ddiswyddo staff yn Ysgol Baladeulyn.
Ffactorau Daearyddol	Dim newid. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch.	Dim newid i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch Bydd angen trefnu cludiant i ddysgwyr yr Uned ADY.	Bydd angen cynnig cludiant i ddysgwr dalgylch Ysgol Baladeulyn. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i’r ysgol nac y maent yn bresennol. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i’r ysgol.
Y Gymuned	Cadw ysgol a’i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn.	Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol. Cadw’r ysgol a’i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn.	Cadw ysgol a’i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y ddwy ysgol. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn.	Pentref Nantlle yn colli ysgol. Cymuned ehangach ble gall y plant a’r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng dwy gymuned cyfagos.
Yr Iaith Gymraeg	Dim newid - Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.	Dim newid – Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.	Dim newid – mae’r 2 ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.	Dim newid – mae Ysgol Talysarn yn ysgol cyfrwng Cymraeg.
Sylwadau ychwanegol wedi eu cynnig gan ran-	Cryfderau/Cyfleon: Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda.	Cryfderau/Cyfleon: Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda.	Cryfderau/Cyfleon: Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda.	Gwendidau: Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy.

ddeiliaid yn ystod/dilyn PAY1 a PAY2	- Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol. - Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau.	- Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol. - Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau. - Cyfrannu’n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr.	- Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol. - Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau.	- Colli’r ymagwedd gynhwysol gadarn mae Ysgol Baladeulyn yn ei gynnig i gefnogi iechyd a lles. - Effaith negyddol posib ar les y dysgwyr presennol.

Ystyriaethau	Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn	Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn	Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn
Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion	Gyda ond 6 o ddysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6, a 2 ddysgwr Meithrin yn mynychu Ysgol Baladeulyn (Ionawr 2026), rhagwelir na fyddai uno gydag ysgolion lleol yn arwain ar gynnydd yn y niferoedd ar safle Ysgol Baladeulyn. Gan na ragwelir cynnydd yn y niferoedd, rhagwelir y byddai nifer fawr o lefydd gweigion, sef lle i 49 (89%) o ddysgwyr yn parhau. Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau’n isel dros y blynyddoedd nesaf.	Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys ardal arbenigol ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau’n isel. (Niferoedd Ionawr 2026: 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin). Gan y byddai angen addasu’r adeilad i ddarparu lleoliad ar gyfer uned arbenigol, mi fyddai capasiti yr ysgol yn debygol o leihau a felly bydd llai o lefydd gweigion. Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf.	Gan y byddai angen addasu’r adeilad er mwyn cynnig lleoliad addas i’r ganolfan iaith ar safle’r ysgol, byddai capasiti’r ysgol yn debygol o leihau a felly bydd llai o lefydd gweigion. Gan y byddai dysgwyr y ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau’n isel. Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf.
Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran	Mae 1 ddosbarth yn Ysgol Baladeulyn (Ionawr 2026) gyda 6 dysgwr (Derbyn i Blwyddyn 6) a 2 ddysgwr Meithrin. Gan na ragwelir y byddai’r opsiwn yma’n arwain at gynnydd yn y niferoedd, rhagwelir byddai maint dosbarthiadau ar safle Ysgol Baladeulyn yn parhau’n fach, gydag amrediad oedran eang.	Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai lleoli uned ADY ar safle’r ysgol yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Rhagwelir felly y byddai niferoedd dysgwyr yr ysgol yn parhau’n isel. Mae dosbarth Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gyda amrediad oedran o hyd at 8 blynedd yn y dosbarth.	Gan y byddai dysgwyr y ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau’n isel. Mae dosbarth Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gyda amrediad oedran o hyd at 8 blynedd yn y dosbarth.
Adnoddau Ariannol	Bydd uno ysgolion yn golygu sefydlu un ysgol aml-safle, gydag un dyraniad ar gyfer yr holl safleoedd. Rhagwelir y byddai safle Baladeulyn yn parhau i dderbyn swm ychwanegol i’r dyraniad craidd trwy’r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio gan y byddai niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn isel.	Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Baladeulyn. Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu’r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu’r Uned ADY. Bydd Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £74,446 gan yr Awdurdod ar gyfer 2026-27 i sicrhau lefelau staffio priodol (seiliedig ar niferoedd Medi 2025). Bydd cyfartaledd cost y dysgwr Ysgol Baladeulyn yn parhau’n uchel (£25,123 y dysgwr) sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,998. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli uned ADY ar safle’r ysgol yn ymateb i'r her ariannol yma.	Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned Iaith yn Ysgol Baladeulyn. Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu’r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu’r uned iaith. Bydd Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £74,446 gan yr Awdurdod ar gyfer 2026-27 i sicrhau lefelau staffio priodol (seiliedig ar niferoedd Medi 2025). Bydd cyfartaledd cost y dysgwr Ysgol Baladeulyn yn parhau’n uchel (£25,123 y dysgwr) sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,998. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli Uned Iaith ar safle’r ysgol yn ymateb i'r her ariannol yma.
Arweinyddiaeth a Staffio	Byddai yna resymoli arweinyddiaeth yn yr opsiwn yma, ond gan na fydd yna effaith ar niferoedd dysgwyr y safleoedd, byddai strwythur staffio	Swyddi presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau.	Swyddi presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau.

	presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda pennaeth safle (yn hytrach na phennaeth) a chymhorthydd.	Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn is na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol, mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’r amser. Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai’n gyfrifol am reolaeth safle’r uned.	Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn is na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Mae’r rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol, mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’r amser. Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai’n gyfrifol am reolaeth safle’r uned.
Ffactorau Daearyddol	Safle ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch. Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng safleoedd ysgolion.	Dim newid i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch. Bydd angen trefnu cludiant i ddysgwyr yr Uned ADY.	Dim newid i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch. Bydd angen trefnu cludiant i ddysgwyr yr Uned Iaith.
Y Gymuned	Cadw safle ysgol a’i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. Cymuned ehangach ble gall y dysgwyr a’r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng cymuned Dyffryn Nantlle. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg ar safle Ysgol Baladeulyn.	Cadw ysgol a’i photensial i fod yn adnodd cymunedol yn Nantlle. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn.	Cadw ysgol a’i photensial i fod yn adnodd cymunedol yn mhentref Nantlle. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn.
Yr Iaith Gymraeg	Dim newid - dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.	Dim newid - dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.	Dim newid – dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.
Sylwadau ychwanegol wedi eu cynnig gan ran-ddeiliaid yn ystod/dilyn PAY1 a PAY2	Cryfderau/Cyfleon: - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda. - Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol. - Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau. - Cyfle i sefydlogi niferoedd dysgwyr, cynyddu cyllid, a lleihau costau gweithredu. - Ysgol Baladeulyn yn parhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel i bob myfyriwr. - Creu sefydliad cyfunol a all weithredu'n fwy effeithlon - cyfuno adnoddau'r ysgolion, megis staff, cyfleusterau a deunyddiau addysgu, gan gynnwyl y ffocws ar gyfrwng y Gymraeg. - Caniatáu cydgrynhoi swyddogaethau gweinyddol, megis rolau arweinyddiaeth, cyllid, AD a gwasanaethau TG, gan leihau costau gorbenion. - Byddai’r ysgol gyfunol yn elwa o arbedion maint. - Cyfle i rannu adnoddau megis staff, deunyddiau addysgol, cyfleusterau chwaraeon a rhaglenni allgyrsiol. - Cyfle i Ysgol Baladeulyn ehangu ei chwricwlwm a'i gweithgareddau allgyrsiol. - Cyfle i ddatblygu rhaglenni a chefnogaeth arbenigol i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynnwys yn y profiad addysgol. - Cyfle i ddenu mwy o gyllideb gan Llywodraeth Cymru a’r Awdurdod Lleol – gall arwain at incwm mwy sefydlog, a chaniatáu i’r ysgol gynllunio’n well ar gyfer anghenion y dyfodol. - Cyfle i helpu i leihau dyblygu gwasanaethau, e.e. gallai arwain at un tîm arweinyddiaeth a lleihau nifer y staff nad ydynt yn addysgu, gan arwain at leihad yng nghost y dysgwr. - Cyfle i wasanaethau a rennir e.e. Cludiant a chynnal a chadw fod yn fwy cost effeithiol yn sgil eu canoli.	Cryfderau/Cyfleon: - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda. - Dosbarthiadau bychain yn Ysgol Baladeulyn yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol. - Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau. - Cyfrannu’n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr. - Cyd-fynd â'r gydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd addysg gynhwysol a chefnogaeth i blant ag anghenion dysgu amrywiol. - Ni fydd angen i deuluoedd deithio pellteroedd hir mwyach am gymorth arbenigol, gan y bydd ganddynt fynediad at ateb lleol, Cymraeg ar gyfer anghenion addysgol arbennig eu plant. - Caniatáu i blant ag ADY dderbyn addysg unigol. - Helpu i feithrin ymdeimlad o gynhwysiant, a sicrhau bod plant ag ADY yn cael eu hintegreiddio i gymuned ehangach yr ysgol. - Sicrhau fod plant ag ADY yn cael mynediad at addysg yn eu hiaith gyntaf, gan gadw eu treftadaeth ddiwylliannol.	Cryfderau/Cyfleon: - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda. - Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol. - Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau.

	- Cyfle i gael mynediad at gyllid ychwanegol o amrywiol grantiau addysgol a diwylliannol, gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar ddiogelu'r iaith Gymraeg, anghenion dysgu ychwanegol, ac addysg wledig. - Arwain at ddyrannu staff addysgu yn fwy effeithlon, dilyniant staff a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant mewn meysydd arbenigol megis ADY, datblygu'r iaith Gymraeg, a thechnoleg. - Cyfle i gynnig addysg cryfach mwy amrywiol, gydag ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol, gwasanaethau cymorth a rhaglenni arbenigol. - Helpu i feithrin ymdeimlad mwy o gymuned. - Gallu i gefnogi plant ag ADY yn well.		

Opsiyndau Amgen Rhesymol a awgrymwyd gan Ymgynghorai

Ystyriaethau	Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd ‘hybrid’ prif-ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol i’r ardal leol
Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion	Nid oes tystiolaeth amlwg ar hyn o bryd y byddai datblygu Ysgol Baladeulyn fel ysgol hybrid sy’n cynnig darpariaeth arbenigol yn arwain at gynnydd digonol a chynaliadwy mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig. Niferoedd Ionawr 2026: 6 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 ac 2 dysgwr Meithrin. Gan y byddai angen addasu’r adeilad i ddarparu lleoliad ar gyfer uned arbenigol, mi fyddai capasiti yr ysgol yn debygol o leihau a felly bydd llai o lefydd gweigion. Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf.
Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran	Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai lleoli uned ADY ar safle’r ysgol yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Rhagwelir felly y byddai niferoedd dysgwyr yr ysgol yn parhau’n isel. Mae dosbarth Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gyda amrediad oedran o hyd at 8 blynedd yn y dosbarth.
Adnoddau Ariannol	Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Baladeulyn. Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu’r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu’r Uned ADY. Bydd Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £74,446 gan yr Awdurdod yn 2026-27 i sicrhau lefelau staffio priodol (seiliedig ar niferoedd Medi 2025). Bydd cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau’n uchel (£25,123 y dysgwr) - sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,998. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai’r ddarpariaeth amgen ar safle’r ysgol yn ymateb i'r her ariannol yma.
Arweinyddiaeth a Staffio	Swyddi presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau. Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer 2026/27, gan fod niferoedd dysgwyr ym Medi 2025 hefyd yn is na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol, mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’i amser. Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai’n gyfrifol am reolaeth safle’r ddarpariaeth ADY.

Ffactorau Daearyddol	Dim newid i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch. O bosib bydd costau cludiant uwch, er mwyn trefnu cludiant i ddysgwyr ADY.
Y Gymuned	Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol yn Nantlle. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn.
Yr Iaith Gymraeg	Dim newid - dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Atodiad C

Asesiadau Effaith Ysgol Baladeulyn

Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg	1
Asesiad Effaith debygol ar Drefniadau Teithio	18
Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned	27
Asesiad Effaith Ieithyddol	44
Asesiad Effaith Llesiant	62
Asesiad Effaith Cydraddoldeb	73

**ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR ANSAWDD A
SAFONAU ADDYSG –
YSGOL BALADEULYN**

Mai 2026

1. CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Baladeulyn yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Nantlle, sydd rhyw dair milltir o Benygroes, ac sydd yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3-11 oed. Mae gostyngiad wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, Ionawr 2026, dim ond 6 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 a 2 dysgwyr Meithrin sy'n mynychu'r ysgol.

Yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg *"gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Baladeulyn yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol."*

Yn unol â phenderfyniad y Cabinet (11 Chwefror 2025), sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Baladeulyn (PAY) gan wahodd y Corff Llywodraethol, rhieni a staff a'r Aelod Lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth. Cynhaliwyd tri cyfarfod PAY rhwng Mawrth 2025 a Gorffennaf 2025 i drafod ystod o opsiynau i geisio ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, sydd yn cynnwys 'Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig', mae angen gwneud asesiad ar yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg ar unrhyw opsiwn rhesymol a ellir datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. At ddiben y Cod, mae Ysgol Baladeulyn wedi ei dynodi fel 'Ysgol Wledig'.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau posibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ddarparu'r profiadau dysgu gorau posibl - ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wella safonau.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Rhagfyr a 28 Ionawr, a derbyniwyd 30 ymateb i'r ymgynghoriad.

2. CRYNODEB

Bu i Ysgol Baladeulyn gael ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2017 ble daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol yr ysgol yn 'Dda'.

Mae crynodeb isod o arolygon diwethaf Ysgol Baladeulyn, yr ysgolion cyfagos, neu ysgolion sydd yn destun unrhyw un o'r opsiynau dan ystyriaeth ar gyfer dyfodol Ysgol Baladeulyn.

Ysgol	Blwyddyn yr arolwg	Safonau	Lles ac agweddau at ddysgu	Addysgu a phrofiadau dysgu	Gofal, cymorth ac arweiniad	Arweinyddiaeth a rheolaeth
Baladeulyn	2017	Da	Da	Da	Da	Da
Nebo	2017	Da	Da	Da	Da	Da
Bro Llifon	2018	Da	Da	Da	Da	Da
Bro Lleu	2023	Fframwaith arolygu newydd				
Talysarn	2025	Fframwaith arolygu newydd				
Brynaerau	2025	Fframwaith arolygu newydd				
Llanllyfni	2025	Fframwaith arolygu newydd				

Tud. 381

3. YR OPSIYNAU DAN SYLW

- *Dim newid – parhau gyda'r sefyllfa presennol.*

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r opsiwn 'Gwneud dim' wedi ei gynnwys yn yr asesiad at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Gan ystyri'r Ysgol Talysarn fel yr ysgol cyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Gan ystyri'r Ysgol Talysarn fel yr ysgol cyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol rhwng 3 ysgol gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer uned ADY yn Ysgol Baladeulyn.

- *Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i ddysgwyr y dalgylch yn Ysgol Talysarn.

- *Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Baladeulyn. Byddai'r opsiwn yn galluogi'r posibilrwydd o rannu adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb safle ysgol ym mhentref Nantlle trwy sefydlu ysgol aml-safle, dan arweiniad pennaeth ac un corff llywodraethol.

- *Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu ardal benodol arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol.

- *Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu Uned iaith ar safle'r ysgol. Byddai'n cynnig gwasanaeth trochi i'r plant yn y Gymraeg sydd ei angen cyn ymuno a'u hysgolion dewisol yn llawn amser.

Opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:

- *Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol i'r ardal leol.*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd sydd yn cynnwys addysg arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol. Byddai'r opsiwn hyn yn cynnig addysg hybrid i ddysgwyr cynradd yn yr ardal leol i fynychu Ysgol Baladeulyn fel ysgol prif ffrwd a/neu gyda mynediad i ddarpariaeth addysg arbenigol ADY.

4. ASESIAD O EFFAITH TEBYGOL AR SAFONAU AC ANSAWDD ADDYSG

Rydym wedi defnyddio arolygon diweddaraf Estyn ar yr ysgolion perthnasol fel meini prawf ar gyfer asesu y gwahanol opsiynau ar gyfer dyfodol addysg ar gyfer dalgylch Ysgol Baladeulyn.

OPSIWN 1: GWNEUD DIM - PARHAU GYDA'R SEFYLLFA BRESENNOL

Byddai'r opsiwn yma yn golygu dim newid a bydda Ysgol Baladeulyn yn parhau fel ac y mae.

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Dim newid.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Dim newid.	Niwtral
Profiadau dysgu ac addysgu	Dim newid.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Dim newid.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Dim newid.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Dim newid.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Dim newid.	Niwtral

OPSIWN 2: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS (YSGOL TALYSARN)

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag Ysgol Talysarn. Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer dangosyddion safonau Ysgol Baladeulyn yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn fod <i>"gynnydd cryf ym medrau bron bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel."</i> O ganlyniad, deir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar safonau o ffederaleiddio Ysgol Talysarn gydag Ysgol Baladeulyn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Baladeulyn ar gyfer y maes arolygu 'Lles ac agweddau at ddysgu' yn 'Dda'. Roedd adroddiad arolwg Estyn diwethaf Ysgol Talysarn yn nodi <i>"mae'r ffederasiwn yn gymuned ofalgar a theuluol lle mae lles a chynnydd pob disgybl wrth wraidd y ddarpariaeth... O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu hysgogi i ymroi o'u gorau."</i> Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, a gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau fel endid ar wahân o dan yr opsiwn hwn, deir i'r casgliad mai effaith niwtral a ragwelir ar y maes yma o ffederaleiddio Ysgol Baladeulyn gydag Ysgol Talysarn.	Niwtral
Profiadau dysgu ac addysgu	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Addysgu a phrofiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Baladeulyn yn 2017. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn <i>"maent yn darparu ystod o brofiadau diddorol a chyfoethog sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau, a dwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y meysydd dysgu."</i> O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar brofiadau dysgu ac addysgu.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' yn Ysgol Baladeulyn yn eu harolwg diwethaf yn 2017. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn <i>"Mae'r berthynas o barch a charedigrwydd rhwng staff a disgyblion yn gryf, sy'n cyfrannu at amgylchedd diogel ac ysgogol lle mae disgyblion yn barod i ddysgu"</i> . Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, a gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau fel endid ar wahân o dan yr opsiwn hwn, deir i'r casgliad mai effaith niwtral a ragwelir ar y maes yma o ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf Ysgol Baladeulyn fod yr arweinyddiaeth yn yr ysgol yn 'Dda' tra nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn bod y <i>"pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac ysbrydoledig, ac mae'r staff yn rhannu a gweithredu ei gweledigaeth yn effeithiol."</i> Yn ogystal, byddai'r model ffederaleiddio gydag ysgol Talysarn yn cynnig cyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth Ysgol Baladeulyn ac yn gyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. O ganlyniad, deir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith positif neu o leiaf niwtral o weithredu'r opsiwn ffederaleiddio.	Positif/Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholis'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai effaith yr opsiwn yma ar y maen prawf hwn.	Niwtral

Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau. Yn ogystal, roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', a chyfeirir yn adroddiad Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn bod <i>"gynnydd cryf ym medrau bron bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel."</i> Yn seiliedig ar wybodaeth yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma.	Niwtral

OPSIWN 3: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL ARALL GAN YCHWANEGU ARDAL ARBENIGOL AR GYFER PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN YSGOL BALADEULYN

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag Ysgol Talysarn. Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer dangosyddion safonau Ysgol Baladeulyn yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn fod <i>"gynnydd cryf ym medrau bron bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel."</i> O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar safonau o weithredu'r opsiwn yma.	Niwtral
Lles ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer Lles yn Ysgol Baladeulyn yn 'Dda'. Roedd adroddiad arolwg Estyn diwethaf Ysgol Talysarn yn nodi bod y <i>"ffederasiwn yn gymuned ofalgar a theuluol lle mae lles a chynnydd pob disgybl wrth wraidd y ddarpariaeth... O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu hysgogi i ymroi o'u gorau."</i> Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y maes yma trwy addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.	Niwtral
Profiadau dysgu ac addysgu	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Addysgu a phrofiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Baladeulyn yn 2017. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn <i>"maent yn darparu ystod o brofiadau diddorol a chyfoethog sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau, a dwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y meysydd dysgu."</i> O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar brofiadau dysgu ac addysgu.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' yn Ysgol Baladeulyn yn eu harolwg diwethaf yn 2017. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn <i>"Mae'r berthynas o barch a charedigrwydd rhwng staff a disgyblion yn gryf, sy'n cyfrannu at amgylchedd diogel ac ysgogol lle mae disgyblion yn barod i ddysgu"</i> . O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar ofal, cymorth ac arweiniad.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf Ysgol Baladeulyn fod yr arweinyddiaeth yn yr ysgol yn 'Dda'. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn bod y <i>"pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac ysbrydoledig, ac mae'r staff yn rhannu a gweithredu ei gweledigaeth yn effeithiol."</i> Yn ogystal, byddai'r model ffederaleiddio gydag Ysgol Talysarn yn cynnig cyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth Ysgol Baladeulyn ac yn gyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. O ganlyniad, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith positif neu o leiaf niwtral o weithredu'r opsiwn ffedereiddio.	Positif/ Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. Rhagwelir y byddai'r opsiwn yn cael effaith gadarnhaol ar y meini prawf hwn gan y byddai'n ymestyn darpariaeth ADY yn yr ardal.	Positif

Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau. Yn ogystal, roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', a nodwyd ym mhrif canfyddiadau adroddiad Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn bod <i>"gynnydd cryf ym medrau bron bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel."</i> Yn seiliedig ar wybodaeth yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r uned ADY yn effeithio ar yr ysgol, rhagwelir y gallai'r adnodd newydd gael effaith bositif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr gydag ADY yn yr ardal.	Positif/ Niwtral

OPSIWN 4: CAU YSGOL BALADEULYN A CHYNNIG LLE I'R DYSGWYR MEWN YSGOL GYFAGOS (YSGOL TALYSARN)

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', a nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn fod <i>"gynnydd cryf ym medrau bron bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel."</i> Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, codwyd nifer o sylwadau ynghylch profiadau dysgwyr ac ansawdd addysg yn Ysgol Baladeulyn. Pwysleisir fod yr ysgol yn darparu darpariaeth addysgol o ansawdd uchel trwy'r Gymraeg mewn amgylchedd diogel, meithringar a chefnogol, lle mae dysgwyr yn hapus, yn ffynnu ac yn derbyn sylw unigol wedi'i deilwra i'w hanghenion. Wrth asesu'r effaith debygol, ystyrir y dystiolaeth arolygu berthnasol ar gyfer y ddwy ysgol, ac ni ragwelir y byddai safonau na chynnydd dysgwyr yn dirywio o ganlyniad i addysgu yn Ysgol Talysarn. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn drwy addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer Lles yn Ysgol Baladeulyn yn 'Dda'. Roedd adroddiad arolwg Estyn diwethaf Ysgol Talysarn yn nodi bod y <i>"ffederasiwn yn gymuned ofalgar a theuluol lle mae lles a chynnydd pob disgybl wrth wraidd y ddarpariaeth... O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu hysgogi i ymroi o'u gorau."</i> Mynegwyd pryderon yn ystod yr ymgynghoriad am effaith negyddol posibl newid ysgol ar lesiant, hyder ac agweddau at ddysgu rhai dysgwyr, yn enwedig rhai sydd yn naturiol swil neu ddi-hyder. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod pontio'n gyfnod sensitif, ond y byddai trefniadau pontio sydd wedi'u cynllunio'n ofalus, gyda chefnogaeth briodol, yn gallu lliniaru effeithiau negyddol posibl ar lesiant a dysgu. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y maes yma trwy addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.	Niwtral
Profiadau dysgu ac addysgu	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Addysgu a phrofiadau dysgu' yn arolwg Estyn diwethaf Ysgol Baladeulyn yn 2017. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn <i>"maent yn darparu ystod o brofiadau diddorol a chyfoethog sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau, a dwysau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y meysydd dysgu"</i> . Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, pwysleisiwyd manteision ysgol fach, gan gynnwys perthnasoedd agos rhwng staff a dysgwyr, cyfleoedd cyfartal i bob plentyn gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Hefyd, nodwyd y gallu i feithrin hyder, cyfrifoldeb a sgiliau bywyd drwy rolau a chyfrifoldebau ymarferol. Er bod y Cyngor yn nodi'r safbwyntiau hyn, nodir hefyd bod ysgolion mwy yn gallu cynnig ystod ehangach o brofiadau dysgu, mynediad at adnoddau ac arbenigedd staff, a chyfleoedd i ddysgu mewn grwpiau mwy a gyda chyfoedion oed-berthnasol, sy'n cefnogi'r asesiad o effaith gadarnhaol ar y maes hwn pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu.	Positif
Gofal, cymorth ac arweiniad	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' yn Ysgol Baladeulyn. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn <i>"Mae'r berthynas o barch a charedigrwydd rhwng staff a disgyblion yn gryf, sy'n cyfrannu at amgylchedd diogel ac ysgogol lle mae disgyblion yn barod i ddysgu"</i> . O ganlyniad, bernir y byddai'r opsiwn yn cael effaith niwtral ar y maes hwn.	Niwtral

Arweinyddiaeth a rheolaeth	Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf fod arweinyddiaeth a'r rheolaeth Ysgol Baladeulyn yn 'Dda'. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn bod y <i>"pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac ysbrydoledig, ac mae'r staff yn rhannu a gweithredu ei gweledigaeth yn effeithiol."</i> Nodir bod yn sgil strwythur staffio Ysgol Baladeulyn, mae'r pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'i amser. Mae strwythur staffio Ysgol Talysarn yn galluogi amserlen di-gyswllt i'r pennaeth. O ganlyniad, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith positif neu o leiaf niwtral o weithredu'r opsiwn yma.	Positif/ Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, codwyd pryderon am effaith negyddol y cynnig ar rai grwpiau o ddysgwyr, yn benodol dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol dwys, o drosglwyddo i ysgol newydd sydd yn fwy ac yn anghyfarwydd iddynt. Cwestiynwyd, hefyd, os fydd parhad cymorth megis aelod o staff cefnogi ac oriau cefnogaeth i ddysgwr ADY yn trosglwyddo i'r ysgol amgen i liniaru'r effaith o drosglwyddo i ysgol newydd. Nodwyd bod rhieni wedi dewis Ysgol Baladeulyn yn benodol oherwydd y gofal, ac amgylchedd addysgu a chefnogaeth bersonol mae'r dysgwyr yn ei dderbyn mewn ysgol llai. Mae'r Cyngor yn nodi'r y pryderon hwn: Fel y nodir yn Llawlyfr Rhieni Gwynedd 2025/26, mae gan ddysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y cymorth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid. Pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, byddai'r awdurdod a'r ysgol amgen yn cydweithio'n agos â'r ysgol sy'n cau, gyda'r dysgwyr a'u teuluoedd, i sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac i gefnogi'r dysgwyr wrth ymgartrefu yn eu hysgolion newydd. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau bod unrhyw drefniadau pontio yn rhoi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i ddysgwyr bregus a dysgwyr gyda anghenion dysgu ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau. Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. Wrth gynllunio staffio (e.e. rôl y CADY) a'r map darpariaeth, mae'r gofyn ar ysgolion yn heriol, ac mae hynny yn dod yn fwy amlwg wrth ystyried y gofyn ar ysgolion llai. Mewn ysgolion mwy mae amodau'r cydlynedd anghenion ychwanegol yn well, ac mae cyfarch y gofyn statudol yn haws yn sgil hynny. Yn ogystal, mae ymateb i angen y dysgwyr hefyd yn haws mewn ysgolion mwy gan y gallent efallai cynnal grŵp ymyrraeth i dargedu anghenion penodol. Mae map darpariaeth yn fwy eang mewn ysgolion mwy er mwyn ymateb i'r gofyn. O ganlyniad, rhagwelir mai positif fyddai effaith yr opsiwn yma ar y maen prawf hwn.	Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', a nodwyd ym mhrif canfyddiadau adroddiad Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn bod <i>"gynnydd cryf ym medrau bron bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel"</i>. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o addysgu dysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn yn Ysgol Talysarn. O ganlyniad, rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar hyn o bryd yn Ysgol Baladeulyn, fan lleiaf.	Niwtral

OPSIWN 5: UNO YSGOLION LLEOL ER MWYN CEFNOGI A CHYNNAL YSGOL BALADEULYN - YSGOL AML-SAFLE

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cynradd cyfagos eraill hefyd (ysgolion cynradd dalgylch Dyffryn Nantlle) yn 'Dda' neu gyda chanfyddiadau cryf. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"cynnydd da o ran datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoedrannau a'u cam datblygu"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Brynaerau a Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) fod athrawon <i>"yn darparu cyfleoedd pwrpasol i bron bob un gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn ffyrdd ystyrlon"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu fod <i>"rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus, yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac oedolion ac yn ymateb yn frwd i'w gwaith"</i> . Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn. Gallai'r opsiwn ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/ Positif
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion llesiant ac agweddau at ddysgu Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer yr ysgolion cyfagos (dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' neu gyda chanfyddiadau cryf. Nodwyd prif ganfyddiadau arolwg Ysgol Llanllyfni fod <i>"yr ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n meithrin gwerthoedd Cymreictod, cwrteisi a pharch. Mae disgyblion yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno"</i> gyda phrif ganfyddiadau arolwg Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn nodi eu bod gyda <i>"gymuned gynnes a gofalgwr lle mae lles a chynnydd disgyblion yn greiddiol i'w ethos"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu <i>"Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol ac yn dangos aeddfedrwydd yn y ffordd maent yn goresgyn heriau ac yn datblygu gwytnwch"</i> . Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion. Gallai'r opsiwn ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/ Positif
Profiadau dysgu ac addysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion profiadau addysgu a dysgu Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer yr ysgolion cyfagos (dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' neu gyda chanfyddiadau cryf. Nodwyd prif ganfyddiadau arolwg Ysgol Llanllyfni bod <i>"cydweithio effeithiol rhwng staff yn arwain at gynllunio profiadau dysgu a chwarae ysgogol... Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac ar y cyd"</i> gyda phrif ganfyddiadau Ysgol Brynaerau a Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn nodi <i>"Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog sy'n ymgysylltu a diddordebau'r disgyblion"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu <i>"Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cyfoethog sy'n adlewyrchu ei natur a'i chyd-</i>	Niwtral/ Positif

	<i>destun lleol. Mae'r athrawon yn casglu syniadau gan y disgyblion, y rhieni a'r gymuned leol wrth greu cwrwllwm perthnasol i'r disgyblion".</i> Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion. Gallai'r opsiwn ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	
Gofal, cymorth ac arweiniad	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion arweiniad a chymorth gofal Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cyfagos (dalgyrch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' neu gyda chanfyddiadau cryf. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod <i>"staff yn ymroi i gynnal safonau uchel o ofal a lles mewn amgylchedd cartrefol a chefnogol."</i> gydag arolwg Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn nodi <i>"Mae'r berthynas o barch a charedigrwydd rhwng staff a disgyblion yn gryf, sy'n cyfrannu at amgylchedd diogel ac ysgogol lle mae disgyblion yn barod i ddysgu"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu <i>"Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol. Mae'r staff yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, a pharch yn llwyddiannus"</i> . Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion. Gallai'r opsiwn ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/ Positif
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion arweinyddiaeth a rheolaeth Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cyfagos (Dalgyrch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' neu gyda chanfyddiadau cryf. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau arolwg estyn Ysgol Llanllyfni <i>"Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad clir a doeth, gan werthfawrogi cyfraniad pawb... Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd arweinwyr yn drylwyr ac effeithiol"</i> gydag arolwg Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn nodi <i>"Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac ysbrydoledig, ac mae'r staff yn rhannu a gweithredu ei gweledigaeth yn effeithiol"</i> . Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu <i>"Mae arweinyddiaeth gadarn, ddeallus ac effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol"</i> . Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion. Gallai'r opsiwn ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/ Positif
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisï'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 fel ym mhob ysgol yng Ngwynedd. Gallai'r opsiwn ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da, arbenigedd a phrofiadau rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/ Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r	Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', ac yr oedd canlyniad arolygon yr ysgolion cyfagos yn Nalgylch Dyffryn Nantlle	Niwtral/ Positif

dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	hefyd yn cyfateb i safonau Ysgol Baladeulyn. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma. Gallai'r opsiwn ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	

OPSIWN 6: YCHWANEGU ARDAL ARBENIGOL AR GYFER PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN YSGOL BALADEULYN

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Profiadau dysgu ac addysgu	Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r uned arbenigol yn effeithio ar yr ysgol, rhagwelir y gallai'r adnodd newydd gael effaith bositif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr gydag ADY yn yr ardal.	Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r uned ADY yn effeithio ar yr ysgol, rhagwelir y gallai'r adnodd newydd gael effaith bositif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr gydag ADY yn yr ardal.	Positif

OPSIWN 7: CYNNWYS UNED IAITH AR SAFLE YSGOL BALADEULYN

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Profiadau dysgu ac addysgu	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral

OPSIWN 8: AIL-GATEGOREIDDIO YSGOL BALADEULYN FEL YSGOL GYNRADD ‘HYBRID’ PRIF-FFRWD AC ADY ER MWYN CYNNIG DARPARIAETH ARBENIGOL I’R ARDAL LEOL

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o’r effaith a’r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Gan y byddai’r darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu mewn ffurf hybrid gyda darpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad prif ffrwd presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu’r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai’r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Gan y byddai’r darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu mewn ffurf hybrid gyda darpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad prif ffrwd presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu’r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai’r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Profiadau dysgu ac addysgu	Gan y byddai’r darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu mewn ffurf hybrid gyda darpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad prif ffrwd presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu’r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai’r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Gan y byddai’r darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu mewn ffurf hybrid gyda darpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad prif ffrwd presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu’r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai’r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Gan y byddai’r darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu mewn ffurf hybrid gyda darpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad prif ffrwd presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu’r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai’r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Gan y byddai’r darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu mewn ffurf hybrid gyda darpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad prif ffrwd presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu’r opsiwn yma. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai’r darpariaeth arbenigol yn effeithio ar ddarpariaeth prif ffrwd yr ysgol, rhagwelir y gallai mynediad i ddarpariaeth arbenigol gael effaith bositif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr gydag ADY yn yr ardal.	Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i’r hyn sydd ar gael i’r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Gan y byddai’r darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu mewn ffurf hybrid gyda darpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu’r opsiwn yma. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai’r darpariaeth arbenigol yn effeithio ar ddarpariaeth prif ffrwd yr ysgol, rhagwelir y gallai mynediad i ddarpariaeth arbenigol gael effaith bositif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr gydag ADY yn yr ardal.	Positif

4. CASGLIAD

Mae'r asesiad diweddaraf hwn o'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg wedi ystyried y sylwadau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, ynghyd ag asesiad o'r ystod lawn o opsiynau amgen rhesymol, gan gynnwys yr opsiynau ychwanegol a gynigiwyd gan ymgynghorai. Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd ynghylch cryfderau darpariaeth presennol Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys manteision dosbarthiadau bach, a'r gefnogaeth a ddarperir i ddysgwyr bregus neu gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Wrth ystyried opsiynau amgen rhesymol megis ail-gategoreiddio'r ysgol i fod yn ysgol 'hybrid' prif lif ac ADY, trefniadau ffederaleiddio, ac ychwanegu unedau arbenigol ar safle'r ysgol, dengys yr asesiad y gallai'r rhain gael effaith niwtral neu rannol gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg mewn cyd-destunau penodol.

Ar sail cymharu canfyddiadau arolygiadau Estyn a'r dystiolaeth a gyflwynwyd drwy'r asesiad, deuir i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol a gynigir yn Ysgol Talysarn yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd, fan lleiaf. Yn ogystal, nodir bod niferoedd dysgwyr yr ysgol amgen, Ysgol Talysarn, yn galluogi cyfleoedd ehangach i addysgu dysgwyr mewn grwpiau oed berthnasol, gyda chyfoedion oed-berthnasol, gan ehangu profiadau dysgu a chynnig manteision posibl i brofiadau addysgu a dysgu.

O ganlyniad, dengys yr asesiad mai niwtral/rhannol bositif yw'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg o weithredu'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn a darparu addysg i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.

**ASESIAD EFFAITH TEBYGOL AR DREFNIADAU
TEITHIO –
YSGOL BALADEULYN**

Mai 2026

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cefndir

Mae Ysgol Baladeulyn yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Nantlle, sydd rhyw dair milltir o Benygroes, ac sydd yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3-11 oed. Mae gostyngiad wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, Ionawr 2026, dim ond 6 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 ac 2 dysgwyr Meithrin sy'n mynychu'r ysgol.

Yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda rhanddeiliaid Ysgol Baladeulyn er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Baladeulyn ymhle cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau.

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Rhagfyr a 28 Ionawr, a derbyniwyd 30 ymateb i'r ymgynghoriad.

1.2 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

Mae strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' yn anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (nid yw'n cynnwys dysgwyr meithrin). Disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni: [Gwybodaeth i Rieni](#)

2. ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL POB OPSIWN AR DREFNIADAU TEITHIO

2.1 Nodir isod effaith tebygol pob opsiwn ar drefniadau teithio:

- Gwneud dim - parhau gyda'r sefyllfa bresennol

Byddai'r opsiwn yma yn golygu na fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol yn dalgylch Ysgol Baladeulyn.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Gan ystyri'r Ysgol Talysarn fel yr ysgol gyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn, a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Ysgol Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn.*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Gan ystyri'r Ysgol Talysarn fel yr ysgol gyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol rhwng 3 ysgol gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer uned ADY yn Ysgol Baladeulyn.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.

- Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfaagos (Ysgol Talysarn)

Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.

Mae Ysgol Talysarn wedi ei lleoli 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn. Dyma'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Baladeulyn.

Byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar drefniadau teithio dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu yn Ysgol Talysarn. Byddai angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn i Ysgol Talysarn, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd. Rhagwelir costau cludiant ychwanegol (amcan gost) rhwng £17,000 hyd at £30,000 y flwyddyn. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol, na cherdded neu feicio ar lwybrau peryglus i'r ysgol.

- Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle

Mi fyddai'r opsiwn yma yn golygu uno nifer o ysgolion lleol fel un ysgol ar draws nifer o safleoedd gan gynnwys safle Ysgol Baladeulyn.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn. Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn ar safle Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng ysgolion.

- Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant aq anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gyda Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu ardal benodol arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu Uned Iaith ar safle'r ysgol. Byddai'n cynnig gwasanaeth trochi i'r plant yn y Gymraeg sydd ei angen cyn ymuno a'u hysgolion dewisol yn llawn amser.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch

Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned iaith.

Opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:

- *Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol i'r ardal leol.*

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr presennol yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynol ar natur y ddarpariaeth hybrid ADY, gallai fod angen i'r awdurdod ystyried trefniadau cludiant ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu'r ddarpariaeth o ddalgylchoedd eraill, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

2.2 Opsiynau cludiant di-dâl

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf.

Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Nodir fod nifer o fysus ysgol yn rhedeg yn yr ardal. Nid oes yr un o'r bysus ysgolion cynradd yn rhedeg rhwng Baladeulyn a Talysarn i fedru manteisio ar un o'r rhan.

2.3 Crynodeb o'r effaith tebygol ar drefniadau teithio

Mae crynodeb isod o'r effaith ar drefniadau teithio yr opsiynau dan ystyriaeth:

Opsiynau	Yr effaith debygol ar drefniadau teithio i ddysgwyr	Yr effaith debygol ariannol blyneddol ar drefniadau teithio i'r Awdurdod
Gwneud dim - Parhau gyda'r sefyllfa bresennol	Niwtral – Dim newid Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	£0
Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.	£0

	Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	
Ffederaleiddio gyda ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.	£0 Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.
Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)	Negyddol Mae Ysgol Talysarn wedi ei lleoli 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn fyddai'n mynychu Ysgol Talysarn ac yn byw fwy na 2 filltir o'r ysgol, yn unol â Pholisi Cludiant yr Awdurdod. Wedi ystyried niferoedd presennol (Ionawr 2026), rhagwelir y byddai angen trefnu bws 8 sedd i gludo dysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn (fyddai'n gymwys am gludiant yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd) i Ysgol Talysarn. Rhagwelir y byddai hyn ar gost o hyd at £17,000 y flwyddyn. Pe byddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr y dalgylch i'r dyfodol, yna fe all olygu y byddai angen darparu bws ysgol er mwyn cludo dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn fyddai'n gymwys am gludiant (yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd). Rhagwelir y byddai hyn ar gost o hyd at £30,000 y flwyddyn. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol, neu disgwyl iddynt gerdded neu beicio ar lwybrau peryglus i'r ysgol. Codwyd pryderon penodol yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch addasrwydd llwybrau cerdded a beicio rhwng y ddau bentref, gan gyfeirio at ffyrdd cul, traffig cyflym, diffyg palmentydd, problemau llifogydd a diffyg seilwaith teithio llesol. Mynegwyd y farn nad yw'r llwybrau hyn yn addas nac yn ddiogel i blant oed cynradd, ac felly nad yw cerdded neu feicio i'r ysgol amgen yn opsiwn. Nodwyd y byddai rhai dysgwyr yn colli'r gallu presennol i gerdded neu feicio i'r ysgol yn ddiogel, gan leihau annibyniaeth a hyder yn ogystal âg arwain at deithiau dyddiol hirach. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd ynghylch addasrwydd a diogelwch llwybrau cerdded a'r ffordd rhwng Nantlle a	£17,000 - £30,000

	Thalysarn. Yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd a nodir yn y Llawlyfr i Rieni, mae asesiadau llwybrau cerdded yn seiliedig ar y llwybr byrraf sydd, ar ôl asesiad, nad yw'n cael ei ystyried yn arbennig o beryglus. Lle nodir bod llwybr yn annerbyniol o safbwynt diogelwch, neu lle nad yw'n rhesymol disgwyl i blentyn oed cynradd gerdded y llwybr yn ddiogel, mae'r Cyngor yn darparu cludiant ysgol yn unol â'r polisi. Yn yr achos hwn, mae'r Asesiad Effaith ar Deithio yn nodi'r materion a godwyd ynghylch addasrwydd cerdded, ac mae'n seiliedig ar y ffaith y byddai cludiant ysgol yn cael ei ddarparu i'r dysgwyr hynny sy'n gymwys yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd a nodir yn y Llawlyfr i Rieni. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr dalgylch Ysgol Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol na cherdded ar lwybrau peryglus i'r ysgol pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mynegwyd pryderon ymarferol ac ariannol ynghylch cludiant i blant 3 a 4 oed nad ydynt eto mewn addysg statudol hefyd. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a galwad am sicrwydd ynghylch cludiant i blant 3 a 4 oed nad ydynt eto mewn addysg statudol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant ysgol yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol Cyngor Gwynedd, sy'n darparu cludiant ysgol am ddim i ddysgwyr hyd at oed cynradd sy'n gymwys, yn bennaf ar sail pellter (mwy na 2 filltir o'r ysgol berthnasol) neu lle bo'r llwybr cerdded yn cael ei asesu'n anniogel. Nid yw dysgwyr meithrin yn gymwys o dan y polisi. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cludiant dibynadwy i deuluoedd. Fodd bynnag, nid yw cludiant ysgol, fel arfer, yn cael ei ddarparu i hwyluso mynediad at wasanaethau ychwanegol, ac mae trefniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn unol â'r polisi cludiant a'r meini prawf statudol perthnasol. Amlygwyd pryderon penodol hefyd ynghylch diffyg cludiant cyhoeddus addas, amserlenni annibynadwy a lefelau is o berchnogaeth car. Nodwyd bod hyn yn peri her fawr i deuluoedd nad ydynt yn gyrru, teuluoedd incwm is, rhieni sengl a theuluoedd lle mae anableddau neu symudedd cyfyngedig yn ffactor, gan wneud teithio dyddiol i ysgol ymhellach i ffwrdd yn anodd iawn yn ymarferol. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn ac yn nodi, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael ei gynnwys o fewn dalgylch diwygiedig Ysgol Talysarn. O ystyried bod Ysgol Talysarn wedi'i lleoli tua 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn, byddai dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn sy'n gymwys o dan y polisi yn cael cynnig cludiant ysgol a drefnir gan y Cyngor. Er y cydnabyddir y byddai rhai dysgwyr yn teithio pellter pellach na'r presennol, ni ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr o ddalgylch Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol. Bydd trefniadau cludiant yn cael	

	eu cynllunio i leihau unrhyw effaith negyddol bosibl ar ddysgwyr a theuluoedd.	
Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu ar safle Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y byddai angen trefnu cludiant rhwng ysgolion.	£0
Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol	£0 Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.
Cynnwys Uned Iaith ar safle Ysgol Baladeulyn	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwyr yr uned iaith.	£0 Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned iaith.

2.4. Opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad:

Opsiynau	Yr effaith debygol ar drefniadau teithio i ddysgwyr	Yr effaith debygol ariannol blynyddol ar drefniadau teithio i'r Awdurdod
Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth	Niwtral Byddai'r dysgwyr prif ffrwd yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr prif ffrwd yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	£0 ar gyfer dysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn. Gallai costau godi pe bai cludiant yn cael ei ddarparu i ddysgwyr o ddalgylchoedd eraill, fyddai'n mynychu'r ddarpariaeth arbenigol.

arbenigol i'r ardal leol.	Yn ddibynnol ar natur y ddarpariaeth hybrid ADY, gallai fod angen i'r awdurdod ystyried trefniadau cludiant ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu'r ddarpariaeth o ddalgylchoedd eraill, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.	

3. CASGLIAD

Wrth ystyried yr holl opsiynau dan sylw, daw'r asesiad effaith i'r casgliad nad yw'r mwyafrif o'r opsiynau a aseswyd yn debygol o gael effaith negyddol ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r ddarpariaeth addysgol yn parhau ar safle'r ysgol, ac ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol.

Ni ragwelir y byddai effaith negyddol ar drefniadau teithio dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn deillio o weithredu'r unrhyw un o'r opsiynau a restrir uchod (adran 2), ac eithrio'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.

Fodd bynnag, cydnabyddir yn glir, fel y nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, fod y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn yn wahanol ei natur, gan y byddai'n arwain at newid i drefniadau teithio. Yn benodol, bu i ymgynghorai fynegi pryderon ynghylch diogelwch ac addasrwydd llwybrau cerdded a'r ffyrdd i blant oed cynradd, darpariaeth cludiant i blant 3 a 4 oed, sicrwydd cludiant i holl ddysgwyr presennol yr ysgol, a'r effaith ar deuluoedd mewn ardal wledig.

Pe byddai'r opsiwn o gau Ysgol Baladeulyn a chynnig addysg i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y byddai effaith ar drefniadau teithio i'r dysgwyr. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol, a ni fydd disgwyl iddynt gerdded neu beicio ar lwybrau peryglus i'r ysgol.

Wrth ystyried y data niferoedd diweddaraf, sef Ionawr 2026, rhagwelir y byddai angen trefnu bws 8 sedd er mwyn cludo dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn fyddai'n gymwys am gludiant (yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd) i Ysgol Talysarn. Amcangyfrifir i'r costau cludiant hyn fod oddeutu £17,000 y flwyddyn.

Pe byddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr y dalgylch i'r dyfodol, yna fe all olygu y byddai angen darparu bws ysgol er mwyn cludo dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn fyddai'n gymwys am gludiant (yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd). Amcangyfrifir i'r costau cludiant hyn fod oddeutu £30,000 y flwyddyn.

O ganlyniad, rhagwelir y byddai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn yn arwain at gostau cludiant ychwanegol i'r Awdurdod. Amcangyfrifir i'r costau hyn fod oddeutu £17,000-£30,000 y flwyddyn i ddarparu cludiant pe byddai holl ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn yn dewis mynychu Ysgol Talysarn.

ASESIAD O'R EFFAITH DEBYGOL AR Y GYMUNED – YSGOL BALADEULYN

Mai 2026

1. CYFLWYNIAD

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer trefniadaeth ysgolion, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnal asesiad o effaith debygol ar y gymuned, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Cefndir

Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei leoli ym mhentref Nantlle ar gyrion Penygroes ac yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn dros y 10 mlynedd diwethaf. Erbyn Ionawr 2026, dim ond 6 dysgwr Derbyni i Flwyddyn 6 a 2 dysgwr Meithrin sy'n mynychu'r ysgol.

Yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda rhanddeiliaid Ysgol Baladeulyn er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer yr dyfodol. Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Baladeulyn ymhle cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau.

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Rhagfyr a 28 Ionawr, a derbyniwyd 30 ymateb i'r ymgynghoriad.

2. YR OPSIYNAU

Bu i'r Awdurdod ystyried a thrafod nifer o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys:

- Gwneud dim – parhau gyda'r sefyllfa presennol
- Ffederaleiddio gydaq ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Gan ystyried Ysgol Talysarn fel yr ysgol gyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

- Ffederaleiddio gydaq ysgol gyfagos qan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant aq anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Gan ystyried Ysgol Talysarn fel yr ysgol gyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol rhwng 3 ysgol gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer uned ADY yn Ysgol Baladeulyn.

- Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, ac y byddai dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael cynnig lle yn Ysgol Talysarn (yr ysgol amgen).

- Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Baladeulyn. Byddai'r opsiwn yn galluogi'r posibilrwydd o rannu adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb safle ysgol ym mhentref Nantlle trwy sefydlu ysgol aml-safle, dan arweiniad pennaeth ac un corff llywodraethol.

- Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant aq anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu ardal benodol arbenigol i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol.

- Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu Uned iaith ar safle'r ysgol. Byddai'n cynnig gwasanaeth trochi i'r plant yn y Gymraeg sydd ei angen cyn ymuno a'u hysgolion dewisol yn llawn amser.

Opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:

- Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol i'r ardal leol

Byddai'r opsiwn yma yn golygu ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd sydd yn cynnwys addysg arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol. Byddai'r opsiwn hyn yn cynnig addysg hybrid i ddysgwyr cynradd yn yr ardal leol i fynychu Ysgol Baladeulyn fel ysgol prif ffrwd a/neu gyda mynediad i ddarpariaeth addysg arbenigol ADY.

3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

3.1 Yr Ardal

Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei leoli ym mhentref gwledig Nantlle ger pentref Talysarn a Penygroes yng Ngwynedd ac o fewn ward Llanllyfni. Yn ôl cyfrifiad 2021, mae 1,957 o bobl yn byw yn ward Llanllyfni. Mae dalgylch Ysgol Baladeulyn yn cynnwys rhan o ward Dolbenmaen, rhan o ward Glaslyn a rhan o ward Waunfawr yn ogystal â rhan o ward Llanllyfni.

3.2 Yr Economi

Yn Cyfrifiad 2021, mae 55.5% o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Llanllyfni yn weithgar yn economaidd, a 3.7% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 43.2% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 5.9% o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (19.9%) yn gweithio yn y maes iechyd a gwaith cymdeithasol (Cyfrifiad 2021).

Yn ôl data 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025)' mae cyfradd cyflogaeth ward Llanllyfni a Chlynnog o gymharu â wardiau eraill yng Nghymru yn rhoi ranc o 1152 allan o 1917 o wardiau. Felly, mae ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 50% lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

3.3 Amddifadedd

Mae ward Llanllyfni a Chlynnog wedi 'w raddio o fewn y 20%-30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (ranc 546 allan o 1917 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai.

Nodir fod ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Yn ogystal, mae ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.

Mae crynodeb isod o sut y mae ardal Llanllyfni a Chlynnog wedi ei lleoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025):

Maes	Ranc yng Nghymru, allan o 1917 o ardaloedd. (1 = mwyaf difreintiedig a 1917 = lleiaf difreintiedig)	Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru
Cyflogaeth	1152	
Incwm	778	
Iechyd	1247	
Addysg	835	
Tai	47	O fewn y 10% mwyaf difreintiedig
Amgylchedd ffisegol	448	
Mynediad i wasanaethau	86	O fewn y 10% mwyaf difreintiedig
Diogelwch cymunedol	767	

3.4 Y Gymuned

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yn ardal Nantlle, gan gynnwys;

- Ras Tal y Mignedd
- Gŵyl Dewi
- Trigonos Plas Baladeulyn
- Llys Llywelyn
- Gwasanaethau Nadolig

4. YSGOL BALADEULYN A'R YSGOLION CYFAGOS

4.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn, gosodir yr ysgolion o fewn cyd-destun, a manylir ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn gan arolygwyr Estyn.

Ysgol Baladeulyn

"Lleolir Ysgol Gynradd Baladeulyn ym mhentref Nantlle wrth droed yr Wyddfa, rhyw dair milltir o Ben-y-groes yng Ngwynedd."

Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Tachwedd 2017

Ysgol Talysarn

“Mae ffederasiwn Talaerau, sy’n cynnwys ysgolion Talysarn a Brynaerau, yn gymuned gynnes a gofalgwr lle mae lles a chynnydd disgyblion yn greiddiol i’w ethos”

Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Tachwedd 2025

4.2 Gwybodaeth ystadegol

Dengys y tabl isod niferoedd Ysgol Baladeulyn a’r ysgolion eraill o fewn dalgylch Ysgol Dyffryn Nantlle. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti’r ysgol a nifer ar y gofrestr yn Ionawr 2026. Mae pob ysgol yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgol	Capasiti Llawn (M – Bl6)	Nifer ar y gofrestr Ionawr 2026 (M – Bl6)	Categori Cyfreithiol	Categori leithyddol
Baladeulyn	62	8	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg, Categori 3
Talysarn	104	98	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg, Categori 3
Bro Lleu	207	189	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg, Categori 3
Llanllyfni	117	71	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg, Categori 3
Nebo	58	12	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg, Categori 3
Brynaerau	81	54	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg, Categori 3
Bro Llifon	196	149	Ysgol Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg, Categori 3

Ffynhonnell: CYBLD Ionawr 2026

4.3 Gwybodaeth dalgylchol a dewis ysgolion dysgwyr

Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae’n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddysgwyr fynychu eu hysgol dalgylch, mae’r dewis i fyny i rieni (yn unol â’r polisi mynediad).

Dengys y data diweddaraf (data Ionawr 2026) fod 75% o’r plant sy’n byw yn dalgylch Ysgol Baladeulyn yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Mae’r tabl isod yn nodi cyfran y dysgwyr (Meithrin – Bl.6) sy’n byw yn y dalgylch ac yn mynychu’r ysgol dalgylch, a’r gyfran o ddysgwyr o du i’r dalgylch sy’n mynychu’r ysgol.

Ysgol	Cyfran o ddysgwyr y dalgylch sy’n mynychu’r ysgol dalgylch	Cyfran o ddysgwyr yr ysgol sy’n byw yn nalgylch yr ysgol	Cyfran o ddysgwyr o du allan i’r dalgylch sy’n mynychu’r ysgol.
Baladeulyn	25%	25%	75%
Talysarn	81%	79%	21%

Ffynhonnell: Data GIS Ionawr 2026

4.4 Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yng nghymuned Baladeulyn a Talysarn (Medi 2025)

	Baladeulyn	Talysarn
Canolfan Gymuned / Neuadd Bentref	✓	✓
Capel/Eglwys	✓	
Trafnidiaeth Gyhoeddus	✓	✓
Siop		
Caffi/Tafarn		
Swyddfa Bost		
Fferyllfa		
Llyfrgell		
Cae Chwarae Plant	✓	✓
Banc		
Cartref Henoed		
Canolfan Hamdden		
Garej	✓	
Atyniad Twristaidd	✓	
Cylch Ti a Fi + Meithrin		✓

Canolfan Gymunedol

Mae Canolfan Llys Llywelyn wedi ei leoli ym mhentref Nantlle sydd 0.5 milltir oddi wrth Ysgol Baladeulyn ac yn cynnal nifer o weithgareddau cymunedol gan gynnwys:

- Ffair Haf
- Ffair Nadolig
- Cyngherddau
- Bore Coffi
- Marchnad

4.5 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol:

Mae crynodeb o ddefnydd cymunedol neu all-gwricwlaidd o adeiladau'r ysgolion lleol isod:

	Baladeulyn	Talysarn	Brynaerau	Bro Llifon	Bro Lleu	Llanllyfni	Nebo
Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)							
Aelwyd yr Urdd						✓	
Dramâu							
Grwpiau Gwirfoddol						✓	✓
Bore/Noson Goffi	✓	✓	✓			✓	✓
Arwerthiant Cymunedol							
Ymarfer Côr							
Cymraeg i Oedolion							

Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned							
Cylch/Ysgol Feithrin						✓	
Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon				✓		✓	
Clwb ar ôl Ysgol		✓	✓	✓	✓	✓	
Clwb Diddordeb Lleol							✓

Mae Cylch Meithrin wedi ei leoli ym mhentref Talysarn sy'n darparu gofal ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg i blant cyn-ysgol. Mae'r cyd-weithio rhwng Ysgol Talysarn a'r Cylch yn golygu trosglwyddiad esmwyth i'r plant o'r Cylch i'r dosbarth meithrin. Mae'r Cylch yn darparu lleoedd i blant rhwng 2 a 4 oed, ac yn cynnig ddarpariaethau Dechrau'n Deg, y cynnig 10 awr Addysg Feithrin (Dysgu Sylfaen), ynghyd a darparu gofal cofleidol i blant oed meithrin Ysgol Talysarn ac ysgolion cyfagos. Mae Cylch Meithrin hefyd yn rhan o'r Cynllun Gofal Plant, sef cynllun sy'n cynnig hyd at 30 awr yr wythnos o ofal plant blynyddoedd cynnar am ddim. Mae plant yn gallu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant o ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd tan y Medi ar ôl iddynt droi'n 4.

Nid oes darpariaeth blynyddoedd cynnar yn Ysgol Baladeulyn, ac eithrio dosbarth Meithrin yr ysgol.

4.6 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw:

	Baladeulyn	Talysarn
Cylch Meithrin/Ti a Fi		✓
Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)		
Adrannau'r Urdd		
Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)		✓

4.7 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned ble y byddent yn cael eu darparu os caiff yr ysgol ei chau?

Ysgol	Ble darparir cyfleusterau pe bai'n cau
Baladeulyn	Yn ôl y Pennaeth yn Tachwedd 2025, mae'r ysgol yn gwahodd y gymuned i'r ysgol ar gyfer gweithgareddau'r ysgol o fewn oriau'r ysgol a thu allan i oriau'r ysgol fel nosweithiau coffi, cyflwyniadau gan y plant a gwasanaethau. Er hyn, mae Canolfan Llys Llywelyn ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau yn yr ardal yn ogystal a Trigonos Plas Baladeulyn.

4.8 Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch

Mae'r tabl isod yn nodi pellter ac amser teithio rhwng Ysgol Baladeulyn ac ysgolion yr ardal. Gwelwn mai Ysgol Talysarn yw'r agosaf at Ysgol Baladeulyn. Mae'r amseroedd teithio isod yn ystyried natur y lonydd a'r effaith y gall hynny ei gael ar amser teithio mewn ardal wledig.

Ysgol		Baladeulyn
Talysarn	Milltir	2.5
	Munudau	6
Bro Lleu	Milltir	3.3
	Munudau	7
Llanllyfni	Milltir	3.7

	Munudau	10
Nebo	Milltir	5.2
	Munudau	14
Brynaerau	Milltir	6
	Munudau	16
Bro Llifon	Milltir	6.3
	Munudau	13

Ffynhonnell: Mapiau Google 2026

5. ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR Y GYMUNED

Er mwyn asesu effaith cymunedol yr opsiynau posib, penderfynwyd creu meini prawf yn unol ag argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

OPSIWN 1: GWNEUD DIM – PARHAU GYDA'R SEFYLLFA BRESENNOL

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni fydd unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir unrhyw newid i'r effaith ar iechyd a llesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan na fyddai unrhyw newid i'r ddarpariaeth gyfredol ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Baladeulyn ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol a Polisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Ni fyddai newid i'r ddarpariaeth felly ni ragwelir unrhyw effaith ar ddefnydd presennol yr ysgol.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni fyddai newid i'r ddarpariaeth felly ni ragwelir unrhyw effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni fyddai newid i'r ddarpariaeth. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni fyddai unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith ar wasanaethau eraill lleol.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni fuasai unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni fyddai unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith ar y gymuned leol.	Niwtral

OPSIWN 2: FFEDEREIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS (YSGOL TALYSARN)

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir effaith ar iechyd a llesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Baladeulyn ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar sut mae rhieni yn dewis ysgol i'w plant nac yn effeithio ar ddewis byw yn y dalgylch neu ddim. Mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%). O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Gan y byddai ffedereiddio y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd, felly ni ragwelir unrhyw effaith ar wasanaethau eraill lleol.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd, felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd, felly ni ragwelir unrhyw effaith ar y gymuned leol. Fodd bynnag, nodir cyfleoedd i gymuned Baladeulyn a chymunedau'r ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn i ddod at ei gilydd.	Niwtral

OPSIWN 3: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS GAN YCHWANEGU ARDAL ARBENIGOL AR GYFER PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN YSGOL BALADEULYN

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond fel rhan o ffederasiwn gydag ysgol gyfagos, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond fel rhan o ffederasiwn gydag ysgol gyfagos, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Baladeulyn ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag darpariaeth uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, na bod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. Dylid nodi fod canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch eisoes (75%).	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi'i lleoli ar safle'r ysgol. Fodd bynnag, nodir cyfleoedd i gymuned Baladeulyn a chymunedau'r ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn i ddod at ei gilydd.	Niwtral

OPSIWN 4: CAU YSGOL BALADEULYN A CHYNNIG LLE I'R DYSGWYR MEWN YSGOL GYFAGOS (TALYSARN)

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar lechyd a llesiant	Rhagwelir y byddai bod mewn ysgol mwy yn cynnig mwy o gyfleoedd chwarae a chymryd rhan mewn chwaraeon tîm ac felly yn cyfrannu'n bositif tuag at iechyd a llesiant dysgwyr. Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd rhai pryder y byddai rhai dysgwyr yn colli'r gallu presennol i gerdded neu feicio i'r ysgol yn ddiogel, gan leihau annibyniaeth a hyder yn ogystal ag arwain at deithiau dyddiol hirach. Gan fod yr ysgol amgen wedi ei lleoli tua 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn, ac ymhellach o gartrefi dysgwyr y dalgylch, ni ragwelir y byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn debygol o gerdded na feicio i'r ysgol amgen, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Byddai cludiant ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant yr Awdurdod, sy'n darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr cynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol dalgylch neu'r ysgol agosaf. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fydd yr effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y bydd unrhyw gludiant i'r ysgol amgen yn sgil unrhyw newid yn cael ei drefnu yn benodol ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn unol â Polisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Yn ôl y Pennaeth yn Tachwedd 2025, mae'r ysgol yn gwahodd y gymuned i'r ysgol ar gyfer gweithgareddau'r ysgol o fewn oriau'r ysgol a thu allan i oriau'r ysgol fel nosweithiau coffi, cyflwyniadau gan y plant a gwasanaethau. Er hyn, mae Canolfan Llys Llywelyn ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau yn yr ardal yn ogystal â Trigonos Plas Baladeulyn. Pe byddai'r ysgol yn cau, byddai'n rhaid ystyried y darpariaethau hyn wrth drafod ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol.	Negyddol
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd gan rai ymatebwyr y gallai colli'r ysgol fel adnodd cymunedol ddylanwadu'n negyddol ar y nifer o deuluoedd ifanc sydd yn symud i'r pentref. Hefyd, mynegwyd y gallai symud addysg y plant i gymuned arall wanhau cysylltiadau lleol a lleihau ymdeimlad o berthyn. Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%), gyda 50% o ddysgwyr Meithrin i Blwyddyn 6 o ddalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu Ysgol Talysarn. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r ysgol yn cau. Yn ogystal, o ystyried bod yr ysgol amgen wedi ei lleoli 2.5 milltir o Ysgol Talysarn, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu y byddai teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Baladeulyn, byddai'r Cyngor yn ceisio liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nantlle a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd Nantlle yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fydd yr effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral

Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Mae nifer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn Ganolfan Llys Llywelyn. Gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar ddefnydd cymunedol o Ganolfan Llys Llywelyn.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Gan fod mwyafrif o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch, ni ragwelir y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn cael effaith ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, tynnwyd sylw at rôl yr ysgol wrth hwyluso rhyngweithio cymdeithasol dyddiol rhwng teuluoedd a thrigolion lleol. Mynegwyd pryder y byddai cau'r ysgol yn lleihau cyfleoedd i bobl gyfarfod, cymdeithasu a chynnal cysylltiadau cymunedol anffurfiol. Yn ogystal, tynnwyd sylw at rôl yr ysgol wrth hwyluso rhyngweithio cymdeithasol dyddiol rhwng teuluoedd a thrigolion lleol, yn ogystal â integreiddio teuluoedd newydd i fywyd Cymraeg y pentref. Mae'r Cyngor yn cydnabod y byddai peth effaith negyddol debygol ar rai agweddau cymdeithasol a chymunedol leol pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn, megis cyfleoedd i rieni/gwarchodwyr/teuluoedd a thrigolion lleol cyfarfod yn ddyddiol yn y gymuned wrth ollwng a chasglu'r plant o'r ysgol. Yn ogystal, pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, cydnabyddir y byddai'r ysgol leol yn bellach o gartrefi o fewn dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn, ac o safbwynt amddifadedd golyga hyn fod un o ddangosyddion 'mynediad i wasanaethau' yn pellhau oddi wrth drigolion yr ardal. O ganlyniad, rhagwelir y bydd peth effaith negyddol ar y gymuned leol pe byddai'r ysgol yn cau. Fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), sydd yn awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Baladeulyn, byddai'r Cyngor yn ceisio liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nantlle a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd Nantlle yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen. Yn ogystal, nodir mai pe byddai'r cynnig i gau'r ysgol yn cael ei wireddu, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol. Nodir bod Canolfan Llys Llywelyn ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol yn yr ardal yn ogystal â Trigonos Plas Baladeulyn.	Negyddol

OPSIWN 5: UNO YSGOLION LLEOL ER MWYN CEFNOGI A CHYNNAL YSGOL BALADEULYN – YSGOL AML-SAFLE

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a Llesiant	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Baladeulyn yn parhau, ni rhagwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio'n negyddol ar iechyd a llesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Baladeulyn yn parhau, ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu. Byddai unrhyw gludiant fyddai ei angen i safle Ysgol Baladeulyn ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Polisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y byddai safle Ysgol Baladeulyn yn parhau fel rhan o'r ysgol aml-safle, ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma yn cael effaith ar gyfleusterau/gwasanaethau eraill ar ddarperir yn yr ysgol.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach, gan y byddai ddarpariaeth addysg yn parhau ar safle Ysgol Baladeulyn.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir unrhyw effaith ar y meini prawf yma, gan y byddai ddarpariaeth addysg yn parhau ar safle Ysgol Baladeulyn.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Gan y byddai safle Ysgol Baladeulyn yn parhau fel rhan o'r ysgol aml-safle, ni ragwelir effaith ar wasanaethau eraill lleol.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd, felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Gan y byddai safle Ysgol Baladeulyn yn parhau, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gyffredinol ar y gymuned leol pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu.	Niwtral

**OPSIWN 6: YCHWANEGU ARDAL ARBENIGOL AR GYFER DYSGWYR AG ANGHENION DYSGU
YCHWANEGOL YN YSGOL BALADEULYN**

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a Llesiant	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y meini prawf hwn gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag darpariaeth uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. Dylid nodi fod canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch eisoes (75%).	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral

OPSIWN 7: CYNNWYS UNED IAITH AR SAFLE YSGOL BALADEULYN

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y meini prawf hwn gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral

OPSIWN 8: AIL-GATEGOREIDDIO YSGOL BALADEULYN FEL YSGOL GYNRADD ‘HYBRID’ PRIF-FFRWD AC ADY ER MWYN CYNNIG DARPARIAETH ARBENIGOL I’R ARDAL LEOL

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o’r effaith a’r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni ragwelir y byddai’r opsiwn yma’n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf ‘hybrid’.	Niwtral
Goblygiadau’r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir y byddai’r opsiwn yma’n cael effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf ‘hybrid’ ar y safle.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Ni ragwelir y byddai’r opsiwn yma’n cael effaith ar y meini prawf hwn gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf ‘hybrid’ ar y safle.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai’r opsiwn yma’n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf ‘hybrid’ ar y safle.	Niwtral
A fyddai’r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i’r gymuned	Ni ragwelir y byddai’r opsiwn yma’n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i’r gymuned, gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf ‘hybrid’ ar y safle. Dylid nodi fod canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch eisoes (75%).	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai’r opsiwn yma’n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf ‘hybrid’ ar y safle.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai’r opsiwn yma’n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf ‘hybrid’ ar y safle.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai’r opsiwn yma’n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf ‘hybrid’ ar y safle.	Niwtral

6. CASGLIAD

Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymuned hwn wedi'i lunio fel asesiad pellach yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, ac mae wedi ystyried yn llawn yr holl opsiynau gwreiddiol a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, ynghyd â opsiwn amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorai fel rhan o'r ymgynghoriad statudol.

Dengys yr asesiad mai niwtral fyddai'r effaith debygol ar y gymuned leol pe gweithredir yr opsiwn amgen sy'n golygu parhau â phresenoldeb ysgol weithredol ar safle Ysgol Baladeulyn. Mae hyn yn cynnwys ail-gategoreiddio'r ysgol fel ysgol 'hybrid' prif lif ac ADY. Yn yr achos hyn, byddai presenoldeb ysgol prif lif weithredol yn cael ei gadw yn y pentref, gyda'r opsiwn hybrid i ddarparu addysg arbenigol ADY i ddysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Dengys yr asesiad y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nantlle. Cydnabyddir y pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch goblygiadau hyn ar fywiogrwydd y gymuned; fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli.

Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Baladeulyn, byddai'r Cyngor yn ceisio liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nantlle a'r ysgol amgen, Ysgol Talysarn, a hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol i sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen. Yn ogystal, pe bai penderfyniad i gau'r ysgol, byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio liniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol.

ASESIAD EFFAITH IEITHYDDOL – YSGOL BALADEULYN

Mai 2026

1. CYFLWYNIAD

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau iaith yn allweddol bwysig i strategaethau addysg y Sir.

Mae Ysgol Baladeulyn yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Nantlle, sydd rhyw dair milltir o Benygroes, ac sydd yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3-11 oed. Mae gostyngiad wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, Ionawr 2026, dim ond 6 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 a 2 dysgwyr Meithrin sy'n mynychu'r ysgol.

Yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda rhanddeiliaid Ysgol Baladeulyn er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Baladeulyn ymhle cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau.

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Rhagfyr a 28 Ionawr, a derbyniwyd 30 ymateb i'r ymgynghoriad.

1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

Mae ffigyrau yng Nghyfrifiad 2021 yn nodi fod 66% o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2021 hefyd yn nodi bod 64% yn siarad Cymraeg sydd yn ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, pan oedd y ffigwr yn 65%.

Yng Ngwynedd, fel mewn sawl Awdurdod Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Ar un eithaf, mewn wardiau megis Aberdyfi, Tywyn a Canol Bangor mae rhwng 26% a 44% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bod cymaint â 86% yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymreig e.e. Hendre a Llanrug.

1.2 Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ddogfen statudol yr Awdurdod Lleol ac yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg (yn unol â thargedau *Cymraeg 2050*). Mae 7 deiliant y disgwylir i Awdurdodau Lleol eu gweithredu er mwyn gwireddu'r deilliannau, sef:

1. Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Cymraeg.
2. Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Mwy o blant yn parhau i wella sgiliau eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.
4. Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.

6. Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018).
7. Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

1.3 Polisi Iaith

Cynradd

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob dysgwr i fod yn hyfedr yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gfael dysgwyr ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

Uwchradd

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob dysgwr sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef lefel 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y dysgwyr hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11.

Mae'r ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob dysgwr yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddysgwyr y Sir fod yn hyfedr ddwyieithog.

1.4 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050

Cymraeg 2050 yw strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ac mae'n cwmpasu'r tri degawd nesaf. Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith ynghyd â'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae nodau Cymraeg 2050 yn cynnwys:

	Nod	Targed
1.	Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg	1 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050
2.	Cynyddu defnydd o'r Gymraeg	Defnyddwyr dyddiol o'r Gymraeg yn cynyddu o 10% i 20%

Pwysleisia'r ddogfen strategol *Cymraeg 2050*: Miliwn o siaradwyr bwysigrwydd cynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg ond hefyd pwysleisir fod cynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yr un mor bwysig.

Mae symud i sefyllfa lle mae miliwn o siaradwyr yn un agwedd ar ein gweledigaeth ar gyfer ffyniant y Gymraeg. Ond mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn iaith sy'n cael ei defnyddio. Rydym am i'r defnydd o'r Gymraeg fod yn rhan arferol o fywyd bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol..... Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013–15 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2015) mae cysylltiad clir rhwng rhuglder a pha mor aml y defnyddir y Gymraeg – mae 84% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad Cymraeg bob dydd.

Ffynhonnell: Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017)

1.5 Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033

Mae Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar Gyngor Gwynedd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd fydd yn dangos sut y bwriedir mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar draws y sir. Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033 yw strategaeth ddiweddaraf Cyngor Gwynedd ar gyfer y Gymraeg. Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith:

	Sut byddwn yn cynyddu nifer siaradwyr?	Sut byddwn yn mesur ar lefel leol, ac yn ystod cyfnod y strategaeth?
1.	Rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc nad ydynt eto yn siaradwyr Cymraeg (e.e. newydd-ddyfodiaid, plant sydd ddim yn derbyn addysg prif ffrwd), i ddysgu a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.	Nifer y plant sydd yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Nifer plant sydd yn cael cefnogaeth drwy gyfundrefn drochi'r Adran Addysg.
2.	Rhoi cyfleoedd i oedolion ddod yn siaradwyr newydd drwy gynlluniau cefnogi dysgwyr y Cyngor a darpariaeth gymunedol partneriaid.	Nifer gweithwyr y Cyngor sydd yn derbyn gwersi dysgu Cymraeg. Darpariaeth cyrsiau dysgu Cymraeg cymunedol.

Ceir yn y Strategaeth hefyd ymrwymiad i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y meysydd gweithredu canlynol:

- Iaith y blynyddoedd cynnar
- Iaith Dysgu
- Iaith Gwaith a Gwasanaeth
- Iaith y Gymuned
- Ymchwil a thechnoleg

2. PROFFIL IAITH DALGYLCH BALADEULYN

2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

Mae 64.4% o boblogaeth y Sir sydd dros dair oed yn siaradwyr Cymraeg – sylweddol uwch na'r ffigwr trwy Gymru gyfan o 17.8%. Yng Ngwynedd, mae'r gallu i siarad Cymraeg uchaf yn ward Hendre (mae 86% yn siarad Cymraeg), ac ar ei isaf yn ardal Canol Bangor (25.6%).

2.2 Wardiau

Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei lleoli yn ward Llanllyfni, ac mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys rhan o ward Llanllyfni, rhan o ward Dolbenmaen, rhan o ward Glaslyn a rhan o ward Waunfawr. Mae Ysgol Talysarn wedi ei lleoli yn ward Llanllyfni. Mae proffil ieithyddol wardiau'r ysgolion hyn wedi ei grynhoi yn y tabl isod:

	Llanllyfni	Dolbenmaen	Glaslyn	Waunfawr	Gwynedd	Cymru
Hunaniaeth Gymreig yn unig	1,316 (67.1%)	691 (59%)	934 (57.2%)	962 (65.9%)	69,560 (59.3%)	1,715,975 (55.2%)
Dim hunaniaeth Gymreig	28.2%	37.8%	39.2%	30.8%	36.3%	36.7%

Poblogaeth 3+ mlwydd oed	1,876 (100%)	1,146 (100%)	1,592 (100%)	1,411 (100%)	114,308 (100%)	3,018,172 (100%)
Gallu siarad Cymraeg	1,373 (73.2%)	752 (65.6%)	1,054 (66.2%)	1,018 (72.1%)	73,560 (64.4%)	538,296 (17.8%)
Dim sgiliau Cymraeg	315 (16.8%)	290 (25.3%)	410 (25.8%)	291 (20.6%)	29,977 (26.2%)	2,259,017 (74.8%)
Gallu deall Cymraeg ar lafar yn unig	137 (7.3%)	78 (6.8%)	109 (6.8%)	71 (5%)	8,166 (7.1%)	156,762 (5.2%)
Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg	124 (6.6%)	84 (7.3%)	83 (5.2%)	65 (4.6%)	6,142 (5.4%)	68,391 (2.3%)
Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg	56 (3%)	27 (2.4%)	36 (2.3%)	48 (3.4%)	3,170 (2.8%)	33,971 (1.1%)
Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	1,157 (61.7%)	628 (54.8%)	927 (58.2%)	891 (63.1%)	63,256 (55.3%)	429,313 (14.2%)
Gallu ysgrifennu Cymraeg ond ddim yn gallu siarad na darllen Cymraeg	8 (0.4%)	4 (0.3%)	2 (0.1%)	5 (0.4%)	387 (0.3%)	4,970 (0.2%)
Gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg ond ddim yn gallu siarad Cymraeg	14 (0.7%)	13 (1.1%)	5 (0.3%)	16 (1.1%)	1,004 (0.9%)	17,560 (0.6%)
Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg	36 (1.9%)	13 (1.1%)	8 (0.5%)	14 (1%)	993 (0.9%)	6,621 (0.2%)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegol Gwladol

2.3 Ysgol Baladeulyn

Ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3 yw Ysgol Baladeulyn.

Dengys y tabl isod fod y mwyafrif o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl gartref	Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg o gwbl
Baladeulyn	29%	57%	14%	0%	0%

2.4 Ysgolion cyfagos

Ysgolion cyfrwng Cymraeg, Categori 3 yw ysgolion Brynaerau, Llanllyfni, Nebo, Bro Lleu, Talysarn a Bro Llifon.

Mae data ieithyddol ar gyfer yr ysgolion cyfagos i'w gweld isod.

Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl gartref	Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg o gwbl
Brynaerau	64%	11%	2%	11%	12%
Llanllyfni	68%	8%	2%	11%	12%
Nebo	56%	0%	22%	11%	11%
Bro Lleu	69%	4%	1%	9%	17%
Talysarn	37%	15.5%	3%	19%	25.5%
Bro Llifon	85%	2%	2%	3%	8%

Ffynhonnell: Canran o nifer yr ymatebwyr Ionawr 2026

2.5 Gweithgareddau ar ôl ysgol

Dyma grynodedb o'r hyn mae Ysgol Baladeulyn a'r ysgolion eraill dalgylch uwchradd Dyffryn Nantlle yn ei gynnig ar safleoedd ysgol.

	Baladeulyn	Talysarn	Bro Lleu	Llanllyfni	Brynaerau	Bro Llifon	Nebo
Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)			✓				
Aelwyd yr Urdd				✓		✓	✓
Bore/Noson Goffi	✓	✓		✓	✓	✓	
Cylch/Ysgol Feithrin			✓	✓		✓	
Clwb/Clwb ar ôl ysgol / Gweithgaredd Chwaraeon		✓	✓	✓	✓	✓	✓

Gwelir yn y tabl uchod mai dim ond gweithgareddau megis Bore/Noson Goffi a gynhelir yn Ysgol Baladeulyn sydd yn sylweddol llai na'r ddarpariaeth ar ôl ysgol a gynhelir yn ysgolion eraill y dalgylch. Golyga hyn fod llai o gyfleoedd i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn fanteisio ar gweithgareddau ar ôl ysgol i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg.

2.6 Gweithgareddau Cymunedol

Mae Canolfan Llys Llywelyn wedi ei lleoli oddeutu 0.5 milltir i ffwrdd o Ysgol Baladeulyn ac yn cynnal nifer o weithgareddau. Dyma fraslun o'r elfennau cymunedol mae'r ysgol yn ymwneud â hwy yn rheolaidd;

- Ffair Haf
- Ffair Nadolig
- Cyngherddau
- Bore Coffi
- Marchnad

2.7 Tystiolaeth Ychwanegol

Ysgol Baladeulyn

Mae adroddiad Estyn yn 2017 yn dweud:

“Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae tua thri chwarter y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli yn yr ysgol a’r ddarpariaeth yn hybu’r disgyblion i wneud defnydd llawn o’r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn dangos balchder tuag at yr iaith a gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol.”

[Adroddiad arolwg Estyn Ysgol Baladeulyn Tachwedd 2017](#)

Ysgol Talysarn

Mae adroddiad Estyn 2025 yn nodi:

“Trwy fentrau fel ‘Clwb Clebran’ a ‘Tîm Taran’, maent yn rhoi cyfrifoldebau pwrpasol i ddisgyblion er mwyn hybu eu cyfoedion i siarad Cymraeg yn naturiol yn ystod amseroedd egwyl ac mewn cyd-destunau anffurfiol eraill. Mae hyn yn arwain at welliant amlwg ym medrau llafar Cymraeg bron bob disgybl ac yn meithrin balchder at eu hunaniaeth Gymraeg.”

[Adroddiad arolwg Estyn Ysgol Talysarn Tachwedd 2025](#)

3. Asesiad o’r effaith ar yr iaith Gymraeg

3.1 Yr Opsiynau

- Gwneud dim – parhau gyda’r sefyllfa bresennol

Byddai cadw’r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Baladeulyn yn parhau yn yr un modd, gyda’r un strwythur staffio.

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae’r opsiwn Gwneud dim wedi ei gynnwys yn yr asesiad at ddiben cymharu.

- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)

Byddai’r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai’n galluogi’r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Gan ystyrrir Ysgol Talysarn fel yr ysgol gyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

Ni ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda chyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth, a chydweithio ar gyfer yr ysgol.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cydweithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Gan ystyrrir Ysgol Talysarn fel yr ysgol cyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol rhwng 3 ysgol gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer uned ADY yn Ysgol Baladeulyn.

Ni ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg yn yr ysgol gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda chyfleon i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth, a chydweithio ar gyfer yr ysgol.

- *Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, ac y byddai dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael cynnig lle yn Ysgol Talysarn (yr ysgol amgen).

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn cynnwys asesiad o effaith cau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn, ar yr iaith Gymraeg o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r tabl hefyd yn amlinellu'r cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cryfhau'r iaith Gymraeg, a dulliau lliniaru unrhyw effaith negyddol allai ddeillio o'r cynnig.

- *Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu cau ysgolion lleol, gan gynnwys Ysgol Baladeulyn, gan greu ysgol newydd ar draws nifer o safleoedd, gan gynnwys safle presennol Ysgol Baladeulyn.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. Yn ddibynol ar strwythur yr ysgol aml-safle, gall fod cyfleoedd i ddysgwyr gael mynediad at ystod ehangach o adnoddau addas, darpariaeth uwch yn nhermau staffio, a gallent fod yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion.

- *Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu ardal benodol arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau.

- Cynnwys Uned Iaith ar safle Ysgol Baladeulyn

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu uned iaith ar safle'r ysgol. Byddai'n cynnig gwasanaeth trochi i'r plant yn y Gymraeg sydd ei angen cyn ymuno a'u hysgolion dewisol yn llawn amser.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar yr iaith Gymraeg yn yr ysgol gan na fyddai newid i'r ddarpariaeth addysg a ddarperir gan Ysgol Baladeulyn. Er hynny, mae'n debygol y bydd effaith bositif ar iaith Gymraeg y plant fydd yn mynychu'r uned iaith.

3.2 Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorai fel ymateb i'r ymgynghoriad

- **Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol i'r ardal leol.**

Byddai'r opsiwn yma yn golygu ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd sydd yn cynnwys addysg arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol. Byddai'r opsiwn hyn yn cynnig addysg hybrid i ddysgwyr cynradd yn yr ardal leol i fynychu Ysgol Baladeulyn fel ysgol prif ffrwd a/neu gyda mynediad i ddarpariaeth addysg arbenigol ADY.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau.

3.2 Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg

Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg – Cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)

Rhan 1				
Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith	Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif	Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru)
laith yr ysgol (ffurfiol)	<i>Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mynegwyd yn glir fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gyson ac yn gadarn fel prif iaith addysgu yn yr ysgol bresennol. Codwyd pryder y byddai trosglwyddo dysgwyr i ysgol arall yn arwain at brofiad addysgol lle mae'r Gymraeg yn llai amlwg fel prif gyfrwng ffurfiol. Cyfeiriwyd at waith Ysgol Baladeulyn o ran y Siarter Iaith, gan nodi bod yr ysgol wedi ennill gwobr aur.</i> Mae Ysgol Baladeulyn yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng. Gan fod Ysgol Talysarn hefyd yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng, deuir i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael effaith ar iaith addysg y plant.	Niwtral	Amherthnasol	Amherthnasol
laith yr ysgol (anffurfiol)	<i>Nodwyd pryder gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad y gallai symud dysgwyr i ysgol â phroffil ieithyddol gwannach leihau lefel trochi Cymraeg ffurfiol a chyson drwy'r cwricwlwm. Nodwyd bod y trochi hwn yn arbennig o bwysig i gynnydd a hyder ieithyddol plant, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn derbyn yr un lefel o Gymraeg yn y cartref. Cyfeiriwyd at wahaniaethau amlwg yn y defnydd o'r Gymraeg rhwng yr ysgol bresennol ac ysgolion amgen posibl.</i>	Positif	Amherthnasol	Amherthnasol

	Cydnabyddir y pryder nodwyd uchod, gan nodi roedd data CYBLD Ionawr 2025 yn dangos fod 55% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn. Erbyn hyn, mae ystadegau diweddaraf CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn. O ganlyniad i hyn, ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma. Gan y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, gall y cynnig gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion. O ganlyniad i hyn, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u chyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth.			
Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg	Mae Ysgol Talysarn yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng, fel Ysgol Baladeulyn. Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn effeithio ar y meini prawf hwn.	Niwtral	Amherthnasol	Amherthnasol
Darpariaeth anstatudol	Byddai gan ddysgwyr fynediad at ddarpariaeth uwch yn nhermau staffio, a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o'r un oedran.	Positif	Gallai'r awdurdod lleol a Chorff Llywodraethol Talaerau (Ffederasiwn Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau) drafod dulliau i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.	Positif
Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol	Mae Ysgol Talysarn yn ysgol fwy o ran niferoedd o ddysgwyr felly byddai'r grwpiau cyfoedion yn fwy. Fel y nodir yn adran 2.5 o'r Asesiad Effaith, mae Ysgol Talysarn yn cynnig gweithgareddau ar ôl ysgol megis clwb ar ôl ysgol neu gweithgaredd chwaraeon.	Positif	Gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Talaerau (Ffederasiwn Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau) ystyried unrhyw gyfleoedd ychwanegol ar gyfer cynnal	Positif

			gweithgareddau ar ôl ysgol, gan sicrhau fod trefniadau mewn lle i gynnwys dysgwyr dalgylch Baladeulyn.	
Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned	<i>Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, nodwyd bod yr ysgol yn chwarae rôl bwysig wrth integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, i fywyd Cymraeg y pentref. Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol danseilio'r broses hon, gan arwain at lai o ddefnydd naturiol o'r Gymraeg ymhlith teuluoedd newydd. Pwysleisiwyd bod yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at ddefnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol, megis cyfarfodydd cymdeithasol, chwarae ar ôl ysgol a rhyngweithio rhwng rhieni a thrigolion lleol.</i> Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd a thrigolion lleol yn cyfarfod yn ddyddiol yn nghymuned Nantlle wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwahodd y gymuned i'r ysgol ar gyfer gweithgareddau'r ysgol o fewn oriau'r ysgol a thu allan i oriau'r ysgol fel nosweithiau coffi, cyflwyniadau gan y plant a gwasanaethau. Er hyn, nodir bod Canolfan Llys Llywelyn yn ogystal â Trigonos Plas Baladeulyn ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol. Nodir hefyd bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), sy'n awgrymu bod lefel yr ymwneud dyddiol â'r ysgol fel mannau cymdeithasol neu ieithyddol yn amrywio ymhlith teuluoedd nghymuned Nantlle.	Negyddol	Gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Talaerau (Ffederasiwn Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau) ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol. Pe gweithredir y cynnig, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. Nodir bod Canolfan Llys Llywelyn yn ogystal a Trigonos Plas Baladeulyn ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol. I liniaru'r effaith ar y Gymraeg o fewn y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nantlle yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng	Niwtral/ Rhannol Negyddol

	Effaith ar yr economi leol: Er na ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol negyddol ar yr economi lleol yn Nantlle, cydnabyddir, pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, y byddai'n arwain at leihad mewn cyfleoedd cyflogaeth cyfrwng Cymraeg ym mhentref Nantlle.		Ysgol Talysarn a chymuned Nantlle, lle'n briodol.	

Rhan 2 – Sut fydda y cynnig yn effeithio ar/cyfrannu tuag at/cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg

Strategaeth Iaith Gwynedd 2023	Nodir isod grynodeb o effaith a ragwelir ar y feysydd gweithredu y Strategaeth iaith: Iaith y blynyddoedd cynnar: Gan fod Cylch Meithrin wedi ei lleoli ym mhentref Talysarn, ac yn cyd-weithio gydag Ysgol Talysarn (yr ysgol amgen), rhagwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith bositif ar iaith y blynyddoedd cynnar. Iaith Dysgu: Mae Ysgol Baladeulyn yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, ac mae Ysgol Talysarn hefyd yn ysgol Gymraeg Categori 3 yn yr un modd, deir i'r casgliad felly na fyddai'r cynnig yn cael effaith ar iaith addysg y plant. Iaith Gwaith a Gwasanaeth: <i>Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod presenoldeb Ysgol Baladeulyn yn cryfhau statws a hyder y Gymraeg mewn cyd-destunau ymarferol, gan gefnogi defnydd yr iaith ymhlith teuluoedd a siaradwyr newydd mewn bywyd beunyddiol. Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol arwain at leihad graddol yn y defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol. Codwyd sylw cadarnhaol cryf at waith Ysgol Baladeulyn o ran hyrwyddo'r Gymraeg drwy'r Siarter Iaith, gan nodi bod yr ysgol wedi ennill gwobr aur am ansawdd a chysondeb ei darpariaeth.</i> Cydnabyddir, pe gweithredir y cynnig, y byddai peth effaith negyddol ar yr iaith yn sgil colli presenoldeb ysgol cyfrwng Cymraeg, categori 3 ym mhentref Nantlle sy'n gwasanaethau'r ardal, a gan y byddai'n arwain at ddiswyddiadau staff/gweithlu'r ysgol.

	Fodd bynnag, nodir y bod yr ysgol amgen (Ysgol Talysarn) fyddai'n gwasanaethu ardal Nantlle pe gweithredir y cynnig, hefyd yn ysgol cyfrwng Gymraeg. Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn effeithio ar iaith gwaith a'r gwasanaeth a ddarperir yn yr ysgol amgen. Iaith y Gymuned: <i>Mynegwyd pryder cryf gan ymatebwyr yr ymgynghoriad y gallai'r cynigion gael effaith andwyol ar y Gymraeg a bywyd y gymuned, gyda'r farn bod yr ysgol yn ganolog i gynnal y Gymraeg fel iaith fyw a naturiol ym mywyd y pentref. Nodwyd bod yr ysgol yn gweithredu fel canolbwynt pwysig i fywyd Cymraeg y pentref, gan gyfrannu at ddefnydd yr iaith y tu hwnt i oriau ysgol a chyfeirir sut mae'r ysgol yn integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl, i fywyd Cymraeg lleol. Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol danseilio'r ecosystem ieithyddol leol, gan arwain at leihad graddol yn y defnydd cymunedol o'r Gymraeg.</i> Mae'r Cyngor yn cydnabod, pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol ar yr iaith o fewn y gymuned yn deillio o wireddu'r cynnig, e.e gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Nantlle wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwahodd y gymuned i'r ysgol ar gyfer gweithgareddau'r ysgol o fewn oriau'r ysgol a thu allan i oriau'r ysgol fel nosweithiau coffi, cyflwyniadau gan y plant a gwasanaethau. Er hyn, mae Canolfan Llys Llywelyn yn ogystal a Trigonos Plas Baladeulyn ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau. Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Talaerau (Ffederasiwn Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau) ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol. Yn ogystal, pe gweithredir y cynnig, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.
Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru	<i>Drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mynegwyd pryder y gallai'r cynnig gael effaith negyddol gan fod yr ysgol yn cael ei hystyried yn ganolog i gynnal defnydd dyddiol o'r Gymraeg ymhlith plant, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Nodwyd hefyd bod yr ysgol yn darparu trochi ieithyddol cryf, yn cefnogi integreiddio teuluoedd newydd i fywyd Cymraeg, ac yn normaleiddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth mewn bywyd cymunedol. Mynegwyd y barn y gallai colli'r ysgol arwain at leihad graddol yn y defnydd o'r Gymraeg.</i>

	Nodir fod unrhyw drafodaethau yn ymwneud ag adrefnu angen nodi ymdrech Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ffederasiwn Talaerau (Ffederasiwn Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau) ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol. Yn ogystal, pe gweithredir y cynnig, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. O ran y ddarpariaeth addysgol, nodir bod Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, categori 3. O ganlyniad, pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn, byddai dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3. Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg, yn bennaf gan: - fod ystadegau CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn - y byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, categori 3. - y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion. Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach
I ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd (Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2022-2032))	Mae Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, categori 3. Mae Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn, yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys: Bod holl ddysgwyr y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion.

	- Bod darpariaeth addas i alluogi pob dysgwr i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r dysgwyr hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr. - Bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. O ganlyniad, pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn, byddai dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, sy'n gweithredu amcanion a chefnogi targedau'r CSGA. Ar sail yr uchod, ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith negyddol ar gyflawniad Deilliannau 1, 2, 3, 5 a 6 o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032, Cyngor Gwynedd, sef: Deilliant 1: Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod addysg o'u haddysg statudol i'r llall. Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol. Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018) O ganlyniad, deuir i'r casgliad y byddai gweithredu'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32, a'r targedau a gymeradwywyd yn y Cynllun Strategol y Gymraeg.
Sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg, ac yn yr achosion lle byddai'n lleihau'r ddarpariaeth, nodwch pam bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau	Byddai'r cynnig yn golygu fod ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3 (Ysgol Baladeulyn) yn cau. Fodd bynnag, pe gweithredir y cynnig, byddai dysgwyr yn cael cynnig lle mewn ysgol amgen, sydd hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, sef Ysgol Talysarn. Mae gan Ysgol Talysarn capasiti digonol ar gyfer dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn sydd yn byw yn nalgylch Baladeulyn.
Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)	Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y broses statudol gyfan mewn perthynas ag adolygu dyfodol Ysgol Baladeulyn wedi'i chynnal yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg 88–93 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn unol â Safonau 88, 89 a 90, rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol i'r effeithiau posibl y gallai'r penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan gynnwys ystyried yr effeithiau cadarnhaol ac andwyol posibl, sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol, a sut y gellid lleihau unrhyw effeithiau andwyol posibl. Yn ogystal, yn unol â Safonau 91, 92 a 93, ystyriwyd a cheisiwyd barn drwy'r broses ymgynghori statudol ynghylch yr effeithiau ieithyddol hyn, gan gynnwys barn ar sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er

	mwyn cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau andwyol ar y Gymraeg. Cefnogwyd y gofynion hyn drwy gynnal yr Asesiad Effaith leithyddol hwn, ynghyd ag asesiadau effaith cysylltiedig, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a nodir bod yr asesiadau hyn wedi'u hadolygu a'u diweddarau yn dilyn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol.

5. CASGLIAD

Ein disgwyliadau yw bod holl ddysgwyr y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys, oed perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer ad-drefnu gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a gwell defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith plant yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion o fewn yr ardal. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad statudol wedi tynnu sylw at ystod eang o safbwyntiau ynghylch effaith bosibl y cynnig ar y Gymraeg. Nodwyd bod yr ysgol darparu addysg cyfrwng Cymraeg arbennig ac yn creu amgylchedd lle mae plant yn siarad Cymraeg yn hyderus ac yn gyson, gan gryfhau'r iaith fel prif gyfrwng cymdeithasol yn ogystal ag addysgol. sydd yn hyderus ac yn gyson, gan gryfhau'r iaith fel prif gyfrwng cymdeithasol yn ogystal ag addysgol. Mynegwyd bod yr ysgol yn chwarae rôl bwysig wrth integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, i fywyd Cymraeg y pentref. Pwysleisiwyd bod yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at ddefnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol, megis cyfarfodydd cymdeithasol, chwarae ar ôl ysgol a rhyngweithio rhwng rhieni a thrigolion lleol. Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol danseilio'r ecosystem ieithyddol leol, gan arwain at leihad graddol yn y defnydd cymunedol o'r Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Baladeulyn wrth gefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith andwyol bosibl ar fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol. Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol dysgwyr, am y rhesymau canlynol:

- Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn.
- Mae'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, a rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.

Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.

Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

**ASESIAD EFFAITH
DEDDF LLESIANT A CHENDEDLAETHAU'R
DYFODOL
– YSGOL BALADEULYN**

Mai 2026

1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.

Gweledigaeth y Cyngor yw:

Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
- Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
- Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

	Llewyrchus	Cydnerth	Iachach	Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang
GWYNEDD YFORY Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc							
GWYNEDD LEWYRCHUS Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng							
GWYNEDD GLYD Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau							
GWYNEDD OFALGAR Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau							
GWYNEDD GYMRAEG Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.							
GWYNEDD WERDD Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd							
GWYNEDD EFFEITHLON Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon							

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg dysgwyr drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2023-2028".

2.SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

Y cynnig:

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Rhagfyr 2025 a 28 Ionawr 2026.

Amcanion	
Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc	Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, mynegwyd gan ymatebwyr fod yr ysgol yn darparu cychwyn cadarn a chefnogol mewn bywyd i blant drwy amgylchedd bach a meithringar sy'n cefnogi lles, hyder a datblygiad cymdeithasol. Yn ogystal â hyn, nodwyd bod dysgwyr bregus yn dibynnu ar yr amgylchedd bach a sefydlog i ddatblygu a chynnal eu sgiliau iaith. Mynegwyd pryder y gallai symud plant i ysgol fwy ac ymhellach oddi cartref danseilio'r manteision hyn, gan gynyddu straen a gwneud pontio'n anodd i ddysgwyr, yn enwedig i ddysgwyr bregus neu dysgwyr sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Cyngor yn cydnabod gall fod peth effaith negyddol ar les dysgwyr yn ystod y cyfnod pontio. Pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, byddai'r awdurdod a'r ysgol amgen cydweithio'n agos â'r ysgol sy'n cau, gyda'r dysgwyr a'u teuluoedd, i sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac i gefnogi'r dysgwyr wrth ymgartrefu yn eu hysgolion newydd. Rhagwelir y byddai trefniadau pontio sydd wedi'u cynllunio'n ofalus, gyda chefnogaeth briodol, yn gallu lliniaru effeithiau negyddol ac yn cefnogi parhad cynnydd addysgol. Fel y nodir yn Llawlyfr Rhieni Gwynedd, mae gan ddysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y ddarpariaeth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i roi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i blant bregus ac/neu gydag anghenion dysgu ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn y byddai'r cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr.
Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng	Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar yr amcan hwn gan y gallai arwain at ddiswyddiadau staff. Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw newid i gyflogaeth staff sy'n deillio o unrhyw gynnig. Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion.
Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau	Dim effaith.
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau	Bydd sicrhau fod y dysgwyr yn derbyn addysg o'r radd flaenaf yn greiddiol i'r cynnig, gan sicrhau y byddant yn derbyn addysg o'r un ansawdd a safon yn yr ysgol amgen.
Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned	Mynegwyd pryder cryf gan ymatebwyr yr ymgynghoriad y gallai'r cynigion gael effaith andwyol ar y Gymraeg a bywyd y gymuned, gyda'r farn bod yr ysgol yn ganolog i gynnal y Gymraeg fel iaith fyw a naturiol ym mywyd y pentref. Nodwyd bod yr ysgol yn gweithredu fel canolbwynt pwysig i fywyd Cymraeg y pentref, gan gyfrannu at ddefnydd yr iaith y tu hwnt i oriau ysgol a chyfeirir sut mae'r ysgol yn integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl, i fywyd Cymraeg lleol.

	Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol danseilio'r ecosystem ieithyddol leol, gan arwain at leihad graddol yn y defnydd cymunedol o'r Gymraeg. Fel rhan o'r broses statudol, cynhaliodd yr Awdurdod asesiad o effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg. Diweddarwyd yr asesiad hwn yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Yng nghasgliad yr asesiad, nodir bod y Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Baladeulyn mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith negyddol bosibl ar elfennau o fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol. Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol dysgwyr, am y rhesymau canlynol: - Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn - Mae'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. - Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion. Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach. Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yn nghymuned Nantlle wrth ollwng/casglu plant dysgwyr o'r ysgol. Nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd. Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.
Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd	Dim effaith.
Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon	Dim effaith.

3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

Nod	Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma?	Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma:
Cymru lewyrchus Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith.	Byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r plant yn Ysgol Talysarn yn golygu fod y dysgwyr yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr. Gall cyflwyno'r cynnig arwain at staff yn colli eu swyddi.	Ymgynghorir â staff a chynrychiolwyr Undebau yn benodol fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ac Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.
Cymru gydnerth Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith
Cymru iachach Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd.	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, mynegwyd pryder y gallai newidiadau i'r trefniadau presennol arwain at brofiadau llai cyfartal i rai plant, yn enwedig y rhai mwyaf bregus. Codwyd pryderon penodol ynghylch profiadau dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gyda'r farn fod maint bach yr ysgol yn cefnogi parhad, sefydlogrwydd a chefnogaeth bersonol effeithiol. Mynegwyd pryderon gall trosglwyddo i ysgol fwy ac anghyfarwydd cael effaith negyddol ar blant bregus neu gydag ADY.

Yn ogystal, mynegwyd barn gryf y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar lesiant teuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, yn enwedig teuluoedd sydd heb fynediad rhwydd at gar gan gyfeirio at drafnidiaeth cyhoeddus annibynadwy.

Mae'r Cyngor yn parhau o'r farn y byddai'r cynnig yn gwella gallu'r Awdurdod i *"gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn"* yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd.

Er bod pryderon wedi'u mynegi ynghylch yr effaith bosibl ar blant bregus, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac anawsterau emosiynol, mae mesurau lliniaru penodol mewn lle i sicrhau na fyddai'r cynnig yn arwain at allgáu na gwahaniaethu anghymesur.

Yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod ADY Cymru, mae dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn parhau i dderbyn y ddarpariaeth a nodir yn eu Cynllun Datblygu Unigol, waeth beth fo unrhyw newid mewn trefniadau ysgol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau trosglwyddo yn cael eu cynllunio'n ofalus, gyda chefnogaeth briodol i ddysgwyr a theuluoedd, gan gynnwys ymgysylltu cynnar â'r ysgol dderbyn, staff cymorth perthnasol a gwasanaethau cefnogi.

Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth yn Ysgol Talysarn yn cynnwys mynediad at ystod ehangach o arbenigedd, cyfoedion a chefnogaeth broffesiynol, gyda'r nod o gynnal neu wella llesiant, cynhwysiant a phrofiad addysgol dysgwyr.

O ran teuluoedd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol dan anfantais, nodir y bydd trefniadau cludiant ysgol yn cael eu gweinyddu yn unol â pholisi statudol y Cyngor, gan sicrhau nad yw cost na hygyrchedd cludiant yn rhwystr i fynediad cyfartal at addysg. Caiff effaith bosibl ar deuluoedd unigol ei hystyried lle bo hynny'n berthnasol.

Yn dilyn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, fe ddiweddarwyd yr asesiad effaith cydraddoldeb er mwyn adlewyrchu'r pryderon a godwyd a'u heffaith bosibl ar nodweddion gwarchodedig a chydraddoldeb ehangach. Mae'r asesiad hwn yn nodi y gallai'r cynnig arwain at effeithiau rhannol negyddol posibl ar rai grwpiau, gan gynnwys mewn perthynas ag Anabledd, Oedran, yr Iaith Gymraeg ac Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r asesiad pellach hefyd yn nodi y gallai effeithiau positif posibl godi pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys mewn perthynas â mynediad at ddarpariaeth addysg ehangach, cyfleoedd cymdeithasol ac addysgol ychwanegol, a mynediad at arbenigedd a chefnogaeth estynedig.

		Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl, nodir fod polisïau a gweithdrefnau cadarn eisoes ar waith o fewn yr Awdurdod, sy'n berthnasol i holl ysgolion y sir, i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau cydraddoldeb, atal camwahaniaethu anghyfreithiol, a hyrwyddo cyfle cyfartal i bob dysgwr. Yn ogystal, nodwyd fod polisïau a threfniadau cadarn mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu.
Cymru o gymunedau gydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.	Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, mynegwyd yn gyson fod yr ysgol yn elfen greiddiol o fywyd y pentref ac yn ganolog i hunaniaeth y gymuned. Tynnwyd sylw at rôl yr ysgol wrth hwyluso rhyngweithio cymdeithasol dyddiol rhwng teuluoedd a thrigolion lleol. Mynegwyd pryder y byddai cau'r ysgol yn lleihau'r cyfleoedd naturiol i bobl gyfarfod, cymdeithasu a chynnal cysylltiadau cymunedol anffurfiol. Pwysleisiwyd fod ysgol gynradd leol yn ffactor pwysig wrth ddenu a chadw teuluoedd ifanc. Mae cymuned Nantlle yn gryf a gweithgar a chydabyddir y gallai cau Ysgol Baladeulyn arwain at beth effaith negyddol ar y gymuned.	Fel rhan o'r broses statudol, cynhaliodd yr Awdurdod asesiad o effaith y cynnig ar y gymuned. Diweddarwyd yr asesiad hwn yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Yn yr asesiad diweddaraf, nodir y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nantlle fel canolbwynt cymunedol. Yn ogystal, pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, cydnabyddir y byddai'r ysgol leol yn bellach o gartrefi o fewn dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn, ac o safbwynt amddifadedd golyga hyn fod un o ddangosyddion 'mynediad i wasanaethau' yn pellhau oddi wrth drigolion yr ardal. O ganlyniad, rhagwelir y bydd peth effaith negyddol ar y gymuned leol pe byddai'r ysgol yn cau. Fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), sydd yn awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Baladeulyn, byddai'r Cyngor yn ceisio lliniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nantlle a'r ysgol amgen, Ysgol Talysarn, a hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen. Yn ogystal, nodir mai pe bai penderfyniad i gau'r ysgol yn cael ei wneud, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol.

Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, nodwyd bod yr ysgol yn chwarae rôl bwysig wrth integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, i fywyd Cymraeg y pentref. Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol danseilio'r broses hon, gan arwain at lai o ddefnydd naturiol o'r Gymraeg ymhlith teuluoedd newydd. Pwysleiswyd bod yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at ddefnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol, megis cyfarfodydd cymdeithasol, chwarae ar ôl ysgol a rhyngweithio rhwng rhieni a thrigolion lleol. Nodwyd pryder gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad y gallai symud dysgwyr i ysgol â phroffil ieithyddol gwannach leihau lefel trochi Cymraeg. Cyfeiriwyd at waith Ysgol Baladeulyn o ran y Siarter Iaith, gan nodi bod yr ysgol wedi ennill gwobr aur.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Baladeulyn ar fywiogrwydd ieithyddol y gymuned leol. Fodd bynnag, ar sail y data diweddaraf a'r ffaith y bydd dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg gyda chyfleoedd ehangach i gymdeithasu yn y Gymraeg, rhagwelir y bydd y cynnig yn cynnal neu hyd yn oed cryfhau defnydd anffurfiol y Gymraeg ymhlith dysgwyr. Er hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod, pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, y gallai'r newid arwain at effaith negyddol ar ddefnydd y Gymraeg fel iaith gymunedol y tu allan i'r ysgol, a bydd yn ystyried mesurau lliniaru megis cynnwys cymuned Baladeulyn yng ngweithgareddau'r ysgol amgen ac opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr adeilad.

Fel rhan o'r broses statudol, cynhaliodd yr Awdurdod asesiad o effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg. Diweddarwyd yr asesiad hwn yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Yn yr asesiad diweddaraf, nodir yn y casgliad bod y Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Baladeulyn mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith negyddol bosibl ar elfennau o fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.

Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol dysgwyr, am y rhesymau canlynol:

- Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn
 - Mae'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
 - Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.
- Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd a thrigolion lleol yn cyfarfod yn ddyddiol yn nghymuned Nantlle wrth ollwng/casglu plant dysgwyr o'r ysgol. Nodir y gellid

		ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd. Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith

4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

Egwyddorion Datblygu cynaliadwy	A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor?
Tymor Hir Cydbwyso anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol.	Mae'r patrwm o niferoedd dysgwyr yn gostwng wedi bod yn gyson ers 2016, gyda rhagamcanion yn dangos y bydd niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn lleihau ymhellach dros y blynyddoedd nesaf, ac felly dengys y bydd yr heriau presennol sydd yn wynebu'r ysgol yn rhai hir dymor, ac felly mae'r achos dros newid yn glir.
Atal Neilltuo adnoddau ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Byddwn yn rhoi sylw i broblemau drwy atal ac ymyrryd yn fuan yn hytrach na thrwy ymateb.	Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu gweithredu ymhellach, bydd anghenion y dysgwyr yn flaenoriaeth yn ystod pob cam o unrhyw broses.
Integreiddio Cael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant.	Bu i'r awdurdod benderfynu cychwyn y broses o edrych ar ddyfodol Ysgol Baladeulyn yn sgil sefyllfa argyfyngus sy'n wynebu'r ysgol.
Cydweithredu Gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau.	Bydd cydweithio gydag adrannau perthnasol eraill a'r ysgol amgen yn rhan bwysig o gyflawni'r amcanion er lles yr ysgol a phlant y dalgylch.
Cynnwys (Cyfathrebu ac Ymgysylltu) Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu ein cynllun a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.	Mae'r cynnig yma wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, ac ymgynghoriad ar gyfer plant. Mae'r broses hyd yma wedi cynnwys cyfarfodydd adolygu lleol i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol yr ysgol. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi cynnwys y Corff Llywodraethol, staff a rhieni Ysgol Baladeulyn.

5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, codwyd pryderon ynghylch effaith y cynnig ar blant bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ar lesiant teuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, ac ar fywiogrwydd ieithyddol a chymunedol y pentref.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig, y byddai'r cynnig yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle. Fodd bynnag nodir fod cyfran helaeth o'r dysgwyr sy'n byw o fewn dalgylch (75%) yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned yr ysgol honno yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Talysarn yn cynnwys cymuned Nantlle lle'n briodol.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau bod unrhyw drefniadau pontio yn rhoi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i blant bregus a dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau.

Rhagwelir y byddai'r cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
 - o ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
 - o hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - o meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.
- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gyngorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Ysgol Baladeulyn

Awdur: Gwern ap Rhisiart

Dyddiad: Mai 2026

Fersiwn: 3

CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Polisiâu, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Rhagfyr a 28 Ionawr, a derbyniwyd 30 ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd dysgwyr yr ysgol wedi gostwng yn gyson dros y blynyddoedd diweddar ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:

- **Niferoedd dysgwyr** – Dengys data cyfrifiad CYBLD Ionawr 2026 dim ond 6 dysgwr llawn amser oedd yn mynychu'r ysgol gyda 2 blentyn yn y Dosbarth Meithrin. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 55 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 (+7 yn y Dosbarth Meithrin).
- **Dysgwyr y dalgylch** – Dengys data Ionawr 2026 mai dim ond 25% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn sy'n dewis mynychu'r ysgol. Mae 75% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch.
- **Rhagamcanion niferoedd** – Mae rhagamcanion niferoedd (yn cynnwys y Dosbarth Meithrin) yn argymhell bydd y niferoedd yn parhau'n fregus i'r dyfodol: Medi 2026= 9; Medi 2027 = 9; Medi 2028= 8
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Yn seiliedig ar ffigyrau Ionawr 2026, mae oddeutu 89% o lefydd gweigion (49 mewn nifer).

- **Maint dosbarthiadau bychain** – Yn Ysgol Baladeulyn (Medi 2025) mae un dosbarth sy'n cynnwys pob dysgwr yn yr ysgol – sef 6 dysgwr Derbyn-Bl.6 (Derbyn, Bl.1 a 2, a Bl. 4 a 5) ynghyd â 2 ddysgwr Meithrin. O fewn y dosbarth hwn, caiff grwpiau gwahanol eu ffurfio ar wahanol adegau o'r dydd, gyda'r cymorthyddion yn arwain y gweithgareddau (gyda'r dysgwyr ieuengaf). Mae hyn felly yn golygu mae'r amrediad oedran yn y dosbarth cyfan yn ymestyn hyd at 8 mlynedd.
- **Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau** – Mae amrediad oedran o 8 mlynedd mewn un dosbarth.
- **Cyllid ychwanegol i'r dyraniad** - Mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27 (seiliedig ar niferoedd Medi 2025) fydd £74,446
- **Cost fesul dysgwr** – Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn 2026-27 fydd £25,123 o gymharu a'r cyfartaledd sirol o £5,998.

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

- Staff, Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarchodwyr Ysgol Baladeulyn
- Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig, ymgynghorir gyda'r holl ymgynghorai a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion
- Adran Addysg a Swyddogion adrannau eraill Cyngor Gwynedd

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Panel Adolygu Baladeulyn 1	17 Mawrth 2025	Sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol (PAY) Baladeulyn ym mis Mawrth 2025 a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng mis Mawrth a Gorffennaf 2025, gyda'r olaf ar y 7fed o Orffennaf 2025. Roedd aelodaeth y PAY yn cynnwys pennaeth a staff yr ysgol, llywodraethwyr, yr Aelod Lleol, rhieni/gwarchodwyr. Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd dalgylch Ysgol Baladeulyn er mwyn
Panel Adolygu Baladeulyn 2	19 Mai 2025	
Panel Adolygu Baladeulyn 3	7 Gorffennaf 2025	

		sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol, gan ymateb yn benodol i'r niferoedd isel o ddysgwyr.
Ymgynghoriad Statudol	Rhagfyr 2025 – Ionawr 2026	Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig, yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Rhagfyr 2025 a 28 Ionawr 2026, a derbyniwyd 30 ymateb i'r ymgynghoriad.

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

	Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol	Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Mae gan ysgolion Gwynedd bolisiau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisiau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn “...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion.” Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y nodwedd yma.	Dim
Anabledd	Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, codwyd pryderon am effaith negyddol y cynnig ar rai grwpiau o ddysgwyr, yn benodol rhai sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol dwys, o drosglwyddo i ysgol newydd sydd yn fwy ac yn anghyfarwydd iddynt. Cwestiynwyd, hefyd, os fydd parhad cymorth megis aelod o staff cefnogi ac oriau cefnogaeth i ddysgwr ADY yn trosglwyddo i'r ysgol amgen i liniaru'r effaith o drosglwyddo i ysgol newydd. Nodwyd bod rhieni wedi dewis Ysgol Baladeulyn yn benodol oherwydd y gofal,	Yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nodir effaith negyddol bosib ar rai dysgwyr sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol dwys oherwydd pryderon trosglwyddo i ysgol fwy ac anghyfarwydd, ac os fydd parhad staff cefnogi i'r dysgwr yn yr ysgol amgen i liniaru effaith negyddol posib. Fodd bynnag, asesiad y Cyngor yw y byddai effaith niwtral neu gadarnhaol ar y nodwedd hon pe byddai'r

	amgylchedd dysgu a chefnogaeth bersonol mae'r dysgwyr yn derbyn mewn ysgol lai. Mae'r Cyngor yn nodi'r y pryderon hwn, ac er na ellir gwarantu y bydd parhad staff cefnogi yn yr ysgol amgen, nodir bod pob cais yn cael ei asesu'n unigol. Fel y nodir yn Llawlyfr Rhieni Gwynedd 2025/26, mae gan ddysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y cymorth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid. Pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, byddai'r awdurdod a'r ysgol amgen yn cydweithio'n agos, gyda'r dysgwyr a'u teuluoedd, i sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac i gefnogi'r dysgwyr wrth ymgartrefu yn eu hysgolion newydd. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau bod unrhyw drefniadau pontio yn rhoi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i ddysgwyr bregus a dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau. Cyfeirir yn Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg at elfennau fel amodau gwell i gydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol i gyfarch y gofyn statudol a bod map darpariaeth yn fwy eang mewn ysgolion mwy. Ni ragwelir y byddai'r newid yn cael effaith negyddol ar y nodwedd yma. Byddai asesiad o unrhyw ysgolion amgen perthnasol ar sail hygyrchedd yn cael ei gynnal a byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw gludiant a ddarperir (yn unol â pholisi cludiant yr Adran Addysg) yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Bydd anghenion unrhyw blentyn anabl yn cael eu hystyried yn unol â pholisiâu Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg.	cynnig yn cael ei weithredu, gan y rhagwelir y byddai'r ysgol amgen medru cynnig amodau gwell i gydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol i gyfarch y gofyn statudol a bod map darpariaeth yn fwy eang mewn ysgolion mwy. Byddai asesiad o unrhyw ysgolion amgen perthnasol ar sail hygyrchedd yn cael ei gynnal, a byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw gludiant a ddarperir (yn unol a pholisi cludiant yr Adran Addysg) yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Bydd anghenion unrhyw blentyn anabl yn cael eu hystyried yn unol â pholisiâu Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg.
Rhyw	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn effeithio ar y nodwedd yma. Byddai gweithredu'r cynnig yn golygu fod pawb yn parhau i gael eu trin yn ôl eu hangen beth bynnag yw eu rhyw. Mae bob ysgol yn gweithredu Polisi Cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:	Dim

	<i>“...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion.”</i>	
Oedran	Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd bod yr ysgol bresennol yn cefnogi cyfleon cyfartal i gymryd rhan ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol a chynhwysol rhwng dysgwyr, staff a theuluoedd, gyda phryder y gallai symud i ysgol fwy wanhau'r elfennau hyn. Codwyd pryderon penodol ynghylch llesiant, iechyd meddwl a'r risg y gallai rhai dysgwyr ei chael hi'n anodd pontio i ysgol fwy, gyda goblygiadau posibl i'w profiad addysgol, gan effeithio'n benodol ar blant naturiol swil neu ddi-hyder sydd angen cefnogaeth ychwanegol neu amgylchedd mwy personol i ffynnu. Mae'r Cyngor yn nodi'r y pryderon hyn ac yn nodi bod polisiâu cydraddoldeb, cynhwysiant ac amddiffyn rhag gwahaniaethu ar waith yn y ddarpariaeth bresennol ac yn yr ysgol amgen. Pe gweithredir y cynnig, bydd trefniadau pontio yn rhoi pwyslais ar anghenion unigol. Pe gweithredir y cynnig, rhagwelir y byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol yn eu dosbarth gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Talysarn, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas i'w hoedran ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol. Credwn y byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy addas i'w hoedran yn yr ysgol amgen gyfagos oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol, ynghyd â gwersi wedi'u gwahaniaethu yn briodol ar gyfer yr ystod oedran. Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn golygu fod pobl o unrhyw oedran yn cael eu trin yn deg ac yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:	Yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nodir effaith negyddol bosib ar rai dysgwyr (yn enwedig rhai sydd yn naturiol swil sydd yn ffynnu mewn dosbarthiadau llai neu sy'n fregus yn gymdeithasol/emosiynol) oherwydd pryderon y gallai symud i ysgol fwy sy'n anghyfarwydd leihau sylw a chefnogaeth unigol, gan gynyddu'r risg o anhawster yn ystod cyfnod pontio. Asesiad y Cyngor yw y byddai effaith niwtral neu gadarnhaol ar y nodwedd hon pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu gan y byddai'r ysgol amgen yn gallu cynnig dosbarthiadau gyda mwy o gyfoedion oed-berthnasol.

	“...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion.”	
Crefydd a Chred	Ysgolion cymunedol yw Ysgol Baladeulyn a'r ysgol amgen a nodir yn y cynnig (Ysgol Talysarn). Mae gan bob ysgol Bolisi Cynhwysiad a fyddai'n delio ag unrhyw ddigwyddiad gwahaniaethol a allai godi yn yr ysgol, sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gred. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd hwn.	Dim
Cyfeiriadedd Rhywiol	Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei gyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, sy'n greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth mwy mewn ysgol amgen. Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Mae Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn, yr ysgol amgen arfaethedig, yn gweithredu polisi cydraddoldeb sy'n nodi fod yr ysgol yn: “...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion.”	Dim

Ail-bennu rhywedd	Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar bobl ar sail ailbennu rhywedd. Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd gan gynnwys Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn fod yr ysgolion yn “...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion.”	Dim
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar unrhyw un priod neu mewn partneriaeth sifil, gan fod y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig yn gweithredu'r un polisïau.	Dim
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar unrhyw un beichiog, boed yn staff neu yn riant, gan fod y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig yn gweithredu'r un polisïau.	Dim
Iaith Gymraeg	Trwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mynegwyd pryderon y gallai cau Ysgol Baladeulyn arwain at drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ymarferol, er bod darpariaeth addysgol Gymraeg yn parhau. Pwysleisiwyd gan ymatebwyr fod Ysgol Baladeulyn yn darparu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol a chymdeithasol o ddydd i ddydd, nid yn unig fel iaith addysgu, a bod colli'r ysgol yn gallu lleihau'r cyfleoedd hynny'n sylweddol o fewn y gymuned leol. Nodwyd bod gan Ysgol Baladeulyn broffil Gymraeg cryf iawn o'i gymharu ag ysgolion eraill yn yr ardal, a mynegwyd pryder y byddai symud i ysgol â chanran is o ddefnydd Cymraeg yn cael effaith andwyol ar hyder ieithyddol y plant. Nodwyd hefyd y gallai colli'r ysgol danseilio'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn fyw ac yn ymarferol ym mywyd beunyddiol y gymuned, gan gyfeirio at gyfleoedd naturiol i blant, rhieni/gwarcheidwad a thrigolion lleol ymgynnull a sgwrsio yn y gymuned yn ystod amseroedd gollwng a chodi dysgwyr. Mynegwyd pryder y gallai cau'r ysgol arwain at golli'r cyfleoedd hyn, gan wanhau statws y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw ac o bosibl danseilio'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol.	Yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nodir effaith negyddol bosib ar hyder ieithyddol a defnydd Cymraeg dysgwyr Ysgol Baladeulyn pe byddai'r ysgol yn cau a'r dysgwyr yn symud i'r ysgol amgen, gan gyfeirio at ganran is o ddefnydd Cymraeg yn yr ysgol amgen. Asesiad y Cyngor yw y byddai effaith niwtral neu gadarnhaol ar elfen darpariaeth addysgol y nodwedd hon, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan fyddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion. Nid yw'r Cyngor o'r farn y byddai effaith negyddol ar ddarpariaeth addysgol Gymraeg dysgwyr yn deillio o'r cynnig arfaethedig. Yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nodir effaith negyddol bosib ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn fyw ac yn ymarferol ym mywyd beunyddiol y gymuned, gan gyfeirio at gyfleoedd naturiol i blant, rhieni/gwarcheidwad a thrigolion lleol

	Nodwyd bod yr ysgol yn gweithredu fel canolbwynt pwysig i fywyd Cymraeg y pentref, gan gyfrannu at ddefnydd yr iaith y tu hwnt i oriau ysgol a chyfeirir sut mae'r ysgol yn integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl, i fywyd Cymraeg lleol. Mynegwyd pryder y byddai cau'r ysgol yn tanseilio defnydd cymunedol ehangach o'r Gymraeg a phwysleiswyd bod yr ysgol yn rhan allweddol o hunaniaeth ieithyddol y gymuned. Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Baladeulyn mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith negyddol bosibl ar elfennau o fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol. Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol dysgwyr, am y rhesymau canlynol: • Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn • Mae'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. • Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion. Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.	ymgynnull a sgwrsio yn y gymuned yn ystod amseroedd gollwng a chodi plant. Asesiad y Cyngor yw y byddai peth effaith negyddol ar yr elfen cymunedol y nodwedd hon, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd a thrigolion lleol yn cyfarfod yn ddyddiol yn nghymuned Nantlle wrth ollwng/casglu dysgwyr o'r ysgol. Nodir mesurau posib i liniaru'r effaith negyddol yma, megis hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol ac ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.

	Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yn nghymuned Nantlle wrth ollwng/casglu dysgwyr o'r ysgol. Nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd. Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach. Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categorieiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y bydd dysgwyr Ysgol Baladeulyn, yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn Ysgol Talysarn.	
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Amlygwyd pryderon penodol yn ystod yr ymgynghoriad statudol ynghylch diffyg cludiant cyhoeddus addas, amserlenni annibynadwy a lefelau is o berchnogaeth car. Nodwyd bod Talysarn yn ardal difreintiedig a bydd hyn yn peri her fawr i deuluoedd nad ydynt yn gyrru, teuluoedd incwm is, rhieni sengl a theuluoedd lle mae anableddau neu symudedd cyfyngedig yn ffactor, gan wneud teithio dyddiol i ysgol ymhellach i ffwrdd yn anodd iawn yn ymarferol. Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon hyn ac yn nodi, pe byddai'r ysgol yn cau, y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddysgwyr cymwys yn unol â Pholisi Cludiant ysgolion y sir, sy'n	Yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nodir effaith negyddol bosib ar deuluoedd sydd yn profi anfantais economaidd-gymdeithasol mewn ardal di-freintiedig, gan gyfeirio at ddiffyg cludiant cyhoeddus addas a lefelau is o berchnogaeth car. Asesiad y Cyngor yw y byddai peth effaith negyddol yn ogystal â g effaith gadarnhaol ar y nodwedd hon, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Cydnabyddir effaith negyddol bosib gan y byddai'n arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nantlle a'r her gall hyn peri i deuluoedd

	sicrhau bod pob dysgwr cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol agosaf yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys ystyriaethau diogelwch llwybrau cerdded ac anghenion unigol lle bo'n berthnasol. Ni rhagwelir y byddai unrhyw ddysgwr dalgylch Ysgol Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Dengys yr Asesiad Effaith Cymunedol y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei gwireddu, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nantlle. Hefyd, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli. Rhagwelir y byddai'r cynnig yn lleihau anfantais cymdeithasol drwy sicrhau mwy o brofiadau ac amrywiaeth dysgu, mwy o adnoddau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen.	sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Hefyd, rhagwelir y Cyngor effaith gadarnhaol posib ar y nodwedd hon pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, drwy sicrhau mwy o brofiadau ac amrywiaeth dysgu yn yr ysgol amgen.
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluedd arfog, ynghyd â'u teuluoedd. Bydd dysgwyr i deuluoedd milwrol neu gyn-filwrol yn cael yr un chwarae teg pa bynnag ysgol mae nhw'n mynychu.	Dim
Hawliau Dynol	Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar hawliau dynol.	Dim
Arall	-	-

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Fe ddiweddarwyd yr holl asesiadau yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol.

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw bolisiau arfaethedig fydd yn effeithio ar ddysgwyr a phobl ifanc yr ardal.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?

Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith ar ddyletswydd statudol yr ysgol i amddiffyn dysgwyr rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth.

Anelir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hybu'r ysgol amgen arfaethedig i barhau i ddilyn polisiau a gweithdrefnau cydraddoldeb. Pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd cyfartal wrth gael eu lleoli yn Ysgol Talysarn gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol, ynghyd â gwersi wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran.

Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, codwyd pryderon am effaith negyddol y cynnig ar rai grwpiau o ddysgwyr, yn benodol rhai sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol dwys, o drosglwyddo i ysgol newydd sydd yn fwy ac yn anghyfarwydd iddynt. Cwestiynwyd, hefyd, os fydd parhad cymorth megis aelod o staff cefnogi ac oriau cefnogaeth i ddysgwr ADY yn trosglwyddo i'r ysgol amgen i liniaru'r effaith o drosglwyddo i ysgol newydd. Nodwyd bod rhieni wedi dewis Ysgol Baladeulyn oherwydd y gofal ac addysg maent yn ei derbyn mewn ysgol llai. Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon hwn, ac er na ellir gwarantu y bydd parhad staff cefnogi yn yr ysgol amgen, nodir bod pob cais yn cael ei asesu'n unigol. Fel y nodir yn Llawlyfr Rhieni Gwynedd 2025/26, mae gan ddysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol hawl i barhau i dderbyn y cymorth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid. Pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, byddai'r awdurdod a'r ysgol amgen yn cydweithio'n agos gyda'r dysgwyr a'u teuluoedd, i sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac i gefnogi'r dysgwyr wrth ymgartrefu yn eu hysgolion newydd. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau bod unrhyw drefniadau pontio yn rhoi blaenoriaeth i anghenion unigol, i ddysgwyr bregus a dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau.

Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd bod yr ysgol bresennol yn cefnogi cyfleon cyfartal i gymryd rhan ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol a chynhwysol rhwng dysgwyr, staff a theuluoedd, gyda phryder y gallai symud i ysgol fwy wanhaus'r elfennau hyn. Codwyd pryderon penodol ynghylch llesiant, iechyd meddwl a'r risg y gallai rhai dysgwyr ei chael hi'n anodd pontio i ysgol fwy, gyda goblygiadau posibl i'w profiad addysgol, gan effeithio'n benodol ar ddysgwyr naturiol swil neu ddi-hyder sydd angen cefnogaeth ychwanegol neu amgylchedd mwy personol i ffynnu. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn ac yn nodi bod polisiau cydraddoldeb, cynhwysiant ac amddiffyn rhag gwahaniaethu ar waith yn y ddarpariaeth bresennol ac yn yr ysgol amgen. Pe gweithredir y cynnig, bydd trefniadau pontio yn rhoi pwyslais ar anghenion unigol.

Hefyd, amlygwyd pryderon penodol yn ystod yr ymgynghoriad statudol ynghylch diffyg cludiant cyhoeddus addas, amserlenni annibynadwy a lefelau is o berchnogaeth car. Nodwyd bod Talysarn yn ardal difreintiedig a bydd hyn yn peri her fawr i deuluoedd nad ydynt yn gyrru, teuluoedd incwm is, rhieni sengl a theuluoedd lle mae anabledau neu symudedd cyfyngedig yn ffactor, gan wneud teithio dyddiol i ysgol ymhellach i ffwrdd yn anodd iawn yn ymarferol. Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon hyn ac yn nodi, pe byddai'r ysgol yn cau, y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddysgwyr cymwys yn unol â Pholisi Cludiant ysgolion y sir, sy'n sicrhau bod pob dysgwr cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol agosaf yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys ystyriaethau diogelwch llwybrau cerdded ac anghenion unigol lle bo'n berthnasol. Ni rhagwelir y byddai unrhyw ddysgwr dalgylch Ysgol Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol, pe byddai'r cynnig yn cael

ei weithredu. Dengys yr Asesiad Effaith Cymunedol y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei gwireddu, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nantlle. Hefyd, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli. Pe gweithredir y cynnig, fe hyrwyddir cyfleon i'r ysgol amgen, Ysgol Talysarn, adeiladu ar ei chysylltiadau presennol gyda dalgylch Ysgol Baladeulyn.

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, sy'n greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. O weithredu'r cynnig, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth mwy.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfarfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Amlygwyd pryderon penodol yn ystod yr ymgynghoriad statudol ynghylch diffyg cludiant cyhoeddus addas, amserlenni annibynadwy a lefelau is o berchnogaeth car. Nodwyd bod Talysarn yn ardal difreintiedig a bydd hyn yn peri her fawr i deuluoedd nad ydynt yn gyrru, teuluoedd incwm is, rhieni sengl a theuluoedd lle mae anableddau neu symudedd cyfyngedig yn ffactor, gan wneud teithio dyddiol i ysgol ymhellach i ffwrdd yn anodd iawn yn ymarferol. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn ac yn nodi, pe byddai'r ysgol yn cau, y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddysgwyr cymwys yn unol â pholisi cludiant ysgolion y sir, sy'n sicrhau bod pob dysgwr cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol agosaf yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys ystyriaethau diogelwch llwybrau cerdded ac anghenion unigol lle bo'n berthnasol. Ni rhagwelir y byddai unrhyw ddysgwr dalgylch Ysgol Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Dengys yr Asesiad Effaith Cymunedol y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei gwireddu, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nantlle. Hefyd, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli.

Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau yr anghyfarfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau fod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen.

Drwy weithredu'r cynnig, byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran, a byddai'n sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg. Rhagwelir y byddai dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Ein disgwyliadau yw bod holl ddysgwyr y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys a gallu perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer newid trefniadau lleol gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a chynyddu defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith y dysgwyr yn ystyriaeth allweddol wrth lunio'r cynnig.

Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y Sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categorieiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y bydd dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn Ysgol Talysarn, pe gweithredir y cynnig.

Drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mynegwyd pryderon cryf y gallai cau Ysgol Baladeulyn arwain at drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ymarferol, er bod darpariaeth addysgol Gymraeg yn parhau. Pwysleisiwyd gan ymatebwyr fod Ysgol Baladeulyn yn darparu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol a chymdeithasol o ddydd i ddydd, nid yn unig fel iaith addysgu, a bod colli'r ysgol yn gallu lleihau'r cyfleoedd hynny'n sylweddol o fewn y gymuned leol. Nodwyd bod gan Ysgol Baladeulyn broffil Cymraeg cryf iawn o'i gymharu ag ysgolion eraill yn yr ardal, a mynegwyd pryder y byddai symud i ysgol â chanran is o ddefnydd Cymraeg yn cael effaith andwyol ar hyder ieithyddol y dysgwyr. Nodwyd y gallai colli'r ysgol danseilio'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn fyw ac yn ymarferol ym mywyd beunyddiol y gymuned, gan gyfeirio at gyfleoedd naturiol i blant, rhieni/gwarcheidwad/teuluoedd a thrigolion lleol ymgynnull a sgwrsio yn y gymuned yn ystod amseroedd gollwng a chodi dysgwyr. Mynegwyd pryder y gallai cau'r ysgol arwain at golli'r cyfleoedd hyn, gan wanhau statws y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw ac o bosibl danseilio'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol. Nodwyd hefyd bod yr ysgol yn gweithredu fel canolbwynt pwysig i fywyd Cymraeg y pentref, gan gyfrannu at ddefnydd yr iaith y tu hwnt i oriau ysgol a chyfeirir sut mae'r ysgol yn integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl, i fywyd Cymraeg lleol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Baladeulyn mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith negyddol bosibl ar elfennau o fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.

Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol dysgwyr, am y rhesymau canlynol:

- Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn
- Mae'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.

Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, Ysgol Talysarn, yn ogystal â ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.

Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Dengys yr Asesiad Effaith ar y Gymuned y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r dysgwy sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes.

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, mynegwyd fod Ysgol Baladeulyn yn cyfrannu'n sylweddol at lesiant hirdymor dysgwyr, teuluoedd a'r gymuned, trwy ddarparu amgylchedd sefydlog a chefnogol sy'n hybu lles, cyfartaledd a chydlyniant cymunedol. Nodwyd bod y darpariaeth presennol yn cefnogi dysgwyr bregus neu dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol, ac yn cynnal y Gymraeg fel iaith fyw, gyda phryder y gallai newidiadau danseilio'r manteision hyn. Tynnwyd sylw hefyd at y ffordd y mae'r ysgol yn cyfrannu at sawl nod llesiant, drwy ddarparu mynediad lleol at addysg sydd yn ganolog i ryngweithio cymdeithasol a bywyd bob dydd y pentref ac yn hybu'r defnydd naturiol o'r Gymraeg i bob oedran a chefnidir. Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig hwn, gall arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r dysgwyr sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn, ac felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned yr ysgol honno yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Talysarn yn cynnwys y gymuned lle'n briodol.

Bydd y cynnig yn sicrhau fod dysgwyr yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Na

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:

Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal wrth gael eu lleoli mewn ysgol amgen oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sydd yn seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol, ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig, byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, bydd yn sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg, ac yn caniatáu mynediad at fwy o weithgareddau perthnasol i'w lefel gallu. Byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

Effaith Negyddol Sylweddol:

Cydnabyddir y gall yr opsiwn sydd yn cael ei gynnig gael effaith ar sefydliad o fewn y gymuned a chael effaith ar gydlyniant cymunedol, a rhagwelir yr angen i liniaru hyn drwy feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned.

Yn sgil y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nodir hefyd effaith negyddol bosibl ar ddysgwyr bregus, gan gynnwys dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion emosiynol/gymdeithasol, oherwydd pryderon ynghylch colli manteision amgylchedd dosbarthiadau bach a chefnogaeth bersonol, yn ogystal â'r heriau pontio i ysgol fwy, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, mae'r Cyngor yn nodi, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, y byddai trefniadau pontio yn canolbwyntio ar anghenion unigol a llais y plentyn, gyda pholisïau cynhwysiant a chydraddoldeb ar waith yn yr ysgol amgen, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Yr ysgol (a'u Corff Llywodraethu) sydd yn gyfrifol am weithredu ei pholisi cydraddoldeb a bydd yr Awdurdod, drwy ei weithdrefnau cefnogi a monitro arferol yn sicrhau cydymffurfiaeth.

14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Na

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Ddim yn berthnasol.

Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau

Ddim yn berthnasol.

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, mae'r Cyngor wedi ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ac wedi diweddarau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd yr effaith yn parhau i gael ei fonitro fel rhan o ddyletswyddau statudol parhaus y Cyngor.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau yr anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau fod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig, byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, a byddai'n sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg. Byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Rhagwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith positif ar y Gymraeg gan y byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol. Byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn yn sicrhau parhad addysg cyfrwng Cymraeg, gyda data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn (o'i gymharu â 29% yn Ysgol Baladeulyn) yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref. Er bod y Cyngor yn cydnabod pryderon am effaith bosibl ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg yn Nantlle, gellid ystyried mesurau lliniaru drwy ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd yr adeilad yr ysgol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Pe byddai'r ysgol yn cau, gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Talaerau ystyried dulliau i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn gymdeithasol a chryfhau cysylltiadau cymunedol trwy gyfrwng gweithgareddau allgyrsiol a chymunedol.

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol.

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisiâu/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu [Fframwaith Fesur](#)

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth
-	-	-	-	-

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth
Pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, byddwn yn monitro effaith cau'r ysgol ac yn ymdrechu i gynorthwyo gydag unrhyw effaith negyddol all ddeillio o ganlyniad y polisi.	Parhaol	Adran Addysg	Na

Sylwadau Cyngorydd Peter Thomas ar adroddiad yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027.

Hoffwn ar y dechrau ddiolch i chi fel swyddogion yn yr adran moderneiddio addysg am eich gwaith dros y dwy flynedd diwethaf yn ystyried dyfodol dwy ysgol gynradd yma yn Dyffryn Nantlle. Rwyf yn siŵr bod hyn wedi bod yn heriol iawn ac yn broses boenus iawn i chi, ac fel yr ydych yn gwybod i'r rhieni, plant, staff a'r gymuned yn gyffredinol.

Er fy mod wedi bod yn glir o'r dechrau bod niferoedd o blant sydd yn yr ysgol ddim yn gynaliadwy roeddwn wedi gobeithio bysa y cyngor wedi cytuno gyda mi, na y ffordd ymlaen oedd gadael Ysgol Baladeulyn yn agored drwy yr opsiwn o ffederaleiddio gyda Ysgol Talysarn a ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ac anghenion dysgu arbennig ADY.

Mae'r cod trefniadaeth ysgolion yn nodi bod ffederaleiddio yn dod a manteision arbennig i ysgolion gwledig drwy cyd weithio a cryfhau arweinyddiaeth a chyfleoedd cydweithio. Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gyda Ysgol Talysarn o dan arweiniad un pennaeth a un corff llywodraethwyr.

Yn ystod yr ymgynghoriad, mi nes godi pryderon ynghylch yr effaith y gallai cau Ysgol Baladeulyn ei chael ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref. Pwysleisiais rôl bwysig yr ysgol i groesawu a chynnwys teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, ymysg eraill, i fywyd Cymraeg y gymuned.

Pwysleisiwyd bod yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at ddefnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol, megis cyfarfodydd cymdeithasol, chwarae ar ôl ysgol a rhyngweithio rhwng rhieni a thrigolion lleol. Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol yn ergyd drom i'r pentref ac i'r trigolion ac os bydd dim ysgol yna fydd teuluoedd gyda plant ddim yn ystyried prynu neu rhentu tai yn Nantlle, yna yn arwain at leihad graddol yn y defnydd cymunedol o'r Gymraeg.

Rwyf yn falch o weld bod y Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Baladeulyn mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith andwyol bosibl ar fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.

Hefyd mae rhaid ystyried yr effaith debygol ar drefniadau teithio a effaith all symud ysgol gael ar y plant.

Mi fysa cau Ysgol Baladeulyn yn ergyd drom i'r gymuned yma yn Nantlle yn ac y teimlad yw bod cau ysgol arall yma yn Gwynedd yn arwydd arall o'r heriau mae ein cymunedau yn ei wynebau yma yn gefn gwlad ein sir.

Fyswn yn ddiolchgar dros ben i'r cabinet ystyrio y pwyntiau rwyf wedi godi ac y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, ac yn gwrthod barn yr adran moderneiddio addysg i gau Ysgol Baladeulyn diwedd Rhagfyr 2026.

Diolch yn fawr am eich amser.
Peter Thomas (CYNG/COUN)

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	<i>Comisiynu Ymchwiliadau</i>
Aelod Cabinet:	<i>Cyng. Nia Jeffreys – Arweinydd y Cyngor</i>
Swyddog perthnasol:	<i>Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr</i>
Dyddiad y cyfarfod:	19 Mai 2026

1. Penderfyniad a Geisir:

Gofynnir i'r Cabinet:

- a) Comisiynu y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a ble'n berthnasol y Swyddog Monitro i fwrw ymlaen a'r ymchwiliadau ac adolygiadau pellach a nodir yn rhan 4 o'r adroddiad hwn yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder gan gynnwys :
 - (a) Cytuno y cylch gorchwyl a'r camau gweithredol,
 - (b) Adnabod a phenodi ymchwilydd annibynnol allanol lle bo'r gofyn
 - (c) Trefnu i dderbyn adroddiadau terfynol a chymryd camau i'w cyflwyno i'r pwyllgorau a fforymau perthnasol
- b) I awdurdodi'r Prif Weithredwr i barhau i gyfathrebu gyda chyrff a phartneriaid perthnasol eraill ynglŷn â pha gamau ac ymchwiliadau y maent hwy yn eu cynnal a'r gwersi a ddysgwyd allasai fod o fudd i'r Cyngor
- c) I awdurdodi'r Prif Weithredwr i ddargyfeirio adnoddau staff i gefnogi ymchwilydd annibynnol i gwblhau'r gwaith
- ch) I awdurdodi'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid ac Aelod Cabinet Cyllid, i flaenoriaethu a chymeradwyo dyraniadau o'r gronfa a sefydlwyd drwy'r drefn Bidiau Un tro 2026-27 i ariannu'r ymchwiliadau.

2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

2.1 Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder bu i Gabinet y Cyngor fabwysiadu ei ail Gynllun Ymateb ffurfiol oedd yn datgan nifer o amcanion wrth fynd ati i sicrhau ein bod yn ymateb yn gyflawn a thrwyadl i bob argymhelliad ddeilliodd o waith yr Adolygiad Ymarfer Plant ac ein bod yn cryfhau ein systemau diogelu gymaint ag y bo modd. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr

penderfynwyd cefnogi gofyn i'r Cabinet ystyried pa ymchwiliadau pellach sydd eu hangen er mwyn cyfarch yr hyn sy'n mynd tu hwnt i ffiniau'r Adolygiad.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

Cefndir/ Cyflwyniad

- 3.1 Ym mis Ionawr 2025, mabwysiadwyd Cynllun Ymateb y Cyngor i droseddau cyn Bennaeth Ysgol Friars ac yn dilyn hynny sefydlwyd Bwrdd Ymateb i fonitro cynnydd y cynllun hwn. Cadeirir y Bwrdd yn annibynnol gan yr Athro Sally Holland ac mae nifer o gynrychiolwyr o sefydliadau statudol yn sylwedyddion ar y bwrdd gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y Comisiynydd Plant, Estyn, Arolygaeth Gofal Cymru, a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
- 3.2 Cyhoeddwyd yr adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder ym mis Tachwedd 2025 ac yn dilyn hynny adolygwyd y Cynllun Ymateb a rhaglen waith cysylltiedig er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb i'r holl argymhellion.
- 3.3 Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 4 Rhagfyr 2025, galwyd ar y Cabinet i fod yn cynnal nifer o ymchwiliadau pellach yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder.
- 3.4 Yn yr un cyfarfod bu i'r Arweinydd nodi ei bwriad i gomisiynu adolygiad i drefniadau llywodraethiant yn sgil cyhoeddi'r adroddiad.
- 3.5 Cyflwynwyd y Cynllun Ymateb newydd i Bwyllgorau Craffu Gofal, Addysg ac Economi, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor Llawn yn gynnar yn 2026 cyn i'r Cabinet ei fabwysiadu yn ffurfiol ar 10 Mawrth 2026.
- 3.6 Mae'r Cyngor wedi llwyr ymrwymo i wneud popeth posib o fewn ei allu i wella trefniadau diogelu ac mae nifer o gamau gweithredu o fewn y Cynllun Ymateb wedi eu gweithredu eisoes. Adroddir ar y cynnydd hwn yn chwarterol i'r Cabinet gan Gadeirydd annibynnol y Bwrdd Ymateb.
- 3.7 Mae holl bapurau'r Bwrdd Ymateb ynghyd a gwybodaeth ddefnyddiol am ein cynnydd i'w gweld ar wefan y Cyngor [Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb](#)

Rhesymeg a chyflwyniad dros argymell y penderfyniad

- 3.8 Yn dilyn yr achos troseddol y mae nifer o ymchwiliadau wedi eu cynnal neu eisoes ar waith. Cyflwynir y papur hwn er mwyn comisiynu yn ffurfiol ymchwiliadau pellach er mwyn cefnogi'r dysgu a chryfhau ein trefniadau mewnol
- 3.9 Mae Adolygiad Ymarfer Plant yn gam arferol ym mhob achos lle mae camdriniaeth neu esgeulustod arwyddocaol wedi digwydd i blentyn er mwyn dysgu gwersi a gwella ymarfer, trefniadau diogelu a systemau yn y dyfodol. Bu i'r adolygiad statudol hwn gael ei gynnal gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru a'i gadeirio gan Jan Pickles.

- 3.10 Bu i'r Adolygiad fynd lawer iawn ymhellach na'r arferiad mewn adolygiad o'r fath ac yn dilyn rhoi ystyriaeth ddwys i holl amgylchiadau'r achos penderfynwyd edrych ar bopeth o Ionawr 2017 hyd Medi 2023.
- 3.11 O fewn y cylch gorchwyl nid oedd cyfyngiadau ar yr hyn y gallai'r ymchwilyr fod wedi ei ystyried a bu'r gwaith y mynd rhagddo o Fehefin 2024 hyd gyhoeddi ei hadroddiad yn Nhachwedd 2025.
- 3.12 Er mwyn penderfynu pa ymchwiliadau y dylid ymgymryd â hwy, ystyriwyd amcanion y Cynllun Ymateb yn gyntaf.
- 3.13 Nodir fod nifer o ffrydiau gwaith ac ymchwiliadau eisoes ar waith neu wedi eu cwblhau, gan gynnwys elfennau o'r Cynllun Ymateb megis
- ymchwiliad troseddol yr heddlu,
 - Adolygiad Ymarfer Plant statudol
 - Ymchwiliad i ddigwyddiadau 2019,
 - Ymchwiliad annibynnol i argymhellion Panel Cwynion Annibynnol,
 - Ymchwiliad annibynnol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) i drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymdrin â cheisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
 - Ymchwiliadau Craffu i drefniadau diogelu mewn ysgolion
 - Adolygiad ar y cyd gan Estyn ac Arolygaeth Gofal Cymru,
 - Awdit o gyfeiriadau Rhan 5.
- 3.14 Adeiladu ac ymestyn ar yr ymchwiliadau hyn ac eraill er mwyn dysgu gwersi fyddai'r ymchwiliadau pellach a gomisiynir yn sgil yr adroddiad hwn.
- 3.15 Wrth bwyso a mesur pa ymchwiliadau ychwanegol fyddai'n briodol, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r gwaith a'r dystiolaeth a gasglwyd eisoes, er mwyn osgoi dyblygu, ac i sicrhau bod y broses yn cael ei chynnal mewn ffordd sensitif sy'n lleihau'r perygl o aildrawmateiddio dioddefwyr.

4. Ymchwiliadau pellach i'w comisiynu:

- 4.1 Cyn dod i benderfyniad terfynol ar y math o ymchwiliadau pellach y dylid eu comisiynu rhoddwyd ystyriaeth i sylwadau ac awgrymiadau gan Aelodau etholedig mewn amrywiol bwyllgorau diweddar yn ogystal â sylwadau anffurfiol gan unigolion o gyrff a sefydliadau allanol.

4.2 Gan mai'r Cabinet fydd yn comisiynu yr ymchwiliadau hyn bydd angen adrodd yn ôl i ystod o wahanol fforymau e.e. y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, i Bwyllgor Craffu neu i'r Panel Strategol Diogelu – fe fydd y llwybrau hynny yn dibynnu ar natur y gwaith a'r ymchwiliad dan sylw.

4.3 Yn dilyn ystyriaeth ofalus argymhellir y dylid cynnal yr ymchwiliadau pellach canlynol:

Adolygiad llywodraethiant

4.4 Yn unol â datganiad Arweinydd y Cyngor yng nghyfarfod y Cyngor ar 4 Rhagfyr 2025, bydd y Cabinet yn comisiynu adolygiad i drefniadau llywodraethiant y Cyngor mewn perthynas â'r cyfleoedd a gollwyd ac argymhellion yn adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, a sefydlu os oes gwersi i'w dysgu.

4.5 Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal gan ymchwilydd annibynnol allanol, ac fe fydd yn ystyried y cyfleoedd a gollwyd, a oedd trefniadau adrodd i mewn i brosesau democrataidd y Cyngor yn berthnasol ac wedi cael eu dilyn. Bydd hefyd yn ystyried a gafodd pryderon neu wybodaeth eu huwchgwyfeirio drwy'r sianeli cywir ar yr adeg, ac a oes angen adolygu cryfder a digonolrwydd trefniadau corfforaethol yng ngoleuni canfyddiadau'r adroddiad.

4.6 Caiff yr adolygiad hwn ei gwblhau gan ymchwilydd allanol a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nhymor yr Hydref 2026.

Diwylliant

4.7 Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi datgan ei fwriad i fod yn cynnal adolygiad o ddiwylliant gwaith y Cyngor ynghyd â'n Cynllun Ffordd Gwynedd a bydd yr adolygiad hwn yn adrodd i'r Cabinet ar hyd y daith. Bydd hefyd yn ceisio mewnbwn yr holl Aelodau Etholedig yn ogystal â staff y Cyngor.

4.8 Bydd yr adolygiad yn tynnu at ei gilydd materion diwylliant gwaith drwy nifer o ffynonellau. Mae hyn yn cynnwys:

- arolwg llais staff,
- adborth uniongyrchol drwy brosesau hunanasesu a pherfformiad
- pryderon sy'n cael eu codi gan staff drwy lwybr canu'r gloch
- ymgysylltu rheolaidd drwy rhwydwaith rheolwyr
- sesiynau staff
- prosesau adnoddau dynol

- tynnu ar ganfyddiadau adolygiadau gan sefydliadau allanol gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn, Arolygaeth Gofal Cymru ac Asesiad Perfformiad gan Banel annibynnol.

Ceir cyfle i adeiladu ar hyn oll drwy'r adolygiad o'n diwylliant gweithio a'r cynllun Ffordd Gwynedd.

4.9 Caiff yr Adolygiad hwn ei arwain gan y Prif Weithredwr, gyda mewnbwn gan Aelodau Etholedig, staff a rhanddeiliaid eraill. Gan fod etholiadau lleol i'w cynnal ym mis Mai 2027, caiff hyn effaith ar y rhaglen waith i gyflawni'r gwaith hwn. Bwriedir rhaglennu'r gwaith yma yn ddau ddarn, gan sicrhau fod yr adolygiad ei hun wedi ei gyflawni cyn diwedd 2026 ac yna cynnal sesiynau pellach gyda Aelodau a fydd yn newydd i'r Cyngor ym Mai 2027. Bwriedir cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad i'r Pwyllgor Craffu yn ystod yr Hydref cyn gofyn i'r Cabinet ei fabwysiadu cyn diwedd y flwyddyn.

Effeithiolrwydd Y gyfundrefn Llywodraethu Ysgolion

4.10 Amlygodd Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder fod y rhaniad cyfrifoldebau statudol ddim wastad yn glir a bod peth dryswch yn nealltwriaeth gwahanol rhanddeiliaid o ran lle roedd gwahanol gyfrifoldebau yn gorwedd mewn rhai agweddau.

4.11 Mae'r drefn bresennol lle mae Cyrff Llywodraethol yn gyfrifol am faterion rheoli a llywodraethu ysgolion, ac yna'r disgwyliad i'r Awdurdod Addysg fod yn cefnogi yn gallu bod yn annelwig ar adegau, a hefyd yn rhwystredig o'r ddwy ochr.

4.12 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu ysgolion a disgwylir canlyniad yr adolygiad hwn yn fuan. Rydym wedi croesawu'r adolygiad hwn ac wedi cynnig i Lywodraeth Cymru fod Cyngor Gwynedd yn rhan o'r gwaith, gan ein bod eisoes wedi bod yn glir yn gyhoeddus fod y drefn bresennol wedi "torri" ac felly'n awyddus i weld newidiadau. Yn ogystal, rydym wedi gwneud argymhellion i'r Llywodraeth ynghylch eu cylch gorchwyl cychwynnol, gan bwysleisio'r angen am gynrychiolaeth ehangach o ysgolion a chyd-destunau (gan gynnwys ysgolion llai), ac rydym wedi parhau i gyfathrebu ar hyn mewn ffordd ddwyffordd.

4.13 Tra'n disgwyl am ganlyniad yr adolygiad cenedlaethol byddwn hefyd yn cynnal ein adolygiad ein hunain. Bydd yr adolygiad hwn yn edrych ar:

- y gyfundrefn llywodraethu ysgolion presennol a sut mae'n cael ei weithredu yng Ngwynedd gan ganolbwyntio ar y gyd-berthynas rhwng ysgol a'r Adran Addysg
- pa mor effeithiol yw'r gyfundrefn bresennol ac adnabod unrhyw rwystrau ymarferol mae'n ei greu i ysgolion a'r Adran Addysg?

4.14 Unwaith y bydd yr adolygiad cenedlaethol wedi dod i gasgliadau, bydd modd i ni sefydlu os fydd unrhyw addasiadau i'r gyfundrefn o gymorth i oresgyn unrhyw faterion fydd wedi eu hadnabod yn ein adolygiad mewnol ein hunain.

- 4.15 Sefydli'r y briff manwl ar gyfer y gwaith hwn mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Addysg a byddwn yn comisiynu ymgynghorydd allanol i gyflawni'r gwaith yma gan anelu i gyflwyno'r casgliadau i'r Pwyllgor Craffu cyn diwedd 2026.

Dealltwriaeth systemig o ran gweithredu Rhan 5

- 4.16 Ers cyhoeddi Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder (a chyn hynny hefyd) mae newidiadau wedi digwydd i'n trefniadau delio gyda chyfeiriadau rhan 5, sef cyfeiriadau am unigolion sydd mewn swydd o ymddiriedaeth ('*person in a position of trust*'), yn unol ag argymhellion yr adroddiad.
- 4.17 Gan fod yr angen i gryfhau ein trefniadau wedi ei amlygu byddwn yn cynnal Adolygiad o bob cyfeiriad dyblyg Rhan 5 yn ôl i 2020 ac yna edrych ymhellach na hynny ar gyfer yr unigolion hynny lle daw unrhyw gyfeiriadau dyblyg i'r amlwg. Mae rhan helaeth y gwaith hwn eisoes wedi ei gwblhau a bydd yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu yn Hydref 2026.

Sefydlu ffeithiau a dysgu gwersi diogelu mewn unrhyw ysgol dan arweinyddiaeth y troseddwr.

- 4.18 Bydd sgôp yr adolygiad Rhan 5 a gyfeirir ato uchod yn gael ei ehangu ymhellach ar gyfer unrhyw ysgol y bu i'r troseddwr ei arwain ac fe fydd y gwaith yn edrych ar a fu patrwm o gyfeiriadau am unrhyw un yn yr ysgolion dan sylw, neu oedd faterion diogelu sylweddol wedi eu huchafu tra roedd ysgol yng ngofal y troseddwr.
- 4.19 Byddwn yn mynd yn ôl mor bell ag mae cofnodion a gwybodaeth yn caniatáu i ni fynd. Mae Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder eisoes wedi rhoi ystyriaeth i gyd destun hyn i raddau wrth osod eu dyddiad cychwyn o Ionawr 2017.
- 4.20 Caiff yr adolygiad hwn ei gynnal gan ymgynghorydd allanol a bydd yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu yn yr Hydref 2026.

Ymgysylltu â chyrrff eraill.

- 4.21 Er nad oes pwerau gan Gyngor Gwynedd i fod yn ymchwilio i rôl eraill yn hyn oll, mae ymrwymiad clir i fod yn annog eraill i gynnal ymchwiliadau ac ymateb i argymhellion Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder sy'n berthnasol i sefydliadau eraill.
- 4.22 Gyda hynny mewn golwg rydym eisoes wedi cyfathrebu gyda nifer sefydliadau eraill allasai fod yn berthnasol i ddysgu am eu camau ymateb hwy. Byddwn yn parhau gyda'r cyfathrebu yma er mwyn casglu os oes unrhyw wybodaeth bellach ganddynt a fyddai o fudd i ni fel Cyngor ac i drefniadau diogelu yn gyffredinol.

Ymchwiliadau tu hwnt i rymoedd Awdurdod Lleol

- 4.23 Cydnabyddir fod cyfyngiadau clir ar sgôp a phwerau y cyngor o ran rhai elfennau sy'n codi o'r adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder. Nid oes gan y

Cyngor yr awdurdod na'r pwerau statudol i ymchwilio i bob corff, proses neu benderfyniad perthnasol a allai fod wedi dylanwadu ar y sefyllfa dros y cyfnod dan sylw, nac ychwaith i orfodi rhai nad ydynt yn gyflogedig i gymryd rhan mewn unrhyw ymchwiliadau pellach.

4.24 Gyda hynny mewn golwg, er bod y Cyngor yn rhoi camau gweithredu pendant mewn lle drwy'r Cynllun Ymateb ac yn comisiynu ymchwiliadau pellach sydd o fewn ei rymoedd drwy gyfrwng yr adroddiad hwn, pwysleisir na all y camau hynny, ar eu pennau eu hunain, ateb bob cwestiwn allasai fod yn berthnasol. Ymchwiliad Cyhoeddus fyddai'r trywydd ar gyfer ymchwilio ymhellach na'r pwerau sydd gan y Cyngor hwn ac mae'r Cabinet eisoes wedi galw hynny.

5. Camau nesaf

5.1 Yn dilyn derbyn cadarnhad y Cabinet, bwriedir symud ymlaen yn syth i gomisiynu'r ymchwiliadau sydd heb gychwyn hyd yma a phenodi ymgynghorwyr allanol i gynorthwyo cyflawni hyn oll.

6. Sylwadau Swyddogion Statudol.

6.1 Prif Swyddog Cyllid

Bydd modd i elfen o'r gwaith gael ei gyflawni o fewn cyllidebau adrannol, tra fod adnoddau ychwanegol ar sail parhaol ac un-tro yn ofynnol ar gyfer yr elfen arall o'r gwaith. Mae cyllid ychwanegol i gyllido'r costau parhaol ychwanegol wedi cael eu hystyried wrth lunio cyllideb 2026/27 a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 5 Mawrth 2026, ac mae bidiau un-tro am arian ychwanegol i ymdrin â'r costau unwaith ac am byth wedi ei gymeradwyo yn Cabinet 10 Mawrth 2026. Fel rwyf wedi adrodd i'r Cabinet a'r Cyngor llawn yn flaenorol, rwyf yn fodlon na fydd ystyriaethau ariannol yn rwystr rhag cyflawni'r cynllun ymateb Cyfiawnder Trwy Ein Dewder.

6.2 Swyddog Monitro

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	19 Mai 2026
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog Cyswllt:	Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 682684
Teitl yr Eitem:	Dyrannu incwm o'r Premiwm Ail Gartrefi a Thai Gwag ar gyfer 2026-27

1. PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Dyrannu'r incwm ychwanegol o'r premiwm ar eiddo gwag ac ail-gartrefi i'r meysydd blaenoriaeth a nodir yn Rhan 4 isod.
- 1.2. Y Cabinet i gomisiynu gwaith pellach i lunio cynigion ar gyfer y defnydd o'r arian premiwm ychwanegol o £914k sydd yn berthnasol i 2025/26 a'r swm o £4k sydd weddill heb ei ddyrannu yn yr adroddiad yma.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1. Mae'n ofynnol i gynghorau bennu defnydd o'r premiwm yn unol â'r [Canllawiau Statudol Treth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi | LLYW.CYMRU](#).
- 2.2. Mae'r Cyngor wedi casglu incwm o'r premiwm oedd uwchlaw yr amcangyfrifon yn ystod 2024/25 sydd angen ei glustnodi i feysydd blaenoriaeth.
- 2.3. Bydd y Cyngor yn casglu incwm ychwanegol yn sgil cynyddu'r Premiwm ar Eiddo Gwag o 100% i 150% ar gyfer 2026/27, ac mae angen ei glustnodi i feysydd blaenoriaeth.

3. CYFLWYNIAD

- 3.1. Mae gan Gyngor Gwynedd bwerau, o dan ddeddfwriaeth Treth Gyngor, i godi premiwm ar ail gartrefi ac ar dai gwag hirdymor. Mae'r premiwm yn cynhyrchu incwm ychwanegol i'r Cyngor, ac mae'r canllawiau statudol yn gosod disgwyliadau clir ynghylch sut y dylid ystyried a defnyddio'r incwm hwn.

- 3.2. Fel rhan o broses gosod y gyllideb ar gyfer 2026/27, mae'r Cyngor wedi penderfynu yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2025 cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor o 100% i 150%, tra'n cadw Premiwm ar ail gartrefi yn 150%: [Adroddiad Premiwm Treth Cyngor 2026-27](#).
- 3.3. Er mai dyhead y Cyngor yw i gael mwy o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, disgwylir bydd cynyddu graddfa'r Premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn creu swm ychwanegol o incwm yn ystod 2026/27 a mewn blynyddoedd dilynol.
- 3.4. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol mae swyddogion yr Adran Gyllid yn adnabod y gwir incwm sydd wedi ei gasglu o breimiwm treth Cyngor a pan fo swm uwchlaw'r hyn sydd wedi ei gyllidebu, mae'r Cabinet yn penderfynu ar ei ddefnydd.
- 3.5. Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio penderfyniad gan y Cabinet ar gyfer dyrannu'r incwm ychwanegol hwn i feysydd gwaith blaenoriaeth ar gyfer 2026-27 ymlaen.
- 3.6. Ceir amlinelliad o effaith dyraniadau presennol incwm y premiwm i feysydd blaenoriaeth yn yr rhan 5 o'r adroddiad aeth i'r Cyngor Llawn yn Rhagfyr 2025: [Adroddiad Premiwm Treth Cyngor 2026-27 C.pdf](#)

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Cyd-destun

- 4.1. Nodir yng Nghynllun y Cyngor fod "Gwynedd Glyd" yn un o'r 8 maes blaenoriaeth yn ystod 2023-2028 gydag uchelgais glir o sicrhau fod gan pob person yng Ngwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella ansawdd eu bywydau.
- 4.2. Byddwn yn cyflawni'r uchelgais hon drwy brosiectau penodol yn ymwneud a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Tai i gynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol; a pecyn o ymyriadau i fynd i'r afael â'r rheolaeth ail-gartrefi a llety gwyliau tymor byr a'u heffaith andwyol ar allu pobl y sir i gael mynediad at gartrefi yn eu cymunedau a chynnaladwyedd cymunedau.
- 4.3. Dyrennir incwm o'r premiwm tuag at gyflawni'r prosiectau'r hyn yn bresennol.
- 4.4. Ers 2018 pan gyflwynwyd y premiwm yng Ngwynedd mae'r cyngor wedi dilyn yr egwyddorion canlynol wrth ei ddyrannu i ddibenion a meysydd penodol
 - a) aliniad â'r canllawiau statudol ar ddefnyddio incwm premiwm;
 - b) aliniad â'r amcanion a nodir yng Nghynllun y Cyngor

Cyllideb sydd i'w ystyried

- 4.5. Bydd yr incwm ychwanegol o gynyddu'r premiwm ar eiddo gwag i 150% yn dibynnu ar nifer yr eiddo perthnasol, newidiadau ym mhatrymau meddiannaeth (e.e. dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd) a lefelau casglu Treth Gyngor.
- 4.6. Yn seiliedig ar yr uchod amcangyfrifir ar ddechrau 2026/27 y bydd y swm hwn yn **£893,700**, fel a adroddwyd yn adroddiad Cyllideb 2026/27 [CYNGOR - Cyllideb 2026-27](#). (Fel a welir yn y tabl *Gofynion Gwario Ychwanegol* ym mharagraff 3.1).
- 4.7. Wrth ystyried Adolygiad Cyllideb Tachwedd ar [20 Ionawr 2026](#), penderfynodd y Cabinet drosglwyddo £2.089 miliwn o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol i Gronfa Premiwm Treth Cyngor, yn bennaf i adlewyrchu chwyddiant oedd wedi cronni. Ar y pryd, roedd **£328,400** yn weddill i'w ddyrannu: [Atodiad 3 Cronfeydd](#). Mae'r adroddiad yma hefyd chwilio am benderfyniad y Cabinet i ddyrannu'r swm yma.
- 4.8. Mae'r adroddiad yma, felly, yn ceisio penderfyniad gan y Cabinet i ddyrannu cyfanswm o **£1,222,100**.

Y defnydd a argymhellir.

- 4.9. Yn ychwanegol i'r cyd-destun a nodir uchod rydym angen ystyried y canlynol:
- a) cynnydd a nifer uwch o ymholiadau am y premiwm yn parhau'n her;
 - b) newidiadau deddfwriaethol pellach i'r gyfundrefn drethi yn 2026-27 all arwain at fwy o ymholiadau / apeliadau;
 - c) nifer ac amser apeliadau i'r Swyddfa Brisiol yn rhoi pwysau ar drigolion a gweinyddiaeth yn y Gwasanaeth Trethi;
 - d) rhybudd i derfynu grant tai gwag Llywodraeth Cymru o Fedi 2026 yn golygu nad oes ffrwd incwm ar gyfer gwireddu targedau tai gwag y Cynllun Gweithredu Tai.
- 4.10. Argymhellir fod yr incwm sydd i'w ystyried yn cael ei ddyrannu fel a amlinellir yn y tabl ar y tudalennau nesaf, i gyfarch yr hyn a nodwyd yn 4.4 a 4.9 uchod.
- 4.11. Bydd hyn yn rhoi mwy o gymorth i ddod a thai gwag yn ôl i ddefnydd a lliniaru effeithiau eraill sy'n deillio o lefel uchel o dai gwag, ac ail gartrefi, yn ein cymunedau, gan gynnwys yr effaith ar gyfleusterau a darparu gwasanaethau lleol (Cronfa Gymunedol i gynnal cynladwyedd cymunedau; edrychiad cymunedau; gorfodaeth eiddo gwag ayyb). Mae hefyd yn cydnabod y pwysau sylweddol sydd ar weinyddiad y Cyngor wrth ymdopi â'r premiwm a sgil effeithiau newidiadau deddfwriaethol yn y maes.

Swm Parhaol £	Swm Un-tro £	Disgrifiad	Effaith
150,000		Cronfa Gymunedol Cynnal cynladwyedd a chyfleusterau cymunedau a effeithir gan nifer uchel o dai gwag, ail-gartrefi a'r argyfwng tai (Adran Economi a Chymuned) Bydd y gronfa'n cefnogi prosiectau cyfalaf a refeniw sy'n: • diogelu a chryfhau isadeiledd cymunedol hanfodol • cynnal gwasanaethau lleol mewn ardaloedd â chrynodiad uchel o ail gartrefi • cynyddu defnydd cymunedol drwy'r flwyddyn • sicrhau hyfywedd ariannol hirdymor asedau cymunedol • defnyddio adeiladau gwag at ddiben cymunedol Nid cronfa twf economaidd gyffredinol yw hon, nac ychwaith grant gweithgareddau bach. Mae'n gronfa sy'n canolbwyntio ar wydnwch a strwythur cymunedol.	• Cefnogi 5–8 prosiect i gefnogi cymunedau • Diogelu neu gryfhau 3–5 ased cymunedol • Cynyddu defnydd drwy'r flwyddyn mewn 3–4 ardal • Creu 3–5 swydd gymunedol (all fod yn gynaliadwy) rhan-amser • Denu £150k–£300k buddsoddiad cyfatebol

Swm Parhaol £	Swm Un-tro £	Disgrifiad	Effaith
200,000		Costau staffio (Adran Tai – Tîm Gorfodaeth a Thai Gwag) Cynyddu capasiti staffio presennol y tîm tai gwag (sef 1 aelod o staff) i 3 aelod o staff parhaol.	• Ymdrin â'r cynnydd yn y ceisiadau am grantiau tai gwag, sydd wedi cynyddu o 3 y mis i 18 y mis (cynnydd o 180 cais y flwyddyn) • Galluogi i gyflawni elfennau megis gwerthiant gorfodol • Cefnogi 90 o deuluoedd i berchnogi neu ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn eu cymunedau • Lleihau amser prosesu ceisiadau ac ymholiadau yn sylweddol • Dod â thai gweigion problemus, hir-dymor, yn ôl i ddefnydd.
60,000		Grant Adroddiadau a Gwaith Paratoi Sefydlu cronfa i gyfarch costau adroddiadau asbestos, adroddiadau pren a lleithder ac EPC ar eiddo sy'n derbyn grant neu gyllid benthyciad. Mae'r adroddiadau yn sicrhau diogelu buddsoddiad ac uchafu arian y grant Cartrefi Gwag a'r benthyciadau dilynol.	• Sicrhau bod eiddo gwag yn ddiogel ac yn addas ar gyfer cwblhau gwaith adnewyddu ddaw drwy grant / benthyciad dilynol.

Swm Parhaol £	Swm Un-tro £	Disgrifiad	Effaith
500,000		Grantiau Landlordiaid neu Gymorth Cartrefi Gwag Diben y grant hwn fydd i gefnogi perchnogion tai gwag i fod yn landlordiaid ac i wneud defnydd o eiddo gwag i gyfrannu at gynyddu'r cyflenwad o dai rent fforddiadwy. O dan y cynllun, i fod yn gymwys ar gyfer ystyriaeth bydd rhaid i'r eiddo fod yn wag ers dros 6 mis ac mi fyddai'r grant yn ariannu 75% o'r costau hyd at uchafswm o £20K.	• Dod â 25 o dai gwag yn ôl i ddefnydd fydd yn ychwanegu at yr uchelgais o 282 sydd eisoes yn bodoli trwy'r Cynllun Gweithredu Tai. • Cefnogi 25 uned deuluol.
50,000		Cronfa Costau Gorfodi Eiddo Gwag Problemus Caniatáu'r Tîm Gorfodi wneud gwaith adfer ar eiddo gwag problemus, hirdymor i'w gwneud yn ddiogel, a dilyn gyda phroses Gwerthiant Gorfodol. Bydd yr arian yn cyfrannu tuag at unrhyw gostau o dderbyn cyngor arbenigol ar gyfer achosion technegol.	• Cychwyn ar broses gwerthiant gorfodol ar 2 -3 eiddo gwag problemus hirdymor.
10,000		Fforwm Rhwydweithio Cydweithio gyda phartneriaid a rhan-ddeiliaid i godi ymwybyddiaeth am gynlluniau a gwasanaethau'r Cyngor er mwyn helpu mwy o drigolion Gwynedd ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd lleol	• Cynnal 4 gweithdy y flwyddyn, gydag arwerthwyr tai a landlordiaid preifat • Cynnal gwaith ymchwil i adnabod cyfleoedd

Swm Parhaol £	Swm Un-tro £	Disgrifiad	Effaith
	78,500	System Ffurflenni Trethi Ar lein Gwariant i fewnosod system ar gyfer ffurflenni trethi ar-lein er mwyn hwyluso trigolion i gyflwyno gwybodaeth am eu cyfrifon, wybodaeth am eu newid amgylchiadau ac ati. (Adran Cyllid)	• Gallu derbyn a delio gydag ymholiadau ar ffurf digidol a 24 awr y dydd. • Gwella cyflymder ymateb a phrosesu ceisiadau gan dreth-dalwyr.
63,900		Cynnal a chadw system Ffurflenni trethi ar lein Tâl blynyddol ar gyfer cynnal a chadw y system TG. (Adran Cyllid)	Fel uchod.
106,000		Gwasanaeth Adennill Penodi 2 x Swyddog Adennill i gynyddu capasiti fynd i'r afael ag adennill dyledion ac ôl-ddyledion (Adran Cyllid)	
1,139,900	78,500	Cyfanswm	

4.12. **£1,218,400** yw cyfanswm yr ymrwymadau uchod o'r cyllid o £1,222,100 (paragraff 4.8), sydd yn gadael £3,700 yn weddill heb ei ymrwymo. Bydd hwn i'w ddyrannu ynghyd ag oddeutu £914,075 o gyllid uwchlaw'r ymrwymadau presennol sy'n berthnasol i 2025/26 (gweler yr adroddiad alldro 2025/26 sy'n eitem ar wahân ar raglen y Cabinet).

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 5.1. Os bydd y Cabinet yn penderfynu ariannu'r cynlluniau a amlinellir yn y tabl uchod, byddant yn cael ei gweithredu yn 2026/27.

6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Asesiad Effaith

- 6.1. Diweddarwyd "Asesiad Effaith Cydraddoldeb Premiwm Treth Cyngor ar Eiddo Gwag Hir Dymor ac Ail-Gartrefi" i gyd-fynd gyda'r penderfyniadau i osod lefel y premiwm ar gyfer 2026-27 gan y Cabinet yn ei gyfarfod 11 Tachwedd 2025.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

- 6.2. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.
- 6.3. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.
- 6.4. Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol:
- Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor
 - Trigolion sy'n iach ac yn Annibynnol gyda Safon Bywyd Da
- 6.5. Mae'r Premiwm presennol yn ariannu Cynllun Gweithredu Tai y Cyngor, sy'n ymgais ragweithiol i gryfhau cynladwyedd y cymunedau hynny o fewn Gwynedd sydd â nifer uchel o ail gartrefi a thai gwag hir dymor.
- 6.6. Mae Strategaeth Tai y Cyngor yn nodi'r weledigaeth o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".
- 6.7. Mae'r Strategaeth yn adnabod pum amcan yr oedd yn rhaid ceisio eu cyfarch os oedd y Cyngor am gyflawni'r weledigaeth hon:
- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
 - Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
 - Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
 - Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
 - Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.
- 6.8. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys nifer o brosiectau sydd, gyda'i gilydd, yn mynd ati i wireddu'r amcanion hyn.

Sylwadau'r Swyddogion Statudol

6.9. Sylwadau'r Prif Swyddog Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

6.10. Sylwadau'r Swyddog Monitro:

Mae dyrannu a blaenoriaethu yr incwm o'r premiwm yn fater i'r Cabinet benderfynu arno. Rwy'n fodlon fod yr argymhelliad yn briodol ac yn cyd fynd a'r hyblygrwydd sydd yn yr Arweiniad Statudol.

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr Eitem:	Cyfrifon Terfynol 2025/26 – Alldro Refeniw
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog perthnasol:	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau
Dyddiad y cyfarfod:	19 Mai 2026

Crynodeb

- Gwariant yn y meysydd lleoliadau all-sirol plant, gwastraff, gofal preswyl a gofal cartref wedi parhau i fod yn uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd iddynt.
- Sefyllfa ffafriol ar nifer o gyllidebau corfforaethol yn cynorthwyo i leddfu'r sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd.
- Bydd angen defnyddio £3.2 miliwn o'r Gronfa Strategaeth Ariannol i fantoli'r sefyllfa o ddiffyg ariannol yr adrannau.
- Fel rhan o'r ymarferiad adolygiad cronfeydd bydd angen neilltuo £1.5 miliwn o'r Gronfa Strategaeth Ariannol i'r Gronfa Diogelu Adeiladau.
- Barn y Swyddog Cyllid Statudol yw bod angen cynyddu Balansau Cyffredinol y Cyngor o £6.6 miliwn, fel ei fod yn cynrychioli 2.5% o wariant refeniw gros yr awdurdod, ac yn argymhell trosglwyddo'r swm yma o'r Gronfa Strategaeth Ariannol, bydd hyn yn gadael £12.7 miliwn yn weddill yn y gronfa honno.

1. Penderfyniad a geisir

1.1 Derbyn yr adroddiad ac ystyried y sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2025/26:

	Colofn A Gor/(Tan) Wariant Gros 2025/26 £ '000	Colofn B Addasiadau a Argymhellir £'000	Colofn C £'000	Colofn CH £'000	Colofn D Gor/(Tan) Wariant Addasedig 2025/26 £'000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	1,381	(1,281)			100
Plant a Theuluoedd	3,396	(3,296)			100
Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	(99)				(99)
Addysg	(24)				(24)
Economi a Chymuned	269		(269)		0
Prifffyrdd, Peirianneg ac YGC	407	(307)			100
Amgylchedd	1,378	(22)		(1,256)	100
Tai ac Eiddo	(20)				(20)
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	(39)				(39)
Gwasanaethau Corfforaethol	(20)				(20)
Cyllid	(38)				(38)

1.2 Gan nodi bod gwariant sylweddol uwchlaw'r gyllideb gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd a'r Adran Amgylchedd yn 2025/26 (Gweler colofn A yn y tabl uchod). Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u hegluro yn **Atodiad 2**) -

- Yr adrannau sydd yn gorwario i dderbyn cymorth ariannol un tro gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k (Gweler colofn B yn y tabl uchod).
- Cadarnhau'r cymorth ariannol o £269k uwchlaw'r taliad cytundebol i Gwmni Byw'n Iach (Gweler colofn C yn y tabl uchod).
- Cyllido'r gorwariant o £1.256 miliwn yn y maes Gwastraff trwy ddefnyddio £786k o'r Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer a £470k o'r Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu (Gweler colofn CH yn y tabl uchod).
- Dyrannu bid ariannol o hyd at £800k i'r Adran Tai ac Eiddo i gyllido'r pwysau ar y gwasanaeth llety argyfwng yn 2026/27.
- Ar gyllidebau Corfforaethol:
 - defnyddio (£2.8 miliwn) o'r tanwariant ar gyllidebau corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2025/26.
 - y gweddill o (£3.174 miliwn) sydd ei angen i gyllido'r holl ofynion i gael ei gyllido o Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor.
 - y tanwariant o (£914k) ar Breimiwm Treth Cyngor yn cael ei drosglwyddo i gronfa Premiwm Treth Cyngor gyda'i ddefnydd i'w benderfynu gan y Cabinet.

1.3 Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" yng ngholofn D uchod ac yng ngholofn D **Atodiad 1**).

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor fel yr amlinellir yn **Atodiad 3** yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd:

- £6.6 miliwn yn cael ei symud i falansau cyffredinol y Cyngor
- £1.5 miliwn yn cael ei symud i gronfa Diogelu Adeiladau.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

2.1 Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

2.2 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2025/26 sydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

Cefndir / Cyflwyniad

- 3.1 Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn **Atodiad 1**. Yn ystod 2025/26 mae tair adran wedi gwario dros filiwn o bunnoedd yn fwy na'u cyllideb. Mae'r symiau i'w cario ymlaen gan yr adrannau (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn 'Gor/(Tan) Wariant Addasedig 2025/26'(Colofn D).
- 3.2 Yn **Atodiad 2**, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion hynny wedi'u hamlygu er ystyriaeth yn 1.2 uchod.
- 3.3 Yn yr adolygiad o'r gyllideb refeniw diwethaf a wnaethpwyd ar sefyllfa ddiwedd Tachwedd 2025, rhagwelwyd diffyg cyllidebol o £6.5 miliwn gan yr adrannau, ers hynny, mae gorwariant gan adrannau'r cyngor wedi cynyddu i £6.6 miliwn. Y prif feysydd gorwariant yw'r maes lleoliadau all-sirol plant, gwastraff, gofal preswyl a gofal cartref. Mae sefyllfa ffafriol ar nifer o gyllidebau corfforaethol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn cynorthwyo i leddfu rhywfaint ar y sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd, ond fod hefyd angen gwneud defnydd o gronfeydd i fantoli'r sefyllfa.

4. Sefyllfa Arbedion

- 4.1 Yn adroddiad Cyllideb 2025/26 i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025, adroddwyd fod arbedion gwerth £3.5 miliwn wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2025/26. Mae'r cyllidebau wedi eu lleihau o'r swm yma; ac felly adroddir ar y sefyllfa yn dilyn ystyriaeth o'r arbedion.
- 4.2 Dros y blynnyddoedd diwethaf rydym wedi adrodd ar risgiau i gyflawni arbedion. O ran y cynlluniau sydd yn weddill, mae yna risgiau o ran gwireddu rhai o'r cynlluniau.
- 4.3 Y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr arbedion yw bod £47 miliwn, sef 93% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu.

5. Adrannau'r Cyngor

- 5.1 Mae'r prif faterion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

5.2 Adran Oedolion Iechyd a Llesiant

Bu i ddiffyg cyllidebol yr adran leihau i £1.4 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ceir sefyllfa gymysg gyda gwerth dros £3 miliwn o arian parhaol ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r adran yn 2025/26 tra bod arbedion a thoriadau gwerth £1.5 miliwn heb eu gwireddu.

Mae'r pwysau ar y gwasanaethau darparu yn parhau ac yn gyfrifol am £1 miliwn o'r pwysau adrannol, sydd yn bennaf ar orwariant staff a defnydd o staff asiantaeth ar ofal preswyl. Mae'r pwysau yn parhau hefyd ar yr ochr breswyl o lechyd Meddwl.

Bu gwelliant i sefyllfa ariannol pobl hŷn, sydd o ganlyniad i lai o ddefnydd o gartrefi preifat, lleihad mewn costau gofal cartref, derbyniad grantiau ychwanegol a gwaith sicrhau effeithlonrwydd taliadau uniongyrchol. Yn y Gwasanaeth Anabledd Dysgu derbyniwyd grantiau ychwanegol a bu llai o bwysau ar lety cefnogol, taliadau uniongyrchol ac ar gartrefi preswyl annibynnol.

5.3 Adran Plant a Theuluoedd

Ers adolygiad Tachwedd bu cynnydd o un ar ddeg o leoliadau all-sirol gan gynnwys achosion eithriadol o leoliadau heb gofrestrriad, sydd fwy costus, sydd wedi arwain at gynnydd yn y diffyg cyllidebol adrannol o £1.9 miliwn i £3.4 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gwelwyd pwysau cynyddol hefyd ar gyllideb y Gwasanaeth Ôl-16 ac ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol a gweithwyr maes, ond er y bu lleihad yn y pwysau ar y Gwasanaeth Derwen mae'n parhau i fod yn gorwario £443k ar ddiwedd y flwyddyn.

5.4 Adran Addysg

Tanwariant o (£24k) gan yr Adran Addysg. Yn dilyn gorwariant sylweddol ar y maes cludiant ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf, bu i'r maes dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol ar sail barhaol a £939k pellach am flwyddyn yn unig, i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion. Bu modd cwtogi'r cyfraniad un tro i £384k erbyn diwedd y flwyddyn, oherwydd lleihad mewn costau a derbyniad grantiau ychwanegol. Gwelwyd derbyniad incwm grant uwch ar gyfer cinio am ddim ysgolion cynradd erbyn diwedd y flwyddyn ond bu cynnydd mewn costau un tro yn y maes anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad.

5.5 Byw'n lach

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cwmni Byw'n lach wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan y Cyngor uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, oedd yn £550k yn 2022/23 a £308k yn 2023/24 ac yn £281k yn 2024/25, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r angen am gefnogaeth ariannol yn parhau yn 2025/26 gyda'r swm gofynnol yn £269k erbyn diwedd y flwyddyn.

5.6 Adran Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC

Diffyg cyllidebol o £407k gan yr adran, gwelwyd lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd wedi cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau Prifffyrdd. Yn y gwasanaeth Bwrdeistrefol, cyfuniad o bwysau ychwanegol ar gyllidebau staff glanhau toiledau cyhoeddus, tra bod colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Gwelwyd hefyd danwariant pellach ar Orfodaeth Stryd ac ar Dimau Taclus.

5.7 Adran Amgylchedd

Adroddir ar ddiffyg cyllidebol o £1.38 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, gyda'r tueddiad gorwariant yn y maes gwastraff yn parhau ac yn gyfrifol am £1.26 miliwn o'r sefyllfa adrannol. Mae'r gorwariant yn y maes gwastraff i'w gyllido o'r enillion ail-ariannu Parc Adfer ac incwm o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr.

Mae yna nifer o gynlluniau arbedion mewn nifer o wasanaethau gwerth £1.27 miliwn yn llithro sydd hefyd yn rhan o'r darlun. Er y bu lleihad mewn diffyg incwm parcio ers y llynedd, mae'r diffyg yn £464k. Mae tanwariant ar Reolaeth Rhwydwaith Trafnidiaeth, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn lleihau'r gorwariant adrannol a adroddir.

5.8 Adran Tai ac Eiddo

Y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda gwariant ar y maes yn £6.1 miliwn eleni, sydd yn gyson â 2024/25. Mae'r sefyllfa ariannol a adroddir yn dilyn ystyried cyllideb ychwanegol o £4.2 miliwn sydd wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor a hefyd cyllideb un-tro ychwanegol o £859k a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau i gynorthwyo â'r pwysau cynyddol.

Yn dilyn adolygiad o'r gwariant ar Ddigartrefedd, awgrymir y dylid dyrannu bid un tro o hyd at £800k i gynorthwyo gyda'r pwysau ar lety argyfwng yn 2026/27.

Bu llithriad o £1.1 miliwn ar y gyllideb cynnal a chadw refeniw corfforaethol yn ystod 2025/26 yn dilyn derbyn grantiau gwerth £2.4 miliwn tuag at gynnal a chadw Addysg yn ystod y flwyddyn. Mae'r llithriad o £1.1 miliwn wedi ei drosglwyddo i gronfa benodol at ddibenion cynnal a chadw i'r dyfodol.

5.9 Corfforaethol

Tanwariant o (£3.7 miliwn) ar nifer o benawdau corfforaethol, gan gynnwys darpariaeth arbedion (£1.1 miliwn), dychwelyd cyllidebau a bidiau (£404k) a (£914k) sydd yn berthnasol i Breimiwm Treth Cyngor. Yn dilyn i'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol GwE ddod i ben ar ddiwedd Mai 2025, bu i'r cyngor ynghyd â chwe awdurdod gogledd Cymru dderbyn ad-daliad, sydd werth £908k i Wynedd yn ymwneud â gwarged yn deillio o gyfraniadau pensiwn perthnasol i GwE.

5.10 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, a cheisir penderfyniad ffurfiol i gymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Mae yna bedwar cais i'r Cabinet i ddileu diffyg adrannol ar gau 2025/26.

5.11 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2025/26 yn unig.

5.12 Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r cyllidebau sydd dan bwysau yng nghylch cyllidebu 2026/27, ac mae nifer o'r materion parhaol hynny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2026/27 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

6. Ysgolion

6.1 Mae rhan o **Atodiad 2** yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae cyfanswm sirol balansau ysgolion wedi lleihau o £8.3 miliwn ar ddiwedd 2024/25 i £7.1 miliwn ar ddiwedd 2025/26. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'.

6.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb).

6.3 Mae saith ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd gyda diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2025/26. Cadarnhaf y bydd yr Uned Gyllid a'r Adran Addysg yn gweithio gyda'r ysgolion a chyrff llywodraethol i adfer y diffygion.

7. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol

- 7.1 Am nifer o resymau bu tanwariant un tro ar nifer o benawdau'r gyllideb gorfforaethol eleni, fel y nodir yn 5.9 uchod, a rhan olaf **Atodiad 2**. Adroddir ar danwariant o (£3.7 miliwn), gyda gwerth (£914k) o'r swm yn berthnasol i Breimiwm Treth Cyngor. Awgrymir fod tanwariant net o (£2.8 miliwn) yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario yn 2025/26.
- 7.2 Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd penodol y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid unwaith eto wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd rhai blynnyddoedd yn ôl. Fel yr amlinellir yn **Atodiad 3**, mae dau drosgrwyddiad gwerth £8.1 miliwn i'w gweithredu o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol, gyda £6.5 miliwn yn cael ei roi ym malansau cyffredinol y Cyngor a £1.5 miliwn yn cael ei symud i gronfa diogelu adeiladau yn ymwneud â Corbett Arms, sydd wedi bod yn destun adroddiad Cabinet 16 Rhagfyr 2025.
- 7.3 Ymhellach i'r uchod, awgrymir fod y £3.2 miliwn sydd yn ofynnol i gyllido'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei ariannu o Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol.

8. Casgliad

- 8.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar wariant adrannau unigol a'r Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2025/26 o'i gymharu â'r gyllideb a osodwyd ym Mawrth 2025. Adroddir ar sefyllfa o ddiffyg cyllidebol o £6.6 miliwn gan yr adrannau ar ddiwedd y flwyddyn, sydd yn cael ei leihau gan danwariant o £3.7 miliwn ar gyllidebau corfforaethol i roi gorwariant net o £2.9 miliwn ar gyfer y Cyngor (Colofn A, **Atodiad 1**).
- 8.2 Yn dilyn y tanwariant ar benawdau corfforaethol ynghyd â defnydd o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol a chronfeydd penodol eraill i gyllido'r gorwariant yn y maes gwastraff, bydd y sefyllfa ariannol yn cael ei fantoli.
- 8.3 Bydd cyfuniad o gynaeafu cronfeydd gwerth £8.1 miliwn ynghyd â £3.2 miliwn i gyllido'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn golygu fod y Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol yn cael ei leihau £11.3 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan adael balans o £12.7 miliwn.

9. Camau nesaf ac amserlen

- 9.1 Byddwn yn ystyried y wybodaeth gan adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.
- 9.2 Fe adlewyrchir yma sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod a'r broses i derfyn, gallai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.
- 9.3 Bydd yr Adran Gyllid yn cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2025/26 i'w hardystio gan y Pennaeth Cyllid o fewn yr amserlen statudol. Bydd yr adroddiad alldro yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 21 Mai 2026.

10. Sylwadau Swyddogion Statudol

10.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

10.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran

Atodiad 2 - Prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol

Atodiad 3 - Adolygiad o Gronfeydd

Cyllideb Refeniw 2025/26 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Terfynol						Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26 £ '000
	Cyllideb 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Addasiadau a Argymhellir			Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
	Colofn A	Colofn B	Colofn C	Colofn CH	Colofn D		
Oedolion, Iechyd a Llesiant	83,682	1,381	(1,281)			100	3,062
Plant a Theuluoedd	26,617	3,396	(3,296)			100	1,856
Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	2,826	(99)	0			(99)	(144)
Addysg	120,671	(24)	0			(24)	(15)
Economi a Chymuned	5,205	269	0	(269)		0	2
Priffyrdd, Peirianeg ac YGC	18,064	407	(307)			100	492
Amgylchedd	18,001	1,378	(22)		(1,256)	100	685
Tai ac Eiddo	10,612	(20)	0			(20)	248
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	3,194	(39)	0			(39)	(14)
Gwasanaethau Corfforaethol	8,631	(20)	0			(20)	(6)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	9,166	(38)	0			(38)	(13)
Cyllidebau Corfforaethol (Gwahaniaethau yn unig)	*	(3,715)	3,715			0	(871)
Cyfansymiau (net)	315,835	2,876	(1,191)	(269)	(1,256)	160	5,282

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Oedolion</u>						
Rheolaeth	597	480	(117)		(117)	(35)
Anabledd Dysgu	31,080	30,666	(414)		(414)	199
Iechyd Meddwl	6,071	6,629	558		558	607
Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	24,516	24,940	424		424	940
Gofal Cartref	11,700	12,539	839		839	1,274
Anabledd Corff	3,652	2,699	(953)		(953)	(1,070)
Taliadau Uniongyrchol	2,194	1,978	(216)		(216)	(72)
Eraill	3,048	3,278	230		230	209
	45,110	45,434	324	0	324	1,281
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u>	82,858	83,209	351	0	351	2,052
<u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u>						
Gofal Preswyl	(297)	524	821		821	911
Gofal Cartref	1,126	1,337	211		211	93
Eraill	(5)	(7)	(2)		(2)	6
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u>	824	1,854	1,030	0	1,030	1,010
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26				(1,281)	(1,281)	0
<u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>	83,682	85,063	1,381	(1,281)	100	3,062

Oedolion, Iechyd a Llesiant

Dyrannwyd gwerth dros £3.1 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2025/26 ymlaen. Gwelwyd gwelliant yn y sefyllfa ariannol o'i gymharu â'r rhagolygon, gyda diffyg cyllidebol o £1.38 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Rheolaeth yr Adran - trosiant staff a thanwariant ar y gyllideb gyfreithiol, ynghyd â derbyniad grant ac incwm ychwanegol erbyn diwedd y flwyddyn.

Anabledd Dysgu - bu i'r gwasanaeth dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol o £400k yn 2025/26. Mae'r pwysau'n parhau ar wasanaethau dydd, cynlluniau cefnogol ac ar y gwasanaeth preswyl yng nghartrefi'r Cyngor. Derbyniad grantiau a llai o bwysau ar lety cefnogol, taliadau uniongyrchol ac ar gartrefi preswyl annibynnol yn ystod y flwyddyn gyda'r gwaith o adolygu pecynnau gofal yn parhau ac yn dwyn ffrwyth.

Iechyd Meddwl - dyrannwyd £177k o arian ychwanegol i'r maes yn 2025/26, gwelwyd diffyg cyllidebol o £650k ar yr elfen breswyl a nyrsio yn dilyn cynnydd annisgwyl ac anarferol yn y nifer gydag un ar ddeg o achosion newydd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae cynlluniau cefnogol a llety cefnogol yn tanwario ac felly'n lleihau'r gorwariant a adroddir. Mae'r maes iechyd meddwl yn destun bid £1.2 miliwn ar gyfer 2026/27.

Pobl Hŷn - dyrannwyd £1.5 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r maes ar gyfer 2025/26, gyda £1.2 miliwn ohono i Ofal Cartref. Bu lleihad yn y diffyg cyllidebol i £324k erbyn diwedd y flwyddyn, gyda grantiau ychwanegol a gwaith sicrhau effeithlonrwydd taliadau uniongyrchol yn cynorthwyo'r darlun. Ym mhreswyl a nyrsio, cynnydd graddol yn y defnydd o gartrefi mewnol a llai o gartrefi preifat, ynghyd â chynnydd mewn cyfraniadau gan gleientiaid, yn lleihau'r pwysau. Bu gwelliant hefyd yng ngofal cartref, gyda lleihad yn y costau i £839k uwchlaw'r gyllideb ar yr ymdrechion i ddarparu gofal mewn ardaloedd lle nad oes gwasanaeth hawdd i'w gael, serch hyn, y rhestrau aros yn parhau i fod yn uchel am ofal cartref. Yn y maes anabledd corff, llai o alw am ofal cartref yn parhau. Yn 'Eraill', pwysau cynyddol a chynlluniau arbedion sydd eto i'w gwireddu.

Gwasanaethau Darparu - gorwariant staff yng ngofal preswyl gan gynnwys £501k ar ddefnydd o staff asiantaeth. Cyllideb ychwanegol o filiwn wedi ei fuddsoddi yn parhaol yng ngofal cartref yn 2025/26, serch hynny mae costau staff uwchlaw'r gyllideb yn parhau, gyda lefelau salwch a chyfraddau oriau di-gyswllt uchel. Mae bid parhaol o £464k wedi ei ddyrannu i ofal preswyl mewnol ar gyfer 2026/27.

Arbedion - o ran sefyllfa gwireddu arbedion yr adran, er bod cynnydd wedi bod mewn gwireddu arbedion yn ystod y flwyddyn mae gwerth bron i £1.5 miliwn o arbedion yn parhau ar ôl i'w gwireddu ac felly yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol.

Argymhellir fod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £1.281 miliwn i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2026/27.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Plant a Theuluoedd	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	705	705	0		0	89
Gweithredol	3,070	3,548	478		478	351
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	7,050	9,061	2,011		2,011	683
Cartrefi Grwpiau Bychan	76	156	80		80	29
Maethu Drwy Asiant	1,755	1,617	(138)		(138)	(271)
Maethu Mewnol	3,120	3,215	95		95	125
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	2,178	2,419	241		241	191
	14,179	16,468	2,289	0	2,289	757
Ôl-16	1,778	2,215	437		437	204
Gwasanaeth Derwen	3,655	4,098	443		443	533
Cyfiawnder Ieuenctid	262	251	(11)		(11)	(5)
Blynyddoedd Cynnar	147	(39)	(186)		(186)	(174)
Uned Datblygu'r Gweithlu	308	308	0		0	0
Eraill	2,513	2,459	(54)		(54)	101
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26			0	(3,296)	(3,296)	0
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	26,617	30,013	3,396	(3,296)	100	1,856

Plant a Theuluoedd

Dyrannwyd gwerth £2.175 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2025/26. Ar ddiwedd y flwyddyn adroddir ar ddiffyg cyllidebol o £3.4 miliwn gan yr adran.

Rheolaeth - costau staffio ychwanegol un tro ond sydd yn cael ei wrthbwysu gan ddefnydd o grantiau tuag at sefydlu system gwybodaeth.

Gweithredol - er bod adnodd ychwanegol parhaol gwerth £365k wedi ei ddyrannu i'r maes ar gyfer 2025/26 ymlaen, mae'r tueddiad gorwariant yn parhau o ganlyniad i bwysau sylweddol ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol ynghyd â staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr maes. Mae'r maes cynlluniau cefnogol wedi derbyn bid gwerth £200k yn 2026/27 i gyfarch y pwysau.

Lleoliadau - gwelwyd un ar ddeg achos newydd lleoliadau all-sirol ers yr adolygiad diwethaf gan gynnwys achosion eithriadol a lleoliadau heb gofrestriad, sydd yn rhai llawer mwy costus. O ganlyniad gwelwyd cynnydd pellach yn y nifer cyfartalog lleoliadau all-sirol unwaith eto eleni i 37 (34.3 yn 2024/25, 32.5 yn 2023/24, 25.7 yn 2022/23), gyda chost gyfartalog y lleoliadau bellach yn £253k.

Gwelwyd chwe achos newydd ers yr adolygiad diwethaf yn Maethu drwy Asiant ond bu gostyngiad yn y niferoedd Maethu Mewnol. Gwelwyd lleihad yn yr incwm gan y Swyddfa Gartref ar gyfer y ceiswyr lloches heb rieni neu warcheidwaid sydd yn derbyn gwasanaeth. Yng nghefnogol ac eraill pwysau cynyddol ar y gyllideb gweithwyr cefnogol ac ar y gwasanaeth mabwysiadu gogledd Cymru.

Cartrefi Grwpiau Bychan - mae'r cartrefi wrthi'n cael eu sefydlu yng Ngwynedd gyda dau gartref bellach yn weithredol a'r trydydd tŷ yn dod yn weithredol yn ystod 2026/27. Mae'r ddarpariaeth fewnol yma yn golygu y bydd modd lleoli plant yn fewnol yn hytrach nac efo darparwyr allanol all-sirol. Bu i'r Cyngor dderbyn grantiau i sefydlu'r cartrefi ynghyd â chyfraniad tuag at gostau rhedeg y cartrefi eleni.

Ôl-16 - pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth yn dilyn i ddau achos eithriadol gael eu trosglwyddo o'r gwasanaeth all-sirol yn ystod y flwyddyn. Pwysau hefyd ar yr elfen ceiswyr lloches dros 18 oed, gan nad yw'r cyfraniad gan y Swyddfa Gartref yn ddigonol i gyfarch y costau. Staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr cymdeithasol hefyd yn cyfrannu at y gorwariant.

Derwen - i ymateb i'r tueddiad gorwariant bu i Derwen dderbyn dyraniad adnoddau parhaol ychwanegol o £1 miliwn ar gyfer cyllideb 2025/26. Mae'r pwysau yn parhau gyda gorwariant yn £443k ar ddiwedd y flwyddyn ar weithwyr cynlluniau cefnogol, cefnogaeth arbenigol ac ar yr Uned Egwyl Fer. Mae bid pellach gwerth £175k wedi ei ddyrannu i'r maes ar gyfer 2026/27.

Blynyddoedd Cynnar - trosiant staff a grantiau cynyddol ar gael i gyllido gwariant craidd wedi arwain at danwariant.

Eraill - yn tanwario ar ddiwedd y flwyddyn yn dilyn derbyniad cyllid ychwanegol gan y Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal, ond yn cynnwys gorwariant ar ffioedd gwasanaethau arbenigol ac ar y gwasanaeth tu allan i oriau.

Argymhellir fod yr Adran Plant a Theuluoedd yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £3.296 miliwn i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2026/27.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL						
Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cefnogaeth a Chomisiynu	1,068	1,046	(22)		(22)	(82)
Incwm a Chyllid	1,479	1,422	(57)		(57)	(38)
Gwasanaethau Ataliol	279	259	(20)		(20)	(24)
Cyfanswm Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	2,826	2,727	(99)	0	(99)	(144)

Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal

Cefnogaeth a Chomisiynu - arbediad o ganlyniad i benderfyniad ar y cyd ar lefel gogledd Cymru i gwtogi lefel cyfraniad i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Yn ychwanegol i hyn, defnydd o grantiau yn erbyn costau yn cyfrannu at y tanwariant a adroddir.

Incwm a Chyllid - cyfuniad o danwariant ar gostau staff mewn paratoad ar gyfer ail-strwythuro, ynghyd â derbyniad grant tuag at amser staff ynghlwm â gwaith i weithredu meddalwedd achosion gofal ar hyd gogledd Cymru. Am gyfnod bydd dwy system wybodaeth gofal yn cyd-redeg.

Gwasanaeth Ataliol - derbyniad grant ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau ataliol yn golygu bod tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Yn dilyn y sefyllfa ffafriol ar holl benawdau'r Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal, sydd yn bennaf o ganlyniad i dderbyniad grant, mae trosglwyddiad gwerth £67k ynghyd â arall-gyfeirio bid gwerth £90k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i'r Adran Plant a gefnogir gan y gwasanaeth i gynorthwyo efo'i sefyllfa ariannol eleni.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Addysg	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,378	2,431	53		53	54
Ysgolion Datganoledig	104,767	104,767	0		0	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(2,696)	(2,751)	(55)		(55)	(46)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	8,186	8,186	0		0	0
Gwasanaeth Atodol	915	662	(253)		(253)	(73)
Eraill	727	836	109		109	68
	9,828	9,684	(144)	0	(144)	(5)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	5,514	5,636	122		122	(16)
Gwasanaeth Ieuenctid	880	880	0		0	(2)
Cyfanswm Addysg	120,671	120,647	(24)	0	(24)	(15)

Addysg

Arweinyddiaeth a Rheolaeth - gwariant un tro ar weithredu system rheoli gwybodaeth newydd ar gyfer yr ysgolion a hefyd ar ffioedd ymgynghorwyr.

Gwasanaeth Ansawdd Ysgolion - cyfnod trosiannol i'r gwasanaeth newydd gyda swyddi gwag, derbyniad incwm a grantiau ychwanegol, ond fod pwysau sylweddol ar y gyllideb cyfundrefn drochi.

Cludiant - yn dilyn gorwariant sylweddol ar gludiant dros y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd cyllideb o £896k ar sail barhaol a £939k pellach am flwyddyn yn unig i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion. Bu modd cwtogi'r cyfraniad un tro i £384k erbyn diwedd y flwyddyn, oherwydd lleihad mewn costau a derbyniad grantiau ychwanegol, felly adroddir ar sefyllfa ariannol gytbwys.

Mae'r maes cludiant yn parhau i fod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, fel bod modd ceisio lleihau'r gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - derbyniad incwm grant uwch erbyn diwedd y flwyddyn ar gyfer cinio ysgol am ddim i ysgolion cynradd. Ond, gorwariant ar gostau staff oherwydd bod salwch yn faterion yn glanhau a gofalu ysgolion. Yr elfen gofal o'r clybiau brecwast hefyd yn gorwario £71k o ganlyniad i gyfuniad o gostau staff uwch a diffyg incwm.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill - cynnydd mewn costau un tro sydd yn cael ei leihau gan ddefnydd o arian grant a thanwariant ar gyllidebau eraill.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - cynnydd mewn costau un tro erbyn diwedd y flwyddyn ynghyd ag amgylchiadau yn ymwneud ag un canolfan penodol, sydd bellach wedi dod i ben, ond yn gyfrifol am orwariant o £53k. Trosiant staff a derbyniad grant yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Economi a Chymuned	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	403	392	(11)		(11)	(3)
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	674	671	(3)		(3)	(2)
Morwrol a Pharciau Gwledig	(389)	(288)	101		101	35
Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill	1,741	2,044	303	(269)	34	91
Rhaglenni Datblygu Economaidd	(307)	(311)	(4)		(4)	0
Marchnata a Digwyddiadau	280	280	0		0	0
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,673	1,644	(29)		(29)	(35)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	1,033	1,042	9		9	14
Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran	49	0	(49)		(49)	(49)
Defnydd o Gronfa Arall yr Adran	48	0	(48)		(48)	(49)
<u>Cyfanswm Economi a Chymuned</u>	5,205	5,474	269	(269)	0	2

Economi a Chymuned

Rheolaeth - derbyniad grant ac incwm uwch wedi arwain at danwariant ar y gyllideb graidd.

Morwrol a Pharciau Gwledig - dirywiad yn y sefyllfa ariannol erbyn diwedd y flwyddyn gyda gwariant uwchlaw'r gyllideb wedi cynyddu i £71k yn Noc Fictoria, Caernarfon, a chynnydd mewn gwariant gan yr Harbyrau a thraethau. Gwelwyd fod diffyg incwm yn faterion yn Traethau o £84k a hefyd yn y Parciau Gwledig o £27k. Yn groes i'r tueddiad yma, yr incwm net yn well yn Hafan, Pwllheli ac yn tanwario (£80k).

Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n Iach yn Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r cwmni wedi derbyn cefnogaeth ariannol flynyddol gan y Cyngor oedd yn £550k yn 2022/23, £308k yn 2023/24 ac yn £281k yn 2024/25, oedd uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol yn £269k erbyn diwedd y flwyddyn.

Ymhellach, gorwariant o £34k ar gyllideb rhedeg yr adeiladau hamdden gan yr Adran Economi a Chymuned.

Llyfrgelloedd Gwynedd - yn dilyn cyfnod trosiannol o ailstrwythuro'r gwasanaeth, mae pob swydd bellach wedi eu llenwi. Bu derbyniad incwm yn uwch gan fod banciau yn gwneud defnydd rheolaidd o ofod yn Llyfrgell Caernarfon.

Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd - gorwariant yn bennaf gan fod costau staff uwchlaw'r gyllideb yn faterion yn Storiol £16k ac Amgueddfa Lloyd George £15k tra bod costau eraill yn uwch yn Neuadd Dwyfor £15k. Gwelwyd lleihad mewn gwariant gan y Gwasanaeth Archifau a'r Celfyddydau sydd yn golygu fod y gorwariant a adroddir yn is.

Er mwyn lleihau'r gorwariant a adroddir, mae'r adran yn defnyddio £97k o gronfeydd adrannol.

Argymhellir i'r Cabinet gymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol i Gwmni Byw'n Iach gwerth £269k.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Variant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Variant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Variant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau:						
Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	11,618	11,936	318		318	220
Peirianeg	487	411	(76)		(76)	(28)
Bwrdeistrefol	5,827	6,007	180		180	381
Ymgynghoriaeth Gwynedd	132	117	(15)		(15)	(81)
Addasiad Cau Cyrifon 2025/26			0	(307)	(307)	0
Cyfanswm Priffyrdd, Peirianeg ac YGC	18,064	18,471	407	(307)	100	492

Priffyrdd, Peirianeg ac YGC (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Priffyrdd - er y gwelwyd cynnydd mewn gwireddu arbedion yn y maes, arbedion gwerth £120k yn parhau angen eu cyflawni yn Ffyrdd Sirol. Gwariant uwch erbyn diwedd y flwyddyn ar y rhaglen adeiladwaith ac ar staff a chostau eraill yn Ffyrdd Sirol. Ymhellach i hyn, lleihad yn yr incwm gan asiantaethau allanol ar amrywiol gytundebau.

Gwasanaethau Peirianeg - bu i drafodaethau gyda Network Rail yn ymwneud â Phont Abermaw ddod i ben yn ddiweddar gan arwain at wireddu arbediad. Yn ogystal â hyn, tanwariant ar amrywiol benawdau ynghyd â derbyniad incwm uwch.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gan gynnwys yr angen i wireddu arbedion gwerth £117k. Er bod y pwysau ar gyllidebau staff glanhau toiledau cyhoeddus yn parhau, bu lleihad erbyn diwedd y flwyddyn. Yn dilyn gwaith diweddar yn yr Amlogsgfa gwelwyd lleihad yn y rhagolygon incwm cysylltiedig ond hefyd yn y costau. Mae colledion incwm yn parhau i fod yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Tanwariant pellach ar Orfodaeth Stryd ac ar Dimau Taclus sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir. Mae bid barhaol gwerth £180k wedi ei ddyrannu i Diroedd agored ar gyfer 2026/27 ymlaen.

Ymgynghoriaeth Gwynedd - er yn rhagori ar incwm gan sefydliadau allanol megis cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru yn y maes ffyrdd a pheirianeg, nid yw cymaint â'r hyn a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn. Tanwariant ar swyddi gwag a throsiant staff yn y Gwasanaeth Adeiladu.

Arbedion - mae gwerth yr arbedion adrannol nad ydynt yn gwireddu yn £317k ac felly yn cyfrannu at y sefyllfa gorwariant a adroddir ar ddiwedd y flwyddyn. Er bod llithro ar y gwireddu, bydd yr adran yn gweithredu camau pendant dros y misoedd nesaf i gyflawni cyfran o'r arbedion.

Argymhellir fod yr Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £307k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2026/27.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Amgylchedd	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	776	948	172		172	158
Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	743	518	(225)		(225)	(1)
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	363	(82)	(445)		(445)	(362)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(3,008)	(2,534)	474		474	213
Cludiant Integredig	2,294	2,544	250		250	88
	(351)	(72)	279	0	279	(61)
Marchnadoedd	8	13	5		5	0
Cefn Gwlad a Mynediad	777	795	18		18	8
Gwarchod y Cyhoedd	2,048	1,921	(127)		(127)	(36)
Gwastraff	14,000	15,256	1,256		1,256	617
Cyfanswm Amgylchedd	18,001	19,379	1,378	0	1,378	685
Defnydd o Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer				(786)	(786)	
Defnydd o Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu				(470)	(470)	
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26				(22)	(22)	
Cyfanswm	0	0	0	(1,278)	100	

Amgylchedd

Rheolaeth yr Adran - oediad mewn gwireddu gwerth £150k o gynlluniau arbedion ynghyd â gorwariant ar gostau cerbydau.

Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu - darlun cymysg gan gynnwys, incwm ar geisiadau mawr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan y Grid Cenedlaethol yn golygu fod Cynllunio yn gor-gyflawni ei incwm o £222k tra bod diffyg incwm yn parhau i fod yn faterion yn Pridiannau Tir a Rheolaeth Datblygu. Trosiant staff a swyddi gwag yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol ymhellach.

Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) - rhagori ar incwm ffioedd gwaith stryd, swyddi gweigion a thanwariant pellach ar nifer o benawdau'r gyllideb.

Parcio a Gorfodaeth Parcio - yn dilyn i ffioedd parcio gael eu codi yn Ebrill 2025, roedd disgwyliad fod incwm parcio am wella eleni o'i gymharu â'r diffyg o £826k a adroddwyd yn 2024/25. Bu gwelliant, gyda diffyg incwm o £464k, ond yn is na'r rhagolygon. Swyddi gwag yn cynorthwyo i wella'r sefyllfa a adroddir.

Cludiant Integredig - gwelwyd cynnydd sylweddol mewn cost contractau ac felly nid yw'r grantiau a dderbynnir yn cyfarch yr holl gostau cysylltiedig. Tanwariant ar gostau staff ac ar gyllidebau eraill yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Gwarchod y Cyhoedd - swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys ar gostau cerbydau. Yn gyffredinol, y sefyllfa incwm yn well na'r rhagolygon, gydag incwm safonau masnach yn rhagori'r targed ond incwm i lawr ar gyfer y maes trwyddedau tacsis.

Gwastraff - bu i gyllideb ychwanegol o £400k ei ddyrannu ar gyfer 2025/26 ymlaen, ond mae nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant sydd wedi cynnyddu i £1.26 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Y gwaith o ailstrwythuro a chyflwyno newidiadau i'r maes yn parhau gyda nifer o gamau ynghlwm â'r broses, gyda chmau yn llithro i 2026/27 ac felly nifer o gynlluniau arbedion yn llithro o ganlyniad i'r heriau ail-strwythuro. Gorwariant cynyddol erbyn diwedd y flwyddyn ar gasglu gwastraff ac ailgylchu, gwastraff masnachol, safleoedd trin a throsglwyddo gwastraff ac ar redeg y canolfannau ailgylchu. Nid yw gwerth £830k o gynlluniau arbedion perthnasol i wastraff yn gwireddu erbyn diwedd y flwyddyn.

Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer - arbediad un-tro i'r holl gynghorau o enillion ail-ariannu Parc Adfer. Mae'r arian sydd ar gael sef £786k i'w ddefnyddio yn llwyr i gyllido'r gorwariant yn y maes gwastraff.

Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu - derbyniad incwm newydd i gynghorau sydd yn deillio o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr, er mwyn hybu ailgylchu. Mae £470k i'w ddefnyddio yn 2025/26 i gyfarch y diffyg gan y gwasanaeth gwastraff gyda'r gweddill yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y maes gwastraff.

Arbedion - mae gwerth £1.27 miliwn o arbedion nad ydynt yn cael eu gwireddu gan yr adran ac felly yn cyfrannu at y sefyllfa gorwariant.

Argymhellir fod y gorwariant o £1.256 miliwn gan y gwasanaeth gwastraff yn cael ei gyllido drwy ddefnyddio £786k o'r Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer a £470k o'r Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu. Ymhellach i hyn, fod yr Adran Amgylchedd yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £22k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2026/27.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Tai ac Eiddo	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	799	583	(216)		(216)	(192)
Gwasanaethau Tai						
Digartrefedd	6,184	6,464	280		280	531
Tai Sector Breifat	469	486	17		17	(30)
Eraill	423	299	(124)		(124)	(97)
	7,076	7,249	173	0	173	404
Gwasanaethau Eiddo						
Eiddo	2,728	2,750	22		22	11
Gofalu, Arlwyo a Glanhau	9	10	1		1	25
	2,737	2,760	23	0	23	36
Cyfanswm Tai ac Eiddo	10,612	10,592	(20)	0	(20)	248
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26 - dyraniad bid un-tro i Lety Argyfwng 2026/27				(800)		
Cynnal a Chadw Corfforaethol - llithriad			(1,087)			
Trosglwyddo i Gronfa Cynnal a Chadw ar ddiwedd y flwyddyn			1,087			
Cynnal a Chadw Corfforaethol Net			0			

Tai ac Eiddo

Rheolaeth - tanwariant ar gostau staff gan fod ail strwythuro ar y gweill, ynghyd â thanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau.

Digartrefedd - y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda gwariant ar y maes yn £6.1 miliwn eleni, sydd yn gyson â gwariant 2024/25. Mae cyllideb ychwanegol o £4.2 miliwn wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor i lety argyfwng ynghyd â chyllideb un-tro ychwanegol o £859k a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau 2025/26. Gwelwyd costau uwch i symud a storio eiddo personol aelwydydd sy'n derbyn llety argyfwng. Mae cyfuniad o leihad yn y niferoedd sydd mewn llety argyfwng a hefyd fod pris y noson rhai darparwyr wedi eu negodi yn is, yn golygu fod lleihad yn y pwysau o gymharu â'r rhagolygon. Yn ychwanegol i hyn, gwelwyd cynnydd yn ystod y flwyddyn mewn costau lesu tai preifat.

Digartrefedd 2026/27 - yn dilyn adolygiad o'r gwariant ar ddiwedd y flwyddyn, awgrymir y dylid dyrannu bid un tro o hyd at £800k i gynorthwyo gyda'r pwysau ar lety argyfwng yn 2026/27.

Tai Sector Breifat - yn groes i'r rhagolygon yn ystod y flwyddyn, diffyg ar ffioedd tai â nifer o breswylwyr ac ar incwm grant cyfleusterau i'r anabl. Gwelwyd hefyd gostau uwch ynghlwm ag ymestyn y Cynllun Cartrefi Gwag Cenedlaethol, ond fod trosiant staff yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.

Gwasanaethau Tai, Eraill - tanwariant ar gostau staff ac ar nifer o benawdau amrywiol ynghyd â defnydd pellach o grant i gyllido gwariant.

Gwasanaethau Eiddo - pwysau cynyddol ar y gyllideb gwasanaethau a chyflenwadau erbyn diwedd y flwyddyn, sydd yn cael ei leihau gan drosiant staff.

Gofalu, Arlwygo a Glanhau - y gorwariant ar gostau nwyddau glanhau bellach yn cael ei wrthbwysu gan gynnydd mewn incwm ar lanhau a gofalu.

Cynnal a Chadw Corfforaethol - bu i'r maes Addysg dderbyn grant cynnal a chadw gan y Llywodraeth gwerth £2.4 miliwn yn ystod y flwyddyn, sydd yn golygu bod llithriad o £1.1 miliwn ar gyllideb graidd cynnal a chadw, sydd wedi ei drosglwyddo i gronfa ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer dibenion cynnal a chadw.

Argymhellir fod yr Adran Tai ac Eiddo yn derbyn dyraniad ariannol un-tro o hyd at £800k i gyllido'r pwysau ar y gwasanaeth llety argyfwng yn 2026/27.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adrannau Canolog	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	3,194	3,155	(39)		(39)	(14)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	9,166	9,128	(38)		(38)	(13)
Gwasanaethau Corfforaethol	8,631	8,611	(20)		(20)	(6)
Cyfanswm Adrannau Canolog	20,991	20,894	(97)	0	(97)	(33)

Adrannau Canolog

Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - tanwariant ar staff a rhagori ar incwm mewn gwahanol feysydd, bu modd ariannu costau amrywiol un-tro o fewn y sefyllfa ariannol erbyn diwedd y flwyddyn.

Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) - cyfuniad o swyddi gwag a denu incwm a grantiau ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ond y pwysau yn parhau ar systemau amrywiol ac ar gostau meddalwedd yr adran, gan gynnwys ar system prosesu incwm gan gwsmeriaid a thrigolion Gwynedd.

Gwasanaethau Corfforaethol - trosiant staff, lleihad mewn gwariant ac incwm ychwanegol ym misoedd olaf y flwyddyn. Gwelwyd sefyllfa gytbwys gan yr Argraffdy sydd yn welliant o'r rhagolygon yn ystod y flwyddyn.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL						
Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Premiwm Treth Cyngor	*	*	(914)	914	0	(871)
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	14	(14)	0	0
Derbyniad Llog Net	*	*	125	(125)	0	0
Darpariaeth Arbedion	*	*	(1,153)	1,153	0	0
Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau	*	*	(404)	404	0	0
Ad-daliad Cronfa Bensiwn perthnasol i GwE	*	*	(908)	908	0	0
Eraill	*	*	(475)	475	0	0
Cyfanswm Corfforaethol	*	*	(3,715)	3,715	0	(871)

Corfforaethol

Treth Cyngor - yn ystod 2025/26 cafwyd gwerth £1.583 miliwn o gynnyrch treth ychwanegol o ganlyniad i ragdybiaethau darbodus wrth osod y gyllideb. O fewn y darlun yma gwelwyd 618 eiddo yn trosglwyddo o drethi annomestig i dreth cyngor yn ystod y flwyddyn (692 yn 2024/25, 381 yn 2023/24). Ond, yn groes i'r darlun yma, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatáu 283 eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig (189 yn 2024/25, 193 yn 2023/24, 452 yn 2022/23). Rhoddwyd yr arian yma yn y gronfa strategaeth ariannol yn Adolygiad Awst, ac felly mae ar gael i'w dynnu o'r gronfa i gynorthwyo efo sefyllfa ariannol yr adrannau yn 2025/26.

Premiwm Treth Cyngor - yn ystod y flwyddyn bu lleihad o 74 yn y nifer o ail gartrefi'r premiwm, sydd yn groes i'r cynnydd o 387 a welwyd y llynedd. Yn 2025/26 mae £7.7 miliwn o bremiwm treth cyngor wedi ei neilltuo ar gyfer y Strategaeth Dai a £4.2 miliwn pellach ar gyfer y maes Digartrefedd ynghyd â £738k o ymrwymadau eraill. Yn dilyn adolygiad o ddyraniad Premiwm Treth Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae gwerth £914k o bremiwm treth uwchlaw'r gyllideb, gyda'i ddefnydd i'w ystyried gan y Cabinet.

Gostyngiadau Treth Cyngor - yn dilyn ymgyrch i dargedu grwpiau gwahanol i gynyddu niferoedd y ceisiadau, gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd dros flwyddyn ddiwethaf o'i gymharu â'r tueddiad mewn blynyddoedd blaenorol, ac felly'r gwariant uwchlaw'r gyllideb.

Derbyniad Llog Net - gostyngiad mewn cyfraddau llog wedi arwain at logau islaw'r targed disgwylidig eleni.

Darpariaeth Arbedion - yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, mae darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud fel ei fod ar gael i ddileu arbedion problemus a phontio gwireddu arbedion.

Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau - bu i fidiau gan yr adrannau nad oes defnydd llawn iddynt eleni gael eu dychwelyd.

Ad-daliad Cronfa Bensiwn perthnasol i GwE - yn dilyn i'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol GwE ddod i ben ar ddiwedd Mai 2025, bu i chwe awdurdod gogledd Cymru dderbyn ad-daliad yn ymwneud â gwarged yn deillio o gyfraniadau pensiwn perthnasol i GwE.

Eraill - ni fu'r galw ar y ddarpariaeth mor uchel â'r hyn a ragwelwyd wrth osod y gyllideb.

Argymhellir y dylid cynorthwyo'r Adrannau sydd yn gorwario yn 2025/26, darparu cymorth ychwanegol i Gwmni Byw'n Iach ar gyfer 2025/26 a chyllido bid i'r maes llety argyfwng ar gyfer 2026/27, gan eu cyllido o'r ffynonellau canlynol:

- fod y gorwariant o £1,256 miliwn gan y gwasanaeth gwastraff yn cael ei gyllido drwy ddefnyddio £786k o'r Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer a £470k o'r Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu

- defnyddio (£2.8 miliwn) o'r tanwariant ar gyllidebau Corfforaethol

- (£3.174 miliwn) yn cael ei gyllido o Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor

- y tanwariant o (£914k) ar Breimiwm Treth Cyngor yn cael ei drosglwyddo i gronfa Premiwm Treth Cyngor gyda'i ddefnydd i'w benderfynu gan y Cabinet

Yn dilyn ymarferiad adolygiad o gronfeydd a fanylir yn **Atodiad 3**, fod y ddau drosglwyddiad canlynol gwerth £8.1 miliwn yn cael eu gwneud o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor, sef:

- £6.6 miliwn yn cael ei symud i falansau cyffredinol y Cyngor

- £1.5 miliwn yn cael ei symud i gronfa Diogelu Adeiladau.

Adolygiad o Gronfeydd

Yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, argymhellir rhyddhau'r swm canlynol:

Cronfa	Swm i'w ryddhau £'000
Cronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor	8,100
Cyfanswm	8,100

gan ei symud i:

Balansau / Cronfa	Swm £'000
Balansau cyffredinol y Cyngor	6,600
Cronfa Diogelu Adeiladau	1,500
Cyfanswm	8,100

Balansau cyffredinol y Cyngor

Fel sydd yn cael ei nodi yn flynyddol yn yr adroddiad ar y gyllideb i'r Cyngor llawn, mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithredol' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Ar 31 Mawrth 2026 roedd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £7.9 miliwn sydd yn cynrychioli 1.3% o wariant refeniw gros y Cyngor.

Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin â phroblemau a allai godi.

Rydym o'r farn ei bod yn briodol wrth gau cyfrifon 2025/26 ein bod yn adolygu ac yn cynyddu balans y balansau cyffredinol o £6.6 miliwn i £14.5 miliwn, sydd yn golygu fod y gymhareb i wariant refeniw gros y Cyngor yn cynyddu i 2.5% ac felly yn briodol i fedru dygymod gydag

Cronfa Diogelu Adeiladau

Yn dilyn i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cabinet 16 Rhagfyr 2025 ar 'Gyllido gwaith diogelu adeilad Corbett Arms, Tywyn', sef adeilad rhestredig Gradd II, sydd wedi bod yn achos pryder i Gyngor Gwynedd a'r gymuned leol ers blynyddoedd. Mae'r cyn-westy mewn cyflwr strwythurol peryglus ac sydd wedi golygu fod y Cyngor wedi gorfod gweithredu er mwyn amddiffyn a diogelu'r cyhoedd.

Cymeradwywyd swm o £1.5 miliwn o'r Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor er mwyn cyllido y gwaith i ddiogelu'r adeilad, gan nad oes modd i'r Adran Amgylchedd ymdopi gyda'r fath wariant yn ddi-rybudd o fewn eu cyllideb. Felly mae trosglwyddiad ar ddiwedd y flwyddyn angen ei wneud i'w symud i gronfa benodol ar gyfer y pwrpas.

[Adroddiad Cabinet - Corbett Arms.pdf](#)

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Rhaglen Gyfalaf 2025/26 – Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2026)
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog perthnasol:	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol
Dyddiad y cyfarfod:	19 Mai 2026

1. Penderfyniad a Geisir:

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2026) o'r rhaglen gyfalaf.
- Cymeradwyo'r addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 6 Mawrth 2025 ac a addaswyd ar 11 Tachwedd 2025 a'r 20 Ionawr 2026 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:
 - cynnydd o £35,000 mewn defnydd o fenthyca
 - cynnydd o £14,058,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
 - cynnydd o £485,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
 - cynnydd o £1,313,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
 - lleihad o £2,493,000 mewn defnydd o'r gronfa cyfalaf
 - lleihad o £667,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2025/26 – 2027/28.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn diwedd blwyddyn 2025/26. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhannau 3.2.2 a 3.2.3 o'r adroddiad (Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad) fel a ganlyn:

- Rhan 3.2.1: Prif Gasgliadau
- Rhan 3.2.2: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £164.866m am y 3 blynedd 2025/26 – 2027/28.
- Rhan 3.2.3: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £12.731m ers yr adolygiad diwethaf.
- Rhan 3.2.4: Manyllder grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf.
- Rhan 3.2.5: Dadansoddiad dangosyddion darbodus cyfalaf.

Mae gan y Cabinet rôl i gymeradwyo'n ffurfiol yr ymgorfforiad o ariannu trwy grant i mewn i'r gyllideb gyfalaf, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynnyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

3.2.1 Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw:

- Buddsoddwyd £83.8m yn 2025/26 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £52.7m (63%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Mae £21.9m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2025/26 i 2026/27 a 2027/28, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

3.2.2 Rhaglen Gyfalaf 2025/26 i 2027/28

Gweler isod y rhaglen gyfalaf derfynol am 2025/26 ar ddiwedd Mawrth 2026, gyda'r sefyllfa arfaethedig ddiwygiedig i'r blynyddoedd dilynol:

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH				Cynnydd/(Lleihad) ers yr Adolygiad Diwethaf £000
	2025/26 £000	2026/27 £000	2027/28 £000	Cyfanswm £000	
Addysg	13,778	15,359	3,451	32,588	4,529
Amgylchedd	7,428	5,222	478	13,128	33
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-	-	-	-
Cyllid	734	696	1,249	2,679	(502)
Economi a Chymuned	20,944	14,359	2,396	37,699	(101)
Tai ac Eiddo	22,836	9,014	4,103	35,953	4,926
Oedolion, Iechyd a Llesiant	3,742	4,725	-	8,467	2,998
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,945	1,013	700	4,658	317
Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth	11,365	11,629	5,700	28,694	531
Corfforaethol	-	500	500	1,000	-
CYFANSWM	83,772	62,517	18,577	164,866	12,731

3.2.3 Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £12.731m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu terfynol am 2025/26 ar ddiwedd Mawrth 2026, gyda'r sefyllfa arfaethedig ddiwygiedig i'r blynnyddoedd dilynol:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH				Addasiad Technegol £000	Cynnydd/(Lleihad) ers yr Adolygiad Diwethaf £000
	2025/26 £000	2026/27 £000	2027/28 £000	Cyfanswm £000		
Benthyca gyda chefnogaeth	4,070	4,070	4,070	12,210	0	-
Benthyca Arall	8,504	6,221	-	14,725	0	35
Grantiau a Chyfraniadau	60,115	22,346	4,871	87,332	3,441	14,058
Derbyniadau Cyfalaf	487	158	-	645	0	485
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	2,581	20	-	2,601	0	1,313
Cronfa Cyfalaf	-	21,439	5,279	26,718	9,189	(2,493)
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	8,015	8,263	4,357	20,635	(12,630)	(667)
CYFANSWM	83,772	62,517	18,577	164,866	0	12,731

3.2.4 Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf, ddiwedd Tachwedd, llwyddodd y Cyngor i ddenu grantiau ychwanegol o £14.728m a rhestrir y rhai mwyaf isod. Mae nifer o addasiadau ychwanegol gan gynnwys lleihad ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £14.058m (gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion) :

- £3.206m Grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru
- £2.434m Grant ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion 2025/26
- £2.292m Grant Cyffredinol Cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru
- £1.836m Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at Hwb Cymunedol Anableded Dysgu, Canolfan Dolfleurig

- £1.529m Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau
- £0.763m Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynllun i Ddatgarboneiddio Gwres o fewn y Cyngor
- £0.652m Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y system gyfrifiadurol Mosaic (CCSCP - Cysylltu Gofal - Rhaglen Gofal Cymdeithasol)

3.2.5 Dangosyddion Darbodus Cyfalaf

Mae Côt Darbodus CIPFA yn nodi'r angen i adrodd ar y Dangosyddion Darbodus (gweler Atodiad 3 am fwy o fanylion).

3.3 Camau nesaf

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

4. Sylwadau Swyddogion Statudol

4.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

4.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Rhestr Atodiadau:

Atodiad 1 - Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad 2 - Manylion Ailbroffilio'r Gyllideb

Atodiad 3 – Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2025/26

Rhestr Dogfennau Cefndir:

Cyllideb 2025/2026 : [Cyllidebau Blynnyddol](#)

Strategaeth Cyfalaf 2025/26 : Cyngor Llawn 06/03/25: [Eitem 10 - Strategaeth Gyfalaf 2025-26 yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthycu.pdf](#)

Manylion y Prif Newidiadau

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf:

	2025/26 £'000	2026/27- 2027/28 £'000
Benthyca Arall		
Cerbydau yn y meysydd priffyrdd, gwastraff ac ailgylchu (<i>Adrannau Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd</i>).	36	
Grantiau a Chyfraniadau		
Grant ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion 2025/26 (<i>Adran Addysg</i>).	2,434	
Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau (<i>Adran Addysg</i>).	809	720
Grantiau a Chyfraniadau gan nifer o asiantaethau tuag at gae hoci a chae 3G yn ysgolion de'r sir (<i>Adran Addysg</i>).	235	
Cyfraniadau rhan 106 deddfwriaeth Cynllunio wedi ei ddefnyddio tuag at ysgolion (<i>Adran Addysg</i>).	121	
Grant Trawsnewid Trefi gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	79	
Grant Balchder Bro gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	50	
Addasiad Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig – telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	(52)	
Addasiad i'r grant gan Lywodraeth Cymru i Leihau Ôl Troed Carbon (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	(51)	
Addasiad grant gan Lywodraeth Cymru i wella mynediad i'r Archifdy (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	(47)	

• Addasiad Grant Cyfalaf Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</i>).	(94)
• Grant Cronfa Tai â Gofal (HCF) ar gyfer cartrefi i blant gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</i>).	225
• Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru (<i>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</i>).	182
• Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y system gyfrifiadurol Mosaic (CCSCP - Cysylltu Gofal - Rhaglen Gofal Cymdeithasol) (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).	652
• Grant Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).	221
• Grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cartref Gofal Penrhos (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).	289
• Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at Hwb Cymunedol Anabled Dysgu, Canolfan Dolfleurig (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).	1,836
• Addasiadau i'r grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF); Gronfa Teithio Llesol (ATF); Gronfa Ffyrdd Cydnerth (RRF) a'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRiC) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau (<i>Adran Amgylchedd</i>).	(207)
• Addasiad i grantiau a chyfraniadau gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC(WCVA)) a Partneriaethau Natur Lleol tuag at gynlluniau gwledig (<i>Adran Amgylchedd</i>).	(105)
• Addasiad i grant Llywodraeth Cymru o'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEVTF) ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan a phwyntiau solar (<i>Adran Amgylchedd</i>).	(30)
• Grant Trawsnewid Trefi gan Lywodraeth Cymru tuag at gynlluniau Digartrefedd (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	506

• Grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	3,206	
• Cyfraniadau rhan 106 deddfwriaeth Cynllunio wedi ei ddefnyddio tuag at dai penodol (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	108	
• Addasu Grant Cynllun Lesu Cymru gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	(58)	
• Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynllun i Ddatgarboneiddio Gwres o fewn y Cyngor (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	730	33
• Grant Cyffredinol Cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (<i>Corfforaethol</i>).	2,292	
Derbyniadau Cyfalaf		
• Cywiro cyfraniadau tuag at gerbydau trydanol gan ddigolledu cronfeydd adnewyddu adrannol (<i>Adrannau Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd</i>).	484	
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol		
• Cyfraniadau ysgolion unigol tuag at amrywiol gynlluniau penodol (<i>Adran Addysg</i>).	215	
• Cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau penodol (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	166	
• Cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau (<i>Adrannau Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd</i>).	193	
• Cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys cynlluniau digartrefedd (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	692	
• Addasiadau cyfraniadau adrannau tuag at offer cyfrifiadurol ychwanegol (<i>Adran Cyllid</i>).	50	
Cronfa Cyfalaf		
• Cywiro ariannu 24/25 prosiect ffonau VOIP - cronfa benodol i'w defnyddio (<i>Adran Cyllid</i>).	(201)	
• Addasu'r defnydd o'r Gronfa Cyfalaf oherwydd derbyn Grant Cyffredinol Cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (<i>Corfforaethol</i>).	(2,292)	

Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill

- Addasiad i'r cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau (*Adran Economi a Chymuned*). (257)
- Cywiro cyfraniadau o dderbyniadau cyfalaf tuag at gerbydau trydanol gan ddigolledu cronfeydd adnewyddu adrannol (*Adrannau Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd*). (484)
- Cyfraniad/ addasiad tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys uwchraddio'r Amlosgydd yn Amlosgfa Bangor (*Adran Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth*). 356
- Adnewyddu Cerbydau ac Offer o gronfeydd adrannol (*Adrannau Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd*). 329
- Addasu'r cyfraniad o'r Gronfa Breimiwm Treth y Cyngor tuag at y cynlluniau Strategaeth Tai (*Adran Tai ac Eiddo*). (570)
- Cyfraniadau tuag at gynlluniau hinsawdd a datgarboneiddio (*Adran Tai ac Eiddo*). 297
- Addasu ariannu y cynllun i gryfhau isadeiledd a chynlluniau eraill TG trwy referniw dros nifer o flynyddoedd tra'n defnyddio'r un cronfeydd a glustnodwyd yn wreiddiol i ariannu'r cyfalaf (*Adran Cyllid*). (552)
- Cywiro ariannu 24/25 prosiect ffonau VOIP - cronfa benodol i'w defnyddio (*Adran Cyllid*). 201

4

Manylion Ail-broffilio'r Gyllideb

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2025/26 £'000	2026/27 - 2027/28 £'000
Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill) (<i>Adran Addysg</i>)	(10,928)	10,928
Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol; Adfywio (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(1,881)	1,881
Cronfa Ffyniant Bro (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(6,078)	6,078
Cronfa Ffyniant Gyffredin (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(1,987)	1,987
Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig, Diwylliant a Hamdden (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(1,592)	1,592
Sefydliadau Plant (<i>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</i>)	(1,013)	1,013
Darpariaeth Cyd-Ariannu Prosiectau Gofal (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>)	(1,500)	1,500
Cynlluniau Sefydliadau Preswyl, Gofal Dydd ac eraill yn y maes Oedolion (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>)	(1,726)	1,726
Cynlluniau Ffyrdd a Bwrdeistrefol (<i>Adran Prifffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth</i>)	(1,197)	1,197
Adnewyddu Cerbydau ac Offer (<i>Adrannau Prifffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd; Tai ac Eiddo</i>)	(3,172)	3,172
Cynlluniau Risgiau Arfordirol ac Atal Llifogydd (<i>Adran Prifffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth</i>)	(1,880)	1,880
Cynlluniau Trafnidiaeth, Gwelliannau Trefol a Chynlluniau Gwledig (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(291)	291
Meysydd Parcio (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(221)	221
Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(48)	48

Cynlluniau Gwastraff ac Ailgylchu (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(2,156)	2,156
Cynlluniau Strategaeth Tai (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(164)	164
Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(1,151)	1,151
Cynlluniau Addasiadau i'r Anabl; Swyddfeydd; Mân-ddaliadau (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(105)	105
Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar y Cyngor (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(3,175)	3,175
Cynlluniau Gwaredu Asbestos (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(164)	164
Adnewyddu Cyfarpar Technoleg Gwybodaeth (<i>Adran Cyllid</i>)	26	(26)

Noder:

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2025/26 - Alldro

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei wariant cyfalaf a benthycu gan gyfeirio at y dangosyddion dilynol.

Mae bellach yn ofyniad yn y Côt Darbodus CIPFA i adrodd ar rhain yn rheolaidd.

Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses cau cyfrifon i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

Gwariant Cyfalaf

Mae'r Cyngor yn ymgymryd ac yn cynllunio gwariant cyfalaf fel a grynhoir isod.

	Gwir 2024/25 £m	Gwir 2025/26 £m	Cyllideb 2026/27 £m	Cyllideb 2027/28 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol	85.0	84.6	62.9	18.9
Prydlesu Cronfa Gyffredinol	5.3	0.0	0.0	0.0
CYFANSWM	90.3	84.6	62.9	18.9

Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2025/26 yn cynnwys (gweler yr adroddiadau adolygiad am fanylion ailbroffilio lle bo'n berthnasol) :

- Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £12.4m
- Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro - £11.0m
- Cynlluniau/Strategaeth Tai - £7.5m
- Cerbydau Adrannol - £6.9m
- Cartrefi/Canolfannau Oedolion - £4.5m
- Cynlluniau Eiddo - £3.9m

Gofyn Cyllido Cyfalaf

Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronrus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR) a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled.

	Gwir 31.3.2025 £m	Gwir 31.3.2026 £m	Amcan 31.3.2027 £m	Amcan 31.3.2028 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol	179.9	186.4	190.3	187.7

Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio ac yn disgwyl y bydd yn parhau i gydymffurfio â'r gofyn hyn yn y tymor canolig fel a ddangosir isod.

	Gwir 31.3.2025 £m	Gwir 31.3.2026 £m	Amcan 31.3.2027 £m	Amcan 31.3.2028 £m
Dyled (gan gynnwys Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau)	100.1	79.0	73.6	71.6
Gofyn Cyllido Cyfalaf	179.9	186.4	190.3	187.7

Dyled a’r Terfyn Awdurdodedig a’r Ffin Gweithredol

Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthg fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn agosáu at y terfyn.

	Uchafswm Dyled 2025/26 £m	Dyled ar 31.03.2026 £m	Terfyn Awdurdodedig 2025/26 £m	Ffin Gweithredol 2025/26 £m	Wedi cydymffurfio ?
Benthgca	94.1	73.9			
Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau	6.0	5.1			
Cyfanswm Dyled	100.1	79.0	200	190	Do

Oherwydd mai offeryn rheolaeth at ddiben monitro o fewn y flwyddyn yw’r ffin gweithredol, nid yw’n arwyddocaol os eir yn uwch na’r ffin ar achlysur oherwydd amrywiadau mewn llif arian ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn fethiant i gydymffurfio.

Cyfran Costau Ariannu i’r Llif Refeniw Net

Er nad yw’r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR) yn gost ar refeniw. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

	Gwir 2024/25	Gwir 2025/26	Cyllideb 2026/27	Cyllideb 2027/28
Costau Ariannu (£m)	8.5	10.1	10.0	10.3
Cyfran y Llif Refeniw Net (%)	2.5%	2.8%	2.6%	2.7%

Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae’r dangosyddion hyn (Meincnod Ymrwymiad, Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau, Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Tymor Hir) yn cael eu hadrodd ar wahân fel rhan o’r Adroddiad Rheolaeth Trysorlys am y cyfnod dan sylw.